Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bil yr Amgylchedd (Cymru)

Memorandwm Esboniadol

yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol
a'r Nodiadau Esboniadol

Mai 2015

BIL YR AMGYLCHEDD (CYMRU)

Memorandwm Esboniadol i Fil yr Amgylchedd (Cymru)

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Cyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru ac fe'u gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i, byddai darpariaethau Bil yr Amgylchedd (Cymru), a gyflwynwyd gennyf ar 11 Mai 2015, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Carl Sargeant AM
Y Gweinidog Adnoddau Naturiol
Yr Aelod Cynulliad sy'n gyfrifol am y Bil

11 Mai 2015

Tudalen gynnwys

RHAN 1

1. Disgrifiad Tudalen 4
2. Y Cefndir Deddfwriaethol Tudalen 5
3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael Tudalen 7
4. Ymgynghori Tudalen 70
5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth Tudalen 82

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Yr opsiynau – costau a manteision Tudalen 108
7. Asesiadau effaith penodol Tudalen 309
8. Asesiad o'r Gystadleuaeth Tudalen 319
9. Adolygiad ar Ôl Gweithredu Tudalen 322

ATODIAD 1 – Nodiadau Esboniadol Tudalen 325

Rhestr o Acronymau

Adeiladu a Dymchwel (C&D)

Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR)

Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA)

Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA)

Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA)

Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA)

Bag Polyethylen Dwysedd Isel (LDPE)

Bag Polyethylen Dwysedd Uchel Confensiynol (HDPE)

Bag Polypropylen Anweëdig (PP)

Bagiau am Oes (BFL)

Bagiau Siopa Untro (SUCBs)

Byrddau Draenio Mewnol (IDBs)

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSBs)

Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cefas)

Cenhedloedd Unedig (UN)

Comisiwn Ewropeaidd (CE)

Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd (UNFCCC)

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol (UN CBD)

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)

Cyfarwyddeb Masnachu Allyriadau yr Undeb Ewropeaidd (EU ETS)

Cyfnod Dilynol Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU, Pecyn Gwaith 1 (UKNEAFO, WP1)

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE)

Cynhadledd y Partïon (COP)

Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (LBAP)

Cyrff Anllywodraethol (NGO)

Datblygu Cynaliadwy (SD)

Datganiad Amgylcheddol (ES)

Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985 (FEPA)

Deddf Draenio Tir 1991 (LDA 1991)

Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (GoWA 2006)

Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (MCAA)

Elw Domestig Gros (GDP)

Gwerth Presennol (PV)

Gwerth Presennol Net (NPV)

Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio (KSP)

Hysbysiad Gwarchod Safle (SPN)

Miliynau o Dunelli Metrig o Garbon Deuocsid a'i Gyfatebol (Mt CO_2e)

Nwy Tŷ Gwydr (GHG)

Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC)

Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol (NNRP)

Prif Grŵp Gwariant (MEG)

Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru (FRMW)
Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd (UKCCC)

Rhaglen Datblygu Gwledig (RDP)

Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP)

Rheoli Adnoddau Naturiol (NRM)

Rheoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (MWR)

Safle Morol Ewropeaidd (EMS)

Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)

System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS)

Talu am Wasanaethau Ecosystemau (PES)

Tribiwnlys Tir Amaethyddol (ALT)

Troi Gwastraff yn Ynni (EfW)

Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru (NFU)

Undeb Ewropeaidd (UE)

Uwch Swyddog Gweithredol (HEO)

Uwch Swyddog Gweithredol (SEO)

Y Sefydliad Rheoli Morol yn Lloegr (MMO)

Yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC)

RHAN 1

Pennod 1: Disgrifiad

1. Amcanion cyffredinol Bil yr Amgylchedd (Cymru) ("y Bil") yw cyflwyno deddfwriaeth a fydd yn ein galluogi i reoli adnoddau Cymru mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgysylltiedig, ac a fydd hefyd ynh fodd inni sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol sydd ei angen i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r Bil yn ategu gwaith ehangach gan Lywodraeth Cymru i helpu i sicrhau llesiant Cymru yn yr hirdymor, fel bod ganddi economi ffyniannus, amgylchedd iach a chydnerth, a chymunedau llewyrchus a chydlynol.

2. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer helpu i gynllunio ac i reoli adnoddau naturiol Cymru ar y lefel genedlaethol ac ar y lefel leol, a hynny drwy gyfrwng gofynion penodol i baratoi Adroddiad am Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR), Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol (NNRP) a datganiadau ardal. Bydd y darpariaethau'n fodd i sicrhau, os bydd hynny'n gyson â'r dyletswyddau statudol presennol, bod polisïau, cynlluniau a rhaglenni yn cael eu hintegreiddio'n well a'u symleiddio. Mae'r Bil yn rhoi diben cyffredinol i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n gwbl gydnaws â'r egwyddorion statudol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, ac mae'n rhoi rhagor o bwerau i CNC ymgymryd â chytundebau rheoli tir a chynlluniau arbrofol yn unol â'r egwyddorion hynny. Mae'r Bil hefyd yn newid ychydig ar y gofyniad sydd ar awdurdodau cyhoeddus i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth.

3. Mae darpariaethau yn y Bil hefyd i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, a hynny drwy gyfrwng targedau i leihau allyriadau a thrwy gyllidebau carbon i helpu i gyrraedd y targedau hynny. Mae ynddo hefyd ddarpariaethau i wella'r defnydd a wneir o adnoddau, a hynny mewn perthynas â bagiau siopa a rheoli gwastraff. Mae'r adrannau ar godi tâl am fagiau siopa yn golygu y bydd modd gwella'r cynllun presennol ar gyfer bagiau siopa untro ac mae'r adrannau sy'n ymdrin â gwastraff yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru weithredu er mwyn sicrhau bod busnesau'n ailgylchu mwy o wastraff, bod mwy o wastraff bwyd yn cael ei drin, a mwy o ynni'n cael ei adfer. Mae'r Bil hefyd yn sicrhau mwy o eglurder am y gyfraith sy'n ymdrin â nifer o'r systemau presennol i reoleiddio'r amgylchedd, gan gynnwys trwyddedu morol, rheoli pysgodfeydd cregyn, draenio tir a rheoli perygl llifogydd.

Pennod 2: Y Cefndir Deddfwriaethol

4. Mae Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhoi'r cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wneud y darpariaethau ym Mil yr Amgylchedd (Cymru) ("y Bil").

5. Mae adran 108 yn darparu y gall darpariaeth mewn Deddf Cynulliad fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad os yw'n ymwneud ag un neu fwy o'r penawdau yn Rhan 1 o Atodlen 7 ac os nad yw'n dod o fewn unrhyw un o'r eithriadau a bennir yn y Rhan honno (p'un ai o dan y pennawd hwnnw neu unrhyw un o'r penodau hynny ai peidio). Mae adran 108 yn darparu hefyd fod yn rhaid i ddarpariaeth beidio â bod yn gymwys ac eithrio o ran Cymru na pheidio â rhoi, gosod, addasu neu ddileu (na rhoi pŵer i roi, gosod, addasu neu ddileu) swyddogaethau sy'n arferadwy ac eithrio o ran Cymru.

6. Mae'r darpariaethau yn y Bil yn ymwneud â'r pynciau a ganlyn yn Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'u nodir isod:

Agriculture, forestry, animals, plants and rural development

1 Agriculture. Horticulture. Forestry. Fisheries and fishing. Animal health and welfare. Plant health. Plant varieties and seeds. Rural development. In this Part of this Schedule "animal" means –
all mammals apart from humans, and
all animals other than mammals;
and related expressions are to be construed accordingly.

Exceptions—

Hunting with dogs.

Regulation of scientific or other experimental procedures on animals.

Import and export control, and regulation of movement, of animals, plants and other things, apart from (but subject to provision made by or by virtue of any Act of Parliament relating to the control of imports or exports)—

(a) the movement into and out of, and within, Wales of animals, animal products, [. . .] plants, plant products and other things related to them for the purposes of protecting human, animal [or plant] health, animal welfare or the environment or observing or implementing obligations under the Common Agricultural Policy, and

(b) the movement into and out of, and within, Wales of animal feedstuff. . . fertilisers and pesticides (or things treated by virtue of any enactment as pesticides) for the purposes of protecting human, animal [or plant] health or the environment.

Authorisations of veterinary medicines and medicinal products.

Environment

6 Environmental protection, including pollution, nuisances and hazardous substances. Prevention, reduction, collection, management, treatment and disposal of waste. Land drainage and land improvement. Countryside and open spaces (including the designation and regulation of national parks and areas of outstanding natural beauty). Nature conservation and sites of special scientific interest. Protection of natural habitats, coast and marine environment (including seabed). Biodiversity. Genetically modified organisms. Smallholdings and allotments. Common land. Town and village greens. Burial and cremation, except coroners' functions

Water and flood defence

19 Water supply, water resources management (including reservoirs), water quality and representation of consumers of water and sewerage services. Flood risk management and coastal protection.

Exceptions—

Appointment and regulation of any water undertaker whose area is not wholly or mainly in Wales.

Licensing and regulation of any licensed water supplier [water supply licensee] within the meaning of the Water Industry Act 1991 (c 56), *apart from regulation in relation to licensed activities using the supply system of a water undertaker whose area is wholly or mainly in Wales].*

Nid yw'r testun hwn ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi'i gwneud yn Gymraeg ydyw.

7. Nid oes unrhyw un o'r eithriadau a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gymwys.

8. Mae Rhan 1 y Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n gosod swyddogaethau ar Weinidogion y Goron. Bydd y darpariaethau hynny o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cydsynio i'r darpariaethau o dan Ran 3 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae trafodaethau â Llywodraeth y DU yn mynd rhagddynt er mwyn sicrhau'r cydsyniad hwnnw. Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl y bydd y trafodaethau ynghylch materion cydsyniad yn cael eu cwblhau yn ystod Cyfnod 1.

Pennod 3: Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwredir iddi ei chael

Diben y bennod hon

9. Eir ati ym Mhennod 3 i roi golwg gyffredinol ar gefndir a chyd-destun Bil yr Amgylchedd (Cymru) ("y Bil") ac i roi crynodeb o'r ddeddfwriaeth arfaethedig. Eir ati wedyn i ymdrin â phob rhan o'r Bil yn ei thro, gan ddisgrifio'r cefndir, y sefyllfa bresennol, diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwredir iddi ei chael.

Y sefyllfa bresennol

10. Yn *Rhaglen Lywodraethu* Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd yn 2011, aed ati i adeiladu ar yr ymgynghoriad *Cymru Fyw: fframwaith newydd ar gyfer ein hamgylchedd, ein cefn gwlad a'n moroedd*, a gynhaliwyd yn 2010, ac i nodi nifer o ymrwymiadau ar reoli adnoddau naturiol, gan gynnwys cyflwyno Bil yr Amgylchedd.

11. Yn 2012, aed ati yn y Papur Gwyrdd *Cynnal Cymru Fyw*[1] i nodi'r posibiliadau a'r cyfleoedd i symleiddio sut yr ydym yn rheoli ac yn rheoleiddio'r amgylchedd, a hynny er mwyn sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer pobl Cymru. Y cynnig canolog yn y Papur Gwyrdd oedd y dylid mabwysiadu dull rheoli ar lefel yr ecosystem ac roedd hefyd yn ceisio barn ynghylch sut y gellid mynd ati ar y lefel leol a'r lefel genedlaethol i ddatblygu'r gwaith cynllunio a wneir ar reoli adnoddau naturiol, a hynny fel y bo modd gwneud gwell penderfyniadau. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn y Papur Gwyrdd, yn yr un modd â'r rheini a ddaeth i law mewn ymateb i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2010, yn dangos bod cryn gefnogaeth i ffordd newydd o gynllunio a rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru.

12. Yn 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn ar gyfer Bil yr Amgylchedd (Cymru)[2]. Aed ati yn y Papur hwnnw i nodi fframwaith ar gyfer rheoli adnoddau'n well, gan ganolbwyntio ar adnoddau naturiol Cymru ac ar wastraff. Roedd ynddo gynigion penodol ar gyfer dull newydd o integreiddio gwaith i reoli adnoddau naturiol ar sail ardal, a'r dull hwnnw'n un a fyddai'n seiliedig ar y dull rheoli ar lefel yr ecosystem ac ar egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Fioamrywiaeth Fiolegol.

13. Roedd datblygu'r Papur Gwyn yn un o gyfres o gamau a gymerwyd er mwyn rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd fwy cydgysylltiedig a rhagweithiol. Un o'r camau hynny oedd sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2013, gan uno tri chorff cyflawni gwahanol er mwyn creu un corff adnoddau naturiol integredig i Gymru. Roedd creu'r corff hwnnw o gymorth i integreiddio'r swyddogaethau statudol a oedd eisoes yn bod, ond mae'r sefydliad yn parhau i gael ei lesteirio gan y gwendidau yn y fframwaith deddfwriaethol presennol, sy'n cynnwys dros 230 o ddarnau o statud. Diben y cynigion yn y Papur Gwyn, felly, oedd mynd i'r

---

[1] *Y term a ddefnyddiwyd ar ei gyfer yn y Papur Gwyrdd oedd y 'dull rheoli ar lefel yr ecosystem'. http://www.cbd.int/ecosystem*

[2] *Tuag at Reoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy: Ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer Bil Amgylchedd: http://gov.wales/consultations/environmentandcountryside/environment-bill-white-paper/?skip=1&lang=cy*

afael â'r gwendidau hynny a hwyluso integreiddio pellach, yn ogystal â chefnogi amcanion ehangach y Llywodraeth o ran datblygu cynaliadwy.

14. Mae'r Bil yn nodi'r darpariaethau manwl ar gyfer troi'r ymrwymiadau polisi hirdymor yn ddeddfwriaeth a fydd yn ein galluogi i reoli adnoddau naturiol Cymru mewn modd mwy cynaliadwy.

Dull rheoli ar lefel yr ecosystem a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Fioamrywiaeth Fiolegol

15. Cafodd y "dull rheoli ar lefel yr ecosystem" ei ddatblygu ym 1992 gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Fioamrywiaeth Fiolegol, ac mae ynddo ddeuddeg egwyddor (gweler Tabl 1).

Tabl 1: 12 Egwyddor y Dull Rheoli ar Lefel yr Ecosystem

Egwyddor y Dull Rheoli ar Lefel yr Ecosystem
1 – Dewis Cymdeithasol: Mae amcanion rheoli tir, dŵr ac adnoddau byw yn fater o ddewisiadau a wneir gan gymdeithas.
2 – Penderfyniadau Lleol: Dylid datganoli'r rheoli i'r lefel briodol isaf.
3 – Effeithiau Cyfagos: Dylai rheolwyr ecosystemau ystyried effeithiau (gwirioneddol neu bosibl) eu gweithgareddau ar ecosystemau cyfagos ac ar ecosystemau eraill.
4 – Ysgogiadau Economaidd: Gan gydnabod bod enillion yn bosibl drwy reoli ar lefel yr ecosystem, mae angen deall a rheoli'r ecosystem mewn cyd-destun economaidd fel arfer. Dylai unrhyw raglen o'r fath i **reoli'r ecosystem**: A) Lleihau'r ystumiadau hynny yn y farchnad sy'n cael effaith andwyol ar amrywiaeth fiolegol; B) Sicrhau bod cymhellion i hyrwyddo cadwraeth bioamrywiaeth a defnydd cynaliadwy yn gydnaws â'i gilydd; C) Mewnoli costau a manteision yn yr ecosystem benodol i'r graddau y bo hynny'n ymarferol.
5 – Cydnerthedd: Dylai gwarchod strwythur yr ecosystem, a'r ffordd y mae'n gweithio, fod yn un o'r targedau sy'n cael blaenoriaeth o dan y dull reoli ar lefel yr ecosystem, a hynny er mwyn cynnal gwasanaethau ecosystemau.
6 – Integriti: Rhaid rheoli ecosystemau o fewn eu terfynau gweithredu.
7 – Graddfa Ofodol ac Amser: Dylid rhoi'r dull rheoli ar lefel yr ecosystem ar waith ar y raddfa ofodol briodol ac ar y raddfa amser briodol.
8 – Graddfa Amser: Gan gydnabod bod gwahanol raddfeydd amser, ac oedi cyn y daw unrhyw effaith i'r amlwg, yn nodweddion o brosesau ecosystemau, dylid pennu amcanion hirdymor ar gyfer rheoli ecosystemau.

9 – Rheoli Newid: Rhaid cydnabod, wrth reoli, bod newid yn anochel.
10 – Sicrhau cydbwysedd rhwng cadwraeth a defnyddio bioamrywiaeth: Wrth reoli ar lefel yr ecosystem, dylid ceisio sicrhau'r cydbwysedd priodol rhwng cadwraeth a defnyddio bioamrywiaeth, ac integreiddio'r ddau beth.
11 – Tystiolaeth: Dylai'r dull o reoli ar lefel yr ecosystem ystyried pob math o wybodaeth berthnasol, gan gynnwys gwybodaeth, dulliau arloesol ac arferion gwyddonol, cynhenid a lleol.
12 – Ymgysylltu â Rhanddeiliaid: Dylai'r dull rheoli ar lefel yr ecosystem gynnwys pob sector perthnasol o'r gymdeithas a phob disgyblaeth wyddonol berthnasol.

16. Mae'r Confensiwn ar Fioamrywiaeth Fiolegol yn diffinio'r dull hwnnw fel strategaeth ar gyfer rheoli tir, dŵr ac adnoddau byw mewn modd integredig er mwyn hyrwyddo cadwraeth a defnydd cynaliadwy mewn ffordd deg. Mae'r dull yn ceisio cynnal integriti ecosystemau a hefyd y modd y maent yn gweithredu fel cyfanwaith, a hynny er mwyn osgoi newidiadau ecolegol cyflym nas dymunir. Mae'r dull yn cydnabod bod bodau dynol yn rhan annatod o ecosystemau a bod ecosystemau hefyd yn darparu amrywiaeth o wasanaethau sy'n cefnogi llesiant pobl a'r gymdeithas ehangach. Mae, mewn gwirionedd, yn rhoi lle canolog i fodau dynol ac i adnoddau yn y fframwaith gwneud penderfyniadau. Mae model y Confensiwn ar Fioamrywiaeth Fiolegol yn fframwaith ar gyfer meddwl mewn ffordd ecolegol sy'n arwain at weithredu ar sail proses gyfannol o wneud penderfyniadau[3].

17. Rôl y dull ecosystemau wrth reoli adnoddau naturiol yw dangos yn gwbl glir y cysylltiad rhwng statws systemau naturiol a gwasanaethau ecosystemau sy'n cefnogi lles bodau dynol. Mae'r dull, felly, yn mabwysiadu egwyddorion datbygu cynaliadwy wrth reoli adnoddau naturiol, gan edrych ar yr angen i gynnal systemau ecolegol, cymunedau o bobl, a seilwaith economaidd ar yr un pryd. Felly, mae rheoli adnoddau naturiol ar lefel yr ecosystem yn gwbl hanfodol er mwyn sicrhau datblygu cynaliadwy.

18. Yn ôl diffiniad y Confensiwn ar Fioamrywiaeth Fiolegol, mae ecosystemau yn wead cymhleth a dynamig lle mae planhigion, anifeiliaid a micro-organeddau a'u hamgylchedd anfyw, yn rhyngweithio fel uned weithredol[4] . Nodwedd allweddol ecosystemau yw eu bod yn systemau cwbl integredig ac iddynt nodweddion sy'n codi o'r rhyngweithio rhwng yr elfennau byw a'r elfennau anfyw sy'n rhan o'r ecosystemau hynny.

19. Mae'r dull ecosystemau yn ehangach na'r ecosystemau eu hunain ac mae'n cynnwys ffactorau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd sy'n dibynnu ar y gwasanaethau a ddarperir gan ecosystemau. Yr hyn a olygir wrth wasanaethau ecosystemau yw'r manteision sy'n deillio o ecosystemau. Mae modd mesur rhai

[3] *Y Confensiwn ar Fioamrywiaeth Fiolegol, COP 7 Penderfyniad VII/11*
[4] *Erthygl 2 o'r Confensiwn ar Fioamrywiaeth Fiolegol 1992*

o’r manteision hynny, er enghraifft, darparu bwyd, ffibr neu ddŵr glân (gwasanaethau darparu). Mae gwasanaethau rheoleiddio yn cynnwys y manteision sy’n deillio o reoleiddio prosesau ecosystemau, ac maent, er enghraifft, yn cynnwys rheoleiddio’r hinsawdd a lliniaru llifogydd (gwasanaethau rheoleiddio). Ceir manteision diwylliannol hefyd, a hynny o leoliadau naturiol megis tirweddau a morweddau, ac yn eu plith y mae hamdden, twristiaeth, treftadaeth ddiwylliannol a phrofiad esthetig (gwasanaethau diwylliannol). Y categori olaf o wasanaethau yw’r rheini sy’n galluogi ecosystemau i barhau i weithredu ac i barhau i ddarparu nifer o fanteision (gwasanaethau cynnal). Y rheini yw’r gwasanaethau sy’n sail i’r holl wasanaethau eraill, ac yn eu plith y mae ffurfio pridd, ailgylchu maethynnau ac ailgylchu dŵr. Gall y manteision hynny fod yn rhai uniongyrchol neu anuniongyrchol. Weithiau, mae’r term gwasanaethau ecosystemau a’r term manteision ill dau yn cael eu defnyddio i gyfleu’r un peth. Mae’r Bil, er hynny, yn cyfeirio at “manteision” a dyna’r term a ddefnyddir drwy’r Memorandwm Esboniadol hwn ar ei hyd.

Yr achos o blaid newid

20. Mae adnoddau naturiol Cymru Yn ogystal â bod yn ased gwerthfawr, mae adnoddau naturiol Cymru hefyd yn rhoi inni fanteision hanfodol. Ymhlith y manteision hynny y mae’r aer a anadlwn a’r bwyd a fwytawn, y tir a amaethwn neu a ddatblygwn, y moroedd a bysgotwn, a’r dŵr a ddefnyddiwn i’w yfed neu i oeri ein diwydiannau trwm. Mae adnoddau naturiol Cymru mor hanfodol i lwyddiant ein heconomi yn yr hirdymor ag y maent i ansawdd ein hamgylchedd naturiol ac i les ein cymdeithas.

21. Mae fframwaith deddfwriaethol presennol y DU a’r UE o ddyletswyddau statudol a swyddogaethau rheoleiddiol sy’n ymwneud â’r amgylchedd wedi esblygu’n raddol dros nifer o ddegawdau. Mae, i raddau helaeth, wedi datblygu mewn ymateb i bwysau newydd ac i broblemau amgylcheddol penodol ac mae, yn aml, yn gul o ran ei ffocws. Mae’r dull hwn o reoleiddio – sy’n un ymatebol ac sy’n cael ei ystyried yn annibynnol ar bolisïau ac anghenion economaidd a chymdeithasol – wedi arwain at gyfuniad cymhleth o reoleiddio nad yw bob amser yn cydweithio er mwyn gwireddu’r nod cyffredin o wella dyfodol Cymru yn y tymor hir.

22. At hynny,yn ôl y dystiolaeth, lleihau y mae gallu’n hadnoddau naturiol i ddarparu’r gwasanaethau yr ydym oll yn dibynnu arnynt. Os ydym am barhau i elwa ar yr adnoddau hynny – ac os ydym am osgoi peryglu gallu cenedlaethau’r dyfodol i fwynhau’r un manteision – mae angen inni eu rheoli’n effeithiol er mwyn i Gymru fedru datblygu mewn modd cynaliadwy a chyflawni’r Nodau Llesiant.

23. Mae tystiolaeth allweddol, megis y *National Ecosystem Assessment* ar gyflwr ecosystemau’r DU, a gynhaliwyd yn 2011, yn dangos bod bioamrywiaeth yn parhau i ddirywio a bod rhyw draean o’r gwasanaethau a ddarperir gan ein hamgylchedd naturiol naill ei wedi eu diraddio neu’n dirywio. Yr un oedd y canfyddiadau yn yr adroddiad ar *State of Nature*, a gyhoeddwyd yn 2013. Mae’r dystiolaeth wyddonol hefyd yn dangos bod effeithiau’r newid yn yr hinsawdd yn debygol o barhau ac yna dwysáu’r problemau hynny. At ei gilydd, mae yna gryn sylfaen dystiolaeth sy’n dangos yn glir bod angen inni rheoli’n hadnoddau

naturiol mewn modd mwy integredig sy'n cydnabod gwerth ein hecosystemau a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu.

24. Yn yr adroddiad *Making Space for Nature*, a gyhoeddwyd ar lefel y DU yn 2010, dadleuwyd o blaid dull adferol newydd o weithredu sy'n ailadeiladu natur ac sy'n creu amgylchedd naturiol mwy cydnerth er budd bywyd gwyllt ac er ein budd ninnau hefyd.

25. Yng Nghymru, un o argymhellion yr Ymchwiliad i Fioamrywiaeth a gynhaliwyd gan Bwyllgor Cynaliadwyedd y Cynulliad Cenedlaethol, ac a gyhoeddwyd yn 2011[5], oedd y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu dull strategol ar lefel yr ecosystem o reoli bioamrywiaeth yng nghefn gwlad.

26. Mae Llywodraeth Cymru, felly, wrth gyflwyno'r Bil, yn cymryd camau, drwy gyfrwng deddfwriaeth, i sefydlu dull mwy integredig o weithredu, a'r dull hwnnw'n un sy'n ymateb i'r dystiolaeth ac i argymhellion y Pwyllgor Cynaliadwyedd.

27. Nid Cymru yn unig sy'n datblygu dull mwy integredig o weithredu yn hyn o beth. Mae Comisiwn y Cenhedloedd Unedig ar Fioamrywiaeth Fiolegol wedi cadarnhau mai 'dull ecosystemau' yw ei brif fframwaith ar gyfer rheoli tir, dŵr ac adnoddau byw mewn modd integredig. Mae Cyfarwyddeb Fframwaith Strategaeth Forol yr UE (2006)[6] hefyd yn mabwysiadu dull strategol tebyg er mwyn i Aelod-wladwriaethau fedru sicrhau bod statws amgylcheddol da ar gyfer eu moroedd. Mae'n gwneud hynny drwy ddefnyddio dull seiliedig ar ecosystemau o reoli gweithgareddau dynol a allai effeithio ar yr amgylchedd morol, ond gan sicrhau, ar yr un pryd, bod modd defnyddio nwyddau a gwasanaethau morol mewn ffordd gynaliadwy. Enghraifft arall o ddull sy'n seiliedig ar ecosystemau yw'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr[7]. Mae aelod-wladwriaethau eraill yn datblygu ffyrdd newydd o weithio hefyd, er enghraifft, mae'r Iseldiroedd wedi cyflwyno dulliau mwy integredig o weithredu yn eu polisïau a'u deddfwriaeth[8].

28. Mae Llywodraeth Cymru wedi manteisio ar y dulliau a sefydlwyd drwy gyfrwng y fframweithiau statudol hyn wrth lunio'r darpariaethau yn y Bil i wella'r modd y mae adnoddau naturiol yn cael eu cynllunio, eu rheoli a'u defnyddio. Wrth wneud hynny, mae'r Bil yn cydnabod bod cydnerthedd ecosystemau a'r manteision a ddarparant yn hanfodol i lesiant Cymru ac mae, felly, yn ategu'r fframwaith deddfwriaethol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

29. Mae'r dull o weithredu a gyflwynir drwy gyfrwng y Bil yn ben llanw pum mlynedd o waith datblygu polisi, gan gynnwys camau'r Papur Gwyrdd a'r Papur Gwyn. Yn ogystal ag ymateb i'r tueddiadau allweddol sy'n dod i'r amlwg, er enghraifft,

---

[5] *Pwyllgor Cynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Ymchwiliad i Fioamrywiaeth yng Nghymru http://www.cynulliad.cymru/cy/bus-home/bus-third-assembly/3-committees/3-scrutiny/3-sc/bus-committees-third-sc-report/Pages/bus-committees-third-sc-report.aspx*

[6] *2008/56/EC http://ec.europa.eu/environment/marine/eu-coast-and-marine-policy/marine-strategy-framework-directive/index_en.htm*

[7] *2000/60/EC http://ec.europa.eu/environment/water/water-framework/index_en.html*

[8] *Gweinyddiaeth Materion Economaidd yr Iseldiroedd, Y Ffordd Naturiol Ymlaen, Gweledigaeth y Llywodraeth 2014 a Deddf yr Amgylchedd a Chynllunio 2015*

drwy’r dirywiad mewn bioamrywiaeth, mae’r Bil hefyd yn darparu ar gyfer heriau fel y newid yn yr hinsawdd a fydd yn wynebu Cymru yn y dyfodol.

Y cefndir, y sefyllfa bresennol, diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

30. Eir ati yn yr adran a ganlyn i esbonio diben pob un o rannau'r Bil a'r effaith y bwriedir iddynt eu cael. Mae pob elfen yn ymdrin â'r cefndir i'r darpariaethau yn y Bil, y sefyllfa bresennol, diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael.

Rhan 1 Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol

Adnoddau naturiol, rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol ac egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol

Y cefndir

31. Roedd yr Asesiad Cenedlaethol o Ecosystemau'r DU[9], a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2011, yn tanlinellu bod ein cyfoeth fel cenedl a'n lles fel unigolion yn dibynnu ar yr amgylchedd naturiol, a hynny mewn ffordd gwbl allweddol. Mae'n rhoi hanfodion bywyd inni – bwyd, dŵr ac aer – ac mae hefyd yn rhoi inni'r mwynau a'r deunyddiau crai yr ydym ni a'n diwydiannau yn eu defnyddio. Dangosodd yr asesiad hwnnw fod bioamrywiaeth yn parhau i ddirywio a bod rhyw draean o'r gwasanaethau a ddarperir gan ein hamgylchedd naturiol yn cael eu diraddio neu'n dirywio.

32. Yr un yw'r canfyddiadau yn yr adroddiad *State of Nature*[10], a gyhoeddwyd yn 2013. Aed ati yn yr adroddiad hwnnw i asesu tueddiadau poblogaeth a dosbarthiad 3,148 o rywogaethau yn y DU a gwelwyd bod 60 y cant ohonynt wedi dirywio dros y degawdau diweddar, a bod perygl i fwy nag un ym mhob deg o'r holl rywogaethau a aseswyd ddiflannu'n gyfan gwbl.

Y sefyllfa bresennol

33. Cafodd llawer o'r fframwaith deddfwriaethol presennol sy'n ymdrin â'r amgylchedd ei gyflwyno cyn i'r dull ecosystemau gael ei fabwysiadu[11] a'i weithredu[12] gan y Comisiwn ar Fioamrywiaeth Fiolegol. Er hynny, mae'r dull hwnnw wedi dechrau ennill ei blwyf yn ystod y blynyddoedd diwethaf (e.e. yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a Chyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol), a gwelwyd newid pwyslais yn ei sgil. Nid dim ond ar gyfryngau amgylcheddol penodol nac ar weithgareddau sy'n effeithio ar y cyfryngau hynny y mae'r ffocws bellach. Holl ddiben dull sy'n seiliedig ar ecosystemau yw sicrhau nad yw penderfyniadau rheoli yn cael effaith andwyol ar sut y mae'r ecosystem yn gweithio nac ar ba mor gynhyrchiol ydyw, fel y bo cynaeafu stociau a dargedir, er enghraifft, mewn perthynas â physgodfeydd (a'r manteision economaidd sy'n deillio ohonynt) yn gynaliadwy yn y tymor hir.[13]

---

[9] *UK National Ecosystem Assessment, 2011. http://uknea.unep-wcmc.org/Resources/tabid/82/Default.aspx*
[10] *State of Nature Report, (2013), p6 http://www.rspb.org.uk/ourwork/science/stateofnature/index.aspx*
[11] *Y Confensiwn ar Fioamrywiaeth Fiolegol, COP 5, Penderfyniad V/6*
[12] *Y Confensiwn ar Fioamrywiaeth Fiolegol, COP 7, Penderfyniad VII/11*
[13] *Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur http://jncc.defra.gov.uk/tudalen-2518*

34. Fodd bynnag, nid yw'r dull hwn na'r pwyslais ar gydnerthedd ecosystemau a'r gwasanaethau a ddarparant wedi eu corffori yn ein fframwaith deddfwriaethol. Mae hynny'n golygu nad yw deddfwriaeth yng Nghymru na statud y DU yn darparu ar hyn o bryd ar gyfer rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol nac ychwaith ar gyfer yr egwyddorion sy'n sail i hynny.

Diben y ddeddfwriaeth

35. Mae Rhan 1 o'r Bil yn cyflwyno proses integredig ar gyfer gwneud penderfyniadau ar reoli adnoddau naturiol. Mae tair prif elfen i'r broses honno:

- Yr hyn sydd i'w reoli (adnoddau naturiol).
- Yr hyn yw rheoli cynaliadwy, a'i amcan (rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol).
- Sut i gyflawni'r amcan hwnnw (egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol).

36. Mae Rhan 1 yn darparu ar gyfer nifer o ffyrdd o reoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy, yn benodol:
    - Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) – bydd dyletswydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i baratoi adroddiad a fydd yn sylfaen dystiolaeth ar gyfer polisïau ar sut y bydd adnoddau naturiol yn cael eu rheoli a'u defnyddio mewn modd cynaliadwy.
    - Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol (NNRP) – bydd dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi, cyhoeddi a gweithredu Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol, a fydd yn nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran rheoli adnoddau naturiol.
    - Datganiadau ardal – bydd y datganiadau hyn yn nodi'r risgiau allweddol y bydd angen eu rheoli'n ofalus a'u lliniaru, a hefyd y cyfleoedd allweddol i ddefnyddio adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy ar lefel ardal.
    - Diben diwygiedig CNC – mae'r Bil yn diweddaru diben cyffredinol CNC er mwyn sicrhau bod y diben hwnnw'n cyd-fynd â'r hyn sydd yn y Bil ei hun.
    - Diben cynllun arbrofol – bydd hyn yn galluogi CNC i dreialu ffyrdd arloesol o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

37. Diben y diffiniadau yw sicrhau eglurder o ran y darpariaethau sy'n cyflwyno'r dulliau uchod, a hefyd sicrhau bod y cyrff sy'n gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau yn gwybod yr hyn y mae'n ofynnol iddynt ei wneud. Diben y diffiniadau yw:
    - Sicrhau eglurder ynghylch yr hyn a gwmpesir gan y term adnoddau naturiol. Mae'r rhestr yn adlewyrchu elfennau byw (biotig) ein hamgylchedd a hefyd yr elfennau anfyw (anfiotig) ac mae felly yn dangos yr adnoddau fel yr elfennau unigol sy'n creu ein hadnoddau naturiol. Nid yw'r diffiniad yn cynnwys disgrifiadau o raddfeydd lle y mae'r elfennau unigol hyn yn cyd-fodoli ac yn rhyngweithio, megis cynefinoedd neu dirweddau, a hynny am fod graddfa'n cael ei chynnwys yn egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol.
    - Egluro bod rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol yn cynnwys mwy na dim ond sut y mae'n hadnoddau naturiol yn cael eu defnyddio ond

hefyd effeithiau gweithgareddau eraill ar yr adnoddau hynny ac ar gydnerthedd ecosystemau, er enghraifft, effaith llygredd a achosir gan brosesau cynhyrchu.
- Egluro ac esbonio'r broses i'w defnyddio, y camau i'w cymryd a'r ffactorau i'w hystyried.

38. Diben rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy yw:
    - Adlewyrchu'r rôl y mae'n hadnoddau naturiol yn ei chwarae o ran cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant a gyflwynwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
    - Cynnal a gwella cyflwr ein hecosystemau a phwysleisio'r rôl sydd gan fanteision (neu wasanaethau) ecosystemau i'w chwarae yn y broses gwneud penderfyniadau.
    - Sicrhau bod ein hadnoddau naturiol yn cael eu rheoli a'u defnyddio mewn modd sy'n sicrhau nad yw'r adnoddau hynny na'n hecosystemau yn llai abl i gynnig amryfal fanteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn y tymor hir.
    - Sicrhau bod yr effaith y mae gweithgareddau yn ei chael ar ein hadnoddau naturiol a'n hecosystemau yn cael ei hystyried o ran sut y maent effeithio ar gydnerthedd ein hecosystemau ac felly ar eu gallu i gynnig manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i'r genhedlaeth bresennol ac i genedlaethau'r dyfodol.
    - Sicrhau bod modd ystyried a rhoi gwerth ar amrywiaeth eang o fanteision perthnasol ecosystemau yn ystod y broses gwneud penderfyniadau a'r broses gyflawni. Mae hyn yn cynnwys y gwerth yr ydym yn ei roi ar ein hadnoddau naturiol er eu mwyn eu hunain.
    - Lleihau'r effeithiau negyddol sydd i'w gweld yn sgil defnyddio adnoddau naturiol.

39. At ddibenion y Bil hwn, ystyr manteision ecosystemau yw:
    - Gwasanaethau cynnal, er enghraifft, ailgylchu maethynnau, cynhyrchu ocsigen a ffurfio pridd. Dyma'r gwasanaethau sy'n angenrheidiol er mwyn darparu'r holl wasanaethau eraill.
    - Gwasanaethau darparu, er enghraifft, bwyd, ffibr, tanwydd a dŵr. Dyma'r pethau y mae ecosystemau yn eu cynhyrchu.
    - Gwasanaethau rheoleiddio, er enghraifft, rheoleiddio'r hinsawdd, puro dŵr ac amddiffyn rhag llifogydd. Dyma'r manteision sy'n deillio o reoleiddio prosesau ecosystemau.
    - Gwasanaethau diwylliannol, er enghraifft, addysg, hamdden a manteision esthetig. Dyma'r manteision diwylliannol sy'n deillio o ecosystemau.

40. Yr egwyddorion sy'n sail i reolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol yw'r dull a fydd yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r nod hwnnw. Mae'r egwyddorion hynny'n ymgorffori'r dull ecosystemau a fabwysiadwyd gan y Comisiwn ar Fioamrywiaeth Fiolegol.

41. Y diben yw nodi'n glir yr egwyddorion a fydd yn cael eu defnyddio wrth gyflawni nifer o'r canlyniadau a fydd yn deillio o'r Bil (er enghraifft, paratoi'r Cynllun Adnoddau Naturiol Cenedlaethol) ac, mewn perthynas â CNC, disgrifio sut y

bydd yn rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy ar draws ei holl swyddogaethau. Diben yr egwyddorion yw hyrwyddo:

- Cydnabyddiaeth bod manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn dibynnu ar ei gilydd a bod y systemau'n cynnig ffrydiau gwahanol o fanteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.
- Dealltwriaeth bod cyflwr adnoddau naturiol ac ecosystemau yn gysylltiedig â'r manteision a gynigir ganddynt.
- Cydnabyddiaeth bod ein hadnoddau naturiol a'n hecosystemau yn cynnig nifer o fanteision, yn hytrach nag un fantais yn unig.
- Parodrwydd i ymaddasu wrth reoli ac i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth.
- Parodrwydd i gydweithredu wrth wneud penderfyniadau, gan roi rhan i randdeiliaid perthnasol, cymdeithas sifil a chymunedau lleol. Nid yw penderfyniadau'n cael eu gwneud yn annibynnol ar ei gilydd heb ystyried y dystiolaeth a'r wybodaeth a gasglwyd oddi wrth randdeiliaid perthnasol eraill.
- Parodrwydd i ystyried yr effeithiau hirdymor a gaiff enillion byrdymor, er enghraifft, cynnwys gwerth ecosystem a'r gwasanaethau a ddarperir ganddi ynghyd ag unrhyw gostau a allai godi yn y dyfodol os bydd mwy o risg i'r amgylchedd.
- Gwneud penderfyniadau ar y raddfa briodol er mwyn mynd i'r afael â phroblem neu fanteisio ar gyfle. Mae angen i raddfa ardal fod nid yn unig yn briodol yn ecolegol ond hefyd yn gymdeithasol, yn economaidd ac yn ddiwylliannol. Mae graddfa tirwedd yn enghraifft o raddfa sy'n bwysig yn ecolegol, yn gymdeithasol, yn economaidd ac yn ddiwylliannol. Mae parciau cenedlaethol hefyd yn enghraifft o raddfa.
- Ystyriaeth o nodweddion allweddol ecosystemau cydnerth, sef cysylltedd, amrywiaeth, graddfa, cyflwr, a'r gallu i addasu.

Yr effaith y bwriedir i'r darpariaethau ei chael

42. Diben y darpariaethau sy'n ymwneud â rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol yw helpu i reoli adnoddau naturiol mewn modd sy'n cynnal ac yn gwella gallu ecosystemau i gynnal eu systemau cynnal eu hunain, a pharhau, ar yr un pryd, i gynnig manteision cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd yn y tymor hir yn ogystal ag yn y tymor byr. Mae hynny'n cynnwys ceisio gwella effeithlonrwydd o ran adnoddau.

43. Y bwriad yw sicrhau bod holl elfennau'r amgylchedd naturiol, y rhai byw a'r rhai anfyw, yn cael eu cynnwys. Drwy wneud hynny, bydd modd sicrhau bod y berthynas a'r cysylltiadau rhwng y biotig a'r anfiotig yn cael eu hystyried wrth fynd ati i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a'u bod yn cael eu hystyried hefyd yng nghyd-destun y gwasanaethau a ddarperir gan ein hecosystemau.

44. Ni fwriedir i'r diffiniad o adnoddau naturiol gynnwys unrhyw adnodd sydd wedi bod drwy broses gynhyrchu. Fodd bynnag, mae'r diffiniad o reolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol yn cwmpasu'r effeithiau y mae prosesau cynhyrchu yn eu cael ar adnoddau naturiol.

45. Gall defnyddio adnoddau eilaidd (adnoddau sydd wedi bod drwy broses gynhyrchu) mewn modd cynaliadwy helpu i gynnal a gwella adnoddau naturiol a sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n gynaliadwy. O ddefnyddio adnoddau eilaidd, mae llai o angen defnyddio deunyddiau crai a gall hynny olygu, felly, bod llai o adnoddau meidraidd yn cael eu defnyddio. Hefyd, drwy reoleiddio'r modd y caiff yr adnoddau eilaidd hyn eu cynhyrchu, mae modd, er enghraifft, leihau effaith llygredd ar gyflwr ecosystemau.

46. Y nod yw sicrhau, wrth reoli adnoddau naturiol, bod ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i gydnerthedd ecosystemau yn y tymor hir ac i'r manteision y maent yn eu cynnig. Felly, drwy ystyried effaith bosibl penderfyniadau a allai effeithio ar y manteision a gynigir gan adnoddau naturiol ac ecosystemau Cymru, bydd modd sicrhau bod yr adnoddau a'r ecosystemau hynny'n cael eu cynnal.

47. Diben rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy drwy gymhwyso'r egwyddorion yw helpu i ddiwallu'r anghenion presennol o ran llesiant heb effeithio'n andwyol ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwy. Gwneir hynny drwy sicrhau:
    - Y bydd yr effeithiau ar gydnerthedd ecosystemau yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau, a bydd adnoddau naturiol yn cael eu defnyddio mewn modd ac ar raddfa a fydd yn sicrhau bod ecosystemau yn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau rheoleiddio, gwasanaethau cynnal, gwasanaethau darparu a gwasanaethau diwylliannol.
    - Na fydd penderfyniadau'n seiliedig ar effeithiau a manteision byrdymor yn unig ond hefyd ar y canlyniadau yn y tymor canolig a'r tymor hir. Mae hyn yn cynnwys yr oedi cyn i ecosystemau ddechrau teimlo effaith ymyriadau gan bobl, a hefyd yr amser y maent yn ei gymryd i ymateb i'r ymyriadau hynny.
    - Y bydd integreiddio'r effeithiau a'r cyfleoedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n gysylltiedig â defnyddio adnoddau naturiol yn cael ei ystyried yn y broses gwneud penderfyniadau.
    - Na fydd penderfyniadau ar adnoddau naturiol neu ecosystemau yn cael eu hystyried yn annibynnol ar ei gilydd, ac y bydd effeithiau cronnol yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau.
    - Y bydd gwell dealltwriaeth o'r cysylltiadau o fewn ecosystemau ac o'r cysylltiadau rhyngddynt, a hefyd o'r modd y maent yn dibynnu ar ei gilydd. Bydd gwell dealltwriaeth hefyd o'r cysylltiadau rhwng ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Diben cyffredinol CNC

Y cefndir

48. Roedd sefydlu CNC yn un corff amgylcheddol integredig yn un o'r camau cyflawni a nodwyd yn *Cymru Fyw* er mwyn symleiddio strwythurau sefydliadol a phrosesau rheoleiddiol.

49. Cafodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei sefydlu gan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 ('y Gorchymyn Sefydlu'). Rhoddwyd iddo swyddogaethau Cyngor Cefn Gwlad Cymru, a'r swyddogaethau hynny a oedd wedi eu datganoli i Gymru gan Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth, drwy Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013. Daeth y corff yn weithredol ar 1 Ebrill 2013.

Y sefyllfa bresennol

50. Mae diben cyffredinol CNC yn cael ei nodi yn Erthygl 4 o'r Gorchymyn Sefydlu. Y diben hwnnw yw sicrhau bod adnoddau amgylcheddol a naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio mewn modd cynaliadwy er budd pobl, amgylchedd ac economi Cymru yn awr ac yn y dyfodol. Caiff Gweinidogion Cymru roi canllawiau i CNC ar sut y dylai arfer ei swyddogaethau er mwyn cyflawni ei ddiben.

Diben y ddeddfwriaeth

51. Mae'r Bil yn mewnosod erthygl 4 newydd i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 er mwyn diweddaru ei ddiben yn unol â'r fframwaith sy'n cael ei sefydlu gan y Bil. O dan yr Erthygl honno, bydd yn ofynnol i CNC, wrth iddo arfer ei swyddogaethau, geisio sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy. Bydd yn ofynnol hefyd i CNC gymhwyso egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol.

52. Y diben, felly, yw rhoi i CNC:
    - Ddiben clir sy'n sicrhau bod egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yn rhan annatod o broses gwneud penderfyniadau'r corff.
    - Amcan cyffredinol er mwyn cyflawni ei swyddogaethau.

Yr effaith y bwriedir i'r ddarpariaeth ei chael

53. Mae'r ddarpariaeth yn diweddaru diben craidd CNC yn unol â'r darpariaethau sy'n cael eu sefydlu yn y Bil ar gyfer rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol. Mae'n ei ddiweddaru hefyd yn unol â'r rhwymedigaethau ehangach sydd arno o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n dileu unrhyw wrthdaro o ran y diffiniad o 'cynaliadwyedd' a ddarparwyd yn Erthygl 4 o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012, ac mae'n sicrhau bod y Gorchymyn Sefydlu, Bil yr Amgylchedd (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gyson â'i gilydd.

54. Mae’r ddarpariaeth yn sicrhau cysondeb o ran y modd y bydd CNC yn cyflawni ei swyddogaethau, a hynny ar sail dull rheoli ar lefel ecosystem, er enghraifft:
    - Bydd yn ystyried yr effaith y bydd ei benderfyniadau yn ei chael ar gydnerthedd ecosystemau, ar allu’r ecosystemau hynny i ddarparu gwasanaethau cynnal, gwasanaethau rheoleiddio, gwasanaethau darparu a gwasanaethau diwylliannol, ac ar allu’n hadnoddau naturiol i ddiwallu anghenion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau’r dyfodol.
    - Bydd yn ystyried y canlyniadau a gaiff penderfyniadau neu gamau gweithredu yn y tymor canolig a’r tymor hir yn ogystal ag yn y tymor byr, a bydd yn mabwysiadu arferion rheoli ymaddasol er mwyn monitro, adolygu ac addasu ei weithgareddau fel y bo modd iddo gyflawni amcanion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

55. Bydd y ddarpariaeth yn cynorthwyo CNC i fodloni’r gofynion a fydd arno o dan yr egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 drwy ei annog i ymgysylltu â rhanddeiliaid ac amrywiaeth o sefydliadau’r gymdeithas sifil, gan gynnwys cymunedau lleol.

Dyletswydd bioamrywaieth a chydnerthedd ecosystemau

Y cefndir

56. Yn ôl diffiniad y Confensiwn ar Fioamrywaieth Fiolegol, bioamrywiaeth yw'r amrywioldeb ymhlith organeddau byw o bob tarddle gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, ecosystemau'r tir a'r môr ac ecosystemau dyfrol eraill a'r cymhlygion ecolegol y maent yn rhan ohoynt; mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o fewn rhywogaethau a rhwng rhywogaethau, ac amrywiaeth ecosystemau[14]. Mae amrywiaeth yn nodwedd strwythurol o ecosystemau, ac mae'r amrywioldeb ymhlith ecosystemau yn elfen o fioamrywiaeth.

57. Mae cynnal a gwella amrywiaeth organeddau biolegol yn elfen allweddol o'r dull integredig o weithredu ac o reoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Mae amrywioldeb ein hadnoddau biolegol yn rhan hanfodol o sicrhau bod ein hecosystemau'n iach a bod eu cyflwr yn cael ei wella a'i gynnal ar gyfradd sy'n sicrhau eu bod yn darparu'r systemau cynnal bywyd sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau eu bod yn gyffredinol gydnerth.

58. Bioamrywiaeth sy'n sbarduno'n hecosystemau[15] ac maent hwy, yn eu tro, yn darparu llu o wasanaethau ecosystemau sy'n hanfodol i'n cymdeithas. Mae newidiadau o ran dosbarthiad ac amlder planhigion, anifeiliaid, a microbau yn effeithio ar swyddogaethau ecosystemau ac ar allu'r swyddogaethau hynny i ddarparu gwasanaethau ecosystemau. Os yw ecosystemau'n colli rhywogaethau, mae hynny'n effeithio ar eu gallu i atal rhywogaethau eraill rhag ymledu. Mae'n cael effaith ar gynhyrchu ac ailgylchu maethynnau ac yn effeithio hefyd ar ddibynadwyedd a sefydlogrwydd ecosystemau. Mae bioamrywiaeth, felly, yn hanfodol er mwyn cynnal ecosystemau sy'n darparu'r gwasanaethau hanfodol y mae'n bywydau yn dibynnu arnynt. Os yw bioamrywiaeth yn cael ei cholli, ac efallai byth yn cael ei hadfer yn llawn, mae hynny'n effeithio ar allu ecosystemau i ymaddasu mewn ymateb i newidiadau ac i ffactorau sy'n tarfu arnynt.

59. Un o ymrwymiadau allweddol y llywodraeth o dan y *Rhaglen Lywodraethu* yw gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a sicrhau ei bod yn gydnerth. Bydd yn gwneud hynny drwy ganolbwyntio ar yr ecosystem gyfan ac ar y cysylltiad rhwng ecosystemau a'n heconomi a'n cymunedau.

60. Yn yr Asesiad Cenedlaethol o Ecosysystemau, a gyhoeddwyd yn 2011, nodwyd bod bioamrywiaeth yn parhau i ddirywio a bod rhyw draean o'r gwasanaethau a ddarperir gan ein hamgylchedd naturiol wedi eu diraddio neu'n dirywio[16].

61. Nodwyd hefyd yn yr adroddiad ar *State of Nature* fod 60% o'r 3,148 o rywogaethau a aseswyd yn y DU wedi dirywio dros y degawdau diweddar, a

---

[14] *Erthygl 2, Y Confensiwn ar Fioamrywiaeth Fiolegol. 1992*

[15] *Mae ecosystem yn cynnwys organeddau byw (planhigion, anifeiliaid a micro-organeddau) ynghyd â'u hamgylchedd anfyw (aer, dŵr, mwynau a phridd) a'r holl ryngweithio amrywiol a chymhleth sy'n digwydd rhyngddynt. (Papur Gwyn Bil yr Amgylchedd)*

[16] *UK National Ecosystem Assessment, (2011) http://uknea.unep-wcmc.org/Resources/tabid/82/Default.aspx*

bod perygl i fwy nag un ym mhob deg o'r holl rywogaethau a aseswyd ddiflannu'n gyfan gwbl[17].

62. Yn ystod ei Ymchwiliad i Fioamrywiaeth, ystyriodd Pwyllgor Cynaliadwyedd y Cynulliad pam nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cyrraedd ei thargedau ar fioamrywiaeth, a chyflwynodd argymhellion ar sut y gellid sicrhau gwell cynnydd yn hynny o beth yn y dyfodol. Argymhellodd y Pwyllgor yn ei ganfyddiadau y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu dull seiliedig ar ecosystemau o reoli bioamrywiaeth:

> *"Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau yr achubir ar y cyfle o dan y Fframwaith Amgylchedd Naturiol i fabwysiadu dull gweithredu strategol seiliedig ar ecosystemau i reoli bioamrywiaeth yng nghefn gwlad yn ehangach. Dylai'r ffordd hon o weithredu drwy ecosystemau fod yn ganolog i ymdrechion y Llywodraeth i gyrraedd targedau 2020...)*

63. Argymhellodd y Pwyllgor hefyd y dylai bioamrywiaeth fod yn un o elfennau allweddol polisi Llywodraeth Cymru ar ddatblygu cynaliadwy ac y dylid gosod dyletswydd ar sefydliadau perthnasol i gefnogi a hyrwyddo bioamrywiaeth, gan adeiladu ar y ddyletswydd bresennol o ran bioamrywiaeth o dan adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006.

64. Roedd Papur Gwyn Bil yr Amgylchedd yn nodi'r cynigion deddfwriaethol ar gyfer gweithredu'r argymhellion drwy reoli adnoddau naturiol ar sail y dull ecosystemau, a hynny er mwyn helpu i wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o reoli adnoddau naturiol Cymru yn well. Nododd y Papur Gwyn hefyd fod angen symleiddio nifer o'r systemau rheoleiddiol presennol a'u gwneud yn fwy clir, a'r ymateb cyson i hynny oedd bod angen cryfhau'r ddyletswydd bioamrywiaeth bresennol.

65. Dywedodd nifer o'r rheini a ymatebodd i'r Papur Gwyn mai cymysg neu gyfyngedig fu'r llwyddiant a gafwyd wrth weithredu'r ddyletswydd yn adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006. Dywedodd eraill fod y Bil yn gyfle i bwyso a mesur pa mor effeithiol oedd y ddyletswydd honno ac i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion.

Y sefyllfa bresennol

66. O dan adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, mae'n ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr (dros 900 i gyd, a rhyw 80 yng Nghymru) ystyried yr angen i warchod bioamrywiaeth wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau. Ers i'r Ddeddf honno ddod i rym, cafwyd peth llwyddiant drwy'r ddyletswydd bresennol, er enghraifft, cyflwynwyd nifer o hyrwyddwyr bioamrywiaeth mewn awdurdodau lleol a sefydlwyd trefn lle y mae awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol yn paratoi adroddiadau gwirfoddol am y ddyletswydd.

---

17 State of Nature Report, (2013), p6 http://www.rspb.org.uk/ourwork/science/stateofnature/index.aspx

Diben y ddeddfwriaeth

67. Y bwriad yw sicrhau bod amrywiaeth popeth byw, gan gynnwys y cynefinoedd sy'n eu cynnal ac amrywiadau genetig o fewn rhywogaethau, yn cael eu cydnabod yn statudol. Bydd hynny'n helpu i sicrhau bod bioamrywiaeth fiolegol yn cael ei chydnabod yn rhan hanfodol o gydnerthedd ecosystemau, a'i bod hefyd yn ffordd i fesur y llwyddiant a geir wrth reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

68. Bydd dyletswydd yn ymwneud â bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau yn cael ei gosod ar bob corff cyhoeddus sy'n arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru. O dan y ddyletswydd honno, bydd yn rhaid i bob awdurdod cyhoeddus geisio 'cynnal a gwella bioamrywiaeth' wrth arfer ei swyddogaethau (ond gan sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol o ran arfer y swyddogaethau hynny'n briodol) a bydd rhaid iddo hefyd, drwy wneud hynny, 'hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau'.

69. Nod y 'ddyletswydd bioamrywiaeth' yw:
    - Sicrhau bod y ddyletswydd bioamrywiaeth yn cyd-fynd â'r fframwaith arfaethedig ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.
    - Sicrhau bod cydnabyddiaeth yn cael ei rhoi i'r rôl hollbwysig sydd gan fioamrywiaeth i'w chwarae o ran cyfrannu at iechyd ecosystemau ac at sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol, e.e. gwella bioamrywiaeth er mwyn adfer neu ailsefydlu systemau a phrosesau ecolegol.
    - Sicrhau nad dim ond ar ôl ailfeddwl y bydd camau a allai effeithio ar fioamrywiaeth yn cael eu hystyried ond eu bod hefyd yn ystyried y rôl ehangach sydd gan fioamrywiaeth i'w chwarae o ran cyfrannu at wella ecosystemau ac at sicrhau bod bioamrywiaeth, ecosystemau, a'r rhwydwaith cysylltiol o ecosystemau yn fwy cydnerth.
    - Cryfhau'r ddyletswydd bioamrywiaeth drwy roi rhwymedigaeth gadarnhaol ar gyrff i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth.
    - Cyflwyno gofyniad newydd i adrodd am y modd y mae'r ddyletswydd yn cael ei chyflawni.

70. Drwy hoelio sylw ar y rôl y mae bioamrywiaeth yn ei chwarae o ran sicrhau bod ecosystemau'n gydnerth, y bwriad yw sicrhau bod cynnal a gwella bioamrywiaeth yn cyfrannu at gynaliadwyedd hirdymor y prosesau ecolegol a ffisegol sy'n sail i'r ffordd y mae ecosystemau'n gweithio. Bydd hynny'n golygu y bydd ein hadnoddau naturiol yn fwy abl i ddarparu gwasanaethau ecosystemau megis dŵr glân, rheoleiddio'r hinsawdd a pheillio cnydau, yn ogystal â darparu cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt.

71. Mae'r Bil yn dileu'r ddyletswydd bresennol yn adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig Act 2006 mewn perthynas â Chymru, ac yn rhoi yn ei lle ddyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth. Bydd yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus arfer y ddyletswydd hon mewn modd a fydd yn gwella'r agweddau allweddol sy'n cynnal amrywiaeth fiolegol a chydnerthedd ecosystemau. Mae'r ddyletswydd newydd, felly, yn cael ei hintegreiddio i'r fframwaith a sefydlir o dan y Bil ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

72. Mae'r ddarpariaeth hon hefyd yn gydnaws â'r dyletswyddau a'r nodau llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn darparu ar gyfer gosod dyletswydd llesiant newydd ar gyrff cyhoeddus, gan gynnwys CNC, i gyflawni datblygu cynaliadwy ym mhopeth a wnânt. Ystyr "datblygu cynaliadwy" yw'r:

    "broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant." (Adran 2 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015).

73. Dyma'r saith nod llesiant:
    - Cymru lewyrchus.
    - Cymru gydnerth.
    - Cymru iachach.
    - Cymru sy'n fwy cyfartal.
    - Cymru o gymunedau cydlynus.
    - Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.
    - Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

74. Mae'r ddarpariaeth hefyd yn cydnabod, mewn ffordd gwbl bendant, yr ymrwymiadau sydd ar Gymru o dan y Confensiwn ar Fioamrywiaeth, a lofnodwyd ym 1992 ar ôl Uwchgynhadledd y Byd yn Rio.

Yr effaith y bwriedir i'r ddeddfwriaeth ei chael

75. Bydd y Bil yn sicrhau bod bioamrywiaeth yn rhan naturiol ac annatod o bolisïau ac o wneud penderfyniadau mewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Bydd y Bil yn cefnogi'r angen i fynd i'r afael â'r dirywaid mewn bioamryiaeth drwy geisio cynnal a gwella statws ein bioamrywiaeth, yn ogystal â sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei hystyried yn gwbl hanfodol er mwyn cynnal ecosystem weithredol. Bydd yn gwneud hynny drwy:
    - Sicrhau bod ein hadnoddau biolegol yn fwy amrywiol er mwyn helpu i sicrhau mwy o amrywiaeth yn ein hecosystemau a'u bod, o'r herwydd, yn fwy cydnerth.
    - Sicrhau adnoddau biolegol mwy amrywiol a helpu, drwy hynny, i gryfhau integriti ecosystemau, a galluogi ecosystemau i ymaddasu er mwyn ymdopi â phwysau a/neu ymateb iddo, gan leddfu effeithiau unrhyw sioc fewnol neu allanol i'r systemau hynny.
    - Gwella cyfleoedd i sicrhau cysylltiadau rhwng ecosystemau, sy'n arbennig o bwysig o ran gwasgariad rhywogaethau o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd, ac sydd hefyd yn cyfrannu at gydnerthedd ecosystemau yn y tymor hir.

76. Mae cyflwyno dyletswydd newydd i gyhoeddi adroddiad yn galluogi awdurdodau cyhoeddus i adrodd am y camau y byddant wedi eu cymryd i wella bioamrywiaeth ac i wneud ecosystemau yn fwy cydnerth. Byddant yn cael eu galluogi hefyd i adrodd am y camau y byddant wedi eu cymryd i gynnwys

mesurau yn ymwneud â bioamrywiaeth mewn meysydd polisi, strategaethau neu fentrau eraill.

77. Y bwriad yw sicrhau manteision o ran integreiddio ar gyfer y cyrff hynny sy'n dod o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a hynny drwy eu galluogi i adrodd ar hynt y gwaith o gyflawni'r ddyletswydd bioamrywiaeth yn yr adroddiadau y byddant yn eu paratoi ynghylch cyflawni eu hamcanion llesiant. Bydd hyn hefyd yn fodd i sicrhau, ar gyfer y cyrff hynny, fod yn gofyniad yn un cydgysylltiedig a'i fod yn rhan annatod o'r rhwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Adroddiad am Gyflwr Adnoddau Naturiol

Y sefyllfa bresennol

78. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i unrhyw sefydliad adrodd am gyflwr adnoddau naturiol yng Nghymru. Mae rhai adroddiadau cenedlaethol yn cael eu paratoi gan amryfal sefydliadau, ac yn eu plith y mae'r Arolwg Cefn Gwlad ac Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru.

79. Mae dyletswyddau penodol ar CNC, o dan Gyfarwyddebau Ewropeaidd, i adrodd am gyfraniad Cymru (i'r DU). Er enghraifft, o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 (un o ddeddfau'r DU), mae'n ofynnol adrodd ar lefel genedlaethol am yr effaith y mae'r newid yn yr hinsawdd yn ei chael ar hyn o bryd, a hefyd am yr effaith y rhagwelir y bydd yn ei chael yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn paratoi adroddiadau am reoleiddio cynefinoedd; am y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr; ac am berygl llifogydd.

Diben y ddeddfwriaeth

80. Y diben yw creu dyletswydd statudol i ddarparu asesiad o gyflwr a thueddiadau adnoddau naturiol yng Nghymru er mwyn nodi a oes cynnydd yn cael ei wneud o ran cyflawni amcanion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Bydd hyn yn dangos a fydd ecosystemau yn gallu parhau i ddarparu'r gwasanaethau cynnal, y gwasanaethau rheoleiddio, y gwasanaethau darparu a'r gwasanaethau diwylliannol sy'n cynnal llesiant amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd Cymru yn y tymor hir.

81. Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i CNC baratoi a chyhoeddi Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol, gan wneud hynny yn unol â'r amserlen ddeddfwriaethol a ddarperir yn y Bil. Bydd yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol yn sylfaen dystiolaeth a fydd yn darparu gwybodaeth am sefyllfa ein hadnoddau naturiol ar y pryd. Bydd, wrth wneud hynny, yn darparu'r wybodaeth y bydd ei hangen ar Weinidogion Cymru i bennu blaenoriaethau ar gyfer gweithredu ar y lefel genedlaethol.

82. Nid yw'r ffordd (gymharol gul a rhydwythol) yr eir ati ar hyn o bryd i adrodd am yr amgylchedd yn adlewyrchu'r gyd-ddibyniaeth rhwng ffactorau amgylcheddol neu ag agweddau economaidd a chymdeithasol fel y'i hadlewyrchir gan y dull ehangach o reoli anoddau naturiol sy'n cael ei sefydlu drwy gyfrwng y Bil. Wrth adrodd, dylid canolbwyntio'n bennaf ar allu ecosystemau i ddiwallu anghenion cymdeithas, yr economi a'r amgylchedd, yn awr ac yn y dyfodol. Gallai hynny gynnwys dadansoddi ac adrodd am faterion megis statws ecosystemau ac am dueddiadau o ran sut y maent yn gweithredu (gan gynnwys cyflwr yr amgylchedd naturiol); allbynnau (y gwasanaethau ecosystemau a ddarperir, a gwerth y gwasanaethau hynny); a chydnerthedd (y gallu i wrthsefyll, ac i adfer y modd y maent yn gweithredu, gan gydnabod rôl bioamrywiaeth).

Yr effaith y bwriedir i'r deddfwriaeth ei chael

83. Bydd y ddeddfwriaeth yn arwain at:
    - Sylfaen dystiolaeth genedlaethol gynhwysfawr a chanolog ar statws adnoddau naturiol yng Nghymru, a fydd yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa ar y pryd.
    - Gwaelodlin a fydd yn llywio gwaith datblygu polisi.
    - Cyflwyno proses lle yr eir ati'n gyson i fonitro, adolygu ac ymateb i'r wybodaeth ddiweddaraf. Bydd modd gwneud hynny drwy gyfrwng y cysylltiadau rhwng yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR), y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol (NNRP) a'r datganiadau ardal, a hynny drwy:
        - Sicrhau, wrth benderfynu ar y blaenoriaethau cenedlaethol a'r cyfleoedd y dylid eu cynnwys yn y polisi cenedlaethol, bod y broses honno'n seiliedig ar y dystiolaeth yn yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol;
        - Sicrhau, wrth i'r polisi cenedlaethol gael ei weithredu ar y lefel leol drwy gyfrwng datganiad ardal, bod y broses honno'n seiliedig ar y dystiolaeth briodol yn yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol;
        - Sicrhau bod y dystiolaeth leol a ddaw i'r amlwg wrth baratoi datganiad ardal yn cael ei hystyried wrth fynd ati yn y dyfodol i adolygu'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol.

Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol

Y sefyllfa bresennol

84. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i baratoi dogfen bolisi genedlaethol integredig ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, ac mae polisïau ar faterion amgylcheddol yn tueddu i gael eu paratoi yn annibynnol ar ei gilydd. Yn 2011, ymrwymodd Llywodraeth Cymru, drwy *Cymru Fyw*, i ddatblygu'r gwaith cynllunio sy'n cael ei wneud ym maes rheoli adnoddau naturiol, i ddatblygu gwaith cynllunio morol, ac i fabwysiadu dull integredig o weithredu mewn perthynas ag iechyd ecosystemau.

Diben y ddeddfwriaeth

85. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi, cyhoeddi ac adolygu polisi adnoddau naturiol cenedlaethol, gan wneud hynny yn unol â'r amserlen ddeddfwriaethol a ddarperir.

86. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol cyntaf gael ei gyhoeddi ymhen 10 mis i'r dyddiad y daw adran 9 i rym. Caiff Gweinidogion Cymru adolygu'r polisi hwnnw ar unrhyw adeg ond bydd rhaid iddynt ei adolygu ar ôl pob un o etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ar ôl cynnal adolygiad, caiff Gweinidogion Cymru ddewis parhau â'r polisi neu ei ddiwygio. Os caiff ei ddiwygio, bydd yn rhaid cyhoeddi'r polisi diwygiedig.

87. Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru nodi eu polisïau ar gyfer cyfrannu at reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru, a bydd gofyn hefyd iddynt nodi beth, yn eu barn hwy, yw'r blaenoriaethau a'r cyfleoedd allweddol er mwyn cyflawni hynny. Rhaid iddynt hefyd gynnwys yn y polisi hwn yr hyn y dylid ei wneud, yn eu barn hwy, mewn perthynas â'r newid yn yr hinsawdd.

88. Bydd gofyn hefyd i Weinidogion Cymru gymryd y cyfryw gamau ag a fydd yn rhesymol ymarferol, yn eu barn hwy, i weithredu'r polisi ac i annog eraill i gymryd camau o'r fath.

Yr effaith y bwriedir i'r ddeddfwriaeth ei chael

89. Y bwriad yw:
    - Sicrhau bod blaenoriaethau clir yn cael eu pennu a chyfleoedd yn cael eu nodi i sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy ar lefel genedlaethol, gan wneud hynny ar sail sylfaen dystiolaeth a fydd yn cael ei darparu'n rhannol gan yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol a chan Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
    - Hyrwyddo sefyllfa lle y bydd polisïau'n cael eu datblygu mewn modd integredig, gan sicrhau, wrth ymgymryd â'r gwaith hwnnw, bod y polisi cenedlaethol yn cyd-fynd ag amcanion Gweinidogion Cymru o ran llesiant

(yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015) ac yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (fel y'i cynigir ym Mil Cynllunio (Cymru)).

- Rhoi cyfarwyddyd i Weinidogion Cymru ar sut i sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy.
- Rhoi cyfarwyddyd i CNC ar baratoi datganiadau ardal, sef y dull a fydd yn cael ei fabwysiadu er mwyn gweithredu ar flaenoriaethau a manteisio ar gyfleoedd ar y lefel leol.

Datganiadau Ardal

Y sefyllfa bresennol

90. Mae dwy Gyfarwyddeb Ewropeaidd yn ei gwneud yn ofynnol i fabwysiadu dull rheoli ar lefel yr ecosystem sy'n gydnaws â'r dull a gyflwynir yn y Bil:
    - O dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (2003), mae'n ofynnol mabwysiadu dull integredig o weithredu drwy ddatblygu Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd. Y fwy diweddar, mae llawer o offerynnau'r UE sy'n ymwneud â dŵr yn cael eu hintegreiddio i'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Y nod yw rheoli amgylchedd y dŵr ar lefel systemau cyfan.
    - O dan Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol (2006), mae'n ofynnol mabwysiadu dull integredig o weithredu wrth reoli gweithgareddau dynol sy'n effeithio ar yr amgylchedd morol, ond gan sicrhau, ar yr un pryd, bod modd defnyddio gwasanaethau ecosystemau morol mewn modd cynaliadwy.

91. Mae CNC wrthi ar hyn o bryd yn cynnal treialon mewn tair ardal, yn nalgylchoedd afonydd Rhondda, Tawe a Dyfi. Diben y treialon hyn yw dechrau gwneud rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol yn rhan annatod o waith CNC, mewn ardaloedd daearyddol penodol – gan ddangos sut y gellid cyflawni hynny'n ymarferol, a chan ddysgu wrth i'r treialon fynd rhagddynt.

Diben y ddeddfwriaeth

92. Rhaid i CNC baratoi, cyhoeddi ac adolygu datganiadau ardal fel y bo modd mynd ati ar y raddfa ofodol briodol i weithredu ar un neu fwy o'r blaenoriaethau a'r cyfleoedd a amlinellir yn y polisi adnoddau naturiol cenedlaethol.

93. Caiff CNC hefyd ddefnyddio datganiad ardal i gyflawni unrhyw un o'i swyddogaethau ac, os yw hynny'n gyson ag unrhyw ddyletswydd statudol benodol, caiff ymgorffori mewn datganiad ardal unrhyw gynlluniau, rhaglenni neu strategaethau a baratowyd gan CNC. Bydd hynny'n caniatáu i CNC integreiddio a symleiddio'i waith a chyflawni ei rôl mewn ffordd fwy effeithlon.

94. Mae'r angen am ddatganiadau ardal ar draws Cymru yn adlewyrchu'r gydnabyddiaeth, fel y darperir ar ei chyfer yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, fod yn rhaid wrth ddull gweithredu sy'n ystyried y cyd-destun lleol er mwyn mynd i'r afael â heriau cyffredinol a dod o hyd i atebion cynaliadwy. At hynny, mae angen i gyrff hefyd ystyried sut y mae cydweithio â chyrff eraill yn gallu helpu i gyflawni amcanion hirdymor.

95. Caiff CNC ofyn i gyrff cyhoeddus eraill (fel y'u diffinnir yn adran 11 o'r Bil) ddarparu gwybodaeth neu roi cymorth iddo baratoi datganiadau ardal ac i'w rhoi ar waith (fel y darperir yn adran 13). Byddai'n ofynnol i'r cyrff hynny ddarparu gwybodaeth neu i roi cymorth.

96. Bydd gofyn i CNC gymryd camau rhesymol ymarferol i roi datganiad ardal ar waith ac i annog eraill i gyfrannu at weithredu'r datganiad hwnnw.

97. Lle y bo angen, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo corff cyhoeddus (fel y cynigir yn adran 12) i gymryd camau rhesymol ymarferol i weithredu datganiad ardal. Byddai'r pŵer hwn i roi cyfarwyddyd yn fodd i sicrhau bod cyrff cyhoeddus eraill hefyd yn cyfrannu at weithredu datganiad ardal, ac nad CNC yn unig fyddai'n gyfrifol am wneud hynny.

98. Un elfen o'r cydweithio a gynigir yn hyn o beth fydd caniatáu i gyrff cyhoeddus sydd hefyd yn aelodau o fwrdd gwasanaethau cyhoeddus gynnwys blaenoriaethau neu gyfleoedd a nodir mewn datganiad ardal yn eu cynllun llesiant lleol.

Yr effaith y bwriedir i'r ddarpariaeth ei chael

99. Y bwriad yw y bydd datganiadau ardal yn:
    - Darparu sylfaen dystiolaeth ar lefel leol y bydd modd ei defnyddio yn y dyfodol wrth baratoi a diwygio'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol, a hefyd mewn unrhyw asesiad llesiant lleol a gynhelir gan fwrdd gwasanaethau cyhoeddus, ac mewn unrhyw gynlluniau llesiant lleol a fydd yn cael eu paratoi yn sgil yr asesiadau hynny (yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015).
    - Drwy lywio'r cynlluniau llesiant lleol, yn cyfrannu tystiolaeth ar gyfer y gwaith o ddatblygu cynlluniau datblygu lleol.
    - Darparu sylfaen dystiolaeth ynghylch sut y bydd CNC yn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn yr ardal honno.
    - Sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar y lefel briodol, gan gydnabod bod ecosystemau'n bodoli ar nifer o raddfeydd gwahanol a bod cysylltiadau rhyngddynt.
    - Sicrhau bod gwasanaethau cynnal, gwasanaethau rheoleiddio, gwasanaethau darparu a gwasanaethau diwylliannol yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau am flaenoriaethau a chyfleoedd.
    - Gwella'r modd y gwneir penderfyniadau drwy sicrhau bod CNC a chyrff cyhoeddus eraill yn cydweithio i ddatblygu ac i weithredu datganiad ardal.
    - Galluogi CNC, os yw hynny'n gyson ag unrhyw ddyletswydd statudol benodol, i integreiddio, ad-drefnu a symleiddio unrhyw gynlluniau, rhaglenni neu strategaethau a gaiff eu paratoi ganddo
    - Darparu ffynhonnell o wybodaeth a thystiolaeth ar gyfer cyrff cyhoeddus eraill ynghylch pa gamau gweithredu y gallai fod angen iddynt eu cymryd, gan olygu y byddant yn gallu cynnwys y camau gweithredu hynny wrth gyflawni eu hamcanion eu hunain o ran llesiant, neu eu cynnwys yng nghynlluniau llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
    - Nodi cyfleoedd posibl a blaenoriaethau ar lefel leol a hefyd gyfleoedd posibl i gyrff gwahanol gydweithio ac ymgysylltu. Bydd hefyd yn fodd i'w hannog hwy a rhanddeiliaid gwahanol i chwarae rhan weithredol yn y gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar lefel leol.
    - Caniatáu dull cyfannol o fynd i'r afael â heriau allweddol, er enghraifft, wrth leihau perygl llifogydd a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.
    - Sicrhau y bydd CNC yn gallu mabwysiadu dull system gyfan o weithredu a hefyd symleiddio ac ad-drefnu ei brosesau er mwyn osgoi dyblygu gwaith.

Cytundebau Rheoli Tir

Y cefndir

100. At ddibenion y gyfraith amgylcheddol, yr hyn a olygir wrth gytundeb rheoli yw trefniant ariannol (contract, i bob pwrpas) i sicrhau bod dau barti yn gweithredu mewn modd penodol. Fel rheol, maent yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd i warchod ac i ddiogelu'r planhigion a'r anifeiliaid a geir mewn ardal, a hefyd i reoli tir mewn modd sy'n sicrhau bod natur yn cael ei warchod. Fe'u gwneir fel arfer rhwng perchennog tir preifat ac un o'r cyrff cadwraeth statudol (hynny yw, Natural England, CNC a Scottish Natural Heritage); mae'n bosibl y bydd perchennog y tir yn cytuno i reoli'r tir mewn ffordd benodol neu i beidio â gwneud rhywbeth ar y tir, a hynny yn gyfnewid am dâl. Yn hanesyddol, mae cytundebau rheoli wedi cael eu defnyddio ar gyfer safleoedd megis Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSIs) (drwy'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad) ac ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (safleoedd Natura 2000) drwy'r Rheoliadau Cynefinoedd.

Y sefyllfa bresennol

100. Mae gan CNC nifer o bwerau eisoes i lunio cytundebau rheoli tir, at ddibenion penodedig, gyda pherchenogion neu feddianwyr tir. Ceir gwneud cytundebau rheoli tir o dan adran 39 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, adran 15 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968 ac adran 16 o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949.

101. Mae'r pwerau presennol yn gyfyngedig yn yr ystyr eu bod yn arferadwy mewn perthynas â thir a ddynodwyd at ddibenion cadwraeth neu fel arall at ddibenion cadw harddwch naturiol ac amwynder, a hyrwyddo mwynhad gan y cyhoedd. Nid yw'r pwerau presennol yn ddigon eang i CNC fedru hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol yn unol â'r ystod lawn o swyddogaethau sydd ganddo, er enghraifft, y gallu i sicrhau trefniadau hirdymor a chadarn er mwyn rheoli perygl llifogydd.

Diben y ddeddfwriaeth

102. Mae'r Bil yn ychwanegu at y pŵer sydd gan CNC ar hyn o bryd, a hynny er mwyn iddo fedru defnyddio'r pŵer hwnnw i gyflawni unrhyw amcan o dan unrhyw un o'i swyddogaethau. Mae hynny'n cynnwys rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, sy'n ddyletswydd ar CNC o dan Erthygl 4 o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (fel y'i hamnewidir gan y Bil hwn).

103. Bydd hyn yn rhoi'r gallu i CNC lunio cytundeb rheoli gwirfoddol gydag unrhyw berson, perchennog tir neu fusnes sydd â hawl gyfreithiol dros y tir, er mwyn iddo fedru rheoli'r tir hwnnw.

104. Caiff cytundebau rheoli tir osod rhwymedigaethau cadarnhaol neu gyfyngiadau ar berchennog neu feddiannydd tir o ran rheoli'r tir hwnnw mewn

modd a fydd yn cyfrannu, er enghraifft, at reoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy.

Yr effaith y bwriedir i'r ddarpariaeth ei chael

105. Y diben yw rhoi'r gallu i CNC lunio cytundebau gwirfoddol i reoli tir er mwyn iddo fedru cyflawni cyfres ehangach o amcanion nag o dan y ddeddfwriaeth bresennol. Y bwriad yw, er enghraifft, rhoi'r gallu i CNC lunio cytundeb i reoli tir mewn modd a allai gyfrannu at liniaru llifogydd.

106. Er mwyn i gytundebau fod yn rhwymol ar bersonau a fydd yn caffael y tir, rhaid i CNC gofrestru'r cytundeb gyda'r Gofrestrfa Tir. Mae cofrestru'r cytundeb yn fodd i sicrhau bod personau a allai brynu neu feddiannu'r tir yn y dyfodol yn gwybod am y rhwymedigaethau a fydd arnynt.

107. Y bwriad yw y bydd modd trefnu i gytundebau barhau am gyfnodau hir er mwyn rhoi sicrwydd. Bydd modd eu cofrestru gyda'r Gofrestrfa Tir fel y bo telerau'r cytundeb yn parhau i fod yn gymwys i unrhyw un a fydd yn caffael y tir. Er enghraifft, o ran amddiffyn rhag llifogydd, bydd y math newydd o gytundeb rheoli yn gallu rhoi digon o sicrwydd y bydd yr ased naturiol sy'n amddiffyn rhag llifogydd, sef, yn yr achos hwn, darn o dir a'i gyrsiau dŵr cysylltiedig, yn parhau i gael eu cynnal a'u cadw hyd yn oed os gwerthir y tir.

Cynlluniau arbrofol

Y cefndir

108. Mae'n bosibl y bydd diweddaru diben cyffredinol CNC (adran 5 o'r Bil) yn arwain at oblygiadau o ran sut y bydd CNC yn gallu cyflawni ei swyddogaethau mewn modd a fydd yn caniatáu iddo gydymffurfio â rhwymedigaethau ei swyddogaethau statudol ac a fydd hefyd yn ei alluogi i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy mewn perthynas â Chymru. Mae'n bosibl y bydd angen i CNC dreialu ffyrdd newydd o gyflawni ei swyddogaethau mewn modd a fydd yn cyflawni'r diben newydd hwn.

109. Gan fod y pwysau ar adnoddau naturiol yn debygol o barhau, mae'n bosibl y bydd angen ffyrdd newydd ac arloesol o weithio hefyd er mwyn i CNC fedru rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Bydd pwysau ar allu'r amgylchedd i gynnal manteision economaidd a chymdeithasol yn her i CNC wrth iddo fynd ati i gyflawni ei swyddogaethau. Bydd rhoi'r gallu i CNC dreialu ffyrdd newydd o weithio yn bwysig er mwyn casglu tystiolaeth a fydd yn ei alluogi i sicrhau canlyniadau cymdeithasol ac economaidd ehangach. Mae hynny'n gydnaws â'r dull rheoli ar lefel yr ecosystem, sef mai'r amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir gan ecosystemau yw sail llawer o fanteision economaidd a chymdeithasol.

110. Bydd blaenoriaethau CNC yn parhau i adlewyrchu'r angen i gryfhau gallu'r amgylchedd naturiol i wrthsefyll canlyniadau'r newid yn yr hinsawdd, a'r ffactorau sy'n ei achosi. Er enghraifft, os bydd mwy o lifogydd, mae'n debyg y bydd angen mabwysiadu arferion a thechnegau gweithio gwahanol. Yn yr un modd, gallai pwerau i arloesi helpu CNC i brofi ffyrdd o fynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi'r newid yn yr hinsawdd, er enghraifft, drwy dreialu neu gefnogi prosiectau dal carbon, a fydd, yn ôl pob tebyg, yn tyfu'n ffordd fwyfwy pwysig o ymateb i allyriadau carbon yn y dyfodol.

111. Mae'n debyg y bydd newidiadau technolegol yn parhau i alluogi ffyrdd arloesol o weithio. Er enghraifft, gallai technolegau a thechnegau newydd alluogi CNC i weithredu er mwyn mynd i'r afael â llygredd.

Y sefyllfa bresennol

112. Mae adran 4 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968 yn rhoi'r pŵer i CNC wneud a chyflawni, neu i hyrwyddo cyflawni, cynlluniau arbrofol sydd â'r nod o hwyluso mwynhad o gefn gwlad, neu o gadw neu wella ei harddwch naturiol neu ei amwynder.

113. Fodd bynnag, ymwneud ag ystod gyfyngedig o swyddogaethau CNC yn unig y mae'r pwerau hynny, ac ni fyddent yn galluogi CNC i dreialu ffyrdd newydd o weithio ar draws ei gylch gwaith cyfan.

114. O ran gweithredu'r pwerau arbrofol cyfyngedig hyn, nid oes unrhyw bŵer cyffredinol ar gael i Weinidogion Cymru fedru atal dros dro ddarpariaeth mewn deddfwriaeth er mwyn caniatáu i gynllun arbrofol gael ei gyflawni.

Diben y ddeddfwriaeth

115. Diben y ddeddfwriaeth yw rhoi'r pwerau angenrheidiol i CNC i'w helpu i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r Bil yn estyn pwerau presennol CNC i gyflawni cynlluniau arbrofol.

116. Bydd hynny'n cael ei wneud drwy ddiwygio'r Erthygl 10C presennol yng Ngorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 er mwyn cynnwys pŵer i gyflawni cynlluniau arbrofol fel rhan o'r pŵer cyffredinol sydd gan CNC i wneud gwaith ymchwil.

117. Ni fydd y pŵer i wneud gwaith ymchwil yn newid, ond y diben, o ran cynlluniau arbrofol, yw gwella ac estyn pwerau presennol CNC i arbrofi, a hynny er mwyn darparu ar gyfer ei rôl newydd fel corff sydd â swyddogaethau ehangach o lawer nag unrhyw un o'r cyrff y mae'n eu holynu.

118. Gall cyflwyno cynlluniau arbrofol o'r fath gynnwys datblygu neu gymhwyso dulliau, cysyniadau neu dechnegau newydd, neu ddatblygu mwy ar ddulliau, cysyniadau neu dechnegau sy'n bodoli eisoes, a gallai hynny gynnwys defnyddio technegau rheoli newydd.

119. Fel y bo modd cyflawni cynlluniau arbrofol, caiff Gweinidogion Cymru, ar ôl cael cais i'r perwyl hwnnw oddi wrth CNC, atal dros dro, am gyfnod cyfyngedig, ddarpariaethau penodol mewn deddfwriaeth amgylcheddol, lle mai diben hynny fyddai galluogi cynllun arbrofol i gyfrannu at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Byddai hynny'n dileu unrhyw waharddiadau yn y ddeddfwriaeth a allai gyfyngu ar allu CNC i dreialu ffyrdd newydd o gyflawni ei swyddogaethau er mwyn helpu i sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy, a hefyd er mwyn ei helpu i gyflawni amcanion statudol ei swyddogaethau eraill.

120. Er mwyn i'r pŵer hwnnw gael ei gychwyn, byddai'n rhaid i CNC gyflwyno cais i Weinidogion Cymru, a fyddai'n:
    - Nodi'r ddarpariaeth berthnasol.
    - Amlinellu sut y byddai'r ddarpariaeth honno yn ei atal rhag defnyddio'i bŵer i gyflawni cynlluniau arbrofol.
    - Nodi'r hyn y byddai'r cynllun yn ei olygu, pwy fyddai'n gysylltiedig ag ef, sut y byddai'r person hwnnw'n gysylltiedig ag ef.
    - Nodi amcan y cynllun ac am ba hyd y disgwylid iddo barhau.

121. Byddai'n rhaid i Weinidogion Cymru eu bodloni eu hunain y byddai'r pŵer i atal dros dro yn golygu y byddai modd cyflawni'r cynllun ac mai ei ddiben fyddai cyfrannu at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

122. Felly, byddai atal darpariaeth ddeddfwriaethol dros dro yn gysylltiedig â swyddogaethau CNC ac â sicrhau bod ei swyddogaethau'n cyfrannu at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Yr effaith y bwriedir i'r darpariaethau ei chael

123. Dyma'r effaith y bwriedir i'r darpariaethau sy'n ymwneud â chynlluniau arbrofol ei chael:

- Byddant yn sicrhau bod eglurder o ran y pŵer presennol i gynnal neu i gomisiynu ymchwil ac o ran y pŵer i gyflawni cynlluniau arbrofol drwy eu hymgorffori mewn un pŵer a'u cymhwyso ar draws holl swyddogaethau CNC.
- Byddant yn cynorthwyo CNC i dreialu ffyrdd newydd o weithio er mwyn iddo fedru cyflawni ei swyddogaethau mewn modd a fydd hefyd yn ei alluogi i gyflawni ei ddiben cyffredinol newydd.
- Byddant yn galluogi CNC i dreialu ffyrdd newydd o weithio er mwyn asesu'r ffyrdd gorau o sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy.
- Byddant yn galluogi CNC i dreialu ffyrdd newydd o weithio a allai arwain at arferion gorau ac a allai helpu i nodi cyfleoedd i ddatblygu rheolau cyffredinol a fyddai'n rhai rhwymol.
- Byddant yn galluogi CNC i dreialu ffyrdd newydd o weithio a allai gynnwys nifer o randdeiliaid ac a fyddai, felly, yn annog mwy o gyrff i fod yn gysylltiedig â sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy.
- Byddant yn sicrhau bod modd dysgu am ddulliau newydd neu ffyrdd newydd o weithio cyn iddynt gael eu gweithredu'n gyffredinol.
- Byddant yn sicrhau bod modd dysgu er mwyn cael gwybodaeth ar sut i ddatblygu achos o blaid newid.
- Byddant yn fodd i ddysgu am unrhyw wrthdaro rhwng y ddeddfwriaeth bresennol a rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy neu'r dull ecosystemau yn fwy cyffredinol. Byddant yn fodd, felly, i ddarparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru am unrhyw broblemau sy'n codi wrth weithredu polisi ar reoli adnoddau naturiol.
- Byddant yn golygu y bydd modd nodi mewn datganiadau ardal bod cynlluniau yn gyfleoedd i sicrhau rheolaeth gynaliadwy yn yr ardal honno ac i roi gwybodaeth i gyrff eraill am gyfleoedd i gydweithio. Byddant hefyd yn fodd i helpu i weithredu datganiadau ardal.
- Byddant yn darparu ar gyfer rhoi rhanddirymiad, am gyfnod cyfyngedig, mewn perthynas â rhwymedigaethau deddfwriaethol penodol, i bartïon a fydd yn gysylltiedig â chynlluniau arbrofol, a hynny er mwyn iddynt fedru dod o hyd i ffyrdd newydd o fodloni'r gofynion deddfwriaethol sydd arnynt a chyfrannu, ar yr un pryd, at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'n bosibl y bydd hynny hefyd yn fodd, yn achos sefydliadau bach/canolig eu maint, i nodi cyfleoedd i gyflwyno rheolau cyffredinol a fydd yn rhai rhwymol, yn lle'r cydsyniadau sy'n bodoli eisoes.

Cysylltiadau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf Cynllunio (Cymru)

124. Mae cysylltiadau amlwg rhwng Bil yr Amgylchedd (Cymru), Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015. Yr egwyddor sy'n cysylltu'r tri darn hyn o ddeddfwriaeth hyn yw'r ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy er mwyn gwella llesiant pobl Cymru yn awr ac yn y dyfodol.

125. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sefydlu fframwaith datblygu cynaliadwy cryfach a mwy cydlynol ar gyfer Cymru drwy gyfrwng set o saith nod llesiant, egwyddor datblygu cynaliadwy, a dyletswydd gref ar bob corff cyhoeddus i gyflawni datblygu cynaliadwy, gan adlewyrchu'r angen i i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Er mwyn eu helpu i wneud hynny, mae'r Ddeddf yn sefydlu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru a fydd yn helpu cyrff cyhoeddus i wneud dewisiadau mwy cynaliadwy yn ogystal â diogelu buddiannau cenedlaethau'r dyfodol. Bwriedir i Fil yr Amgylchedd (Cymru) ategu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a hefyd, drwy gymhwyso egwyddor datblygu cynaliadwy, i ategu'r gwaith o reoli adnoddau naturiol Cymru.

126. Bydd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn creu proses effeithlon er mwyn sicrhau bod y datblygiad iawn yn y lle iawn. Mae Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn ategu nodau Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 o ran cefnogi datblygu cynaliadwy, drwy sicrhau bod tystiolaeth am y risgiau a'r cyfleoedd allweddol sy'n gysylltiedig â rheoli adnoddau naturiol Cymru yn sail i'r broses gynllunio drwy'r asesiadau llesiant lleol.

127. Eir ati isod i ddisgrifio rhai o'r cysylltiadau deddfwriaethol allweddol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Tystiolaeth ar gyfer asesiad llesiant lleol

128. O dan Fil yr Amgylchedd (Cymru), bydd yn ofynnol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a sefydlir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ystyried y datganiadau ardal (o fewn eu hardaloedd) wrth baratoi asesiadau llesiant lleol. Bydd yr Adroddiad am Gyflwr Adnoddau Naturiol yn cael ei ystyried wrth baratoi datganiadau ardal ond bydd Byrddau Gwasanaethau Lleol hefyd yn cael ystyried y dystiolaeth a geir mewn Adroddiad am Gyflwr Adnoddau Naturiol.

Cyfrannu at waith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

129. Bydd CNC yn aelod statudol o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. O dan Fil yr Amgylchedd (Cymru), bydd diben statudol CNC (rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol) yn cael ei ddiweddaru, a bydd y diben hwnnw yn gymwys i'w holl swyddogaethau. Fel aelod o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, bydd CNC yn cyflawni ei swyddogaethau ar y byrddau hynny mewn modd a fydd yn ceisio sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. Bydd,

drwy wneud hynny, yn helpu'r Byrddau Gwasanaethau Lleol i gyflawni eu dyletswydd o ran llesiant.

Amserlennu Dogfennau

130. O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru bennu amcanion o ran llesiant, a bydd yr amserlen ar gyfer gwneud hynny yn cyfateb i'r amserlen ar gyfer paratoi'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol. Felly, bydd Gweinidogion Cymru yn gallu ystyried yr amcanion llesiant wrth baratoi'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol.

131. Bydd yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol yn llywio'r gwaith o baratoi adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol, sef adroddiad y bydd yn ofynnol ei gyhoeddi o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gall adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol, yn ei dro, lywio'r gwaith o baratoi'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol.

132. O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, bydd yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gyhoeddi adroddiadau blynyddol am y cynnydd y byddant wedi ei wneud o ran cyflawni eu hamcanion llesiant. Gallent droi at ddatganiadau ardal i'w helpu yn hynny o beth.

133. Bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn darparu ar gyfer diwygio amcanion llesiant. Os bydd Gweinidogion Cymru yn diwygio eu hamcanion hwy, caiff CNC, yn wirfoddol, ddewis adolygu datganiadau ardal yn unol â'r amcanion llesiant diwygiedig.

134. O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, bydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cyhoeddi adroddiad am yr asesiad o'r gwelliannau y dylai cyrff cyhoeddus eu gwneud er mwyn pennu a chyflawni amcanion llesiant. Gallai CNC droi at yr adroddiad hwnnw wrth fynd ati i baratoi datganiadau ardal.

Y Newid yn yr Hinsawdd (Rhan 2)

Y cefndir

135. Mae Pumed Adroddiad Asesu y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd yn dangos bod consensws gwyddonol pendant mai bodau dynol sy'n achosi'r newid yn yr hinsawdd a'r effeithiau sylweddol sy'n debygol o ddod yn ei sgil[18]. Heb gamau lliniaru ychwanegol, mae'r Panel yn disgwyl i gynhesu byd-eang fod yn uwch na 4°C erbyn diwedd yr 21ain ganrif, gan arwain at risg uchel o effeithiau difrifol, eang na fydd modd eu dadwneud. Bydd yn ychwanegu at y risgiau cyfredol ac yn creu risgiau newydd ar gyfer systemau naturiol a dynol. Nid yw'r risgiau hynny yr un peth i bawb, ac maent, at ei gilydd, yn fwy ar gyfer pobl a chymunedau difreintiedig. Y negeseuon allweddol a gafwyd yn adroddiadau diweddaraf y Panel yw po hwyaf yr arhosir cyn gweithredu, y mwyaf y bydd y costau, ac y bydd oedi yn arwain at yr angen i leihau allyriadau'n llymach er mwyn osgoi lefelau peryglus o newid yn yr hinsawdd.

136. Mae yna fomentwm cynyddol ac ymrwymiad rhyngwladol at ddatgarboneiddio er mwyn cyrraedd targedau o ran y newid yn yr hinsawdd a chyflawni amcanion datblygu cynaliadwy. Mae yna gorff cynyddol o dystiolaeth hefyd – gan gynnwys yr hyn a nodwyd yn adroddiad Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd – sy'n dangos y gallai'r gwledydd hynny sy'n symud yn gynt i gyflawni'r agenda hon gael mantais gystadleuol a datgloi'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â thwf gwyrdd.

137. Ar lefel fyd-eang, y ffocws ar hyn o bryd yw sicrhau cytundeb rhyngwladol cyfreithiol-rwymol newydd i gyfyngu cynhesu byd-eang i 2°C. Bydd y mater hwn yn cael ei drafod yng Nghynhadledd y Partïon (COP) i Gonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd (UNFCCC), a fydd yn cael ei chynnal ym Mharis ddiwedd 2015.

Y sefyllfa bresennol

138. Prif amcan UNFCCC yw "*stabilization of greenhouse gas concentrations in the atmosphere at a level that would prevent dangerous anthropogenic interference with the climate system*". Y cytundeb rhyngwladol cyfredol ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yw Protocol Kyoto 1997, sydd wedi rhoi rhwymedigaeth rwymol ar wledydd diwydiannol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr drwy bennu targedau. Ac yntau wedi llofnodi Protocol Kyoto, ymrwymodd yr UE yn 2007 i sicrhau y byddai allyriadau nwyon tŷ gwydr 20 y cant yn is na lefelau 1990 erbyn 2020 ac 80% yn is erbyn 2050. Mae bellach wedi cyflwyno trywydd clir ar gyfer datgarboneiddio, ac wedi cyflwyno targedau interim allweddol ar gyfer 2020 fel rhan o'i brif bolisi ar gyfer 2020. Yn fwy diweddar, mae'r trywydd hwnnw hefyd wedi llywio gwaith cynllunio er mwyn cyrraedd y targed o 80%, a hynny fel rhan o fframwaith 2030.

139. Mae'r UE wedi defnyddio dulliau deddfwriaethol er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r targedau polisi hyn ac mae'r dulliau hynny i'w gweld yng

[18] *Adroddiad Synthesis IPCC 2014*

Nghyfarwyddeb Masnachu Allyriadau'r UE, y Penderfyniad Rhannu Ymdrech (ar gyfer sectorau nad ydynt yn dod o dan Gynllun Masnachu Allyriadau'r UE), y Gyfarwyddeb Ynni Adnewyddadwy, a'r Gyfarwyddeb Dal a Storio Carbon.

140. Yn y DU, mae'r ymrwymiadau deddfwriaethol allweddol yn cael eu nodi yn Neddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 (Deddf 2008). Mae'r Ddeddf yn cynnwys prif darged o leihau allyriadau'r DU o'r fasged o chwe nwy tŷ gwydr (gyda seithfed i'w ychwanegu'n fuan[19]) 80% o leiaf erbyn 2050. Mae hefyd yn darparu fframwaith ar gyfer pennu terfyn ar y cyfanswm y caiff y DU ei allyrru dros gyfnodau olynol o bum mlynedd (cyllidebau carbon). Roedd y Ddeddf hefyd yn sefydlu Pwyllgor annibynnol ar Newid yn yr Hinsawdd (UKCCC) i gynghori Llywodraeth y DU ar bennu cyllidebau carbon ac i roi rhagor o gyngor i Lywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig (pe baent yn gwneud cais i'r perwyl hwnnw) ar faterion yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd. Cyflwynodd Deddf 2008 ofynion llywodraethu perthnasol, gan gynnwys gofyniad i gyhoeddi adroddiadau, pwerau galluogi i greu cynlluniau masnachu allyriadau a darpariaethau ar ymaddasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

141. A hithau'n un o'r Gweinyddiaethau Datganoledig sy'n cyfrannu at darged lleihau allyriadau'r DU, mae Cymru yn cyfrannu at gyllid yr UKCCC (ar sail fformiwla Barnett). Mae'r UKCCC wedi rhoi cyngor i Gymru er mwyn helpu i nodi ffyrdd costeffeithiol o leihau allyriadau ac o wneud gwaith ymaddasu effeithiol. Mae'r cyngor hwnnw wedi cynnwys dadansoddi'r opsiynau deddfwriaethol ar gyfer targedau lleihau allyriadau a chyllidebau carbon.

142. Mae'r Alban wedi darparu mewn deddfwriaeth ar gyfer targedau newid yn yr hinsawdd, a hynny drwy gyflwyno Deddf Newid yn yr Hinsawdd (yr Alban) 2009. Mae Gogledd Iwerddon wedi cynnal proses cyn ymgynghori am y posibilrwydd o gyflwyno targedau deddfwriaethol[20].

143. Ar hyn o bryd yng Nghymru, mae targedau newid yn yr hinsawdd yn rhan o ymrwymiad polisi hirdymor a amlinellwyd yn y lle cyntaf yn y Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd, a gyhoeddwyd yn 2010. Mae'r bwriad i gyflwyno targedau statudol – ar ben y targed cyfredol ar gyfer 2050 yn Neddf y DU yn 2008 – yn adeiladu ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag achosion a chanlyniadau newid yn yr hinsawdd fel y nodwyd yn y Strategaeth.

144. Cyflwynwyd nifer o dargedau yn y Strategaeth:

(i) gostyngiad blynyddol o 3% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yn y meysydd sydd wedi eu datganoli, o gymharu â gwaelodlin yn seiliedig ar allyriadau cyfartalog rhwng 2006 a 2010;
(ii) gostyngiad o 40% mewn allyriadau cyffredinol o Gymru erbyn 2020 o gymharu â lefelau 1990;
(iii) amrediadau targed ar gyfer lleihau allyriadau o sectorau penodol erbyn 2020:

[19] *Nitrogen Trifflworid*
[20] *Mawrth - Mai 2013*

- Trafnidiaeth: 4.59-4.93 Mt CO2e (miliynau o dunelli metrig o'r hyn sy'n gyfwerth â charbon deuocsid)
- Preswyl: 5.62-5.93 Mt CO2e.
- Busnes (o fewn meysydd lle mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli): 8.23-10.15 Mt CO2e.
- Amaethyddiaeth a defnydd tir: 4.38-5.40 Mt CO2e.
- Y sector cyhoeddus: 0.62-0.84 Mt CO2e
- Y sector gwastraff: 0.77-1.04 Mt CO2e.

145. O dan Ddeddf y DU 2008, mae dyletswyddau ar Weinidogion Cymru eisoes i adrodd am y camau gweithredu a gymerwyd i leihau allyriadau ac i adrodd am y cynnydd a wnaed yn hynny o beth. Er bod peth cynnydd wedi ei wneud o ran cyrraedd y targedau allyriadau hynny, roedd yr Adroddiad Blynyddol diwethaf ar y Newid yn yr Hinsawdd (2014) yn cadarnhau'r neges a gafwyd yn adroddiad y flwyddyn flaenorol (2013), sef y bydd angen gweithredu ymhellach er mwyn cyflawni targedau 2020.

Targed 2050, targedau interim a chyllidebau carbon

Diben y ddeddfwriaeth

146. Mae'r darpariaethau yn y Bil hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflawni targedau statudol hirdymor i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o Gymru. Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod allyriadau net Cymru ar gyfer y flwyddyn 2050 ("targed 2050") o leiaf 80% yn is na'r allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfer eu blynyddoedd gwaelodlin perthnasol (naill ai 1990 neu 1995 fel y nodir yn adran 38 o'r Bil). Mae'r Bil hefyd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i bennu un neu fwy o dargedau allyriadau interim mewn rheoliadau, ynghyd â chyfres o 5 cyllideb carbon flynyddol, gan ddechrau yn 2016. Mae'n rhaid i'r targedau interim a'r cyllidebau garbon fod yn gyson â tharged allyriadau 2050.

147. Mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru fynd ati, drwy gyfrwng rheoliadau, i ddiwygio'r targedau interim a'r cyllidebau carbon a bennwyd o dan y Bil. Fodd bynnag, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu bodloni eu hunain bod unrhyw newidiadau i'r targedau neu'r cyllidebau yn seiliedig ar wybodaeth wyddonol am y newid yn yr hinsawdd, neu ar gyfraith neu bolisi'r UE neu gyfraith neu bolisi rhyngwladol ar y newid yn yr hinsawdd, neu ar gyngor a roddwyd gan y corff cynghori.

148. Mae'r Bil hefyd yn rhestru'r "nwyon tŷ gwydr" i'w cynnwys wrth gyfrifo allyriadau Cymru ac yn darparu bod yr allyriadau hynny yn cael eu cyfrifo a'u cofnodi mewn unedau carbon. Mae'r Bil yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach, drwy reoliadau, ynghylch sut y caiff allyriadau Cymru eu cyfrifo a'u cofnodi ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r fethodoleg a fabwysiedir gyd-fynd ag arferion rhyngwladol ar gyfer adrodd am garbon.

149. Mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio, drwy gyfrwng rheoliadau, y rhestr o nwyon tŷ gwydr, a blynyddoedd gwaelodlin y nwyon hynny.

Yr effaith y bwriedir i'r darpariaethau ei chael

150. Yr effeithiau y bwriedir i'r darpariaethau eu cael yw:
    - Darparu gofyniad deddfwriaethol i sefydlu trywydd clir ar gyfer datgarboneiddio, gan olygu y bydd mwy o sicrwydd wrth wneud benderfyniadau buddsoddi.
    - Nodi sut y bydd allyriadau Cymru yn cael eu cyfrifo a beth fydd ac na fydd yn cael ei gynnwys wrth gyfrifo allyriadau Cymru, a hynny er mwyn sicrhau tryloywder.
    - Sicrhau bod pob cyllideb yn cael ei lleihau fwyfwy er mwyn sicrhau'r gostyngiad hirdymor gofynnol mewn allyriadau, gan sicrhau, wrth gyfrifo cyllidebau, y byddant yn lleihau allyriadau ar gyfradd a fydd yn cyflawni targed 2050.
    - Caniatáu hyblygrwydd, fel y bo modd gwrthbwyso'r angen am newid arafach mewn un maes â chynnydd cyflymach mewn maes arall. Hwyluso methodoleg gadarn a fydd yn ystyried datblygiadau gwyddonol, megis diwygio neu newid pa nwyon tŷ gwydr sy'n cael eu cyfrifo yn ein hallyriadau.
    - Darparu fframwaith adrodd i Lywodraeth Cymru sy'n gyson ag arferion rhyngwladol ar gyfer adrodd am garbon.

Rôl y Corff Cynghori

Diben y ddeddfwriaeth

151. Mae'r darpariaethau yn y Bil ar leihau allyriadau yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt bennu cyllidebau carbon a thargedau interim ar gyfer lleihau allyriadau drwy is-ddeddfwriaeth. Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru geisio cyngor arbenigol, annibynnol cyn mynd ati i bennu neu addasu cyllidebau neu dargedau interim, ychwanegu nwyon tŷ gwydr neu wneud nifer o ddarpariaethau eraill. Mae'r Bil yn sicrhau y bydd Gweinidogion Cymru yn gofyn am gyngor gan gorff cynghori arbenigol. O dan y Bil, caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddynodi person yn gorff cynghori os nad oes corff wedi ei ddynodi eisoes; nodwyd mai'r UKCCC yw'r corff cynghori.

152. Yn ogystal â rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ar bennu neu ddiwygio targedau, cyllidebau neu nwyon tŷ gwydr, bydd gofyn i'r corff cynghori adrodd am y cynnydd a fydd yn cael ei wneud o ran cyflawni cyllideb garbon ar gyfer cyfnod penodol, o ran cyflawni targed interim a tharged 2050. Bydd yn ofynnol hefyd i'r corff cynghori egluro pam y llwyddwyd neu y methwyd â chyflawni targedau neu gyllidebau, a nodi unrhyw gamau ychwanegol y bydd angen eu cymryd er mwyn cyflawni'r targedau.

Yr effaith y bwriedir i'r darpariaethau ei chael

153. Yr effeithiau a fwriedir gan y darpariaethau sy'n ymwneud â'r corff cynghori yw y byddant yn:
    - Rhoi cyngor arbenigol, annibynnol cyn i gyllidebau a thargedau interim gael eu pennu neu eu haddasu a chyn i nwyon tŷ gwydr gael eu hychwanegu. Bydd hynny'n helpu i sicrhau bod ein targedau a'n cyllidebau yn gadarn, yn gredadwy ac yn realistig.
    - Rhoi cyngor ar y cynnydd a fydd wedi ei wneud o ran cyflawni'r cyllidebau a fydd wedi eu pennu, gyda fframwaith y targedau interim a tharged 2050, i helpu i asesu pa gamau gweithredu pellach fydd eu hangen.
    - Rhoi cyngor ar faterion ehangach yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd.
    - Rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru ddynodi corff cynghori gwahanol.

Adrodd am y Newid yn yr Hinsawdd

Diben y ddeddfwriaeth

154. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer nifer o fesurau i sicrhau y bydd gwybodaeth a ddiwedderir yn rheolaidd yn cael ei darparu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am y cynnydd a fydd wedi ei wneud o ran cyflawni'r targedau, ac ynghylch sut y gellir cyflawni'r targedau a'r cyllidebau.

155. Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod y canlynol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol:
    - Datganiad terfynol ar gyfer pob cyfnod cyllidebol o bum mlynedd, gan wneud hynny ymhen dwy flynedd i flwyddyn olaf y cyfnod cyllidebol o dan sylw. Bydd y datganiad hwn yn darparu gwybodaeth am allyriadau Cymru, bydd yn nodi a fydd unrhyw symiau wedi eu dwyn ymlaen neu yn ôl o un cyfnod cyllidebol i'r llall, a bydd yn nodi swm terfynol cyfrif allyriadau net Cymru. Os bydd cyfrif allyriadau net Cymru yn uwch na'r gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod hwnnw, bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru adrodd i'r Cynulliad Cenedlaethol am gynigion a pholisïau i wneud iawn am hynny yn ystod cyfnodau cyllidebol diweddarach.
    - Datganiad ar gyfer pob blwyddyn darged interim ac ar gyfer targed 2050. Rhaid cyflwyno'r datganiad hwnnw ymhen dwy flynedd i'r dyddiad targed, gan ddarparu gwybodaeth am gyfanswm allyriadau Cymru, echdyniadau Cymru, cyfrif allyriadau net Cymru a chyfanswm yr unedau carbon a fydd wedi cael eu eu credydu neu eu debydu i'r cyfrif. Bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru ddatgan hefyd pam y byddant wedi llwyddo neu fethu â chyflawni'r targed.

156. Bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru hefyd gyhoeddi adroddiad yn nodi eu cynigion a'u polisïau ar gyfer cyflawni pob cyllideb garbon.

157. Bydd yn ofynnol hefyd i Weinidogion Cymru hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol os na fyddant wedi cadw at gyngor a gafwyd oddi wrth y corff cynghori am y lefel briodol ar gyfer targed neu gyllideb i'w phennu neu ei diwygio mewn deddfwriaeth. Os bydd Gweinidogion Cymru yn pennu lefel wahanol i'r hyn a gynghorir, bydd yn rhaid iddynt osod datganiad gerbron y Cynulliad

Cenedlaethol yn rhoi eu rhesymau dros wneud hynny. Os bydd y corff cynghori wedi cyhoeddi adroddiad cynnydd ynghylch a fydd y targedau yn cael eu cyflawni ai peidio, bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru osod yr adroddiad hwnnw gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

Yr effaith y bwriedir i'r darpariaethau ei chael

158. Yr effeithiau a fwriedir gan y darpariaethau sy'n ymwneud â'r gofynion adrodd yw:
    - Nodi'r gofynion adrodd allweddol o ran y cynnydd a wneir yng Nghymru, er mwyn sicrhau ein bod ar y trywydd iawn i gyflawni ein targedau.
    - Gwerthuso camau gweithredu hirdymor yn ystod y cam targedau interim er mwyn sicrhau ein bod ar y trywydd iawn i gyflawni'r targedau.
    - Sicrhau bod camau gweithredu pellach yn cael eu nodi a'u cymryd os na fydd y targedau o ran allyriadau yn cael eu cyflawni.
    - Sicrhau tryloywder ac atebolrwydd am y polisïau a'r cynigion y bwriedir iddynt helpu i sicrhau arbedion o ran allyriadau er mwyn cyflawni cyllidebau a thargedau.
    - Cysylltu cyfnodau cyllidebol gyda chylchoedd adrodd Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod pob Llywodraeth olynol yn nodi ei pholisïau a'i chynigion ar gyfer ymdrin â'r newid yn yr hinsawdd ac yn adrodd am y camau weithredu a fydd wedi eu cymryd.

Codi Taliadau am Fagiau Siopa – isafswm taliadau i'w pennu am fathau eraill o fagiau siopa (Rhan 3)

Y cefndir

159. Cafodd Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 eu gwneud o dan adrannau 77 a 90 o, ac Atodlen 6 i, Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008. O dan y Rheoliadau hynny, cafodd isafswm tâl o 5c ei gyflwyno yn y man gwerthu am bob Bag Siopa Untro newydd o 1 Hydref 2011 ymlaen.

160. Diben cyflwyno tâl o'r fath oedd lleihau'r galw am fagiau siopa untro ac annog siopwyr i ailddefnyddio eu bagiau eu hunain er mwyn lleihau'r effaith andwyol y mae cynhyrchu bagiau o'r fath a'u gwaredu mewn ffyrdd amhriodol yn ei chael ar yr amgylchedd. Cyn i'r tâl gael ei gyflwyno am fagiau siopa untro, amcangyfrifwyd bod rhyw 445 miliwn o fagiau siopa untro yn cael eu defnyddio yng Nghymru bob blwyddyn.

161. Mae'r polisi o leihau'r galw am fagiau siopa untro wedi bod yn gryn lwyddiant ac roedd yn ffigurau cychwynnol a ddarparwyd gan fanwerthwyr yn 2012[21] yn dangos bod dros 90% yn llai o fagiau siopa untro yn cael eu cyflenwi mewn rhai sectorau manwerthu. Ategwyd y ffigurau hynny gan ddata Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP)[22] ar gyfer 2013, a oedd yn dangos bod 79% yn llai o fagiau siopa untro wedi eu cyflenwi gan uwchfarchnadoedd mawr yng Nghymru ers 2010. Fodd bynnag, un canlyniad anfwriadol a welwyd yn sgil y gostyngiad yn nifer y bagiau siopa untro a ddefnyddir yw bod mwy o alw am fathau eraill o fagiau siopa amldro, wrth i ddefnyddwyr eu defnyddio yn lle bagiau siopa untro.

162. Ar hyn o bryd, nid yw bagiau siopa amldro o fewn cwmpas Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010, ac nid oes dim yn y pwerau galluogi yn Atodlen 6 i Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 i alluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r Rheoliadau os bydd nifer y bagiau siopa amldro a werthir yn parhau i gynyddu. Dim ond caniatáu i Reoliadau gael eu gwneud mewn perthynas â bagiau siopa untro y mae Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008.

Y sefyllfa bresennol

163. Yn ôl data data Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau[23], bu cynnydd (o ryw 120-130%) rhwng 2010 a 2012 yn nifer y bagiau am oes a werthwyd gan uwchfarchnadoedd yng Nghymru. Gwelwyd cynnydd pellach o 15% rhwng 2012 a 2013.

---

[21] *Llywodraeth Cymru (2012): http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/waste_recycling/substance/carrierbags/reduction/?skip=1&lang=cy*
[22] *WRAP Data (2014): http://www.wrap.org.uk/content/wrap-publishes-new-carrier-bag-use-figures-0*
[23] *http://www.wrap.org.uk/*

164. Er bod ymchwil annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru oddi wrth Zero Waste[24] Scotland wedi dangos bod cyfran sylweddol o siopwyr yng Nghymru (60%) wedi bod yn ailddefnyddio bagiau, mae hefyd wedi dangos bod rhai manwerthwyr yn hyrwyddo gwerthu bagiau plastig amldro sy'n costio rhwng 5 ceiniog a 10 ceiniog ac sydd, fel arfer, yn cael eu galw'n *'bagiau am oes'*.

165. Roeddem yn disgwyl gweld mwy o alw am fagiau siopa amldro yng Nghymru ar ôl i'r tâl gael ei gyflwyno, a hynny wrth i ddefnyddwyr ymgyfarwyddo ag ailddefnyddio eu bagiau a phrynu digon o fagiau amldro at eu hanghenion siopa. Er hynny, mae yna bryderon y gallai defnyddwyr drin math arall o fag siopa (y bag am oes plastig amldro a werthir am bris isel) fel 'bag untro' a'i daflu cyn pryd. Mae cyfnewid fel hyn yn debygol o gael effeithiau andwyol iawn ar yr amgylchedd os gwaredir y mathau hyn o fagiau mewn ffyrdd amhriodol; fel rheol, mae bagiau o'r fath yn cael eu gwneud o ddeunyddiau mwy trwchus ac yn cymryd mwy o amser i bydru.

166. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adolygiad annibynnol o'r cynllun codi tâl am fagiau siopa untro yng Nghymru, a disgwylir i'r adroddiad gael ei gyflwyno ddechrau haf 2015. Bydd yr adolygiad hwnnw'n darparu rhagor o dystiolaeth am ymddygiad defnyddwyr o ran y galw am fagiau siopa amldro ac o ran gwaredu'r bagiau hynny.

Diben y ddeddfwriaeth

167. Diben y darpariaethau hyn yw rhoi pwerau galluogi i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu isafswm tâl am fathau gwahanol o fagiau siopa, yn ychwanegol at y tâl a bennwyd eisoes ar gyfer bagiau siopa untro.

168. Nid oes bwriad polisi i arfer y pwerau hyn i wneud rheoliadau yn syth, a hynny oherwydd nad yw Llywodraeth Cymru am ddeddfu'n ddiangen. Yn lle hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi achub ar y cyfle hwn i estyn y pwerau presennol i wneud rheoliadau a geir yn Neddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 er mwyn sicrhau y bydd modd addasu'r drefn bresennol mewn modd hyblyg a phenodol drwy ddefnyddio Rheoliadau os ceir tystiolaeth yn y dyfodol i ddangos bod angen gwneud hynny. Mae'r dystiolaeth a gafwyd hyd yma yn dangos bod mwy a mwy o alw am fathau eraill o fagiau siopa; er hynny, mae'r cynnydd hwnnw'n parhau i fod o fewn y terfyn disgwyliedig. Byddai mynd ati fel hyn i ddiogelu'r drefn bresennol at y dyfodol yn golygu y byddai Gweinidogion Cymru yn gallu mynd ati, ar ôl i ragor o dystiolaeth gael ei chasglu, i wneud penderfyniad cytbwys ynghylch a fyddai'r cynnydd yn y galw am fathau eraill o fagiau siopa wedi cyrraedd lefelau annerbyniol.

[24] *Astudiaeth ymddygiad ynghylch defnyddio ac ailddefnyddio bagiau siopa (2012): http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/waste_recycling/substance/carrierbags/behaviour-study-on-use-of-carrier-bags-2012/?skip=1&lang=cy*

Yr effaith y bwriedir i'r ddeddfwriaeth ei chael

169. Bydd y ddeddfwriaeth yn:
    - Rhoi mwy o hyblygrwydd i Weinidogion Cymru addasu mewn ymateb i unrhyw dueddiadau a ddaw i'r amlwg ymhlith defnyddwyr neu mewn ymateb i unrhyw ganlyniadau anfwriadol a welir o ganlyniad i'r drefn codi tâl am fagiau siopa untro.
    - Caniatáu i ymyriadau deddfwriaethol ymatebol ac integredig gael eu datblygu wrth i dystiolaeth am yr angen ddod i'r amlwg.

170. Byddai codi isafswm tâl am fathau eraill o fagiau hefyd yn fodd i wneud iawn am unrhyw 'fethiannau yn y farchnad' oherwydd yr allanolderau negyddol sy'n gysylltiedig â chynhyrchu a gwaredu'r bagiau hyn. Mae allanolderau neu effeithiau allanol negyddol, er enghraifft, allyriadau a sbwriel sy'n gysylltiedig â chynhyrchu a gwaredu bagiau siopa, i'w gweld pan fo defnyddio neu gynhyrchu nwydd neu wasanaeth yn arwain at gost ychwanegol i gymdeithas nad yw'n cael ei hadlewyrchu yn y pris a delir gan yr unigolyn preifat.

171. Gan nad yw'r pris y mae defnyddwyr yn ei dalu am fagiau amldro o reidrwydd yn adlewyrchu'r hyn y mae'r bag yn ei gostio i gymdeithas, mae'n bosibl y gallai'r defnydd a wneir o'r bagiau hynny godi'n uwch na'r lefel a fyddai orau i gymdeithas, yn arbennig wrth i ddefnyddwyr droi at fathau eraill o fagiau yn lle bagiau siopa untro o ganlyniad i'r tâl o bum ceiniog. Byddai cyflwyno isafswm tâl yn fodd i gau bwlch lle y mae'n gyfreithlon i fanwerthwyr roi bagiau siopa yn rhad ac am ddim ar yr amod nad ydynt yn fagiau siopa untro. Gallai hefyd leihau'r galw am fathau eraill o fagiau os bernir bod y niferoedd a ddefnyddir yn uwch na'r lefelau a fyddai orau i gymdeithas.

Codi Tâl am Fagiau Siopa – Cymhwyso'r enillion net o'r tâl at unrhyw achos da

Y cefndir

172. Mae Atodlen 6 i Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008, fel y'i diwygiwyd gan Fesur Gwastraff (Cymru) 2010, yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol, drwy reoliadau, i werthwyr gymhwyso'r enillion net o'r tâl am fagiau siopa at ddibenion a fydd o fudd i'r amgylchedd.

173. Nid yw'r pŵer hwn wedi ei arfer hyd yma, oherwydd y polisi sy'n cael ei ffafrio yw ennyn cydweithrediad y gwerthwyr drwy eu hannog i gymhwyso'r enillion at achosion da drwy gytundeb gwirfoddol. Mae gwerthwyr wedi cael gwahoddiad i gytuno i'r egwyddorion arweiniol yng nghytundeb gwirfoddol Llywodraeth Cymru ond yn gyfreithiol, mae rhwydd hynt iddynt gymhwyso'r enillion fel y gwelant yn dda.

Y sefyllfa bresennol

174. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn monitro faint sy'n llofnodi'r cod gwirfoddol drwy gyfrwng y ffurflen sydd ar gael i fanwerthwyr ar y wefan Bagiau

Siopa[25]. Ers i'r tâl gael ei gyflwyno, mae 256 o fanwerthwyr wedi llenwi'r ffurflen hon ar-lein. Rydym yn cydnabod nad yw'r wybodaeth honno'n gyflawn ac mai dim ond rhan o'r darlun yr ydym yn ei weld, a hynny oherwydd ein bod yn dibynnu ar fanwerthwyr i lenwi'r ffurflen. Yn ogystal â'r wybodaeth a ddarparwyd gan y rheini sydd wedi llofnodi'r cod gwirfoddol yn ffurfiol, casglwyd tystiolaeth sy'n dangos bod nifer o fanwerthwyr wedi rhoi enillion net y tâl i achosion da er eu bod heb lofnodi'r cod gwirfoddol.

175. Nod y cod gwirfoddol oedd hyrwyddo cysondeb ar draws Cymru o ran sut y mae gwerthwyr yn gweithredu, a hefyd sicrhau nad oedd gwerthwyr unigol yn elwa'n bersonol ar y tâl.

176. Er ei bod yn glir bod llawer o werthwyr yn rhoi'r enillion net o'r tâl i achosion da, mae Llywodraeth Cymru yn bryderus y gallai rhai gwerthwyr fod yn elwa ar yr enillion o'r tâl am fagiau siopa untro.

177. Hefyd, o dan y gyfraith bresennol, yr unig beth y gallai Gweinidogion Cymru ei wneud fyddai ei gwneud yn ofynnol i werthwyr gymhwyso'r enillion at achosion da amgylcheddol. O'r herwydd, byddai'n rhaid i werthwyr sydd, ar hyn o bryd, yn rhoi eu henillion i achosion sydd heb fod yn rhai amgylcheddol, megis achosion lleol ac elusennau sy'n gysylltiedig ag iechyd, newid eu trefniadau presennol gan darfu ar y berthynas sy'n bodoli eisoes rhwng y gwerthwyr hynny ac achosion da.

Diben y ddeddfwriaeth

178. Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar werthwyr i gymhwyso'r enillion net o'r tâl am fagiau siopa i achosion da, fel y pennir yn y Rheoliadau. Bydd hynny'n fodd i sicrhau bod yr holl enillion net o fagiau siopa y ceir codi tâl amdanynt yn cael eu rhoi i achosion da. O ganlyniad, ni fydd gan werthwyr bellach yr opsiwn o gadw'r enillion drwy optio allan o'r cytundeb gwirfoddol presennol.

179. Mae'r Bil hefyd yn dileu'r cyfyngiad ym mharagraff 4A o Atodlen 6 i Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 fel y bo gwerthwyr yn cael cymhwyso'r enillion net at unrhyw ddiben elusennol, fel y pennir mewn rheoliadau, ac nid dim ond at achosion da amgylcheddol. Diben y diwygiad hwn yw sicrhau, pan osodir y ddyletswydd ar werthwyr i gymhwyso'r enillion net o'r tâl at achosion da, na fydd yn tarfu ar drefniadau'r gwerthwyr hynny sy'n rhoi'r enillion net o'r tâl i achosion da ar hyn o bryd. Os nad yw gwerthwyr yn rhoi eu henillion net i achosion da ar hyn o bryd, bydd yn ofynnol iddynt wneud hynny yn y dyfodol, ond bydd y rheini sydd yn rhoi eu henillion net i achosion da eisoes yn gallu parhau i wneud hynny heb darfu ar unrhyw berthynas sydd ganddynt eisoes ag achosion da nad ydynt yn rhai amgylcheddol.

Yr effaith y bwriedir i'r ddeddfwriaeth ei chael

180. Bydd y ddeddfwriaeth yn fodd i ddarparu ar gyfer ymyriad deddfwriaethol cymesur a fydd yn:

[25] *http://www.carrierbagchargewales.gov.uk/retailers/bagsnotincluded/?skip=1&lang=cy*

- Sicrhau bod yr enillion net o'r tâl am fagiau siopa yn cael eu defnyddio at achosion da yn hytrach nag yn cael eu cadw gan yn gwerthwyr.
- Galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu, drwy gyfrwng rheoliadau, sut y ceir cymhwyso'r enillion net o'r tâl mewn modd na fydd yn torri ar draws unrhyw berthynas sy'n bodoli eisoes rhwng gwerthwyr a'r achosion da a ddewsiwyd ganddynt.
- Effeithio'n unig ar y gwerthwyr hynny nad ydynt yn rhoi'r enillion net o'r tâl i achosion da ar hyn o bryd.

181. Yr effaith fyddai gosod dyletswydd ar y rheini sy'n gwerthu bagiau siopa i gymhwyso eu henillion net at achosion da fel y pennir mewn Rheoliadau ar ôl i'r Ddeddf gael ei chychwyn. Byddai'r pwerau sydd yn Rhan 2 o'r Bil hefyd yn caniatáu i werthwyr gymhwyso'r enillion hynny at achosion da amgylcheddol a hefyd at achosion da sydd heb fod yn rhai amgylcheddol, er mwyn peidio â tharfu ar unrhyw berthynas sydd ganddynt eisoes â'r achosion da a ddewiswyd ganddynt.

Casglu a Gwaredu Gwastraff (Rhan 4)

Y cefndir

182. Mae ailgylchu ac adfer mwy o wastraff yn un o'r nodau allweddol mewn polisïau a deddfwriaeth Ewropeaidd a hefyd ym mholisïau Llywodraeth Cymru. Yn eu plith y mae:
    - Tuag at Ddyfodol Diwastraff (y strategaeth wastraff ar gyfer Cymru)
    - Y Rhaglen Lywodraethu
    - Strategaeth Amgylcheddol Cymru a Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd
    - Egwyddorion y Gyfarwyddeb Fframwaith Ewropeaidd a 7fed Rhaglen yr UE ar Weithredu ar yr Amgylchedd

183. Bydd ailgylchu ac adfer mwy o wastraff yn cefnogi nodau cyffredinol y Bil (a nodir yn y Memorandwm Esboniadol hwn) drwy helpu i reoli adnoddau'n effeithiol ac y bydd hynny, yn ei dro, yn helpu i leihau'r pwysau ar adnoddau naturiol ac yn cyfrannu ar yr un pryd at ganlyniadau cadarnhaol i'r economi, swyddi, a'r amgylchedd yng Nghymru drwy:
    - Arbed costau i fusnesau drwy osgoi'r dreth dirlenwi.
    - Gwneud busnesau'n fwy cystadleuol drwy leihau costau deunyddiau.
    - Creu mwy o waith i bobl drwy greu swyddi ym maes casglu ac ailbrosesu gwastraff.
    - Cefnogi mwy o gyfleoedd i greu ynni adnewyddadwy o wastraff a gynhyrchir gan fusnesau.
    - Rhoi mwy o sicrwydd i'n sector gweithgynhyrchu o ran y cyflenwad o adnoddau a fydd ar gael.
    - Helpu i sbarduno twf gwyrdd a datblygu economi gylchol i Gymru drwy annog busnesau gweithgynhyrchu yng Nghymru i ddefnyddio deunyddiau eildro a gesglir yng Nghymru.
    - Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.
    - Lleihau ôl troed ecolegol Cymru.

184. Dyma faint o wastraff a gynhyrchir yng Nghymru:

Ffrwd Wastraff	Faint (miliynau o dunelli)
Gwastraff o gartrefi[26]	1.4
Diwydiannol a Masnachol[27]	3.7
Adeiladu a Dymchwel[28]	3.4

185. Mae Strategaeth Wastraff Cymru, Tuag at Ddyfodol Diwastraff, yn gosod targedau ar gyfer ailgylchu gwastraff:

[26] *http://gov.wales/statistics-and-research/local-authority-municipal-waste-management/?skip=1&lang=cy ffigurau 2013/14*
[27] *Arolwg o Wastraff Diwydiannol a Masnachol a gynhyrchwyd yng Nghymru 2012 – Cyfoeth Naturiol Cymru (2014)*
[28] *Arolwg o Wastraff Adeiladu a Dymchwel a gynhyrchwyd yng Nghymru 2012 (2014)*

- Targed o ailgylchu 70% o'r gwastraff o gartrefi ac o fusnesau masnachol a diwydiannol erbyn 2025.
- Targed o ailgylchu 90% o'r gwastraff o weithgareddau adeiladu a dymchwel erbyn 2019/2020.

186. Mae cynnydd wedi'i wneud o ran ailgylchu, yn enwedig gwastraff o gartrefi. Fodd bynnag, er gwaethaf y cynnydd hwnnw, mae deunyddiau y gellir eu hailgylchu yn parhau i gael eu claddu mewn safleoedd tirlenwi. Mae cryn dipyn o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu yn parhau i gael eu cymysgu â gwastraff nad oes modd ei ailgylchu, ac mae hynny'n lleihau ei werth ac yn golygu nad oes modd ei ddefnyddio fel ffynhonnell o ddeunydd mewnbwn uchel ei ansawdd ar gyfer diwydiant. Er mwyn sicrhau bod gwerth uchel iddynt fel adnodd, mae'n hanfodol bod deunyddiau y gellir eu hailgylchu yn cael eu gwahanu oddi wrth fathau eraill o wastraff, a hynny yn y tarddle. Mae hynny'n fodd i gefnogi'r galw yn y farchnad am ddeunyddiau eildro o ansawdd a gwerth uchel, a dyna'r ffordd orau o sicrhau cyfraddau ailgylchu uchel a manteision economaidd ehangach.

Y sefyllfa bresennol

187. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio tuag at sefyllfa lle bydd llawer o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu yn cael eu gwahanu. Bydd deunyddiau y gellir eu hailgylchu naill ai'n cael eu gwahanu gan y sawl sy'n cynhyrchu'r gwastraff neu'n cael eu didoli ar garreg y drws gan weithwyr y cerbydau casglu a'u rhoi mewn adrannau gwahanol o'r cerbydau hynny. Ar hyn o bryd, mae llawer o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu yn cael eu claddu mewn safleoedd tirlenwi neu'n cael eu cymysgu â mathau eraill o wastraff cyn mynd yn eu blaen i'r cyfleuster lle cânt eu gwahanu. Mae hynny'n arwain at groeshalogi ac at gynhyrchu deunyddiau eildro is eu hansawdd.

Casglu ar wahân

188. O dan Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011, mae gofyn casglu 4 deunydd (papur, cerdyn, plastig a metel) ar wahân os yw hynny'n ymarferol yn dechnegol, yn economaidd ac yn amgylcheddol, ac os yw'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â gofynion perthnasol y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff. Nid yw'n ofynnol i sefydliadau ac ymgymerwyr sy'n casglu gwastraff gasglu unrhyw ddeunyddiau ac eithrio'r rhain ar wahân.

Gwastraff yn cael ei wahanu gan y sawl sy'n cynhyrchu'r gwastraff

189. O dan y trefniadau presennol, nid oes unrhyw ofyniad uniongyrchol ar fusnesau sy'n cynhyrchu gwastraff i wahanu eu deunyddiau gwastraff cyn iddynt gael eu casglu. Gall rhai awdurdodau lleol ei gwneud yn ofynnol (o dan adran 46 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990) i'r rheini sy'n cynhyrchu gwastraff cartref ei wahanu a'i roi yn y cynhwyswyr a ddarperir gan yr Awdurdod.

Ynni o Wastraff a gwaharddiadau ar anfon deunyddiau allweddol i safleoedd tirlenwi

190. Ar hyn o bryd, mae cyfleusterau Ynni o Wastraff a chyfleusterau tirlenwi yn cael derbyn gwastraff y gellir ei ailgylchu. Mae'r rhain yn opsiynau llai cynaliadwy nag ailgylchu ar gyfer gwastraff y mae modd ei ailgylchu.

Gwaredu gwastraff bwyd i garthffosydd

191. Ar hyn o bryd, yn ddarostyngedig i gyfyngiadau yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991, ceir gwaredu gwastraff bwyd drwy ei anfon i garthffosydd, a hynny fel arfer drwy dechnoleg megis unedau gwaredu gwastraff bwyd. Mae hwn yn opsiwn llai cynaliadwy na thechnolegau eraill, er enghraifft, treulio anaerobig, sy'n cynhyrchu ynni a gwrtaith o ansawdd uchel o wastraff bwyd.

Diben y ddeddfwriaeth

192. Mae'r Bil yn cyflwyno trefniadau newydd ar gyfer gwahanu a chasglu gwastraff, a hynny mewn perthynas â'i gynhyrchu a'r gwasanaethau i'w gasglu. Diben cyffredinol y polisi yw sicrhau newid sylweddol o ran ailgylchu ac adfer gwastraff yng Nghymru drwy:
    - Sicrhau bod cymaint ag y bo modd o ddeunyddiau ar gael i'w hailgylchu, gan gynnwys gwastraff bwyd.
    - Gwella ansawdd y deunyddiau sydd ar gael i'w hailgylchu.
    - Sicrhau nad yw deunyddiau y gellid bod wedi eu hailgylchu yn cael eu gwastraffu.
    - Diogelu'r amgylchedd drwy sicrhau mai dim ond ffrydiau gwastraff gweddilliol sy'n cael eu gwaredu mewn safleoedd tirlenwi neu sy'n cael eu llosgi.
    - Rhoi mwy o sicrwydd o ran buddsoddi mewn seilwaith i ailgylchu, casglu a thrin gwastraff.
    - Hefyd, lleihau'r posibilrwydd y bydd gwastraff bwyd yn blocio neu'n cau carthffosydd.

193. Bydd y darpariaethau yn y Bil yn gymwys yn ystod camau gwahanol o'r gadwyn rheoli gwastraff – yn y man lle mae'r gwastraff yn cael ei gynhyrchu, yna gyda'r cwmni casglu gwastraff, ac yna yn ystod y camau gwahanol o'i drin ac yna'i waredu neu ei adfer yn derfynol (megis mewn cyfleusterau troi gwastraff yn ynni). Bwriedir i'r cynigion hyn ategu ei gilydd fel y bo modd mynd ati mewn ffordd integredig a chymesur i wahanu deunyddiau gwastraff adferadwy, a'u hailgylchu neu eu hadfer yn hytrach na'u gwaredu, gan sicrhau, drwy wneud hynny, bod adnoddau sy'n deillio o wastraff yn cael eu defnyddio mewn modd mwy effeithlon.

194. Bydd y darpariaethau hefyd yn gweithredu ar y cyd â'r gwaharddiadau ar anfon mathau penodol o wastraff i safleoedd tirlenwi, a fydd yn cael eu cyflwyno o dan ddarpariaethau presennol Mesur Gwastraff (Cymru) 2010. Bydd gwaharddiadau ar anfon mathau penodol o wastraff i safleoedd tirlenwi yn golygu na fydd deunyddiau gwerthfawr y gellir eu hailgylchu yn cael eu colli, a

bydd hefyd yn diogelu'r amgylchedd rhag yr effaith y mae anfon deunyddiau bioddiraddiadwy i safleoedd o'r fath yn ei chael ar y newid yn yr hinsawdd.

195. Dyma nodau'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â'r agwedd hon ar bolisi:

- Drwy fynnu bod **gwastraff yn cael ei wahanu gan y rheini sy'n ei gynhyrchu**, bydd modd sicrhau bod deunyddiau glân dihalog y gellir eu hailgylchu yn cael eu gwahanu cyn iddynt symud ymlaen i ran nesaf y broses. Bydd pris uwch yn cael ei chynnig am ddeunyddiau o'r fath yn y marchnadoedd ailgylchu ac mae'n bosibl y bydd busnesau a fydd yn gwahanu eu gwastraff yn gweld y byddant yn gallu lleihau eu costau casglu a gwaredu gwastraff. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori yn y gorffennol ar gynigion i'w gwneud yn ofynnol i'r rheini sy'n cynhyrchu gwastraff annomestig wahanu 7 math o ddeunydd cyn iddo gael ei gasglu – papur, cerdyn, plastig, metel, gwydr, bwyd a phren (mae rhagor o fanylion i'w gweld ym Mhennod 4). Mae'n bosibl y bydd angen ychwanegu neu ddileu deunyddiau penodedig os daw tystiolaeth i'r amlwg yn y dyfodol i ddangos bod angen gwneud hynny.

- Drwy fynnu bod **gwastraff yn cael ei gasglu ar wahân**, bydd modd sicrhau bod gwasanaeth llawn ar gael lle y bydd deunyddiau y gellir eu hailgylchu, ac a wahanwyd, yn cael eu casglu ar wahân oddi wrth y rheini sy'n cynhyrchu'r gwastraff. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori yn y gorffennol ar estyn y ddyletswydd bresennol sydd ar gasglwyr gwastraff o dan Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 fel y bo deunyddiau ychwanegol (cerdyn, pren a bwyd) yn cael eu casglu ar wahân (mae rhagor o fanylion i'w gweld ym Mhennod 4). Mae'r Bil yn dileu'r gofyniad presennol yn y Rheoliadau hynny ac yn ei gwneud yn ofynnol yn lle hynny i amrywiaeth ehangach o ddeunyddiau gael eu casglu ar wahân. Mae'n bosibl y bydd angen ychwanegu neu ddileu deunyddiau penodedig os daw tystiolaeth i'r amlwg yn y dyfodol i ddangos bod angen gwneud hynny.

- Bydd **gwaharddiadau ar Ynni o Wastraff** yn sicrhau na fydd deunyddiau/adnoddau gwerthfawr y gellir eu hailgylchu yn cael e llosgi. Byddant yn ategu'r dyletswyddau i wahanu deunyddiau a'u casglu ar wahân – ni fydd gwastraff gweddilliol a fydd yn cynnwys deunyddiau penodedig yn cael ei dderbyn mewn cyfleusterau Troi Ynni yn Wastraff. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori yn y gorffennol ar wahardd 7 math o ddeunydd o gyfleusterau Troi Ynni yn Wastraff – papur, cerdyn, plastig, metel, gwydr, bwyd a phren. Mae'n bosibl y bydd angen ychwanegu neu ddileu deunyddiau penodedig os daw tystiolaeth i'r amlwg yn y dyfodol i ddangos bod angen gwneud hynny.

- Bydd **gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd i garthffosydd** o fangreoedd annomestig yn fodd i sicrhau y bydd mwy o wastraff bwyd ar gael i'w drin a'i ddefnyddio mewn ffordd fuddiol yn hytrach na'i fod yn cael ei waredu. Bydd y gwastraff yn cael ei gadw a'i drin drwy gael ei dreulio'n anaerobig, gan greu ffynhonnell hanfodol o ynni adnewyddadwy a gwrtaith o ansawdd uchel. Ymhlith y manteision eraill tebygol y mae llai o risg y

bydd carthffosydd yn cael eu blocio neu'n gorlifo, llai o risg o lygredd amgylcheddol, ogleuon a phlâu o gnofilod.

Yr effaith y bwriedir i'r ddeddfwriaeth ei chael

196. Bydd y ddeddfwriaeth yn arwain at:
    - Gynnydd ym maint ac ansawdd y deunyddiau a fydd ar gael i'w hailgylchu yng Nghymru.
    - Diogelu'r amgylchedd yn well oherwydd dim ond ffrydiau gwastraff gweddilliol a fydd yn cael eu gwaredu yn y pen draw mewn safleoedd tirlenwi neu a fydd yn cael eu llosgi.
    - Mwy o sicrwydd o ran buddsoddi mewn seilwaith i ailgylchu, casglu a thrin gwastraff.
    - Manteision canlyniadol i'r economi, swyddi a'r amgylchedd.

Pysgodfeydd ar gyfer Pysgod Cregyn (Rhan 5)

Y cefndir

197. Gall pysgodfeydd cregyn fod yn ffordd werthfawr o reoli adnoddau morol mewn modd sy'n helpu i sicrhau rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol.

198. Mae deddfwriaeth benodol sy'n annog sefydlu a rheoli pysgodfeydd cregyn preifat a naturiol. O dan y ddeddfwriaeth honno (Deddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967), mae gorchmynion a elwir yn Orchmynion Pysgodfeydd Unigol a Gorchmynion Rheoleiddio yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi hawliau pysgota neu reoli neilltuedig o fewn ardal ddynodedig yng Nghymru.

199. Mae Gorchymyn Pysgodfa Unigol yn caniatáu i'r unigolyn y rhoddir y bysgodfa honno iddo ("y Grantî") sefydlu a/neu wella a ffermio ecosystemau sydd eisoes yn bod, ac ecosystemau a gyflwynwyd, er ei fudd economaidd ei hun. Yn aml, caiff cyfleoedd cyflogaeth eu creu mewn lleoliadau gwledig anghysbell fel rhan o'r broses honno. Mae Gorchymyn Rheoleiddio yn galluogi'r Grantî i reoleiddio ecosystemau sydd eisoes yn bod, ynghyd ag ecosystemau a gyflwynwyd. Gwneir hynny'n aml drwy system o roi hawlenni i bobl eraill bysgota am y pysgod cregyn penodedig. Mae Gorchmynion Rheoleiddio, felly, yn cael eu defnyddio'n aml i reoli pysgodfeydd.

200. Pan ganiateir gorchymyn newydd, gall hynny arwain at oblygiadau pwysig i bartïon eraill ac i'r amgylchedd, felly mae'r broses ymgeisio yn un fanwl a thrwyadl iawn. Rhaid dilyn gweithdrefn ffurfiol er mwyn sicrhau bod safbwyntiau pawb yn cael eu hystyried.

Y sefyllfa bresennol

201. Ar hyn o bryd, cymharol ychydig o Orchmynion Pysgodfeydd Unigol neu Orchmynion Rheoleiddio sy'n weithredol yng Nghymru, a phrin hefyd yw'r ceisiadau am orchmynion o'r fath. Nid yw'r potensial llawn sydd gan Orchmynion o'r fath yn cael ei wireddu ar hyn o bryd oherwydd problemau sy'n rhan annatod o'r ddeddfwriaeth bresennol ac oherwydd problemau o ran gweithredu'r ddeddfwriaeth honno mewn modd sy'n cydymffurfio â threfniadau deddfwriaethol eraill (megis deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r amgylchedd). Mae hynny'n golygu bod cyfleoedd wedi eu colli i greu gwaith yn lleol ac i wella'r amgylchedd.

202. Mae'r rhan fwyaf o'r gwelyau pysgod cregyn hyfyw yng Nghymru naill ai mewn ardaloedd, neu gerllaw ardaloedd, a ddynodwyd naill ai'n Ardaloedd Cadwraeth Arbennig neu'n Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig. Gelwir yr ardaloedd hyn, gyda'i gilydd, yn Safleoedd Morol Ewropeaidd.

203. Wrth weithredu'r drefn Gorchmynion Pysgodfeydd Unigol a Gorchmynion Rheoleiddio o dan Ran 1 o Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967, rhaid gwneud hynny mewn modd sy'n cydymffurfio â'r rhwymedigaethau amgylcheddol sydd ar Weinidogion Cymru, gan gynnwys y rheini a osodir arnynt gan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC) a

Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (O.S. Cymru a Lloegr 2010/490). Mae gweithredu'r ddwy drefn hyn, sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd ond sydd, yn aml, yn ôl pob golwg, yn gwrthdaro â'i gilydd, wedi bod yn anodd iawn yn ymarferol.

204. Pan fo pysgodfa arfaethedig mewn Safle Morol Ewropeaidd neu'n agos i safle o'r fath yng Nghymru, rhaid i Weinidogion Cymru asesu a yw'r bysgodfa'n debygol o gael effaith sylweddol (naill ai ar ei phen ei hun neu ar y cyd â phrosiectau eraill yn yr ardal) ar y Safle Morol Ewropeaidd. Os yw'n debygol o gael effaith sylweddol ar y safle, ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y gorchymyn arfaethedig nes y byddant wedi llwyddo i gadarnhau, y tu hwnt i bob amheuaeth wyddonol resymol, na fydd y bysgodfa arfaethedig yn cael unrhyw effaith andwyol ar gyflwr y safle perthnasol, a hynny tra pery'r Gorchymyn. Yr enw ar y broses hon yw Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

205. Er mwyn cael y sicrwydd angenrheidiol o ran yr amgylchedd, mae angen, yn aml, cyfyngu ar y technegau pysgota drwy gynnwys amodau neu gyfyngiadau ar wyneb Gorchymyn (fel y bo modd gorfodi'r amodau a'r cyfyngiadau hynny). Fodd bynnag, mae nifer o broblemau'n gysylltiedig â hynny hefyd, yn benodol felly am nad yw'n cynnig unrhyw hyblygrwydd o ran sut y caiff pysgodfa ei rhedeg dros y blynyddoedd y bydd y Gorchymyn yn ddilys. Mae'n bosibl y bydd angen addasu'r technegau hynny o dro i dro er mwyn rhedeg y bysgodfa yn y ffordd fwyaf effeithlon sy'n sicrhau nad yw'n achosi niwed i amgylchedd y môr.

206. Bydd y newidiadau arfaethedig i Ddeddf 1967 yn helpu, felly, i sicrhau mwy o hyder o ran cydymffurfio â'r rhwymedigaethau amgylcheddol sydd ar Weinidogion Cymru, gan sicrhau, ar yr un pryd, bod cyfleoedd cynaliadwy ac economaidd yn cael eu creu mewn pysgodfeydd cregyn yng Nghymru.

Diben y ddeddfwriaeth

207. Oherwydd bod y darpariaethau yn Neddf 1967 mor anhyblyg ar hyn o bryd ac oherwydd y rhwymedigaethau amgylcheddol sydd ar Weinidogion Cymru, bydd Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn diwygio Rhan 1 o Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967 fel a ganlyn:

- Bydd Gweinidogion Cymru yn cael pŵer newydd i roi Hysbysiad Gwarchod Safle a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Grantî gymryd unrhyw gamau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu barnu'n angenrheidiol er mwyn osgoi unrhyw niwed i Safle Morol Ewropeaidd yn sgil gweithredu'r bysgodfa cregyn. Bydd Trefn Apelio briodol yn cael ei sefydlu hefyd mewn perthynas â gweithdrefnau Hysbysiadau Gwarchod Safle.

- Os bydd Hysbysiad Gwarchod Safle wedi ei roi, a'r Hysbysiad hwnnw heb ei ganslo, ac os na fydd apêl wedi ei chyflwyno yn ei erbyn neu os na ddisgwylir apêl, bydd gan Weinidogion Cymru bŵer newydd i ddiwygio neu ddirymu'r Gorchymyn Pysgodfa Unigol neu'r Gorchymyn Rheoleiddio ei hun, ond dim ond er mwyn adlewyrchu'r effaith y bydd y ffurf derfynol ar yr Hysbysiad Gwarchod Safle yn ei chael.

- Bydd rheidrwydd ar Weinidogion Cymru i gynnwys mewn Gorchymyn Pysgodfa Cregyn arfaethedig unrhyw ddarpariaeth y barnant y bydd ei hangen er mwyn sicrhau na fyddai'r bysgodfa o dan sylw yn achosi niwed i Safle Morol Ewropeaidd nac i amgylchedd y môr yn fwy cyffredinol.

- Ni fydd angen bellach i Weinidogion Cymru ddefnyddio Gorchymyn Statudol er mwyn pennu ffurf a chynnwys cais am Orchymyn Pysgodfa Cregyn. Yn y dyfodol, bydd Gweinidogion Cymru, yn syml ddigon, yn cael pennu'r gofynion perthnasol ar gyfer gwneud cais o'r fath. Bydd pŵer gan Weinidogion Cymru hefyd i'w gwneud yn ofynnol i'r ymgeiswyr gyflwyno'r cyfryw wybodaeth ag y barna Gweinidogion Cymru y bydd ei hangen er mwyn cefnogi cais am Orchymyn Pysgodfa Cregyn. Bydd y pwerau newydd hyn yn caniatáu mwy o hyblygrwydd a byddant yn helpu i sicrhau y bydd Gweinidogion Cymru yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth fwyaf perthnasol a diweddar a fydd ar gael pan fyddant yn ystyried cais am Orchymyn Pysgodfa Cregyn.

Yr effaith y bwriedir i'r ddeddfwriaeth ei chael

208. Bydd y ddeddfwriaeth yn golygu:
    - y bydd mwy o hyder o ran cydymffurfio â'r rhwymedigaethau amgylcheddol sydd ar Weinidogion Cymru.
    - y bydd cyfleoedd cynaliadwy ac economaidd mewn pysgodfeydd cregyn yng Nghymru.
    - y bydd cyfle i roi Gorchmynion Pysgodfeydd Unigol neu Orchmynion Rheoleiddio am gyfnodau hirach nag ar hyn o bryd. Bydd hynny'n rhoi mwy o hyder i'r grantî yn ei fuddsoddiad ac yn ei allu i redeg busnes llwyddiannus. Gobeithio y bydd yn arwain at sefydlogrwydd a thwf yn y diwydiant ac y bydd hynny, yn ei dro, yn arwain at fanteision cysylltiedig i economi Cymru.

Trwyddedu Morol (Rhan 6)

Y cefndir

209. Darparodd Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 un system drwyddedu ar gyfer y rhan fwyaf o ddatblygiadau ar y môr. Un o ganlyniadau anfwriadol y Ddeddf honno oedd nad yw'r pwerau codi tâl sydd ar gael i'r awdurdod trwyddedu morol mor eang ag o dan y system drwyddedu yr oedd yn ei disodli, sef Rhan 2 o Ddeddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985. Roedd y Ddeddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd yn caniatáu i'r awdurdodau trwyddedu adennill y costau sy'n gysylltiedig ag amrywio trwyddedau ac â gwaith monitro ar ôl i drwyddedau gael eu rhoi ond nid yw Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir yn caniatáu hynny.

210. Nid yw Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir yn rhoi pwerau codi tâl i'r awdurdod trwyddedu morol yng Nghymru mewn perthynas â chostau cyn ymgeisio; nac ychwaith mewn perthynas â chostau sy'n gysylltiedig â monitro trwydded forol, sy'n cynnwys asesu adroddiadau monitro, sicrhau bod y trwyddedai wedi cyflawni unrhyw amodau a chydymffurfio ag unrhyw ofynion. Ni chaiff drosglwyddo trwydded ychwaith; nac amrywio trwydded, ei hatal dros dro neu ei dirymu.

211. Roedd yr ymgynghoriad a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2013 ynglŷn â'r cynigion am y Bil yn amlinellu'r cynigion ar gyfer ffioedd a thaliadau morol – sef estyn cwmpas y pwerau codi tâl ar gyfer trwyddedu morol, a hynny ar sail yr egwyddor o adennill mwy o gostau (mae rhagor o fanylion i'w gweld ym Mhennod 4).

Y sefyllfa bresennol

212. Yn unol ag adran 98 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, mae swyddogaethau Gweinidogion Cymru o ran trwyddedu morol wedi eu dirprwyo i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), er mwyn i'r corff hwnnw weinyddu'r system trwyddedu morol yng Nghymru[29]. Oherwydd cyfyngiadau'r pwerau codi tâl presennol, mae swm y ffioedd a gesglir yn llai na'r gwariant angenrheidiol a dynnir gan CNC wrth arfer swyddogaethau'r awdurdod trwyddedu.

213. Ar hyn o bryd, nid yw CNC yn cael codi tâl am yr holl wasanaethau a ddarperir ganddo mewn perthynas â thrwyddedu morol. Nid yw'r sefyllfa honno'n un gynaliadwy. Os nad eir ati i ddatrys y bylchau yn y pwerau codi tâl, bydd yn arwain, yn y pen draw, at sefyllfa lle bydd llai o wasanaethau ar gael i geiswyr yng Nghymru.

214. Mae'r ffioedd presennol a godir am geisiadau yn cael eu nodi yn Rheoliadau Trwyddedu Morol (Ffioedd am Geisiadau) (Cymru) 2011[30] (Rheoliadau Ffioedd 2011). Mae'r pwerau galluogi ar gyfer y Rheoliadau hynny i'w gweld o dan adran 67 (2) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir. Mae pwerau hefyd i godi

[29] *http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2013/414/contents/made*
[30] *http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/555/contents/made*

ffioedd o dan Reoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (fel y'u diwygiwyd)[31] ac mae pwerau ychwanegol i godi tâl o dan adran 67(5) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir ac, mewn perthynas â phrofi sylweddau penodol, o dan adran 107(3) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir.

215. Bydd y darpariaethau o ran ffioedd trwyddedu morol a chodi tâl sydd yn y Bil yn caniatáu i'r awdurdod trwyddedu godi ffioedd er mwyn adennill costau mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir ganddo wrth gyflawni'r swyddogaethau trwyddedu morol.

216. Mae CNC a Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad o ffioedd trwyddedu morol. Bydd yr egwyddorion a ddilynir wrth gynnal yr adolygiad hwnnw yn cyd-fynd â Chanllawiau Trysorlys EM *Managing Public Money* (Gorffennaf 2013). Dyma'r egwyddorion hynny:
    - Adolygu a, lle y bo hynny'n briodol, diweddaru'r ffioedd ar gyfer trwyddedu morol, gan gynnwys defnyddio'r pwerau sydd yn y Bil.
    - Nodi cyfleoedd i ddod o hyd i arbedion effeithlonrwydd ac i symleiddio'r gwasanaeth trwyddedu morol, ac yna gweithredu ar y cyfleoedd hynny.
    - Lle y bo modd, sicrhau bod unrhyw gynnydd yn y taliadau yn cael ei gadw cyn ised ag y bo modd, yn unol ag un o'r egwyddorion ar gyfer sefydlu CNC[32].
    - Diffinio model codi tâl clir, tryloyw a chymesur.

217. Ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol ac ar ôl i bwerau estynedig i godi tâl gael eu sefydlu, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ganlyniad yr adolygiad presennol o ffioedd.

218. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn rhoi amcangyfrifon o faint y bydd y pwerau estynedig i godi ffioedd yn debygol o gostio yn y dyfodol. Mae'n gwneud hynny ar sail yr wybodaeth orau sydd ar gael ar hyn o bryd, gan gynnwys y costau gwirioneddol a ysgwyddir gan CNC wrth weinyddu'r system trwyddedu morol, a data procsi oddi wrth awdurdodau trwyddedu morol eraill (e.e. y Sefydliad Rheoli Morol yn Lloegr (MMO)).

Diben y ddeddfwriaeth

219. Y nod yw sicrhau, i'r graddau y bo hynny'n bosibl, bod y rheini sy'n elwa ar drwydded forol yn talu'r costau llawn a ysgwyddir gan yr awdurdod trwyddedu wrth weinyddu'r drwydded forol honno. Mae hynny yn unol â chanllawiau Trysorlys EM, sef y dylai'r awdurdod trwyddedu fod yn anelu at adennill ei holl gostau wrth ymgymryd â'i gyfrifoldebau rheoleiddiol.

---

[31] *http://www.legislation.gov.uk/uksi/2007/1518/contents/made. Mae'r prif ddarpariaethau yn adran 24A – mewn perthynas â threuliau a dynnir wrth asesu a dehongli canlyniadau unrhyw fesur monitro; ac atodlenni 2 a 4 mewn perthynas â sgrinio a phennu cwmpas.*

[32] *Achos Busnes dros Un Corff – http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/nef/publications/seb/businesscase/?lang=cy*
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/555/contents/made

220. Mae’r Bil yn rhoi mwy o hyblygrwydd i’r awdurdod trwyddedu o ran sut y mae’n mynd ati i godi ffioedd trwyddedu morol. Yn benodol, mae’r pwerau’n galluogi’r awdurdod trwyddedu i adennill y treuliau a ganlyn:

Gwaith cyn ymgeisio

221. Mae gwaith cyn ymgeisio yn cynnwys:
    - Cynnal trafodaethau yn gynnar yn y broses gyda’r rheini sy’n gwneud cais am drwydded er mwyn rhoi arweiniad ar faterion posibl a allai godi neu ar amryfal gamau’r broses drwyddedu.
    - Rhoi cyngor anffurfiol ar brosiectau/ceisiadau drafft (er mai cam anffurfiol yw hwn, mae’r cysylltu a’r trafod ar faterion o’r fath yn gallu bod yn helaeth) – gall gweithgarwch cyn ymgeisio gan yr awdurdod trwyddedu morol gynnwys ymgynghori â sefydliadau eraill, ac mae’n bosibl y bydd y sefydliadau hynny’n codi tâl am y gwasanaethau a ddarperir, e.e. cyngor gwyddonol gan sefydliadau megis Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cefas).
    - Cynnal adolygiadau anffurfiol o fersiynau drafft o ddogfennau ategol eraill; amser a dreulir yn mynd i gyfarfodydd sy’n gysylltiedig â gwaith cyn ymgeisio; gall hynny gynnwys costau teithio ac aros dros nos etc.

222. Ar hyn o bryd, nid yw CNC yn codi unrhyw dâl am ymdrin ag ymholiadau sylfaenol cyn i gais gael ei gyflwyno. Bernir bod ymdrin ag ymholiadau sylfaenol cyn i gais gael ei gyflwyno yn rhyw ddwy awr o waith. Yn amodol ar ganlyniad yr adolygiad o ffioedd, rhagwelir, ar ôl y ddwy awr hynny, os bydd angen trafod ymhellach, y byddai ffi cyn ymgeisio yn cael ei chodi am y gwasanaeth hwnnw.

Monitro trwydded forol, gan gynnwys asesu adroddiadau monitro, a chadarnhau bod amodau wedi eu cyflawni ac y cydymffurfiwyd ag unrhyw ofynion

223. Mae angen pŵer i godi tâl am waith monitro fel y bo modd adennill costau a ysgwyddir gan yr awdurdod trwyddedu wrth iddo fonitro’r gweithgareddau trwyddedig ar ôl i drwydded forol gael ei rhoi. Mae gwaith monitro o’r fath o fudd i ddeiliad y drwydded oherwydd ei fod yn fodd i nodi a datrys unrhyw broblemau posibl o ran caniatáu i’r drwydded barhau. Gallai’r costau gynnwys gwaith i fonitro’r amgylchedd ac i gadarnhau bod amodau wedi eu cyflawni, ynghyd â chostau gweinyddu’r drwydded, gan gynnwys cydymffurfio ag amodau’r drwydded e.e. byddent yn cynnwys treuliau a ysgwyddir wrth asesu a dehongli canlyniadau unrhyw gamau monitro sydd eu hangen ar gyfer prosiect, a chostau sy’n gysylltiedig â monitro safleoedd lle gwaredir deunyddiau a garthwyd, ac yna gwerthuso’r data hynny.

Amrywio trwydded, ei hatal dros dro, ei dirymu neu ei throsglwyddo o dan adran 72 o Ddeddf y Môr a Mynediad i’r Arfordir

224. Mae’r Bil yn galluogi’r awdurdod trwyddedu i adennill costau pan fydd yn ymdrin â chais gan drwyddedai i amrywio trwydded, i’w hatal dros dro, ei dirymu neu ei throsglwyddo o dan adran 72 o Ddeddf y Môr a Mynediad i’r Arfordir. Hefyd, os bydd yr awdurdod trwyddedu yn cynnal unrhyw ymchwiliad, archwiliad neu

brawf a fydd, yn ei farn ef, yn angenrheidiol neu'n fanteisiol er mwyn iddo fedru penderfynu ar gais gan drwyddedai i amrywio trwydded, i'w hatal dros dro, ei dirymu neu ei throsglwyddo o dan adran 72, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r trwyddedai dalu ffi tuag at dreuliau'r ymchwiliad, yr archwiliad neu'r prawf hwnnw.

Atal dros dro neu ddirymu

225. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer adennill costau sy'n gysylltiedig ag atal dros dro neu ddirymu o dan adran 72 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir. Mewn achosion o'r fath, caiff yr awdurdod trwyddedu ei gwneud yn ofynnol i'r trwyddedai dalu ffi iddo am ymdrin â'r cais.

226. Mae adran 72(1) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir yn darparu bod awdurdod trwyddedu, drwy roi hysbysiad, yn cael amrywio trwydded a roddwyd ganddo, neu ei hatal dro neu ei dirymu os yw'n ymddangos i'r awdurdod na chydymffurfiwyd ag unrhyw un neu rai o ddarpariaethau'r drwydded honno.

227. Mae adran 72(2) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir yn darparu bod awdurdod trwyddedu, drwy roi hysbysiad, yn cael amrywio trwydded a roddwyd ganddo, neu ei hatal dro neu ei dirymu os yw'n ymddangos i'r awdurdod:
    - Bod unrhyw berson, wrth wneud cais am y drwydded, naill ai wedi rhoi gwybodaeth anwir neu gamarweiniol i'r awdurdod neu ei fod wedi methu â darparu gwybodaeth;
    - Y byddai, neu ei bod yn debygol y byddai'r awdurdod, pe bai wedi cael yr wybodaeth gywir, wedi gwrthod y cais neu wedi rhoi trwydded ac ynddi delerau gwahanol.

228. Mae adran 72(3) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir yn darparu bod awdurdod trwyddedu, drwy roi hysbysiad, yn cael amrywio trwydded, ei hatal dros dro neu eu dirymu os yw'n ymddangos i'r awdurdod y dylid amrywio'r drwydded, ei hatal dros dro neu ei dirymu:
    - Oherwydd bod amgylchiadau sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd neu ag iechyd pobl wedi newid.
    - Oherwydd bod mwy o wybodaeth wyddonol am y naill neu'r llall o'r materion hynny.
    - Fel y bo modd mordwyo'n ddiogel.
    - Am unrhyw reswm arall yr ymddengys i'r awdurdod ei fod yn berthnasol.

Amrywiadau

229. Mae tri phrif gategori o amrywiadau:
    - Newidiadau gweinyddol.
    - Newidiadau nad ydynt yn rhai gweinyddol nac yn rhai sylweddol ac y mae angen eu hailasesu.
    - Newidiadau sylweddol/perthnasol y mae angen eu hasesu o'r newydd.

229. Eir ati fesul achos i ystyried i ba gategori y mae amrywiad yn perthyn, ac os bernir ei fod yn amrywiad sylweddol, mae'n debyg y bydd angen gwneud cais newydd.

230. O dan bwerau'r Bil, os yw trwyddedai yn gwneud cais o dan adran 72 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir i amrywio trwydded, mae'r pwerau yn y Bil yn golygu y bydd modd adennill y costau a fydd yn gysylltiedig â hynny.

Trosglwyddo

231. O dan adran 72(7) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, caiff yr awdurdod trwyddedu, ar gais trwyddedai, drosglwyddo trwydded i unigolyn arall. O dan y pwerau arfaethedig, bydd modd adennill y costau a fydd yn gysylltiedig â throsglwyddo'r drwydded.

Defnyddio pwerau

232. O dan y pwerau yn y Bil, bydd y newidiadau a gaiff eu gwneud, gan ddefnyddio'r pwerau yn y Bil, i'r system codi ffioedd am drwyddedu morol yn galluogi'r awdurdod trwyddedu, lle y bo modd, i adennill yr holl gostau sy'n gysylltiedig â'r swyddogaethau trwyddedu morol y mae'n ymgymryd â hwy.

233. Mae'r pwerau hyn yn ychwanegu at y pwerau codi tâl sydd ar gael eisoes i'r awdurdod trwyddedu o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir a'r Rheoliadau Gwaith Morol. Bydd cael gwell set o bwerau i godi tâl am wasanaethau a ddarperir (bydd y ffioedd a'r taliadau gwirioneddol yn cael eu sefydlu ar ôl cynnal adolygiad o ffioedd ac ymgynghoriad cyhoeddus) yn rhoi sicrwydd i'r diwydiant o ran cynllunio gofynion trwyddedu a chostau prosiectau ymlaen llaw.

234. Mae'r pwerau'n gyfuniad o ffioedd a fydd yn cael eu pennu mewn is-ddeddfwriaeth, a phŵer uniongyrchol i godi tâl. Bydd ymgynghoriad cyhoeddus pellach yn cael ei gynnal am y ffioedd. Bydd y pŵer i bennu ffioedd drwy reoliadau yn cael ei arfer gan Weinidogion Cymru.

235. Bydd y ffioedd a godir yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan Lywodraeth Cymru, a bydd y rheoliadau sy'n ymdrin â ffioedd, sef, ar hyn o bryd, Rheoliadau Trwyddedu Morol (Ffioedd am Geisiadau) (Cymru) 2011[33], yn cael eu diwygio yn ôl yr angen er mwyn sicrhau system drwyddedu briodol, effeithlon ac effeithiol a fydd yn galluogi'r awdurdod trwyddedu i adennill ei gostau.

236. Yn yr achosion hynny lle gall fod yn anodd rhagweld y costau, er enghraifft, costau ymchwiliadau, archwiliadau a phrofion y bydd angen eu cynnal er mwyn penderfynu ar gais, mae angen yr hyblygrwydd i fedru mynd ati i adennill costau fesul achos. O gofio y gallai costau o'r fath amrywio'n fawr, bydd pŵer yr awdurdod trwyddedu i bennu ffioedd o'r fath yn cael ei ddirprwyo i CNC, sef y corff sy'n gyfrifol am weinyddu'r system trwyddedu morol. Dyna'r un drefn yn union ag a ddefnyddir i adennill costau ymchwiliadau, archwiliadau neu brofion wrth arfer y pŵer yn adran 67(5) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir. Mae'r

[33] *http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/555/contents/made*

pŵer hwnnw wedi'i ddirprwyo i CNC, a'r corff hwnnw sy'n penderfynu a oes angen cynnal ymchwiliad, archwiliad neu brawf er mwyn penderfynu ar gais. Os oes, ef hefyd sy'n penderfynu ar y ffi ychwanegol y dylai'r ceisydd ei thalu.

Yr effaith y bwriedir i'r ddeddfwriaeth ei chael

237. Y nod yw diwygio'r system ffioedd am drwyddedu morol er mwyn rhoi digon o bwerau i'r awdurdod trwyddedu godi tâl am amrywiaeth eang o weithgareddau y mae'n ymgymryd â hwy fel rhan o'i swyddogaethau trwyddedu morol. Bydd ffioedd yn seiliedig ar yr egwyddor o adennill mwy o gostau. Yn fras, cynigir bod Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir yn cael ei diwygio er mwyn cynnwys pwerau i bennu a chodi ffioedd mewn perthynas â gwaith a wneir cyn i gais gael ei gyflwyno; ac mewn perthynas â gwaith i fonitro trwydded forol. Cynigir hefyd fod Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir yn cael ei diwygio er mwyn cynnwys pwerau i bennu a chodi ffioedd pan fo trwyddedai yn gwneud cais i drosglwyddo neu i amrywio trwydded, i'w hatal dros dro neu ei dirymu, ac eithrio pan fo'n cael ei hamrywio, ei hatal dros dro neu ei dirymu o dan adran 72 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir.

238. Bydd y ddeddfwriaeth yn:
    - Arwain at well set o bwerau codi tâl.
    - Rhoi gallu eang i adennill costau.
    - Helpu i greu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon.
    - Rhoi mwy o eglurder i'r rheini sy'n defnyddio'r system trwyddedu morol.

Amrywiol a Chyffredinol (Rhan 7)

Y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol (Rhan 7)

Y cefndir

239. Cafodd Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru ei sefydlu o dan adran 22 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 fel Pwyllgor Rhanbarthol Llifogydd ac Arfordir a fyddai'n craffu ar waith ac ar gyllideb Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, sef Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) erbyn hyn. Fe'i sefydlwyd yn wreiddiol gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ond cafodd ei drosglwyddo wedyn i Cyfoeth Naturiol Cymru, a hynny fel pwyllgor statudol. Dyma'r unig bwyllgor statudol a drosglwyddwyd i CNC; cafodd y lleill eu diddymu neu eu gwneud yn bwyllgorau anstatudol. Rôl Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru yw craffu ar weithgareddau CNC a rhoi cyngor iddo yn eu cylch.

240. Mae Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru yn cynnwys cadeirydd annibynnol, a benodir gan Weinidogion Cymru, a hyd at 24 o aelodau. Mae hyd at 8 aelod yn cynrychioli Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol ac mae'r lleill yn adlewyrchu'r sgiliau y mae eu hangen ar y Pwyllgor, gan gynnwys aelodau annibynnol. Ar hyn o bryd, CNC sy'n penodi'r holl aelodau, a'r corff hwnnw hefyd sy'n darparu'r ysgrifenyddiaeth.

Y sefyllfa bresennol

241. O dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 ("Deddf 2010"), gwnaed darpariaethau i sefydlu Pwyllgorau Rhanbarthol Llifogydd ac Arfordir ar gyfer Cymru a Lloegr. Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru yw'r Pwyllgor Rhanbarthol Llifogydd ac Arfordir ar gyfer Cymru. Cafodd y Pwyllgor ei sefydlu i graffu ar raglen ac ar gyllideb Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru erbyn hyn) pan oedd yn rhan o'r Asiantaeth yr Amgylchedd ehangach ar gyfer Cymru a Lloegr.

242. Yn unol â'r ddarpariaeth sydd yn Neddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 ar hyn o bryd, mae'n rhaid i CNC:
    - Ymgynghori â Phwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru am y modd y mae'n bwriadu cyflawni ei swyddogaethau o ran rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.
    - Ystyried unrhyw sylwadau (a wneir mewn ymateb i ymgynghoriad neu fel arall) gan Bwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru ynghylch arfer ei swyddogaethau o ran rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn y rhanbarth hwnnw.

243. Mae Deddf 2010 hefyd yn dweud:
    - Na chaiff CNC roi ei raglen ar gyfer llifogydd a'r arfordir ar waith heb ganiatâd y Pwyllgor.
    - Na chaiff CNC godi ardoll heb ganiatâd y Pwyllgor.
    - Na chaiff CNC wario refeniw heb ganiatâd y Pwyllgor.

244. Cafodd Deddf 2010 ei chyhoeddi, a Phwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru ei ffurfio, cyn i CNC gael ei sefydlu. Mae CNC bellach yn ymgymryd â rôl ehangach na'r un a oedd gan hen Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ac mae ganddo drefniadau priodol yn eu lle ar gyfer craffu ar y modd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau. Mae'n gwneud hynny drwy Fwrdd CNC.

245. Nid oes gan Bwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru unrhyw ddyletswyddau statudol mewn cyfraith, a diffinnir ei swyddogaeth a'i ddiben gan yr hyn y mae'n rhaid i CNC ei wneud o ran ymgynghori â'r Pwyllgor a gwrando ar gyngor a roddir ganddo. Fe'u diffinnir hefyd gan yr hyn na chaiff CNC ei wneud heb ganiatâd y Pwyllgor.

246. O dan y system sydd ohoni, felly, mae CNC yn atebol i ddau gorff am ei raglen ar lifogydd. Mae Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru a Bwrdd CNC ill dau yn craffu ar y rhaglen honno.

Diben y ddeddfwriaeth

247. Mewn adolygiad diweddar a gynhaliwyd ganddo o Bwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru, mynegodd CNC bryder am y ffaith ei fod yn atebol i ddau gorff am ei ddyletswyddau o ran rheoli perygl llifogydd. Yn benodol, mae rolau Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru a Bwrdd CNC yn gorgyffwrdd. Mae'n rhaid i Bwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru awdurdodi rhaglen fuddsoddi CNC ar gyfer rheoli perygl llifogydd, a hynny o dan adran 23 o Ddeddf 2010. Mae hynny'n dyblygu un o swyddogaethau Bwrdd CNC. Dangosodd adolygiad CNC hefyd nad yw rôl a diben Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru yn glir, a bod cryn amrywiaeth o ran dealltwriaeth yr aelodau am faterion yn ymwneud â rheoli perygl llifogydd. Er hynny, cydnabu'r adolygiad fod gwerth mewn cael llais annibynnol i Gymru ym maes rheoli llifogydd, ac roedd yn cefnogi'r angen am Bwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru. Ar ei ffurf bresennol, mae'r Pwyllgor yn edrych ar waith CNC yn unig, ond mae yna amrywiaeth ehangach o gyrff sy'n cyfrannu at reoli perygl llifogydd yng Nghymru, a nodwyd ei bod yn bwysig ehangu cylch gwaith y Pwyllgor i gynnwys y cyrff hynny.

248. Diben y ddeddfwriaeth newydd hon yw dileu a newid rhai o swyddogaethau statudol y Pwyllgor presennol, a'i newid o bwyllgor craffu i bwyllgor â rôl cynghori/ymgynghori ehangach. Byddai hynny'n rhoi diwedd ar y sefyllfa lle mae Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru a Bwrdd CNC yn dyblygu gwaith, a byddai'n fodd hefyd i sicrhau bod amryfal gyrff, yn hytrach na dim ond CNC, yn rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ar amrywiaeth ehangach o faterion yn ymwneud â llifogydd ac erydu arfordirol.

249. Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru. Dylai'r Pwyllgor, felly, fod yn gorff a fydd yn gallu rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ar risgiau a manteision ehangach rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru, a dylai fedru ymdrin â'r holl ffactorau sy'n achosi llifogydd ac erydu arfordirol, nid dim ond prif afonydd a'r môr, fel y mae CNC yn ei wneud ar hyn o bryd. Dylai hefyd fedru rhoi cyngor a chymorth yn ôl yr angen. Bydd pwyllgor newydd â throsolwg cyfannol o'r fath yn gallu helpu i roi sicrwydd bod dealltwriaeth lwyr o berygl

llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru a bydd yn gallu cynnig atebion na fyddant yn cael eu cyfyngu i ddyletswyddau un corff yn unig. Bydd hefyd yn gallu ystyried materion ehangach megis y risgiau sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd.

Yr effaith y bwriedir i'r ddeddfwriaeth ei chael

250. Bydd y ddeddfwriaeth yn:
    - Fodd i sicrhau bod cyngor yn cael ei roi i Weinidogion Cymru a fydd yn cynnwys yr holl ffactorau sy'n achosi perygl llifogydd ac erydu arfordirol.
    - Golygu na fydd CNC yn atebol i'r Pwyllgor ac i'r Bwrdd.
    - Golygu na fydd y Pwyllgor yn gallu cytuno ar raglen/cyllideb CNC. Cyfrifoldeb Bwrdd CNC fydd hynny bellach.

Draenio Tir

Diddymu gofynion i gyhoeddi mewn papurau newyddion lleol a phwerau i wneud darpariaeth ar gyfer apelau yn erbyn ardollau arbennig

Y cefndir

251. Mae'r Bil yn dileu'r gofyniad i hysbysebu mewn papurau newyddion lleol ac yn y London Gazette gan roi'r hyblygrwydd i Fyrddau Draenio Mewnol a CNC ddewis sut y byddant yn hysbysebu ac yn rhoi gwybod i bobl am yr hysbysiadau a'r gweithdrefnau perthnasol, gan ganiatáu iddynt dargedu'r gynulleidfa allweddol. Mae apelau yn fater a godwyd gan gynrychiolwyr Awdurdodau Lleol yn ystod cyfarfodydd o Fyrddau Draenio Mewnol, a bwriedir mynd i'r afael â'r mater hwnnw hefyd yn y Bil hwn.

Y sefyllfa bresennol

252. Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol hysbysebu amryw o hysbysiadau, gweithdrefnau a gorchmynion mewn papurau newyddion ac, mewn rhai achosion, yn y London Gazette yn benodol.

253. Mae'r gofyniad i hysbysebu amryw o hysbysiadau, gweithdrefnau a gorchmynion drwy bapurau newyddion yn unig yn anhyblyg ac ar ôl yr oes. Yn aml, nid yw'r budd sy'n deillio o hysbysebu mewn papurau newyddion lleol yn gymesur â chost gwneud hynny.

254. Nid yw'r broses hysbysebu bresennol yn briodol bellach, a hynny am nifer o resymau:
    - Nid yw rhwymedigaeth gyfreithiol sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyhoeddi newidiadau yng Nghymru mewn papur newyddion o Loegr yn adlewyrchu'r newidiadau a welwyd yn sgil datganoli.
    - Byddai technegau mwy modern, gan gynnwys hysbysebu ar-lein ac ymgynghori'n uniongyrchol yn lleol â'r rheini yr effeithir arnynt yn fwy effeithiol, a byddai hefyd yn lleihau costau.

- Gwnaed newidiadau eisoes drwy Ddeddf Dŵr 2014 i ddileu'r gofyniad hwn ar gyfer Byrddau Draenio Mewnol sy'n gyfan gwbl yn Lloegr.

255. Trwy bwerau o dan adran 36 o Ddeddf Draenio Tir 1991, yn bennaf, y mae'r Byrddau Draenio Mewnol yn ennill incwm. Mae darpariaeth eisoes i dalwyr ardrethi apelio yn erbyn ardrethi draenio ac i awdurdodau lleol apelio yn erbyn y praesept y mae CNC yn ei godi ar y Byrddau Draenio Mewnol. Er hynny, nid oes unrhyw ddarpariaeth sy'n caniatáu i awdurdodau lleol apelio yn erbyn yr elfen o dreuliau'r Bwrdd Draenio Mewnol nad yw'n gysylltiedig â CNC, a hynny am mai'r Bwrdd Draenio Mewnol ei hun sy'n pennu'r ardoll a chan fod y rhan fwyaf o aelodau'r Bwrdd yn cael eu henwebu gan yr awdurdodau lleol.

Diben y ddeddfwriaeth

256. Nod y Bil yw diwygio pob adran berthnasol yn Neddf Draenio Tir 1991 er mwyn caniatáu i hysbysiadau gael eu dosbarthu'n fwy eang, mewn ffordd wedi'i thargedu (e.e. defnyddio dulliau electronig, hysbysfyrddau mewn plwyfi), ond gan sicrhau, ar yr un pryd, bod y broses yn parhau'n deg, yn agored ac yn gynhwysol, a'i bod yn manteisio i'r eithaf ar wybodaeth leol er mwyn sicrhau bod yr hysbysebu'n cyrraedd y bobl briodol. Mae hefyd yn darparu ar gyfer trefn apelio er mwyn i awdurdodau lleol fedru herio ardollau a godir gan CNC.

Yr effaith y bwriedir i'r ddeddfwriaeth ei chael

257. Y bwriad yw creu ffordd fwy costeffeithiol o hysbysebu sy'n caniatáu i'r sawl sy'n hysbysebu benderfynu sut i dargedu'r bobl y bydd unrhyw newidiadau yn effeithio arnynt er mwyn lledaenu gwybodaeth yn y ffordd fwyaf effeithiol.

258. Mae awdurdodau lleol yn cael eu diogelu ar hyn o bryd drwy'r gynrychiolaeth sydd ganddynt ar y Byrddau Draenio Mewnol ond cynigir bod trefn yn cael ei sefydlu yn lle hynny lle bydd awdurdodau lleol yn gallu apelio i Weinidogion Cymru os byddant o'r farn bod penderfyniad a wneir gan CNC am ardoll arbennig yn un afresymol. Byddai modd gwneud hynny drwy estyn y ddarpariaeth ar gyfer apelau fel ei bod yn gymwys i'r ardoll gyfan. Bydd Gweinidogion Cymru wedyn yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau ac yn gwneud y cyfryw orchymyn ag y barnant yn deg mewn perthynas ag ardollau.

Pŵer mynediad: cydymffurfio â gorchymyn i lanhau ffosydd etc

Y cefndir

259. Mae adran 28 o Ddeddf Draenio Tir 1991 yn nodi bod perchennog tir neu rywun sy'n meddiannu tir yn cael cyflwyno cais i Dribiwnlys Tir Amaethyddol am Orchymyn a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i berchennog tir cyfagos wella'r draeniad ar y tir hwnnw er mwyn atal gormod o ddŵr rhag llifo ohono. Os na fydd ymatebydd yn cydymffurfio â'r gwaith sy'n ofynnol o dan Orchymyn, mae adran 29(2) o Ddeddf Draenio Tir 1991 yn darparu y caiff Llywodraeth Cymru neu gorff draenio sy'n gweithredu ar ei rhan fynd ar y tir i wneud y gwaith ac adennill y costau oddi wrth yr ymatebydd. Nid yw adran 29(2) yn ei gwneud yn glir a oes gan Weinidogion Cymru hefyd y pŵer i fynd ar dir yr ymatebydd er

mwyn archwilio'r gwaith a gweld bod perchennog y tir wedi cydymffurfio â gorchymyn a wnaed o dan adran 28.

260. Anaml y cyfeirir achosion at Lywodraeth Cymru ac, ar gyfartaledd, gwelir un achos bob dwy flynedd. Er hynny, mae'r ffaith nad oes pŵer mynediad datganedig yn parhau'n broblem oherwydd os yw'n ymddangos na chydymffurfiwyd â gorchymyn, nid yw'n glir a gaiff asiant Llywodraeth Cymru archwilio'r tir i weld a yw'r gwaith wedi ei wneud.

Y sefyllfa bresennol

261. Mae'r sefyllfa bresennol yn cyfyngu ar allu asiantiaid Llywodraeth Cymru i ymchwilio i fethiant honedig i gydymffurfio â thelerau gorchymyn a wneir gan Dribiwnlys Tir Amaethyddol. Os yw Gweinidogion Cymru yn gofyn am adroddiad gan asiant arbenigol am fethiant honedig i gydymffurfio â thelerau gorchymyn a wneir gan Dribiwnlys Tir Amaethyddol, ac os gwrthodir mynediad i'r tir, nid oes ganddynt bŵer datganedig i awdurdodi asiant arbenigol a benodwyd ganddynt i fynd ar dir ac adrodd am fethiannau honedig i gydymffurfio â thelerau gorchymyn a wnaed gan Dribiwnlys Tir Amaethyddol. Mae'r cyfyngiad hwn yn tanseilio'r gwaith llywodraethu a wneir gan Dribiwnlysoedd Tir Amaethyddol.

262. Er enghraifft, yn 2012, cyfeiriodd Ceisydd ei achos at Weinidogion Cymru o dan ddarpariaethau adran 29(2) o Ddeddf Draenio Tir 1991, i'r perwyl nad oedd y gwaith a orchmynnwyd gan Dribiwnlys Tir Amaethyddol wedi ei wneud. Nid oedd modd i Weinidogion Cymru gadarnhau a oedd y gwaith o dan sylw wedi ei wneud ai peidio am fod yr Ymatebydd wedi gwrthod rhoi caniatâd i'r asiant arbenigol ar ddraenio tir a benodwyd ganddynt gynnal archwiliad ar y tir. Am nad oedd modd i'r arbenigwr gwblhau ei adroddiad, nid oedd Gweinidogion Cymru yn gallu penderfynu a gydymffurfiwyd ai peidio â thelerau'r gorchymyn a wnaed gan y Tribiwnlys Tir Amaethyddol. Bu'n rhaid rhoi'r gorau i'r achos, felly, heb unioni unrhyw gam a ddaeth i ran y Ceisydd.

Diben y ddeddfwriaeth

263. Nod y diwygiad i Ddeddf Draenio Tir 1991 yw sicrhau eglurder o ran y gyfraith, a chreu hawl mynediad ar dir er mwyn i asiantiaid Llywodraeth Cymru ymchwilio i achosion honedig o fethu â chydymffurfio â gorchymyn a wnaed gan Dribiwnlys Tir Amaethyddol os yw un o'r partïon i'r Gorchymyn hwnnw yn gwrthod caniatáu mynediad.

Yr effaith y bwriedir i'r ddeddfwriaeth ei chael

264. Mae'r Bil yn creu hawl mynediad i dir er mwyn i asiantiaid Llywodraeth Cymru ymchwilio i achosion honedig o fethu â chydymffurfio â gorchymyn a wnaed gan Dribiwnlys Tir Amaethyddol os yw un o'r partïon i'r Gorchymyn hwnnw yn gwrthod caniatáu mynediad i'r tir. Bydd hynny'n galluogi Llywodraeth Cymru i gymryd camau gweithredu cadarnhaol mewn achosion o'r fath gan arwain at sefyllfa lle bydd mwy o lwyddiant wrth ddatrys materion yn gysylltiedig â gorchmynion a wneir gan Dribiwnlysoedd Tir Amaethyddol.

Pennod 4: Ymgynghori

264. Cyn i Lywodraeth Cymru gyflwyno'r Bil hwn, cynhaliodd dri ymgynghoriad blaenorol am yr hyn y mae'n ymrwymo i'w wneud o ran cynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd fwy doeth a chydgysylltiedig. Roedd yr ymgyngoriadau hynny hefyd yn ymdrin â'r cynigion sydd ganddi er mwyn cyrraedd y nod yn hynny o beth. Y ddogfen ymgynghori gyntaf, a gyhoeddwyd yn 2010, oedd *'Cymru Fyw: fframwaith newydd ar gyfer ein hamgylchedd, ein cefn gwlad a'n moroedd'*, a'r ail oedd y Papur Gwyrdd, '*Cynnal Cymru Fyw'*, a gyhoeddwyd yn 2012*.* Cafodd Bapur Gwyn, *'Tuag at Reoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy: Ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer Bil Amgylchedd'* yn ymdrin â'r cynigion deddfwriaethol ar gyfer y Bil, ei gyhoeddi yn 2013. Eir ati isod i grynhoi'r ymgyngoriadau hynny a'r ymatebion iddynt.

Cymru Fyw: fframwaith newydd ar gyfer ein hamgylchedd, ein cefn gwlad a'n moroedd

265. Ym mis Medi 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen ymgynghori *'Cymru Fyw: fframwaith* new*ydd ar gyfer ein hamgylchedd, ein cefn gwlad a'n moroedd'*[34]. Aed ati yn yr ymgynghoriad hwnnw i gynnig ffordd strategol newydd o reoli'r amgylchedd ac o fynd i'r afael â materion megis methu â chyrraedd y targedau bioamrywiaeth a bennwyd ar gyfer Cymru erbyn 2010. Roedd yr ymgynghoriad yn pennu cyfeiriad cyffredinol ar gyfer diwygio a datblygu polisi yn y dyfodol, ac yn mynd i'r afael â chanfyddiadau'r ymchwiliad cysylltiedig a oedd yn cael ei arwain gan Bwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Cynulliad Cenedlaethol.

266. Yn ymgynghoriad Cymru Fyw, cynigiwyd y dylai'r fframwaith polisi newydd fod yn seiliedig ar ddull rheoli ar lefel yr ecosystem, yn unol â'r dull a fabwysiadwyd gan y Confensiwn ar Fioamrywiaeth. Wrth gynnig hynny, tynnodd sylw at y cysylltiadau rhwng ecosystemau iach a chryf a llesiant Cymru yn y tymor hir. Sefydlodd nod cyffredinol arweiniol hefyd a oedd yn seiliedig ar egwyddorion datblygu cynaliadwy: *'sicrhau bod gan Gymru ecosystemau fwyfwy gwydn ac amrywiol, sy'n cynnig manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol'*.

Cynnal Cymru Fyw

267. Cyhoeddwyd Papur Gwyrdd '*Cynnal Cymru Fyw*' ym mis Ionawr 2012, ac ymgynghorwyd yn ei gylch am gyfnod o ddeunaw wythnos, gan geisio barn am ffyrdd newydd o fynd ati i reoli ac i reoleiddio'r amgylchedd yng Nghymru, a hynny er mwyn dylanwadu ar Fil arfaethedig yr Amgylchedd. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn yn benodol i bobl fynegi barn am y dull yr oedd Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio er mwyn datblygu gwaith i gynllunio'r modd y rheolir adnoddau naturiol ar y lefel leol ac ar y lefel genedlaethol. Y nod oedd hwyluso penderfyniadau gwell, gan hoelio sylw ar fusnesau a reoleiddir ac ar y rheini sy'n defnyddio ac yn rheoli tir a dŵr.

---

34 *http://www.webarchive.org.uk/wayback/archive/20110228135119/http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/eshlivingwalescons/?lang=en&status=closed*

268. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn i bobl fynegi barn ar amryw o gynigion, gan gynnwys:
    - Y newidiadau y gallai fod angen eu gwneud i'r polisïau a'r systemau presennol er mwyn rheoli'r amgylchedd ac adnoddau naturiol gan ddefnyddio dull rheoli ar lefel yr ecosystem.
    - Y posibiliadau a'r cyfleoedd i ailwampio neu symleiddio'r modd yr ydym yn mynd ati i reoli ac i reoleiddio'r amgylchedd a'i adnoddau naturiol.
    - Datblygu offerynnau newydd ar gyfer y farchnad, a'r potensial i gynnig cyfleoedd i wella'r modd y mae adnoddau naturiol yn cael eu rheoli.
    - Datblygu gwaith i gynllunio'r modd y rheolir adnoddau naturiol ar y lefel leol ac ar y lefel genedlaethol er mwyn darparu fframwaith strategol newydd ar gyfer gwneud penderfyniadau am yr amgylchedd.
    - Datblygu Bil yr Amgylchedd i Gymru, i'w gyflwyno yn ail hanner tymor y Cynulliad, ac a fydd yn seiliedig ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn y Papur Gwyrdd.

269. Roedd yr ymatebion i'r Papur Gwyrdd yn dangos bod y mwyafrif llethol yn cytuno â'r dyheadau a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad. Cafodd Llywodraeth Cymru ei chanmol hefyd am ei bod yn barod i weithio mewn ffordd newydd, arloesol a chyfannol i reoleiddio a rheoli'r amgylchedd.

270. Roedd llawer o'r ymatebwyr hefyd yn annog Llywodraeth Cymru i barhau i roi lle canolog yn ei chynigion at y dyfodol i atal bioamrywiaeth rhag cael ei cholli ac i wrthdroi'r colledion hynny.

271. Roedd cryn gefnogaeth i'r cynigion allweddol yn y Papur Gwyrdd, sef mabwysiadu dull ecosystemau, datblygu gwaith i gynllunio'r modd y rheolir adnoddau naturiol ar y lefel leol a'r lefel genedlaethol, ac ailwampio a symleiddio cyfundrefnau rheoleiddio.

272. Er bod rhai o'r ymatebwyr yn dadlau o blaid cadw'r system gynllunio bresennol, a'r systemau ar gyfer cynllunio amgylcheddol a chynllunio adnoddau naturiol, ar wahân, roedd y mwyafrif o blaid integreiddio gwaith cynllunio adnoddau naturiol â'r system gynllunio bresennol.

273. I grynhoi felly, gwelwyd yn yr ymatebion i *'Cymru Fyw: fframwaith newydd ar gyfer ein hamgylchedd, ein cefn gwlad a'n moroedd'*, a gyhoeddwyd yn 2010, a hefyd yn y Papur Gwyrdd *'Cynnal Cymru Fyw',* a gyhoeddwyd yn 2012, bod cryn gefnogaeth i ffordd newydd o gynllunio a rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru.

274. Mae'r Papur Gwyrdd a'r crynodeb i'r ymatebion i'w gweld yma: http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/sustainingwales/?skip=1&lang=cy

Tuag at Reoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy: Ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer Bil Amgylchedd

275. Ym mis Hydref 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Papur Gwyn "*Tuag at Reoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy: Ymgynghoriad ar y Cynigion ar gyfer Bil Amgylchedd".* Roedd yr ymgynghoriad hwnnw'n adeiladu ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad yn y Papur Gwyrdd, ac yn manylu mwy ar y cynigion deddfwriaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol, a hynny er mwyn helpu i sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu rheoli'n well.

276. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn i bobl fynegi barn am nifer o agweddau deddfwriaethol ac roedd ynddo hefyd gynigion i:
    - Alluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i reoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd fwy cydgysylltiedig.
    - Sicrhau bod penderfyniadau a wnawn mewn perthynas ag adnoddau naturiol yn cefnogi datblygu cynaliadwy.
    - Symleiddio prosesau a chasglu tystiolaeth o anawdd gwell am ein hadnoddau naturiol.
    - Sefydlu deddfwriaeth sy'n briodol i Gymru ac sy'n cyd-fynd â'n blaenoriaethau cyffredinol.
    - Sicrhau bod egwyddorion rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd integredig wrth galon y Bil, gan sicrhau bod gwerth ein hecosystemau yn cael ystyriaeth briodol.

277. Aed ati yn y Papur Gwyn i ddatblygu mwy ar y dull gweithredu a amlinellwyd ym Mhapur Gwyrdd 2012 drwy gyflwyno cynigion deddfwriaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol er mwyn cefnogi'r weledigaeth o sicrhau gwell reolaeth ar adnoddau naturiol Cymru drwy Fil yr Amgylchedd ar gyfer Cymru.

278. Cafwyd cyfanswm o 182 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Rhoddir dadansoddiad o'r ymatebion hynny isod.

Tabl 2: Dadansoddiad o'r ymatebion yn ôl sector

Categori	Nifer	% o'r cyfanswm
Y Trydydd Sector	35	19%
Awdurdodau Lleol / Cynghorau Cymuned a Thref	28	16%
Asiantaethau'r Llywodraeth / Sefydliadau eraill yn y Sector Cyhoeddus	18	10%
Cyrff a Chymdeithasau Proffesiynol	48	26%
Aelodau o'r cyhoedd	15	8%
Busnesau	31	17%
Cyrff Academaidd	6	3%
Eraill	1	1%

Cyfanswm	**182**	**100%**

279. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion i'r Papur Gwyn yn dangos bod cryn gefnogaeth i'r pecyn o gynigion deddfwriaethol sy'n sail i'r Bil. Roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r bwriad i gynnwys diffiniadau cyfreithiol clir, er bod rhai wedi nodi bod angen rhoi mwy o bwyslais ar faterion penodol megis bioamrywiaeth, terfynau amgylcheddol a'r egwyddor ragofalus. O ran bioamrywiaeth, dywedodd nifer o'r ymatebwyr y dylid cryfhau'r ddyletswydd bioamrywiaeth bresennol sydd yn adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006. Dywedodd rhai mai cymysg neu gyfyngedig oedd y llwyddiant a gafwyd wrth weithredu'r ddyletswydd honno a bod y Bil yn gyfle i bwyso a mesur pa mor effeithiol yw'r ddyletswydd honno ac i fynd i'r afael ag unrhyw wendidau. Yn sgil yr adborth a gafwyd am y Papur Gwyn, mae gwell dyletswydd bioamrywiaeth yn y Bil. O ran terfynau amgylcheddol, diwygiwyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a chafodd y cysyniad ei gynnwys yn y nodau cyffredinol. Mae Bil yr Amgylchedd hefyd yn mynd i'r afael â'r cysyniad o derfynau ac yn gwneud hynny drwy'r diffiniad o reoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy, gan ddefnyddio terminoleg y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol – sef bod ein hadnoddau'n cael eu defnyddio mewn modd ac ar gyflymder sydd: a) yn cynnal ac yn cryfhau ecosystemau; b) yn golygu bod ein hadnoddau naturiol yn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau ecosystemau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn ogystal â'r genhedlaeth bresennol.

280. Gofynnodd nifer o'r ymatebwyr am ragor o fanylion ynghylch sut y bwriedir rhoi'r dull gweithredu ar sail ardal ar waith, gan nodi hefyd y dylid, wrth fynd ati i ddatblygu'r darpariaethau deddfwriaethol, gydnabod gwerth y ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â'r amgylchedd. Aed ati, ar sail y sylwadau hynny, i ddatblygu diffiniad manylach o'r hyn a olygir wrth reoli adnoddau naturiol mewn modd integredig, ac mae'r diffiniad hwnnw wedi'i gynnwys yn egwyddorion rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy (adran 4). Mae'n cynnwys y camau y mae angen eu cymryd er mwyn gweithredu'r dull ar sail ardal. Aed ati ar yr un pryd i drafod ag amrywiaeth eang o randdeiliaid ac i ddangos iddynt sut y gellir mynd ati'n ymarferol i ddefnyddio'r dull ar sail ardal, a bydd hynny hefyd yn llywio'r modd y caiff y dull hwnnw ei weithredu o dan y Bil. Bwriedir i'r Bil hefyd weithio ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth bresennol ac integreiddio â'r gofynion sydd ynddi.

281. Roedd yr ymatebwyr o blaid datblygu Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol statudol a fyddai'n nodi'r ymrwymiadau a'r blaenoriaethau strategol ar sail y cyfleoedd a'r heriau a fyddai'n wynebu adnoddau naturiol yng Nghymru. Roeddent o blaid gweithredu ar sail tystiolaeth, a phwysleisiwyd ei bod yn bwysig casglu a rhannu data. Ond pwysleisiodd yr ymatebwyr hefyd fod angen rheoli risgiau o ran y baich posibl ar gyrff cyhoeddus a'r trydydd sector, ac o ran yr adnoddau a fyddai ar gael iddynt. Mae'r Bil yn mynd i'r afael â'r sylwadau hynny mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys drwy egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a thrwy natur y ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus i rannu gwybodaeth gyda CNC. Mae hynny'n ategu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sydd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gydweithredu.

282. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi'r pecyn cyffredinol o gynigion a fyddai'n galluogi CNC i weithio mewn ffyrdd newydd a gwahanol. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cydnabod y gallai pwerau arbrofol (Pwerau Arloesi) fod o gymorth i gyflwyno ffyrdd newydd o weithio. Teimlai llawer hefyd y gallai rhoi tâl am wasanaethau ecosystemau fod yn gyfle ymarferol i wobrwyo'r rheini sy'n rheoli tir a dŵr mewn modd cadarnhaol. Dywedodd nifer o'r ymatebwyr fod angen cyflwyno dull o weithredu a fyddai'n diogelu rhywogaethau neu gynefinoedd unigryw, yn hytrach na bod cadwraeth bioamrywiaeth yn cael ei hystyried yn ased i'w farchnata. Er hynny, mae'n bwysig nodi y bydd y ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymdrin â'r materion hyn yn parhau mewn grym, felly bydd y darpariaethau cadwraeth natur presennol sy'n ymdrin â gwarchod rhywogaethau a chynefinoedd yn parhau. Felly, ni fydd y darpariaethau yn y Bil yn drech na'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n gwarchod rhywogaethau a chynefinoedd penodol.

283. Pwysleisiodd yr ymatebwyr hefyd y byddai angen mynd i'r afael â goblygiadau o ran adnoddau a chyllid yn y tymor byr i'r tymor canolig yn sgil yr angen i gydweithredu mwy ac i weithredu ar sail ardal. Er hynny, cydnabuwyd hefyd y byddai arbedion effeithlonrwydd yn bosibl yn y tymor hir. Bwriedir, felly, i Fil yr Amgylchedd (Cymru) ategu a gweithio gyda'r fframwaith a sefydlwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, fel y bo'r gofynion yn cael eu hintegreiddio'n llawn â'r dyletswyddau o dan y Bil hwnnw.

284. Roedd cynnig yn y Papur Gwyn i roi pwerau i Weinidogion Cymru esbonio sut y mae dyletswyddau CNC a deddfwriaeth sylfaenol arall yn cyd-fynd â'r pwrpas lefel uchel newydd. Er bod peth cefnogaeth i'r 'pŵer galluogi' arfaethedig hwn a fyddai'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud newidiadau yn y dyfodol, roedd gan lawer o'r rhanddeiliaid bryderon am yr egwyddor o roi'r pŵer iddynt ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol fel hyn. Pwysleisiodd rhai o'r ymatebwyr y dylai unrhyw bŵer fod yn un cyfyngedig ac y gallai Gweinidogion Cymru ddefnyddio canllawiau yn lle hynny i roi cyfarwyddyd i CNC. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, penderfynwyd, felly, peidio â chynnwys y pŵer hwnnw yn y Bil.

285. Daeth amrywiaeth eang o ymatebion i law i'r cynigion yn ymwneud â rheoli gwastraff a defnyddio adnoddau'n effeithlon, ac roedd y mwyafrif o blaid y pecyn cyffredinol. Un o'r themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg yn yr ymatebion oedd yr angen i ganiatáu rhywfaint o wastraff ailgylchadwy cymysg. Gallai hynny fod yn ddibynnol ar faterion megis faint o le addas sydd ar gael i storio gwastraff neu ar faint o wastraff sy'n cael ei greu. Mynegodd nifer o'r ymatebwyr bryderon hefyd am gost y cynigion ac ynghylch pa mor ymarferol fyddai hi i'w gweithredu a'u gorfodi. Bydd y materion hynny'n cael eu hystyried wrth i'r rheoliadau gael eu gweithredu. Awgrymwyd y gallai'r cynigion arwain at gostau ychwanegol neu at ofynion ychwanegol o ran lle i rai busnesau, er na chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth i gadarnhau'r asesiad hwnnw. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r rhestr o ddeunyddiau y bwriedir eu gwahardd o gyfleusterau tirlenwi ac o gyfleusterau ynni o wastraff. Y pryder mwyaf cyffredin a fynegwyd oedd pa mor ymarferol y byddai hi i orfodi unrhyw waharddiad. O ran y cynnig i wahardd gwaredu gwastraff bwyd i garthffosydd,

roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn y dylai gwaharddiad o'r fath gynnwys busnesau, y sector cyhoeddus ac aelwydydd.

286. Gwelwyd bod cefnogaeth gyffredinol i'r ddau gynnig yn ymwneud â newid y cynllun codi tâl a godir am fagiau siopa. Mynegodd cymdeithasau manwerthu ac awdurdodau lleol rywfaint o bryder am y baich ychwanegol posibl o ran costau pe bai taliadau isaf yn cael eu cyflwyno am fagiau am oes yn y dyfodol. Awgrymodd rhai sefydliadau mai elusennau amgylcheddol yn unig ddylai gael yr enillion net o'r tâl am fagiau siopa. Roedd y cynnig i barhau i roi'r enillion net i unrhyw elusennau yn un a gafodd ei groesawu gan fusnesau, cyrff proffesiynol ac asiantaethau. Mewn ymateb i'r pwynt a wnaed am faich ychwanegol posibl o ran costau, nid bwriad y polisi yw mynd ati ar unwaith, drwy reoliadau, i godi tâl isaf am bob math arall o fagiau siopa. Nid yw Llywodraeth Cymru am ddeddfu'n ddiangen. Yn lle hynny, rydym wedi achub ar y cyfle i ddiwygio Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 er mwyn sicrhau y bydd modd addasu'r gyfundrefn bresennol mewn modd hyblyg a phenodol drwy ddefnyddio rheoliadau os bydd tystiolaeth yn dangos yn y dyfodol bod angen gwneud hynny. Byddai Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn a manwl yn cael ei gynnal bryd hynny o'r rheoliadau a fyddai'n cynnwys yr opsiynau a fyddai ar gael i Weinidogion Cymru. Felly, byddem hefyd yn asesu ac yn ymgynghori am yr effaith ar fanwerthwyr ac ar awdurdodau lleol, er mwyn sicrhau y byddai unrhyw effeithiau andwyol a allai ddeillio o'r opsiynau arfaethedig yn cael eu gwerthuso, a'u lleihau pe bai modd.

287. At ei gilydd, roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol â'r cynigion ar drwyddedu morol, rheoli pysgodfeydd cregyn a draenio tir.

288. Mae'r Papur Gwyn a'r crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn i'w gweld yma: http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/environment-bill-white-paper/?skip=1&lang=cy

289. Cafodd yr ymatebion eu hystyried yn ofalus ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben ac fe'u defnyddiwyd wrth ddatblygu'r Bil.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid am Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

290. Cynhaliwyd nifer o weithdai a digwyddiadau yn ystod yr ymgynghoriad ar Bapur Gwyn Bil yr Amgylchedd. Yn eu plith yr oedd cynhadledd ar Adnoddau Naturiol ar 25 Tachwedd 2013. Daeth dros 160 o bobl o amrywiaeth o sectorau gwahanol i'r gynhadledd honno. Roedd yn gyfle i drafod y cynigion sydd wedi arwain at Fil yr Amgylchedd, fel y'u hamlinellir yn y Papur Gwyn, yn ogystal â rhai o fentrau eraill Llywodraeth Cymru. Yn ystod y trafodaethau o amgylch y bwrdd a gynhaliwyd yn ystod y gynhadledd, canolbwyntiwyd ar y cynigion sy'n ymwneud â gweithredu ar sail ardal wrth reoli adnoddau naturiol. Yn ogystal â'r gynhadledd, cynhaliwyd pedwar digwyddiad ymgynghori rhanbarthol hefyd i drafod y cynigion yn y Papur Gwyn. Dyma ddyddiadau'r gweithdai rhanbarthol hynny:
    - Dydd Llun, 2 Rhagfyr 2013, Merthyr Tudful
    - Dydd Mercher, 4 Rhagfyr 2013, Aberystwyth

- Dydd Llun, 9 Rhagfyr 2013, Cyffordd Llandudno
- Dydd Gwener, 10 Ionawr 2014, Caerdydd.

291. Cafodd y sylwadau a wnaed yn y gynhadledd ac yn y digwyddiadau rhanbarthol eu defnyddio wrth inni lunio'r crynodeb o'r ymatebion ac wrth inni fynd ati i wneud rhagor o waith ar ddatblygu'r Bil.

292. Y Grŵp Cyfeirio Adnoddau Naturiol sydd wedi bod yn cydgysylltu'r trafodaethau ar ddatblygu'r Bil ers yr ymgynghoriad yn y Papur Gwyn. Y Grŵp Cyfeirio yw fforwm rhanddeiliaid allanol yr Adran, ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys cyrff anllywodraethol, byd busnes, awdurdodau lleol, y sector ffermio a CNC. Mae'r Grŵp Cyfeirio wedi trafod amryfal agweddau ar y Bil drwy gydol y broses o'i datblygu ac mae'n cyfarfod bob ryw ddeufis.

293. Mae rhanddeiliaid hefyd wedi cael gwybodaeth am y Bil drwy'r e-fwletin Adnoddau Naturiol. Ar hyn o bryd, mae'n cael ei anfon yn fisol at bron 1,600 o randdeiliaid allanol.

Gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu ychwanegol

294. Ategwyd yr ymgyngoriadau uchod gan amryfal weithgareddau ymgysylltu eraill i drafod y cynigion a ddatblygwyd ac sydd bellach wedi eu cynnwys yn y Bil. Maent wedi helpu i fireinio'r Bil a byddant yn parhau i gael eu hystyried wrth inni fynd ati i weithredu'r darpariaethau.

Y Newid yn yr Hinsawdd

Y Gymru a Garem

295. Dangosodd Adroddiad Interim a Therfynol y Gymru a Garem[35], y naill wedi'i gyhoeddi ym mis Mehefin 2004 a'r llall ym mis Mawrth 2015[36], mai'r newid yn yr hinsawdd yw'r mater pwysicaf sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r adroddiad terfynol yn cynnwys crynodeb cyffredinol o sgwrs flwyddyn o hyd â phobl ledled Cymru a ddechreuodd ym mis Chwefror 2014. Cynhaliwyd y sgwrs ar yr un pryd â datblygu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan ymgysylltu â bron i 7000 o bobl.

Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd

296. Ym mis Ionawr 2013, lluniodd Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd (UKCCC) ei ail adroddiad blynyddol "Progress reducing emissions and preparing for climate change in Wales"[37]. Fel rhan o'r adroddiad, gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r UKCCC gynnal asesiad o ddewisiadau deddfwriaethol ar

[35] *http://www.theccc.org.uk/publication/progress-on-reducing-emissions-and-preparing-for-climate-change-in-wales/*
[36] *http://thewaleswewant.co.uk/sites/default/files/The%20Wales%20We%20Want%20Report%20ENG.pdf*
[37] *http://www.theccc.org.uk/publication/progress-on-reducing-emissions-and-preparing-for-climate-change-in-wales/*

gyfer darpariaethau lliniaru ac ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd a allai fod yn briodol i'w cynnwys yn y Bil.

297. Mewn ymateb i'r cais, cwblhaodd UKCCC ddadansoddiad a oedd yn ystyried y sefyllfa ddeddfwriaethol bresennol a'r sefyllfa ddeddfwriaethol sy'n datblygu yng Nghymru. Roedd yr adroddiad hwnnw hefyd yn asesu darpariaethau Deddf Newid yn yr Hinsawdd y DU 2008 a Deddf Newid yn yr Hinsawdd (Yr Alban) 2009. Dyma gasgliadau'r dadansoddiad hwnnw:

- Gallai pennu sail statudol i dargedau newid yn yr hinsawdd Cymru helpu i roi sicrwydd i lunwyr polisi, busnesau, buddsoddwyr a'r gymdeithas ehangach yng Nghymru a chryfhau cymhellion i leihau allyriadau.

- Gellid ystyried pennu targedau mwy hirdymor, ymhellach na 2020, o ystyried bod angen paratoi am amser hir cyn mynd ati i dddatblygu polisi, ac er mwyn helpu i sicrhau bod buddsoddiadau hirdymor yn ystyried effeithiau carbon.

- Byddai angen i dargedau statudol fod yn seiliedig ar asesiad cadarn a chynhwysfawr o'r potensial sydd gan ddylanwad Gweinidogion Cymru i leihau allyriadau mewn ffordd gosteffeithiol.

- Dylai unrhyw ddeddfwriaeth hefyd bennu dyletswyddau i gyrraedd targedau ond cynyddu hyblygrwydd hefyd – naill ai o ran natur y targedau (e.e. cyllidebau carbon) neu ganiatáu diwygiadau ar sail gwell gwybodaeth wyddonol a/neu ddeall potensial lleihau carbon er enghraifft.

- O ystyried y ddyletswydd Datblygu Cynaliadwy ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru, dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ellid cryfhau'r ddyletswydd i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn deall yn glir sut y maent yn cyfrannu at dargedau lleihau carbon Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'i hamcanion o ran ymaddasu, neu a yw'r mater hwn yn un i'w ystyried ymhellach ar gyfer Bil yr Amgylchedd.

- Yn y naill achos neu'r llall, dylid osgoi dyblygu ymdrechion ac adroddiadau cyrff cyhoeddus.

Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd

298. Ym mis Gorffennaf 2013, cyflwynodd Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd Bapur Sefyllfa ar ddatblygiad Bil yr Amgylchedd (Cymru), a oedd yn ymateb i gais am gyfraniad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd.

299. Gwnaed cyfres o argymhellion, gan gynnwys y posibilrwydd y byddai'n ddefnyddiol ystyried gwneud targedau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn statudol. Cyfeiriwyd yn benodol at yr hyn sy'n digwydd yn yr Alban o safbwynt targedau sy'n cael eu pennu gan Weinidogion yr Alban. Cafwyd consensws ymysg aelodau'r Comisiwn y dylai naill ai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 neu Fil yr Amgylchedd (Cymru) gynnwys targedau a bennir gan

Weinidogion Cymru, yng nghyd-destun safonau byd-eang/Ewropeaidd, gyda dyletswydd ehangach i'w hyrwyddo ledled y sector cyhoeddus.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

300. Ym mis Tachwedd 2014, cyhoeddodd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Cyfnod 1 Adroddiad y Pwyllgor[38]. Amlygodd yr adroddiad nifer o ymatebion a oedd yn datgan bod angen i nodau newid yn yr hinsawdd gael eu cynrychioli a'u cryfhau yn well mewn deddfwriaeth.

301. Yn ogystal, dywedodd y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy yn ei ymateb ysgrifenedig i'r ymgynghoriad ar Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ei bod yn hollbwysig bod strwythur y Bil, yn enwedig y nodau, y mesurau a'r egwyddorion, yn pennu'r fframwaith ar gyfer mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ledled y sector cyhoeddus.

Argymhellion ehangach

302. Yn dilyn y *Pwyllgor i Graffu ar y Prif Weinidog* yn 2014 a fu'n craffu ar Strategaeth Llywodraeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd[39], ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor at y Prif Weinidog yn argymell cyflwyno targedau statudol ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwydr yn y meysydd polisi y mae Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad yn gyfrifol amdanynt yn rhannol neu'n gyfan gwbl.

303. Roedd y llythyr hefyd yn argymell y dylid ystyried diwygio'r Bil er mwyn sicrhau y dylai cyllidebau carbon fod yn berthnasol yn y dyfodol i Lywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus eraill y mae Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn berthnasol iddynt.

304. Yn ystod sesiwn y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar 4 Mawrth 2015, argymhellwyd y byddai pennu targedau newid yn yr hinsawdd statudol ar gyfer Cymru yn gam cadarnhaol wrth fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd[40].

305. Yn ystod dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 11 Mawrth 2015, cafwyd consensws llawn i'r cynnig y bydd y Cynulliad: "Yn edrych ymlaen at Fil yr Amgylchedd a fydd yn gyfrwng i Lywodraeth Cymru ddeddfu ar gyfer targedau statudol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr."[41]

---

[38] *http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld10023%20-%20environment%20and%20sustainability%20committee%20-%20well-being%20of%20future%20generations%20(wales)%20bill%20stage%201%20committee%20re/cr-ld10023-e.pdf*

[39] *http://www.senedd.assembly.wales/ieListDocuments.aspx?MId=2427*

[40] *http://www.senedd.assembly.wales/documents/s500002294/4%20March%202015.pdf*

[41] *http://www.assembly.wales/en/bus-home/Pages/rop.aspx?meetingid=3114&language=en#208241*

Taliadau am Fagiau Siopa

306. O ran y darpariaethau a amlinellir yn y Papur Gwyn, rydym wedi ymgynghori ac ymgysylltu â'r llywodraethau datganoledig eraill, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a nifer o gymdeithasau manwerthu.

307. Roedd y darpariaethau hyn yn:
- galluogi Gweinidogion Cymru, trwy reoliadau, i bennu isafswm tâl ar gyfer mathau eraill o fagiau siopa, yn ogystal â'r isafswm tâl sydd eisoes ar waith mewn perthynas â bagiau siopa untro, a
- galluogi Gweinidogion Cymru, trwy reoliadau, i'w gwneud hi'n ofynnol i werthwyr roi'r enillion net o'r tâl i unrhyw achosion da yn hytrach nag i achosion da amgylcheddol yn unig.

308. Ymgysylltwyd â'r llywodraethau datganoledig drwy gynadleddau rheolaidd dros y ffôn er mwyn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am hynt y gwaith ar y Bil.

309. Mae swyddogion wedi cyfarfod hefyd â chynrychiolwyr Ffederasiwn y Busnesau Bach ac wedi bod mewn cyfarfod o Fforwm Manwerthwyr Cyfrifol y Cymdeithas Siopau Cyfleustra i drafod y cynigion a, lle bo modd, i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon a oedd gan fanwerthwyr. Buont mewn cysylltiad hefyd dros y ffôn a thrwy'r e-bost â chynrychiolwyr Consortiwm Manwerthu Prydain/Cymru er mwyn esbonio'r cynigion a chadarnhau nad yw'n fwriad gan Lywodraeth Cymru fynd ati ar unwaith, drwy gyfrwng rheoliadau, i weithredu'r pwerau a geisir. Cynhaliwyd trafodaethau hefyd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

310. Byddwn yn parhau i ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Hefyd, fel rhan o'r adolygiad cyffredinol o'r tâl a godir yng Nghymru ar hyn o bryd am fagiau siopa untro, byddwn yn mynd ati yn ystod camau ymchwil yr adolygiad hwnnw i ofyn i randdeiliaid fynegi barn am y cynigion a'u heffaith bosibl ar fusnesau, defnyddwyr, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol a'u dadansoddi er mwyn llywio cyfeiriad a datblygiad y polisi i'r dyfodol, gan gynnwys asesiadau effaith pellach.

Casglu a Gwaredu Gwastraff

311. Ymgysylltwyd yn eang â rhanddeiliaid am y cynigion a amlinellir yn y Papur Gwyn. Yn y Papur Gwyn, aeth Llywodraeth Cymru ati i ymgynghori ar wahanu gwastraff ailgylchadwy gan gynhyrchwyr gwastraff heblaw cartrefi, gofyniad ar i gasglwyr gwastraff gasglu gwastraff trwy ddarparu casgliadau ar wahân, gwahardd llosgi a gwahardd tirlenwi deunyddiau ailgylchadwy a gwahardd gwaredu gwastraff bwyd i garthffosydd o eiddo annomestig.

312. Roedd yr ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cynnwys trafodaethau gyda:
- Chynrychiolwyr byd busnes (er enghraifft, Ffederasiwn y Busnesau Bach, Masnach Cymru, cynrychiolwyr y sector adeiladu).
- Y diwydiant gwastraff (er enghraifft, Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru).

- Y sector cyhoeddus (er enghraifft, Ystadau Iechyd Cymru).
- CNC.
- Y sector busnes (er enghraifft, cwmnïau sy'n gweithgynhyrchu unedau gwaredu gwastraff bwyd, Dŵr Cymru).
- Awdurdodau lleol.
- Defra a gweinyddiaethau'r Alban a Gogledd Iwerddon.

313. Byddwn yn parhau i ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid am y cynigion, ac yn mynd ati, wrth ddatblygu is-ddeddfwriaeth o dan ddarpariaethau'r Bil, i ystyried mwy ar eu heffeithiau posibl ar fusnesau, defnyddwyr, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol.

Trwyddedu Morol

314. Yn ogystal â'r broses ymgynghori ffurfiol yn y Papur Gwyn, ymgynghorwyd ac ymgysylltwyd hefyd am y darpariaethau sy'n ymwneud â chodi tâl am drwyddedau morol. Cysylltwyd â Defra, y gweinyddiaethau datganoledig eraill, Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid eraill sydd â chysylltiad â thrwyddedu morol.

315. Mae'r gwaith ymgynghori ac ymgysylltu wedi ceisio cael barn pobl am y cynigion i newid y pwerau presennol trwy Fil yr Amgylchedd ac, yn benodol, cynnwys y pŵer i'r awdurdod trwyddedu (CNC) godi tâl am waith cyn-ymgeisio, diwygio trwydded, trosglwyddo, atal neu ddirymu trwydded a monitro trwydded forol, i gynnwys asesu adroddiadau monitro, cyflawni amodau a phrofi cydymffurfiaeth.

316. Cynhaliwyd trafodaethau rheolaidd â Defra a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill ar faterion yn ymwneud â thrwyddedu morol, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am hynt y gwaith ar y Bil. Rhannwyd gwybodaeth yn uniongyrchol hefyd, gan ofyn iddynt fynegi barn ffurfiol am y darpariaethau.

317. Mae rhanddeiliaid sydd a â chysylltiad â thrwyddedu morol wedi cael gwybodaeth oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd, a hynny yn sgil y gwaith y mae'r corff hwnnw'n ei wneud i adolygu ffioedd. Wrth i'r gwaith ar yr adolygiad o ffioedd fynd rhagddo, byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid sydd â chysylltiad â thrwyddedu morol, gan wneud hynny'n anffurfiol drwy grŵp rhanddeiliaid trwyddedu morol Cyfoeth Naturiol Cymru, ac yn ffurfiol drwy ymgynghori'n gyhoeddus am y ffioedd trwyddedu morol diwygiedig.

Pysgodfeydd ar gyfer pysgod cregyn

318. Yn ogystal â'r ymgynghoriad yn y Papur Gwyn, aed ati hefyd yn 2013 i ymgynghori'n fwy penodol â rhanddeiliaid sydd â buddiant yn y maes. Rhoddwyd cyflwyniadau am y cynigion i'r 3 Grŵp Pysgodfeydd y Glannau, y Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru, a Chymdeithas Rheoli Gorchymyn Pysgodfa Afon Menai. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r diwydiant pysgota, drwy gysylltu'n

uniongyrchol â physgotwyr, ond hefyd drwy drafodaethau rheolaidd gyda sefydliadau megis Seafish a Chymdeithas Pysgotwyr Cymru.

319. At ei gilydd, cafwyd adborth cadarnhaol mewn ymateb i'r broses ymgynghori anffurfiol honno am y newidiadau arfaethedig i'r drefn Gorchmynion Pysgodfeydd Unigol. Ar y dechrau, trafodwyd newid posibl i'r system Gorchmynion Rheoleiddio yn ystod y broses ymgynghori honno, gan ofyn a oes unrhyw alw neu awydd bellach yn y diwydiant pysgota am Orchmynion Rheoleiddio yng Nghymru (ar ôl i Bwyllgorau Pysgodfeydd Môr Cymru gael eu diddymu yn 2010). Mewn ymateb i'r trafodaethau hynny, dileodd Llywodraeth Cymru y cynigion i ddileu neu addasu'r pŵer i wneud Gorchmynion Rheoleiddio o'r Bil ac nid oes unrhyw ddarpariaeth am y mater hwnnw yn y Bil bellach.

Y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol

320. Mae CNC wedi cynnal adolygiad o Bwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru (FRMW) yn ddiweddar a oedd yn mynegi pryderon ynglŷn ag atebolrwydd deuol mewn perthynas â'u dyletswyddau rheoli perygl llifogydd ac yn dangos bod rôl a diben FRMW yn aneglur ar hyn o bryd. Amlygodd yr adolygiad bwysigrwydd llais annibynnol wrth reoli perygl llifogydd yng Nghymru, gan gefnogi'r angen am FRMW.

321. Ar hyn o bryd, mae CNC yn atebol i Bwyllgor FRMW ac i'w fwrdd ei hun. Mae Bwrdd CNC yn atebol i Weinidogion Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Materion Cyhoeddus. Bydd newidiadau i'r pwyllgor hwn yn mynd i'r afael â'r atebolrwydd deuol sydd wedi'i amlygu yn yr adolygiad a gan brif gyfrifydd CNC.

322. Ategwyd yr adolygiad gan gyfarfodydd â CNC ac FRMW, a ddarparodd ragor o dystiolaeth o'r angen i newid y trefniadau presennol, ond hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cyngor annibynnol ar reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

Draenio Tir

323. Aeth Llywodraeth Cymru ati yn 2012 i ymgynghori am yr opsiynau ar gyfer cyflawni swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol yng ngoleuni *Cymru Fyw* a'r diwygiadau i'r modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus[42]. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi trafod trosglwyddo swyddogaethau'r Byrddau Draenio gyda CNC a'r Byrddau eu hunain, a chafodd dau gynnig eu cynnwys yn y Bil yn sgil y trafodaethau hynny. Maent yn parhau i gyfathrebu a'i gilydd, drwy Grŵp Pontio ffurfiol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, CNC a'r Byrddau Draenio Mewnol, ac sy'n cyfarfod yn rheolaidd. Maent yn trafod yn anffurfiol hefyd dros y ffôn a thrwy'r e-bost.

324. O ran y darpariaethau sy'n ymwneud â phwerau mynediad, cynhaliwyd trafodaethau gydag Asiantaeth yr Amgylchedd yn y lle cyntaf er mwyn casglu data am faterion yn ymwneud â draenio tir yn Lloegr. Gwnaed hynny fel y bo

[42] *http://gov.wales/consultations/environmentandcountryside/internaldrainage/?lang=en*

modd cymharu’r sefyllfa yn y ddwy wlad. Ymgynghorwyd yn anffurfiol am y gwaith o baratoi’r dadansoddiad y mae angen ei gynnal fel sail i’r Arfarniad Effaith Rheoleiddiol. Cynhaliwyd trafodaethau â Thribiwnlysoedd Tir Amaethyddol a chyfreithwyr ac yn fewnol gyda staff Llywodraeth Cymru.

Pennod 5: Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

325. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth, rhoi cyfarwyddydau a chyhoeddi canllawiau. Mae Tabl 3 ar y tudalennnau a ganlyn yn nodi darpariaethau sy'n cynnwys pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth. Mae Tabl 4 yn nodi pwerau i roi cyfarwyddydau. Mae Tabl 5 yn nodi pwerau o gyhoeddi canllawiau. Mae pob un o'r tablau'n esbonio:

(i) I ba unigolyn neu gorff y rhoddir y pŵer.

(ii) Ar ba ffurf y mae'r pŵer i'w arfer.

(iii) Priodoldeb y pŵer dirprwyedig.

(iv) Y weithdrefn a gymhwysir; hynny yw, "cadarnhaol", "negyddol", neu "dim gweithdrefn", ynghyd â'r rhesymau pam y bernir ei bod yn briodol.

326. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth os bernir ei bod yn briodol gwneud hynny. Penderfynir sut yn union i ymgynghori ar ôl i'r cynigion gael eu ffurfioli.

Tabl 3: Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb ar gyfer pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
Rhan 1 – Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol					
Adran 11(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru ychwanegu, dileu neu ddiwygio disgrifiad o berson a restrir fel corff cyhoeddus o dan adran 11(1). Mae'r pŵer hwn yn	Cadarnhaol	Mae'n bŵer i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol felly mae'n briodol bod y weithdrefn gadarnhaol yn cael ei defnyddio i wneud y rheoliadau.

			rhoi'r hyblygrwydd i ymateb i unrhyw newidiadau yn y dyfodol, er enghraifft, creu corff cyhoeddus newydd.		
Adran 22(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pan fydd CNC yn arfer y pŵer sydd ganddo yn unol ag Erthygl 10C o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol (Sefydlu) (Cymru) i gyflawni cynllun arbrofol, bydd angen y pŵer hwn fel y bo modd atal dros dro ddeddfwriaeth sy'n ei rwystro rhag cyflawni'r cynllun hwnnw. Bydd hyn yn cael ei wneud fesul achos unigol a bydd gofyn i CNC gyflwyno tystiolaeth i gefnogi cais o'r fath.	Cadarnhaol	Mae angen defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol oherwydd y bydd y rheoliadau yn diwygio darpariaeth mewn deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes am gyfnod o hyd at dair blynedd.
Adran 22(6)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Nid yw'r pŵer ond yn darparu ar gyfer dirymu rheoliadau a wneir o dan adran 21(1).	Dim gweithdrefn	Nid oes angen unrhyw benderfyniadau. Dim ond dileu unrhyw ataliad dros dro y bydd y rheoliadau yn ei wneud er mwyn adfer y ddeddfwriaeth i'w drafft

					gwreiddiol.
Adran 24(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Ar ôl i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad i'r perwyl hwnnw, mae'r ddarpariaeth hon yn rhoi'r hyblygrwydd iddynt amrywio'r amseriadau ar gyfer paratoi neu gyhoeddi Adroddiadau ar Gyflwr Adnoddau Naturiol ac Adroddiadau Adnoddau Naturiol Cenedlaethol. Ar hyn o bryd, mae'r amseriadau'n cyd-fynd â'r amseriadau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Pe bai'r amseriadau hynny'n cael eu diwygio yn y dyfodol, mae'n bosibl y byddai angen diwygio'r amseriadau ar gyfer Adroddiadau ar Gyflwr Adnoddau Naturiol ac Adroddiadau	Negyddol	Diben y pŵer hwn yw gwneud newidiadau technegol o ran erbyn pa bryd y mae'n rhaid paratoi Adroddiadau ar Gyflwr Adnoddau Naturiol ac Adroddiadau Adnoddau Naturiol Cenedlaethol, a hynny fel y bo'r amseriadau'n cyd-fynd â gofynion statudol eraill o ran paratoi adroddiadau. Newidiadau gweinyddol a chymharol fân fyddai'r rhain.

			Adnoddau Naturiol Cenedlaethol.		
Rhan 2 – Newid yn yr Hinsawdd					
Adran 30(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r pŵer hwn yn caniatáu hyblygrwydd yn y dyfodol fel y bo modd ymateb i'r dystiolaeth ddiweddaraf. Drwy bennu targedau interim ymlaen llaw, cydnabyddir nad oes modd, ar hyn o bryd, ragweld yn fanwl gywir hyd at 2050 yr amryfal ffactorau y bydd angen eu hystyried mewn perthynas â lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru. Mae rhai technolegau neu newidiadau o ran offer yn cymryd cryn amser i'w cyflwyno ac mae angen amser i newid rhai mathau o ymddygiad.	Cadarnhaol	Ystyrir bod y ddarpariaeth yn arbennig o bwysig oherwydd ei natur dechnegol, lle nad yw'r diben ond yn cael ei bennu drwy gyfrwng deddfwriaeth alluogi.
Adran 33(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r pŵer hwn yn caniatáu hyblygrwydd yn y dyfodol fel y bo modd ymateb i'r	Cadarnhaol	Ystyrir bod y ddarpariaeth yn arbennig o bwysig oherwydd ei natur dechnegol, lle nad yw'r diben ond yn cael ei

			dystiolaeth ddiweddaraf. Drwy bennu cyllidebau carbon ymlaen llaw, cydnabyddir nad oes modd, ar hyn o bryd, ragweld yn fanwl gywir hyd at 2050 yr amryfal ffactorau y bydd angen eu hystyried mewn perthynas â lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru. Mae rhai technolegau neu newidiadau o ran offer yn cymryd cryn amser i'w cyflwyno ac mae angen amser i newid rhai mathau o ymddygiad.		bennu drwy gyfrwng deddfwriaeth alluogi.
Adran 33(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r pŵer hwn yn caniatáu hyblygrwydd yn y dyfodol. Mae rhai busnesau yng Nghymru yn cymryd rhan yng Nghynllun Masnachu Allyriadau yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n bosibl y bydd cwmnïau yng Nghymru yn cymryd rhan mewn cynlluniau masnachu	Cadarnhaol	Ystyrir bod y ddarpariaeth yn arbennig o bwysig oherwydd ei natur dechnegol, lle nad yw'r diben ond yn cael ei bennu drwy gyfrwng deddfwriaeth alluogi.

			eraill o'r fath. Os ydym yn awyddus i gyfrif allyriadau net Cymru gynnwys yr unedau a gaiff eu masnachu o fewn cynlluniau o'r fath, bydd angen diffinio o dan ba delerau y bydd hynny'n digwydd.		
Adran 33(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r pŵer hwn yn caniatáu'r hyblygrwydd yn y dyfodol i ystyried unrhyw drefniadau Ewropeaidd a rhyngwladol a gaiff eu gwneud yn y dyfodol.	Cadarnhaol	Ystyrir bod y ddarpariaeth yn arbennig o bwysig oherwydd ei natur dechnegol, lle nad yw'r diben ond yn cael ei bennu drwy gyfrwng deddfwriaeth alluogi.
Adran 35(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r pŵer hwn yn caniatáu'r hyblygrwydd yn y dyfodol i gynnwys allyriadau hedfan rhyngwladol ac allyriadau morgludiant rhyngwladol yng nghyfrif allyriadau Cymru, yn enwedig os bydd cytundeb Ewropeaidd neu ryngwladol yn golygu y bydd angen gwneud newid o'r fath yn y dyfodol.	Cadarnhaol	Ystyrir bod y ddarpariaeth yn arbennig o bwysig oherwydd ei natur dechnegol, lle nad yw'r diben ond yn cael ei bennu drwy gyfrwng deddfwriaeth alluogi.

Adran 36(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae’r pŵer hwn yn caniatáu’r hyblygrwydd yn y dyfodol i ddiffinio “unedau carbon” yn unol ag arferion ehangach.	Cadarnhaol	Ystyrir bod y ddarpariaeth yn arbennig o bwysig oherwydd ei natur dechnegol, lle nad yw’r diben ond yn cael ei bennu drwy gyfrwng deddfwriaeth alluogi.
Adran 36(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae’r pŵer hwn yn caniatáu hyblygrwydd yn y dyfodol oherwydd ei bod yn bosibl y bydd angen creu cynllun i fonitro’r defnydd o unedau carbon. Mae masnachu unedau ar draws ffiniau yn gallu bod yn gymhleth ac ni wyddys eto a fydd angen cynllun o’r fath. Fodd bynnag, os bydd ei angen, mae’r darpariaethau yn caniatáu i gynllun o’r fath gael ei greu.	Cadarnhaol	Ystyrir bod y ddarpariaeth yn arbennig o bwysig oherwydd ei natur dechnegol, lle nad yw’r diben ond yn cael ei bennu drwy gyfrwng deddfwriaeth alluogi.
Adran 37(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae’r pŵer hwn yn caniatáu hyblygrwydd yn y dyfodol fel y bo modd ymateb i’r wyddoniaeth ddiweddaraf ar y newid yn yr hinsawdd, yn enwedig o gofio ei bod	Cadarnhaol	Ystyrir bod y ddarpariaeth yn arbennig o bwysig oherwydd ei natur dechnegol, lle nad yw’r diben ond yn cael ei bennu drwy gyfrwng deddfwriaeth alluogi.

			yn fwriad i fframwaith y Bil fod yn un hirdymor. Gan fod gwyddoniaeth y newid yn yr hinsawdd yn esblygu'n barhaus, mae'n bosibl, yn y dyfodol, y bydd angen ychwanegu nwyon newydd i'r rhestr o nwyon y mae targedau ar eu cyfer yn y Bil, a hynny yn unol â gofynion adrodd rhyngwladol.		
Adran 38(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r pŵer hwn yn caniatáu hyblygrwydd yn y dyfodol fel y bo modd ymateb i'r wyddoniaeth ddiweddaraf ar y newid yn yr hinsawdd, yn enwedig o gofio ei bod yn fwriad i fframwaith y Bil fod yn un hirdymor. Os ychwanegir nwy tŷ gwydr newydd o dan adran J707, bydd angen dynodi blwyddyn waelodlin, ochr yn ochr â swm yr allyriadau ar gyfer y flwyddyn honno.	Cadarnhaol	Ystyrir bod y ddarpariaeth yn arbennig o bwysig oherwydd ei natur dechnegol, lle nad yw'r diben ond yn cael ei bennu drwy gyfrwng deddfwriaeth alluogi.
Adran 44(1)	Gweinidogion	Rheoliadau	Mae'r pŵer hwn yn	Negyddol	Byddai'r ddarpariaeth yn

	Cymru		caniatáu hyblygrwydd yn y dyfodol o ran pa gorff neu berson a fydd yn cyflawni swyddogaethau cynghori o dan y Bil hwn, yn enwedig o gofio ei bod yn fwriad i fframwaith y Bil fod yn un hirdymor. Bydd y golygu y bydd modd i'r swyddogaethau gael eu cyflawni gan gorff priodol.		caniatáu i gorff gael ei ddynodi'n "corff cynghori" a fyddai'n cyfuno darpariaethau o dan bwerau eraill.
Adran 52	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r pŵer hwn yn caniatáu'r hyblygrwydd yn y dyfodol i ystyried cytundebau a threfniadau Ewropeaidd a rhyngwladol a gaiff eu gwneud yn y dyfodol mewn perthynas ag "arferion rhyngwladol adrodd ar garbon".	Negyddol	Unig ddiben y ddarpariaeth yw sicrhau y bydd modd cadw'r diffiniad o "arferion rhyngwladol adrodd ar garbon" a geir yn y Bil yn gyfredol, felly, newid technegol yw hwn.
Rhan 3 – Codi Taliadau am Fagiau Siopa					
Adran 55(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r ddarpariaeth hon yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol, drwy gyfrwng	Cadarnhaol	Mae angen defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol oherwydd y bydd y ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i osod

			rheoliadau, i werthwyr nwyddau godi tâl am gyflenwi bagiau siopa. Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer y materion a nodir yn adrannau 55-63. Mae'n briodol i'r pwerau hyn gael eu dirprwyo i Weinidogion Cymru gan fod y rheoliadau yn rhoi mwy o hyblygrwydd.		baich ariannol ar y cyhoedd ar ffurf isafswm tâl am fagiau siopa.
Rhan 4 – Casglu a Gwaredu Gwastraff					
Mae Adran 66 yn mewnosod adran 45AA(6) newydd i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r pŵer yn caniatáu pennu gofynion technegol sy'n effeithio ar gynhyrchwyr a chasglwyr gwastraff, mewn perthynas â gwahanu deunyddiau gwastraff penodedig oddi wrth fathau eraill o wastraff a sylweddau eraill, a'u cadw ar wahân wedyn. Mae gofynion o'r fath yn fanwl ac maent yn gallu newid o bryd i'w	Negyddol	Mae angen defnyddio gweithdrefn negyddol y Cynulliad oherwyddy manylion cymharol fân neu dechnegol fydd y rheoliadau hyn yng nghyd-destun y cynllun deddfwriaethol cyffredinol, a bydd angen eu diweddaru o bryd i'w gilydd.

			gilydd, felly, mae'n briodol eu nodi mewn rheoliadau yn hytrach nag ar wyneb y Bil.		
Mae Adran 66 yn mewnosod adran 45AA(7) newydd i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r pŵer hwn yn ymwneud â'r pŵer yn is-adran (6), ac mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru bennu o dan ba amgylchiadau y mae gofyniad i wahanu gwastraff o dan is-adran (6), yn gymwys. Bydd darpariaethau o dan y pŵer hwn yn cynnwys llawer iawn o fanylion ac felly mae'n fwy priodol eu cynnwys mewn rheoliadau yn hytrach nag ar wyneb y Bil.	Negyddol	Mae angen defnyddio gweithdrefn negyddol y Cynulliad oherwyddy manylion cymharol fân neu dechnegol fydd y rheoliadau hyn yng nghyd-destun y cynllun deddfwriaethol cyffredinol, a bydd angen eu diweddaru o bryd i'w gilydd.
Mae Adran 66 yn mewnosod adran 45AA(10)(a) newydd i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i bennu eithriadau i'r dyletswyddau yn is-adrannau (1) a (2). Bydd darpariaethau a wneir o dan y pŵer hwn yn cynnwys llawer iawn o fanylion, a bydd angen eu hamrywio o bryd i'w gilydd er mwyn ystyried achosion gwahanol ac amgylchiadau newydd.	Cadarnhaol	Mae angen defnyddio gweithdrefn gadarnhaol y Cynulliad oherwydd bod hwn yn bŵer i wneud diwygiadau sylweddol i ddeddfwriaeth sylfaenol.

			Mae'n briodol, felly, ymdrin â'r materion hyn mewn rheoliadau yn hytrach nag ar wyneb y Bil.		
Mae Adran 66 yn mewnosod adran 45AA(10)(b) newydd i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i wneud is-adran (4) o adran 45AA yn gymwys yn ddarostyngedig i eithriadau yn ychwanegol at y rheini a bennir yn is-adran (5). Bydd darpariaethau a wneir o dan y pŵer hwn yn cynnwys manylion, ac mae'n bosibl y bydd angen eu hamrywio o bryd i'w gilydd er mwyn ystyried achosion gwahanol ac amgylchiadau newydd. Mae'n briodol, felly, ymdrin â'r materion hyn mewn rheoliadau yn hytrach nag ar wyneb y Bil.	Cadarnhaol	Mae angen defnyddio gweithdrefn gadarnhaol y Cynulliad oherwydd bod hwn yn bŵer i wneud diwygiadau sylweddol i ddeddfwriaeth sylfaenol.
Mae adran 67 yn mewnosod adran 34D(6)(a) newydd i	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i gyfyngu ar y modd y cymhwysir is-adran (1) o dan amgylchiadau penodedig. Mae	Cadarnhaol	Mae angen defnyddio gweithdrefn gadarnhaol y Cynulliad oherwydd bod hwn yn bŵer i wneud diwygiadau sylweddol i ddeddfwriaeth

Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990			rheoliadau'n briodol oherwydd bod angen yr hyblygrwydd i wneud ac i amrywio cyfyngiadau o'r fath, fel y bo modd addasu wrth i amgylchiadau newid a darparu ar gyfer achosion gwahanol.		sylfaenol.
Mae adran 67 yn mewnosod adran 34D(6)(b) newydd i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i wneud is-adran (4) o adran 34D yn gymwys, yn ddarostyngedig i eithriadau yn ychwanegol at y rheini a bennir yn is-adran (2). Bydd darpariaethau a wneir o dan y pŵer hwn yn cynnwys manylion, a dichon y bydd angen eu hamrywio o bryd i'w gilydd wrth i amgylchiadau newid. Byddai'n briodol, felly, eu cynnwys mewn rheoliadau yn hytrach nag ar wyneb y Bil.	Cadarnhaol	Mae angen defnyddio gweithdrefn gadarnhaol y Cynulliad oherwydd bod hwn yn bŵer i wneud diwygiadau sylweddol i ddeddfwriaeth sylfaenol.
Mae adran 67 yn mewnosod adran	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i ddiwygio'r diffiniad o "gwastraff bwyd" yn is-adran (5).	Cadarnhaol	Mae angen defnyddio gweithdrefn gadarnhaol y Cynulliad oherwydd bod hwn

34D(6)(c) newydd i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990			Mae angen hyblygrwydd mewn perthynas â'r diffiniad o wastraff bwyd fel y bo modd addasu'r ddeddfwriaeth mewn ymateb i newidiadau yn y modd y cynhyrchir ac y rheolir gwastraff bwyd, drwy newid y diffiniad o bryd i'w gilydd. O'r herwydd, mae rheoliadau'n briodol ar gyfer y pŵer hwn.		yn bŵer i wneud diwygiadau sylweddol i ddeddfwriaeth sylfaenol.
Mae Adran 68 yn mewnosod adran 9A(1) newydd i Fesur Gwastraff (Cymru) 2010	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i wneud darpariaeth ar gyfer ac mewn cysylltiad â gwahardd neu reoleiddio llosgi mathau penodedig o wastraff. Bydd angen i'r darpariaethau hyn gwmpasu amrywiaeth eang o amgylchiadau, a chynnwys lefel o fanylder na fyddai'n ymarferol darparu ar ei gyfer ar wyneb y Bil. Bydd angen newid y darpariaethau hefyd o bryd i'w gilydd, fel y bo modd addasu mewn ymateb i amgylchiadau newydd. Mae'n briodol,	Cadarnhaol	Mae angen defnyddio gweithdrefn gadarnhaol y Cynulliad. Er y disgwylir i'r rheoliadau hyn gynnwys manylion technegol, mae'r pŵer yn yr adran 9A(1) newydd yn un eang, a bernir y gallai'r Cynulliad fod yn awyddus i graffu ar y defnydd y bwriedir ei wneud ohono. Mae'r pŵer hefyd yn adlewyrchu pwerau sy'n bodoli eisoes yn adran 9 o Fesyr Gwastraff (Cymru), mewn perthynas â thirlenwi, ac y barnwyd y byddai'r weithdrefn gadarnhaol yn addas ar eu cyfer.

			felly, i'r darpariaethau hyn gael eu cynnwys mewn rheoliadau.		
Rhan 5 – Pysgodfeydd ar gyfer Pysgod Cregyn					
Mae adran 73 yn mewnosod adran 5(A) i Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1976	Gweinidogion Cymru	Mae'r ddarpariaeth hon yn effeithio ar bŵer sy'n bodoli eisoes yn Neddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1976 i wneud Gorchymyn.	O dan adran 1 o Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1976, mae gan Weinidogion Cymru bŵer eisoes i wneud Gorchymyn er mwyn sefydlu neu wella, a chynnal neu reoleiddio pysgodfa môr. Mae'r adran 5A newydd (sydd i'w mewnosod i Ddeddf 1967) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod Gorchymyn a wneir o dan adran 1 yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau y bernir eu bod yn briodol er mwyn atal niwed i unrhyw Safle Morol Ewropeaidd neu er mwyn diogelu'r amgylchedd morol mewn rhyw ffordd arall. Bydd gan bob safle ei ffactorau amgylcheddol ei hun, ac o'r herwydd, nid oes	(Yn rhinwedd adran 20 o Ddeddf 1967), y weithdrefn penderfyniad negyddol a ddefnyddir ar gyfer y pŵer sy'n bodoli eisoes yn adran 1 o Ddeddf 1967.	Yr unig beth y mae'r pŵer newydd yn ei wneud yw addasu'r modd y dylid arfer pŵer sy'n bodoli eisoes i wneud is-ddeddfwriaeth. Y weithdrefn penderfyniad negyddol a ddefnyddir ar gyfer y pŵer sy'n bodoli eisoes.

			modd darparu ar gyfer pob posibilrwydd ar wyneb y Bil. Bydd angen gwerthuso pob cais am Orchymyn Pysgodfa Cregyn yn unigol a bydd angen cynnwys darpariaeth briodol ar gyfer y safle penodol hwnnw yn y Gorchymyn Pysgodfa Cregyn.		
Mae adran 75(2) yn mewnosod adran 5(E) i Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Mae'r adran 5E newydd yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, o dan amgylchiadau penodol, amrywio neu ddirymu Gorchmynion Pysgodfeydd Cregyn a wneir o dan adran 1 o Ddeddf 1967, a hynny er mwyn gwarchod Safle Morol Ewropeaidd, ond nid yw'n briodol rhoi hynny ar wyneb y Bil oherwydd y bydd angen gwerthuso pob achos yn unigol.	Negyddol	Mae'r pŵer newydd hwn yn bŵer cymharol fân (yn yr ystyr y rhagwelir mai yn anaml iawn y bydd yn cael ei ddefnyddio) yng nghyd-destun y drefn ddeddfwriaethol gyffredinol. Mae'n bosibl hefyd y bydd angen deddfu'n gyflym er mwyn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn gallu cydymffurfio â'r rhwymedigaethau sydd arnynt o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (ac osgoi'r posibilrwydd o wynebu achos am dorri cyfraith Ewropeaidd). Mae hwn hefyd yn faes lle nad oes gan Weinidogion Cymru fawr o ddisgresiwn dros gynnwys y

					ddeddfwriaeth.
Rhan 6 – Trwyddedu Morol					
Mae adran 78 yn mewnosod adran 72A(4) i Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r ddarpariaeth yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu ffioedd drwy gyfrwng Rheoliadau. Mae'r ffioedd yn gysylltiedig â monitro gweithgarwch a awdurdodwyd gan drwydded forol; asesu a dehongli canlyniadau monitro o'r fath, ac ymdrin â cheisiadau i amrywio trwydded forol, i'w hatal dros dro, ei dirymu neu ei throsglwyddo. Caiff y Rheoliadau ddarparu ar gyfer ffioedd gwahanol ar gyfer achosion gwahanol. Ni fyddai'n ymarferol pennu ffioedd ar wyneb y Bil oherwydd y byddant yn cael eu hadolygu. Bydd adolygiadau'n cael eu cynnal yn ôl yr angen, yn flynyddol, o bosibl. Er nad yw hynny'n ofyniad statudol, y bwriad yw y bydd ymgynghoriad	Negyddol	Bydd angen diweddaru cynnwys y rheoliadau (h.y. lefel y ffioedd, yn unol â chwyddiant, gweithdrefnau newydd etc.) yn rheolaidd. Mae'r pwerau hyn yn ychwanegu at y pŵer presennol i bennu ffioedd ar gyfer ceisiadau am drwyddedau morol fel y'i nodir yn adran 67(2) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Rhagwelir y bydd Gweinidogion Cymru yn diweddaru'r Rheoliadau Ffioedd presennol, a wnaed yn unol ag adran 67(2) o Ddeddf y Môr a'r Mynediad i'r Arfordir, drwy ddefnyddio'r pwerau presennol i wneud Rheoliadau sydd yn adran 67(2) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir ochr yn ochr â'r pŵer newydd i wneud Rheoliadau sydd yn y Bil. Y bwriad, i'r graddau y bo hynny'n bosibl, yw nodi'r holl ffioedd trwyddedu morol

			cyhoeddus yn cael ei gynnal ar gyfer pob adolygiad lle bwriedir newid ffioedd.		mewn un OS. Mae ffioedd a bennir o dan adran 67(2) yn defnyddio'r weithdrefn negyddol yn unol ag adran 316(8) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir. O'r herwydd, er mwyn sicrhau cysondeb ac o gofio y bydd angen adolygu ffioedd yn rheolaidd, bernir ei bod yn briodol mabwysiadu'r weithdrefn negyddol.
Mae adran 79 yn mewnosod adran 107A (3) i Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r adran yn darparu bod Gweinidogion Cymru yn cael ei gwneud yn ofynnol i berson dalu blaendal mewn perthynas â ffi. Mae swm y blaendal i'w benderfynu drwy reoliadau neu yn unol â rheoliadau. Ni fyddai'n ymarferol darparu ar gyfer blaendaliadau ar wyneb y Bil oherwydd y byddant yn cael eu hadolygu.	Negyddol	Bydd angen diweddaru cynnwys y rheoliadau (h.y. lefel y blaendaliadau) yn rheolaidd. Fel y disgrifir uchod, y bwriad, i'r graddau y bo hynny'n bosibl, yw nodi'r holl ffioedd trwyddedu morol mewn un OS. Mae ffioedd a bennir o dan adran 67(2) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir ac yn adran 53 o'r Bil yn defnyddio'r weithdrefn negyddol. O'r herwydd, er mwyn sicrhau cysondeb ac o gofio y bydd angen adolygu

					ffioedd yn rheolaidd, bernir ei bod yn briodol mabwysiadu'r weithdrefn negyddol.
Mae adran 80 yn mewnosod adran 108(2A) i Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r ddarpariaeth sydd i'w mewnosod i adran 108 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru, drwy gyfrwng rheoliadau, wneud darpariaeth i unrhyw berson y dyroddir hysbysiad iddo o dan adran 72A(7) neu 197(A)(4) apelio yn erbyn yr hysbysiad hwnnw. Rydym am sicrhau cysondeb â'r pwerau presennol o dan adran 108 i apelio yn erbyn hysbysiadau ac rydym am osgoi gosod y drefn apelio ar gyfer y pwerau newydd hyn ar wyneb y Bil, o ystyried bod gennym yr hyblygrwydd i bennu'r darpariaethau ar gyfer gweddill y drefn apelio.	Cadarnhaol	Bwriedir mewnosod y pŵer newydd i wneud is-ddeddfwriaeth i adran 108 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir. Mae adran 108 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud, drwy gyfrwng rheoliadau, ddarpariaeth i unrhyw berson apelio yn erbyn hysbysiadau penodol. Mae'r hysbysiadau yr ymdrinnir â hwy yn adran 108 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir yn cynnwys hysbysiadau i atal trwydded forol dros dro, i'w hamrywio neu ei dirymu yn unol ag adran 72 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir. Mae hysbysiadau a ddyroddir o dan adran 72 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir yn debyg i'r hysbysiadau y ceir eu dyroddi o dan adrannau 72A(7) neu 107(A)(4) a fydd yn cael eu mewnosod i

					Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir gan y Bil. O dan adran 316(6) a (7) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, y 'weithdrefn gadarnhaol ddrafft' a ddefnyddir ar gyfer rheoliadau a wneir drwy gyfrwng offeryn statudol o dan adran 108 o'r Ddeddf honno. Mae adran 316(10)(c) o'r Ddeddf honno yn darparu bod y 'weithdrefn gadarnhaol ddrafft' yn ei gwneud yn ofynnol i ddrafft o'r offeryn hwnnw gael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo. Bernir bod darparu trefn apelio briodol yn hanfodol er mwyn diogelu hawliau'r trwyddedai (gallai hysbysiad atal gweithredwr rhag cyflawni ei weithgarwch economaidd) ac felly, bod y lefel hon o graffu yn briodol ar gyfer gwneud y darpariaethau hyn.

					Y bwriad, i'r graddau y bo hynny'n bosibl, yw sicrhau bod yr holl ddarpariaethau ar gyfer apelio yn erbyn hysbysiadau o dan ran 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir yn gyson â'i gilydd ac yn cael eu nodi mewn un OS. O'r herwydd, er mwyn sicrhau cysondeb, bernir mai'r weithdrefn gadarnhaol y dylid ei mabwysiadu.
Rhan 7 – Amrywiol					
Mae adran 82 yn mewnosod adrannau 26B(3) i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bydd Gweinidogion Cymru am adolygu aelodaeth y Pwyllgor a'i swyddogaethau yn rheolaidd, yn enwedig o gofio bod awdurdodau lleol ar fin cael eu had-drefnu.	Negyddol	Bydd y Rheoliadau yn weinyddol eu natur ac yn ymdrin â manylion cymharol fân yng nghyd-destun y cynllun deddfwriaethol cyffredinol. Byddant yn adlewyrchu natur yr adolygiadau arfaethedig o'r Pwyllgor a'i swyddogaethau.

Mae adran 82 yn mewnosod adrannau 26C(3) i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bydd Gweinidogion Cymru am adolygu aelodaeth y Pwyllgor yn rheolaidd, yn enwedig o gofio bod awdurdodau lleol ar fin cael eu had-drefnu.	Negyddol	Bydd y Rheoliadau yn weinyddol eu natur ac yn ymdrin â manylion cymharol fân yng nghyd-destun y cynllun deddfwriaethol cyffredinol. Byddant yn adlewyrchu natur yr adolygiadau arfaethedig o aelodaeth y Pwyllgor.
Mae adran 82 yn mewnosod adrannau 26D(1) i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bydd Gweinidogion Cymru am adolygu unrhyw daliad neu lwfansau a ddarperir i Gadeirydd y Pwyllgor. Felly, mae'r pŵer dirprwyedig yn darparu'r hyblygrwydd i gynnal yr adolygiadau hyn.	Negyddol	Bydd y Rheoliadau yn weinyddol eu natur ac yn ymdrin â manylion cymharol fân yng nghyd-destun y cynllun deddfwriaethol cyffredinol. Byddant yn adlewyrchu natur yr adolygiadau arfaethedig o'r Pwyllgor a thaliadau/lwfansau arfaethedig.
Mae adran 82 yn mewnosod adrannau 26D(2) i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bydd Gweinidogion Cymru am adolygu unrhyw daliad neu lwfansau a ddarperir i aelodau'r Pwyllgor. Felly, mae'r pŵer dirprwyedig yn darparu'r hyblygrwydd i gynnal yr adolygiadau hyn.	Negyddol	Bydd y Rheoliadau yn weinyddol eu natur ac yn ymdrin â manylion cymharol fân yng nghyd-destun y cynllun deddfwriaethol cyffredinol. Byddant yn adlewyrchu natur yr adolygiadau arfaethedig o'r Pwyllgor a thaliadau/lwfansau arfaethedig.
Mae adran 82	Gweinidogion	Rheoliadau	Bydd Gweinidogion	Negyddol	Bydd y Rheoliadau yn

yn mewnosod adrannau 26D(3) i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010	Cymru		Cymru am adolygu unrhyw daliad neu lwfansau a ddarperir i Gadeirydd neu aelodau'r Pwyllgor. Felly, mae'r pŵer dirprwyedig yn darparu'r hyblygrwydd i gynnal yr adolygiadau hyn.		weinyddol eu natur ac yn ymdrin â manylion cymharol fân yng nghyd-destun y cynllun deddfwriaethol cyffredinol. Byddant yn adlewyrchu natur yr adolygiadau arfaethedig o'r Pwyllgor a thaliadau/lwfansau arfaethedig.
Mae adran 82 yn mewnosod adran 75(7A) i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bydd Gweinidogion Cymru am gynnwys darpariaethau ar gyfer cyflwyno apelau iddynt mewn perthynas ag ardollau arbennig a gyhoeddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru i dalu treuliau sy'n codi wrth gyflawni swyddogaethau yn ymwneud â draeniad tir.	Negyddol	Bydd y Rheoliadau yn weinyddol eu natur ac yn ymdrin â manylion cymharol fân yng nghyd-destun y cynllun deddfwriaethol cyffredinol.
Adran 88(3)	Gweinidogion Cymru	Gorchmynion	Mae'r adran hon yn rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru gychwyn Rhan 3, Rhan 5 ac adrannau 56 a 59 ar yr adeg briodol.	Dim gweithdrefn	Gorchmynion cychwyn yw'r rhain ac ni fyddai angen unrhyw weithdrefn ar eu cyfer.

Tabl 4: Crynodeb o bwerau i wneud offerynnau eraill

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb ar gyfer pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
Part 1 – Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol					
Adran 12(1)	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddydau	Mae'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo corff cyhoeddus a restrir yn adran 11 i gymryd camau i roi datganiad ardal ar waith. Mae hynny'n briodol oherwydd bod cyfarwyddyd yn ymwneud yn benodol â gweithredu'r Bil yn ymarferol. Mae'n ymdrin ag amgylchiadau na ellir eu rhagweld h.y. nes y caiff y datganiadau ardal eu paratoi.	Dim gweithdrefn	Bydd cyfarwyddydau yn ysgrifenedig yn hytrach nag ar ffurf offeryn statudol ac felly, ni fydd gweithdrefn Cynulliad yn cael ei defnyddio ar eu cyfer.
Rhan 5 – Pysgodfeydd ar gyfer Pysgod Cregyn					
Adran 72	Gweinidogion Cymru	Pŵer i bennu ar ba ffurff ac ym mha fodd y mae'n rhaid gwneud cais am	Ar hyn o bryd, mae adran 1(2) o Ddeddf Pysgodfeydd (Pysgod Cregyn)	Dim gweithdrefn.	Bydd ar ba ffurf ac ym mha fodd y bydd yn rhaid gwneud cais am Orchymyn Pysgodfa Cregyn yn cael eu pennu gan

		Orchymyn Pysgodfa Cregyn o dan adran 1 o Ddeddf Pysgodfeydd (Pysgod Cregyn) 1967.	1967 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu mewn rheoliadau ar ba ffurf ac ym mha fodd y mae'n rhaid gwneud cais am Orchymyn Pysgodfa Cregyn. O ystyried yr ystod amrywiol iawn o ffactorau sy'n gallu bod yn berthnasol i geisiadau o'r fath, mae'n rhaid wrth hyblygrwydd ac, o'r herwydd, bydd yr is-adran 1(2A) newydd yn Neddf 1967 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu ar ba ffurf ac ym mha fodd y bydd yn rhaid gwneud cais o'r fath heb yr angen i wneud offeryn statudol.		Weinidogion Cymru ar gyfer safle pob pysgodfa. Ni fydd hynny'n cael ei wneud drwy offeryn statudol felly nid oes angen gweithdrefn Cynulliad.
Adran 74	Gweinidogion Cymru	Hysbysiad	Mae'r ddarpariaeth hon (a nodir yn yr adran 5B newydd a fewnosodir i Ddeddf	Dim gweithdrefn Cynulliad.	Ni fydd yr Hysbysiad Gwarchod Safle ar ffurf offeryn statudol ac felly ni fydd unrhyw weithdrefn Cynulliad yn cael ei

			Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, o dan amgylchiadau penodol, gyflwyno Hysbysiad Gwarchod Safle i Grantî Pysgodfa Cregyn (a grëwyd o dan adran 1 o Ddeddf 1967) yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd camau neu weithredu ei bysgodfa yn y modd a bennir yn yr Hysbysiad.		defnyddio. Er hynny, mae adran 5B (a fewnosodir i Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967) yn darparu nad yw'r pŵer ond yn arferadwy lle y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru bod niwed wedi ei wneud, neu'n debygol o gael ei wneud, o ganlyniad i unrhyw weithgareddau pysgota cregyn. Rhaid i'r Hysbysiad Gwarchod Safle fod yn ysgrifenedig, rhaid iddo ddatgan pam mae'n cael ei wneud a nodi'r camau y mae'n rhaid eu cymryd a phennu erbyn pryd y bydd yn rhaid cymryd y camau hynny. Bydd yn rhaid hefyd i Weinidogion Cymru fod wedi ymgynghori'n gyntaf â'r Grantïon, oni bai bod angen gweithredu ar frys. Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi pob hysbysiad o'r fath yn y cyfryw fodd ag y barnant yn briodol er mwyn ei ddwyn at sylw'r personau y mae'n fwyaf tebygol o effeithio arnynt.
Atodlen 1 – Codi tâl am Fagiau Siopa: Sancsiynau Sifil					
Paragraff 17	Gweinidogion	Cyfarwyddiadau	Mae'n rhoi'r pŵer i	Dim gweithdrefn	Bydd y cyfarwyddiadau ar

	Cymru		Weinidogion Cymru gyfarwyddo'r gweinyddwr o dan rai amgylchiadau mewn perthynas â thorri'r rheoliadau bagiau siopa.	ond mae paragraff 17(5) yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno copi o'r cyfarwyddiadau i'r Cynulliad.	bapur ac mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru, o dan Baragraff 17(4), ymgynghori â'r gweinyddwr a phobl eraill yr ystyrir eu body n briodol cyn i gopi gael ei gyflwyno i'r Cynulliad. O dan Baragraff 17(6), y gweinyddwr sy'n gyfrifol am ddod â'r cyfarwyddyd i sylw'r rhai y mae'n debygol o effeithio arnynt.

Tabl 5: Crynodeb o bwerau i gyhoeddi canllawiau

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb ar gyfer pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
Rhan 1 – Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol					
Adran 13(1)	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Mae'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau am y camau y dylid eu cymryd i fynd i'r afael â materion a nodir mewn datganiad ardal. Bydd yn rhaid i gorff cyhoeddus	Ddim yn berthnasol	Bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi canllawiau ac ni fydd angen defnyddio gweithdrefn Cynulliad er mwyn gwneud hynny.

			roi sylw i'r canllawiau hynny wrth arfer ei swyddogaethau. Mae'r pŵer hwn yn briodol am ei fod yn rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ddarparu rhagor o fanylion am ddatganiadau ardal, gan wneud hynny ar ffurf canllawiau.		
Rhan 2 – Newid yn yr Hinsawdd					
Adran 47(1)	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Mae'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru roi canllawiau i'r corff cynghori mewn perthynas â'r darpariaethau o dan Ran 2 o'r Bil. Bydd yn rhaid i'r corff cynghori roi sylw i'r canllawiau wrth arfer ei swyddogaethau. Bydd yn rhaid i gorff cyhoeddus	Ddim yn berthnasol	Bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi canllawiau ac ni fydd angen defnyddio gweithdrefn Cynulliad er mwyn gwneud hynny.

			roi sylw i'r canllawiau hynny wrth arfer ei swyddogaethau. Mae'r pŵer hwn yn briodol am ei fod yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru ddarparu rhagor o fanylion, gan wneud hynny ar ffurf canllawiau.		
Rhan 4 – Casglu a Gwaredu Gwastraff					
Mae adran 66 yn mewnosod adran newydd 45AB i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (EPA 1990)	Gweinidogion Cymru	Cod Ymarfer	Mae'r adran newydd 45AB(1) o EPA 1990 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi un neu fwy o godau ymarfer i ddarparu canllawiau ymarferol mewn perthynas â chydymffurfio â gofynion adran 45AA o EPA 1990. Bydd modd cyflwyno cod o'r fath fel tystiolaeth		Bydd y Cod Ymarfer yn cael ei gyhoeddi gan Weinidogion Cymru. Mae'r adran newydd 45AB(4)(b) o EPA 1990 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno copi o'r Cod Ymarfer i'r Cynulliad.

			mewn achos llys a rhaid i lys ei ystyried lle bo hynny'n berthnasol. Mae'r pŵer hwn yn briodol gan y bydd ystod eang o unigolion a chyrff yn ddarostyngedig i ofynion adran 45AA, ac mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau ymarferol manwl ar gydymffurfiaeth, sy'n ystyried gwahanol rolau ac amgylchiadau'r unigolion a'r cyrff sy'n cael eu heffeithio.		
Atodlen 1 – Codi tâl am Fagiau Siopa: Sancsiynau Sifil					
Paragraff 13	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Mae'n golygu bod rhaid i weinyddwyr sydd â'r pŵer i gyflwyno sancsiynau sifil fel y'u cyflwynwyd	Ddim yn berthnasol	Bydd y canllawiau yn cael eu cyhoeddi gan Weinidogion Cymru ac ni fyddant yn amodol ar weithdrefn y Cynulliad.

			gan Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar sut y byddant yn cyflawni'r swyddogaethau mewn perthynas â sancsiynau sifil.		

RHAN 2

Pennod 6: Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Cynhaliwyd asesiad Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn unol â Rheol Sefydlog 26.6 (vi) ar gyfer y Bil arfaethedig fel a ganlyn. Nid oes yr un ddarpariaeth benodol yn y Bil sy'n achosi gwariant i Gronfa Gyfunol Cymru.

Rhagarweiniad

1. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) yn rhan annatod o broses llunio polisïau a datblygu deddfwriaeth Llywodraeth Cymru. O ran cynigion deddfwriaethol, mae'r RIA yn ofynnol er mwyn darparu amcangyfrifon gorau o:
   - Gostau gros gweinyddol, cydymffurfio a chostau eraill y byddai'r Bil yn eu hachosi;
   - Yr amserlenni y gellid disgwyl y byddai'r costau'n digwydd;
   - Pwy fyddai'n ysgwyddo'r gost.

2. Mae'r costau a'r manteision yn yr RIA hwn wedi eu hasesu o'u cymharu â'r senario gwaelodlin "busnes fel arfer" sy'n adlewyrchu'r sefyllfa bresennol a newidiadau sefydliadol arfaethedig, gan gynnwys:
   - Y broses barhaus o strwythuro gweithrediadau CNC ers ei sefydlu ym mis Ebrill 2013;
   - Gofynion a chynigion deddfwriaethol cyn datblygu'r Bil, yn enwedig y rhai yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a oedd yn ddarostyngedig i RIA ar wahân.

3. Mae'r RIA wedi'i lywio gan waith a gyflawnwyd gan ymgynghorwyr annibynnol (Eftec, AEA Ricardo ac Eunomia). Roedd gwaith yr ymgynghorwyr yn cynnwys asesu'r costau a'r manteision posibl o roi'r cynigion deddfwriaethol ar waith, gan gynnwys pwy sy'n cael eu heffeithio a sut y maent yn cael eu heffeithio a'r goblygiadau posibl i CNC, i gyrff cyhoeddus perthnasol eraill a'r sector preifat.

4. Lluniwyd dadansoddiad ar wahân o gostau a manteision tebygol y darpariaethau bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau arfaethedig.

5. Mae'r RIA a ddatblygwyd ar gyfer Bil yr Amgylchedd (Cymru) ("y Bil") wedi ei strwythuro ar sail rhannau sylweddol o'r Bil, gyda dadansoddiad ac asesiadau wedi eu cynhyrchu ar gyfer y cyfrwy ddarpariaethau ym mhob rhan:
   - Rhan 1: Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy
   - Rhan 2: Newid yn yr hinsawdd
   - Rhan 3: Codi Tâl am Fagiau Siopa
   - Rhan 4: Casglu a Gwaredu Gwastraff
   - Rhan 5: Pysgodfeydd Cregyn
   - Rhan 6: Trwyddedu Morol
   - Rhan 7: Amrywiol a Chyffredinol

Rhan 1: Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

Trosolwg

6. Amcan y Bil yw cyflwyno dull deddfwriaethol cydgysylltiedig fel y gall adnoddau naturiol Cymru gael eu rheoli mewn modd mwy rhagweithiol a chynaliadwy. Mae'r rhan hon yn canolbwyntio ar Ran 1 y Bil mewn perthynas â Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.

7. Mae'r costau a'r manteision gweithredu sy'n gysylltiedig â'r darpariaethau a nodir yn Rhan 1, yn enwedig y rhai yn ymwneud â datblygu datganiadau ardaloedd, yn cael eu pennu'n bennaf gan y dull gweithredol y bydd CNC yn dewis ei fabwysiadu, y tu hwnt i'r gwaith pontio sydd eisoes ar y gweill i integreiddio ei swyddogaethau rheoleiddio lle bo hyn yn bosibl o dan ddeddfwriaeth gyfredol. Er mwyn sicrhau bod y dull mwyaf cost-effeithiol yn cael ei ddewis, mae CNC a Llywodraeth Cymru'n adeiladu tystiolaeth, yn nodi dulliau gweithredol sy'n arferion da trwy dreialon ardal ac yn adolygu modelau darparu cyfredol er mwyn manteisio ar gyfleoedd i atgyfnerthu a symleiddio swyddogaethau gweithredol a chynllunio.

8. O gofio mai dull gweithredol a ddewisir gan CNC fydd yn penderfynu beth fydd y costau gweithredu, mae'r rhan hon o'r RIA yn cyflwyno opsiynau enghreifftiol ar gyfer gweithredu sy'n cwmpasu'r dulliau gweithredu mwyaf ymarferol o fynd ati i ddatblygu datganiad ardal. Fodd bynnag, mae'r darpariaethau a gynigir wedi'u cynllunio i alluogi CNC i ddewis y dull mwyaf costeffeithiol o ddarparu'r datganiadau ardal ac i sicrhau hyblygrwydd wrth reoli goblygiadau costau wrth symud ymlaen.

Rhan 1: Crynodeb o'r Darpariaethau

9. Mae'r Bil yn rhoi diben cyffredinol clir i CNC, sy'n sicrhau bod diben presennol CNC yn unol â'r darpariaethau a amlinellir yn Rhan 1, ac yn benodol y diffiniadau o adnoddau naturiol a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Y diben yma yw darparu eglurder mewn perthynas â phwrpas CNC a'i rôl yn sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. Mae'r darpariaethau hyn yn ymgorffori'r egwyddorion ym mhrosesau gwneud penderfyniadau y sefydliad a fydd yn ategu'r fframwaith cyffredinol a'r gofyniad yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

10. Er mwyn cefnogi rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, mae'r Bil yn amlinellu fframwaith clir o ddarpariaethau ar gyfer tystiolaeth a darpariaeth. Ar lefel genedlaethol, mae'r fframwaith hwn yn cynnwys cyhoeddi Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) a pholisi adnoddau naturiol cenedlaethol (NNRP) a fydd yn cael eu hategu ar lefel leol gan ddatganiadau ardal.

11. Bydd SoNaRR yn darparu'r sail dystiolaeth genedlaethol a fydd yn helpu i hysbysu cadarnhad o'r prif flaenoriaethau, ymrwymiadau a chyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a geir yn yr NNRP.

12. Bydd datganiadau ardal yn crynhoi tystiolaeth leol ar y risgiau a'r cyfleoedd mewn perthynas â'r adnoddau naturiol mewn ardal ac yn helpu i roi tystiolaeth ar gyfer datblygu'r SoNaRR. Tros amser, bydd hyn yn darparu mesur o'r cynnydd sy'n cael ei wneud o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Y bwriad yw y bydd CNC hefyd yn gallu defnyddio datganiadau ardal i symleiddio cynlluniau, rhaglenni neu strategaethau pan fo hyn yn gyson â dyletswyddau statudol penodol. Bydd hyn yn caniatáu i CNC integreiddio, symleiddio a gwella effeithlonrwydd wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau.

13. Mae'r angen am ddatganiadau ardal ledled Cymru yn adlewyrchu'r gydnabyddiaeth, fel y darperir ar ei chyfer yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, fod mynd i'r afael â heriau trosfwaol a nodi atebion cynaliadwy yn gofyn am ddull sy'n ystyried y cyd-destun lleol. Yn ogystal, rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried sut mae gweithredu ar y cyd â chyrff eraill yn gallu cynorthwyo i gyflawni amcanion hirdymor.

14. Bydd CNC yn cyhoeddi SoNaRR bob pum mlynedd, ac eithrio'r ail adroddiad a fydd yn cael ei gyhoeddi pedair blynedd ar ôl yr un cyntaf er mwyn cyd-daro â chylch etholiadau cyffredin y Cynulliad y darparwyd ar ei gyfer o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Ar ôl i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r NNRP cyntaf, gall gael ei adolygu unrhyw bryd. Rhaid iddo gael ei adolygu fodd bynnag, ar ôl etholiad cyffredinol cyffredin neu anghyffredin a'i ddiwygio fel sy'n briodol yn sgil yr adolygiad hwnnw.

15. Wrth gynhyrchu datganiadau ardal, bydd CNC yn chwilio am gyfleoedd hefyd i weithredu'r blaenoriaethau a'r cyfleoedd a nodwyd gan Weinidogion Cymru yn yr NNRP. Bydd CNC yn gyfrifol am nodi maint yr ardal sydd fwyaf addas at y diben hwn.

16. Yn ogystal, bydd angen i gyrff cyhoeddus eraill ddarparu gwybodaeth a chymorth i CNC, ar gais, er mwyn paratoi a chynhyrchu SoNaRR a datganiadau ardal. Mae'r cyrff cyhoeddus sy'n cael eu cwmpasu gan y gofyniad hwn yn cyfateb i'r cyrff cyhoeddus a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rhan 1: Strwythur yr RIA

17. Mae'r RIA ar gyfer Rhan 1 o'r Bil wedi'i strwythuro fel a ganlyn:
    - Dadansoddiad Meintiol ac Ansoddol
    - Dadansoddi Opsiynau
    - Dadansoddiad o Ragdybiaethau, Risgiau a Sensitifrwydd
    - Gwaelodlin a throsolwg o effeithiau
    - Costau
    - Manteision
    - Crynodeb o Gostau
    - Crynodeb o Fanteision

Rhan 1: Dadansoddiad Meintiol ac Ansoddol

Mapio ansawdd y gwaelodlin ac effeithiau

18. Cafodd gwybodaeth ansoddol ei chasglu yn y camau cychwynnol a'i defnyddio i fapio'r camau gweithredu ac effeithiau cysylltiedig y cynigion o dan Ran 1 o'r Bil ar CNC a rhanddeiliaid eraill. Cafodd fframwaith dadansoddol ar gyfer yr RIA ei ystyried ochr yn ochr â'r prif brosesau a'r adnoddau a ddefnyddiwyd wrth gynllunio, darparu ac adrodd ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru. Mae'r asesiad yn cynnwys mewnbwn gan CNC a chyrff cyhoeddus eraill.

19. Ar gyfer y cynigion yn Rhan 1, mae'r prif effeithiau yn ymwneud â chostau'r adnoddau sy'n gysylltiedig â newidiadau yn y ffordd y caiff CNC a chyrff sector cyhoeddus eraill eu gweithredu. Yn benodol, mae goblygiadau pob cynnig mewn perthynas â staff, rheolwyr a sgiliau'r sefydliad wedi'u hystyried, mewn perthynas â'r gwaelodlin.

20. Aseswyd goblygiadau ehangach posibl y darpariaethau yn Rhan 1 o safbwynt effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ar randdeiliaid nad ydynt yn y sector cyhoeddus gan ddefnyddio'r fframwaith datblygu cynaliadwy a amlinellir yn The Green Book (HMG, 2013)[43].

Mapio ansawdd effeithiau blaenoriaeth

21. Ar ôl mapio ansawdd effeithiau, aeth yr asesiad ymlaen i fesur effeithiau sylweddol pob un o'r opsiynau posibl (trwy'r tri opsiwn darparu a esbonnir isod) ar gyfer rhoi'r cynigion yn y Bil ar waith. Mae'r fethodoleg a ddefnyddir, gan gynnwys disgowntiau, gorwel amser a'r defnydd o'r model rhesymeg, yn cydymffurfio â chanllawiau'r Llywodraeth [44].

22. Er mwyn amcangyfrif costau adnoddau gweithgareddau i CNC, gall dull y Model Costau Safonol o ddarparu mesuriad dangosol o feichiau gweinyddol gael ei ddefnyddio mewn perthynas â phob un o'r rhwymedigaethau ar CNC e.e. ar gyfer costau staffio:

Cost gweithgarwch = pris X maint = (tâl x amser) X (poblogaeth x mynychder)

23. Mae costau a manteision wedi'u dadansoddi fesul sefydliad ac maent yn cael eu darparu yn nhermau gwerth presennol crynswth a net. Mae sgoriau wedi'u cynhyrchu ar gyfer costau a manteision lle mae yna ansicrwydd (e.e. nifer y staff sy'n rhan o'r gwaith). Gwiriwyd y ffigurau trwy eu cadarnhau gyda rhanddeiliaid yn ystod sesiynau gweithdy (a amlinellir isod).

---

[43] *Yr egwyddorion yn The Green Book – Appraisal and Evaluation in Central Government (HMT, 2011) a The Magenta Book – Guidance notes for policy evaluation and analysis (HMT, 2011), https://www.gov.uk/government/publications/the-green-book-appraisal-and-evaluation-in-central-governent*

[44] *Yr egwyddorion yn The Green Book – Appraisal and Evaluation in Central Government (HMT, 2011) a The Magenta Book – Guidance notes for policy evaluation and analysis (HMT, 2011)*

Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA)

24. Prif ddiben Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) yw sicrhau bod yr effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd a dewisiadau amgen rhesymol i'r cynllun neu'r rhaglen arfaethedig yn cael eu nodi a'u hystyried gydol cam paratoi'r cynllun. Mae hon yn elfen sylfaenol o unrhyw broses cynllunio adnoddau naturiol, felly mae'n gwneud synnwyr i beidio ag ystyried SEA fel proses ar wahân. Yn hytrach, dylid ei hystyried fel proses gwbl integredig sy'n cyfateb i'r ffordd mae'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn cael ei gyflawni. Ar gyfer yr NNRP a datganiadau ardal, mae'n debygol y bydd angen SEA. Mae'r broses SEA yn cyd-fynd â'r broses sydd ei hangen i ddatblygu'r datganiadau ardal a'r NNRP. Bydd y dystiolaeth a'r dadansoddiad sy'n ofynnol, y gwaith o ddatblygu amcanion SEA, asesiadau effaith a dewisiadau amgen yn debyg iawn. Felly, mae modd integreiddio llawer o'r gwaith hwn wrth ddatblygu'r NNRP a'r datganiadau ardal fel mater o drefn.

25. I sicrhau bod gofynion y Gyfarwyddeb SEA yn cael eu bodloni o ran diogelu'r amgylchedd i lefel uchel, rhagwelir i ddechrau y bydd angen i arbenigwyr SEA weithio gyda'r timau sy'n paratoi'r NNRP a'r datganiadau ardal i sicrhau bod y broses SEA yn cael ei dilyn er mwyn llunio'r Adroddiad Amgylcheddol fel sy'n ofynnol gan y Gyfarwyddeb.

Amserlenni costau

26. At ddibenion yr RIA, mae cyfnod o 10 mlynedd (2016-17 tan 2025-26) wedi'i neilltuo ar gyfer asesu effaith pob un o'r darpariaethau. Dewiswyd cyfnod asesu o 10 mlynedd gan ei fod yn caniatáu i ddulliau newydd gael eu sefydlu'n drylwyr o fewn CNC, gan gynnwys gwahanol iteriadau o gynhyrchion y Bil fel y disgrifir uchod.

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

27. Cafodd y dadansoddiad ei lywio trwy ymgysylltu â'r rhanddeiliaid, gan gynnwys dau weithdy prosiect ac ymgysylltu uniongyrchol arall â rhanddeiliaid penodol.

28. Cynhaliwyd y gweithdy cyntaf ar 2 Gorffennaf 2014 gyda staff CNC, gan roi sylw i wahanol oblygiadau'r cynigion yn Rhan 1 o'r Bil ar eu gweithrediadau. Mae allbynnau'r gweithdai hyn wedi'u hadlewyrchu yn y dadansoddiad ansoddol o effeithiau (a amlinellir isod).

29. Roedd yr ail weithdy prosiect, a gynhaliwyd ar 12 Medi 2014, yn ddigwyddiad aml-randdeiliad a drafododd asesiad drafft o effeithiau'r Bil. Bwriad y gweithdy hwn oedd archwilio gyda sefydliadau perthnasol effeithiau rhoi'r Bil ar waith. Roedd y rhai a ddaeth i'r gweithdy hwn yn cynnwys cynrychiolwyr:
    - Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
    - CBI Cymru
    - CONFOR

- CLA
- Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd
- Dŵr Cymru
- Ffederasiwn Busnesau Bach
- Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Sir Powys
- Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)
- NFU Cymru
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- RSPB Sefydliad Gwy ac Wysg

30. Yn ogystal â'r ddau weithdy, cynhaliwyd holiaduron a chyfweliadau ffôn gyda chyrff cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.

Rhan 1: Dadansoddi Opsiynau

31. Fel y disgrifir yn gynharach, mae'r costau a'r manteision o weithredu darpariaethau Rhan 1 yn amrywio yn dibynnu ar sut mae'r gofynion yn cael eu darparu (trwy'r opsiynau a amlinellir isod). Mae'r effeithiau (costau a manteision) yr opsiynau enghreifftiol wedi'u harfarnu, mewn perthynas â'r gwaelodlin.

32. Mae'r dadansoddiad o effeithiau'r darpariaethau hyn yn dechrau gyda dadansoddiad o Opsiwn 1: 'Gwneud Dim'. Dyma'r sefyllfa lle nad yw'r Bil yn cael ei gyflwyno. Fe'i defnyddir fel gwybodaeth gyd-destunol i gymharu yn erbyn costau a manteision y tri opsiwn arall. O dan yr adran costau a manteision, mae costau a manteision pob un o'r opsiynau hyn, mewn perthynas â'r gwaelodlin hwn, yn cael eu hamlinellu o dan bob un o'r cynigion yn Rhan 1 o'r Bil.

33. Yn gryno, mae'r opsiynau fel y'u cyflwynir yn darparu amrywiad i ddyfnder y dull. Maent yn cynnwys enghreifftiau o sut y gall y datganiadau ardal gael eu darparu yn unol â lefel y manylder a ddarperir. Mae'r Bil yn cyflwyno dull rheoli y gellir ei addasu, lle bydd "dysgu trwy wneud" yn llywio'r gwaith o ddewis y dull mwyaf costeffeithiol. At ddibenion yr RIA, mae effeithiau'r Bil wedi'u hasesu dros gyfnod o 10 mlynedd. Mae gweithgarwch presennol CNC o ran cyflwyno treialon ardal yn cynrychioli dull tebyg i'r un a ddangosir o dan Opsiwn 3. Bydd y dull a gyflwynir gan y Bil yn cael ei ddatblygu o dan yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio (Opsiwn 2) a fydd yn adeiladu ar y gweithgarwch sy'n cael ei gyflawni o dan Opsiwn 3 dros dymor byr i ganolig h.y. o fewn 10 mlynedd. Ar y sail honno, nid Opsiwn 4 yw'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio gan y byddai'n ceisio sicrhau darpariaeth lawn o fewn y cyfnod o 10 mlynedd y mae'r RIA yn mynd i'r afael ag ef. Y nod yw i CNC gyflwyno datganiadau ardal sy'n cynnwys asesiad manwl o'r holl risgiau a chyfleoedd mewn ardal leol, gan gynnwys y blaenoriaethau hynny a nodir yn NNRP (Opsiwn 4) dros y tymor hir h.y. y tu hwnt i 10 mlynedd.

34. At ddibenion yr RIA hwn, Opsiwn 2 yw'r opsiwn mwyaf hyfyw o fewn y cyfnod o 10 mlynedd. Mae Opsiwn 3 yn cynrychioli enghraifft debyg o'r hyn sy'n cael ei gyflawni ar hyn o bryd ac mae Opsiwn 4 yn cynrychioli amcanion cyffredinol Rhan 1 o'r Bil, y tu hwnt i 10 mlynedd. Felly, mae Opsiynau 2 a 3 yn cyflwyno agweddau trosiannol at y nod tymor hir a ddarperir yn Opsiwn 4.

35. Yr opsiynau yw:

- **Opsiwn 1: Gwneud dim** – yn gysylltiedig â'r status quo a busnes fel arfer. Mewn geiriau eraill, ni chaiff Bil ei gyflwyno. Dyma'r gwaelodlin y caiff costau a manteision cymharol opsiynau gwahanol eu hasesu. Mae'r gwaelodlin hwn yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig â'r hyn a gyflawnir gan CNC a'r gwaith sy'n cael ei wneud ganddo i integreiddio'i swyddogaethau o gwmpas ei bwrpas statudol. Mae'r gwaelodlin yn

cynnwys y gofynion hefyd a ddaw o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[45].

- **Opsiwn 2: Cyflawni datganiadau ardal mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y blaenoriaethau a nodir yn yr NNRP (*yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio)*** – yn yr opsiwn hwn, yn ogystal â chrynhoi'r prif risgiau, trwy roi datganiadau ardal ar waith, canolbwyntir ar adnabod cyfleoedd i gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yn yr NNRP. Mae'r opsiwn hwn yn cydbwyso'r costau adnoddau cyffredinol i CNC a gwireddu'r manteision sy'n ofynnol o dan y Bil.

  Mewn termau ymarferol, mae hyn yn golygu y byddai CNC yn cyflawni datganiadau ardal mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y blaenoriaethau yn y tymor byr i ganolig h.y. hyd at gyfnod o 10 mlynedd o'r asesiad at ddibenion yr RIA hwn. Gallai hefyd olygu treialu cynlluniau megis Talu am Wasanaethau Ecosystemau. Efallai y bydd y dull hwn yn helpu i gyflawni datganiadau ardal yn llawn yn y tymor hir h.y. y tu hwnt i'r cyfnod o 10 mlynedd.

- **Opsiwn 3: Cyflawni datganiadau ardal llawn mewn nifer bach o ardaloedd** – ffocws yr opsiwn yw nodi'r cyfleoedd sy'n gyson â blaenoriaethau allweddol yr NNRP a nodi'n fanwl y cyfleoedd ehangach ar lefel leol mewn nifer fach o ardaloedd.

  Byddai'r gwaith gweithredu yn canolbwyntio ar nifer bach o ardaloedd yng Nghymru. Yr un fath ag Opsiwn 2, byddai hyn yn golygu na fyddai CNC yn rhoi datganiadau ardal ar waith yn y ffordd a ragwelir o dan Opsiwn 4. Mae'r opsiwn hwn yn debyg i weithgarwch presennol CNC trwy'r treialon ardal (mae mwy o fanylion yn ddiweddarach yn y ddogfen).

- **Opsiwn 4: Llwyr gyflawni datganiadau ardal ym mhob rhan o Gymru** – ffocws yr opsiwn hwn yw nodi'r cyfleoedd sy'n gyson â blaenoriaethau allweddol yr NNRP a nodi'n fanwl y cyfleoedd ehangach ar y lefel leol ym mhob ardal yng Nghymru.

  Effaith ymarferol yr opsiwn hwn fyddai CNC yn llunio datganiadau ardal sy'n cynnwys asesiad manwl o'r holl risgiau a chyfleoedd mewn ardal leol, gan gynnwys y blaenoriaethau a nodir yn yr NNRP, ledled Cymru. Er mai dyma'r dull sy'n cael ei ffafrio ar gyfer y Bil, mewn gwirionedd ni fyddai'n bosibl i CNC ddarparu'r opsiwn hwn o fewn y cyfnod o 10 mlynedd, felly mae'n opsiwn tymor hir. Rhagwelir y byddai Opsiwn 2 yn adeiladu ar y profiadau o'r treialon ardal ac yn galluogi CNC i symud tuag at fodloni amcanion Opsiwn 4 yn y tymor hir.

36. Mae amryw o ragdybiaethau wedi'u gwneud mewn perthynas â datblygiad yr opsiynau hyn, a amlinellir yn y paragraffau isod. Mae'r rhagybiaethau hyn yn caniatáu dadansoddiad o'r gwahaniaethau rhwng effeithiau yn dibynnu

[45] *Tud 59 - http://www.senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=10103*

ar y math o ddull darparu sy’n cael ei fabwysiadu. Ar y cyfan, cânt eu hasesu’n ansoddol er mwyn ystyried gwahaniaethau allweddol ar gyfer darparu’r agweddau/camau allweddol sy’n ofynnol o dan y Bil.

Rhan 1: Dadansoddiad o Ragdybiaethau, Risgiau a Sensitifrwydd

37. Mae'r Bil yn amlinellu'r fframwaith statudol sy'n ofynnol ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Fodd bynnag, gan nad yw'n nodi'r holl baramedrau sy'n angenrheidiol i fodelu'r camau y bydd angen eu cymryd i'w roi ar waith, mae'r dystiolaeth a gyflwynir yn yr RIA hwn ar y cynigion yn Rhan 1 yn dibynnu ar ragdybiaethau a senarios cyflawni er mwyn llunio barn enghreifftiol ynghylch costau a manteision posibl y Bil.

38. Mae'n anodd asesu natur a graddfa effeithiau'r cynigion yn Rhan 1 o'r Bil ar sefydliadau unigol, a mesur hynny o ran cost. Ni lwyddodd y sefydliadau felly a fu'n rhan o'r ymchwil i sefydlu gwaelodlin cywir mewn perthynas â'u camau a'u hymddygiad presennol. O ganlyniad, darparwyd amcangyfrif bras o'r costau tebygol sy'n gysylltiedig â phob un o'r opsiynau cyflawni at ddibenion yr RIA hwn.

39. Fodd bynnag, o dan yr opsiynau a nodir yn yr RIA hwn, mae yna rai newidynnau allweddol sy'n dylanwadu ar gostau a manteision cyflawni'r cynigion yn Rhan 1 o'r Bil. Cyfeirir at y rhain fel 'ffactorau sensitif', ac maent wedi'u llunio o'r penderfynyddion allweddol mewn perthynas â'r amrywiad yn yr effeithiau (h.y. costau a manteision) ar gyfer pob cam. Gellid hefyd eu hystyried fel ffynonellau ansicrwydd. Mae dulliau ymgynghori â rhanddeiliaid (yn bennaf trwy'r ail weithdy a gynhaliwyd gyda CNC, cyrff cyhoeddus eraill a chynrychiolwyr o'r sector preifat) wedi'u defnyddio i asesu sut y gall costau/manteision newid yn dibynnu ar sut y cânt eu rhoi ar waith.

40. Wrth ddatblygu'r opsiynau, mae rhagdybiaethau wedi'u gwneud ynglŷn â sut y gall CNC gyflawni ei ddyletswydd o dan y Bil i gynhyrchu datganiadau ardal. Ar lefel sylfaenol, bydd y datganiadau ardal yn dwyn ynghyd yr wybodaeth a'r dystiolaeth ddiweddaraf ar y risgiau i adnoddau naturiol yn yr ardal. Hefyd, byddant yn edrych ar y cyfleoedd, gan gynnwys y rheini sy'n hwyluso'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau'r NNRP ar lefel leol briodol. Bydd angen i CNC, fodd bynnag, bennu'r dull gorau ar gyfer cyflawni gofynion y Bil. Fodd bynnag, mae rhagdybiaethau wedi'u gwneud at ddibenion enghreifftiol ar y sail y bydd CNC, ym mhob sefyllfa, yn ceisio dwyn ynghyd yr wybodaeth sy'n bod am y risgiau i adnoddau naturiol. Er mwyn edrych ar y cyfleoedd lleol, gellid cymryd tri dull posibl i gyflawni'r datganiadau ardal trwy:

    a) Canolbwyntio ar adnabod cyfleoedd sy'n darparu blaenoriaethau allweddol yn yr NNRP.
    b) Adnabod yn llawn y cyfleoedd lleol a'u halinio â blaenoriaethau allweddol yn yr NNRP mewn nifer fach o ardaloedd.
    c) Adnabod yn llawn y cyfleoedd lleol ar gyfer gweithredu ac alinio'r blaenoriaethau a nodwyd yn yr NNRP ym mhob ardal yng Nghymru.

41. Mae rhagdybiaethau pellach hefyd wedi'u gwneud mewn perthynas â'r amserlen y bydd CNC yn dewis ei defnyddio i gyflawni'r datganiadau ardal.

42. Nid yw pob ffactor sensitifrwydd yn berthnasol ym mhob achos. Er enghraifft, mae'n annhebygol y bydd amrywiad yn y cyflymder gweithredu a maint y cydweithredu yn cael effaith ar gostau a / manteision yn ymwneud â SoNaRR, ond mae'n debygol y byddant yn effeithio ar gostau a manteision y datganiadau ardal. Os na fydd y ffactorau sensitifrwydd hyn yn effeithio ar y camau sy'n ofynnol (ac effeithiau dilynol) pob cynnig, nid yw'n berthnasol llunio opsiynau cyflawni. Mae'r 'ffactorau sensitifrwydd' a'r 'rhagdybiaethau' allweddol fel a ganlyn:

- Nifer y datganiadau ardal: bydd y SoNaRR a'r NNRP yn llywio datganiadau ardal. Heb y dogfennau hyn, felly, mae'n anodd rhagweld ffocws y datganiadau ardal a gynhyrchir gan CNC. Ar y sail honno, mae'r RIA hwn yn gwneud rhagdybiaethau ynghylch nifer y datganiadau ardal ar ffurf tri opsiwn er mwyn gweithredu fel cymaryddion.

- Bydd costau paratoi a chynhyrchu'r NNRP yr un fath neu'n achosi costau tebyg ar gyfer pob tro y caiff ei gynhyrchu. O dan y tri opsiwn cyflawni a gyflwynir yn yr RIA hwn, mae'r NNRP yn ofyniad statudol. Ni ragwelir y bydd y costau'n amrywio digon i gyflwyno amrediad. Efallai y bydd amrywiadau yn ansawdd yr NNRP, a all ei hunan newid y costau (h.y. mwy o ymchwil, ac asesiadau dilynol) ond nid yw'r rhain wedi'u cynnwys at ddibenion yr asesiad hwn. Rhagwelir hefyd y bydd costau cyhoeddi'r NNRP am y tro cyntaf yn uwch na chynhyrchu datganiadau dilynol oherwydd hwyrach y bydd angen prosesau newydd ar gyfer cydlynu a datblygu'r NNRP.

- Dwyn yr holl risgiau hysbys ym mhob datganiad ardal o'r adroddiadau sy'n bod: rhagwelir y gwneir hyn ym mhob opsiwn a thrwy hynny, mae datganiadau ardal yn cynnig cyfle allweddol i symleiddio a hwyluso'r wybodaeth am risgiau i adnoddau naturiol ym mhob ardal. Mae hyn yn ategu'r gofynion a ddaw yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth iddyn nhw effeithio ar CNC a chysylltu â chynlluniau llesiant lleol.

- Costau i CNC: rhagwelir y bydd y costau sy'n gysylltiedig â pharatoi a chynhyrchu SoNaRR a datganiadau ardal yn cael eu rheoli o fewn y cymorth grant presennol a ddarperir i CNC gan Weinidogion Cymru.

- Yr amserlen ar gyfer rhoi gofynion y Bil ar waith: bydd amserlen fyrrach yn cyflwyno mwy o gostau i CNC a rhanddeiliaid eraill. Mae amserlenni byrrach a llai hyblyg yn fwy tebygol o atal synergeddau rhwng camau rheoli adnoddau naturiol gwahanol ardaloedd (e.e. ymgynghori â rhanddeiliaid at wahanol ddibenion), gan gyfyngu ar enillion effeithlonrwydd.

- Bydd maint y cydweithredu rhwng CNC a chyrff cyhoeddus eraill yn pennu effeithlonrwydd rhai camau, megis casglu data a chynllunio ardaloedd. At ddibenion yr RIA hwn, rydym wedi rhagdybio mai amcan y dull cydweithredol rhwng CNC a chyrff cyhoeddus eraill o dan Fil yr Amgylchedd (Cymru) yw integreiddio â'r dull o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - ac y bydd effeithiau'r dull hwn yn cael eu rhannu[46].

- Etholiadau anghyffredin: gall etholiad anghyffredin effeithio ar yr adolygiad ac unrhyw newidiadau posibl i'r NNRP. Gall y blaenoriaethau a'r camau gael eu hailddiffinio yn dibynnu ar ganlyniad etholiad anghyffredin, a allai arwain at gostau ychwanegol ar ben yr adolygiad a gynhelir ym mhob tymor Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â diwygiadau i'r NNRP, bydd hefyd angen i'r datganiadau ardal gael eu hadolygu yn unol â'r NNRP diwygiedig. Ni fydd y gwaith o baratoi a chynhyrchu SoNaRR yn cael ei effeithio gan etholiad anghyffredin gan ei fod yn adroddiad annibynnol a fydd yn darparu gwybodaeth bob pum mlynedd i helpu Gweinidogion Cymru i bennu blaenoriaethau ar gyfer gweithredu ar lefel genedlaethol.

- Asesiad Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd (SEA): rhagdybir y bydd y prosesau wrth ymgymryd â'r SEA yn debyg i'r rhai a ddefnyddir i baratoi a chynhyrchu'r NNRP a datganiadau ardal. Bydd y dystiolaeth a'r dadansoddiad sy'n ofynnol, y gwaith o ddatblygu amcanion SEA, asesiadau effaith a dewisiadau amgen yn debyg iawn. Felly, mae modd integreiddio llawer o'r gwaith hwn wrth ddatblygu'r NNRP a'r datganiadau ardal fel mater o drefn.

- Egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy: mae'r egwyddorion hyn wedi'u cynnwys yn narpariaeth y cynhyrchion a amlinellir yn yr RIA. Felly, mae'r egwyddorion yn cael eu defnyddio ochr yn ochr â'r gofynion eraill yn Rhan 1 o'r Bil, sef SoNaRR, NNRP a datganiadau ardal ac mae'r effeithiau eisoes wedi'u hystyried fel rhan o'r asesiad o Ran 1 o'r Bil.

- Prif ddiben CNC: mae diben presennol CNC yn cael ei ddiwygio trwy'r Bil, a fydd yn ei gwneud hi'n ofynnol i CNC, wrth gyflawni ei swyddogaethau, geisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Ni ragwelir unrhyw gostau uniongyrchol o ystyried bod y ddarpariaeth hon yn egluro diben presennol CNC o ran egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'r darpariaethau ehangach yn Rhan 1 o'r Bil.

- Cytundebau rheoli tir a chynlluniau arbrofol: rhagdybir y bydd CNC yn cael defnyddio'r pwerau hyn wrth gyflawni eu gwaith arferol ond na fyddai'n costio mwy na llai i'w rhoi ar waith. Rhagwelir y bydd y pwerau'n fwy tebygol o gael eu defnyddio lle ceir cymhellion cryf i wneud hynny. Caiff y pwerau eu defnyddio felly lle bernir y byddai fwyaf cost effeithiol i wneud hynny.

[46] *Tud 59 - http://www.senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=10103*

43. Er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth o'r risgiau a'r ansicrwydd yn yr RIA hwn, dadansoddwyd opsiynau er mwyn profi sawl ffactor sensitifrwydd neu benderfynyddion allweddol mewn perthynas ag effeithiau posibl (costau a manteision) y cynigion. Mae'r dadansoddiad hwn wedi'i gynnwys o dan yr adrannau 'Costau' a 'Manteision' isod, ar gyfer pob un o'r darpariaethau yn Rhan 1 o'r Bil, ac wedi arwain at amcangyfrif o'r cyfanswm costau ond ar draws ystod o werthoedd cymharol isel, felly nid yw'n nodi unrhyw ffactorau sensitifrwydd o bwys.

Rhan 1: Gwaelodlin a throsolwg o effeithiau

44. Mae'r adran hon yn disgrifio'r gwaelodlin cyffredinol (neu'r opsiwn 'gwneud dim'). Mae materion gwaelodlin sy'n benodol i bob cynnig yn cael eu disgrifio ymhellach yn yr adrannau perthnasol.

45. Mae'r fframwaith deddfwriaethol presennol o ddyletswyddau statudol amgylcheddol a swyddogaethau rheoleiddio wedi datblygu'n raddol dros sawl degawd ac yn bennaf mewn ymateb i broblemau amgylcheddol penodol. Mae'r dull hwn o reoleiddio wedi arwain at gymysgedd cymhleth o reoleiddio nad yw'n gweithio gyda'i gilydd bob amser. Ar gyfer y dull hwn, nid oes angen:
    - Gwella cryfder ecolegol fel ffocws allweddol ar gyfer rheoli ein hadnoddau naturiol, felly nid yw'n darparu ar gyfer darpariaeth gwasanaethau ecosystem yn yr hirdymor.
    - Dull cyfannol, rhagweithiol ac integredig o wneud penderfyniadau, monitro datblygiad polisïau a chyflwyno adroddiadau.
    - Proses ailadroddol gydlynol sy'n cysylltu tystiolaeth, polisi a gweithredu ar lefel leol a chenedlaethol yn seiliedig ar ddefnyddio'r dull rheoli ar lefel yr ecosystem a mynd i'r afael ag effeithiau cronnus ar gryfder yr ecosystem.
    - Dull rheoli addasol o wneud penderfyniadau, datblygu polisïau a gweithredu.

46. Mae'r gwaelodlin a ddarperir yn Opsiwn 1 nid yn unig yn cynnwys y sefyllfa ddeddfwriaethol bresennol ond mae hefyd yn cynrychioli'r newidiadau diwylliannol a sefydliadol sy'n digwydd ar hyn o bryd neu sy'n debygol o ddigwydd o ganlyniad i'r canlynol:
    - Y buddsoddiad i sefydlu a datblygu CNC fel y corff darparu integredig sengl ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru. Mae'r buddsoddiad hwn eisoes wedi digwydd, felly rhaid iddo gael ei ystyried fel rhan o'r gwaelodlin, er bod y gwaith yn parhau gyda rhywfaint o ansicrwydd ynglŷn â'i ganlyniadau (er enghraifft, cynlluniau a strwythurau'r sefydliad).
    - Newidiadau yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[47].

47. Felly, mae'r gwaelodlin yn gymhleth iawn oherwydd prosesau parhaus nad oes gennym lawer o fanylion am eu canlyniad ar hyn o bryd.

48. Mae CNC yn mynd trwy newid mawr ar hyn o bryd; felly, nid yw'n bosibl cael tystiolaeth o rôl a/neu swyddogaethau newidiol staff CNC dros y cyfnod hwn. Nid yw hi chwaith wedi bod yn bosibl sefydlu unrhyw amcanion ar gyfer recriwtio staff, boed hynny o ran niferoedd neu swyddogaeth. Fodd bynnag, mae'n rhesymol rhagdybio y bydd swyddogaethau unrhyw staff newydd yn canolbwyntio ar fodloni gofynion dyletswyddau CNC yn unol â chyflawni ei ddiben statudol. Er enghraifft, mae CNC wrthi'n trefnu staff i

[47] *http://www.senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=10103*

mewn i dimau lleoliad, ond ni fyddai adnoddau na dulliau penodol ar waith ac wedi eu neilltuo i ddarparu dull ardal cyflawn.

49. Amcangyfrifir bod 10-20% (uchafswm) o staff CNC yn cyfrannu at brosesau cynllunio statudol - yn casglu tystiolaeth, datblygu amcanion, cynllunio gwaith paratoi ac ymgynghori - er bod hyn yn amrywio rhwng 5-100% o'u hamser, gan gynnwys:
    - Mae staff craidd yn yr adran KSP (Cynllunio, Strategaeth, Gwybodaeth) - yn darparu mewnbwn i'r Cynllun Rheoli Basn Afon - gan gasglu gwybodaeth gan wahanol dimau arbenigol ledled CNC - fel arfer, mae'r ymateb yn canolbwyntio ar gyfyngiadau amgylcheddol - tua 50 o bobl.
    - Y staff craidd yn yr adran KSP sy'n helpu staff gweithredol i baratoi a chyfrannu at ymgynghoriadau ar gynlluniau datblygu lleol - unwaith eto, tua 50 o bobl.
    - Cynllunwyr amgylcheddol gweithredol (h.y. rheolwyr perygl llifogydd) sy'n darparu cynlluniau cyfalaf. Mae prosesau sydd ar waith ar hyn o bryd yn dilyn dulliau penodol neu'n gofyn am ganlyniadau penodol, a gallant fod yn gyfyngedig o ran y gallu i sicrhau manteision ehangach.
    - Y tîm SEA - sy'n darparu cymorth canolog ar draws amryw o gynlluniau mewnol ac allanol
    - Cymorth technegol - sy'n darparu data penodol sy'n unigryw i gynlluniau penodol (e.e. adnoddau dŵr) neu ddata cyffredin ar gyfer yr holl gynlluniau statudol (e.e. cynefinoedd a rhywogaethau).

50. Mae CNC wrthi'n darparu tri threial ardal yn nalgylchoedd afonydd Rhondda, Tawe a Dyfi. Diben y treialon yw datblygu dull rheoli adnoddau naturiol mewn ardaloedd daearyddol penodol fel rhan o swyddogaeth graidd CNC. Mae'r treialon felly'n dangos sut y gellid rhoi'r dyletswyddau newydd ar waith yn ymarferol ac, yn bwysicach fyth, sut y maent yn manteisio ar y dysgu ar y daith. Nod y treialon yw cynhyrchu templed ar gyfer cyflawni'r datganiadau ardal ledled Cymru, a fydd yn llywio ac arwain darpariaeth holl swyddogaethau CNC yn y dyfodol.

Y cysylltiadau rhwng Bil yr Amgylchedd (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

51. Mae'r gwaelodlin hefyd yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - mae'r gorgyffwrdd hwn wedi'i ystyried yn ofalus o fewn yr RIA hwn i sicrhau bod effeithiau'n cael eu priodoli'n gywir ar draws y ddau Fil. Fel yr amlinellir yn 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - Memorandwm Esboniadol' (2014)[48] , nod y Bil yw "sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn egwyddor ganolog ar gyfer awdurdodau cyhoeddus penodol, a bod yr awdurdodau hynny yn cydweithio i wella llesiant Cymru drwy geisio gwireddu cyfres o nodau llesiant statudol" (t. 3). Mae bwriadau'r polisi yn cynnwys y canlynol:
    - Gwella trefniadau llywodraethu i wella llesiant a datblygu cynaliadwy yng Nghymru.

[48] http://www.senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=010103

- Gwneud datblygu cynaliadwy yn egwyddor ganolog ar gyfer awdurdodau cyhoeddus penodol.
- Cefnogi'r newid a diogelu buddiannau cenedlaethau'r dyfodol.
- Diwygio cynlluniau cymunedol integredig.

52. Gyda'i gilydd, mae'r ddau Fil yn darparu'r sail gyfreithiol i ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sbarduno datblygu cynaliadwy. Maent yn atgyfnerthu diben cyffredinol y sector cyhoeddus yng Nghymru trwy gryfhau, symleiddio ac egluro prosesau statudol allweddol. Dyma restr o'r cysylltiadau allweddol rhwng Bil yr Amgylchedd (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:
    - Darparu dull statudol modern o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy trwy ddeddfu ar gyfer proses fwy cydgysylltiedig a rhagweithiol i helpu i gyflawni amcanion lles.
    - Bydd SoNaRR yn darparu sail dystiolaeth well i CNC a fydd yn cyfrannu at y datganiadau ardal - gan ddarparu data ar lefel leol. Bydd hyn hefyd yn cyfrannu at dystiolaeth yn yr asesiadau o les lleol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
    - Mae datganiadau ardal, fel sy'n ofynnol o dan Fil yr Amgylchedd (Cymru), yn gallu darparu sail dystiolaeth gyson a thryloyw ar gyfer paratoi asesiadau o les lleol. Mae Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn gwneud gwelliant i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i rai cyrff cyhoeddus ystyried datganiad neu ddatganiadau ardal wrth baratoi asesiad o les lleol.
    - dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, bydd CNC yn aelod statudol o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn gallu defnyddio'r dystiolaeth yn eu datganiadau ardal wrth gyfrannu at ddatblygu'r cynllun llesiant lleol.
    - dan Fil yr Amgylchedd (Cymru), efallai y gofynnir i rai cyrff cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gyfrannu gwybodaeth i lywio'r SoNaRR a'r datganiadau ardal.
    - Bydd y gwelliannau i'r sail dystiolaeth hefyd yn galluogi CNC, a gynrychiolir ar Banel Cynghori Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, i sicrhau bod ein dull o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn cael ei ddeall a'i adlewyrchu yng ngwaith y Comisiynydd, megis yn yr Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol cyfnodol.

Rhan 1: Costau

53. Mae'r adran ganlynol yn rhoi asesiad o gostau ychwanegol neu ymylol pob dewis gymharu â'r opsiwn 'Gwneud Dim' (y sefyllfa gwaelodlin a gyflwynir uchod).

54. Ar gyfer pob opsiwn a ddisgrifir isod, mae'r costau wedi cael eu rhannu ar sail pob un o'r cynhyrchion fel a ganlyn:
    - SoNaRR
    - NNRP
    - Datganiadau ardal
    - Cytundebau rheoli tir
    - Cynlluniau arbrofol

Opsiwn 2 (sy'n cael ei ffafrio): Cyflawni datganiadau ardal mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y blaenoriaethau a nodir yn yr NNRP

55. Mae'r opsiwn hwn yn gysylltiedig â gweithredu'r datganiadau ardal mewn modd sy'n canolbwyntio ar nodi'r cyfleoedd fydd yn cyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yn yr NNRP. Mae'r dull hwn yn cydbwyso costau adnoddau cyffredinol i CNC â gwireddu'r manteision sy'n ofynnol dan y Bil.

Paratoi a chynhyrchu adroddiad ar sefyllfa adnoddau naturiol (SoNaRR)

56. Y prif gam gweithredu sy'n ofynnol ar gyfer paratoi a chynhyrchu SoNaRR sydd wedi cael ei asesu fel un ag effaith sylweddol, yw gweithredu i ddarparu asesiad o statws adnoddau naturiol yng Nghymru a sicrhau bod y wybodaeth angenrheidiol ar gael i Weinidogion Cymru fel y gallant bennu blaenoriaethau a chyfleoedd ar lefel genedlaethol (NNRP). CNC fydd yn gyfrifol am dalu costau paratoi a chynhyrchu'r SoNaRR.

57. Bydd yn ofynnol i CNC baratoi a chynhyrchu SoNaRR o fewn amserlen benodol fel yr amlinellir yn y Bil. Mae SoNaRR yn cynnwys asesiad o sefyllfa adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru, gan gynnwys asesiad o'r graddau y mae adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. Mae'n ofynnol i CNC gyhoeddi'r SoNaRR cyntaf bedwar mis ar ôl i adran 8 o'r Bil ddod i rym.

58. Mae'n rhaid cyhoeddi SoNaRR dilynol cyn diwedd y flwyddyn galendr cyn y flwyddyn pan fydd etholiad cyffredinol cyffredin yn cael ei gynnal. Yn achos etholiad cyffredinol anghyffredin, ni fyddai hynny'n effeithio ar SoNaRR; mae'r adroddiad yn gynnyrch sy'n sefyll ar ei ben ei hun a fydd yn ofynnol bob pum mlynedd i sicrhau bod y wybodaeth sydd ei hangen ar Weinidogion Cymru ar gael er mwyn pennu blaenoriaethau ar gyfer gweithredu ar lefel genedlaethol.

59. Mae paratoi'r adroddiad yn gofyn am sgiliau technegol digonol (heb fod yn gyfyngedig i wybodaeth amgylcheddol) yn CNC i gynhyrchu asesiadau o dystiolaeth ar adnoddau naturiol a gwybodaeth economaidd-gymdeithasol

arall er mwyn nodi cyfleoedd a risgiau ar lefel genedlaethol. Ar gyfer y SoNaRR cyntaf, disgwylir y bydd CNC yn dibynnu ar y cyflenwad presennol o ddata amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Ar gyfer adroddiadau SoNaRR y dyfodol, rhagwelir y gallant hefyd ddefnyddio gwybodaeth a thystiolaeth a gasglwyd at ddiben paratoi datganiadau ardal ac unrhyw waith monitro dilynol a wneir ar effeithiau'r datganiad.

60. Yn absenoldeb y Bil a gofyniad penodol i CNC gynhyrchu SoNaRR, byddai angen gwaelodlin cenedlaethol clir o hyd ar CNC i lywio'u gwaith a byddai wedi parhau i gynhyrchu Adroddiad 'Cyflwr yr Amgylchedd' yn unol â'r bwriad yn 2016. Felly, gan y byddai adroddiad wedi ei baratoi yn absenoldeb y Bil, mae'n rhesymol rhagdybio y byddai rhywfaint o amser staff wedi ei neilltuo ar gyfer crynhoi gwybodaeth i roi darlun ar lefel genedlaethol. Serch hynny, cydnabyddir y bydd cwmpas SoNaRR yn ehangach o ran ei gynnwys.

61. Bydd casglu gwybodaeth i greu darlun ar lefel genedlaethol yn gofyn am amser staff ychwanegol. Gall CNC ofyn am wybodaeth a/neu gymorth gan gyrff cyhoeddus eraill (a restrir yn adran 11 y Bil) wrth baratoi a chynhyrchu SoNaRR a bydd yn ofynnol i'r cyrff hyn gynorthwyo lle nad yw'r cymorth hwn yn dod o dan amod a ddarperir yn y Bil.

<u>Staff Ychwanegol</u>

62. Ar hyn o bryd mae strwythur sefydliadol CNC yn cynnwys y rhai sydd â'r sgiliau gofynnol i gyflawni'r gofyniad adrodd h.y. gwyddonwyr amgylcheddol a chymdeithasol. Gall rhai o'r gofynion gael eu bodloni drwy'r strwythur presennol a/neu drwy'r broses barhaus o drawsnewid. Fodd bynnag, mae'r ddyletswydd ar CNC i reoli a chyflwyno SoNaRR yn golygu y gall fod angen rhywfaint yn rhagor o amser a sgiliau staff.

63. Bydd angen "rheoli'r prosiect" o gynhyrchu'r SoNaRR statudol cyntaf gan ddefnyddio sgiliau ac arbenigedd sy'n rhan o'r strwythur staffio presennol. Amcangyfrifir bod y costau dan sylw yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r tasgau canlynol:
    - costau rheoli prosiect (gweithdai, cyfathrebu, dwyn arbenigwyr a chyrff allanol ynghyd);
    - costau unrhyw gomisiynau penodol (ymchwil, adroddiadau academaidd, neu gostau cyfranogiad cyrff eraill);
    - ysgrifennu adroddiadau a chostau datblygu;
    - gwaith cyfathrebu parhaus arall a datblygu gwefan;
    - Sicrhau Ansawdd Annibynnol.

64. Yn seiliedig ar y tasgau a nodir uchod, amcangyfrifwyd y bydd cynhyrchu'r SoNaRR cyntaf yn gofyn am rhwng tua 2 a 5 gweithiwr cyfwerth ag amser llawn (FTE). Rhagwelir y bydd y gwaith yn canolbwyntio ar nodi gwydnwch ecosystemau ar sail ardal, casglu tystiolaeth o wydnwch ecosystemau, statws y gwasanaethau hynny ac adnabod y gwerthoedd perthnasol. Yn ymarferol, o gofio'r gwaith cyfatebol a fyddai wedi cael ei wneud o dan senario'r gwaelodlin, amcangyfrifir y byddai'r adnoddau ychwanegol sydd

eu hangen ar gyfer y SoNaRR cyntaf yn gyfwerth â 2 FTE yn gweithio'n llawn amser, neu gyffelyb, gyda'r 5 FTE uchod yn treulio tua 40% o'u hamser ar hyn.

65. Amcangyfrifir hefyd y byddai angen adnoddau ychwanegol yn y dyfodol os rhagwelir y bydd yr adroddiad yn mynd y tu hwnt i gyfosod dadansoddiadau sydd eisoes yn bodoli, a all gynnwys nifer mawr o ddadansoddiadau newydd a mwy cymhleth. Ar gyfer y sefyllfa hon, rhagwelir cyfanswm cost o rhwng 8 a 10 FTE yn rhan o'r gweithgaredd hwn erbyn yr ail gylch (2021). Fodd bynnag, o dan senario'r gwaelodlin, byddai rhywfaint o allu o natur debyg wedi bod yn ofynnol a byddai'r SoNaRR cyntaf wedi cael ei gynhyrchu. Felly, amcangyfrifir mai 3-5 staff FTE yw'r adnodd ychwanegol.

66. Ar sail hyn, gan dybio y bydd angen 2 staff EFT ychwanegol (ar sail 40% o amser staff gyda strwythurau gradd (o 1 x D1, 2 x C2, 2 x C1) dros ddwy flynedd ar gyfer 2016/17 a 3-5 staff FTE ychwanegol dros ddwy flynedd ar gyfer 2021-22 (gan ddefnyddio'r un rhaniad staff), bydd costau blynyddol yn amrywio o £99,000 dros 2 flynedd yn 2016/17 i £148,400-£247,4000 dros 2 flynedd ar gyfer 2021/22.

67. **Dros 10 mlynedd, amcangyfrifir felly mai gwerth presennol y gost hon fydd £494,000 i £692,700.**

Hyfforddiant

68. Bydd angen hyfforddiant ar gyfer staff CNC a fydd yn cyflawni'r swyddogaethau dadansoddi a chynllunio statudol ac er mwyn sicrhau bod staff â'r sgiliau perthnasol ar gael i wneud asesiadau cyffredinol o faterion o bob math yn unol ag egwyddorion rheoli adnoddau naturiol. Caiff costau'r hyfforddiant hwn eu hamcangyfrif ar sail yr amser staff a fydd ei angen i ymgymryd â hyfforddiant, a'r costau o gyflogi darparwyr hyfforddiant allanol. Yn ogystal, byddai peth hyfforddiant wedi bod yn ofynnol i gyflawni'r pwrpas statudol cyfredol ac er mwyn cyflawni gofynion Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ond byddai'r Ddeddf yn debygol o brysuro'r angen hwn.

69. Amcangyfrifir bod 15% o 1,850 o staff (syn cyfateb i 288 o FTE) yn treulio 33% o'u hamser ar gyfartaledd ar brosesau cynllunio statudol (gan roi ~ 92 FTE). Os tybir y bydd CNC angen hyfforddiant sy'n gymesur â'r amser y maent yn ei neilltuo i brosesau cynllunio statudol a bod y 92 o staff FTE angen 2 ddiwrnod o hyfforddiant mewn rheoli adnoddau naturiol integredig, yna mae hyn yn golygu y bydd angen 184 o ddiwrnodau hyfforddiant staff. Amcangyfrifir mai £19.75/awr neu £150/y dydd (ONS, 2013), sef £300 ar gyfer 2 ddiwrnod fydd cost yr amser hwn ar gyfer staff proffesiynol llawn amser. Ar gyfer 92 o staff FTE **£27,500** yw'r gost felly. Fel amcangyfrif uchaf, gan dybio bod angen 2 ddiwrnod o hyfforddiant ar bawb o'r staff, byddai'r ffigur hwn yn cynyddu i **£550,000.** Byddai'r costau hyfforddi hyn yn daladwy yn 2016-17 ac amcangyfrifir eu bod yn **£27,500** i **£550,000** dros 10 mlynedd**.**

70. Amcangyfrifir y byddai'r gost o ddarparu diwrnod o hyfforddiant gan academyddion/ymgynghorwyr economeg amgylcheddol yn hyd at **£20,000** ar gyfer tua 100 o staff. Mae hyn wedi cael ei gyfrifo gan dybio y gall diwrnod o hyfforddiant gael ei ddarparu gan ddau hyfforddwr i grŵp o hyd at 20 o staff, gan roi gofyniad am ddeng niwrnod o sesiynau hyfforddi. Amcangyfrifir mai £800 y dydd yw cost hyfforddwyr, sy'n cwmpasu'r 20 diwrnod, yn ogystal â 5 diwrnod ar gyfer cynllunio'r gweithgaredd hyfforddi. Felly cost untro'r 25 diwrnod hwn yw hyd at **£20,000.** Bydd y gost hon yn digwydd yn 2016-17.

71. Er y bydd y Bil yn cyflwyno gwahanol ffyrdd o weithio i CNC a chyrff cyhoeddus, a allai arwain at gostau cychwynnol ychwanegol, byddant yn digwydd ochr yn ochr â'r gwaith cyfatebol i roi gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ar waith. Disgwylir ysgwyddo unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r dull newydd hwn am gyfnod o bum mlynedd yn y lle cyntaf, ond byddant yn lleihau dros amser wrth i'r prosesau ymwreiddio yn y sefydliadau. Serch hynny, mae ychydig o botensial ar gyfer arbedion effeithlonrwydd yn y tymor byr a'r tymor canolig, trwy fanteisio ar y cyfle i integreiddio a rhesymoli swyddogaethau cynllunio a chyflawni a ddarperir trwy'r fframweithiau a ddaeth i fod yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Bil yr Amgylchedd (Cymru). Ni ellir mesur graddfa'r arbedion hyn ar hyn o bryd ac felly nid ydynt wedi eu cynnwys yn yr asesiad.

72. Gall rhan o'r dull newydd gynnwys gofyniad i neilltuo amser i sefydlu dulliau o weithio sy'n fwy cydweithredol ac ymgysylltu'n well â rhanddeiliaid. Gall hyn ymgorffori'r hyn a ddysgir o'r cynlluniau peilot cyfredol, er mwyn sefydlu gwahanol ffyrdd o gyflwyno dulliau o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Yn gyffredinol mae disgwyl i'r gweithgareddau hyn gael eu cyflawni drwy ail-ddyrannu adnoddau presennol, ac felly ni chredir y byddant yn golygu costau ychwanegol.

73. Y disgwyl yw y bydd yr ymdrechion cydweithredol i gynhyrchu datganiadau ardal yn cael ei wneud trwy ddull ailadroddol, gan ddysgu-drwy-wneud dros amser a bydd cysylltiad rhyngddynt â'r prosesau i ddatblygu cynlluniau llesiant. Mae hyn yn awgrymu proffil ymdrech gyda chost tymor byr sy'n raddol leihau wedyn. Mae'r proffil hwn o gostau a 'dysgu' yn cael ei godi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) hwn trwy dybio bod angen hyfforddiant ym mlwyddyn gyntaf y gweithredu. Bydd hyn yn bwydo yn ôl i SoNaRRs y dyfodol fel tystiolaeth, a ddaw o ddatganiadau ardal.

74. Byddai cost yr ymgynghorwyr hyfforddiant yn digwydd yn 2016-17 (blwyddyn 0), ac amcangyfrifir y gost yn **£20,000.**

75. Hwyrach y bydd rhai costau pontio ychwanegol yn gysylltiedig ag amser staff i symud o wneud adroddiadau ar gyflwr yr amgylchedd i adrodd ar gyflwr adnoddau naturiol, ar **lefel genedlaethol** (SoNaRR), gyda'r cais am ddatganiadau ardal ar **lefel leol.**

76. Er mwyn cynnig amcangyfrif o gostau'r dulliau a allai gael eu mabwysiadu wrth baratoi a chynhyrchu SoNaRR, rydym am ddefnyddio'r adnoddau dadansoddol sydd eisoes ar gael. Tybir bod y dulliau canlynol yn gynrychiadol o'r rhai y gellid bod angen eu mabwysiadu a rhoddant enghreifftiau o'r costau a allai fod ynghlwm wrth gynhyrchu SoNaRR. Ni fyddai'r gost hon yn codi eto, ond mae wedi cael ei ddefnyddio i dynnu sylw at gostau newidiol posibl y SoNaRR.

77. Mae'r amcangyfrifon cost canlynol ar gyfer y SoNaRR, am y defnydd o adnoddau dadansoddol, yn seiliedig ar y gost o ddefnyddio gwiriad asedau Cyfalaf Naturiol a System Gynllunio Adnoddau Naturiol SCCAN.

78. Ar gyfer SoNaRR, mae'r amcangyfrif isaf yn seiliedig ar y gost o ddefnyddio gwiriad asedau Cyfalaf Naturiol ar **lefel genedlaethol**, ac mae'r amcangyfrif uchaf yn seiliedig ar ddefnyddio System Gynllunio Adnoddau Naturiol SCCAN ar **lefel genedlaethol**.

i. Gwiriad asedau cyfalaf naturiol (UKNEAFO, WP1)

79. Mae'r amser a gymer (i arbenigwyr yn y maes) gwblhau Gwiriad Asedau Naturiol Cyfalaf yn hysbys yn sgil Cam Dilynol Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU, prosiect UKNEAFO WP1 = 5-10 diwrnod gwaith (UKNEAFO WP1, 2014). Gan dybio bod gwiriad asedau ar lefel genedlaethol yn digwydd ar draws yr 8 math o gynefin UKNEA, mae'n golygu bod angen 8 gwiriad asedau. Mae cost dybiedig amser academaidd yn gost gynrychiadol o £800/y dydd. Felly cost 7.5 diwrnod fesul gwiriad ased ar gyfer 8 gwiriad asedau yw £48,000. Tybir y bydd y dadansoddiad hwn yn cael ei ailadrodd bob pum mlynedd pan atgynhyrchir y SoNaRR. Gan dybio y bydd y dadansoddiad hwn yn cael ei wneud yn 2017/17 (blwyddyn 0) a 2021/22 (blwyddyn 5), mae'n golygu cost o **£96,000** dros 10 mlynedd, sy'n amcangyfrif is.

ii. System Gynllunio Adnoddau Naturiol SCCAN [49]

80. Archwiliwyd yr adnoddau dadansoddol er mwyn cael hyd i System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) y gellid ei defnyddio i baratoi adroddiadau ar lefel genedlaethol, megis System Gynllunio Adnoddau Naturiol SCCAN. Mae SCCAN yn darparu system mapio gwasanaethau ecosystem i gynorthwyo pobl i ystyried ecosystemau wrth wneud penderfyniadau a gellir ei defnyddio ar lefel genedlaethol a lleol (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, 2012).

81. Gan gymryd y byddai prosiect o'r fath yn cael ei gynnal unwaith ar lefel genedlaethol byddai'n golygu cost o £150,000. Mae hon yn gost unwaith ac am byth (yn 2016) am gynhyrchu system awtomataidd ar gyfer creu mapiau ac i'w datblygu mewn ymgynghoriad â CNC. Mae hyn yn tybio ei bod yn annhebygol y gellir defnyddio'r dull presennol a'i gyflwyno'n genedlaethol. Disgwylir y bydd angen mwy o waith cyn y gall rhywbeth fel hyn gael ei ddefnyddio ar gyfer adrodd. Yn ogystal, bydd costau yn gysylltiedig â

[49] *Mae'r gwiriad asedau cyfalaf Naturiol a System Gynllunio Adnoddau Naturiol SCCAN yn adnoddau dewisol, ac eto i'w hasesu'n llawn o ran eu gwerth fel adnoddau ymarferol drwy brofi a threialu eu defnydd.*

chadw'r system yn gyfredol, felly amcangyfrifir mai £50k bob 5 mlynedd fydd hynny. Tybir mai yn 2021 y bydd y costau hyn yn digwydd. Cyfanswm y gost felly yw £200,000 dros y cyfnod gwerthuso o ddeng mlynedd. Os bydd y system yn cael ei ddiweddaru'n amlach, a allai fod yn angenrheidiol i lywio gwaith arall gan CNC, bydd y costau hyn yn cynyddu.

82. Felly, mae cost offer dadansoddol i CNC yn amrywio o **£96,000 i £200,000** dros ddeng mlynedd.

Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol (NNRP)

83. Ni ragwelir y bydd paratoi a chynhyrchu NNRP yn wahanol iawn yn yr opsiynau gwahanol a gyflwynir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn. Mae'r prif gamau sy'n ofynnol ar gyfer paratoi a chynhyrchu NNRP, wedi cael eu hasesu fel rhai â heb fawr o oblygiadau o ran costau i Lywodraeth Cymru.

84. Rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi NNRP, yn nodi eu polisïau ar gyfer cyfrannu at gyflawni'r dasg o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r NNRP cyntaf o fewn cyfnod o ddeng mis gan ddechrau gyda'r diwrnod y daw'r adran i rym. Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r NNRP ar ôl pob un o etholiadau cyffredin y Cynulliad a chynhyrchu NNRP diwygiedig os oes angen. Mae angen adolygiad hefyd os bu etholiad cyffredinol anghyffredin i'r Cynulliad fel y darperir ar ei gyfer yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Gallai costau fod yn gysylltiedig â chynnal adolygiad hefyd. Bydd etholiad cyffredinol anghyffredin (yn ychwanegol at y cylch pum mlynedd) yn effeithio ar baratoi a chynhyrchu NNRP. Bydd y blaenoriaethau a'r camau gweithredu yn cael eu hailddiffinio gan ddibynnu ar ganlyniad yr etholiad, a allai arwain at gostau ychwanegol yn sgil adolygu NNRP ac yna cynhyrchu NNRP diwygiedig os oes angen.

85. Bydd y gwaith o baratoi a chynhyrchu NNRP yn cael ei wneud trwy atgyfnerthu ymrwymiadau strategol a blaenoriaethau er mwyn sicrhau ffocws mewn meysydd sy'n cyflawni'r amlfanteision hirdymor eithaf i Gymru. Bydd y dull integredig hwn hefyd o bosibl yn cefnogi'r arbedion effeithlonrwydd o gymharu â datblygu strategaethau a pholisïau unigol annibynnol.

86. Mae'r sgiliau i baratoi a chynhyrchu NNRP yn bodoli eisoes yn Llywodraeth Cymru ac felly dim ond gofyniad i gynyddu'r amser staff a dreulir ar hyn sydd yna. Amcangyfrifir mai'r amser staff sy'n ofynnol ar gyfer cynhyrchu NNRP statudol gan y tîm polisi yn Llywodraeth Cymru yw 25% o amser unigolyn ar Radd 7, 100% o amser Uwch-swyddog Gweithredol (SEO), a 25% o amser Swyddog Gweithredol (EO), dros gyfnod o 18 mis. Yn seiliedig ar y graddfeydd cyflog ar gyfer staff Llywodraeth Cymru (gan gynnwys argostau) amcangyfrifir bod y costau sydd ynghlwm wrth baratoi a chynhyrchu NNRP statudol fel a ganlyn:

Gradd 7 = 1 x 25% x £69,408 x (18/12) = £26,028
SEO = 1 x 100% x £51,912 x (18/12) = £77,868
EO = 1 x 25% x £30,693 x (18/12) = £11,511

Cyfanswm: £36,028 + £77,868 + £11,510 = £115,407

87. Byddai'r costau hyn yn digwydd yn 2017-18 (blwyddyn 1) a 2022-23 (blwyddyn 6), i gyd-fynd ag etholiadau cyffredinol arferol. Mae'r gost ychwanegol i Lywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â pharatoi, cyhoeddi ac adolygu'r NNRP oddeutu £230,800 dros y cyfnod gwerthuso o 10 mlynedd.

88. *Rhagdybiwyd y bydd cost paratoi a chynhyrchu NNRP yr un fath neu'n debyg ar gyfer pob un. Mae hyn yn seiliedig ar y ffaith ei fod yn ofyniad statudol, o dan 3 o'r 4 opsiwn a gyflwynir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn. Ni ragwelir y bydd y costau'n amrywio yn ddigon sylweddol i gyflwyno graddfa bosibl. Disgwylir y bydd y costau'n cael eu rheoli o fewn y cyfyngiadau cyllideb presennol a thrwy reoli cyllid yn fewnol.*

<u>Datganiadau ardal</u>

89. Mae yna ddau gyfnod amlwg mewn perthynas â datganiadau ardal: (1) paratoi a chyhoeddi; a (2) gweithredu.

90. Ar gyfer (1), yr amrywiadau yw:

(a) nifer y datganiadau ardal;
(b) cwmpas datganiad ardal unigol;
(c) nifer y blaenoriaethau a'r cyfleoedd sy'n berthnasol i'r ardal honno;
(d) nifer yr adnoddau naturiol posibl a gwmpesir mewn datganiad ardal;
(e) nifer y partïon/cyrff y bydd angen i CNC ymgysylltu â nhw wrth baratoi'r datganiad;
(f) y dystiolaeth sydd ar gael;
(g) yr amser a gymerir i baratoi datganiad ardal.

91. Ar gyfer (2), yr amrywiadau yw:

(a) Nifer y prosiectau posibl y mae CNC yn nodi eu bod yn gamau gweithredu posibl;
(b) Amserlen ar gyfer cyflawni'r prosiectau hyn;
(c) Cost prosiectau;
(d) Nifer y partïon y bydd CNC o bosibl am weithio gyda nhw i gyflawni prosiect;
(e) Yr amser mae CNC yn ei neilltuo i ymgysylltu â chyrff/sefydliadau eraill i'w hannog i gyfrannu at roi datganiad ardal ar waith;
(f) Camau gweithredu cyfredol o fewn ardal sy'n gallu cyfrannu at roi'r datganiad ar waith

92. At ddiben yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, tybir y bydd paratoi a chynhyrchu datganiadau ardal yn gofyn am gamau gweithredu i gyflawni'r canlynol, a gallai effaith hynny fod yn arwyddocaol:

- Cynllunio, paratoi a chyflwyno.
- Llywodraethu cydweithredol.
- Gofyniad casglu a monitro tystiolaeth newydd integredig/seiliedig ar ardal
- Dadansoddiad tystiolaeth ecolegol, economaidd a gwyddor gymdeithasol newydd ac integredig.
- Arfarniad SEA o gynaliadwyedd y datganiad ardal, lle bo angen.

93. Mae'r opsiwn hwn (yr opsiwn 'dull cymedrol' sy'n cael ei ffafrio) yn gysylltiedig â chyflwyno'r dull seiliedig ar ardal mewn modd sy'n canolbwyntio ar nodi'r cyfleoedd i gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yn yr NNRP ac felly'n cydbwyso'r costau adnoddau cyffredinol i CNC yn ogystal â gwireddu manteision ecolegol sy'n ofynnol o dan y Bil. Gall hyn olygu bod rhai datganiadau ardal yn ymdrin â blaenoriaethau a chyfleoedd penodol, tra bo eraill yn grynodeb syml o'r risgiau sydd wedi'u cofnodi mewn adroddiadau a ffynonellau gwybodaeth eraill.

94. Fel yr amlinellir uchod, bydd y gwaith o baratoi a chynhyrchu datganiadau ardal yn debygol o gael ei wneud mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r broses gyfredol sy'n ofynnol ar gyfer SEA, er enghraifft, mewn perthynas â chasglu a dadansoddi tystiolaeth. Y bwriad yw y bydd y prosesau'n ategu ei gilydd lle bo hynny'n ymarferol gan osgoi dyblygu os oes modd. Efallai y bydd angen gwneud gwaith ar wahân ar gyfer pob dogfen - y nod yw y bydd y naill yn cyfrannu at y llall.

95. Mae'r dybiaeth fel a ganlyn:
    - **Nifer yr ardaloedd** - Mewn cymhariaeth, at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, rhagdybir gallu nodi cyfleoedd i gyflawni blaenoriaethau allweddol yr NNRP trwy 11-14 o'r datganiadau ardal.
    - **Cyflymder y gweithredu** - yn dibynnu ar faint yr ardal i'w chwmpasu ac ar y nifer o flaenoriaethau sydd angen mynd i'r afael â nhw mewn datganiad ardal. Gall datganiad ardal sy'n ymdrin ag un flaenoriaeth neu gyfle yn unig mewn ardal ddiffiniedig gael ei gyflwyno'n gyflymach na datganiad ardal o dan Opsiwn 2. Gall fod mwy o ffocws i'r gwaith o ymgysylltu â rhanddeiliaid ar raddfa lai gan alluogi cydweithredu cyflymach. Fodd bynnag, gall nifer uwch o flaenoriaethau olygu y gall gymryd mwy o amser CNC i gynhyrchu pob datganiad cyn adolygu'r NNRP. Y disgwyl yw y bydd yr ymdrechion cydweithredol i gynhyrchu datganiadau ardal yn digwydd drwy ddull ailadroddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith o ddatblygu cynlluniau llesiant, gan ddatblygu'n raddol yn sgil 'dysgu-drwy-wneud'.
    - **Maint y cydweithredu** - bydd ymdrechion cydweithredol presennol yn cynnwys byrddau gwasanaethau cyhoeddus (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o dan y gwaelodlin) yn cael eu defnyddio yn y lle cyntaf. Mae hyn yn tybio y bydd cyrff cyhoeddus eraill yn cydymffurfio/cydweithio â CNC ar weithredu'r datganiad ardal.

96. Dros amser, gall CNC fod mewn sefyllfa i ddeall costau cynnal adolygiad o ddatganiad ardal yn well. Y dybiaeth yw, unwaith y bydd y broses o ddatblygu datganiadau ardal wedi'i diffinio, y byddai'n annhebygol y byddai'r cyfnod adolygu'n dechrau tan ar ôl y 5 mlynedd gyntaf, ac erbyn hynny dylai'r gweithgarwch trawsnewid fod wedi'i gynllunio a'i weithredu i amsugno costau unrhyw adolygiadau yn y dyfodol.

97. Gan nad yw'r wybodaeth hon ar gael yn llawn ar hyn o bryd, gwnaed rhagdybiaethau er mwyn cyfrifo costau, sydd i'w gweld isod gyda chostau'r camau a amlygir uchod:

a. <u>Cynllunio, paratoi a chyflwyno</u>

98. Rhagwelir y bydd hyn yn gofyn am adnoddau staff ychwanegol i sicrhau bod CNC yn barod ar gyfer y dyletswyddau newydd. Mae'r camau gweithredu hyn yn cynnwys:
    - Rhaglen Trawsnewid CNC i gynllunio ar gyfer gweithrediad y dyletswyddau newydd yn y Bil a'u rhoi ar waith fesul cam.
    - Prosesu gwaith ail-beiriannu i ddeall lle y gellir gwneud arbedion drwy alinio swyddogaethau cynllunio.
    - Hyfforddi a datblygu staff i roi'r ddyletswydd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar waith

<u>Costau i CNC</u>

99. Penodwyd Tîm Trawsnewid yn CNC ar 1 Hydref 2014 a oedd yn cynnwys 4 aelod o staff FTE ac 1 Rheolwr Rhaglen FTE o fewn y Gyfarwyddiaeth KSP. Ar hyn o bryd y bwriad yw i'r tîm fod ar waith tan o leiaf fis Medi 2016 ond mae'n debygol y bydd yr angen yn para wedi hynny er mwyn gallu cyflawni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae cost y tîm yn dod o dan y gwaelodlin gan y byddai'r costau hyn yn digwydd yn absenoldeb y Bil, i hwyluso'r gwaith o drawsnewid y 3 chorff rhagflaenol yn un, sef CNC.

100. Penodwyd 3 arweinydd ardal FTE prawf hefyd gan ddefnyddio cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ac mae 2 Reolwr Cynllunio Adnoddau Naturiol FTE a 4 Arweinydd Tîm FTE arall yn y Cyfarwyddiaethau Gweithredol yn gweithio fel tîm rhithwir, i weithredu'r agenda drawsnewidiol er mwyn bodloni'r Bil a gofynion ehangach - a fydd yn parhau dros gyfnod o amser, y tybir y bydd tan 2019-20.

101. Gan ddefnyddio graddfeydd cyflog CNC (gan gynnwys argostau) a gwybodaeth a ddarperir gan CNC ar raddau a chanran yr amser a dreulir ar y gweithgareddau hyn, gellir cyfrifo costau blynyddol fel a ganlyn:

Arweinwyr Ardal Prawf = 3 x 100% x £54,972 = ~£164,900 Rheolwyr Cynllunio Adnoddau Naturiol = 2 x 20% x £86,802 = ~£34,700

Arweinwyr Tîm = 4 x 20% x £70,075 = ~£56,100
Cyfanswm = £164,900 + £34,700 + £56,100 = £255,700 y flwyddyn.

Gan dybio y bydd y costau hyn yn digwydd bob blwyddyn, rhwng 2016-17 a 2019-20, y gost uchaf ar sail gwerth presennol yn ystod y cyfnod arfarnu 10 mlynedd yw **£1,022,800.** Dylid nodi serch hynny y byddai rhai costau wedi bod yn gysylltiedig â senario'r gwaelodlin ac yn ymarferol, fel yr esbonnir isod, bydd y gwaith yn canolbwyntio hefyd ar nodi arbedion. O gofio bod yr agweddau hyn yn anodd eu mesur a'u neilltuo o'r costau uchod, mae cyfanswm y gost yn adlewyrchu'r ystod uchaf.

102. Ar ben hynny, gan ddefnyddio'r model a ddefnyddir gyda'r Rhaglen Bontio, mae CNC yn disgwyl 10-15 yn rhagor o staff i weithredu fel perchnogion neu hyrwyddwyr prosiectau Rheoli Adnoddau Naturiol, gan gyflwyno'r darpariaethau yn Rhan 1 y Bil, naill ai fel cyfran neu'r cyfan o'u hamser dros y 3-5 mlynedd nesaf. Bydd hyn yn dibynnu ar sut y mae'r gwaith o gyflwyno'r opsiynau'n esblygu a bydd angen gwaith pellach i asesu'r arbedion y gellid eu sicrhau trwy ddatblygu datganiadau ardal ochr yn ochr â symleiddio swyddogaethau cyflawni a chynllunio cyfredol. Felly ni wnaed rhagdybiaethau ar raddau posibl arbedion effeithlonrwydd yn sgil integreiddio prosesau a swyddogaethau cynllunio, ond bydd gwaith yn cael ei ddatblygu i fapio hyn yng ngham cyntaf y broses drawsnewid. Fodd bynnag, er y bydd rhai costau ychwanegol yn gysylltiedig â chynnal y Rhaglen Drawsnewid - yn ystod tair blynedd gyntaf y Bil - a chyflwyno'r newid hwnnw ar draws y busnes, bydd cyfle i gyfuno hynny â'r newidiadau sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a bydd y costau hyn hefyd yn lleihau gydag amser. Felly, at ddibenion yr asesiad hwn, tybir y bydd 10-15 o staff Gradd 6/7yn treulio cyfran o'u hamser (5-15%) yn gwneud hyn. O hwnnw, gellid priodoli hyd at ei hanner mewn cysylltiad â'r Bil.

103. Gan dybio y bydd y costau hyn yn digwydd bob blwyddyn rhwng 2016-17 a 2019-20, ar raddfa o £35,000 i £65,100 y flwyddyn, amcangyfrifir felly y bydd costau ymylol dros 10 mlynedd rhwng **£140,200 a £260,400.**

104. Rhagwelir y bydd rhai costau ymylol i gyrff allanol hefyd yn deillio o ran helpu'r tîm trawsnewid i greu prosesau newydd mewn ffordd gyd-gynhyrchiol. Gall hyn fod ar ffurf sgiliau newydd a geir drwy hyfforddiant neu drwy brynu gwasanaethau megis gwasanaeth hwyluso. Tybir y bydd y costau hyn yn dod o fewn yr ystod o gostau a nodwyd yn flaenorol gyfer hyfforddiant ychwanegol.

105. Yn gyffredinol, amcangyfrifir y bydd y gost o gynllunio, paratoi a chyflwyno fesul cam rhwng £297,700 a £451,000 y flwyddyn rhwng 2016-17 a 2019-20 neu gyfanswm o **£1,162,900 i £1,283,200** dros 10 mlynedd.

b. <u>Llywodraethu Cydweithredol</u>

106. Rhagwelir y gall fod angen adnoddau staff ychwanegol er mwyn sicrhau cyfraniad rhanddeiliaid, er y dylid nodi y bydd angen i CNC gael gallu cydweithredol ar waith o dan y senario gwaelodlin o ystyried ei ymrwymiadau statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae camau gweithredu perthnasol yn cynnwys:
    - Mae'n rhaid i CNC gydweithio â chyrff cyhoeddus eraill wrth baratoi'r datganiadau ardal ac ystyried eu sylwadau, (CNC sydd i wneud y gwaith paratoi ei hun) fel sy'n ofynnol o dan egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, sy'n rhan o ddiben statudol newydd CNC
    - Rhaid i gyrff cyhoeddus (fel yr amlinellir yn adran 11 y Bil) ddarparu gwybodaeth neu gymorth i CNC i baratoi a chynhyrchu datganiad ardal, os yw CNC wedi gofyn am y cymorth hwn. Mae hyn yn cefnogi'r gofynion cydweithredu presennol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
    - Er mwyn osgoi anfodlonrwydd gyda chyrff cyhoeddus, ac i gyflawni amcanion y dull gweithredu ar sail ardal - dylai CNC sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cefnogi ac yn cymryd rhan yn broses sy'n ymwneud â datblygu datganiadau ardal.

Costau i CNC

107. Y disgwyl yw y gall fod angen ychwanegu at y cyflenwad cyfredol o sgiliau a staff CNC yn enwedig yn ystod y cyfnod pontio, er mwyn ymgymryd â'r cydweithrediad hirdymor sy'n ofynnol o dan y Bil. Yn ogystal, bydd ffocws y gwaith yn wahanol gyda chynnydd yn y staff yn CNC sy'n canolbwyntio eu gweithgareddau ar lawr gwlad, er enghraifft, gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol, ac ad-drefnu cysylltiedig o brosesau mewnol CNC i gyflwyno egwyddorion rheoli cynaliadwy.

108. Efallai y bydd rhai o'r trefniadau cydweithredol yn bodoli eisoes neu gallent esblygu o bartneriaethau neu rwydweithiau sy'n bodoli eisoes.

109. Yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan CNC, byddai unrhyw waith rheoli llywodraethu yn gysylltiedig â dull yn seiliedig ar reoli dalgylchoedd neu ddull sy'n seiliedig ar ardal yn gofyn am ymdrechion tua 3 aelod o staff FTE. Disgwylir y byddai dau o'r rhain ar Radd 4 ac un ar Radd 5, ac y byddent yn treulio o leiaf 80% o'u hamser ar hyn. Yn seiliedig ar gostau staff CNC (ac argostau) byddai hyn yn golygu cost ychwanegol o £113,300 i £141,600 y flwyddyn o 2016-17 ymlaen. Mae'n debyg y bydd angen adnoddau ar y lefel hon ar sail dreigl er mwyn paratoi a chynhyrchu datganiadau ardal, ond o ystyried gofynion senario'r gwaelodlin, yna ystyrir y byddai staff o 3 FTE yn fwy na digon ar gyfer ymdrechion cydweithredol newydd.

110. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi, gan mai'r amcan bwriadol ar gyfer gweithredu datganiad ardal yw iddo ddod yn ddull sylfaenol i CNC gyflawni ei swyddogaethau, mae yna botensial sylweddol y gellir cael gostyngiad yng ngofynion adnoddau staffio mewn mannau eraill yn y sefydliad. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys lleihad yn yr adnoddau sy'n ofynnol ar gyfer

cynhyrchu nifer mawr o gynlluniau statudol ac anstatudol cyfredol o ganlyniad i resymoli ac integreiddio yn ddatganiadau ardal.

111. Yn gyffredinol, costau ymylol llywodraethu cydweithredol CNC yw £**1,415,800**.

Costau i Gyrff Cyhoeddus Eraill

112. Mae gofyn i gyrff cyhoeddus rannu gwybodaeth mewn perthynas â darparu cymorth i CNC wrth gynhyrchu SoNaRR a'r datganiadau ardal, gan nodi cyfleoedd ar gyfer rheoli cynaliadwy a chydweithio rhwng rhanddeiliaid a CNC.

113. Bydd y gofynion cydweithredol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cynorthwyo i sicrhau cydweithio o dan y datganiadau ardal. Yn ogystal â'r gofynion a nodir ym Mil yr Amgylchedd (Cymru), bydd gan gyrff cyhoeddus rwymedigaethau hefyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

114. Mae'n rhesymol tybio y bydd aelodau o Fyrddau'r Gwasanaethau Cyhoeddus, a chyrff cyhoeddus eraill sydd wedi cael eu gwahodd i gymryd rhan yn eu gweithgareddau, yn rhannu gwybodaeth gyda CNC i lywio datblygiad y datganiadau ardal o ystyried y cysylltiad â pharatoi asesiadau o lesiant lleol.

115. Ar y cyfan felly, £0 yw cost ymylol llywodraethu cydweithredol i gyrff cyhoeddus eraill.

c. Gofyniad monitro a chasglu tystiolaeth integredig/ar sail ardal newydd

116. Mae'n debygol y byddai rhai gofynion data newydd wedi cael eu bodloni o dan y gwaelodlin ar sail ad hoc, ac i fodloni ymrwymiadau statudol CNC o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Fodd bynnag, gallai gofynion data newydd gael effaith wrth i ddulliau integredig o reoli adnoddau naturiol ennill eu plwyf - ond mae CNC yn gweithio i gael eglurder ar fylchau tystiolaeth allweddol yn y data hwn.

117. Yn gyffredinol, rhagwelir y gall fod angen ychydig o adnoddau staff/monitro ychwanegol ar gyfer rhai gofynion tystiolaeth.

118. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd i baratoi'r Asesiad hwn yn awgrymu y disgwylir i'r data presennol fod yn ddigonol er mwyn gwneud dadansoddiad digonol i gyflawni amcanion datganiad ardal, yn y lle cyntaf o leiaf.

119. Y disgwyl yw y bydd y datganiadau ardal yn cael eu cynhyrchu mewn ffordd sy'n cydnabod bylchau data (h.y. lle gallai gwell neu wahanol fathau o ddata fod yn fwy effeithiol) a sut y gallai'r rhain gael eu llenwi wrth symud ymlaen. Felly, gall fod angen rhywfaint o fuddsoddiad mewn ymchwil eilaidd/data newydd seiliedig ar ardal ar gyfer gwaith monitro, adolygu a

diwygio parhaus ar ddatganiadau ardal ac o bosibl unrhyw ddatganiadau newydd sydd eu hangen i weithredu'r NNRP diwygiedig. Yn seiliedig ar adborth o ymgynghoriad gyda CNC mewn perthynas â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, hwyrach na fydd y gost hon yn cael ei hamsugno fel rhan o'r costau parhaus o raglen bontio CNC (h.y. y 'rhaglen newid') o dan y gwaelodlin, ond mae rhywfaint o'r gwaith (e.e. cynhyrchu porth GIS) yn galluogi i ddata sy'n bodoli eisoes gael ei gyflwyno a'i ddadansoddi mewn gwahanol ffyrdd.

120. Ar ben hynny, mae awgrym y gallai gwaith monitro cyfredol, sy'n cael ei ragnodi fel ei fod yn cyd-fynd â gofynion y CE, fod yn fwy integredig a chael ei ail-gynllunio fel bod y dangosyddion yr adroddwyd arnynt yn fwy integredig wrth barhau i gydymffurfio â'r Cyfarwyddebau perthnasol. Gallai hyn ddefnyddio llai o adnoddau yn y tymor hir, er nad yw hyn wedi ei ragdybio yn y dadansoddiad cost a manteision. Heb gydweithio wrth gasglu tystiolaeth, neu os oes angen tystiolaeth yn gyflymach, mae perygl y byddai costau ychwanegol i CNC.

121. Yn gyffredinol, bydd angen i gostau ymylol gofynion tystiolaeth newydd i CNC gael eu hystyried wrth roi'r Bil ar waith – nid yw'r costau hyn yn hysbys ar hyn o bryd.

d. <u>Dadansoddiad tystiolaeth gwyddor gymdeithasol ac ecolegol newydd integredig</u>

122. Mae paratoi datganiadau yn unol ag egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn golygu ystyried:
    - Tystiolaeth ynglŷn ag adnoddau naturiol a gwasanaethau ecosystem sy'n berthnasol i ardal, gan gynnwys data am statws a thueddiadau (gan gynnwys newid o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd), cryfder (e.e. cysylltedd, gallu i addasu, maint, statws) a'r trothwyon yng nghyd-destun lles cymdeithasol.
    - Y swyddogaeth ehangach sydd gan adnoddau naturiol unrhyw le i'w chyfrannu, ar ei phen ei hun ac ar y cyd, at anghenion cymdeithasol ac economaidd ardal ar sail tirwedd neu ardal ehangach.
    - Pa raddfa sy'n cynnig y cyfleoedd gorau i gyflawni ar sail y blaenoriaethau a'r cyfleoedd sydd yn yr NNRP ar gyfer rheoli adnoddau naturiol.

123. Yn gyffredinol, mae hyn yn golygu y rhagwelir y gall fod angen adnoddau staff ychwanegol i gynhyrchu adroddiadau gwyddor gymdeithasol ac ecolegol integredig. Fodd bynnag, i raddau, byddai angen i CNC feddu ar y gallu hwn yn barod er mwyn bodloni ei ymrwymiadau i gyflawni yn erbyn y Nodau Llesiant a sefydlwyd drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

<u>Staff a hyfforddiant ychwanegol</u>

124. Gyda datganiadau ardal, mae'n ofynnol adrodd ar statws a thueddiadau o ran adnoddau naturiol ar lefel leol mewn modd sy'n gyson â rheoli

adnoddau naturiol. Bydd hyn yn gofyn am amser staff CNC i gynhyrchu asesiadau integredig o dystiolaeth ar adnoddau naturiol a'r cysylltiadau â gwybodaeth economaidd-gymdeithasol arall er mwyn nodi cyfleoedd a risgiau ar y lefel leol hon.

125. Mae'n rhesymol tybio bod yr adnoddau staff a ddefnyddir mewn asesiadau rheoli adnoddau naturiol integredig ar lefel leol/ardal yr un fath â'r rhai sy'n gysylltiedig ag asesiadau o'r fath ar lefel genedlaethol (h.y. ar gyfer y SoNaRR). Mae hefyd yn rhesymol tybio bod hwn yn ofyn sy'n deillio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn senario'r gwaelodlin. Felly, ystyrid adnoddau staff ychwanegol (niferoedd a hyfforddiant) ar gyfer 'adroddiadau gwyddor gymdeithasol newydd', ar lefel genedlaethol, unwaith o dan y fframwaith ar gyfer Rhan 1 o'r cynigion. Mae'r asesiad hwn yn seiliedig ar adnoddau ar gyfer adroddiadau lleol.

Adnoddau dadansoddi

126. Ar hyn o bryd, mae gan CNC ychydig o adnoddau ar gyfer dadansoddi ac adrodd ar lefel leol a strategol mewn perthynas â statws amgylcheddol, ond mae gweithredu Opsiwn 2 yn cydnabod y gall costau pontio ychwanegol godi, o ran amser staff yn casglu, dehongli ac adrodd ar statws adnoddau naturiol, ar lefel leol, fel sy'n ofynnol ar gyfer y cais am ddatganiadau ardal.

127. Fel ar gyfer y SoNaRR, defnyddiwyd yr adnoddau dadansoddol presennol fel enghreifftiau. Tybiwyd bod y dulliau canlynol yn gynrychiadol o'r rheiny y gall fod angen eu mabwysiadu a'r costau a allai fod yn gysylltiedig â chynhyrchu datganiad ardal. Ni fyddai'r gost hon yn codi eto, ond fe'i defnyddiwyd i dynnu sylw at gostau newidiol posibl datganiadau ardal.

128. Ar gyfer datganiadau ardal mae'r amcangyfrif isaf yn seiliedig ar gost yr ased Cyfalaf Naturiol ar lefel leol, ac mae'r amcangyfrif uchaf yn seiliedig ar gost SCCAN ar lefel genedlaethol.

129. Felly defnyddir y gost o ddefnyddio SCCAN ar **lefel genedlaethol** i roi amcangyfrif uchaf yn unig o'r math o gost y gellid ei disgwyl yma ar gyfer datganiadau ardal.

i. *Gwiriad asedau cyfalaf naturiol (UKNEAFO, WP1)*

130. Mae'r amser a gymerir (gan arbenigwyr yn y maes) i gwblhau Gwiriad Asedau Cyfalaf Naturiol yn hysbys yn sgil y prosiect UKNEAFO WP1 a gwyddom fod angen 5 diwrnod gwaith (UKNEAFO WP1, 2014). Gan dybio y bydd angen dadansoddiad tebyg i wiriad asedau byr, sy'n gofyn am 6 diwrnod o waith, ar gyfer pob un o'r 11-14 datganiad ardal, mae hyn yn golygu o leiaf 66 o ddiwrnodau gwaith gan arbenigwyr perthnasol. Gallai'r dadansoddiad gael ei wneud hefyd gan ddefnyddio amser staff ychwanegol o fewn CNC, ond tybir y byddai hyn yn cymryd mwy o amser, ac felly y byddai'r gost gyffredinol yn debyg.

131. Yn seiliedig ar gost amser academaidd o £800/dydd, amcangyfrifir y byddai'r gost yn £52,800 i £67,200. Tybir y byddai'r dadansoddiad hwn yn cael ei wneud gyntaf yn 2016-17 ac yna'n cael ei ailadrodd bob 5 mlynedd pan atgynhyrchir y SoNaRR. Mae hyn yn rhoi gwerth ymylol gyffredinol o **£105,600 i £134,400 dros 10 mlynedd**. Dyma'r amcangyfrif isaf.

ii. *System Gynllunio Adnoddau Naturiol SCCAN*

132. Gellid mabwysiadu dull a fyddai'n gwneud dadansoddiad manylach, gan gynnwys y defnydd o GIS megis System Gynllunio Adnoddau Naturiol SCCAN, **ar lefel genedlaethol.** Mae SCCAN yn system mapio gwasanaethau ecosystem i gynorthwyo pobl i fabwysiadu dull rheoli ar lefel yr ecosystem wrth wneud penderfyniadau a gellir ei gymhwyso ar lefel genedlaethol a lleol (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, 2012). Gan gymryd y byddai prosiect o'r fath yn cael ei gynnal unwaith ar lefel genedlaethol byddai'n golygu cost o £150,000. Mae hon yn gost unwaith ac am byth, a fydd yn digwydd yn 2016-17, i gynhyrchu system awtomataidd ar gyfer creu mapiau i'w datblygu mewn ymgynghoriad â CNC. Mae hyn yn tybio ei bod yn annhebygol y gellir cyflwyno'r dull presennol yn genedlaethol. Disgwylir y bydd angen mwy o waith cyn y gall rhywbeth fel hyn gael ei ddefnyddio ar gyfer adrodd. Yn ogystal, bydd costau'n gysylltiedig â chadw'r system yn gyfredol, ac amcangyfrifir mai £50,000 bob 5 mlynedd fydd hynny (h.y. yn 2021). Os bydd y system yn cael ei diweddaru'n fwy rheolaidd na hynny, a allai fod yn angenrheidiol i lywio gwaith arall CNC, bydd y costau hyn yn cynyddu. Mae hyn yn rhoi cost PV o **£200,000 dros 10 mlynedd**. Dyma'r amcangyfrif uwch.

133. Yn gyffredinol, mae cost ymylol adroddiadau integredig newydd ar lefel genedlaethol rhwng **£105,600 a £200,000** i CNC (dros ddeng mlynedd).

e. Arfarniad Cynaliadwyedd SEA o ddatganiadau ardal

134. Rhagwelir y bydd gofyn cynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) ar y datganiadau ardal, sy'n golygu ymgynghori â chyrff perthnasol a'r cyhoedd. Mae'r sgiliau sydd eu hangen o dan y senario gwaelodlin i gynnal SEA yn bodoli yn CNC eisoes o dan y gwaelodlin, ond efallai y bydd angen mwy o amser staff ar gyfer hyn, yn enwedig yn y cyfnod gweithredu. Mae gwybodaeth a ddarparwyd gan CNC yn awgrymu bod yr amcangyfrif o gost o gynhyrchu SEA ychwanegol yn gost untro o rhwng **£10,000 a £15,000** bob tro y bydd datganiad ardal yn cael ei gynhyrchu. Byddai'r gost hon yn cynnwys:
    - Gwaith ychwanegol sy'n ofynnol gan Swyddogion yr Amgylchedd i gasglu a dadansoddi gwybodaeth berthnasol i gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb SEA, ymgynghori ag ymgyngoreion statudol ar y "adroddiad cwmpasu" ac ysgrifennu'r Datganiad Amgylcheddol a'r cynllun monitro ar ôl mabwysiadu.
    - Mewnbwn gan Arbenigwyr Technegol Asesu'r Amgylchedd i gynorthwyo Swyddogion yr Amgylchedd i ddatblygu'r SEA fel rhan o'r Datganiad Ardal i sicrhau cydymffurfiaeth.

- Mewnbwn gan CNC sy'n darparu'r swyddogaeth ymgynghorai statudol ar bob SEA (mae gwahaniad clir rhwng dyletswyddau yn hyn o beth, ac mae hyn yn rhan ofynnol o'r broses).

135. Os ydym yn cymryd yn ganiataol bod yna 11 o ddatganiadau ardal, mae hon yn gost o £110,000 i £165,000 i gyd. Disgwylir i'r gost ddigwydd yn 2016-17 a 2021-22. Efallai y bydd angen datganiadau ychwanegol yn dilyn yr NNRP diwygiedig. Gallai fod diwygiadau i'r datganiadau sydd eisoes yn bodoli hefyd i gyd-fynd â'r diwygiadau i'r NNRP. Gallai hyn gynnwys cyfuniad o ddatganiadau ar gyfer rhai ardaloedd.

136. Bydd y broses o gynhyrchu'r NNRP a'r datganiadau ardal yn broses debyg i SEA, ac maent yn debygol o fod tua phen isaf yr amrediad a nodir.

137. Mae hyn yn golygu mai'r gost ychwanegol a amcangyfrifir i CNC yw **£220,000 i £330,000** dros 10 mlynedd.

Cytundebau Rheoli Tir

138. Mae'r Bil yn rhoi pŵer estynedig i CNC i ymrwymo ei gytundebau rheoli tir gwirfoddol gyda phobl eraill sydd â buddiant yn y tir.

139. Y rhagdybiaeth a wnaed mewn perthynas â chytundebau rheoli tir yw y byddai CNC yn gallu defnyddio'r pŵer estynedig yn ystod eu gweithgaredd rheolaidd ond na fyddai'n costio dim mwy neu lai i weithredu. Mae asiantau tir CNC sy'n rheoli'r math hwn o waith yn adnodd sefydlog, felly ni fyddent yn gallu prosesu dim mwy o gytundebau rheoli nag y maent ar hyn o bryd, er y gallent fod o blaid pethau gwahanol a mwy uchelgeisiol yn sgil ymestyn y pŵer.

140. Rhagwelir y bydd y pwerau hyn yn fwy tebygol o gael eu defnyddio lle mae yna gymhellion tynnu neu wthio sylweddol dros wneud hynny. Gallai hyn gynnwys canlyniadau amgylcheddol arwyddocaol, neu elw ariannol/cymdeithasol sylweddol ar fuddsoddiad (gan gynnwys arbedion effeithlonrwydd). Felly'r rhagdybiaeth a wneir yma yw mai dim ond lle maent yn cael eu hystyried yn gost-effeithiol y bydd y pwerau'n cael eu harfer.

141. Mae dadansoddiad ansoddol wedi dangos nad oes disgwyl y bydd unrhyw effeithiau ychwanegol sylweddol yn gysylltiedig â phwerau newydd i CNC i ymrwymo ei gytundebau rheoli. Nid yw hi wedi bod yn bosibl amcangyfrif unrhyw gostau neu fanteision posibl, fodd bynnag, gan y byddai dulliau gweithredu yn dibynnu ar yr amgylchiadau gofodol a gweithredol penodol, yn ogystal â natur a rôl gwahanol bartïon sy'n rhan o'r gwaith pan fydd y darpariaethau hyn yn cael eu rhoi ar waith. Felly, nid oes cost ychwanegol wedi'i hamcangyfrif o gymharu â'r gwaelodlin.

Cynlluniau Arbrofol

142. Mae’r Bil yn rhoi pŵer i CNC gynnal cynlluniau arbrofol er mwyn datblygu neu roi dulliau newydd ar waith neu rai a addaswyd hyd yn oed i gyflawni eu swyddogaethau er mwyn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Gall CNC dreialu datblygiad neu’r defnydd o ddulliau, cysyniadau neu dechnegau newydd i gyflawni eu camau gweithredu mewn ffordd a all helpu i gyflawni’r canlyniad, sef rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Gall hyn gynnwys dulliau gweinyddol, technegol, neu wyddonol newydd i gyflawni’r canlyniad hwn. Gall CNC gyflwyno cais i Weinidogion Cymru i atal (drwy reoliadau) darpariaeth benodol mewn deddfwriaeth amgylcheddol dros dro am gyfnod cyfyngedig o amser. O atal y ddarpariaeth dros dro mae’n rhaid i gynllun arbrofol gael ei roi ar waith, lle na fyddai’r cynllun wedi bod yn bosibl heb y cam o atal dros dro.

143. Mae i ba raddau y cyflawnir gwaith ymgysylltu newydd gyda’r sector preifat yn dibynnu ar ddefnydd CNC o’i bwerau a natur y cynlluniau arloesol y mae’n mynd ar eu trywydd. Mae’r defnydd posibl o bwerau arloesi yn cynnwys:
    - **Taliadau am wasanaethau ecosystem (PES)** - mae hyn yn cynnwys prynwyr a gwerthwyr yn rhyngweithio yn y sector preifat a hwythau gyda’r sector cyhoeddus fel archwilydd/rheoleiddiwr. Bydd hyn yn effeithio ar rolau staff yn CNC ac efallai y bydd angen mwy o adnoddau pe bai swyddogion ymgysylltu PES yn cael eu cyflogi er enghraifft.
    - **Storio carbon**: i brofi ffyrdd o liniaru achosion newid yn yr hinsawdd, er enghraifft drwy dreialu neu gefnogi cyflwyno technegau dal carbon, sydd yn debygol o ddod yn gyfrwng cynyddol bwysig o ymateb i allyriadau carbon yn y dyfodol.
    - **Trwyddedu a rhoi caniatâd:** treialu dulliau a all wella canlyniadau trwyddedu, symleiddio, neu ddarparu manteision lluosog.
    - **Ffyrdd arloesol o gasglu gwybodaeth** gan gynnwys treialu technegau newydd, er enghraifft mewn perthynas â mesur llygredd.
    - **Rheolau Rhwymo Cyffredinol**: casglu tystiolaeth i lywio’r ffordd y gallai’r rhain gael eu dwyn ymlaen.

144. Mae proses barhaus o recriwtio mewnol ar waith i lenwi rhai swyddi yn CNC mewn perthynas â’r pwerau hyn. Bydd mynd ar drywydd y gweithgaredd hwn a’i wneud yn rhan annatod o’r hyn y mae CNC yn ei wneud yn golygu y bydd angen iddynt roi’r gorau i weithgareddau eraill. Dim ond lle bydd gwneud hynny’n economaidd ymarferol y bydd CNC yn gallu mynd ar drywydd cynlluniau arbrofol - a allai olygu chwilio am ffynonellau arloesol o gyllid allanol. Felly, ni ellir rhagweld costau ychwanegol. Mae CNC yn paratoi rhai astudiaethau achos eisoes i helpu i ddisgrifio’r defnydd posibl o’r pwerau arbrofol ac mae unrhyw gostau a ragwelir ar amrywiol gamau’r broses yn cael eu hystyried hefyd.

145. Rhagwelir y bydd CNC yn fwy tebygol o ddefnyddio’r pwerau hyn lle mae cymhellion tynnu neu wthio sylweddol dros wneud hynny. Gallai hyn, er enghraifft, naill ai fod yn anogaeth drwy bolisi gan Lywodraeth Cymru, yn ganlyniad amgylcheddol arwyddocaol, neu’n elw ariannol/cymdeithasol sylweddol ar fuddsoddiad (gan gynnwys arbedion effeithlonrwydd). Felly’r

rhagdybiaeth a wneir yma yw mai dim ond pan fydd hynny'n cael ei ystyried yn gosteffeithiol (h.y. lle gall CNC fynd ar drywydd canlyniadau amgylcheddol gwell gyda mwy o adnoddau (h.y. trwy gyflogi swyddog PES). Pwerau dros dro yw'r rhain ac ar gyfer ardaloedd prawf yn unig (nid Cymru gyfan), felly, y disgwyliad yw nad yw adnoddau staff tymor hir sylweddol yn cael eu neilltuo ar gyfer gweithredu cynlluniau arbrofol o dan y Bil. Gall cyflwyno'n fwy eang y dulliau arloesol a/neu newidiadau deddfwriaethol sy'n deillio o'r dystiolaeth a gafwyd yn y treialon hyn arwain i ofynion adnoddau mwy sylweddol. Oherwydd hyn a'r rhagdybiaeth ynglŷn â bod yn gosteffeithiol, nid yw effeithiau'r camau gweithredu sydd eu hangen i dreialu cynlluniau arbrofol o dan y Bil yn debygol o fod yn sylweddol.

146. Mae dadansoddiad wedi nodi mai'r prif gamau a allai gael effeithiau arwyddocaol (h.y. statws coch) yw'r rhai sy'n ymwneud â phwerau arloesol lle mae angen gweithredu i ddarparu costau gweinyddol a thrafodion, trwy reoli gweithredu a gofynion monitro. Mae'n rhaid i CNC sicrhau bod y treialon arbrofol yn cael yr adnoddau priodol er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol yn y cyfnodau cynllunio, gweithredu a monitro. Fel y nodwyd uchod, mae natur arbrofol y pwerau hyn yn golygu mai dim ond mewn nifer bach o achosion y disgwylir i'r pwerau gael eu harfer, lle bernir eu bod yn gosteffeithiol ac nad yw costau trafodion yn rhwystro hynny. Fodd bynnag, efallai y bydd angen adnoddau ychwanegol i fonitro canlyniadau gweithgareddau - y gweithgareddau brocer cymorth, ac i ddysgu ganddynt.

147. Amcangyfrifir bod costau gweinyddol a thrafodion ar gyfer gwrthbwyso (Report on Opportunities for UK Business that value and/or protect nature's service' 2012[50]) oddeutu 30% o gost y prosiect. Fodd bynnag, mae elfennau gwrthbwyso'n fwy cymhleth na rhai dulliau arloesol (e.e. oherwydd bydd newid yn yr hawliau eiddo, nid dim ond cytundeb gwasanaeth) ac mae prosesau PES yn symlach, felly, y disgwyliad yw y gallai 10-20% o gostau'r prosiect fod yn fwy rhesymol . Mae'r ffigurau hyn mewn termau cymharol ac felly byddant yn cynyddu wrth i nifer y treialon a gynhelir gynyddu. Fel uchod, nid yw hi wedi bod yn bosibl amcangyfrif unrhyw gostau neu fanteision posibl, fodd bynnag, gan y byddai dulliau gweithredu yn dibynnu ar yr amgylchiadau gofodol a gweithredol penodol, yn ogystal â natur a rôl gwahanol bartïon sy'n rhan o'r gwaith pan fydd y darpariaethau hyn yn cael eu rhoi ar waith, am y rhesymau a roddir uchod, nid yw'r gost ychwanegol o gymharu â'r gwaelodlin wedi'i hamcangyfrif.

[50] http://www.google.co.uk/url?url=http://www.valuing-nature.net/sites/default/files/EMTF-VNN%2520study%2520final%2520report%2520140612_0.pdf&rct=j&frm=1&q=&esrc=s&sa=U&ei=YnEAVYmZFYbMPY7YgPgJ&ved=0CBoQFjAB&usg=AFQjCNFlrLBAPUcCjH9sVIxgIzYr4F_nzQ

Tabl 1: Opsiwn 2 - Tabl cryno o gostau
Darperir costau ar gyfer eu hystod uchaf ac isaf.

Ardal	Cam gweithredu	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25	2025/26
NNRP	Arfarniad SEA	-	£115.4k	-	-	-	-	£115.4k	-	-	-
SoNaRR	Staff ychwanegol	£99.0k	£99.0k	£0.0k	£0.0k	£0.0k	£148.4k-£247.4k	£148.4k-£247.4k	£0.0k	£0.0k	£160.8-£321.6k
	Hyfforddiant (staff)	£27.5-£555.0k	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Hyfforddiant (ymgynghorwyr)	£20.0k	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Adnoddau dadansoddi	£48.0-£150.0k	-	-	-	-	£48.0-£50.0k	-	-	-	-
Dataganiadau Ardal	Cynllunio, paratoi a chyflwyno	£290.7-£320.8k	£290.7-£320.8k	£290.7-£320.8k	£290.7-£320.8k	-	-	-	-	-	-
	Llywodraethu cydweithredol	£141.6k	£141.6k	£141.6k	£141.6k	£141.6k	£141.6k	£141.6k	£141.6k	£141.6k	£113.3-£141.6k
	Tystiolaeth newydd	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Dadansoddi tystiolaeth	£52.8-£150.0k	-	-	-	-	£52.8-£50.0k	-	-	-	-

	newydd										
	Arfarniad cynaliadwyedd SEA	£110.0-£165.0k	-	-	-	-	£110.0-£165.0k	-	-	-	-
CYFANSWM		£789.5-£1,601.3k	£646.7-£676.7k	£432.3-£462.4	£432.3-£462.4	£141.6k	£500.8-£654.0k	£405.4-£504.4k	£141.6k	£141.6k	£141.6k

Opsiwn 3: Cyflawni datganiadau ardal llawn ar draws nifer bach o ardaloedd

148. Mae'r opsiwn hwn yn gysylltiedig â chyflawni datganiadau ardal sy'n cynnwys y cyfleoedd i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn yr NNRP a nodi'r cyfleoedd a geir ar y lefel leol mewn nifer bach o ardaloedd.

149. Nid yw'r opsiwn hwn yn hyfyw yn ymarferol, ac fe'i cyflwynir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn at ddibenion cymharu yn unig.

Paratoi a chynhyrchu Adroddiad ar sefyllfa adnoddau naturiol (SoNaRR)

150. Ni ragwelir y bydd y gwahaniaeth rhwng cyflymder gweithredu a maint y cydweithredu o dan y fframwaith rheoli adnoddau naturiol yn cael effaith ar gostau SoNaRR. Y rheswm am hyn yw y bydd angen yr adroddiad cyntaf o fewn pedwar mis i'r Ddeddf yn dod i rym, a bydd angen llunio adroddiad yn unol ag amserlen y Bil yn y blynyddoedd canlynol. O ganlyniad, nid oes gan CNC unrhyw ddisgresiwn ynglŷn â phryd y mae'n rhaid llunio SoNaRR.

151. Yn yr un modd, ni fydd maint y cydweithredu a ddewisir i roi'r fframwaith rheoli adnoddau naturiol ar waith yn effeithio ar gostau llunio SoNaRR, sydd (yn dilyn yr adroddiad cyntaf) yn debygol o ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd i lunio datganiadau ardal (lefel leol). Mae'r gwaelodlin yn cynnwys hefyd y gofynion cydweithredu a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

152. Fodd bynnag, yn wahanol i Opsiwn 2 (yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio) sy'n ystyried CNC yn canolbwyntio ar gyflawni yn erbyn y blaenoriaethau mewn rhwng 11-14 o ddatganiadau ardal, mae Opsiwn 3 yn ystyried nodi'r holl gyfleoedd mewn 3 datganiad ardal. Mae tystiolaeth sydd wedi'i chasglu wrth baratoi'r Asesiad hwn yn awgrymu na fydd unrhyw gostau ychwanegol o safbwynt hyfforddiant staff neu staff ychwanegol o gymharu â'r hyn sydd ei angen o dan Opsiwn 2 (yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio).

153. Yn gyffredinol, ni ragwelir y bydd yr effaith ar y costau o baratoi a llunio SoNaRR yn sylweddol oherwydd newid yn nifer yr ardaloedd; felly, bydd unrhyw ostyngiad yn y costau o dan yr opsiwn hwn yn arwain at newidiadau bach iawn o gymharu ag Opsiwn 2 (yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio). Gan mai dyma'r opsiwn isaf o ran costau; defnyddiwyd y rhagamcanion costau rhwym is ar gyfer hyfforddiant ac offer dadansoddi i lywio'r cyfrifiad cyffredinol ar gyfer yr opsiwn hwn.

Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol (NNRP)

154. Ni ragwelir y bydd paratoi a llunio NNRP yn amrywio llawer rhwng yr opsiynau a gyflwynir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

155. Bydd y prosesau sydd eu hangen i lunio'r NNRP a'r SEA yn ategu ei gilydd lle bo hynny'n ymarferol bosibl heb ddyblygu'r gwaith. Er y gall casgliadau'r SEA amrywio yn ôl y sensitifrwydd a nodwyd yn yr adran Dadansoddiad o

Ragdybiaethau, Risgiau a Sensitifrwydd, ni fydd costau llunio'r NNRP neu'r SEA ar lefel genedlaethol yn amrywio. O ganlyniad, ni ragwelir y byddai'r gost o dan y pennawd hwn yn wahanol iawn i'r costau o dan Opsiwn 2 (yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio).

Datganiadau ardal

156. Mae'r opsiwn hwn yn gysylltiedig â chyflawni'r blaenoriaethau a'r cyfleoedd lleol a nodir yn yr NNRP mewn nifer bach o ardaloedd. Dyma'r rhagdybiaethau:
    - **Nifer yr ardaloedd** - gall y blaenoriaethau a'r cyfleoedd allweddol yn yr NNRP gael eu cyflawni gan 3 datganiad ardal. Rhagdybir y bydd yr ardaloedd hyn o'r un maint â chynllun dalgylch rheoli basn afon.
    - **Cyflymder gweithredu** - ar sail llai o ddatganiadau ardal, gall gymryd llai o amser i ymgysylltu â rhanddeiliaid lluosog. Mae perygl y gellir colli momentwm mewn ardaloedd eraill nad ydynt yn rhan o'r datganiadau.
    - **Maint y cydweithredu** - mae'r datganiadau ardal yn cael eu llunio â llai o gydweithredu â rhanddeiliaid gan fod llai o ardaloedd.

157. Ar gyfer Opsiwn 3, amcangyfrifir y bydd costau llywodraethu cydweithredol a chostau'r gofyniad monitro a chasglu tystiolaeth integredig/ar sail ardal newydd yn cael eu bodloni o dan y gwaelodlin.

158. Fodd bynnag, mae yna gostau sy'n gysylltiedig â pharatoi a chyflwyno'r cynlluniau. Fel sy'n wir am opsiwn 2 (yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio), cyflogir naw aelod o staff cyfwerth ag amser llawn i roi'r agenda ar gyfer trawsnewid ar waith. Bydd hyn yn parhau dros gyfnod hirach, rhagdybir tan 2019-20 o leiaf. O ganlyniad, mae hyn yn arwain at gost gwerth cyfredol o **£1,022,800** dros 10 mlynedd, yr un fath â'r gost o dan Opsiwn 2 (yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio).

159. Yn ogystal, gan ddefnyddio'r model a ddefnyddiwyd yn y Rhaglen Pontio, mae CNC yn disgwyl y bydd 10-15 o aelodau staff Graddfa 6/7 ychwanegol yn gweithredu fel perchnogion neu hyrwyddwyr y prosiect Rheoli Adnoddau Naturiol, gan dreulio cyfran fwy o'u hamser yn cyflwyno elfennau o'r dull gweithredu newydd dros y 3 - 5 mlynedd nesaf. Felly, at ddibenion yr asesiad hwn, rhagdybir y bydd 10-15 o aelodau staff Graddfa 6/7 yn treulio rhwng 5% a 15% o'u hamser yn gwneud y gwaith hwn. Bydd 5% o hynny'n ychwanegol. Mae hyn yn arwain at gost ychwanegol o **£140,200 i £260,400** dros 10 mlynedd, yr un fath ag Opsiwn 2 (yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio).

160. Yn gyffredinol, y costau ymylol ar gyfer cynllunio, paratoi a chyflwyno yw tua **£1,162,900 i £1,283,200** ar sail gwerth presennol dros 10 mlynedd.

161. Mae'r costau i CNC o dan Opsiwn 3 yn is o gymharu ag Opsiwn 2 (yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio) oherwydd amcangyfrif cost is ar gyfer 'dadansoddiad o dystiolaeth ecolegol a gwyddor gymdeithasol integredig. Disgwylir iddi fod yn is nag Opsiwn 2 (yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio). Felly, y costau ymylol ar gyfer dadansoddiad o dystiolaeth ecolegol a gwyddor

gymdeithasol integredig newydd yw **£95,000 i £225,000** ar sail gwerth presennol dros 10 mlynedd.

162. Yn ogystal, mae Opsiwn 3 yn gysylltiedig i ddechrau â llai o ddatganiadau ardal. Amcangyfrifir y bydd llunio SEA ychwanegol yn costio rhwng £10,000 a £15,000; mae'r gost hon yn cael ei hysgwyddo bob 5 mlynedd pan gaiff datganiad ardal ei lunio. Os ydym yn rhagdybio y bydd 3 datganiad ardal, bydd y gost rhwng £30,000 a £45,000. Ysgwyddir y gost hon yn 2016-17 am y tro cyntaf. Felly, y costau ymylol i CNC ar gyfer SEA yw £55,300 i £82,900 ar sail gwerth presennol dros 10 mlynedd.

Cyrff Cyhoeddus Eraill

163. Ni ragwelir y bydd unrhyw gostau ychwanegol i gyrff cyhoeddus eraill o dan yr opsiwn hwn, fel y nodir yn Opsiwn 2 (yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio).

Cytundebau Rheoli Tir

164. Fel ar gyfer Opsiwn 2 (yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio), ni ddisgwylir y bydd unrhyw effeithiau ychwanegol arwyddocaol yn gysylltiedig â'r pwerau newydd i wneud cytundebau rheoli tir.

Cynlluniau Arbrofol

165. Fel ar gyfer Opsiwn 2 (yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio), ni ddisgwylir y bydd unrhyw effeithiau ychwanegol arwyddocaol yn gysylltiedig â'r pwerau newydd i dreialu cynlluniau arbrofol.

Tabl 2: Opsiwn 3 - Tabl Cryno o Gostau

Costau Heb Ostyngiadau

Ardal	Cam Gweithredu	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25	2025/26
NNRP	Arfarniad SEA	-	£115.4k	-	-	-	-	£115.4k	-	-	-
SoNaRR	Staff Ychwanegol	£98.9k	£98.9k	£0.0k	£0.0k	£0.0k	£148.4k	£148.4k	£0.0k	£0.0k	£0.0k
	Hyfforddiant (staff)	£27.5	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Hyfforddiant (ymgynghorwyr)	£20.0k	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Adnoddau dadansoddi	£48.0k	-	-	-	£48.0k	-	-	-	-	-
Datganiadau Ardal	Cynllunio, paratoi a chyflwyno	£290.7-£320.8k	£290.7-£320.8k	£290.7-£320.8k	£290.7-£320.8k	-	-	-	-	-	-
	Llywodraethu Cydweithredol	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Tystiolaeth newydd	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Dadansoddi tystiolaeth	£47.5-£180.0k	-	-	-	-	£47.5-£45.0k	-	-	-	-

	newydd										
	Arfarniad cynaliadwyedd	£30.0-£45.0k	-	-	-	-	£30.0-£45.0k	-	-	-	-
CYFANSWM		£562.7-£740.2k	£505.1-£535.2	£290.7-£320.8k	£290.7-£320.8k	£0.0k	£274.0-£286.4k	£263.9k	£0.0k	£0.0k	£0.0k

Opsiwn 4: Llwyr gyflawni datganiadau ardal manwl ar draws Cymru

166. Mae'r opsiwn hwn yn gysylltiedig â chyflawni'r datganiadau ardal ledled Cymru sy'n nodi hefyd cyfleoedd lleol a'r cyfleoedd i gyflawni yn erbyn blaenoriaethau yn yr NNRP.

Paratoi a chynhyrchu adroddiad ar sefyllfa adnoddau naturiol (SoNaRR)

167. At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae'r opsiwn yn ystyried yr effeithiau ar fwy na 14 ardal.

168. Wrth i nifer yr ardaloedd sy'n cael eu llwyr gyflawni gynyddu, mae'r amrywiad yng nghostau'r SoNaRR ar lefel genedlaethol yn annhebygol o fod yn arwyddocaol, felly ni ragwelir y bydd baich cynyddol o safbwynt hyfforddiant staff neu staff ychwanegol o gymharu â'r gofynion o dan Opsiwn 2 (yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio). Nid yw'r camau ychwanegol yn ymwneud â chynnydd yn niferoedd staff neu hyfforddiant staff o gymharu â'r hyn a nodir yn Opsiwn 2 (yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio).

169. Yn ogystal, ni ragwelir y bydd amrywiad yng nghyflymder gweithredu a maint y cydweithredu o dan y fframwaith rheoli adnoddau naturiol yn cael effaith ar gostau SoNaRR gan y bydd ei angen o fewn pedwar mis i'r Ddeddf ddod i rym.

170. Yn yr un modd, ni fydd maint y cydweithredu a ddewisir i roi'r fframwaith rheoli adnoddau naturiol ar waith yn effeithio ar y costau o lunio SoNaRR, sydd (ar ôl y cylch gweithredu cyntaf) yn debygol o elwa ar y dystiolaeth yn y datganiadau ardal (lefel leol) i lunio asesiad o sefyllfa adnoddau naturiol ar lefel genedlaethol. Rhagdybir y bydd unrhyw amser ychwanegol a dreulir ar ymgysylltu cydweithredol ar gyfer y fframwaith yn rhan o ddatganiadau ardal, nid SoNaRR.

171. Yn gyffredinol felly, ni ragwelir y bydd unrhyw gynnydd ychwanegol ar gyfer SoNaRR yn y costau o dan Opsiwn 4 o gymharu â'r costau o dan Opsiwn 2. At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae'r costau wedi'u pennu ar yr un lefel â'r costau yn Opsiwn 2 (yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio).

Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol

172. Ni ragwelir y bydd y gwaith o baratoi a llunio NNRP yn amrywio'n sylweddol rhwng yr opsiynau a gyflwynwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

173. Bydd y prosesau sydd eu hangen i lunio'r NNRP a'r SEA yn ategu ei gilydd lle bo hynny'n ymarferol bosibl heb ddyblygu'r gwaith. Er y gall casgliadau'r SEA amrywio yn ôl y sensitifrwydd a nodir yn yr adran Dadansoddiad o Ragdybiaethau, Risgiau a Sensitifrwydd, ni fydd costau llunio'r NNRP na'r SEA ar lefel genedlaethol yn amrywio. O ganlyniad, ni ragwelir y byddai'r gost o dan y pennawd hwn yn wahanol iawn i'r costau o dan Opsiwn 2 (yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio).

Datganiadau Ardal

174. Mae'r Opsiwn hwn yn seiliedig ar lwyr gyflawni'r datganiadau ardal, gan ofyn am fwy o fanylion na'r hyn y gofynnir amdano yn Opsiwn 2 ac Opsiwn 3 i nodi'r holl gyfleoedd sy'n berthnasol i flaenoriaethau'r NNRP ymhob ardal, ynghyd â nodi'r holl gyfleoedd ar lefel leol. Dyma'r rhagdybiaethau:
    - **Nifer yr ardaloedd** - Bydd nifer fawr o ddatganiadau ardal gyda mwy o fanylion ynddyn nhw (dros 14).
    - **Cyflymder gweithredu** - Fel ar gyfer opsiwn 2, rhagwelir y gall fod yn gynt llunio datganiad ar gyfer blaenoriaethau penodedig nag ar gyfer cyfleoedd niferus lleol, fel sy'n wir am opsiwn 3. Fodd bynnag, gall cynnydd yn nifer y datganiadau ardal olygu bod nifer y datganiadau ardal sy'n cael eu llunio mewn unrhyw flwyddyn yn gostwng a gall gymryd mwy o amser i CNC lunio'r holl ddatganiadau yn dilyn adolygu'r NNRP. Rhagwelir y bydd dull gweithredu cyson yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ymdrechion cydweithredol i lunio datganiadau ardal, gan ganolbwyntio ar ddysgu ymarferol dros amser.
    - **Maint y cydweithredu** - Mae'n bosibl y bydd rhagor o gyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid penodol o gofio'r nifer uwch o ddatganiadau ardal manwl. Fodd bynnag, bydd y gwaith cydweithredu yn cael ei gynorthwyo gan adrannau 12 ac 13 o'r Bil sy'n rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus a CNC i gydweithredu wrth baratoi, llunio neu weithredu datganiadau ardal.

175. Byddai cynyddu nifer yr ardaloedd manwl, cyflymder gweithredu a maint y cydweithredu (sensitifrwydd allweddol) yn arwain o bosibl at gynnydd sylweddol posibl yng nghostau'r datganiadau ardal sy'n gysylltiedig â'r camau gofynnol i weithredu 'Dadansoddiad o dystiolaeth ecolegol a gwyddor gymdeithasol integredig', 'llywodraethu cydweithredol ar gyfer datganiadau ardal' a 'thystiolaeth newydd ar sail ardaloedd ar gyfer datganiadau ardal', fel yr eglurir isod.

CNC

a. Cynllunio, paratoi a chyflwyno

176. Fel ar gyfer Opsiwn 2, cyflogir 9 aelod o staff FTE ag amser llawn i roi'r agenda ar gyfer trawsnewid ar waith yn unol â gofynion y Bil. Disgwylir y bydd y staff ychwanegol yn costio £255,700 y flwyddyn i CNC ac fe'u penodir dros gyfnod hirach, tan 2019-20 o leiaf. Yn gyffredinol, mae hyn yn golygu cost gwerth cyfredol 10 mlynedd o **£1,022,800**.

177. Yn ogystal, gan ddefnyddio'r model a ddefnyddiwyd yn y Rhaglen Pontio, mae CNC yn disgwyl y bydd 10 - 15 o aelodau staff Graddfa 6/7 ychwanegol yn gweithredu fel perchnogion neu hyrwyddwyr y prosiect Rheoli Adnoddau Naturiol, gan dreulio cyfran fwy o'u hamser yn cyflwyno elfennau o'r dull gweithredu newydd dros y 3 - 5 mlynedd nesaf. Felly, at ddibenion yr asesiad hwn, rhagdybir y bydd 10-15 o aelodau staff Graddfa 6/7 yn treulio rhwng 5% a 15% o'u hamser yn gwneud y gwaith hwn. O

hwn, bydd 5% yn amser ychwanegol. Bydd nyn yn arwain at gostau ymylol o **£140,200 i £260,400** dros 10 mlynedd.

178. Mae hyn yn golygu cost ymylol gwerth cyfredol o **£1,162,900 i £1,283,000** dros 10 mlynedd.

b. Llywodraethu cydweithredol

179. Ar sail yr ymgynghoriad â rhanddeiliaid ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae angen tua 3 aelod o staff FTE i gydweithredu ar brosiectau LIFE. Mae hyn gyfwerth â dwywaith yn fwy o staff ar gyfer yr opsiwn hwn o gymharu ag Opsiwn 2 (yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio), h.y. 6 aelod o staff (pedwar ohonynt ar Raddfa 4 a 2 ar Raddfa 5, yn treulio o leiaf 80% o'u hamser yn gwneud y gwaith hwn). Mae'n debygol y bydd angen y math hwn o adnodd ar sail dreigl ar draws ardaloedd, gan ragdybio bod yna >14 o ardaloedd sy'n gysylltiedig â ffiniau ecolegol. Bydd angen rhagor o adnoddau staff o dan yr opsiwn hwn gan fod yr holl ddatganiadau ardal gymaint yn fanylach. Bydd hyn yn gofyn am ymdrechion cydweithredu ar raddfa fwy (bydd angen amser staff ychwanegol i ddod o hyd i bartneriaid, rhoi prosesau gweinyddol a chydweithredol ar waith, e.e. swyddogion ardaloedd penodedig, sefydlu prosesau/llinellau cyfathrebu newydd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ar faterion adnoddau naturiol lleol).

180. Bydd gweithredu yn gyflymach hefyd yn golygu bod angen i CNC fuddsoddi mwy er mwyn datblygu/gwella ymdrechion cydweithredol newydd/cyfredol mewn ffordd fwy rhagweithiol. Ar sail costau staff CNC (a chostau ychwanegol), byddai hyn yn arwain at gost ychwanegol o £226,500 i £283,200 y flwyddyn. Caiff y gost hon ei hysgwyddo o 2016-17 ymlaen.

181. Yn gyffredinol, amcangyfrifir y bydd llywodraethu cydweithredol yn costio **£2,831,600** dros 10 mlynedd.

c. Gofyniad monitro a chasglu tystiolaeth integredig/ar sail ardal newydd

182. Bydd mwy o ddatganiadau ardal o dan yr opsiwn hwn. O ganlyniad, bydd y costau o ailgynllunio dangosyddion monitro presennol neu o ymgymryd â dadansoddiad eilaidd ar sail ardal (e.e. gan ddefnyddio GIS) yn uwch. Mae'n debygol y bydd angen aelod o staff FTE ychwanegol ar raddfa 5 neu 6 yn neilltuo rhwng 50% a 100% o'i amser ar y gwaith hwn. Bydd hyn gyfwerth â chostau blynyddol o tua **£27,500 i £70,100**. Hefyd, bydd mwy o ddatganiadau ardal manylach yn golygu bod angen mwy o setiau data monitro newydd mewn rhai ardaloedd/pob ardal er mwyn sicrhau bod data ar adnoddau naturiol yn gynhwysfawr a bod setiau data yn gyson. Oherwydd hyn, amcangyfrifir y bydd costau ymylol y gofyniad monitro a chasglu tystiolaeth rhwng **£274,900 a £700,800** dros ddeng mlynedd ar sail gwerth presennol.

d. Dadansoddiad tystiolaeth gwyddor gymdeithasol ac ecolegol newydd integredig

183. Disgwylir i opsiwn 4 arwain at gynnydd mewn costau hefyd wrth i'r datganiad ardal gael ei roi ar waith yn gyflym mewn llawer o ardaloedd sy'n gysylltiedig ag ardaloedd ecolegol (a fydd yn cael eu diffinio). Y rheswm am hyn yw'r ffaith y bydd y cynnydd mewn datganiadau ardal manylach yn golygu bod angen rhagor o staff CNC i ddehongli a dadansoddi data yn ymwneud â heriau a chyfleoedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar lefel leol. Fel gyda'r opsiynau blaenorol, byddai hyn i raddau yn angenrheidiol o dan senario'r gwaelodlin. Oherwydd hyn, gallai olygu cynnydd yng nghostau ymylol dadansoddi tystiolaeth ecolegol a gwyddor gymdeithasol integredig o hyd at **£158,400 a £375,000** dros 10 mlynedd.

e. Arfarniad cynaliadwyedd SEA o ddatganiadau ardal

184. Mae'r sgiliau i gwblhau SEA eisoes yn bodoli yn CNC, felly'r cwbl sydd ei angen ar gyfer Asesiad ychwanegol yw rhagor o amser staff i wneud y gwaith. Yn dilyn y gweithdai ymgynghori â rhanddeiliaid, nodwyd bod y gost o lunio SEA ychwanegol yn gost untro rhwng tua £10,000 a £15,000 bob tro y mae datganiad ardal yn cael ei lunio. Os ydym yn rhagdybio y bydd 20 o ddatganiadau ardal manwl, bydd cyfanswm y gost rhwng £200,000 a £300,000. Os caiff pob datganiad ei lunio bob 5 mlynedd, bydd pob un yn cael ei lunio ddwywaith dros 10 mlynedd.

185. Felly, cost ymylol SEA i CNC ar hyn o bryd yw rhwng **£400,000 a £600,000** dros 10 mlynedd.

Cyrff Cyhoeddus Eraill

186. Ni ragwelir y bydd unrhyw gostau ychwanegol i gyrff cyhoeddus eraill o dan yr opsiwn hwn, fel y nodir yn Opsiwn 2 (yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio).

Cytundebau Rheoli Tir

187. Fel ar gyfer Opsiwn 2, ni ddisgwylir y bydd unrhyw effeithiau ychwanegol arwyddocaol yn gysylltiedig â'r pwerau newydd i wneud cytundebau rheoli tir.

Cynlluniau Arbrofol

188. Fel ar gyfer Opsiwn 2, ni ddisgwylir y bydd unrhyw effeithiau ychwanegol arwyddocaol yn gysylltiedig â'r pwerau newydd i dreialu cynlluniau arbrofol.

Table 3: Opsiwn 4 – Tabl Cryno

Ardal	Cam Gweithredu	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25	2025/26
NNRP	Arfarniad SEA	-	£115.4k	-	-	-	-	£115.4k	-	-	-
SoNaRR	Staff Ychwanegol	£99.0	£99.0	£0.0	£0.0k	£0.0k	£148.4-£247.4k	£148.4-£247.4k	£0.0k	£0.0k	£0.0k
	Hyfforddiant (staff)	£27.5-£555.0k	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Hyfforddiant (ymgynghorwyr)	£20.0k	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Adnoddau dadansoddi	£48.0-£150.0k	-	-	-	-	£48.0-£50.0k	-	-	-	-
Datganiadau Ardal	Cynllunio, paratoi a chyflwyno	£290.7-£320.8k	£290.7-£320.8k	£290.7-£320.8k	£290.7-£320.8k	-	-	-	-	-	-
	Llywodraethu Cydweithredol	£283.2k	£283.2k	£283.2k	£283.2k	£283.2k	£283.2k	£283.2k	£283.2k	£283.2k	£283.2k
	Tystiolaeth newydd	£27.5-£70.1k	£27.5-£70.1k	£27.5-£70.1k	£27.5-£70.1k	£27.5-£70.1k	£27.5-£70.1k	£27.5-£70.1k	£27.5-£70.1k	£27.5-£70.1k	£27.5-£70.1k
	Dadansod	£79.2-	-	-	-	-	£79.2-	-	-	-	-

	di tystiolaeth newydd	£300.0k					£75.0k				
	Arfarniad cynaliadwyedd	£200.0-£300.0k	-	-	-	-	£200.0-£300.0k	-	-	-	-
CYFANSWM		£1,075.0 - £2,098.0k	£815.7-£888.4k	£601.4-£674.0k	£601.4-£674.0k	£310.6-£353.2	£786.3-£1,025.6k	£574.5-£716.0k	£310.6-£353.2k	£310.6-£353.2k	£310.6-£353.2k

Rhan 1: Manteision

189. Y brif fantais bosibl a aseswyd fel mantais ag effaith sylweddol (h.y. un statws coch) o dan y rhan fwyaf o'r cynigion yn Rhan 1 yw cyfraniad tuag at wella cryfder ecosystemau Cymru. Mae'r ffordd y rhagwelir y cynigion yn gwella cryfder ecosystemau Cymru wedi ei nodi isod.

Manteision posibl

190. Bydd y Bil yn helpu i sicrhau'r canlynol:
    - Ecosystemau gweithredol sy'n darparu gwasanaethau lluosog yn yr hirdymor.
    - Symleiddio prosesau a sicrhau nad yw gwaith yn cael ei ddyblygu.
    - Blaenoriaethau sy'n canolbwyntio ar anghenion a chyfleoedd ar gyfer ardaloedd gwahanol, gan sicrhau bod angen a chryfder ecosystemau yn ganolog i'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud.
    - Proses glir i bennu cyfeiriad ar lefel genedlaethol a lleol.
    - Tystiolaeth gliriach yn ymwneud â chapasiti, cyfleoedd a chryfder ein hecosystemau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

191. Nododd y Papur Gwyrdd [51] y manteision canlynol:
    - Mae manteision posibl i fusnesau a rheolwyr tir yn cynnwys:
    - Cynllunio'r prosesau rheoleiddiol yn fwy effeithiol.
    - Gwybodaeth gliriach am ganlyniadau, cyfleoedd a rhwystrau amgylcheddol i gynorthwyo penderfyniadau buddsoddi.
    - Fframwaith mwy rhagweladwy a chyson ar gyfer gwneud penderfyniadau amgylcheddol drwy leihau ansicrwydd ym maes cynllunio a systemau rheoleiddio eraill.
    - Cymorth ar gyfer marchnadoedd newydd ar gyfer gwasanaethau amgylcheddol fel rheoli carbon a dŵr.
    - Sicrhau bod costau cydymffurfio yn briodol ar sail graddfa'r risg amgylcheddol.

192. Ar gyfer cymunedau, mae'r manteision posibl yn cynnwys:
    - Buddsoddiad cadarnhaol mewn gwelliannau amgylcheddol lleol a dargedir.
    - Canolbwyntio mwy ar anghenion, cyfleoedd a phryderon lleol.
    - Rhagor o gyfle ar gyfer mewnbwn lleol i'r broses o wneud penderfyniadau.

193. Ar gyfer yr amgylchedd, mae'r manteision posibl yn cynnwys:
    - Rhagor o fuddsoddiad a dargedir mewn gwelliannau amgylcheddol.
    - Camau gweithredu cadarnhaol i fynd i'r afael â gwir ysgogwyr newid amgylcheddol.

---

[51] *http://www.webarchive.org.uk/wayback/archive/20110228135119/http:/wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/eshlivingwalescons/?lang=en&status=closed*

- Cryfhau cryfder wrth wynebu pwysau'r newid yn yr hinsawdd a lleihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.
- Dull gweithredu strategol wrth hyrwyddo'r gwaith o adfer ac adennill rhywogaethau a chynefinoedd.
- Penderfyniadau sy'n adlewyrchu manteision ein hamgylchedd yn well.

Mantais gyffredinol o wella cryfder gwasanaethau ecosystem Cymru

194. Gan nad oes modd nodi union gyfran y manteision â gwerth ariannol a fydd yn cael eu priodoli i'r Bil ar gyfer pob cynnig yn Rhan 1 o'r Bil, mae manteision y fframwaith cyfan wedi'u gwerthuso.

195. Mae dadansoddiad gan Bateman et al. (2013)[52] yn awgrymu'r canlynol: *'a targeted approach to land-use planning that recognises both market goods and non-market ecosystem services would increase the net value of land to society by 20% on average, with considerably higher increases arising in certain locations'* (Bateman et al, 2013)[53]. Er y byddai'n optimistaidd priodoli cynnydd o'r fath i ddarpariaethau'r Bil yn unig, y dull gweithredu wedi'i dargedu hwn yw'r hyn y mae datganiadau ardal yn awyddus i'w hwyluso, a chydnabod nwyddau marchnad a nwyddau nad ydynt ar gyfer y farchnad yw syniad cynllunio economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol integredig. Mae'r astudiaeth felly'n rhoi arwydd o raddfa'r manteision posibl y gellid eu sicrhau gan y darpariaethau hyn.

196. Er nad oes unrhyw fodel cynhwysfawr o wasanaethau ecosystem yng Nghymru sy'n gallu mesur yn gywir y newidiadau posibl sy'n deillio o reoli adnoddau naturiol yn well, mae yna astudiaethau sy'n gallu rhoi amcan o drefn maint y gwerthoedd perthnasol.

197. Yn ôl amcangyfrif astudiaeth yn 2001[54], mae'r economi amgylcheddol yn cyfrannu £8.8 biliwn mewn nwyddau a gwasanaethau at economi Cymru bob blwyddyn (£12.04 biliwn ar sail prisiau 2014), 9% o gynnyrch domestig gros Cymru ac un o bob chwe swydd yng Nghymru, yn bennaf yn y sectorau hamdden a thwristiaeth, amaeth a choedwigaeth, echdynnu dŵr, cadwraeth a rheoli gwastraff. Nodwyd hefyd bod yr amgylchedd yn gymharol bwysicach i economi Cymru o gymharu â gwledydd eraill y DU.

198. At ddibenion enghreifftiol, gellir dangos os ydym yn rhagdybio mai £12 biliwn y flwyddyn yw gwerth manteision economaidd yr amgylchedd i Gymru, byddai gwerth blynyddol yr amgylchedd i economi Cymru ond yn gorfod cynyddu rhwng 0.003% a 0.005% dros 10 mlynedd i fanteision ecosystem gryfach yng Nghymru wrthbwyso costau cynyddol Opsiwn 2. Mae'n debygol iawn bod modd cyflawni'r cynnydd bach hwn, felly rhagwelir

---

[52] *Bringing Ecosystem Services into Economic Decision-Making: Land Use in the United Kingdom http://www.google.co.uk/url?url=http://www.nottingham.ac.uk/cem/pdf/Bateman-2013*

[54] *'Mae Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU yn diffinio economi amgylcheddol fel a ganlyn: (i) primary industries directly dependent on environmental resources, such as agriculture, forestry, fishing and mineral extraction; (ii) industries that are dependent upon a high quality environment, such as tourism, recreation and leisure; (iii) conservation organisations, government agencies and local authorities, which help to create quality of life and attract investment; (iv) businesses focusing on environmental technologies (waste management, water purification and sustainable energy. UK*

y bydd manteision y Bil yn fwy na'r costau, yn enwedig ar ôl ystyried manteision (nad oes iddynt werth ariannol) eraill.

199. Fel y trafodir isod, bydd opsiynau gwahanol ar gyfer gweithredu'r Bil yn gysylltiedig â graddfeydd gwahanol o wireddu'r manteision hyn. Mae'r arfarniad hwn yn cyflwyno'r graddfeydd hyn mewn ffordd ansoddol, ond nid yw ymdrechion pellach i gyfrifo newidiadau mewn gwerth yn fwy cywir yn cael eu hystyried yn gadarn. O ganlyniad, ni wneir unrhyw ymdrech i amcangyfrif cyfran y ffigurau hyn a fydd yn cael eu hwyluso gan y cynigion yn Rhan 1 o'r Bil.

Opsiwn 2: Cyflawni datganiadau ardal mewn ffordd a fydd yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau a nodir yn yr NNRP (*sy'n cael ei ffafrio*)

Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR)

200. Bydd y SoNaRR yn sylfaen dystiolaeth ar lefel genedlaethol a fydd yn helpu i lywio NNRPs y dyfodol a'u cyflawni ar sail ardaloedd. Drwy wneud hyn, bydd yn helpu i sicrhau iechyd a swyddogaeth adnoddau naturiol a chryfder ecosystemau, gan sicrhau lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol. Rhagwelir y bydd y cryfder gwahanol sydd i'w briodoli i'r SoNaRR yn rhan fach yn unig o'r fantais o wella cryfder ecosystemau Cymru, ac y bydd cynyddu manteision yn ddibwys gan fod yr NNRPs yn cael ei lywio gan SoNaRR sy'n cael ei lywio yn ei dro gan ddatganiadau ardal sy'n fwy cyson â ffiniau ecolegol/materion adnoddau naturiol lleol. Yn debyg i'r uchod, mae gwella cryfder ecosystemau Cymru yn cael ei archwilio ar gyfer y fframwaith cynigion adnoddau naturiol yn ei gyfanrwydd, ac mae i'w gweld o dan y pennawd 'Mantais gyffredinol gwella cryfder gwasanaethau ecosystem Cymru'.

201. Rhagwelir hefyd y gall y SoNaRR arwain at fanteision ychwanegol nad oes ganddynt werth ariannol ar gyfer cyrff cyhoeddus eraill gan y bydd yn eu cynorthwyo i gael gafael ar ddata economaidd-gymdeithasol i lywio eu rhwymedigaethau o safbwynt rhannu gwybodaeth.

Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol (NNRP)

202. Bydd yr NNRP yn darparu polisi ar lefel genedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Bydd yn sicrhau bod manteision cymdeithasol ac economaidd sy'n deillio o reoli adnoddau naturiol yn cael eu nodi yn briodol a'u hystyried wrth wneud penderfyniadau ochr yn ochr â manteision amgylcheddol mewn ffordd a fydd yn helpu i wella cryfder ecosystemau Cymru yn y pen draw. Rhagwelir y bydd yr amrywiad mewn cryfder sydd i'w briodoli i'r NNRP yn rhan fechan o'r fantais o wella cryfder ecosystemau Cymru. Mae mantais gwella cryfder ecosystemau Cymru yn cael ei harchwilio ar gyfer y fframwaith cynigion adnoddau naturiol yn ei gyfanrwydd, ac mae i'w gweld o dan y pennawd 'Mantais gyffredinol gwella cryfder gwasanaethau ecosystem Cymru'.

203. Gall Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol hefyd arwain at fanteision nad oes ganddynt werth ariannol yn ymwneud â gwella effeithlonrwydd cyrff cyhoeddus eraill a chydgysylltu rhaglenni cyllido ar gyfer cyllidwyr.

Datganiadau ardal

Cryfhau Ecosystemau Cymru

204. Disgwylir i'r Bil hwyluso prosesau integreiddio gwell o safbwynt rheoli adnoddau naturiol o gymharu â'r gwaelodlin, gan wella canlyniadau (e.e. eiddo sydd mewn perygl oherwydd llifogydd). Fel y nodwyd gan Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU (2011, t.53)[55], bydd cynllunio strategol a dargedir sy'n seiliedig ar wybodaeth integredig yn golygu bod modd nodi a lleihau peryglon hirdymor i adnoddau naturiol, fel y rhai a nodwyd yn Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU (2011) a Sefyllfa Byd Natur (RSPB, 2013), drwy wneud penderfyniadau gwell.

205. Mae enghraifft o gynllunio strategol wedi'i chynnwys yn adolygiad Lawton (2010) sy'n dadlau o blaid creu rhwydweithiau ecolegol drwy dargedu ac adfer ecosystemau er mwyn cynyddu cryfder a chynhyrchiant yr amgylchedd naturiol. Mae enghreifftiau o ddull gweithredu integredig ar gael mewn gwledydd eraill (Seland Newydd, Awstralia a Chanada) ac mae llawer o lenyddiaeth ar gael ynglŷn â defnyddio'r dull rheoli ar sail yr ecosystem ym meysydd polisi a darpariaeth. Mae rhaglen Cymru Fyw yn adolygu'r llenyddiaeth hon. Rhagwelir y bydd gwella cryfder diolch i ddull gweithredu ar sail ardal yn rhan yn unig o'r fantais hon yn ei chyfanrwydd.

206. Gall datganiadau ardal hefyd arwain at fanteision eraill nad oes ganddynt werth ariannol, fel gwella effeithlonrwydd cyrff cyhoeddus eraill, CNC, y sector preifat/y trydydd sector, cydgysylltu rhaglenni cyllido yn well, a llywio cynlluniau cyflawni eraill.

207. Mae manteision hirdymor (50 – 100 o flynyddoedd) ar gyfer cryfder ecosystemau mewn perygl oherwydd gweithredu cyflymach wrth i'r buddsoddiad mewn hyfforddiant/niferoedd staff, prosesau cydweithredol ac ymdrechion monitro a chasglu data fynd rhagddo yn gyflym heb ddysgu o feysydd eraill h.y. wrth ddewis graddfeydd priodol, gan arwain at y posibilrwydd y bydd gwaith rheoli adnoddau naturiol cynaliadwy yn mynd rhagddo mewn ffordd is-optimaidd. Ceir mwy o fanteision tymor byr oherwydd gweithredu cyflymach gan fod y strwythur staffio ar waith yn gynharach.

208. Mae gweithredu arafach yn golygu nad yw manteision tymor byr yn cael eu gwireddu a bod manteision mwy hirdymor mewn perygl gan na fydd datganiadau ardal yn magu momentwm o bosibl.

---

[55] *http://www.google.co.uk/url?url=http://archive.defra.gov.uk/environment/natural/documents/UKNEA_SynthesisReport.pdf&rct=j&frm=1&q=&esrc=s&sa=U&ei=EUMAVcqwN47bParygPgE&ved=0CCkQFjAH&usg=AFQjCNEW_lsINurmPeEsU2g4IUtXt3f4OA*

Cytundebau Rheoli Tir

209. Bydd cytundebau rheoli tir yn cyfrannu'n uniongyrchol at wella cryfder ecosystemau yng Nghymru fel rhan o gynigion Rhan 1 y Bil. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys cyfleoedd i ddefnyddio cytundebau rheoli tir i hybu atebion seiliedig ar natur a'u defnyddio fel dull amgen o reoli perygl llifogydd, gan gynnwys mynd i'r afael â pheryglon cryfder penodol a nodir yn Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd y DU 2012.

210. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun cryfder ecosystemau, sy'n cydnabod bod angen cael trefniadau hirdymor fel rheol er mwyn sicrhau a chynnal unrhyw fanteision sylweddol i'r amgylchedd.

211. Mae'r cynnig yn datgan os yw tir yn cael ei werthu, y bydd perchnogion y dyfodol yn rhwym i'r un ymrwymiadau a chyfyngiadau mewn perthynas â sut y maent yn defnyddio'r tir. Mantais y dull hwn yw bod gofynion y cytundeb yn parhau i gael eu bodloni.

212. Er enghraifft, os yw CNC yn gwneud cytundeb gyda pherchennog tir i blannu a chadw coed er mwyn helpu i leihau'r perygl o lifogydd yn yr ardal a bod CNC yn cytuno i ad-dalu'r costau am wneud hynny, yna bydd unrhyw berchennog yn y dyfodol yn rhwym i'r un ddyletswydd (a chael eu costau wedi eu had-dalu) i barhau i gadw'r cyfryw goed, a thrwy hynny gyfrannu at reolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol.

213. Disgwylir y bydd y manteision o weithredu'r pwerau mewn perthynas â chytundebau rheoli tir yn rhan o fantais gyffredinol y Bil.

Cynlluniau Arbrofol

214. Un o fanteision allweddol y cynnig hwn yw'r ffaith y bydd yn darparu tystiolaeth i gynorthwyo CNC i reoli adnoddau naturiol mewn ffordd integredig drwy dreialu'r dulliau gweithio newydd gofynnol. Diben treialu dull gweithredu yw darparu sylfaen dystiolaeth gadarn a chyson i'w defnyddio wrth ddatblygu a gweithredu rhaglenni a mentrau CNC yn y dyfodol. Bydd y wybodaeth yn cynorthwyo CNC i nodi cyfleoedd a rhwystrau adnoddau naturiol allweddol er mwyn dylanwadu ar benderfyniadau buddsoddi a chynllunio.

215. Mae cynlluniau arbrofol yn galluogi CNC i gwblhau, cefnogi neu gomisiynu gwaith ymchwil a chynlluniau arbrofol neu arloesol. Maent yn fodd o dreialu dulliau newydd o gyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol mewn ffordd sy'n gallu helpu CNC i gyflawni ei ddiben cyffredinol o reoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy. Bydd y manteision sy'n deillio o'r dull gweithredu hwn yn helpu CNC i hwyluso cyfleoedd ar gyfer dulliau gwaith arloesol; yn cefnogi marchnadoedd newydd ar gyfer gwasanaethau amgylcheddol ac yn creu'r potensial ar gyfer twf y farchnad a swyddi gwyrdd yn y sectorau amgylcheddol. Wrth wneud hynny, mae'r pwerau i dreialu cynlluniau arbrofol yn ceisio gwireddu'r manteision amgylcheddol hirdymor a nodir drwy reoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd gynaliadwy. Bydd y

manteision hyn sy'n deillio o gynlluniau arbrofol yn cyfrannu yn anuniongyrchol at wella cryfder ecosystemau yng Nghymru. Bydd y dystiolaeth a gesglir drwy gynnal y treialon yn helpu i dreialu'r broses o ddatblygu neu ddefnyddio dulliau, cysyniadau neu dechnegau newydd i roi camau gweithredu CNC ar waith. Gall hyn gynnwys dulliau gweinyddol, technegol neu wyddonol newydd o gyflawni'r canlyniad hwn.

Cynlluniau Arbrofol

216. Enghraifft bosibl o hyn yw sefyllfa lle mae CNC yn ceisio treialu dulliau newydd o ddatblygu codau ymarfer statudol sy'n gallu nodi safonau gofynnol ar gyfer gweithgareddau penodol, heb yr angen i roi caniatâd neu drwydded, mewn ffordd sy'n cynnal yr un safon o berfformiad, neu safon uwch. Mae'n bosibl y bydd CNC yn dymuno cynnal arbrawf mewn ardal benodol sy'n rhan o ddatganiad ardal i nodi rôl adnoddau naturiol wrth helpu i leihau llifogydd (er enghraifft, rôl mawndiroedd).

217. Enghraifft arall yw prosiect Pumlumon o dan ofal Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn. Mae'r prosiect hwn yn cwmpasu arwynebedd o 40,000 o hectarau yn y Canolbarth sy'n cynnwys 250 o ffermydd, 15,000 o breswylwyr a phum dalgylch afon sy'n cyflenwi dŵr i bedair miliwn o bobl. Mae'r prosiect yn gweithredu strategaeth tirwedd uchelgeisiol sy'n ceisio meithrin partneriaethau newydd rhwng meysydd cadwraeth, ffermio, coedwigaeth a thwristiaeth er mwyn adfer cynefin naturiol a chefnogi economi leol, gynaliadwy a ffyniannus ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

218. Mae'n ceisio gwneud hyn drwy ganolbwyntio ar fesurau i helpu i ddychwelyd i dirwedd fwy naturiol drwy leihau arddwysedd amaethyddol ac amrywio arferion i gefnogi cymunedau cryfach. Mae hyn yn cynnwys ail-wlychu corsydd i ddal a storio carbon a storio dŵr i leihau perygl llifogydd, hyrwyddo cynlluniau pori lleol i wella bioamrywiaeth, cynorthwyo ffermwyr i amrywio stoc (defaid i wartheg), a chynlluniau amrywiol i wella bioamrywiaeth a gwella mynediad a thwristiaeth er mwyn cynyddu gwariant ymwelwyr ac incwm lleol. Mae ffocws cryf hefyd ar gynnwys cymunedau lleol yn yr ardal a darparu hyfforddiant i wella sgiliau lleol ac amrywio busnesau lleol. Mae Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn yn gweithredu fel brocer fel bod rheolwyr tir yn gallu darparu gwasanaethau ecosystem lluosog a ariennir drwy ffrydiau cyllid preifat a chyhoeddus amrywiol (gan gynnwys y Cynllun Datblygu Gwledig a Glastir). Yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw cyllid preifat yn gysylltiedig â marchnad sydd wedi'i sefydlu.

219. Mae amcangyfrifon rhagarweiniol yn awgrymu y gallai'r prosiect greu bron i £23m dros 10 mlynedd ac mae ganddo gymhareb cost manteision i gefnogi rhagor o fuddsoddiad gan y sector cyhoeddus a phreifat. Mae hyn yn cynnwys manteision i hamdden awyr agored gwerth £7.6 miliwn, gostyngiad carbon gwerth £6.2 miliwn, tirwedd hanesyddol gwerth £2.8

miliwn, storio llifogydd gwerth £2.1 miliwn, ansawdd dŵr gwerth £1.6 miliwn a bioamrywiaeth gwerth £1.4 miliwn[56].

220. Mae manteision eraill (nad oes ganddynt werth ariannol) a all godi o ganlyniad i ddulliau gweithredu mwy arloesol yn cynnwys gwella cost-effeithlonrwydd CNC, sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat, a gwella'r broses o gydgysylltu rhaglenni cyllido a ffrydiau cyllido newydd.

Opsiwn 3: Cyflawni datganiadau ardal llawn ar draws nifer bach o ardaloedd.

Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR)

221. Er bod disgwyl i'r opsiwn hwn arwain at rai o'r manteision a nodwyd o dan Opsiwn 2, disgwylir i'r manteision (allbynnau gwasanaeth ecosystem mwy cynaliadwy/cryfach) fod yn llai gan y byddai'r SoNaRR yn llai cynrychiadol o wahaniaethau gofodol o safbwynt y cyfleoedd a'r risgiau sy'n deillio o adnoddau naturiol yng Nghymru.

Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol (NNRP)

222. O dan yr opsiwn hwn, mae llai o ardaloedd yn llunio datganiadau ardal. Mae hyn yn golygu bod yr NNRP a'r SoNaRR yn cael eu llywio gan nifer llai o ddatganiadau ardal manylach. Disgwylir i hyn arwain at lai o fanteision o bosibl (allbynnau gwasanaeth ecosystem mwy cynaliadwy/cryfach) gan y byddai'r NNRP yn llai ymatebol i wahaniaethau gofodol ar draws Cymru.

Datganiadau ardal

223. Mae opsiwn 3 yn ceisio lleihau costau. Rhagdybir ei fod yn seiliedig ar 3 datganiad ardal yn unig. O ganlyniad, disgwylir manteision llai o lawer o safbwynt gwaith cynllunio adnoddau naturiol cenedlaethol o gymharu ag Opsiwn 2.

224. Yn gyffredinol, gallai'r manteision posibl amrywio yn sylweddol; fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, mae'n anodd amcangyfrif y manteision hyn mewn ffordd gadarn. Er mwyn sicrhau bod manteision amgylcheddol yn rhagori ar gostau â gwerth ariannol o dan Opsiwn 3, byddai angen cynnydd o 0.002% yn unig yng ngwerth bras blynyddol yr economi amgylcheddol yng Nghymru.

Opsiwn 4: Llwyr gyflawni datganiadau ardal manwl ar draws Cymru.

Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR)

56 Natural World (2009) Living Landscapes: The most important hill in Britain… Available at http://www.montwt.co.uk/images/user/Pumlumon%20nat%20world%20article%202010.pdf, Darllenwyd 6/1/14.

225. Bydd cwmpas ehangach o ardaloedd yn llunio datganiadau ardal manwl yn golygu bod yr SoNaRR yn cael ei ddatblygu a'i gydgysylltu gyda datganiadau ardal yn cwmpasu materion holl adnoddau naturiol lleol. Disgwylir y gall hyn gynyddu'r manteision (allbynnau gwasanaeth ecosysytem mwy cynaliadwy/cryfach) o gymharu ag Opsiwn 2 gan y bydd datganiadau ardal yn gallu bod yn fwy ymatebol i wahaniaethau gofodol a lleol o safbwynt y cyfleoedd yn ogystal â'r risgiau sy'n deillio o adnoddau naturiol yng Nghymru.

Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol (NNRP)

226. O dan yr opsiwn hwn mae cwmpas ehangach manylach i'r datganiadau ardal o'r cyfleoedd ym mhob ardal leol. Bydd hyn yn golygu bod yr NNRP a'r SoNaRR yn cael eu datblygu a'u cydgysylltu gyda datganiadau ardal sy'n cyfateb yn well faterion adnoddau naturiol lleol. Disgwylir y gall hyn gynyddu'r manteision (allbynnau gwasanaeth ecosysytem mwy cynaliadwy/cryfach) gan fod yr NNRP yn fwy ymatebol i wahaniaethau gofodol o safbwynt y cyfleoedd a'r risgiau sy'n deillio o adnoddau naturiol yng Nghymru.

Datganiadau ardal

227. Bydd cwmpas ehangach manylach y datganiadau ardal yn golygu bod y datganiadau ardal yn sicrhau bod y datganiadau ardal yn cyfateb yn well i faterion adnoddau naturiol lleol. Disgwylir y gall hyn gynyddu'r manteision (allbynnau gwasanaeth ecosysytem mwy cynaliadwy/cryfach) gan y bydd yn hwyluso camau gweithredu mwy ymatebol i wahaniaethau gofodol o safbwynt y cyfleoedd a'r risgiau sy'n deillio o adnoddau naturiol yng Nghymru.

228. Fel ar gyfer Opsiwn 3, gallai'r manteision posibl amrywio yn sylweddol; fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, mae'n anodd amcangyfrif y manteision hyn mewn ffordd gadarn. Er mwyn sicrhau bod manteision amgylcheddol yn rhagori ar gostau â gwerth ariannol o dan Opsiwn 4, byddai angen cynnydd o 0.005% i 0.007% yn unig yng ngwerth bras blynyddol yr economi amgylcheddol yng Nghymru.

Crynodeb o'r Opsiwn sy'n cael ei Ffafrio

229. Fel y cadarnhawyd eisoes yn y bennod hon, mae costau a manteision cyflwyno'r Bil hwn yn amrywio yn ôl sut mae'r darpariaethau'n cael eu gweithredu, ac nid ydynt yn cael eu rhagnodi ar wyneb y ddeddfwriaeth. Felly, mae'r opsiynau'n cael eu cynnwys at ddibenion enghreifftiol – drafftiwyd y darpariaethau yn y Bil mewn modd sy'n caniatáu'r hyblygrwydd i fynd ati yn y ffordd fwyaf effeithlon i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

230. Bydd costau paratoi a chynhyrchu SoNaRR yn cael eu hysgwyddo gan CNC. Nid oes disgwyl i'r costau amrywio'n sylweddol o'r naill opsiwn i'r llall nac yn ôl nifer y datganiadau ardal. Yn yr un modd, bydd costau paratoi a

chynhyrchu NNRP yn cael eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru ac nid oes disgwyl iddynt amrywio'n fawr rhwng yr opsiynau a gyflwynwyd.

231. Bwriad y polisi ar gyfer datganiadau ardal yw eu bod yn cael eu pennu ar raddfa ecolegol, ac yn cael eu cyflawni mewn modd sy'n canolbwyntio, ar y lefel leol, ar y blaenoriaethau a nodir yn yr NNRP. At ddibenion yr RIA, mae ystod o opsiynau wedi eu cyflwyno. Mae hyn yn golygu bod modd asesu a mor gosteffeithiol yw'r amrywiol ddulliau.

232. Mae opsiwn 3 yn seiliedig ar weithredu datganiadau ardal manwl ar draws nifer bach o ardaloedd, gan gyflawni'n rhannol y blaenoriaethau a nodir yn yr NNRP. Yr opsiwn hwn, felly, fyddai'n rhoi'r costau gweithredu isaf ond ni fyddai'n fodd i nodi'r holl gyfleoeodd i gyflawni'r blaenoriaethau yn yr yr NNRP, ac ni fyddai ychwaith yn sicrhau'r holl fanteision parhaol a allai fod yn bosibl ar y lefel leol.

233. Mae Opsiwn 4 yn seiliedig ar lwyr gyflawni datganiadau ardal manwl ar draws Cymru, a hynny mewn modd a fydd yn sicrhau'r manteision cyffredinol mwyaf posibl. Byddai angen mwy o ddyfnder yn yr holl ddatganiadau ardal a fyddai'n cael eu paratoi o dan yr opsiwn hwn ac, o'r herwydd, dyma'r opsiwn drutaf o blith y rheini a ystyriwyd.

234. Nod Opsiwn 2 yw ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng lefel y manylder sydd ei hangen er mwyn gweithredu blaenoriaethau'r NNRP, a chost cyflawni datganiadau ardal. Bernir bod yr opsiwn hwn fymryn yn fwy costeffeithiol nag Opsiwn 4 ac, o ystyried yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, dyma'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio.

Rhan 1: Crynodeb o'r costau

235. Ceir crynodeb yn Nhabl 5 isod o'r prif gostau (yn ôl eu gwerth cyfredol) a nodir yn yr RIA ar gyfer Rhan 1 o'r Bil. Dyma'r costau ychwanegol a gyfrifwyd ar gyfer yr effeithiau y bernir eu bod yn rhai arwyddocaol (h.y. statws coch), o'u cymharu â gwaelodlin 'gwneud dim' lle na fyddai'r Bil yn cael ei gyflwyno. (Opsiwn 1). Mae'n anodd iawn nodi'r hyn y bydd effeithiau'r darpariaethau yn Rhan 1 yn ei olygu i sefydliadau unigol, ac i gyfrif yr union gostau, felly, y nod, wrth baratoi crynodeb o'r costau, oedd rhoi'r amcangyfrif gorau o'r costau ychwanegol.

236. Caiff y costau eu cyflwyno ar ffurf amrediadau yn seiliedig ar y 3 opsiwn.

237. Mae'r rhan fwyaf o'r costau'n codi eisoes yn yr opsiwn gwaelodlin, yng nghyswllt y broses sy'n mynd rhagddi i integreiddio CNC, ac o ganlyniad i'r gofynion yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn benodol. Mae'r rhwymedigaeth ar gyrff cyhoeddus i gydweithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhan o'r rheswm pam na nodir unrhyw gostau ar gyfer llywodraethu cydweithredol, er enghraifft). Mae'n bosibl y bydd rhai o'r costau'n cael eu hamsugno fel rhan o'r gwaith o edrych ar wella prosesau – fodd bynnag, nid yw'r manylion llawn ar gael ar hyn o bryd. Barnwyd nad yw rhai o'r costau eraill yn ddigon

arwyddocaol i deilyngu dadansoddiad meintol manylach, ac yn eu plith y mae'r holl gostau a fydd yn cael eu hyswtyddo gan bartïon heblaw CNC a Llywodraeth Cymru (cyrff cyhoeddus eraill, y sector preifat, a'r trydydd sector). Er bod yr amrediad ar gyfer yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn Opsiwn 2 yn amrywio o £202,600 to £303,900 (yn ôl gwerth presennol y costau hynny), bydd y broses o baratoi'r SoNaRR, yr NNRP a'r datganiadau ardal yn debyg ac felly, yn ôl pob tebyg, mae costau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn debygo o gfod ar ben isaf yr amrediad a nodir. Dylid nodi hefyd fod cryn ansicrwydd am nifer o'r ystyriaethau, a bod hynny'n effeithio ar ganlyniadau'r dadansoddiad hwn, fel yr amlinellir yn yr adran uchod ar sensitifrwydd allweddol, y rhagdybiaethaua'r risgiau.

238. Mae'r tabl sy'n crynhoi'r opsiynau uchod (tabl 4) yn dangos bod disgwyl costau ychwanegol o ryw £3.77 miliwn i £4.94 miliwn dros 10 mlynedd, ond o bosibl hyd at £7.49 miliwn o dan y senarios gweithredu uchaf. Yn ôl eu gwerthoedd cyfredol, y ffigurau yw £3.40 miliwn i £4.51 miliwn dros 10 mlynedd, ond o bosibl hyd at £6.75 miliwn, fel y gwelir yn nhabl 5 isod.

Rhan 1: Crynodeb o'r Manteision

239. O ran y manteision posibl a fydd yn codi o weithredu'r Bil, dangoswyd uchod y gallai cynnydd o 20% yng ngwerth yr economi amgylcheddol yng Nghymru arwain at fanteision o dros £2 biliwn y flwyddyn. Fodd bynnag, rhaid nodi nad oes modd pennu pa gyfran o'r manteision hyn fydd yn deillio'n uniongyrchol o'r Bil. Mae hyn yn creu ansicrwydd mawr wrth geisio asesu'n feintiol fanteision y Bil.

240. Dim ond canran fach o gynnydd yn yr amcangyfrif o werth blynyddol y r amgylchedd yng Nghymru fydd ei angen dros 10 mlynedd er mwyn i fanteision y Bil fod yn fwy na'r costau'r a foneteiddiwyd. Mae'r cynnydd canrannol hyn i gyd yn llai na 0.01% ar gyfer yr holl opsiynau a ystyrir. Mae manteision eraill hefyd (nad ydynt yn rhai ariannol), er enghraifft arbedion o ran costau a bod yn fwy abl i wrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, sy'n awgrymu ei bod yn debygol iawn y bydd manteision y Bil yn fwy na'r costau. Mae'r dadansoddiad opsiynau yn dangos y gallai'r amrywiadau yn y manteision hyn, o ran sut y gweithredir y Bil, fod yn sylweddol.

Tabl 4: Tabl cryno o brif gostau gwerth presennol a fesurwyd o'r cynigion yn Rhan 1 y Bil

Maes Polisi	**Cam Gweithredu**	**Pam?**		**Cost (£miliwn) yn ôl senario (GP dros 10 mlynedd) o gymharu â gwaelodlin 'gwneud dim' (Opsiwn 1)**					
				Opsiwn 3. Nifer llai o ardaloedd		**Opsiwn 2. Nifer canolig o ardaloedd (yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio)**)		**Opsiwn 4. Nifer mwy o ardaloedd**	
				Isel	Uchel	Isel	Uchel	Isel	Uchel
Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol (NNRP)	Paratoi a Chynhyrchu NNRP	Llywodraeth Cymru		£0.21m	£0.21m+	£0.21m	£0.21m	£0.21m	£0.21m+
Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR)	Dadansoddiad tystiolaeth gwyddor gymdeithasol ac ecolegol integredig newydd ar gyfer SoNaRR	CNC	Staff ychwanegol	£0.44m	£0.44m+	£0.44m	£0.60m	£0.44+	£0.60m+
			Hyfforddiant (staff)	£0.03m	£0.03m+	£0.03m	£0.55m	£0.03m+	£0.55m+
			Hyfforddiant (ymgynghorwyr)	£0.02m	£0.02m	£0.02m	£0.02m+	£0.02m+	£0.02m+
			Adnoddau Dadansoddol	£0.09m	£0.09m+	£0.09m	£0.19m	£0.09m+	£0.19m+
Datganiadau Ardal	Cynllunio, Paratoi a Chyflawni	CNC		£1.11m	£1.22m	£1.11m	£1.22m	£1.11m	£1.22m
	Llywodraethu Cydweithredol	CNC		£0.00m	£0.00m	£1.22m	£1.22m	£2.44m	£2.44m
	Angen tystiolaeth newydd integredig/seiliedig	CNC		£0.00m	£0.00m	£0.00m	£0.00m	£0.24m	£0.60m

	ar ardal							
	Dadansoddiad newydd o dystiolaeth gwyddor gymdeithasol ac ecolegol integredig ar gyfer datganiadau ardal	CNC	£0.09m	£0.22m	£0.10m	£0.19m	£0.15m	30.36m+
	Dadansoddiad SEA Cynaliadwyedd Datganiadau Ardal	CNC	£0.06m	£0.08m	£0.20m	£0.30m	£0.37m	£0.55m
Cyfanswm			**£2.03m**	**£2.30m+**	**£3.40m**	**£4.51m+**	**£5.08m+**	**£6.75m+**

Rhan 1: Dyletswydd Bioamrywiaeth

Dadansoddiad o'r opsiynau

Opsiwn 1 - Gwneud Dim (Yr opsiwn sylfaenol):

241. Byddai'r opsiwn hwn yn cadw'r status quo a byddai'r dull presennol o warchod bioamrywiaeth yng Nghymru yn parhau. Byddai cyrff cyhoeddus yn parhau i 'roi sylw i' fioamrywiaeth o dan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 ("Deddf NERC 2006"). Byddai awdurdodau cyhoeddus yn parhau i ystyried bioamrywiaeth wrth gyflawni eu swyddogaethau, ac ni fyddai unrhyw ofyniad gorfodol i baratoi adroddiadau am gynnydd yn hynny o beth.

Opsiwn 2 – Cyflwyno dyletswydd ehangach:

242. Bwriad yr opsiwn hwn fyddai disodli'r ddyletswydd bresennol yn adran 40 o Ddeddf NERC 2006, gan osod dyletswydd ehangach ar awdurdodau cyhoeddus sydd â swyddogaethau mewn perthynas â Chymru. Bydd y Bil yn gosod dyletswydd ar yr awdurdodau cyhoeddus hynny i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth, ac i geisio hefyd, wrth wneud hynny, i hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau. Bydd y ddyletswydd newydd yn helpu i sicrhau rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol drwy hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, a hynny am mai bioamrywiaeth yw sail ecosystemau effeithiol. Bydd y ddyletswydd hefyd yn ategu camau a gymerir gan gyrff cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 m Mil gyfrannu at y nodau llesiant. Bydd y Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus sydd â swyddogaethau mewn perthynas â Chymru adrodd am y cynnydd y byddant wedi ei wneud o ran cyflawni'r ddyletswydd hon.

243. Mae Opsiwn 2 yn pwysleisio bod bioamrywiaeth yn hanfodol er mwyn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'i bod hefyd yn ffordd o fesur llwyddiant wrth fynd ati i sicrhau cynaliadwyedd.

Rhan 1: Costau

244. Un o'r prif ofynion sylfaenol wrth ddatblygu'r Bil oedd y dylid gosod cyn lleied o faich ychwanegol â phosibl ar sefydliadau drwy geisio gwneud y defnydd gorau o bartneriaethau a dulliau sydd eisoes yn bodoli yn hytrach na sefydlu systemau newydd ar wahân. Datblygwyd y ddyletswydd bioamrywiaeth arfaethedig yn unol â'r egwyddor hon: mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn helpu i ddangos y manteision a fyddai'n deillio o integreiddio'r ddyletswydd bresennol yn llwyr.

Opsiwn 1 – Gwneud Dim

245. Pan gyflwynwyd y ddyletswydd o dan Ddeddf NERC 2006, amcangyfrifwyd nad oedd unrhyw gost ariannol net[57]. Cynhaliwyd adolygiad o'r ddyletswydd ym mis Mai 2010[58] ond nid oedd dadansoddiad yn yr adolygiad hwnnw o gost y ddyletswydd i awdurdodau cyhoeddus. Serch hynny, er i'r adolygiad hwnnw nodi bod costau posibl mewn cysylltiad ag amser staff, nododd hefyd fod arbedion o ran costau rheoli is (er enghraifft, torri porfa yn llai aml)[59].

246. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw wybodaeth ar gael sy'n dangos bod awdurdodau cyhoeddus Cymru yn wynebu costau ariannol sylweddol o ganlyniad i'w rhwymedigaethau o dan Ddeddf NERC 2006.

247. Er hynny, mae gwybodaeth ar gael am rai o'r camau y mae awdurdodau cyhoeddus yn eu cymryd mewn perthynas â bioamrywiaeth. Mae pob awdurdod lleol wedi penodi hyrwyddwr bioamrywiaeth. Mae 24 o Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ar draws Cymru. Mae cynllun o'r fath ar gyfer ardaloedd pob un o'r awdurdodau lleol, 2 ar gyfer Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, ac mae un Parc Cenedlaethol arall yn cyfrannu at gynllun un o'r awdurdodau lleol. Mae'r partneriaethau sy'n rheoli'r Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn cael eu rhedeg gan staff yr awdurdodau lleol (Ecolegwyr /Swyddogion Bioamrywiaeth). Mae awdurdodau lleol yn cyhoeddi adroddiadau ynghylch sut y maent yn cyflawni'r camau gweithredu yn eu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol. Mae rhai awdurdodau lleol yn rhagweithiol iawn, gan baratoi adroddiadau'n flynyddol, ac mae rhai hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth am brosiectau penodol.

248. Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru yn mynd ati'n wirfoddol i baratoi adroddiadau am eu gweithgareddau ym maes bioamrywiaeth. Fodd bynnag, nid oes unrhyw drefn safonol o ran sut y mae awdurdodau cyhoeddus eraill yn adrodd am y modd y maent yn cyflawni'r rhwymedigaeth sydd arnynt o dan Ddeddf NERC 2006.

Opsiwn 2 – cyflwyno dyletswydd bioamrywiaeth ehangach

249. Ni ragwelir y bydd y ddyletswydd ychwanegol yn arwain at gostau ariannol net. Mae prinder data cymharol am gamau tebyg a gymerwyd gan y gweinyddiaethau datganoledig eraill ac o'r herwydd, nid oes modd pennu gwaelodlin ar sail y camau a'r ymddygiadau presennol – nid oes modd, felly, roi brasamcan, hyd yn oed, o'r costau ychwanegol tebygol. Mae'r Alban[60] a Gogledd Iwerddon wedi cyflwyno dyletswydd debyg mewn deddfwriaeth ac wedi amcangyfrif bod y ddyletswydd i 'hyrwyddo cadwraeth bioamrywiaeth' yn niwtral o ran costau.

---

[57] *DEFRA, Draft Natural Environment and Rural Communities Bill, 2005, paragraff 301, tudalen 59*
[58] *Entec ar ran DEFRA,*
[59] *Ibid, tudalen 40*
[60] *Gweinyddiaeth yr Alban, Nature Conservation (Scotland) Bill, Memorandwm Ariannol, 2003, a352*

250. Un o nodau'r cynnig yw sicrhau nad yw'r ddyletswydd i gynnal a gwella bioamrywiaeth yn faich ychwanegol ar awdurdodau cyhoeddus ond ei bod, yn hytrach, yn rhan integredig o'u swyddogaethau presennol. Y bwriad yw adeiladu ar fentrau ac ymdrechion eang awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. Amlinellir rhai ohonynt o dan Opsiwn 1.

251. Bydd is-set o'r awdurdodau cyhoeddus y bydd gofyn iddynt gyflawni'r ddyletswydd yn dod hefyd o dan y rhwymedigaethau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i sicrhau datblygu cynaliadwy drwy gyfrannu at gyflawni'r saith nod llesiant. Mae hynny'n cynnwys gofyniad i ddatblygu'r amcanion llesiant. Ceir disgrifiad o 'Gymru gydnerth' yn y saith nod llesiant, sef cenedl sy'n cynnal amgylchedd naturiol bioamrywiol, ac yn ei wella. Bydd yn ofynnol i'r cyrff hyn gyfrannu at gyflawni'r holl nodau llesiant, a bydd y ddyletswydd ehangach yn ategu'r camau a gymerir gan gyrff cyhoeddus.

252. Ni ddylai cyrff cyhoeddus wynebu cost ariannol net yn sgil ehangu'r ddyletswydd. Dylai'r ddyletswydd arwain at fwy o effeithlonrwydd drwy symleiddio a chyfuno ymdrechion awdurdodau cyhoeddus i gynnal ac i wella bioamrywiaeth. Bydd y ddyletswydd yn arwain hefyd at well reolaeth ar risgiau sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth, er enghraifft, drwy ymgorffori gwasanaethau ecosystemau yn iawn wrth reoli tir, e.e. er mwyn lliniaru perygl llifogydd.

253. Mae'n ofynnol o dan y Bil i awdurdodau lleol fynd ati bob tair blynedd i adrodd am y camau y byddant wedi eu cymryd i gydymffurfio â'r rhwymedigaethau statudol sydd arnynt. Nid oes unrhyw ofyniad i'r adroddiad hwnnw fod ar ffurf benodol neu mewn dogfen benodol a chaniateir iddynt ei gynnwys mewn adroddiad addas arall. Y bwriad, felly, yw bod awdurdod yn gallu adrodd yn y modd mwyaf priodol ac effeithiol sydd ar gael iddo, a chyda'r rhain yn dod o dan fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, gellid integreiddio'r gwaith adrodd.

254. Mae rhyw 100 o awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae ychydig o awdurdodau cyhoeddus yn mynd ati'n wirfoddol i adrodd am rai o'u gweithgareddau drwy Adroddiadau Blynyddol Cynllun Gweithredu Strategaeth Amgylcheddol Llywodraeth Cymru. Maent yn cynnwys awdurdodau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol a Llywodraeth Cymru.

255. Mae cyfle bellach felly, ar ôl i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gael ei chyflwyno, i gyfuno gofynion o ran adrodd. Y bwriad yw y bydd y cyrff hynny sy'n dod o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a'r ddyletswydd ddiwygiedig ar fioamrywiaeth, yn gallu adrodd am y modd y byddant yn cyflawni eu dyletswydd bioamrywiaeth yn eu hadroddiadau a gaiff eu paratoi ganddynt am hynt y gwaith o gyflawni eu hamcanion llesiant. Bydd hyn yn gymwys i ryw 45 o gyrff, gan gynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol a CNC. Bydd yn fodd felly i sicrhau, yn achos y cyrff hynny, bod y gofyniad yn cael ei gysylltu â'r rhwymedigaethau sydd arnynt

o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 2015, ac y bydd hefyd yn dod yn rhan annatod ohonynt. Ymdrinnir â'r costau sy'n gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 2015 yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil hwnnw.

256. O ran yr awdurdodau cyhoeddus hynny nad ydynt yn dod o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, disgwylir iddynt fedru cydymffurfio â'r gofynion adrodd drwy'r trefniadau adrodd presennol, er enghraifft, mewn unrhyw adroddiadau blynyddol y maent yn eu paratoi.

Rhan 1: Manteision

257. Bioamrywiaeth yw sail ecosystemau effeithiol, ac mae'r ecosystemau hynny, yn eu tro, yn darparu amrywiaeth o wasanaethau hanfodol ar gyfer ein cymdeithas. Pan fo bioamrywiaeth yn cael ei cholli, mae hynny'n effeithio ar allu ecosystemau i addasu yn wyneb unrhyw newidiadau neu unrhyw ffactorau sy'n tarfu arnynt. Mae bioamrywiaeth, felly, yn hanfodol er mwyn cynnal ein hecosystemau. Mae hynny, yn ei dro, yn galluogi ecosystemau i ddarparu'r gwasanaethau hanfodol (fel awyr iach a dŵr glân) y mae'n cymdeithas yn dibynnu arnynt.

Opsiwn 1 – Gwneud Dim

258. Mae Adran 40 o Ddeddf NERC 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr roi sylw i gadwraeth bioamrywiaeth wrth gyflawni eu swyddogaethau. Cafwyd rhywfaint o lwyddiant drwy'r ddyletswydd bresennol ers iddi ddod i rym, er enghraifft, cyflwynwyd nifer o hyrwyddwyr bioamrywiaeth mewn awdurdodau lleol ac aeth awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol ati'n wirfoddol i baratoi adroddiadau am y ddyletswydd.

259. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn fodd i weithredu'r argymhelliad a wnaed gan Bwyllgor Cynaliadwyedd y Cynulliad Cenedlaethol yn ei Ymchwiliad i Fioamrywiaeth, sef y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu dull strategol ar lefel yr ecosystem o reoli bioamrywiaeth.

260. O beidio ag ehangu'r ddyletswydd, bydd mwy o risg y bydd Cymru'n parhau i golli ei bioamrywiaeth. Os yw bioamrywiaeth yn dirywio, mae hynny, yn ei dro, yn arwain at ddirywiad mewn ecosystemau ac yn sgil hynny, at wasanaethau ecosystemau o ansawdd is ac at golli manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Gall hynny, yn ei dro, olygu y bydd mwy o risg o beidio â chyflawni'r nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn caniatáu inni fesur cynnydd o ran cyflawni'r amcan.

Opsiwn 2 – cyflwyno dyletswydd bioamrywiaeth ehangach

261. Byddai'r opsiwn hwn yn arwain at well effeithlonrwydd drwy symleiddio a chyfuno ymdrechion cyrff cyhoeddus i gynnal a gwella bioamrywiaeth ar

draws eu swyddogaethau. Byddai hefyd yn hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

262. Gan fod y lleihad mewn gwasanaethau ecosystemau yn gysylltiedig â dirywiad ym maint neu gyflwr cynefinoedd ac â newidiadau o ran bioamrywiaeth, gall gwella bioamrywiaeth helpu i gryfhau ecosystemau a'r gwasanaethau a ddarparant, er enghraifft, dŵr glân, aer o ansawdd da, peillio cnydau, yn ogystal â darparu cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt. Gall gwella amrywioldeb o ran adnoddau biolegol helpu i gryfhau integriti ecosystemau a'u galluogi i ddarparu gwell gwasanaethau, a gall hynny helpu i liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac i liniaru llifogydd.

    Gall y ddyletswydd ehangach helpu i reoli bioamrywiaeth mewn ffordd gynhwysol a fydd o fudd i'r gymuned leol gyfan ac i'r ecosystem, ac na fydd yn dibynnu'n unig ar warchod safleoedd neu rywogaethau unigol.

263. Gallai ehangu'r ddyletswydd arwain at arbedion effeithlonrwydd, a hynny'n benodol yn sgil y cydweithio y bydd y ddyletswydd yn ei hyrwyddo. Y bwriad hefyd yw sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei hintegreiddio mwy i bolisïau cyffredinol ar draws pob swyddogaeth. Os yw corff yn sicrhau bod yr angen i gynnal a gwella bioamrywiaeth yn cael ei ystyried yn y broses gwneud penderfyniadau ar gyfer pob agwedd ar ei weithgareddau, dylai hynny arwain at well ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth ac o'r rôl sydd ganddi i'w chwarae wrth gynnal cydnerthedd ecosystemau a gwella llesiant.

264. Mae manteision economaidd a chymdeithasol posibl hefyd. Dros y tymor hir, bydd sicrhau'r cyfuniad priodol o wasanaethau ecosystemau, a chreu marchnadoedd newydd, yn helpu i hyrwyddo twf gwyrdd ac i greu swyddi.

265. Bydd y ddyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus yn arwain at wella cadwraeth bioamrywiaeth, rhywogaethau a chynefinoedd, gan arwain at wella iechyd a lles corfforol a meddyliol. Bydd gwella gwasanaethau rheoleiddiol yn arwain at fwy o gyfleoedd i wella iechyd ac i roi cyfleoedd hamdden i aelodau tlotaf y gymuned, fel gwell ansawdd aer a mynediad agored at ofod gwyrdd fel parciau a gerddi. Mae tystiolaeth am y manteision o ran iechyd i'w gweld yn Adroddiad y Prif Swyddog Meddygol 2013-14[61].

266. Bydd ehangu'r ddyletswydd bresennol yn helpu i gyflawni'r nodau llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

267. Bydd y ddyletswydd i adrodd am y gwaith a wneir yn hyn o beth yn fodd i fesur cynnydd o ran cyflawni'r ddyletswydd.

[61] *http://gov.wales/topics/health/cmo/publications/annual/2014-report/?skip=1&lang=cy*

Rhan 2: Newid yn yr Hinsawdd

Dadansoddiad o'r Opsiynau

268. Mae dau opsiwn wedi'u hystyried mewn perthynas â Rhan 2 o'r Bil. Mae'r opsiynau hyn yn cynnwys deddfu ar gyfer targedau newid yn yr hinsawdd yn y Bil neu barhau i ddilyn yr un polisi o ddefnyddio strategaeth anneddfwriaethol i wireddu uchelgeisiau a chyflawni targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer y newid yn yr hinsawdd.

Amlinelliad o'r Manteision a'r Costau

269. Mae'r adran ganlynol yn cynnwys trafodaeth ar gostau a manteision enghreifftiol dau opsiwn arfaethedig ar gyfer lleihau allyriadau Cymru. Mae'r dadansoddiadau economaidd mwyaf cadarn o gostau a manteision lleihau allyriadau wedi'u cynnal ar lefel fyd-eang a lefel y DU. Yn y cyswllt hwn, mae dadansoddiad byd-eang a dadansoddiad y DU wedi'u defnyddio i lywio'r drafodaeth. Mae data neu adroddiadau sy'n ymwneud â Chymru yn benodol yn cael eu dyfynnu os ydynt ar gael.

<u>Opsiwn 1 – Gwneud Dim – Parhau i gyflwyno dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer y newid yn yr hinsawdd mewn dogfen strategaeth anneddfwriaethol</u>

270. Mae'r Strategaeth bresennol ar y Newid yn yr Hinsawdd yn cyflwyno uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer y newid yn yr hinsawdd ac yn cadarnhau'r targedau ar gyfer lleihau allyriadau y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddynt. Er nad yw'r targedau hyn yn rhwymo mewn cyfraith, mae'r dull gweithredu hwn yn cyd-fynd â thargedau deddfwriaethol Deddf Newid yn yr Hinsawdd y DU 2008 a rhwymedigaethau Gweinidogion Cymru o dan yr un Ddeddf.

271. Mae Dewis 1 yn cynnig y dylid parhau â'r dull gweithredu presennol heb osod unrhyw dargedau statudol newydd.

<u>Opsiwn 2 – Fframwaith Statudol ar gyfer Targedau Newid yn yr Hinsawdd</u>

272. Mae datblygu'r Bil yn gyfle i osod targedau penodol Llywodraeth Cymru ar gyfer newid yn yr hinsawdd ar sylfaen statudol. Byddai'r dull gweithredu o dan yr opsiwn hwn yn debyg i'r hyn a geir o dan Ddeddfau Newid yn yr Hinsawdd y DU a'r Alban, gyda thargedau interim a dull cyllidebau carbon yn sylfaen i'r broses o fewn targed hirdymor ar gyfer 2050.

273. Yn ogystal, byddai'r opsiwn hwn yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru bennu cyfres o gyllidebau carbon pum mlynedd, yn debyg i gyllideb ariannol, gan ei gwneud yn ofynnol i leihau allyriadau yn unol â tharged cyffredinol 2050.

Rhan 2: Costau

274. Mae'r goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â thargedau newid yn yr hinsawdd a chyllidebau carbon yn dibynnu'n bennaf ar y targed a'r gyllideb a bennir, yn hytrach na'r dull gweithredu a ddewisir.

275. Ar gyfer Opsiwn 1, drwy barhau i ddefnyddio'r dull gweithredu presennol, rhagdybir y bydd Cymru yn parhau i gael ei rhwymo gan dargedau presennol y DU a'r UE ar gyfer 2050: gostyngiad o 80% (o gymharu â lefelau 1990) erbyn 2050. Yn yr un modd, mae'r cynigion a gyflwynir yn Opsiwn 2 – i ddeddfu ar gyfer targedau newid yn yr hinsawdd ar gyfer Cymru yn benodol – yn helpu i ganolbwyntio ar gyfraniad Cymru tuag at dargedau newid yn yr hinsawdd 2050 y DU a'r UE.

276. Yn gyffredinol, felly, nid yw'r naill dull gweithredu neu'r llall yn arwain at gostau ychwanegol i randdeiliaid. Fodd bynnag, ar gyfer Opsiwn 2, mae costau cyflawni yn cael eu pennu i raddau helaeth gan lefel cyllidebau carbon. Mae'r Bil yn ceisio cyflwyno gofyniad i Weinidogion Cymru bennu cyllidebau carbon, ond bydd lefel y cyllidebau hyn yn cael ei phenderfynu gan is-ddeddfwriaeth. Bryd hynny, bydd angen gwerthuso'r costau a'r manteision yn ofalus a chwilio am gyngor annibynnol. Wedi dweud hynny, gan y byddai cyllidebau carbon yn lleihau'n raddol, yn unol â thargedau 2050 presennol y DU a'r UE – gellid dadlau y rhoddir cyfrif eisoes am y costau a'r manteision fel rhan o gyfran Cymru o darged 2050 y DU yn yr ymrwymiad strategol presennol.

277. Mae'r wybodaeth ganlynol yn cyflwyno'r ddadl economaidd gyffredinol o blaid gweithredu ar newid yn yr hinsawdd sy'n sylfaen i darged 2050, sy'n ganolog i'r ddau opsiwn cyflawni. Mae costau penodol sy'n gysylltiedig â datblygu'r fframwaith ar gyfer pob opsiwn yn cael eu hystyried ar wahân ar ddiwedd yr adran hon.

278. Mae'r dystiolaeth gynyddol o adroddiadau rhyngwladol fel Adroddiadau Asesu'r Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) yn dangos y bydd sicrhau bod gwrthsefyll a lliniaru'r newid yn yr hinsawdd yn rhan annatod o'r broses yn debygol o fod yn drech na chostau peidio â gweithredu yn y tymor canolig a'r hirdymor. Er enghraifft, mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn amcangyfrif bod peidio â gweithredu ym maes Newid yn yr Hinsawdd yn costio €650 biliwn y flwyddyn neu 5-6% o gynnyrch domestig gros blynyddol Ewrop, tra bod gweithredu yn costio 1-1.5% o gynnyrch domestig gros.

279. Dadansoddwyd y costau macroeconomaidd ar gyfer targed lleihau CO_2 o 80% yn y DU gan yr Asesiad Effaith sy'n ategu cyflwyniad Deddf Newid yn yr Hinsawdd y DU (2008), sy'n manteisio ar Adolygiad Stern a'r dadansoddiad a gwblhawyd ar gyfer Papur Gwyn y DU ar Ynni yn 2007. Mae'r dadansoddiad yn dangos y gallai cost hirdymor targed 80% ar gyfer CO_2 fod rhwng 1.1% a 2.6% o gynnyrch domestig gros erbyn 2050. Mae'r canlyniadau hyn yn debyg i'r rhai yn Adolygiad Stern, a oedd yn amcangyfrif bod costau hirdymor gweithredu byd-eang i sefydlogi

crynodiadau nwyon tŷ gwydr ar lefel 550ppm CO_2e yn debygol o fod tua 1% o'r cynnyrch domestig gros erbyn 2050, gan amrywio +/-3%. Mae'r amrywiaeth hon yn sylweddol is na'r costau disgwyliedig o wneud dim i leihau'r newid yn yr hinsawdd, sydd rhwng 5% ac 20% o gynnyrch domestig gros yn ôl amcangyfrif Stern.

280. Ar 7 Hydref 2008, cyhoeddodd y Comisiwn ar Newid Hinsawdd ei gyngor ar lefelau lleihau allyriadau arfaethedig ar gyfer y DU. Mae'n amcangyfrif hefyd y bydd lleihau nwyon tŷ gwydr 80% yn costio rhwng 1% a 2% o gynnyrch domestig gros yn 2050, ac yn datgan bod modd sicrhau bod y costau i'r DU o leihau allyriadau ar y lefel hon yn fforddiadwy drwy gyflwyno polisïau a llwybrau priodol. Yn ddiweddarach yn yr un flwyddyn, cyhoeddodd y Comisiwn ar Newid Hinsawdd yr adroddiad "Creu economi carbon isel". Roedd yr adroddiad hwn yn cadarnhau mai tua 1-2% o gynnyrch domestig gros fyddai'r gost o gyrraedd y targed i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 80% yn y DU erbyn 2050. Cyhoeddodd y Comisiwn ar Newid Hinsawdd adroddiad wedi'i ddiweddaru yn 2013 a oedd yn dangos y byddai oedi cyn gweithredu ar ôl 2030 yn arwain at gostau ychwanegol rhwng £100 biliwn a £200 biliwn i'r DU o gymharu â gweithredu yn gynnar.

281. Er bod ystod y costau yn amrywio ychydig, mae'r astudiaethau hyn yn awgrymu bod costau gweithredu, yn enwedig ar raddfa fyd-eang, yn is o lawer na'r costau disgwyliedig o beidio â gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd. Mae'r costau o beidio â gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd yn seiliedig ar amcangyfrifon yr UE a byd-eang, ac er y gallai'r rhain roi syniad bras i ni o'r costau i Gymru, nid ydynt yn adlewyrchiad uniongyrchol. Ar y llaw arall, mae amcangyfrifon o'r costau gweithredu yn gysylltiedig â'r effaith ar y DU yn gyffredinol ac mae modd eu defnyddio'n fras i nodi'r costau i Gymru, gan fod strwythur economi Cymru a'r DU yn gymharol debyg. Bydd y costau gweithredu hyn yn berthnasol i holl economi Cymru – Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus a busnesau Cymru. Bydd y costau hyn yn cael eu dosbarthu ar draws cynhyrchwyr a threthdalwyr drwy brisiau mewnbwn uwch ar gyfer nwyddau a gwasanaethau cyhoeddus, a gan ddefnyddwyr drwy brisiau manwerthu uwch, gan arwain at gynnyrch domestig gros is yn debyg i'r hyn a nodwyd yn y paragraff blaenorol. Y llwybrau a ddewisir i ostwng allyriadau a fydd yn penderfynu pwy yn union sy'n ysgwyddo'r costau hyn a sut y byddant yn effeithio ar allbwn fesul sector, a bydd lefel y Cyllidebau Carbon yn effeithio ar Opsiwn 2 yn benodol.

Ansicrwydd a Sensitifrwydd Costau Allweddol

282. Er mwyn modelu'r costau hirdymor o leihau allyriadau yn y DU hyd at 2050, mae angen gwneud nifer o ragdybiaethau, ac mae'r fframwaith yn cynnwys nifer o elfennau nad oes sicrwydd yn eu cylch hefyd. Mae'r elfennau allweddol nad oes sicrwydd yn eu cylch yn cynnwys:
    - Dewis y llwybr lleihau allyriadau mwyaf effeithiol
    - Yr ymrwymiad rhyngwladol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, gan gynnwys yr ymdrech gymharol rhwng gwledydd a rhanbarthau
    - Cost ac argaeledd technolegau carbon isel neu effeithlon o ran ynni

- Costau cymharol tanwyddau ffosil.

Costau gweinyddol cyflwyno'r fframwaith targedau carbon

283. Mae Rhestr Nwyon Tŷ Gwydr y DU yn cael ei llunio yn unol â chanllawiau rhyngwladol yr IPCC ac mae'n sylfaen i'r adroddiad blynyddol presennol ar y newid yn yr hinsawdd. Fel ffynhonnell ddata sy'n cael ei hadolygu yn feirniadol, mae'n sylfaen addas i fesur cynnydd yn erbyn targedau carbon yng Nghymru ac mae'n darparu data ar allyriadau ar gyfer y sectorau sy'n cael eu cynnwys yng Nghyllideb Carbon y DU. Ar gyfer y ddau opsiwn sy'n cael eu hystyried yn yr asesiad hwn, byddai'r rhestr nwyon tŷ gwydr yn darparu'r data gofynnol ar allyriadau, ac ni fyddai'r naill ddull neu'r llall yn arwain at gostau data ychwanegol. Fodd bynnag, er mwyn cyflwyno system cyllidebau carbon llawn, byddai angen darpariaeth ychwanegol ar gyfer cyfrif carbon a systemau masnachu fel y trafodir isod.

<u>Opsiwn 1 – Gwneud Dim – Parhau i gyflwyno dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer y newid yn yr hinsawdd mewn dogfen strategaeth anneddfwriaethol</u>

284. Mae'r targedau allyriadau presennol ar gyfer Cymru a gadarnhawyd yn Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd yn cynnwys y gostyngiad disgwyliedig mewn allyriadau hyd at 2020 yn unig. Fodd bynnag, mae'r targedau hyn yn perthyn i fframwaith datgarboneiddio ehangach y DU a'r UE ar gyfer sicrhau gostyngiad 80% erbyn 2050, a disgwylir i Gymru gyfrannu at y targedau hyn. Yn y cyswllt hwn, ar ôl 2020, byddai angen cyfraniad at leihau allyriadau erbyn 2050 fel rhan o Opsiwn 1. Gellid gwneud hyn drwy barhau â'r strategaeth bresennol heb orfod cyflwyno fframwaith mawr newydd. Felly, o safbwynt y goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 1, maent eisoes wedi'u cynnwys yn y cyllidebau presennol fel rhan o ofynion y llywodraeth sydd eisoes yn bodoli.

<u>Opsiwn 2 – Fframwaith Statudol ar gyfer Targedau Newid yn yr Hinsawdd</u>

285. Ar sail tystiolaeth o fodel staffio Llywodraeth y DU ar gyfer datblygu cyllidebau carbon y DU, mae'n debygol y byddai angen gofynion adnoddau ychwanegol adeg datblygu'r cyllidebau, ac adeg pob adolygiad wedyn. Bydd angen rhywfaint o adnoddau ym mhob adran, gan gynnwys yr adran weinyddol, i gydgysylltu'r broses (yr Adran Cyfoeth Naturiol sy'n gyfrifol am hyn ar hyn o bryd). Mae'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd ac adrannau arweiniol Whitehall yn mabwysiadu patrwm cylchol os oes angen rhagor o adnoddau ar ddechrau cylch cyllideb ar gyfer gwerthuso camau gweithredu i leihau allyriadau yn unol â chynigion pob cyllideb garbon. Fodd bynnag, dros amser mae'r gofyniad adnoddau hwn wedi dod yn rhan o fusnes fel arfer pob adran. Ar sail y profiad hwn, byddai'r costau gweinyddol yn cynnwys tîm craidd o hyd at bump o bobl i gydgysylltu'r broses yn ogystal â chynnydd dros dro mewn amser staff mewn adrannau i weinyddu a chynllunio ar gyfer pennu cyllidebau carbon. Amcangyfrifir y bydd y costau gweinyddol blynyddol yn £254,500 os yw'r pum aelod o staff craidd ar Radd 7, os oes dau Uwch-swyddog Gweithredol a dau Swyddog Gweithredol

Uwch. Byddai'r costau o gydgysylltu'r broses yn cael eu talu trwy'r cyllidebau presennol.

286. Yn ogystal â chostau staff, disgwylir i'r costau canlynol ddeillio o'r ddeddfwriaeth arfaethedig sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 2:

- Er mwyn sicrhau bod y broses o gyflwyno cyllidebau carbon ffurfiol yn cael ei gwerthuso yn ofalus, yn enwedig felly'r effeithiau economaidd, byddai angen cyngor annibynnol wrth bennu lefel y cyllidebau carbon. Er y gallai Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd ddarparu'r cyngor hwn, gall chwilio am gyngor priodol fod yn gostus. Wedi dweud hynny, hyd yn oed heb fabwysiadu dull gweithredu cyllidebau carbon, mae'n debygol y byddai angen cyngor annibynnol ar y targedau newid yn yr hinsawdd priodol i'w mabwysiadu ar ôl 2020 (o dan Opsiwn 1). O ganlyniad, nid yw gweithredu fframwaith cyllidebau carbon ynddo ei hun yn arwain at gostau ychwanegol ar gyfer rhanddeiliaid, ond byddai angen gwerthuso lefelau'r targedau a bennir ar ôl 2020 yn ofalus. Wedi dweud hynny, os yw cyllidebau carbon yn cael eu pennu yn unol â thargedau 2050 presennol y DU a'r UE, gellid dadlau bod y costau a'r manteision economaidd eisoes yn gysylltiedig â chyflawni cyfran Cymru o darged 2050 y DU.

- Wrth reswm, bydd angen asesiad manwl o'r cyfyngiadau a'r cyfleoedd ym mhob sector i roi proses gyllidebu ar waith, a byddai angen iddo gael ei gyfrifo i leihau allyriadau ar raddfa sy'n gredadwy yn economaidd mewn ffordd debyg i broses gyllidebu'r DU. Sefydlwyd Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd gan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 i ddarparu cyngor o'r fath, a byddai'n gallu rhoi cyngor ar y dull gweithredu. Byddai cyngor cychwynnol yn costio tua £43,500, gydag adroddiadau cynnydd yn costio tua £15,000 bob 5 mlynedd. Mae hyn yn dod i £73,500 dros 10 mlynedd. Mae angen cadarnhau'r ffigurau hyn ac nid ydym wedi pennu a ydynt yn ychwanegol at y cyllid mae Llywodraeth Cymru eisoes yn ei ddarparu i'r UKCCC.

Rhan 2: Manteision

287. Mae'r adran ganlynol yn cyflwyno'r achos economaidd cyffredinol ar gyfer gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd sy'n sylfaen i darged lleihau allyriadau 2050 sy'n ganolog i'r ddau opsiwn. Mae'r manteision penodol sy'n gysylltiedig â datblygu'r fframwaith cyflawni ar gyfer pob opsiwn yn cael eu hystyried ar wahân ar ddiwedd yr adran hon.

288. Mae manteision lleihau allyriadau Cymru a'u cyfraniad at y newid byd-eang yn yr hinsawdd yn glir. Mae'r manteision hyn, os yw camau gweithredu byd-eang yn cael eu rhoi ar waith, yn cynnwys lleihau'r perygl o ganlyniadau mwyaf difrifol y newid yn yr hinsawdd: cynnydd mewn ardaloedd sy'n cael eu heffeithio gan sychder a pherygl llifogydd, newidiadau mawr i strwythur a swyddogaeth ecosystemau, gostyngiad mewn cynhyrchiant cnydau a chynhyrchu bwyd, cynnydd mewn erydu arfordirol, a goblygiadau iechyd. Daeth Adolygiad Stern ar Economeg Newid Hinsawdd i'r casgliad y gall

gweithredu'n effeithiol i leihau allyriadau byd-eang leihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol, ac wrth wneud hynny, osgoi gostyngiad o tua 5-20% yn y cynnyrch domestig gros byd-eang.

289. Bydd angen ymdrechion byd-eang i leihau allyriadau yn effeithiol, a chydnabyddir bod allyriadau yng Nghymru ond yn cynrychioli cyfran fechan o allyriadau byd-eang. Fodd bynnag, mae Cymru wedi ymrwymo i ddarparu arweiniad yn y maes hwn a bydd ein gweithredoedd yn helpu i ddylanwadu ar ganlyniadau byd-eang cyffredinol. Mae'n rhaid i'r arweiniad hwn ddod o genhedloedd datblygedig fel Cymru a fu'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r cynnydd hanesyddol yng nghrynodiadau nwyon tŷ gwydr ac sydd ag allyriadau uwch fesul pen y boblogaeth yn gyffredinol. Yn ogystal, mae ganddynt y lefelau incwm gofynnol a'r gallu technolegol i arwain y buddsoddiad sydd ei angen. Ar ben hynny, o ystyried yr ymrwymiad cyffredinol i ddatgarboneiddio, gall y gwledydd sy'n gweithredu'n gyflym sicrhau mantais gystadleuol a datgloi'r cyfleoedd mwyaf.

290. Mae Adolygiad Stern yn datgan mai mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yw'r strategaeth hybu twf ar gyfer yr hirdymor, gan y bydd newid i economi carbon isel yn arwain at gyfleoedd busnes. Er enghraifft, amcangyfrifir y bydd marchnadoedd byd-eang ar gyfer cynhyrchion ynni carbon isel yn werth o leiaf $500 biliwn erbyn 2050. Mae adroddiad a gyhoeddwyd gan Dasglu Newid Hinsawdd Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yn amcangyfrif y gallai'r farchnad fyd-eang ar gyfer atebion newid hinsawdd fod yn werth $1 triliwn yn y pum mlynedd cyntaf os yw'r llywodraeth yn cytuno i fframwaith rhyngwladol i gyfyngu ar allyriadau carbon. Ategir hyn gan adroddiad y Panel Rhyngwladol ar y Newid yn yr Hinsawdd sy'n nodi bod gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd yn debygol o fod yn elfen angenrheidiol o unrhyw dwf posibl, a bod cost economaidd peidio â gweithredu yn debygol o fod yn fwy o lawer na'r gost drawsnewid.

291. O ganlyniad, mae gan Gymru gyfle i fanteisio ar gamau gweithredu effeithiol i leihau allyriadau, a gall yr opsiynau sy'n cael eu hystyried yma helpu i sicrhau bod Cymru mewn sefyllfa i fanteisio ar y cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r trawsnewid a chefnogi'r ymdrechion ar gyfer twf gwyrdd.

Manteision cyflwyno'r fframwaith targedau carbon

<u>Opsiwn 1 – Gwneud Dim – Parhau i gyflwyno dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer y newid yn yr hinsawdd mewn dogfen strategaeth anneddfwriaethol</u>

292. Bydd Opsiwn 1 yn arwain at y costau gweinyddol lleiaf gan ei fod yn parhau â'r ymrwymiadau a'r strategaeth sydd eisoes yn bodoli, felly mae'r cyllidebau presennol eisoes yn talu am y costau gweinyddol. Nid oes unrhyw strategaeth fanwl yn bodoli ar gyfer y cyfnod ar ôl 2020, ac er bod fframwaith datgarboneiddio ehangach y DU a'r UE i sicrhau gostyngiad o 80% erbyn 2050 yn berthnasol, nid yw'r llwybr ar gyfer Cymru rhwng 2020 a 2050 wedi'i ddiffinio ar hyn o bryd. Er y gallai'r dull gweithredu hwn ddarparu hyblygrwydd ychwanegol o safbwynt cyfradd lleihau allyriadau,

nid yw'n sicrhau'r manteision ar gyfer twf gwyrdd a sicrwydd buddsoddiad a fydd yn cael eu darparu ar gyfer gwledydd sy'n gweithredu yn gynnar ac mewn ffordd sy'n cael ei diffinio'n glir, fel y nodir isod. Ar sail y perfformiad presennol, mae cadw at y dull gweithredu presennol yn arwain at beryglon sylweddol o safbwynt cyflawni ein hamcanion carbon isel a lleihau allyriadau, fel y nodir gan y ffaith nad ydym ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed i leihau allyriadau o 40%.

Opsiwn 2 – Fframwaith Statudol ar gyfer Targedau Newid yn yr Hinsawdd

293. Fel rhan o'r opsiwn hwn, bydd angen pennu cyllideb ar gyfer allyriadau carbon, yn debyg i gyllideb ariannol, gan ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru leihau allyriadau yn unol â'r targedau cyffredinol. Mae'r opsiwn hwn yn adlewyrchu natur yr her yn fwy cywir ac mae'n gysylltiedig â'r gyllideb garbon fyd-eang ar gyfer sicrhau bod cyfradd y newid yn yr hinsawdd wedi'i chyfyngu o fewn 2 radd Celsius yn unol â'r cytundeb rhyngwladol. Byddai'n ffordd glir o nodi'r potensial ar gyfer lleihau allyriadau ledled portffolios a sefydliadau sector cyhoeddus. Byddai hefyd yn canolbwyntio ar y broses o wneud penderfyniadau drwy nodi'r angen i sicrhau cydbwysedd rhwng newid arafach i garbon isel mewn un maes a chynnydd cyflymach ym meysydd eraill, gan sicrhau bod lliniaru yn bosibl ym meysydd mwyaf cost-effeithiol ein heconomi.

294. Mae sawl mantais yn deillio o bennu llwybr clir a dull cyllidebu ar gyfer Cymru yn y fframwaith deddfwriaethol ehangach, yn enwedig o safbwynt darparu mwy o eglurder ar gyfer pob sector a mwy o fanylion ynglŷn â'r cyfraniadau sydd eu hangen a'r cyfleoedd buddsoddi. Bydd symud tuag at gyllidebau carbon yn sicrhau rhagor o dryloywder ac yn darparu llwybr clir ar gyfer y penderfyniadau buddsoddi rydym eisoes yn eu gwneud yn ein rhaglenni sy'n para ar ôl 2020.

295. Nododd adroddiad diweddar Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig[62] fod ansicrwydd polisi yn gallu arwain at oedi wrth sicrhau'r buddsoddiad gofynnol. Gallai targedau clir hefyd lleihau'r perygl nad yw'r broses yn cael ei rhoi ar waith yn ddigon cyflym er mwyn bodloni'r rhwymedigaethau deddfwriaethol, ymateb i'r heriau a manteisio ar y cyfleoedd (yn enwedig ar gyfer swyddi a thwf) sy'n deillio o'r newid yn yr hinsawdd.

295. Mae cynnydd y sector gwastraff yng Nghymru yn dangos sut mae targedau yn gallu helpu i wella cynnydd yn y sector, gan fod y cynnydd mewn ailgylchu a datblygiadau seilwaith cysylltiedig bellach yn helpu i greu swyddi yn yr economi werdd sy'n tyfu yng Nghymru. Cyfrannodd gwerthiant yn yr economi werdd £5.5 biliwn at economi Cymru yn 2011/12, gan gefnogi dros 41,000 o swyddi, ac yn ystod y dirwasgiad rhwng 2009/10 a 2011/12, cynyddodd swyddi yn yr economi werdd tua 2.4% a chynyddodd gwerthiant tua 9.3%. Gallai targedau clir ar gyfer y newid yn yr hinsawdd fod yn gyfle i roi rhagor o sicrwydd ar gyfer buddsoddi mewn twf gwyrdd drwy lwybr

[62] *http://www.unep.org/annualreport/2013/landing.asp*

cliriach ar gyfer datgarboneiddio. Yn ogystal â chefnogi'r trawsnewid gofynnol yng Nghymru, gallai hyn sicrhau bod Cymru mewn sefyllfa i fanteisio ar y cyfleoedd byd-eang.

Rhan 2: Crynodeb a'r Opsiwn sy'n cael ei Ffafrio

296. Opsiwn 2 yw'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio gan ei fod yn darparu fframwaith cryfach i leihau allyriadau yng Nghymru yn unol â'r gofynion. Hefyd, hwn yw'r opsiwn gorau i sicrhau bod Cymru yn gallu lleihau ei hallyriadau yn gynnar ac osgoi'r costau economaidd uwch sy'n gysylltiedig ag oedi cyn gweithredu. Fel yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio, gallai Opsiwn 2 arwain at y manteision allweddol canlynol i Gymru:
    - Darparu sicrwydd er mwyn hybu buddsoddiad gan y sector preifat a gweithredu fel ysgogiad ar gyfer twf gwyrdd.
    - Cysylltiad clir â chyllideb garbon fyd-eang y Cenhedloedd Unedig sy'n ceisio osgoi effeithiau trychinebus neu newid na ellir ei ddadwneud, gan helpu i hyrwyddo datblygiad dull masnachu carbon rhyngwladol.
    - Hyrwyddo hyblygrwydd, gan sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen am drawsnewid arafach mewn un maes a chynnydd cyflymach mewn maes arall, gan arwain at liniaru ym meysydd mwyaf cost-effeithiol ein heconomi.
    - Gallai targedau clir ar gyfer y newid yn yr hinsawdd fod yn gyfle i roi rhagor o sicrwydd ar gyfer buddsoddi mewn twf gwyrdd drwy lwybr cliriach ar gyfer datgarboneiddio. Yn ogystal â chefnogi'r trawsnewid gofynnol yng Nghymru, gallai hyn sicrhau bod Cymru mewn sefyllfa i fanteisio ar y cyfleoedd byd-eang.
    - Darparu ffordd glir o nodi cyfrifoldeb ar gyfer cyflawni a ffocws gwell ar y broses o wneud penderfyniadau na tharged lleihau allyriadau cyffredinol.

Tabl 5: Tabl yn crynhoi costau a manteision allweddol yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio

Maes polisi	Costau Allweddol	Manteision Allweddol
Fframwaith Statudol ar gyfer targedau'r newid yn yr hinsawdd. **Rhagdybiaethau Allweddol:** Er mwyn modelu'r costau hirdymor o leihau allyriadau, mae angen gwneud nifer o ragdybiaethau, gan gynnwys: • Dewis y llwybr lleihau allyriadau.	**Â gwerth ariannol** Nid yw gweithredu targedau deddfwriaethol a fframwaith cyllidebau carbon ynddo ei hun yn arwain at gostau ychwanegol ar gyfer rhanddeiliaid, ond mae hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar lefel y targedau sy'n cael eu pennu. Byddai angen gwerthuso hyn yn ofalus, ac efallai bydd angen comisiynu cyngor arbenigol ychwanegol.	**Heb werth ariannol** Daeth Adolygiad Stern ar Economeg Newid Hinsawdd i'r casgliad y gall gweithredu'n effeithiol i leihau allyriadau byd-eang leihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol, ac wrth wneud hynny, osgoi gostyngiad o tua 5-20% yn y cynnyrch domestig gros byd-eang. Mae'r Comisiwn

• Graddfa'r ymrwymiad rhyngwladol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, gan gynnwys yr ymdrech gymharol rhwng gwledydd a rhanbarthau. • Cost ac argaeledd technolegau carbon isel neu effeithlon o ran ynni. • Costau cymharol tanwyddau ffosil.	Ar sail tystiolaeth model staffio Llywodraeth y DU, mae'n debygol y byddai gofynion adnoddau ychwanegol yn seiliedig ar batrwm cylchol, gan bennu camau gweithredu ar ddechrau ac ar ddiwedd cylch cyllideb, sy'n dod yn rhan o fusnes fel arfer pob adran dros amser. Amcangyfrifir y byddai costau gweinyddol yn deillio o dîm craidd o hyd at bump o bobl i gydgysylltu'r broses yn ogystal â chynnydd dros dro mewn amser staff yn yr adrannau i weinyddu a chynllunio ar gyfer pennu cyllidebau carbon. Amcangyfrifir mai £254,500 fydd y gost flynyddol hon ar gyfartaledd. Ceir cyngor annibynnol ychwanegol ar y lefel y dylai cyllidebau carbon gael ei gosod trwy Bwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd (UKCCC). Yn seiliedig ar y dull a fabwysiadwyd yn yr Alban (o dan ofynion statudol tebyg), amcangyfrifir y byddai cyngor cychwynnol yn costio tua £43,500. Byddai hefyd angen adroddiadau cynnydd a fyddai'n costio tua £15,000 bob pum mlynedd. Bydd angen cadarnhau a phennu'r ffigurau hyn os	Ewropeaidd hefyd yn amcangyfrif bod peidio â gweithredu ym maes Newid yn yr Hinsawdd yn costio €650 biliwn y flwyddyn neu 5-6% o gynnyrch domestig gros blynyddol Ewrop, tra bod gweithredu yn costio 1-1.5% o gynnyrch domestig gros. Mae'r Comisiwn ar Newid Hinsawdd yn dangos y gall gweithredu'n gynnar i leihau allyriadau osgoi costau rhwng £100 biliwn a £200 biliwn i'r DU a allai gael eu hysgwyddo drwy oedi cyn gweithredu (yn ystod y 2030au).

	ydynt yn ychwanegol at y cyllid y mae Llywodraeth Cymru eisoes yn ei ddarparu i UKCCC. Ar hyn o bryd, mae UKCCC yn darparu cyngor i Lywodraeth Cymru ar faterion newid hinsawdd o dan Ddeddf Newid Hinsawdd y DU – ar hyn o bryd, cost flynyddol y cyngor hwn yw £156,489. At ddibenion yr RIA, mae'r amcangyfrif o'r costau ychwanegol posibl wedi'u cynnwys at ddibenion dangosol. Y Prif Grŵp Gwariant Cyfoeth Naturiol presennol a fyddai'n gyfrifol am y costau o gydgysylltu'r broses.	
	Heb werth ariannol Mae'r dystiolaeth gynyddol o adroddiadau rhyngwladol fel Adroddiadau Asesu'r Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) yn dangos y bydd sicrhau bod gwrthsefyll a lliniaru'r newid yn yr hinsawdd yn rhan annatod o'r broses yn debygol o fod yn drech na chostau peidio â gweithredu yn y tymor canolig a'r hirdymor.	**Heb werth ariannol** Mae targedau newid yn yr hinsawdd deddfwriaethol yn darparu'r manteision allweddol canlynol: • rhagor o eglurder a sicrwydd fel bod diwydiant yn gallu cynllunio'n effeithiol ar gyfer economi carbon isel a buddsoddi ynddi; • sicrhau bod Cymru mewn sefyllfa i fanteisio ar y cyfleoedd (ar gyfer swyddi a thwf yn benodol) sy'n gysylltiedig â'r trawsnewid a chefnogi'r ymdrechion

		ar gyfer twf gwyrdd • cryfhau arweiniad rhyngwladol Cymru er mwyn helpu i godi uchelgais a chamau brys cyfunol i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a lleihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

Rhan 3: Codi Tâl am Fagiau Siopa

297. Mae yna ddau faes y mae darpariaethau'r Bil yn rhoi sylw iddynt. Y cyntaf yw 'ymestyn y pwerau o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 i alluogi Gweinidogion Cymru i bennu taliadau isaf am fathau eraill o fagiau siopa yn ogystal â bagiau siopa untro' a'r ail yw 'gosod dyletswydd ar werthwyr bagiau siopa sy'n codi tâl i roi'r elw net o'r tâl at achosion da fel y nodir yn y Rheoliadau. Yn ogystal, bydd y Bil yn dileu'r cyfyngiad presennol sy'n nodi mai dim ond achosion da amgylcheddol all elwa ar yr elw net o'r tâl am fagiau siopa, gan ymestyn yr arlwy i unrhyw achos da'.

298. At ddiben yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, aseswyd effaith pob cynnig yn erbyn 4 opsiwn posibl ac mae'n seiliedig ar waith modelu a gwblhawyd ar gyfer Llywodraeth Cymru gan Ricardo – AEA[63] ac ar ddadansoddiad pellach gan Lywodraeth Cymru. Mae opsiwn sy'n cael ei ffafrio wedi'i nodi ar gyfer y ddwy ddarpariaeth, ond wrth gwblhau'r dadansoddiad o'r opsiynau isod, rhagdybir y bydd y pwerau gwneud rheoliadau hyn yn cael eu defnyddio. Mae'r rhagdybiaeth hon ond yn cael ei gwneud er mwyn dadansoddi effeithiau posibl cyflwyno unrhyw un o'r taliadau a nodir isod a dangos sut y gellid defnyddio'r pwerau arfaethedig mewn ffyrdd gwahanol.

299. Ar gyfer y ddarpariaeth gyntaf, roedd hi'n glir o'r holl opsiynau a ystyriwyd mai'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio fyddai codi isafswm tâl gwahaniaethol ar wahanol fathau o fagiau y gellir eu defnyddio fwy nag unwaith, gan gynnwys SUCBs. Pe bai Rheoliadau yn cael eu gwneud, is-opsiwn 4iii fyddai'r drefn sy'n cael ei ffafrio ar hyn o bryd gan mai'r opsiwn hwnnw sy'n cynnwys y Gwerth Presennol Net mwyaf. Byddai'r mathau o dâl am fagiau siopa a nodir ar gyfer y dadansoddiad o'r ddarpariaeth hon, neu unrhyw amrywiadau arnynt, ond yn cael eu codi drwy Reoliadau os yw'r dystiolaeth yn y dyfodol yn dangos bod angen gwneud hynny. Ar yr adeg honno, byddai Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn a manwl yn cael ei gwblhau ar gyfer pob opsiwn sydd ar gael i Weinidogion Cymru.

300. O ran yr ail ddarpariaeth, Opsiwn C yw'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio. Mae'r opsiwn hwn yn diwygio Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 i ddileu'r cyfyngiad ym mharagraff 4A sy'n nodi pan fydd Gweinidogion Cymru yn gwneud darpariaeth mewn rheoliadau i'w gwneud hi'n ofynnol i werthwyr roi enillion net y tâl, na fydd y gwerthwyr wedi'u cyfyngu i roi'r enillion net hynny i achosion da amgylcheddol yn unig.

[63] *Ricardo- AEA (2014), Cost Benefit Analysis of Bags for Life Charges in Wales, Adroddiad i Lywodraeth Cymru (2014)*

Ymestyn pwerau gwneud rheoliadau Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 i'w galluogi i bennu taliadau isaf am fathau eraill o fagiau siopa yn ogystal â bagiau siopa untro

301. Ar y pwynt hwn, mae'n bwysig nodi'r mathau o fagiau sy'n cael eu hystyried yn y dadansoddiad isod. Y mathau o fagiau y cyfeirir atynt isod yw'r rhai a nodwyd fel rhan o ddata Life Cycle Analysis Asiantaeth yr Amgylchedd 2011, a nododd nifer o fathau o fagiau a'u priodweddau. Defnyddiwyd enwau mewn iaith glir ar gyfer y bagiau siopa hyn wedyn er mwyn ei gwneud yn haws i'w darllen. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r mathau o fagiau a archwiliwyd yn ein dadansoddiad, eu priodweddau a'u henwau mewn 'iaith glir'.

Tabl 6: Crynodeb o'r math o fagiau

Enw'r Bag	Enw mewn 'iaith glir'	Pwysau (g)	Capasiti cyfaint (litrau)
Bag HDPE confensiynol	Bag siopa untro	7.5-12.6	17.9-21.8
Bag papur	Bag papur	55.2	20.1
Bag LDPE cryf	Bag am oes 6c	27.5-42.5	19.1-23.9
Bag PP anweëdig	Bag am oes 36c	107.6-124.1	17.7-21.8
Bag cotwm	Bag cotwm	78.7-229.1	17-33.4

Dadansoddiad o Opsiynau

Opsiwn 1 - Gwneud Dim (Opsiwn Sylfaenol) - Peidio â gwneud newidiadau i'r pwerau o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 fel eu bod yn parhau i fod yn berthnasol i fagiau siopa untro yn unig.

302. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r pwerau gwneud rheoliadau presennol o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 yn parhau i fod mewn grym, a byddai tâl isaf yn berthnasol i fagiau siopa untro yn unig, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Gan mai hwn yw'r opsiwn sylfaenol a ddefnyddir i asesu'r opsiynau eraill a nodwyd yn ei erbyn, nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw gostau neu fanteision ychwanegol yn deillio o'r opsiwn hwn.

303. O dan yr opsiwn hwn, rhagwelir y byddai mwy o fathau eraill o fagiau siopa, fel bagiau deunydd plastig trwchus am oes, yn parhau i gael eu defnyddio a'u gwaredu mewn ffordd amhriodol. Byddai hyn yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd ac yn tanseilio amcanion y tâl am fagiau siopa untro.

304. Yn y sefyllfa hon, ni fyddai Gweinidogion Cymru yn gallu defnyddio'r Rheoliadau i fynd i'r afael ag unrhyw gynnydd yn y defnydd o fathau eraill o fagiau siopa ac â'u gwaredu yn amhriodol. Am y rheswm hwn, nid ydym yn ffafrio'r opsiwn hwn.

Tabl 7: Mae'r taliadau/prisiau isaf o dan yr opsiwn hwn fel a ganlyn:

Math o Fag	Pris Manwerthu Gwreiddiol	Tâl Ychwanegol	Pris Manwerthu Isaf Newydd
Bag siopa untro a bag papur	5c	0c	5c
Bag am oes LDPE	6c	0c	6c
Bag am oes anweëdig	36c	0c	36c
Bag cotwm	£2.00	0c	£2.00

Opsiwn 2 - Gwneud darpariaeth i alluogi'r rheoliadau i godi tâl isaf am fagiau deunydd plastig trwchus am oes yn ogystal â bagiau siopa untro [64]

305. O dan yr opsiwn hwn, byddai pŵer presennol Gweinidogion Cymru i wneud rheoliad yn cael ei ymestyn er mwyn codi tâl isaf am fagiau deunydd plastig trwchus am oes hefyd. Byddai'r tâl yn berthnasol i fagiau siopa untro a rhai bagiau am oes yn unig.

306. Byddai'r opsiwn hwn yn cyfyngu ar y categorïau o fagiau siopa y gellid codi tâl isaf amdanynt, a phe bai tueddiadau o safbwynt cyflenwi bagiau ac ymddygiad defnyddwyr yn newid yn y dyfodol, ni fyddai Gweinidogion Cymru yn gallu diogelu'r polisi yn erbyn unrhyw ganlyniadau anfwriadol. Am y rheswm hwn, ni fyddem yn ffafrio'r opsiwn hwn.

Tabl 8: Mae taliadau ychwanegol posibl a phrisiau manwerthu o dan yr opsiwn hwn wedi'u crynhoi yn y tablau isod:

Math o Fag	Pris Manwerthu Gwreiddiol	Tâl Ychwanegol	Pris Manwerthu Isaf Newydd
Bag siopa untro a bag papur	5c	5c	5c
Bag am oes LDPE	6c	5c	11c
Bag am oes anweëdig	36c	0c	36c
Bag cotwm	£2.00	0c	£2.00

Opsiwn 3 - Gwneud darpariaeth newydd i alluogi'r rheoliadau i godi'r un tâl isaf am fagiau amldro o bob math, gan gynnwys bagiau sy'n cael eu diffinio fel bagiau siopa untro ar hyn o bryd[1]

307. O dan yr opsiwn hwn, byddai gan Weinidogion Cymru'r pŵer i bennu tâl isaf am fagiau siopa amldro o bob math a phob deunydd. Byddai hyn yn ychwanegol at y tâl isaf ar hyn o bryd am fagiau siopa untro.

308. Rhagwelir y byddai'r tâl am y bagiau hyn yn adlewyrchu eu heffaith ar yr amgylchedd o ran eu cynhyrchu a'u gwaredu.

309. Bydd ymestyn cwmpas pwerau Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 i gynnwys bagiau eraill o bob math yn ogystal â bagiau siopa untro yn

[64] *Wrth ddadansoddi'r opsiwn hwn, rydym yn rhagdybio bod Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 yn cael eu diwygio, a bod tâl isaf yn cael ei godi am fathau eraill o fagiau siopa yn ogystal â bagiau siopa untro.*

galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i newidiadau yn ymddygiad defnyddwyr a newidiadau yn y galw am fathau gwahanol o fagiau.

310. Bydd yr opsiwn hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i fynd i'r afael â'r galw cynyddol am fagiau o'r math mewn ffordd gyson, ystyrlon a hawdd i'w deall gan fanwerthwyr a'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae canlyniadau dadansoddiad Ricardo-AEA yn dangos nad yw'r opsiwn hwn yn arwain at y lefel uchaf o fanteision net, felly ni fyddai'n cael ei ffafrio at ddibenion yr ymarferiad hwn.

Tabl 9: Mae taliadau ychwanegol posibl a phrisiau manwerthu o dan yr opsiwn hwn wedi'u crynhoi yn y tabl isod:

Math o Fag	Pris Manwerthu Gwreiddiol	Tâl Ychwanegol	Pris Manwerthu Isaf Newydd
Bag siopa untro a bag papur	5c	5c	5c
Bag am oes LDPE	6c	5c	11c
Bag am oes anweëdig	36c	5c	41c
Bag cotwm	£2.00	5c	£2.05

Opsiwn 4 - Gwneud darpariaeth newydd i alluogi'r rheoliadau i bennu isafswm tâl gwahaniaethol am fathau gwahanol o fagiau amldro gan gynnwys bagiau siopa untro[1]

311. O dan yr opsiwn hwn, byddai gan Weinidogion Cymru'r pŵer i bennu tâl gwahanol am fathau gwahanol o fagiau siopa amldro, gan gynnwys bagiau sy'n cael eu diffinio fel bagiau siopa untro ar hyn o bryd.

312. Fel y nodwyd uchod, bydd ymestyn cwmpas y pwerau presennol o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 i gynnwys bagiau eraill o bob math yn ogystal â bagiau siopa untro yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i newidiadau yn ymddygiad defnyddwyr a newidiadau yn y galw am fathau gwahanol o fagiau. Er enghraifft, gall y tâl unigol am bob math o fag gael dylanwad mawr ar ymddygiad defnyddwyr a'r galw am fathau gwahanol o fagiau, gyda'r galw yn dibynnu ar lastigedd y galw am bob math o fag (h.y. lefelau defnydd yn newid wrth i'r prisiau newid) a thrawslastigedd y galw (y galw am bob math o fag yn newid wrth i brisiau mathau eraill o fagiau newid).

313. Gall yr opsiwn hwn fanteisio ar y cysylltiadau hyn mewn ffordd sy'n gallu arwain at lefel uwch o hyblygrwydd a manteision net o gymharu ag opsiynau eraill, ac am y rheswm hwn dyma'r opsiwn rydym yn ei ffafrio.

314. Fel y nodwyd uchod, nid deddfu'n ddiangen yw ein bwriad. Yn hytrach, rydym am fanteisio ar y cyfle hwn i sicrhau bod y pwerau newydd yn rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ddefnyddio Rheoliadau i addasu'r system codi tâl bresennol, os yw tystiolaeth yn y dyfodol yn dangos bod angen gwneud hynny. Pe bai Rheoliadau'n cael eu gwneud, byddai

Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn a manwl yn cael ei gwblhau ar gyfer pob opsiwn sydd ar gael i Weinidogion Cymru ar y pryd.

315. Er mwyn dangos sut y gallai'r pwerau hyn gael eu defnyddio gan Weinidogion Cymru mewn Rheoliadau, mae'r opsiwn hwn wedi'i rannu'n nifer o is-opsiynau sy'n archwilio amrywiaeth o brisiau isaf gwahanol ar gyfer bagiau siopa.

316. Wrth ddadansoddi costau a manteision yr is-opsiynau hyn, amcangyfrifir bod is-opsiwn Opsiwn 4 (Opsiwn 4iii) yn arwain at y lefel uchaf o fanteision net (manteision llai'r costau).

317. Dyma ragor o fanylion ar yr is-opsiynau:

Tabl 10: Opsiwn 4i - adlewyrchu cost amgylcheddol â gwerth ariannol fesul bag yn y tâl (gyda therfyn is o 5c):

Math o Fag	Pris Manwerthu Gwreiddiol	Tâl Ychwanegol	Pris Manwerthu Isaf Newydd
Bag siopa untro a bag papur	5c	5c	5c
Bag am oes LDPE	6c	5c	11c
Bag am oes anweëdig	36c	5c	41c
Bag cotwm	£2.00	13c	£2.13

Tabl 11: Opsiwn 4ii- tâl wedi'i raddio ar sail y gost amgylcheddol o gymharu â bagiau siopa untro wedi'u gwneud o blastig:

Math o Fag Pris Manwerthu GwreiddiolTâl YchwanegolPris Manwerthu Isaf Newydd			
Bag siopa untro a bag papur	5c	5c	5c
Bag am oes LDPE	6c	5c	11c
Bag am oes anweëdig	36c	5c	41c
Bag cotwm	£2.00	50c	£2.50

Tabl 12: Opsiwn 4iii - tâl wedi'i raddio ar sail y gost amgylcheddol llai'r costau sbwriel o gymharu â bagiau siopa untro wedi'u gwneud o blastig (pris uchaf o 65c):

Math o Fag	Pris Manwerthu Gwreiddiol	Tâl Ychwanegol	Pris Manwerthu Isaf Newydd
Bag siopa untro a bag papur	5c	0c	5c

Bag am oes LDPE	6c	21c	27c
Bag am oes anweëdig	36c	63c	99c
Bag cotwm	£2.00	65c	£2.65

Tabl 13: Opsiwn 4iv - adlewyrchu'r taliadau yng Ngweriniaeth Iwerddon; 18c am unrhyw fag am oes sy'n costio llai na 50c:

Math o Fag	Pris Manwerthu Gwreiddiol	Tâl Ychwanegol	Pris Manwerthu Isaf Newydd
Bag siopa untro a bag papur	5c	0c	5c
Bag am oes LDPE	6c	18c	24c
Bag am oes anweëdig	36c	18c	54c
Bag cotwm	£2.00	0c	£2.00

Tabl 14: Opsiwn 4v - cynllunio'r taliadau i sicrhau'r gwerth net cymdeithasol presennol gorau:

Math o Fag	Pris Manwerthu Gwreiddiol	Tâl Ychwanegol	Pris Manwerthu Isaf Newydd
Bag siopa untro a bag papur	5c	0c	5c
Bag am oes LDPE	6c	9c	15c
Bag am oes anweëdig	36c	11c	47c
Bag cotwm	£2.00	50c	£2.50

Rhan 3: Costau

318. Mae'r eitemau sydd wedi'u cynnwys yn yr adran gostau isod yn arwain at gost o dan opsiwn 'gwneud dim' Opsiwn 1. Fodd bynnag, dylid nodi bod rhai o'r eitemau hyn yn arwain at fantais ymylol o dan Opsiynau 2-4v. Hynny yw, mae'r costau o dan Opsiynau 2-4v yn is na'r costau o dan Opsiwn 1, felly o gymharu ag Opsiwn 1 maent yn arwain at fantais.

319. Mae'r holl gostau isod wedi'u cyfrifo dros gyfnod o 10 mlynedd (2015-2025), a defnyddir cyfradd ddisgownt o 3.5% ar eu cyfer (yn unol â chanllawiau Llyfr Gwyrdd y Trysorlys), a phrisiau lefel 2014 i'w cyflwyno.

Opsiwn 1 - Gwneud Dim (Opsiwn Sylfaenol) - Peidio â gwneud newidiadau i'r pwerau o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 fel eu bod yn parhau i fod yn berthnasol i fagiau siopa untro yn unig.

320. Opsiwn 1 yw'r opsiwn sylfaenol a ddefnyddiwn i asesu costau a manteision. Am y rheswm hwn, nid ydym yn cyflwyno costau a manteision Opsiwn 1, ond yn hytrach rydym yn cyflwyno costau a manteision Opsiwn 2-4v o gymharu ag Opsiwn 1.

321. Mewn nifer o gategorïau o gostau ni ragwelir y byddai'r costau yn amrywio rhwng Opsiynau 1-4v ac er mwyn gwneud pethau'n symlach, cyflwynir y costau hyn isod:

Llywodraeth Genedlaethol a Llywodraeth Leol - Costau Gweinyddu i Weithredu'r System

322. Mae angen i'r cynnig hwn gael ei weithredu ar lefel uchel gan Lywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, mae dau aelod o staff Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE) yn gweithio ar y polisi codi tâl am fagiau siopa, ar gost flynyddol o tua £79,452. Fodd bynnag, gan nad oes gan weithgarwch yr aelodau o staff hyn gysylltiad uniongyrchol â lefel y taliadau am fagiau siopa neu'r galw am fagiau, mae'n annhebygol y byddai Llywodraeth Cymru yn cynyddu nifer y staff FTE sy'n gweithio ar y polisi. Felly, ni ragwelir y bydd unrhyw un o'r opsiynau yn arwain at gostau ychwanegol.

323. Yn ogystal, ni ragwelir y bydd unrhyw gostau cyfathrebu ymylol o dan bob un o'r opsiynau a fyddai'n ychwanegol at y costau sylfaenol. Mae gwefan bwrpasol ar gael ar hyn o bryd i fagiau siopa untro, a bydd yn cael ei defnyddio i roi gwybod am newidiadau i'r ddeddfwriaeth. Hefyd, trefnir rhagor o gyfarfodydd â rhanddeiliaid allweddol i drafod goblygiadau'r newidiadau. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud gan staff sy'n gweithio ar y polisi bagiau siopa untro ar hyn o bryd.

Llywodraeth Genedlaethol a Llywodraeth Leol - Costau Cyfreithiol

324. Gall diffyg cydymffurfiaeth arwain at gostau cyfreithiol. Ar hyn o bryd, mae gan awdurdodau lleol y pŵer i orfodi'r tâl am fagiau siopa o dan y ddeddfwriaeth. Mae adran Safonau Masnach Awdurdodau Lleol yn gyfrifol am orfodi dros 100 o ddarnau o ddeddfwriaeth sylfaenol a llawer o Reoliadau a Gorchmynion. Maent yn ymateb i wybodaeth gan asiantaethau eraill, busnesau neu gwynion gan y cyhoedd; felly mae gan eu gweithgarwch gysylltiad uniongyrchol â chwynion sydd wedi'u gwneud a gwybodaeth sydd wedi dod i law. Os daw achos o ddiffyg cydymffurfiaeth i'r amlwg, rhoddir cyngor i'r masnachwr i sicrhau ei fod yn cydymffurfio. Dim ond mewn achosion lle mae cyngor a gwybodaeth yn cael eu hanwybyddu neu pan fydd camgymeriadau'n parhau i gael eu gwneud y defnyddir camau gorfodi.

325. Ers cyflwyno'r tâl am fagiau siopa untro ym mis Hydref 2011, mae gwybodaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cadarnhau bod 25 o gwynion wedi dod i law gan ddefnyddwyr ledled Cymru hyd at fis Chwefror 2013. Ymchwiliwyd i bob un o'r cwynion a phenderfynwyd bod naw ohonynt yn ddilys. Cafodd pedwar cwyn eu gwneud gan fusnesau yn erbyn busnesau eraill a phenderfynwyd bod dau ohonynt yn ddilys. Mae 141 o geisiadau am gyngor wedi'u derbyn gan fusnesau ynglŷn â'u rhwymedigaethau. Mae 11 cais am gyngor wedi'u derbyn gan ddefnyddwyr ynglŷn â'r rheoliadau. Mae 127 o gysylltiadau gorfodi wedi'u gwneud â busnesau. Mae hyn yn cynnwys arolygiadau rhagweithiol, prynu bagiau fel

prawf ac ymweliadau dilynol yn sgil cwynion a ddaeth i law neu lythyron a anfonwyd.

326. Er bod y gweithgareddau hyn yn gorfodi cost gydymffurfio (tua £1m y flwyddyn yn ôl asesiad effaith codi tâl am fagiau siopa untro 2010 Llywodraeth Cymru), ni ragwelir y bydd cynnydd sylweddol yn y gweithgareddau hyn o ganlyniad i gyflwyno tâl am fagiau am oes. Felly, nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw gynnydd mewn costau cyfreithiol o dan bob un o'r opsiynau, hynny yw, cost sefydlog sy'n cael ei hamcangyfrif ar gyfer pob opsiwn.

Busnesau - Baich Gweinyddol ar Fusnesau

327. Yn sgil cyflwyno'r tâl am fagiau siopa untro, mae busnesau'n wynebu beichiau gweinyddol o safbwynt casglu ac adrodd gwybodaeth am werthiant bagiau siopa untro. Gan fod manwerthwyr eisoes yn monitro ac yn adrodd ar werthiant bagiau siopa untro yn sgil cyflwyno'r tâl a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig, ni ragwelir y bydd unrhyw dâl ychwanegol yn deillio o fonitro ac adrodd ar werthiant bagiau ychwanegol drwy ddefnyddio'r un system. Felly, cynigir na ddylai'r baich gweinyddol ar fusnesau amrywio rhwng yr opsiynau.

Busnesau - Effeithiau Basged Fach

328. Mae yna bryderon y bydd refeniw manwerthwyr yn lleihau oherwydd "effeithiau basged fach" lle mae tâl yn rhwystro cwsmeriaid "basged fach" (cwsmeriaid sy'n prynu nifer fach o eitemau gwerth isel) rhag siopa. Er bod yr effaith hon yn bosibl mewn achosion lle nad yw bagiau am ddim ar gael bellach, ni chredir y bydd newid y taliadau am fagiau am oes yn cael yr effaith hon.

Busnesau - Dwyn o Siopau

329. Cyn cyflwyno'r tâl am fagiau siopa untro, roedd pryderon y byddai'n haws i ladron ddwyn o siopau gan y byddai nifer fawr o bobl yn cario eu bagiau eu hunain. Fodd bynnag, er y gallai cynnydd bach mewn dwyn o siopau ddeillio o'r taliadau, mae'n debygol o fod yn fach o gymharu â manteision eraill ar gyfer perchnogion siopau. Mae hefyd yn debygol y byddai unrhyw gynnydd mewn dwyn o siopau yn y dechrau yn disgyn i'r lefel ydoedd cyn cyflwyno'r tâl yn fuan iawn. Felly, nid ydym yn rhagweld y bydd effaith sylweddol ar ddwyn o siopau yng Nghymru, ac nid yw'r effaith hon wedi'i mesur yn y dadansoddiad.

Effaith Amgylcheddol - Effeithiau ar Iechyd

330. Mae un canlyniad anfwriadol posibl o ailddefnyddio bagiau siopa sy'n ymwneud ag iechyd defnyddwyr. Yn dilyn y gwaharddiad ar fagiau siopa yn San Francisco, cynhaliwyd astudiaeth (2012)[65] ar y cynnydd mewn

[65] *Klick, J., & Wright, J. D. (2012). Grocery Bag Bans and Foodborne Illness. University of Pennsylvania Institute for Law & Economics, Philadelphia.*

marwolaethau oherwydd salwch sy'n cael ei gario mewn bwyd (e.e. E-coli) sy'n gysylltiedig â bagiau amldro. Fodd bynnag, nid oes unrhyw astudiaeth yn y DU wedi canfod cysylltiad arwyddocaol rhwng ailddefnyddio bagiau (ar gyfer bwyd yn benodol) a salwch. Felly, nid yw'r anfantais bosibl i iechyd wedi'i chynnwys yn y dadansoddiad.

Opsiwn 2 - Gwneud darpariaeth i alluogi'r rheoliadau i godi tâl isaf am fagiau deunydd plastig trwchus am oes yn ogystal â bagiau siopa untro.

Effeithiau ar Fusnesau oherwydd y newid yn y galw

331. Er mwyn amcangyfrif y costau a'r manteision yn deillio o'r newid yn y galw am fathau gwahanol o fagiau i wneuthurwyr, cyfanwerthwyr, manwerthwyr a'r canghellor, cyfrifodd Ricardo-AEA gyfraddau refeniw fesul bag terfynol o safbwynt gwneuthurwyr, cyfanwerthwyr, manwerthwyr ac elusennau. Gwnaed hyn drwy gyfuno data ar-lein o wefannau cyfanwerthwyr bagiau siopa, gwneuthurwyr rhyngwladol a manwerthwyr. Mae Graff 1 isod yn dangos y gwahaniaeth fesul bag ar gyfer pob gweithredwr economaidd cyn ac ar ôl y tâl ar gyfer pob math o fag. Defnyddiwyd y ffigurau a gyflwynodd Ricardo-AEA a dadansoddiad pellach gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu'r graff. Mae modd defnyddio'r wybodaeth hon hefyd i amcangyfrif y newid yng ngwariant defnyddwyr o dan bob opsiwn.



SUCB – Bag siopa untro
Paper bag – Bag papur

6p B4L – Bag am oes 6c
36p B4L – Bag am oes 36c
Cotton bag – Bag cotwm
Retail Price – Pris Manwerthu
5p charge – Tâl 5c
precharge – tâl ymlaen llaw

332. Ar ôl hynny, mae'r effaith gyffredinol ar refeniw gwneuthurwyr, cyfanwerthwyr, manwerthwyr, y canghellor a defnyddwyr yn dibynnu ar faint o'r gwahanol fathau o fagiau sy'n cael eu gwerthu o dan yr opsiynau gwahanol, sydd yn ei dro yn dibynnu ar bris y bag.

Refeniw Gwneuthurwyr

333. Mae Opsiwn 2 yn arwain at anfantais, neu gost, i wneuthurwyr oherwydd gostyngiad yn eu refeniw. Amcangyfrifir y bydd yr anfantais/gost hon tua **£4.7 miliwn** (ar ôl disgownt) dros 10 mlynedd, o gymharu â'r opsiwn sylfaenol. Fodd bynnag, amcangyfrifir y bydd cyfanswm refeniw gwneuthurwyr o dan y gwaelodlin tua £48.2 miliwn, felly mae'r ffigur £4.7 miliwn ar gyfer Opsiwn 2 yn golygu y bydd refeniw cyfanwerthwyr yn gostwng llai na 10% yn unig.

Refeniw Cyfanwerthwyr

334. Mae Opsiwn 2 yn arwain at anfantais neu gost i gyfanwerthwyr hefyd oherwydd gostyngiad yn eu refeniw. Mae'r costau i gyfanwerthwyr yn is na'r costau i wneuthurwyr o dan Opsiwn 2, sef cost amcangyfrifedig o **£0.8 miliwn** (ar ôl disgownt) dros 10 mlynedd, ymylol i'r gwaelodlin. Fodd bynnag, dylid nodi eto nad yw cyfanswm refeniw cyfanwerthwyr yn newid llawer o'r opsiwn sylfaenol (£19.0 miliwn) felly mae'r gost £0.8 miliwn o dan yr opsiwn hwn yn newid -4.2% o gymharu â'r opsiwn sylfaenol.

Refeniw Manwerthwyr

335. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o opsiynau eraill yn y dadansoddiad hwn, mae refeniw manwerthwyr hefyd yn disgyn o dan Opsiwn 2. Amcangyfrifir y bydd y costau hyn tua **£5.7 miliwn** (ar ôl disgownt) dros 10 mlynedd, ymylol i'r gwaelodlin. Mae hyn yn cynrychioli 11.4% o holl refeniw bagiau siopa manwerthwyr o gymharu â'r opsiwn sylfaenol (£49.9 miliwn).

Gwariant Defnyddwyr

336. Mae'r newid yng ngwariant defnyddwyr o dan Opsiwn 2, fel ym mhob opsiwn, yr un faint â'r newid yn refeniw gwneuthurwyr, cyfanwerthwyr, manwerthwyr a refeniw treth, a rhoddion elusennol (gweler isod) gyda'i gilydd. Ar gyfer Opsiwn 2, mae'r cynnydd mewn rhoddion elusennol a refeniw treth yn fwy na'r gostyngiadau amcangyfrifedig mewn refeniw ar gyfer gwneuthurwyr, cyfanwerthwyr a manwerthwyr, sy'n golygu bod cynnydd cyffredinol yng ngwariant defnyddwyr. Mae'r gost hon yn cael ei

hystyried yn gost i ddefnyddwyr o tua £17.2 miliwn (ar ôl disgownt) dros 10 mlynedd, ymylol i'r gwaelodlin.

Opsiwn 3 - Gwneud darpariaeth newydd i alluogi'r rheoliadau i godi'r un tâl isaf am fagiau amldro o bob math, gan gynnwys bagiau sy'n cael eu diffinio fel bagiau siopa untro ar hyn o bryd.

Effeithiau ar Fusnesau oherwydd newidiadau yn y galw

337. Defnyddir yr un dull o gyfrifo'r Effeithiau ar Fusnesau o dan Opsiwn 3 â'r dulliau a ddefnyddiwyd o dan Opsiwn 2. O dan Opsiwn 3, mae gwneuthurwyr a chyfanwerthwyr yn wynebu costau ymylol i'r gwaelodlin, sy'n cael eu cyflwyno yma, ond mae manwerthwyr yn derbyn manteision o gymharu â'r gwaelodlin, sy'n cael eu cyflwyno yn yr adran 'Manteision'.

Refeniw Gwneuthurwyr

338. O dan Opsiwn 3, mae cyfanwerthwyr yn wynebu anfantais, neu gost, o ganlyniad i ostyngiad yn eu refeniw. Amcangyfrifir y bydd yr anfantais/gost hon tua **£3.8 miliwn** (ar ôl disgownt) dros 10 mlynedd, o gymharu â'r opsiwn sylfaenol. Eto, dylid nodi bod cyfanswm refeniw gwneuthurwyr o dan y gwaelodlin tua £48.2 miliwn, felly mae'r ffigur -£3.8 miliwn ar gyfer Opsiwn 2 yn dangos gostyngiad o lai nag 8% yn refeniw manwerthwyr.

Refeniw Cyfanwerthwyr

339. O dan Opsiwn 3, mae cyfanwerthwyr yn wynebu anfantais neu gost hefyd o ganlyniad i ostyngiad yn eu refeniw. Mae'r costau i gyfanwerthwyr yn is na'r costau i wneuthurwyr o dan Opsiwn 3, a bydd y gost i gyfanwerthwyr tua **£0.2 miliwn** (ar ôl disgownt) dros 10 mlynedd, ymylol i'r gwaelodlin. Fodd bynnag, dylid nodi eto nad yw cyfanswm y refeniw i gyfanwerthwyr yn wahanol iawn i'r refeniw o dan y gwaelodlin (£19.0 miliwn) felly mae'r gost o £0.8 miliwn o dan yr opsiwn hwn yn dangos newid o tua -1% yn unig o gymharu â'r opsiwn sylfaenol.

Gwariant Defnyddwyr

340. Unwaith eto, cyfrifir y newid yng ngwariant defnyddwyr fel cyfanswm y newid yn refeniw gwneuthurwyr, cyfanwerthwyr, manwerthwyr, refeniw treth a rhoddion elusennol (gweler isod). Ar gyfer Opsiwn 3, mae'r cynnydd yn refeniw manwerthwyr a'r canghellor a'r cynnydd mewn rhoddion elusennol yn fwy na'r gostyngiad yn refeniw gwneuthurwyr a chyfanwerthwyr. Yn gyffredinol, mae hyn yn golygu bod gwariant defnyddwyr yn cynyddu o dan Opsiwn 3. Amcangyfrifir y bydd hyn tua £30.0 miliwn (ar ôl disgownt) dros 10 mlynedd.

Opsiwn 4 – Gwneud darpariaeth newydd i alluogi'r rheoliadau i bennu isafswm tâl gwahaniaethol am fathau gwahanol o fagiau amldro gan gynnwys bagiau siopa untro

Effeithiau ar Fusnesau oherwydd y newid yn y galw

341. Defnyddir yr un dull o gyfrifo'r Effeithiau ar Fusnesau o dan Opsiwn 4 â'r dulliau a ddefnyddiwyd o dan Opsiwn 2. O dan Opsiwn 4, mae gwneuthurwyr yn wynebu costau o gymharu â'r opsiwn sylfaenol o dan bob un o is-opsiynau 4i-4v. Mae cyfanwerthwyr a manwerthwyr yn wynebu costau ac yn derbyn manteision o gymharu â'r opsiwn sylfaenol, gan ddibynnu ar yr is-opsiwn a ddewiswyd. Gan fod y rhan fwyaf o'r is-opsiynau yn arwain at gostau ymylol i gyfanwerthwyr, mae'r effaith ar gyfanwerthwyr wedi'i chyflwyno yn yr adran gostau fel bod modd eu darllen yn haws. Gan fod y rhan fwyaf o'r is-opsiynau yn arwain at fanteision ymylol i fanwerthwyr, mae'r effaith ar fanwerthwyr wedi'i chyflwyno yn yr adran manteision fel bod modd eu darllen yn haws.

Refeniw Gwneuthurwyr

342. Mae'r costau (ar ôl disgownt dros 10 mlynedd) ymylol â'r gwaelodlin o dan yr is-opsiynau a ystyriwyd o dan Opsiwn 4 wedi'u cyflwyno yn y tabl isod ar gyfer gwneuthurwyr:



343. Fel y gwelir, mae'r costau hyn yn amrywio o **£3.9 miliwn i £8.2 miliwn** (ar ôl disgownt) dros 10 mlynedd, ymylol i'r gwaelodlin. Mae'r costau hyn yn gyfran sylweddol o gyfanswm refeniw gwneuthurwyr o dan y gwaelodlin, sef rhwng 8 a 17%.

Refeniw Cyfanwerthwyr

344. Mae'r costau (ar ôl disgownt dros 10 mlynedd) ymylol i'r gwaelodlin o dan yr is-opsiynau a ystyriwyd o dan Opsiwn 4 wedi'u cyflwyno yn y tabl isod ar gyfer cyfanwerthwyr:



345. Fel y gwelir, mae'r effeithiau hyn yn amrywio o **gostau gwerth £0.5 miliwn i fanteision gwerth £0.4 miliwn, ar ôl disgownt dros 10 mlynedd.** Unwaith eto, dylid nodi bod yr effeithiau hyn ond yn arwain at newid o tua 2.7% ar y mwyaf o gymharu â chyfanswm refeniw gwneuthurwyr o dan y gwaelodlin.

Effaith ar Ddefnyddwyr

346. Fel sy'n wir am yr holl opsiynau uchod, mae'r newid yng ngwariant defnyddwyr yr un fath â'r newid mewn refeniw ar gyfer gwneuthurwyr, cyfanwerthwyr, manwerthwyr, y canghellor a'r newid mewn rhoddion elusennol. Mae unrhyw gynnydd neu ostyngiad mewn refeniw ar gyfer gwneuthurwyr, cyfanwerthwyr a manwerthwyr yn amrywio rhwng yr is-opsiynau, er bod pob is-opsiwn yn arwain at gynnydd mewn rhoddion elusennol a refeniw treth.



347. Yn gyffredinol, mae pob is-opsiwn yn arwain at gynnydd yng ngwariant defnyddwyr. Mae hyn yn amrywio o £33.8 miliwn i £115.5 miliwn, ar ôl disgownt dros ddeng mlynedd, fel y gwelir yn y graff uchod.

Rhan 3: Manteision

348. Mae'r holl fanteision isod wedi'u cyfrifo dros gyfnod o 10 mlynedd (2015-2025), a defnyddir cyfradd disgownt o 3.5% ar eu cyfer (yn unol â chanllawiau Llyfr Gwyrdd y Trysorlys), a phrisiau lefel 2014 i'w cyflwyno.

Opsiwn 1 – Gwneud Dim (Opsiwn Sylfaenol) – Peidio â gwneud newidiadau i'r pwerau o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 fel eu bod yn parhau i fod yn berthnasol i fagiau siopa untro yn unig.

349. Opsiwn 1 yw'r gwaelodlin a ddefnyddir fel sail i asesu costau a manteision. Am y rheswm hwn, nid ydym yn cyflwyno costau a manteision Opsiwn 1, ond yn hytrach rydym yn cyflwyno costau a manteision Opsiynau 2-4v o gymharu ag Opsiwn 1.

350. Un fantais nad yw wedi'i mynegi mewn termau ariannol, ac sy'n debygol o fod yn debyg o dan bob un o'r opsiynau, yw'r effaith amgylcheddol o safbwynt goferu ymddygiad.

351. Mae 'goferu' ymddygiad yn digwydd mewn achosion lle y gall ymddygiad o blaid yr amgylchedd arwain at fanteision ychwanegol. Canfu Poortinga et al. (2013)[66] lefelau uwch o ymwybyddiaeth o wastraff/hunaniaeth amgylcheddol ar ôl i'r tâl am fagiau siopa untro gael ei gyflwyno yng Nghymru, a gall hyn arwain at benderfyniadau eraill sy'n ymwybodol o

[66] *Poortinga, W., Whitmarsh, L., & Suffolk, C. (2012). Evaluation of the introduction of the single-use carrier bag charge in Wales: attitudes change and behavioural spillover. Adroddiad i Lywodraeth Cymru, Mehefin 2012.*

wastraff yn yr hirdymor. Fodd bynnag, nid yw'n amlwg pa fantais ychwanegol a fyddai'n deillio o dâl am fagiau am oes ar ben y broses bresennol o oferu ymddygiad yn sgil cyflwyno tâl am fagiau siopa untro yn 2011. O ganlyniad, nid yw'r fantais hon wedi'i mynegi mewn termau ariannol ar gyfer yr opsiynau ar wahân.

352. Yn ogystal, mae'r broses o feithrin cysylltiadau rhwng manwerthwyr a sefydliadau elusennol yn arwain at fanteision nad ydynt wedi'u mynegi mewn termau ariannol yn y dadansoddiad hwn. Gall cysylltiad hirdymor annog manwerthwyr i ddarparu mathau eraill o fanteision i bartneriaid elusennol, gan gynnwys arbenigedd, amser gweithwyr cyflogedig, eitemau am ddim a marchnata am ddim ar gyfer yr elusen. Ni ddisgwylir y bydd y manteision ychwanegol posibl hyn yn amrywio'n sylweddol rhwng yr opsiynau gan fod y cysylltiadau wedi'u meithrin yn wreiddiol o ganlyniad i'r tâl am fagiau siopa untro a gyflwynwyd yn 2011.

Opsiwn 2 - Gwneud darpariaeth i alluogi'r rheoliadau i godi tâl isaf am fagiau deunydd plastig trwchus am oes yn ogystal â bagiau siopa untro.

Rhoddion Elusennol

353. Yn ôl gwaith ymchwil Ricardo-AEA, roedd y rhan fwyaf o fanwerthwyr yn rhoi 83% o'r tâl am fagiau siopa i elusennau, ac roedd yr 17% arall yn talu am TAW. Ar gyfartaledd, cafodd 82.5% o'r tâl ei roi i elusennau, ac roedd ystod y ganran yn amrywio o 71% i 100% yn achos un manwerthwr. Roedd y rhan fwyaf o fusnesau wedi rhannu'r rhoddion yn gyfartal rhwng dwy elusen neu fwy, ac roedd rhai yn defnyddio'r holl refeniw i gefnogi eu sefydliadau eu hunain. Yn ogystal, roedd y rhan fwyaf o elusennau sy'n derbyn rhoddion wedi'u lleoli yng Nghymru, a'r rhan fwyaf yn gwneud gwaith ym maes diogelu'r amgylchedd a chadwraeth.

354. Er mwyn amcangyfrif cyfanswm posibl y refeniw a roddwyd i elusennau o dan bob un o'r opsiynau uchod, rhagdybir bod 80% o fanwerthwyr yn rhoi 83% o'r tâl ychwanegol i elusennau. Hynny yw, byddai 83% o'r cynnydd ym mhris manwerthu pob math o fag ar ôl pennu tâl isaf yn cael ei roi i elusennau. Rhagdybir bod 20% o fanwerthwyr yn cadw'r refeniw iddyn nhw eu hunain yn hytrach na'i roi i elusennau. Fodd bynnag, mae dadansoddiad sensitifrwydd sy'n ystyried terfyn uchaf a therfyn isaf cyfran y tâl a roddir i elusennau yn cael ei archwilio yn yr adran 'Dadansoddiad o Ragdybiaethau, Risgiau a Sensitifrwydd' isod.

355. Mae cyfran y pris manwerthu a roddwyd i elusennau o dan bob tâl am bob math o fag o dan yr opsiynau gwahanol wedi'i nodi yn siart 'Y gwahaniaeth cyn ac ar ôl y tâl fesul bag yn ôl gweithredwr economaidd' uchod hefyd. Yn gyffredinol, amcangyfrifir y bydd rhoddion elusennol o dan Opsiwn 2 tua **£14.1 miliwn** (ar ôl disgownt) dros 10 mlynedd, ymylol i'r gwaelodlin. Cyfrifir hyn drwy gymhwyso lefelau galw drwg o dan yr opsiwn hwn i gyfran y pris manwerthu a roddwyd i elusennau ar gyfer pob math o fag.

Refeniw Treth

356. Cyfrifir y newid mewn refeniw treth o dan bob opsiwn drwy luosi cyfran dreth pris manwerthu terfynol pob math o fag â'r galw am bob math o fag, gyda'r gyfradd dreth yn 20%. O dan Opsiwn 2, amcangyfrifir y bydd y refeniw treth yn newid +£2.9 miliwn, gan arwain at fantais i'r canghellor.

Gwastraff – Gwaredu Gwastraff ac Ailgylchu

357. Er mwyn amcangyfrif costau gwastraff a gwaredu bagiau siopa, mae Ricardo-AEA wedi amcangyfrif cyfran y bagiau o bob math sy'n cael eu hailddefnyddio, yn seiliedig ar astudiaeth Exodus *(Behaviour Study on the Use and Reuse of Carrier Bags (2013)*. Mae cyfran y bagiau newydd, y bagiau a waredwyd a'r bagiau a ailgylchwyd yn seiliedig ar fewnbwn nifer o arbenigwyr gwastraff, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus, Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru, a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

358. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sawl gwaith y mae pob math o fag yn cael ei ddefnyddio ar gyfartaledd, a chyfran y bagiau newydd sy'n cael eu hailddefnyddio, eu hailgylchu, eu gwaredu a'u taflu.

Tabl 15: Sawl gwaith mae pob bag yn cael ei ddefnyddio ar gyfartaledd

Math o Fag	**Sawl gwaith y'u defnyddiwyd ar gyfartaledd**	**Cyfran a ailddefnyddiwyd**	**Cyfran a ailgylchwyd**	**Cyfran a waredwyd**	**Cyfran a daflwyd**
Bag siopa untro newydd	1.45	31%	23%	37%	9%
Bag papur newydd	1.00	0%	14%	5%	5%
Bag am oes 6c newydd	4.10	76%	2%	1%	1%
Bag am oes 36c newydd	29.00	97%	62%	19%	19%
Bag cotwm newydd	10.89	91%	5%	5%	2%

359. Nid yw bagiau papur yn addas i'w hailddefnyddio gan nad ydynt yn arbennig o gryf. Mae gan fagiau siopa untro rywfaint o werth ailddefnyddio, er enghraifft i leinio biniau. Mae gan fathau eraill o fagiau gyfradd ailddefnyddio cymharol uchel gan eu bod yn gryfach. Bagiau papur sy'n cael eu hailgylchu fwyaf, gan fod llawer o bobl yn gyfarwydd â phapur fel ffrwd wastraff y gellir ei hailgylchu.

Costau ailgylchu a chostau tirlenwi

360. Er mwyn amcangyfrif costau ailgylchu, mae Ricardo-AEA wedi defnyddio adroddiadau ar ffioedd gwastraff blynyddol Rhaglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP), gan fod Awdurdodau Lleol ac Archfarchnadoedd yn talu neu'n cael ad-daliad am bob tunnell o wastraff sy'n cael ei hanfon i gyfleusterau ailgylchu deunyddiau, gan ddibynnu ar gost bresennol y gweithgaredd ailbrosesu a gwerth y deunydd. Mae Ricardo-AEA wedi cyfrifo cost net fesul bag ar sail pwysau deunydd hysbys pob bag siopa, gan ddefnyddio'r gwerthoedd 'fesul tunnell' o adroddiadau WRAP i greu ffigur fesul bag. At ddibenion dadansoddi, rhagdybir y bydd ffigurau ffioedd gwastraff a gwaredu 2013/14 ar gyfer y DU yn aros yn gyson gydol cyfnod y dadansoddiad. Ar sail y ffigurau hyn, mae cost ailgylchu a gwaredu fesul bag (heb gynnwys refeniw o'r deunydd) wedi'i chyfrifo drwy ddefnyddio pwysau perthnasol y gwahanol fathau o fagiau.

361. Yn yr un ffordd, mae'r gost o waredu pob math o fag ar safle tirlenwi wedi'i chyfrifo drwy ddefnyddio ffioedd gwaredu. Nid yw'r gost dirlenwi fesul tunnell yn cynnwys treth dirlenwi, ac unwaith eto mae wedi'i chyfrifo fesul bag. Mae'r tabl isod yn dangos y costau ailgylchu a gwaredu sydd wedi'u cyfrifo gan Ricardo-AEA ar gyfer gwahanol fathau o fagiau.

Tabl 16: Costau ailgylchu a gwaredu

	£ fesul bag wedi'i chyfrifo yn flynyddol	
Math o fag:	**Ailgylchu 2013/14**	**Gwaredu 2013/14**
Bag siopa untro	0.01c	0.0c
Bag papur	0.05c	0.1c
Bag am oes 6c	0.03c	0.1c
Bag am oes 36c	0.1c	0.2c
Bag cotwm	0.16c	0.4c

362. Amcangyfrifir y bydd cyfanswm y costau gwaredu ac ailgylchu gwastraff ar gyfer Opsiwn 2 tua **£3,500** (ar ôl disgownt) dros 10 mlynedd, ymylol i'r gwaelodlin. Fel y gwelir, mae graddfa'r fantais hon yn fach o gymharu â chostau a manteision eraill sy'n cael eu cyflwyno yn y dadansoddiad hwn.

Effaith Amgylcheddol – Cyfanswm yr Effaith Amgylcheddol

363. Mae nifer o gostau amgylcheddol yn gysylltiedig â chynhyrchu a gwaredu bagiau siopa, gan gynnwys creu sbwriel, allyriadau carbon a llygredd aer. Mae'r costau hyn wedi'u cyfrifo gan Ricardo-AEA ac maent yn cael eu crynhoi yn y tabl isod:

Tabl 17: Crynodeb o'r costau amgylcheddol ar gyfer cynhyrchu a gwaredu bagiau siopa

Math o Fag Siopa	Effaith CO2	Ansawdd Aer	Cost Llygredd Dŵr	Cost sbwriel ar y tir	Cyfanswm y gost fesul bag	Sawl gwaith y defnyddir y bag ar gyfartaledd	Cyfanswm y gost fesul defnydd
Bag siopa untro	0.01c	0.02c	Dim gwerth ariannol	1.2c	1.23c	2.03	0.607c
Bag papur	0.03c	0.09c	Dim gwerth ariannol	0.2c	0.32c	2.60	0.123c
Bag am oes 6c	0.05c	0.08c	Dim gwerth ariannol	0.3c	0.43c	2.43	0.177c
Bag am oes 36c	0.13c	0.25c	Dim gwerth ariannol	0.1c	0.48c	5.80	0.083c
Bag cotwm	2.38c	9.99c	Dim gwerth ariannol	0.1c	12.47c	125.70	0.099c

364. Amcangyfrifir mai bagiau cotwm am oes sy'n cael yr effaith fwyaf ar yr amgylchedd, ac yna bagiau siopa untro. Wrth ystyried ailddefnyddio bagiau, bagiau siopa untro sy'n cael yr effaith fwyaf ar yr amgylchedd, ac yna bagiau LDPE a bagiau papur. Wrth ystyried ailddefnyddio, y bag cotwm sy'n fwyaf ecogyfeillgar.

Sbwriel sy'n deillio o Fagiau:

365. Mae Ricardo-AEA wedi defnyddio'r fformiwla ganlynol i amcangyfrif y gost o lanhau sbwriel sy'n deillio o fagiau:

A = Cyfanswm y deunydd gwastraff sbwriel "sy'n cael ei lanhau bob blwyddyn"
B = Cynnwys y gwastraff hwn a faint ohono a briodolir i fagiau plastig
C = Cyfanswm y gost flynyddol i Lywodraeth Cymru o lanhau'r deunydd gwastraff hwn (£70m)
A*B = cyfanswm y gwastraff bagiau siopa sy'n cael ei gasglu
A*C= y gost fesul tunnell o sbwriel sy'n cael ei gasglu (D)
D / (tunnell/uned o fagiau plastig) = cost unedol sbwriel fesul bag.

366. Mae cost yr amser sydd ei angen i gasglu'r gwastraff yn cael ei hychwanegu at hyn hefyd. Mae cost yr amser sydd ei angen i gasglu tunnell o wastraff ar gyfer mathau o fagiau trymach yn is gan fod angen llai o amser i gasglu pob tunnell.

Costau CO2:

367. Er mwyn amcangyfrif costau bagiau o safbwynt CO2, gellir defnyddio potensial cynhesu byd-eang pob math o fag ar y cyd â 'phris cysgodol'

carbon i bennu gwerth ariannol yr effeithiau carbon. Mae'r costau hyn yn ymwneud â chostau carbon sy'n deillio o echdynnu deunyddiau crai a phrosesu a gwaredu pob math o fag siopa. Mae effeithiau carbon y gwahanol fathau o fagiau yn seiliedig ar astudiaethau Dadansoddi Cylch Bywyd Asiantaeth yr Amgylchedd. Defnyddir gwerth carbon wedi'i fasnachu wedyn i bennu gwerth ariannol yr effeithiau carbon, yn unol â chanllawiau ategol yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd i Lyfr Gwyrdd Trysorlys Ei Mawrhydi.

Costau Ansawdd Aer:

368. Mae effeithiau ansawdd aer yn cyfeirio at y nwyddau, sy'n cael eu hallyrru yn ystod y gwaith cynhyrchu gan amlaf, sy'n cyfrannu at wenwyndra'r aer. Mae costau niweidio'r aer yn y canllawiau ategol i Lyfr Gwyrdd[67] Trysorlys Ei Mawrhydi wedi'u defnyddio i bennu gwerth allyriadau ocsid sylffwr sy'n cael ei ryddhau yn sgil cynhyrchu'r holl fathau o fagiau siopa yn y dadansoddiad.

Llygredd Dŵr

369. Oherwydd yr ansicrwydd ynglŷn â ffynonellau data, nid yw'r effaith ar ansawdd dŵr wedi'i hamcangyfrif. Fodd bynnag, mae'r effaith o gynnwys hyn wedi'i phrofi yn y dadansoddiad sensitifrwydd isod.

370. Yn gyffredinol, amcangyfrifir bod yr effeithiau amgylcheddol o dan Opsiwn 2 tua **£5.1 miliwn** (ar ôl disgownt) dros 10 mlynedd, ymylol i'r gwaelodlin.

Opsiwn 3 – Gwneud darpariaeth newydd i alluogi'r rheoliadau i godi'r un tâl isaf am fagiau amldro o bob math, gan gynnwys bagiau sy'n cael eu diffinio fel bagiau siopa untro ar hyn o bryd

Effeithiau ar Fusnesau yn sgil newid yn y galw

371. Mae'r manteision i fusnesau (gwneuthurwyr, cyfanwerthwyr a manwerthwyr) yn sgil newid yn y galw o dan Opsiwn 3 wedi'u hamcangyfrif yn yr un ffordd â'r costau. Mae gwybodaeth am sut mae'r costau a'r manteision hyn yn cael eu hamcangyfrif ar gael o dan Opsiwn 2 yn yr adran 'Costau'.

Refeniw Manwerthwyr

372. Mae Opsiwn 3 yn arwain at fantais i fanwerthwyr oherwydd cynnydd yn eu refeniw. Amcangyfrifir y bydd y fantais hon tua **£11.8 miliwn** (ar ôl disgownt) dros 10 mlynedd, o gymharu â'r gwaelodlin. Fodd bynnag, amcangyfrifir y bydd cyfanswm refeniw manwerthwr o dan yr gwaelodlin tua £49.9 miliwn, felly mae'r ffigur £1 miliwn ar gyfer Opsiwn 3 yn golygu cynnydd yn refeniw manwerthwyr o fwy na 23%.

[67] https://www.gov.uk/air-quality-economic-analysis

Rhoddion Elusennol

373. Mae'r un dull wedi'i ddefnyddio i gyfrifo rhoddion elusennol o dan Opsiwn 3 ac Opsiwn 2. Yn gyffredinol, amcangyfrifir y bydd rhoddion elusennol o dan Opsiwn 3 tua **£17.2 miliwn** (ar ôl disgownt) dros 10 mlynedd, ymylol i'r gwaelodlin. Unwaith eto, cyfrifir hyn drwy gymhwyso lefelau galw drwg o dan yr opsiwn hwn i gyfran y pris manwerthu a roddir i elusennau ar gyfer pob math o fag.

Refeniw Treth

374. Unwaith eto, cyfrifir y newid mewn refeniw treth o dan bob opsiwn drwy luosi cyfran dreth pris manwerthu terfynol pob math o fag â'r galw am bob math o fag, gyda'r gyfradd dreth yn 20%. O dan opsiwn 3, amcangyfrifir y bydd y refeniw treth yn newid +£5.0 miliwn, gan arwain at fantais i'r canghellor.

Gwastraff – Gwaredu ac Ailgylchu Gwastraff

375. Mae'r un dull wedi'i ddefnyddio i amcangyfrif costau gwaredu ac ailgylchu gwastraff o dan Opsiwn 3 ac Opsiwn 2. Yn gyffredinol, amcangyfrifir y bydd y costau hyn tua £3,400 (ar ôl disgownt) dros 10 mlynedd, ymylol i'r gwaelodlin. Unwaith eto, mae'r costau hyn yn fach o gymharu â'r costau a'r manteision eraill a gyflwynir yn y dadansoddiad.

Effaith Amgylcheddol – Cyfanswm yr Effaith Amgylcheddol

376. Mae'r un dull wedi'i ddefnyddio i amcangyfrif Effeithiau Amgylcheddol o dan Opsiwn 3 ac Opsiwn 2. Yn gyffredinol, amcangyfrifir y bydd y manteision amgylcheddol ychydig yn llai na'r manteision o dan Opsiwn 2, sef **£4.04 miliwn** (ar ôl disgownt) dros 10 mlynedd, ymylol i'r gwaelodlin.

Opsiwn 4 – Gwneud darpariaeth newydd i alluogi'r rheoliadau i bennu isafswm tâl gwahaniaethol am fathau gwahanol o fagiau amldro gan gynnwys bagiau siopa untro

377. Mae'r manteision i fusnesau (gwneuthurwyr, cyfanwerthwyr a manwerthwyr) ac i'r canghellor yn sgil newid yn y galw o dan Opsiwn 4 wedi'u hamcangyfrif yn yr un ffordd â'r costau. Mae gwybodaeth am sut mae'r costau a'r manteision hyn yn cael eu hamcangyfrif ar gael o dan Opsiwn 2 yn yr adran 'Costau'.

Refeniw Manwerthwyr

378. Mae'r graff isod yn dangos yr effaith ar refeniw manwerthwyr, o gymharu â'r opsiwn sylfaenol, o dan yr is-opsiynau 4i-4v. Ar gyfer pob is-opsiwn o dan Opsiwn 4, mae refeniw manwerthwyr yn cynyddu o gymharu â'r gwaelodlin.

379. Fel y gwelir yn graff 5 isod, mae'r effaith ar refeniw manwerthwyr yn amrywio o gynnydd o £12.1 miliwn i £37.7 miliwn (ar ôl disgownt) dros 10

mlynedd, ymylol i'r gwaelodlin. Mae graddfa'r manteision o gymharu â chostau'r gwaelodlin yn fwy yma nag ar gyfer gwneuthurwyr a manwerthwyr. Mae cyfanswm refeniw manwerthwyr o dan y gwaelodlin tua £49.9 miliwn, felly mae'r ffigurau isod yn cynrychioli effaith o rhwng +25% a +75% o gymharu â refeniw'r gwaelodlin.



Rhoddion Elusennol

380. Mae'r un dull wedi'i ddefnyddio i gyfrifo rhoddion elusennol o dan Opsiwn 4, Opsiwn 2 ac Opsiwn 3. Yn gyffredinol, amcangyfrifir y bydd rhoddion elusennol o dan Opsiwn 4 yn amrywio rhwng £20.2 miliwn a £66.8 miliwn (ar ôl disgownt) dros 10 mlynedd, o gymharu â'r gwaelodlin, fel y gwelir yn y tabl isod. Unwaith eto, cyfrifir hyn drwy gymhwyso lefelau'r galw am fagiau o dan yr opsiwn hwn i gyfran y pris manwerthu a roddir i elusennau ar gyfer pob math o fag.

381. Fel y gwelir yn graff 6 isod, mae lefel y rhoddion yn amrywio rhwng yr is-opsiynau. Mae hyn yn dibynnu ar y galw am fagiau ac ar lefel y tâl sy'n cael ei godi am bob math o fag. Er enghraifft, o dan Opsiwn 4iv, mae'r galw am fagiau am oes 6c a 36c yn llai na'r galw am y rhan fwyaf o'r opsiynau eraill, tra bod galw uchel am fagiau siopa untro a bagiau cotwm. Gan fod y symiau a roddir i elusennau yn isel ar gyfer bagiau siopa untro a bagiau cotwm, ac yn uwch ar gyfer bagiau am oes 6c a 36c, mae rhoddion cyffredinol i elusennau yn is o dan yr opsiwn hwn.



Total – Cyfanswm
Marginal – Ymylol

Refeniw Treth

382. Yn yr un modd ag Opsiwn 2 a 3, cyfrifir y newid mewn refeniw treth o dan bob opsiwn drwy luosi cyfran dreth pris manwerthu terfynol pob math o fag â'r galw am bob math o fag, gyda'r gyfradd dreth yn 20%. O dan Opsiwn 4 a'i is-opsiynau, amcangyfrifir y bydd y newid mewn refeniw treth yn amrywio o +£5.6 miliwn i +£19.2 miliwn, gan arwain at fantais i'r canghellor.



Gwastraff – Gwaredu ac Ailgylchu Gwastraff

383. Mae'r un dull wedi'i ddefnyddio i amcangyfrif costau gwaredu ac ailgylchu gwastraff o dan Opsiwn 4, Opsiwn 2 ac Opsiwn 3. Yn gyffredinol, amcangyfrifir y bydd y costau hyn rhwng £3,300 a £7,640 (ar ôl disgownt) dros 10 mlynedd, o gymharu â'r gwaelodlin, fel y gwelir yn graff 8 isod. Fel

sy'n wir am yr opsiynau eraill, mae'r costau hyn yn fach o gymharu â'r costau a'r manteision eraill a gyflwynir yn y dadansoddiad.



Effaith Amgylcheddol – Cyfanswm yr Effaith Amgylcheddol

384. Mae'r un dull wedi'i ddefnyddio i amcangyfrif Effeithiau Amgylcheddol o dan Opsiwn 4, a'i is-opsiynau, Opsiwn 2 ac Opsiwn 3. Yn gyffredinol, amcangyfrifir y bydd y manteision amgylcheddol rhwng **£4.1 miliwn ac £8.3 miliwn** (ar ôl disgownt) dros 10 mlynedd, o gymharu â'r gwaelodlin, fel y gwelir yn graff 9 isod.



Rhan 3: Crynodeb o’r opsiwn sy’n cael ei ffafrio



Net Present Value (£millions) – Gwerth Cyfredol Net (£miliynau)
Option – Opsiwn
Environmental impact – Effaith amgylcheddol
Waste management – Rheoli gwastraff
Consumer Expenditure – Gwariant Defnyddwyr
Tax Revenue – Refeniw o Drethi
Charitable donations – Rhoddion elusennol
Wholesale revenue – Refeniw i gyfanwerthwyr
Manufacturer revenue – Refeniw i wneuthurwyr
Retailer revenue – Refeniw i fanwerthwyr
Admin and enforcement – Gweinyddol a gorfodi
Net Present Value (NPV) – Gwerth Cyfredol Net



Net Present Value (£millions) – Gwerth Cyfredol Net (£miliynau)
Net Present Value (NPV) – Gwerth Cyfredol Net
Option – Opsiwn

Tabl 18: Crynodeb o gostau pob opsiwn

	Opsiwn							
£miliynau	1	2	3	4i	4ii	4iii	4iv	4v
Gweinyddu a gorfodi	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Refeniw manwerthwyr	0.0	5.7	11.8	12.1	13.4	37.7	28.6	20.5
Refeniw gwneuthurwyr	0.0	-4.7	-3.8	-3.9	-4.3	-8.2	-7.3	-5.9
Refeniw cyfanwerthwyr	0.0	-0.8	-0.2	-0.2	-0.5	0.1	0.4	-0.4
Rhoddion elusennol	0.0	14.1	17.2	20.2	33.5	66.8	27.0	41.8
Refeniw Treth	0.0	2.9	5.0	5.6	8.4	19.2	9.7	11.2
Effaith ar ddefnyddwyr	0.0	-17.2	-30.0	-33.8	-50.6	-115.5	-58.4	-67.2
Rheoli gwastraff	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Effaith amgylcheddol	0.0	5.1	4.0	4.1	4.6	8.3	7.2	6.1
Gwerth Cyfredol Net (NPV)	**0.0**	**5.1**	**4.0**	**4.1**	**4.6**	**8.3**	**7.2**	**6.1**

385. Mae graffiau 10 ac 11 a thabl 18 uchod yn dangos yn glir mai Opsiwn 4 yw'r opsiwn sydd â'r Gwerthoedd Presennol Net (manteision gwerth presennol llai'r costau gwerth presennol) mwyaf yn gyffredinol, a phe bai Rheoliadau'n cael eu gwneud, is-opsiwn 4iii fyddai'r system codi tâl a ffafrir ar hyn o bryd, gan mai'r opsiwn hwn sydd â'r Gwerth Cyfredol Net mwyaf yn gyffredinol. Mae'r taliadau/prisiau isaf arfaethedig o dan yr is-opsiwn hwn wedi'u cynnwys isod er gwybodaeth.

Tabl 19:

Math o fag	**Pris Manwerthu Gwreiddiol**	**Tâl Ychwanegol**	**Pris Manwerthu Isaf Newydd**
Bag siopa untro	5c	0c	5c
Bag papur	5c	0c	5c
Bag am oes 6c	6c	21c	27c
Bag am oes 36c	36c	63c	99c
Bag cotwm	£2.00	65c	£2.65

386. Ar sail y dadansoddiad, credwn mai Opsiwn 4 sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i fod yn fwyaf ymatebol i newidiadau yn ymddygiad defnyddwyr a newidiadau yn y galw am wahanol fathau o fagiau. Fel y dengys y dystiolaeth, gall ymddygiad defnyddwyr a'r galw am wahanol fathau o fagiau gael eu dylanwadu'n fawr gan y tâl unigol am bob math o fag, gyda'r galw yn dibynnu ar lastigedd y galw am bob math o fag (h.y. lefelau defnydd yn newid wrth i'r prisiau newid) a thrawslastigedd y galw (y galw am bob math o fag yn newid wrth i brisiau mathau eraill o fagiau newid). Gall yr opsiwn hwn fanteisio ar y cysylltiadau hyn mewn ffordd sy'n gallu arwain at lefel uwch o hyblygrwydd a manteision net o gymharu â'r opsiynau eraill.

387. Fodd bynnag, dylid nodi nad ydym yn bwriadu deddfu drwy'r Rheoliadau ar hyn o bryd; yn hytrach, rydym wedi manteisio ar y cyfle hwn i ymestyn y pwerau gwneud rheoliadau sydd eisoes yn bodoli o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 er mwyn sicrhau bod modd addasu'r system codi tâl bresennol mewn ffordd hyblyg ac wedi'i thargedu drwy ddefnyddio Rheoliadau os yw'r dystiolaeth yn y dyfodol yn dangos bod angen gwneud hynny.

388. Mae Opsiwn 4iii, a'r opsiynau eraill, wedi'u dadansoddi er mwyn dangos sut y gallem arfer y pwerau hyn drwy reoliadau. Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, mae'r dadansoddiad hwn wedi dangos y gallai newid y system codi tâl yn y modd hwn arwain at fwy o fanteision na chostau, ac y gallai Opsiwn 4iii arwain at y manteision net mwyaf o bosibl.

389. Pe bai'r pwerau'n cael eu gweithredu drwy'r Rheoliadau maes o law, dylid nodi y byddai angen cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn a manwl ar gyfer pob un o'r opsiynau sydd ar gael i Weinidogion Cymru, ac y gallai'r canfyddiadau fod yn wahanol i'r canfyddiadau a gyflwynwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn o safbwynt costau a manteision systemau codi tâl gwahanol.

390. Mae Graff 12 isod (Crynodeb o Opsiwn 4iii) yn cynnwys canlyniadau'r dadansoddiad ar gyfer yr opsiwn sydd â'r Gwerth Cyfredol Net mwyaf (Opsiwn 4iii). Mae canlyniadau'r profion sensitifrwydd wedi'u cynnwys ar gyfer yr opsiwn hefyd, fel bod modd gweld effaith rhagdybiaethau a gwerthoedd mewnbwn gwahanol. Mae manylion y profion sensitifrwydd a gwblhawyd wedi'u nodi isod.

391. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, ein hunig fwriad yw ceisio ymestyn y pwerau gwneud rheoliadau presennol o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 fel y gall Gweinidogion Cymru godi tâl am wahanol fathau o fagiau amldro os yw'r dystiolaeth yn y dyfodol yn dangos bod angen gwneud hynny. Mae Opsiwn 4iii, a'r opsiynau eraill, wedi'u dadansoddi er mwyn dangos y gallai'r cyfryw newidiadau i'r system codi tâl arwain at fwy o fanteision na chostau.



Central – Canolig
Low – Isel
High – Uchel
100% Permanent – 100% Parhaol
100% SUCB – 100% Bag siopa untro
100% Cotton Bag – 100% Bag Cotwm

Rhan 3: Costau a manteision allweddol yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio

392. Mae'r tabl isod yn dangos costau a manteision allweddol Opsiwn 4iii o dan yr achos canolog a'r profion sensitifrwydd. Mae'r opsiwn hwn yn arwain at y Gwerth Cyfredol Net mwyaf, ac mae canlyniad y dadansoddiad sensitifrwydd yn gadarnhaol at ei gilydd. Mae'r Gwerth Cyfredol Net mwyaf ar gyfer Opsiwn 4iii i'w briodoli i ostyngiad mawr yn y galw am fagiau am oes 6c. Mae newid o fagiau am oes 6c tuag at fathau eraill o fagiau, gan gynnwys bagiau parhaol, yn lleihau costau amgylcheddol yn sylweddol. Mae'r gostyngiad mawr hwn yn lleihau costau amgylcheddol yn sylweddol.

393. Fodd bynnag, er bod y dadansoddiad hwn yn dangos y byddai manteision newid y system codi tâl am fagiau yn fwy na'r costau mewn rhai amgylchiadau, dylid nodi ein bod ni ond yn ceisio pwerau ar hyn o bryd a fyddai'n caniatáu i Weinidogion Cymru godi tâl am fathau gwahanol o fagiau amldro, yn ychwanegol at y tâl am fagiau siopa untro, os yw'r dystiolaeth yn y dyfodol yn dangos bod angen gwneud hynny. Nid deddfu yn ddiangen a chyflwyno'r taliadau/prisiau isaf a ddadansoddwyd uchod yw ein bwriad, ond yn hytrach sicrhau bod gan Weinidogion Cymru'r hyblygrwydd i addasu'r system codi tâl drwy'r Rheoliadau yn y dyfodol os yw'r dystiolaeth yn dangos bod angen gwneud hynny. Ar yr adeg honno, byddai Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn a manwl yn cael ei gwblhau ar gyfer pob opsiwn sydd ar gael i Weinidogion Cymru.

Tabl 20: Canlyniadau Dadansoddiad yr Opsiwn sy'n cael ei Ffafrio (Opsiwn 4iii) – Ymylol i'r Gwaelodlin (£miliwn)

Senario:	**A**	**B**	**C**	**D**	**E**	**F**
Gwerth Cyfredol Net	8.3	7.0	9.1	21.2	8.5	-19.6
Costau Gweinyddu a Gorfodi	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Refeniw Manwerthwyr	37.7	32.9	40.7	8.3	10.9	144.6
Refeniw Gwneuthurwyr	-8.2	-6.8	-9.2	-19.1	-15.7	17.6
Refeniw Cyfanwerthwyr	0.1	-0.2	0.3	-4.8	0.9	12.1
Rhoddion Elusennol	66.8	73.7	62.4	42.9	89.2	89.6
Refeniw Treth	19.2	19.9	18.8	5.5	17.1	52.8
Effaith ar Ddefnyddwyr	-115.5	-119.5	-113.1	-32.7	-102.5	-316.8
Costau Rheoli Gwastraff	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Effaith Amgylcheddol	8.3	7.0	9.1	21.2	8.5	-19.6

A = Achos Sylfaenol, B = Lastigedd Isel, C = Lastigedd Uchel, D = = Trawslastigedd - Newid 100% i Fagiau Parhaol, E = Trawslastigedd - Newid 100% i Fagiau Siopa Untro, F = Trawslastigedd - Newid 100% i Fagiau Cotwm

Rhan 3: Dadansoddiad o Ragdybiaethau, Risgiau a Sensitifrwydd

394. Oherwydd y prinder data sydd ar gael a'r rhagdybiaethau uchod, mae profion sensitifrwydd wedi'u cynnal ar yr opsiynau uchod. Mae dadansoddiad sensitifrwydd yn archwilio sut mae newidiadau mewn newidynnau gwahanol yn debygol o effeithio ar ganlyniad opsiynau penodol. Mae hyn yn bwysig wrth geisio deall ym mha ffordd y mae newidynnau a rhagdybiaethau penodol yn cyfrannu tuag at amcangyfrifon o'r costau a'r manteision terfynol.

395. Mae'r profion sensitifrwydd wedi canolbwyntio ar y meysydd canlynol:
    - Y Galw am Fagiau
    - Lastigedd Pris y Galw
    - Trawslastigedd y Galw
    - Cyfraniad Elusennol Fesul Bag sy'n cael ei Werthu
    - Effeithiau ar Ansawdd Dŵr

<u>Y Galw am Fagiau</u>

396. Oherwydd prinder data ar y galw cyffredinol am fagiau siopa yng Nghymru, roedd rhaid amcangyfrif y ffigur hwn. I wneud hyn, defnyddiwyd data WRAP ar y galw am fagiau siopa untro yn siopau bwyd y prif siopau cadwyn, yn ogystal â data yn deillio o astudiaeth gan Exodus. Roedd yr astudiaeth hon *(Behaviour Study on the Use and Reuse of Carrier Bags (2013))* yn monitro'r defnydd o nifer o fathau gwahanol o fagiau gan 4884 o gwsmeriaid mewn siopau cadwyn bwyd, siopau bwyd nad oeddent yn siopau cadwyn a siopau annibynnol.

397. Amcangyfrifwyd bod y galw am fagiau siopa untro yn y prif siopau cadwyn tua 70 miliwn yng Nghymru yn 2013. Mae'r tabl a'r graffiau isod yn dangos cyfrannau'r sectorau ar gyfer y galw am fagiau siopa untro a chyfrannau'r mathau o fagiau yng nghyfanswm y galw am fagiau, a ddefnyddiwyd i amcangyfrif y galw cyffredinol am fagiau.

Tabl 21: Cyfrannau sectorol yn y galw am fagiau siopa untro a chyfrannau mathau o fagiau yng nghyfanswm y galw am fagiau.

Math o Siop	**Nifer y bagiau siopau untro a nodwyd yn astudiaeth Exodus**	**Cyfran y Cyfanswm**
Siopau cadwyn bwyd	4108	76.05%
Siopau bwyd nad ydynt yn perthyn i gadwyn	773	14.31%
Siop annibynnol	520	9.62%



Graff 13 - Cyfran Bagiau yn ôl Math o Fagiau:

398. Er mwyn amcangyfrif y galw am fagiau, cyflwynwyd data WRAP ar y galw am fagiau siopa untro yn y prif siopau cadwyn ar yr un raddfa â'r data ar y galw am fagiau siopa untro fesul sector drwy ddefnyddio cyfrannau mathau o fagiau Exodus. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod yr amcangyfrif o gyfanswm y bagiau yn rhy isel gan na chafodd rhai manwerthwyr eraill o'r prif siopau bwyd a siopau bwyd bach eu cynnwys yn nata WRAP. Fodd bynnag, nid yw'r amcangyfrif isel o'r galw am fagiau yn broblem fawr, gan ei fod yn arwain at ffigurau Gwerth Cyfredol Net mwy ceidwadol yn hytrach na ffigurau mwy optimistaidd.

399. Mae'r graff canlynol yn dangos sut mae'r ffigurau uchod wedi'u cyfuno ar gyfer 2013.



Permanent – Parhaol
Cardboard box – Bocs cardbord
Reused cloth BFL – Bag defnydd am oes a ailddefnyddiwyd
New cloth BFL – Bag defnydd am oes newydd
Reused 36p BFL – Bag am oes 36c a ailddefnyddiwyd
New 36p BFL – Bag am oes 36c newydd
Reused BFL 6p – Bag am oes 6c a ailddefnyddiwyd
New 6p BFL – Bag am oes 6c newydd
New paper – Bag papur newydd
Reused SUCB – Bag siopa untro a ailddefnyddiwyd
Food Chain SUCB Demand – Y galw am fagiau siopa untro mewn siopau cadwyn bwyd
SUCB Demand scaled up to sector – Y galw am fagiau siopa untro fesul sector
Total Demand scaled up by Bag Type – Cyfanswm y galw fesul mathau o fagiau

400. Rhagdybir wedyn y bydd y ffigurau hyn yn cynyddu ar yr un raddfa â'r twf cynnyrch domestig gros (GDP) amcangyfrifedig[68] hyd at 2025, felly mae'r galw cyffredinol am fagiau yn edrych yn debyg i'r isod:

[68] *http://budgetresponsibility.org.uk/category/topics/economic-forecasts/ rhagdybir twf o 2.5% ar ôl 2018*



Forecast bag use (millions) – Amcangyfrif o'r defnydd o fagiau (miliynau)
Permanent – Parhaol
Cardboard box – Bocs cardbord
Reused cloth BFL – Bag defnydd am oes a ailddefnyddiwyd
New cloth BFL – Bag defnydd am oes newydd
Reused 36p BFL – Bag am oes 36c a ailddefnyddiwyd
New 36p BFL – Bag am oes 36c newydd
Reused BFL 6p – Bag am oes 6c a ailddefnyddiwyd
New 6p BFL – Bag am oes 6c newydd
New paper – Bag papur newydd
Reused SUCB – Bag siopa untro a ailddefnyddiwyd
New SUCB – Bag siopau untro newydd

401. Fodd bynnag, mae'r ffaith nad oes data ar gael ar y galw am fagiau plastig ar gyfer yr holl sector bwyd wedi'i chydnabod hefyd. Yn benodol, nid oes unrhyw ddata ar gael ar y galw am fagiau plastig yn y sector tecawé. Mae Llyfr Poced Ystadegau Bwyd Defra wedi amcangyfrif bod gwariant defnyddwyr ar arlwyo yn 55% o wariant defnyddwyr ar siopa bwyd a diod. Yn ogystal, mae data WRAP ar fagiau siopa ond yn cynnwys tua 80% o farchnad y prif siopau cadwyn bwyd. Felly, fel amcangyfrif uchaf, mae effaith cynnydd o 55% yn y galw am fagiau wedi'i harchwilio o dan ddadansoddiad sensitifrwydd. Mae'r cynnydd hwn yn debygol o oramcangyfrif nifer y bagiau yn y sector arlwyo, gan y bydd yr un lefel o wariant yn y diwydiant arlwyo yn prynu cyfaint is o nwyddau, sy'n golygu bod angen llai o fagiau ac nad oes angen bag plastig bob tro. Yn ogystal, mae rhai bagiau siopa yn y sector hwn wedi'u heithrio o'r tâl. Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd wedi dangos nad yw'r cynnydd yn y galw am fagiau yn effeithio ar sgoriau'r opsiynau uchod, gan fod y cynnydd yn y galw am fagiau yn effeithio ar bob opsiwn yn yr un ffordd. Fodd bynnag, mae maint y costau a'r manteision yn cynyddu o dan y prawf sensitifrwydd hwn.

<u>Lastigedd Pris y Galw</u>

402. Lastigedd pris y galw yw'r graddau y mae galw am gynnyrch yn newid mewn ymateb i newid yn ei bris. Er mwyn amcangyfrif y newid yn y galw am bob math o fag o dan bob un o'r opsiynau, roedd angen amcangyfrif sut mae'r galw yn newid mewn ymateb i newidiadau yn y pris.

403. Amcangyfrifwyd lastigeddau pris y galw ar sail atchweliadau cyflym dau bwynt (gwelir y siartiau isod). Ar gyfer bagiau siopa untro, y pwynt cyntaf yw amcangyfrif o'r galw presennol am fagiau 5c, a'r ail bwynt yw amcangyfrif o'r galw pe na bai'r tâl 5c ar waith. Amcangyfrifir hyn drwy ragdybio y byddai'r galw am fagiau siopa wedi cynyddu ar lefel twf GDP pe na bai'r tâl am fagiau siopa untro ar waith. Ar gyfer y mathau eraill o fagiau, mae'r pwynt cyntaf wedi defnyddio data ar alw presennol lle nad oes unrhyw dâl, ac mae'r ail bwynt yn ostyngiad tybiedig yng nghanran y galw yn dilyn cynnydd o bum ceiniog.

404. Gan fod canlyniadau'r dadansoddiad hwn yn dibynnu ar y newid yn y galw am bob math o fag, mae dadansoddiad sensitifrwydd wedi'i gynnal o lastigedd pris y galw am fagiau am oes 6c, bagiau am oes 36c a bagiau cotwm. Mae'r tabl isod yn dangos sut y pennwyd amcangyfrifon isel, canolig ac uchel ar gyfer y galw am bob math o fag, ac mae'r graffiau canlynol yn dangos y cromlinau galw gwrthdro ar gyfer y lastigeddau hyn.

Tabl 22: Amcangyfrif o lastigedd pris y galw yn ôl math o fag

Bag	**Pris Gwreiddiol**	**Pris ar ôl y Tâl 5c**	**% Newid yn y Pris**	**% Newid yn y Galw**
Bag siopa untro	0c	5c	Amherthnasol	-80%
Bag am oes 6c	6c	11c	45%	Isel -20%
				Canolig -30%
				Uchel -40%
Bag am oes 36c	36c	41c	13%	Isel -5%
				Canolig -10%
				Uchel -15%
Bag cotwm	£2.00	£2.05	2.5%	Isel 0%
				Canolig -0.5%
				Uchel -1%

405. Rhagdybir bod bagiau am oes 6c yn llai elastig na bagiau siopa untro. Rhagdybir bod defnyddwyr sy'n prynu bag am oes 36c yn gwneud ymdrech ymwybodol i hepgor opsiynau rhatach. Rhagdybir mai bagiau cotwm yw'r rhai lleiaf elastig, gan fod y rhai sy'n prynu bagiau am oes wedi eu gwneud o ddefnydd yn hepgor opsiynau rhatach oherwydd y manteision amgylcheddol/cymdeithasol tybiedig.



Bag demand (billions) – Y galw am fagiau (biliynau)
Retail (or minimum) price of bag (£) – Pris manwerthu (neu sylfaenol) bag (£)
Low – Isel
Medium – Canolig
High – Uchel



Bag demand (billions) – Y galw am fagiau (biliynau)
Retail (or minimum) price of bag (£) – Pris manwerthu (neu sylfaenol) bag (£)
Low – Isel
Medium – Canolig
High – Uchel





Bag demand (billions) – Y galw am fagiau (biliynau)
Retail (or minimum) price of bag (£) – Pris manwerthu (neu sylfaenol) bag (£)
Low – Isel
Medium – Canolig
High – Uchel

406. Fel y gwelir yn graff 19 isod, mae Gwerthoedd Presennol Net yr opsiynau yn amrywio ychydig mewn sefyllfaoedd lastigedd isel, canolig ac uchel. Fodd bynnag, nid yw sgoriau'r opsiynau yn newid yn sylweddol, ac Opsiwn 4iii yw'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio o hyd. Roedd sgoriau rhai o'r opsiynau eraill, fel Opsiwn 2 er enghraifft, yn uwch mewn sefyllfaoedd lastigedd uchel ac isel, tra bod sgoriau eraill ychydig yn is. Dylid nodi bod pob un o'r opsiynau yn gadarnhaol o gymharu â'r gwaelodlin, sy'n dangos bod manteision systemau codi tâl amrywiol yn debygol o ragori ar y costau.

407. Yn gyffredinol, mae cromlinau galw mwy elastig (hynny yw, pan fydd y newid yn y galw mewn ymateb i newid yn y pris yn gryfach) yn arwain at fwy o fanteision. Mae'n debyg bod hyn yn digwydd am fod y galw am fathau o fagiau yn lleihau pan fydd y galw yn fwy elastig, felly mae mwy o'r galw am fagiau siopa yn symud i fagiau sydd â rhagor o fanteision amgylcheddol. Mae hyn yn arwain at ragor o fanteision yn gyffredinol.



Low – Isel
Medium – Canolig
High - Uchel

<u>Trawslastigedd Pris y Galw</u>

408. Mae trawslastigedd y galw yn mesur ymatebolrwydd y galw am un cynnyrch yn sgil newid ym mhris cynnyrch arall. Er enghraifft, y posibilrwydd y gall y galw am fagiau siopa untro newid yn sgil cynnydd ym mhris bagiau am oes, gan arwain at rai cwsmeriaid yn newid yn ôl i ddefnyddio bagiau siopa untro.

409. Er mwyn cwblhau'r dadansoddiad uchod, gwnaed rhai rhagdybiaethau ynglŷn â sut mae'r galw am wahanol fathau o fagiau yn newid (neu pa fathau o fagiau sy'n gweld cynnydd yn y galw amdanynt) yn sgil tâl ar fath arall o fag. Er mwyn amcangyfrif hyn, edrychodd Ricardo-AEA ar gapasiti cario a defnydd cyfartalog gwahanol fathau o fagiau, a sut y gallai capasiti cario gael ei drosglwyddo o un math o fag i fath arall.

410. Mae'r tabl isod yn dangos sut y trosglwyddir capasiti bagiau siopa sydd wedi'i golli i fathau eraill o fagiau. Ar ôl cyfrifo'r capasiti hwn, fe'i mynegir yn ôl nifer y mathau o fagiau.

Tabl 23: Cyfran y capasiti a drosglwyddir i fagiau eraill, yn ôl math o fag

Math o fag a ddisodlir:	Newid i fagiau parhaol	Newid i fagiau siopa untro	Newid i fag am oes 6c	Newid i fag am oes 36c	Newid i fag cotwm
Bag am oes 6c	50%	25%	Amherthnasol	20%	5%
Bag am oes 36c	10%	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol	90%
Bag cotwm	10%	Amherthnasol	Amherthnasol	90%	Amherthnasol

411. Gallai nifer o gyfuniadau o drawslastigeddau gael eu profi yn y dadansoddiad. Oherwydd hyn, mae tair senario eithaf wedi'u profi, fel a ganlyn:
    - Newid 100% i ddefnyddio bagiau parhaol – dyma fyddai'n arwain at y proffidioldeb lleiaf i fusnesau.
    - Newid 100% i fagiau siopa untro – bagiau siopa untro sydd â'r cynaliadwyedd amgylcheddol isaf fesul bag a ddefnyddir.
    - Newid 100% i fagiau cotwm am oes – bagiau cotwm am oes sy'n cynnig proffidioldeb gorau i fusnesau.

412. Fel y dengys graff 20 isod, dangosodd y profion hyn fod y canlyniadau a threfn y canlyniadau yn sensitif i newidiadau mawr yn y rhagdybiaethau trawslastigedd. Mae ffigurau'r Gwerth Cyfredol Net yn benodol yn cynyddu wrth i fwy o bobl newid i fagiau parhaol, gan fod y bagiau hyn yn llai niweidiol i'r amgylchedd. Yn yr un modd, gall y ffaith fod mwy o bobl yn newid i fagiau cotwm olygu bod ffigurau'r Gwerth Cyfredol Net yn negyddol, gan fod cost amgylcheddol y bagiau hyn yn uwch. Byddai ffigurau'r Gwerth Cyfredol Net yn sgil cynnydd yn y defnydd o fagiau siopa untro ychydig yn waeth na'r ffigurau yn ein hachos canolog.



Central – Canolig 100% to permanent – 100% i barhaol 100% to SUCB – 100% i fag siopa untro 100% to cotton bag – 100% i fag cotwm

Cyfraniad Elusennol fesul bag a werthir

413. Rhagdybir y bydd 83% o'r 'tâl' (h.y. y cynnydd X ceiniog o'r pris manwerthu gwreiddiol i'r pris manwerthu isaf newydd) ar bob math o fag yn cael ei roi i elusen o dan y model. Mae'r rhagdybiaeth hon yn seiliedig ar astudiaeth ddesg o 12 manwerthwr mawr, a ddangosodd fod 83% o'r refeniw a godir o daliadau am fagiau siopa yn cael ei roi i elusennau ar gyfartaledd, a'r ffigur isaf oedd 71%. Rhagdybir hefyd y bydd 80% o fanwerthwyr yn rhoi i elusennau, gyda'r 20% arall yn cadw'r refeniw iddyn nhw eu hunain.

414. Cwblhawyd profion sensitifrwydd ar gyfran y taliadau a roddir i elusennau, gan ddefnyddio terfyn is o 71% a therfyn uwch o 100%.

415. Fel y dangosir yn graffiau 21 a 22 isod, mae Gwerthoedd Presennol Net yn aros yn ddigyfnewid ar gyfer pob Opsiwn, fel sy'n digwydd yn y senario ganolig. Yn hytrach, mae gwahanol symiau o refeniw yn mynd i fanwerthwyr ac elusennau o gymharu â'r achos canolig.





Retailer Revenue – Refeniw i Fanwerthwyr
Charitable Donations – Rhoddion Elusennol

Effeithiau ar Ansawdd Dŵr

416. Nid yw'r effaith ar ansawdd dŵr wedi'i mynegi mewn termau ariannol yn y dadansoddiad hwn. Fodd bynnag, ni ragwelir y byddai cynnwys effeithiau ar ddŵr yn gwneud unrhyw wahaniaeth i drefn yr opsiynau a ffafrir. Y rheswm am hyn yw bod cost ansawdd dŵr bagiau yn debygol o fod yn isel - er enghraifft, 0.03c fesul bag siopa untro.

Rhan 3: Cwmpas yr enillion net

417. Diben y cynnig hwn yw gosod dyletswydd ar werthwyr i roi'r elw net o'r tâl am fagiau siopa at achosion da fel y nodir yn y Rheoliadau. Bydd y cynnig hwn hefyd yn dileu'r cyfyngiad ym mharagraff 4A o Atodlen 6 i Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 fel na fydd y gwerthwyr yn cael eu cyfyngu i roi'r enillion net hynny i achosion da amgylcheddol yn unig. O ganlyniad, ni fydd y gwerthwyr hynny sy'n rhoi enillion net y tâl ar hyn o bryd i achosion da nad ydynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd yn cael eu heffeithio gan na fydd angen iddynt newid eu trefniadau presennol gyda'r achos da o'u dewis

418. At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae'n bwysig nodi bod pob un o'r opsiynau isod yn cael eu harchwilio o dan y system codi tâl bresennol, tra bod tâl o bum ceiniog yn berthnasol i fagiau siopa untro.

Opsiwn A - 'Gwneud Dim' (Opsiwn Gwaelodlin) – Cadw'r pŵer presennol ym mharagraff 4A o Atodlen 6 i'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd ac yn Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 fel y maent ar hyn o bryd

419. Byddai'r pŵer ym mharagraff 4A yn aros yn Atodlen 6 ond ni fyddai'n cael ei arfer. Byddai Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 yn parhau i fod yn berthnasol fel ar hyn o bryd, a byddai Gweinidogion

Cymru yn dibynnu ar gytundebau gwirfoddol â'r manwerthwyr i'w hannog i roi enillion net o'r gwerthiant i achosion da. Defnyddir y gwaelodlin hwn i gymharu'r opsiynau 'ymyrryd' eraill. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at unrhyw gostau neu fanteision ychwanegol.

Opsiwn B – Dibynnu ar y pŵer presennol o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 i ddiwygio Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010.

420. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu bod y Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i bob manwerthwr roi enillion net y tâl i achosion da amgylcheddol yn unig. Y gwahaniaeth rhwng yr Opsiwn hwn ac Opsiwn A yw'r ffaith y byddai'r pŵer ym mharagraff 4A sy'n ei gwneud yn ofynnol i roi enillion net i achosion da amgylcheddol yn cael ei arfer.

Opsiwn C (Yr Opsiwn sy'n cael ei Ffafrio) – Diwygio'r pŵer presennol o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 fel y gall rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i enillion net y tâl gael eu rhoi i unrhyw achosion da ac wedyn dibynnu ar y pŵer hwnnw i ddiwygio Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010.

421. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu y byddai manwerthwyr yn ddarostyngedig i ddyletswydd i roi enillion net y tâl i unrhyw achos da fel y nodir yn y Rheoliadau. Byddai'r ddyletswydd hon yn darparu ar gyfer dull tryloyw a chyson ledled Cymru ac yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddefnyddio'r Rheoliadau i arfer y pŵer newydd heb amharu ar y berthynas sydd eisoes wedi'i sefydlu o bosibl rhwng manwerthwyr a'r achosion da o'u dewis. O ganlyniad, ni fyddai gwerthwyr yn gallu cadw enillion y tâl trwy optio allan o'r cytundeb gwirfoddol presennol, a dim ond y gwerthwyr hynny nad ydynt yn rhoi enillion net y tâl i achosion da ar hyn o bryd fyddai'n cael eu heffeithio.

422. Yn wahanol i Opsiwn B, o dan yr opsiwn hwn byddai'r gwerthwyr yn gallu rhoi eu henillion net i unrhyw achos da yn hytrach nag i achosion da amgylcheddol yn unig.

Opsiwn D – Diwygio'r pŵer presennol o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 fel y gall y rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i werthwyr roi enillion net y tâl i unrhyw achosion da ond peidio ag arfer y pŵer i ddiwygio Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010.

423. O gymharu ag Opsiwn A, mae'r Opsiwn hwn yn newid y pwerau presennol gan ganiatáu i werthwyr roi i achosion nad ydynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd yn ogystal ag i achosion da amgylcheddol. Fel gydag Opsiwn A, ni fydd hyn yn golygu arfer y pŵer yn y Rheoliadau mewn gwirionedd.

424. Mae'r opsiwn hwn yn cyfateb i Opsiwn C, ond ni fyddai'n diwygio'r Rheoliadau. Hynny yw, byddai'n seiliedig ar gytundeb gwirfoddol.

Rhan 3: Costau

425. Mae'r bennod hon yn cynnwys dadansoddiad cost a manteision o bob un o'r opsiynau a gyflwynir i ddarparu ar gyfer dileu'r cyfyngiad ym mharagraff 4A o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 fel na fydd gwerthwyr yn cael eu cyfyngu i roi enillion net i achosion da amgylcheddol yn unig pan fydd Gweinidogion Cymru yn gwneud darpariaeth mewn rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i werthwyr roi enillion net y tâl i elusennau. Mae dadansoddiad y cynnig hwn yn archwilio sut y gallai'r holl roddion elusennol amrywio rhwng elusennau amgylcheddol a rhai nad ydynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd o dan nifer o opsiynau a sefyllfaoedd codi tâl.

Opsiwn A - 'Gwneud Dim' (Opsiwn Gwaelodlin) – Cadw'r pŵer presennol ym mharagraff 4A o Atodlen 6 i'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd ac yn Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 fel y maent ar hyn o bryd.

426. Opsiwn A yw'r gwaelodlin a ddefnyddir i asesu costau a manteision. Am y rheswm hwn, nid ydym yn cyflwyno costau a manteision Opsiwn A, ond yn hytrach costau a manteision Opsiynau B, C a D o gymharu ag Opsiwn A.

Opsiwn B – Dibynnu ar y pŵer presennol o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 i ddiwygio Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010.

Costau busnes

427. Mae'n bosibl y bydd Opsiwn B yn arwain at gynnydd mewn costau busnes, gan y bydd nifer y busnesau sy'n rhoi eu henillion yn cynyddu o dan gytundeb gorfodol. Amcangyfrifodd Asesiad Effaith Rheoleiddiol Mesur Gwastraff Cymru 2010 y gallai gorfodi dyletswydd o'r fath ar fanwerthwyr gostio £505,000 y flwyddyn. Mae hyn yn seiliedig ar 'enillion' ddwywaith y flwyddyn ar gost o £15 i bob manwerthwr mawr a £30 i bob manwerthwr bach fesul enillion. Fodd bynnag, gan ein bod yn credu bod cyfran uchel o fanwerthwyr eisoes yn rhoi i elusennau (amcangyfrifir bod 80% ohonynt yn gwneud hynny at ddibenion y dadansoddiad hwn), bydd y costau busnes yn is yn y cyswllt hwn. Os ydym yn rhagdybio y bydd cyfran y manwerthwyr sy'n rhoi i elusennau yn cynyddu o 80% i 100% o dan Opsiynau B, gallwn amcangyfrif cynnydd mewn costau (20% x £505,000) = £101,000 y flwyddyn. Gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt o 3.5% dros 10 mlynedd, cyfanswm y costau busnes ar ôl disgownt o dan Opsiynau B fydd **£795,000**.

Costau Monitro a Gorfodi

428. Mae'n bosibl y bydd Opsiwn B yn arwain at gynnydd mewn costau monitro a gorfodi yn sgil cyflwyno cytundeb gorfodol. Roedd Asesiad Effaith Rheoleiddiol Mesur Gwastraff Cymru 2010 yn amcangyfrif y byddai costau monitro a gorfodi'r cytundeb yn gyfwerth â 5% o weithiwr cyflogedig cyfwerth ag amser llawn ym mhob awdurdod lleol, sef cyfanswm o £44,000 y flwyddyn. Mae'n bosibl y bydd costau cyfathrebu £40,000 yn y flwyddyn gyntaf hefyd. Gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt o 3.5% dros 10 mlynedd,

y gost ar ôl disgownt fydd £386,000. Llywodraeth Cymru fydd yn talu'r £40,000 ar gyfer y costau cyfathrebu, gydag Awdurdodau Lleol yn talu'r £44,000 y flwyddyn sy'n weddill.

Gostyngiad yn y refeniw a roddir i elusennau amgylcheddol

429. Rhagdybir y bydd cyfraddau cyfranogi yn cynyddu o dan Opsiwn B ac y bydd pob manwerthwr yn cyfrannu neu'n wynebu camau gorfodi gan safonau masnach. Cyfrifir cyfran gyfartalog y tâl a roddir wedyn ar sail y gyfradd gyfranogi hon a chanran y tâl a roddir mewn gwirionedd. Ar gyfer Opsiwn B, cyfrifir hyn fel 83% x 100% = 83% o gymharu ag 80% x 83% = 66% o dan y gwaelodlin. Mae'r cynnydd hwn yng nghyfran gyfartalog y tâl a roddir yn golygu bod mwy o refeniw yn cael ei roi i elusennau o gymharu â'r gwaelodlin.

430. Fodd bynnag, o dan Opsiwn B rhagdybir bod yr holl refeniw a roddir yn mynd at elusennau amgylcheddol yn unol â'r gofynion, felly cyfran y refeniw a roddir i elusennau nad ydynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd yw 0%. Yn gyffredinol, mae hyn yn golygu bod cyfanswm y refeniw a roddir i elusennau nad ydynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd yn lleihau o gymharu â'r gwaelodlin. Amcangyfrifir y bydd hyn tua **£7.0 miliwn**, ar ôl disgownt dros 10 mlynedd.

Opsiwn C (Yr Opsiwn sy'n cael ei Ffafrio) – Diwygio'r pŵer presennol o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 fel y gall rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i enillion net y tâl gael eu rhoi i unrhyw achosion da ac wedyn dibynnu ar y pŵer hwnnw i ddiwygio Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010.

Costau Busnes

431. Fel gydag Opsiwn B, mae'n bosibl y bydd Opsiwn C yn arwain at gostau busnes uwch, gan y bydd nifer y busnesau sy'n rhoi eu henillion yn cynyddu o dan gytundeb gorfodol. Yn debyg i Opsiwn B, rhagdybir y bydd nifer y manwerthwyr sy'n rhoi enillion y tâl i elusennau yn cynyddu o 80% i 100% o dan yr opsiwn hwn. O ganlyniad, rydym yn amcangyfrif eto y gallai costau busnes gynyddu £101,000 y flwyddyn, neu **£795,000** ar ôl disgownt dros 10 mlynedd.

Costau Monitro a Gorfodi

432. Eto, yn debyg i Opsiwn B, mae'n bosibl y bydd Opsiwn C yn arwain at gostau monitro a gorfodi uwch yn sgil cyflwyno cytundeb gorfodol. Unwaith eto, amcangyfrifir y bydd hyn yn costio £386,000, ar ôl disgownt dros 10 mlynedd.

Opsiwn D – Diwygio'r pŵer presennol o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 fel y gall y rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i werthwyr roi enillion net y tâl i unrhyw achosion da ond peidio ag arfer y pŵer i ddiwygio Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010.

Costau Busnes

433. Ni ragwelir y byddai Opsiwn D yn arwain at unrhyw gostau busnes ychwanegol o gymharu â'r gwaelodlin 'gwneud dim' gan y byddai cytundeb gwirfoddol ar gyfer rhoddion yn parhau i fod yn weithredol. O ganlyniad, byddai nifer y busnesau sy'n rhoi i elusennau yn annhebygol o newid, felly mae costau'n annhebygol o fod yn wahanol i gostau'r gwaelodlin.

Costau Monitro a Gorfodi

434. Ni ragwelir y byddai Opsiwn D yn arwain at unrhyw gostau monitro a gorfodi ychwanegol o gymharu â'r gwaelodlin 'gwneud dim'. Yn debyg i'r uchod, y rheswm am hyn yw y byddai cytundeb gwirfoddol ar gyfer rhoddion yn parhau i fod yn weithredol, felly ni fyddai unrhyw gostau'n gysylltiedig â monitro busnesau a gorfodi unrhyw ddeddfwriaeth.

Gostyngiad yn y refeniw a roddir i elusennau amgylcheddol

435. Ar gyfer Opsiwn D, rhagdybir y bydd cyfraddau cyfranogi yn parhau ar yr un lefel â'r cyfraddau o dan y gwaelodlin, gan fod y newid polisi arfaethedig yn adlewyrchu newidiadau i elusennau sy'n derbyn rhoddion yn hytrach na gweithredu mesurau gorfodi, fel sy'n digwydd o dan Opsiynau B ac C. Felly, nid oes unrhyw gynnydd cyffredinol yng nghyfanswm y refeniw a roddir i elusennau.

436. Fodd bynnag, ceir rhai newidiadau i'r dull o roi'r refeniw i elusennau. Fel gydag Opsiwn C, mae cyfran y refeniw a roddir i elusennau amgylcheddol yn gostwng ychydig, a chyfran y refeniw a roddir i elusennau nad ydynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd yn cynyddu ychydig. Yn gyffredinol, rhagdybir y bydd 75% o'r refeniw yn cael ei rhoi i elusennau amgylcheddol (o gymharu ag 80% o dan y gwaelodlin), a 25% yn cael ei rhoi i elusennau nad ydynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd (o gymharu ag 20% o dan y gwaelodlin). Mae hyn yn golygu y bydd gostyngiad cyffredinol yn y refeniw a roddir i elusennau amgylcheddol, sef tua **£1.7 miliwn** ar ôl disgownt dros 10 mlynedd.

Rhan 3: Manteision

437. Mae'r dadansoddiad isod yn defnyddio allbynnau'r Dadansoddiad Cost a Manteision a gwblhawyd ar gyfer y cynnig i ymestyn y pwerau o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 fel y gallai Gweinidogion Cymru bennu tâl isaf am fathau eraill o fagiau siopa yn ogystal â bagiau siopa untro. Yn benodol, mae dadansoddiad o'r opsiwn hwn yn defnyddio allbwn 'cyfraniadau elusennol' y model hwnnw, ac yn dyrannu'r holl gyfraniadau elusennol i elusennau amgylcheddol a rhai nad ydynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd. Dylid nodi bod yr holl werthoedd a gyflwynir isod ar gyfer cyfnod 10 mlynedd, ar ôl cyfradd ddisgownt o 3.5%.

438. Er mwyn archwilio'r rhoddion posibl i elusennau amgylcheddol a'r rhai nad ydynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd, bu'n rhaid gwneud nifer o

ragdybiaethau ynglŷn â nifer y manwerthwyr sy'n rhoi i elusennau. Er nad oes data pendant ar gael, rhagdybir bod tua 80% o fanwerthwyr yn rhoi taliadau i elusennau ar hyn o bryd. Mae'r ganran 80% hon yn adlewyrchu'r disgwyliad presennol bod manwerthwyr yn gallu osgoi rhoi i elusennau o dan y cytundebau gwirfoddol presennol gan nad oes pwerau gorfodi ar waith. Yn ychwanegol at hyn, rhagdybir bod 83% o'r tâl yn cael ei rhoi i elusennau mewn gwirionedd. Mae'r ganran 83% hon yn seiliedig ar astudiaeth ddesg o 12 manwerthwr gan Ricardo-AEA, a nododd mai hon oedd cyfran gyfartalog y tâl am fagiau siopa untro a roddwyd i elusennau.

Opsiwn A - 'Gwneud Dim' (Opsiwn Gwaelodlin) – Cadw'r pŵer presennol ym mharagraff 4A o Atodlen 6 i'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd ac yn Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 fel y maent ar hyn o bryd.

439. Opsiwn A yw'r gwaelodlin a ddefnyddir i asesu costau a manteision. Am y rheswm hwn, nid ydym yn cyflwyno costau a manteision Opsiwn A, ond yn hytrach costau a manteision Opsiynau B, C a D o gymharu ag Opsiwn A.

Opsiwn B – Dibynnu ar y pŵer presennol o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 i ddiwygio Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010.

Cynnydd yn y refeniw a roddir i elusennau nad ydynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd

440. O dan Opsiwn B, rhagdybir y bydd cyfraddau cyfranogi yn cynyddu ac y bydd pob manwerthwr yn cyfrannu neu'n wynebu camau gorfodi gan safonau masnach. Cyfrifir cyfran gyfartalog y tâl a roddir wedyn ar sail y gyfradd gyfranogi hon a chanran y tâl sy'n cael ei rhoi mewn gwirionedd. Ar gyfer Opsiwn B, cyfrifir hyn fel 83% x 100% = 83% o gymharu ag 80% x 83% = 66% o dan y gwaelodlin. Mae'r cynnydd hwn yng nghyfran gyfartalog y tâl a roddir yn golygu bod mwy o refeniw yn cael ei roi i elusennau o gymharu â'r gwaelodlin.

441. O dan Opsiwn B, rhagdybir y bydd yr holl refeniw a roddir yn cael ei roi i elusennau amgylcheddol, yn unol â'r gofynion. Yn gyffredinol, mae hyn yn golygu y bydd cynnydd yn y refeniw a roddir i elusennau amgylcheddol. Amcangyfrifir y bydd hyn tua **£15.7 miliwn**, ar ôl disgownt dros 10 mlynedd.

Opsiwn C (Yr Opsiwn sy'n cael ei Ffafrio) – Diwygio'r pŵer presennol o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 fel y gall rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i enillion net y tâl gael eu rhoi i unrhyw achosion da ac wedyn dibynnu ar y pŵer hwnnw i ddiwygio Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010.

Cynnydd yn y refeniw a roddir i elusennau amgylcheddol ac elusennau nad ydynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd

442. Fel gydag Opsiwn B, rhagdybir y bydd cyfraddau cyfranogi yn cynyddu o dan Opsiwn C ac y bydd pob manwerthwr yn cyfrannu neu'n wynebu camau gorfodi gan safonau masnach. Defnyddir yr un dull i gyfrifo cyfran gyfartalog y tâl a roddir ag a ddefnyddir o dan Opsiwn B, sef 83%. Mae'r cynnydd hwn yng nghyfran gyfartalog y tâl a roddir yn golygu bod mwy o refeniw yn cael ei roi i elusennau o gymharu â'r gwaelodlin.

443. O dan Opsiwn C, rhagdybir y bydd gostyngiad bach yng nghyfran y refeniw a roddir i elusennau amgylcheddol a chynnydd bach yng nghyfran y refeniw a roddir i elusennau nad ydynt yn gysylltiedig ag elusennau. Yn gyffredinol, rhagdybir y bydd 75% o'r refeniw yn cael ei rhoi i elusennau amgylcheddol o gymharu ag 80% o dan y gwaelodlin, ac y bydd 25% yn cael ei rhoi i elusennau nad ydynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd o gymharu ag 20% o dan y gwaelodlin. Fodd bynnag, oherwydd maint y cynnydd yn y refeniw a roddir i elusennau, mae'r refeniw a roddir i elusennau amgylcheddol ac elusennau nad ydynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd yn cynyddu. Amcangyfrifir y bydd hyn tua **£4.8 miliwn** ar gyfer elusennau amgylcheddol a **£3.9 miliwn** ar gyfer elusennau nad ydynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd, ar ôl disgownt dros 10 mlynedd.

Opsiwn D – Diwygio'r pŵer presennol o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 fel y gall y rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i werthwyr roi enillion net y tâl i unrhyw achosion da ond peidio ag arfer y pŵer i ddiwygio Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010.

Cynnydd yn y refeniw a roddir i elusennau nad ydynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd

444. Ar gyfer Opsiwn D, rhagdybir y bydd cyfraddau cyfranogi yn parhau ar yr un lefel â'r cyfraddau o dan y gwaelodlin, gan fod y newid polisi arfaethedig yn adlewyrchu newidiadau i elusennau sy'n derbyn rhoddion yn hytrach na gweithredu mesurau gorfodi, fel sy'n digwydd o dan Opsiynau B ac C. Felly, nid oes unrhyw gynnydd cyffredinol yng nghyfanswm y refeniw a roddir i elusennau.

445. Fodd bynnag, ceir rhai newidiadau i'r dull o roi'r refeniw i elusennau. Fel gydag Opsiwn C, mae cyfran y refeniw a roddir i elusennau amgylcheddol yn gostwng ychydig, a chyfran y refeniw a roddir i elusennau nad ydynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd yn cynyddu ychydig. Yn gyffredinol, rhagdybir y bydd 75% o'r refeniw yn cael ei rhoi i elusennau amgylcheddol (o gymharu ag 80% o dan y gwaelodlin), a 25% yn cael ei rhoi i elusennau nad ydynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd (o gymharu ag 20% o dan y gwaelodlin). Mae hyn yn golygu y bydd cynnydd cyffredinol yn y refeniw a roddir i elusennau nad ydynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd, sef tua **£1.7 miliwn** ar ôl disgownt dros 10 mlynedd.

446. Mae tabl (Tabl 25) sy'n crynhoi'r rhagdybiaethau ar gyfer rhoddion elusennol wedi'i gynnwys yn y Dadansoddiad o Ragdybiaethau, Risgiau a Sensitifrwydd, sy'n cyflwyno amcangyfrif o'r effaith ar roddion i elusennau amgylcheddol ac elusennau nad ydynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd.

Rhan 3: Crynodeb a'r Opsiwn sy'n Cael ei Ffafrio

447. I grynhoi, mae cyfanswm y refeniw elusennol a roddir i elusennau amgylcheddol ac elusennau nad ydynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd (o gymharu â'r gwaelodlin) yn dibynnu i raddau helaeth ar ba opsiwn sy'n cael ei ddewis yn y cynnig hwn.

448. Mae graff 23 isod yn dangos sut y gallai rhoddion i elusennau amgylcheddol ac elusennau nad ydynt yn gysylltiedig ag elusennau edrych o bosibl o dan Opsiynau B, C a D o gymharu â'r gwaelodlin (Opsiwn A).



Option B – Opsiwn B Option C – Opsiwn C Option D – Opsiwn D
£ to environmental – £ i elusen amgylcheddol
£ arall - £ arall
NPV – Gwerth Cyfredol Net

449. Yn gyffredinol, mae Opsiwn B ac Opsiwn C yn arwain at lefelau uwch o gydymffurfiaeth a rhagor o roddion i elusennau, ac mae refeniw elusennau amgylcheddol yn cynyddu o dan y ddau opsiwn o gymharu â'r gwaelodlin. Fel y gwelir, mae Opsiwn B ac Opsiwn C yn arwain at yr un cynnydd mewn rhoddion cyffredinol i elusennau, ond yn wahanol i Opsiwn B, mae Opsiwn C hefyd yn fanteisiol i elusennau nad ydynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd. Mae hyn yn deillio o'r gofyniad o dan Opsiwn B i roi'r holl refeniw i elusennau amgylcheddol. Mae hyn yn golygu y byddai unrhyw refeniw sy'n cael ei roi ar hyn o bryd i elusennau nad ydynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd yn cael ei drosglwyddo i elusennau amgylcheddol. Mae hyn yn

ychwanegol at gynnydd yn y refeniw a roddir i elusennau amgylcheddol yn sgil cynnydd yn nifer y manwerthwyr sy'n rhoi i elusennau. Ar gyfer Opsiwn C, mae'r cynnydd yn yr holl refeniw a roddir yn golygu bod elusennau amgylcheddol ac elusennau nad ydynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd yn elwa, er gwaethaf gostyngiad bach yng nghyfran y refeniw a roddir i elusennau amgylcheddol.

450. Ar gyfer Opsiwn D, nid oes unrhyw effaith net ar elusennau yn gyffredinol o gymharu â'r gwaelodlin oherwydd y rhagdybir na fyddai cyfran y manwerthwyr sy'n rhoi i elusennau yn newid gan y byddai cytundeb gwirfoddol yn parhau i fod ar waith. Rhagdybir hefyd nad yw cyfran y taliadau sy'n cael eu rhoi i elusennau yn newid. Mae hyn yn golygu nad oes unrhyw gynnydd neu ostyngiad cyffredinol yn y rhoddion i elusennau o dan Opsiwn D o gymharu â'r gwaelodlin (Opsiwn A). Yr unig wahaniaeth rhwng Opsiwn D a'r opsiwn sylfaenol yw'r ffaith y rhagdybir y gallai nifer fach o fanwerthwyr newid i roi rhai o'u rhoddion i elusennau nad ydynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd yn hytrach nag i elusennau amgylcheddol wrth ddisgwyl i'r rheoliadau gael eu rhoi ar waith. Mae'r newid hwn yn golygu y gall 75% yn unig o roddion fynd i elusennau amgylcheddol, o'i gymharu ag 80% o dan y gwaelodlin (Opsiwn A). Gall yr opsiwn hwn arwain at refeniw gwerth tua £1.7 miliwn yn cael ei drosglwyddo o elusennau amgylcheddol i elusennau nad ydynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd.

451. Felly, gan fod Opsiwn C yn arwain at y cynnydd mwyaf (ar y cyd) mewn refeniw i elusennau ac, yn wahanol i Opsiwn B a D, bod disgwyl iddo arwain at gynnydd mewn rhoddion i elusennau amgylcheddol ac elusennau nad ydynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd, hwn yw'r opsiwn rydym yn ei ffafrio a'r opsiwn sy'n dangos y gallai arwain at y manteision net mwyaf.

452. Mae Opsiwn C yn diwygio Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 i ddileu'r cyfyngiad ym mharagraff 4A. Fel rhan o'r newid hwn, os yw Gweinidogion Cymru yn gwneud darpariaeth yn y rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i werthwyr roi enillion net y tâl i elusennau, ni fydd y gwerthwyr yn cael eu cyfyngu i roi'r enillion net i achosion da amgylcheddol yn unig. Bydd yr opsiwn hwn yn darparu mwy o dryloywder a chysondeb i werthwyr bagiau siopa, yn amodol ar dâl, a bydd hefyd yn sicrhau mai dim ond y gwerthwyr hynny nad ydynt yn rhoi enillion net y tâl i achosion da ar hyn o bryd fydd yn cael eu heffeithio. Trwy ddileu'r cyfyngiad presennol, byddai'r gwerthwyr hynny sy'n rhoi eu henillion net i achosion da nad ydynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd yn gallu parhau i wneud hynny heb amharu ar y berthynas sydd eisoes wedi'i sefydlu o bosibl gydag achosion da nad ydynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd.

453. Yn y dadansoddiad o'r opsiynau uchod, dylid nodi mai'r unig wahaniaeth yn y broses o fodelu rhoddion elusennol o dan Opsiwn C ac Opsiwn D yw'r ffaith y rhagdybir y bydd 100% o fanwerthwyr yn rhoi i elusennau o dan Opsiwn C o gymharu ag 80% o dan Opsiwn D.

454. O ganlyniad, ar gyfer Opsiwn D, nid yw'r rhoddion yn cynyddu yn gyffredinol, er bod rhai rhoddion yn cael eu trosglwyddo o elusennau amgylcheddol i elusennau nad ydynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd.

455. Fel y nodwyd uchod, mae canlyniadau'r dadansoddiad ar gyfer Opsiwn C yn dangos bod disgwyl i gyfanswm y rhoddion i elusennau gynyddu'n gyffredinol o gymharu â'r opsiwn sylfaenol 'gwneud dim'. Yn ogystal, disgwylir y bydd elusennau amgylcheddol ac elusennau nad ydynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd yn derbyn mwy o roddion. Mae hyn o ganlyniad i'r rhagdybiaethau y bydd 100% o fanwerthwyr yn rhoi eu refeniw i elusennau, o gymharu ag 80% o dan yr opsiwn sylfaenol ac Opsiwn D. Mae'r cynnydd hwn yng nghyfran y manwerthwyr sy'n rhoi eu henillion i achos da yn golygu y bydd elusennau amgylcheddol yn derbyn mwy o roddion, er gwaethaf gostyngiad yng nghyfran y refeniw a roddir iddynt (75% o gymharu ag 80% o dan yr opsiwn sylfaenol). Gall y cynnydd yng nghyfran y manwerthwyr sy'n rhoi i elusennau nad ydynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd, a'r gostyngiad yng nghyfran y manwerthwyr sy'n rhoi i elusennau amgylcheddol fod o ganlyniad i'r ffaith bod manwerthwyr nad ydynt yn rhoi eu henillion net i achosion da ar hyn o bryd yn fwy tebygol o roi i elusennau nad ydynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd nag elusennau amgylcheddol o dan Opsiwn C. Yn ôl dadansoddiad Ricardo AEA, lle mae perthynas eisoes wedi'i sefydlu rhwng manwerthwyr ac elusennau, mae'r newid hwn yn llai tebygol o effeithio arni.

456. Mae'r tablau isod yn crynhoi effeithiau amcangyfrifedig pob opsiwn, gan ddangos y raddfa drosglwyddo bosibl rhwng elusennau amgylcheddol ac elusennau nad ydynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd o dan y system codi tâl bresennol.

Tabl 24: Crynodeb o'r cyfraniadau

	Opsiwn B	**Opsiwn C**	**Opsiwn D**
Newid posibl mewn rhoddion i elusennau amgylcheddol	+£15.7m	+£3.9	-£1.7m
Newid posibl mewn rhoddion i elusennau nad ydynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd	-£7.0m	+£4.8	+£1.7m
Cyfanswm y Newid Posibl mewn Rhoddion	+£8.7m	+£8.7m	£0m
Costau Busnes	£0.795m	£0.795m	£0m
Costau Monitro a Gorfodi	£0.386m	£0.386m	£0m
Gwerth Cyfredol Net	£7.524m	£7.524m	£0m

Rhan 3: Dadansoddiad o Ragdybiaethau, Risgiau a Sensitifrwydd

457. Mae'r dadansoddiad hwn yn defnyddio nifer o'r un rhagdybiaethau ag a wnaed wrth ddadansoddi'r cynigion i bennu isafswm tâl ar gyfer mathau eraill o fagiau siopa. Yn benodol, cyfrifir y galw am fagiau yn yr un ffordd, gan ddefnyddio'r un rhagdybiaethau o safbwynt lastigedd pris a'r un

rhagdybiaethau o safbwynt trawslastigedd pris. Mae'r cynnig hwn hefyd yn archwilio'r un mathau o fagiau. I gael gwybodaeth am y rhagdybiaethau hyn, ewch i adran 'Dadansoddiad o Ragdybiaethau, Risgiau a Sensitifrwydd' o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (Paragraffau 393 i 415).

458. Mae'r gwahaniaeth allweddol rhwng rhagdybiaethau'r cynnig hwn a rhagdybiaethau'r cynnig i bennu isafswm tâl ar gyfer mathau eraill o fagiau siopa yn gysylltiedig â chyfran y manwerthwyr sy'n rhoi i elusennau, cyfran y taliadau sy'n cael eu rhoi, a chyfran cyfanswm y rhoddion sy'n mynd tuag at elusennau amgylcheddol ac elusennau nad ydynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd. Cyfeiriwyd at y rhagdybiaethau hyn yn yr adran 'Manteision' uchod ar dudalen 5, ac mae crynodeb ohonynt yn y tabl canlynol.

Tabl 25: Crynodeb o ragdybiaethau ar gyfer y Cynnig i Roi Enillion Net.

Cynnig 2		Opsiwn			
		A	B	C	D
Cyfran cyfanswm y refeniw posibl o'r tâl sy'n arwain at gyfraniadau	= (W*X)+(Y*Z)	66%	83%	83%	66%
W– Cyfran y manwerthwyr yn y grŵp	Cyfran y manwerthwyr sy'n codi tâl am fagiau ac yn rhoi rhywfaint o'r tâl hwnnw i elusennau	80%	100%	100%	80%
X- Rhodd gyfartalog ar gyfer y grŵp	Cyfran y tâl sy'n cael ei roi i elusennau.	83%	83%	83%	83%
Y– Cyfran y manwerthwyr yn y grŵp	Cyfran y manwerthwyr sy'n osgoi'r tâl	20%	0%	0%	20%
Z- Rhodd gyfartalog ar gyfer y grŵp	Mae hyn yn adlewyrchu dim tâl yn cael ei roi i elusennau	0%	0%	0%	0%
Cyfran pob cyfraniad sy'n cael ei roi i elusennau amgylcheddol		80%	100%	75%	75%
Cyfran pob cyfraniad sy'n cael ei roi i elusennau nad ydynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd		20%	0%	25%	25%

459. Mae trefn yr opsiynau, o ran cyfanswm y refeniw a roddir i elusennau, yn dibynnu ar gyfran y manwerthwyr sy'n cydymffurfio â'r tâl, faint o'r tâl sy'n cael ei roi i achosion da, a chyfran yr holl roddion sy'n mynd tuag at elusennau amgylcheddol ac elusennau nad ydynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd.

460. Daeth dadansoddiad sensitifrwydd Ricardo-AEA i'r casgliad canlynol: os yw cyfranogiad manwerthwyr yn y tâl yn llai nag 85% ar gyfer Opsiwn C (o'i gymharu â 100% fel arfer ac 80% o dan Opsiwn A a D), ni fyddai'r cynnydd mewn rhoddion oherwydd cyfranogiad manwerthwyr yn gwneud iawn am y colledion i achosion da amgylcheddol. Felly, byddai'r effaith ar elusennau

amgylcheddol yn negyddol o gymharu â'r opsiwn sylfaenol, er y byddai elusennau nad ydynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd yn parhau i elwa. Dim ond mewn achosion lle na fyddai cyfranogiad manwerthwyr yn cynyddu o 80%, neu pe byddai'r broses o orfodi'r ddeddfwriaeth yn ychwanegu costau sylweddol ar gyfer manwerthwyr, y byddai cyfran gyffredinol y refeniw a roddir yn 66% neu'n llai, gan olygu bod cyfanswm y rhoddion o dan Opsiwn C yn llai nag Opsiwn D ac Opsiwn A (y gwaelodlin).

461. Cynhaliwyd prawf sensitifrwydd arall i archwilio senario lle y byddai Opsiwn D yn arwain at fwy o refeniw yn cael ei roi i elusennau nag o dan Opsiwn C. Er enghraifft, pe bai 74% o refeniw posibl yn cael ei roi i elusennau o dan y gwaelodlin ac Opsiwn C, a 75% yn cael ei roi o dan Opsiwn D, gallai Opsiwn D arwain at fwy o roddion yn cael eu rhoi yn gyffredinol i elusennau. Gellid sicrhau'r cyfrannau hyn drwy roi cyfran fwy o'r tâl i elusennau o dan Opsiwn D o'i gymharu â'r opsiynau eraill. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd a fyddai hyn yn digwydd.

462. Fel y gellid disgwyl, byddai unrhyw gynnydd yng nghyfran y manwerthwyr sy'n rhoi i elusennau, neu gyfran y tâl sy'n cael ei roi mewn gwirionedd, o dan bob un o'r opsiynau, yn cynyddu cyfanswm y refeniw sy'n mynd tuag at elusennau yn gyffredinol. Byddai newidiadau i'r cyfrannau y mae elusennau amgylcheddol ac elusennau nad ydynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd yn eu derbyn yn newid yn ôl i ba raddau y mae'r elusennau hyn yn elwa/colli o dan bob un o'r opsiynau.

Rhan 4: Casglu a Gwaredu Gwastraff

Dadansoddi Opsiynau

463. Bwriad y Bil yw rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru gyflwyno is-ddeddfwriaeth ac ni fydd yn arwain at unrhyw gostau neu fanteision ychwanegol ynddo ei hun. Pan gaiff y rheoliadau sy'n cyflwyno'r pwerau eu pennu, byddant yn cael eu hategu gan Asesiad Effaith Rheoleiddiol manwl.

464. At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, aseswyd effaith dau opsiwn yn erbyn senario gwaelodlin. Mae'r dadansoddiad yn cyflwyno amcangyfrif gorau o'r costau a'r manteision ar sail y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd.

465. Yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio gan Lywodraeth Cymru yw Opsiwn 3 (isod).

Opsiwn 1: Gwneud Dim: Dibynnu ar fecanweithiau presennol, yn bennaf:

466. Opsiwn 1 yw'r opsiwn sylfaenol a ddefnyddir i asesu costau a manteision. Bydd yn defnyddio'r gofyniad yn Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 (fel y'u diwygiwyd) i gasglu papur, plastig, gwydr a metel ar wahân; a'r dreth dirlenwi.

Opsiwn 2: Rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ymestyn y gofynion ailgylchu presennol:

467. Bydd yr opsiwn hwn yn ei gwneud hi'n ofynnol i fusnesau a'r sector cyhoeddus gyflwyno deunyddiau gwastraff ailgylchadwy penodol i'w casglu ar wahân; bydd yn ofynnol i bobl sy'n casglu gwastraff gasglu deunyddiau gwastraff ailgylchadwy penodol ar wahân (yn ogystal â'r deunyddiau hynny sy'n ofynnol o dan Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) (fel y'u diwygiwyd) fel uchod); a bydd yn gwahardd gwaredu gwastraff bwyd i garthffos o eiddo annomestig.

468. Ar hyn o bryd, mae nifer o fethiannau'r farchnad yn rhwystro'r sector rheoli gwastraff busnes rhag gweithredu ar lefel optimaidd gymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys nifer y gweithredwyr gwastraff sy'n gweithredu mewn rhai ardaloedd (cystadleuaeth amherffaith); diffyg deunyddiau eildro sy'n cael eu gwahanu yn y fan a'r lle gan nad oes angen i fusnesau sy'n creu gwastraff wahanu deunyddiau gwastraff y gellir eu hailgylchu yn y fan a'r lle; diffyg gwybodaeth ymysg y rhai sy'n creu gwastraff am opsiynau rheoli gwastraff a chostau chwilio uchel (er enghraifft, yr amser y mae'n ei gymryd i gwmni chwilio am ddarparwr gwasanaeth ailgylchu); diffyg cyfleusterau casglu neu adael gwastraff cyfleus ac elfennau allanol mewn rhai prosesau trin gwastraff.[69] Mae methiannau'r farchnad yn arwain at greu gormod o wastraff a dibyniaeth ar ddulliau gwaredu a thrin gwastraff is-optimaidd. Bydd yr opsiwn hwn yn helpu i fynd i'r afael â methiannau'r farchnad drwy

[69] *Eunomia Research & Consulting (2011) Options for the Segregation and Collection of Welsh I & C Waste, Report to the Welsh Government, (Tachwedd 2011)*

wella mynediad cynhyrchwyr at wasanaethau casglu deunyddiau eildro a sicrhau bod mwy o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu ar gael i'w casglu gan y diwydiant rheoli gwastraff, gan gynyddu hyfywedd ariannol casglu deunyddiau.

Opsiwn 3: Er mwyn ategu polisïau presennol, rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ymestyn y gofynion ailgylchu presennol a gwahardd llosgi rhai deunyddiau gwastraff neu eu hanfon i safleoedd tirlenwi:

469. Bydd yr opsiwn hwn yn ei gwneud hi'n ofynnol i fusnesau a'r sector cyhoeddus gyflwyno deunyddiau gwastraff ailgylchadwy penodol i'w casglu ar wahân. Bydd yn ofynnol i bobl sy'n casglu gwastraff gasglu deunyddiau gwastraff ailgylchadwy penodol ar wahân (yn ogystal â'r deunyddiau hynny sy'n ofynnol o dan Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) (fel y'u diwygiwyd) fel uchod). Bydd yn gwahardd llosgi deunyddiau gwastraff penodol, anfon deunyddiau gwastraff penodol i safleoedd tirlenwi a gwaredu gwastraff bwyd i garthffos o eiddo annomestig.

470. Fel y nodwyd uchod, ar hyn o bryd mae nifer o fethiannau'r farchnad yn rhwystro'r sector casglu gwastraff busnes rhag gweithredu ar lefel optimaidd gymdeithasol. Yn ogystal â'r manteision sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 2, mae cynnwys gwaharddiad ar anfon deunyddiau gwastraff penodol i safleoedd tirlenwi, neu eu llosgi, yn golygu bod yr opsiwn hwn yn mynd cam ymhellach wrth unioni methiannau'r farchnad ar hyn o bryd. Bydd yr opsiwn hwn yn ategu, ac yn cael ei ategu gan, waith Llywodraeth Cymru mewn meysydd eraill, er enghraifft drwy greu marchnadoedd lleol ehangach ar gyfer deunyddiau eildro a gesglir mewn cwmnïau cynhyrchu Cymru drwy Raglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP).

471. Dyma'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio gan Lywodraeth Cymru.

Rhan 4: Costau

472. Mae'r dadansoddiad yn seiliedig yn bennaf ar senario modelu a gyflawnwyd ar ran Llywodraeth Cymru gan Eunomia Consulting and Research Ltd[70,71] a Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP)[72,73]. Ar gyfer pob opsiwn, mae'r modelu yn rhagdybio y bydd y polisi wedi'i gyflwyno'n llawn erbyn 2017 ar ôl cael ei gyhoeddi yn 2014, gan y bydd amser rhag blaen mewn gwirionedd dros y blynyddoedd blaenorol wrth i fusnesau newid eu hymddygiad yn raddol yn unol â'r polisi hyd at y pwynt hwn. Mae'r adrannau canlynol yn grynodeb o'r gwaith ymchwil hwnnw.

[70] *Eunomia Research & Consulting (2013) Additional Policy Options Analysis for Welsh Government: Costs and Benefits of Extending WFD requirements, Waste Treatment Restrictions, Requirement to Sort and a Ban on Food the Disposal of Food Waste to Sewer (Mai 2013)*
[71] *Eunomia Research & Consulting, (2014) Additional Policy Options Analysis for Welsh Government: Costs and Benefits of Extending Waste Framework Directive requirements, Waste Treatment Restrictions, Requirement to Sort and a Ban on the Disposal of Food Waste to Sewer - Aggregated Outputs for Welsh Government Environment Bill: Diweddariad o'r canlyniadau 2014*
[72] *WRAP (2015), Cost Assessment of Wales Environment Bill Measures on Business Waste Producers*
[73] *WRAP (2015), Cost Assessment of Wales Environment Bill Measures on Business Waste Producers in the Construction & Demolition Sector*

Opsiwn 1: Gwneud Dim: Dibynnu ar fecanweithiau presennol

473. Gan nad yw'r opsiwn hwn yn cynnig gwneud unrhyw newidiadau, nid oes unrhyw gostau ariannol ychwanegol yn gysylltiedig ag ef (er y bydd costau a manteision parhaus).

474. Fodd bynnag, mae'r opsiwn yn peri risg fawr i gynaliadwyedd ein busnesau a'n hadnoddau naturiol.

475. Mae'r gwaith ymchwil a modelu**Error! Bookmark not defined.** a gyflawnwyd ar ran Llywodraeth Cymru ar gasglu gwastraff masnachol a diwydiannol wedi nodi methiannau yn y farchnad casglu gwastraff, gan gynnwys diffyg gwasanaethau casglu cyfleus a chost. Awgrymodd yr ymchwil bod y methiannau yn y farchnad yn annhebygol o gael eu datrys heb ddeddfwriaeth.

476. Bydd methu â gweithredu yn golygu na fydd busnesau a'r sector cyhoeddus yn derbyn gwasanaeth ailgylchu o safon - bydd deunyddiau ailgylchadwy yn parhau i gael eu hanfon i safleoedd tirlenwi neu gyfleusterau llosgi. O ganlyniad, ni fydd unrhyw ostyngiad yn y ddibyniaeth ar adnoddau sylfaenol na gwelliant i ddiogelwch adnoddau.

477. Gellid hefyd cyhuddo Llywodraeth Cymru o fethu â chyflawni ei hymrwymiadau. Mae methu ag ymyrryd mewn perthynas ag ailgylchu ac adfer deunyddiau yn cynyddu'r risg y byddwn yn methu â chyflawni targedau'r Undeb Ewropeaidd ac yn gorfod ysgwyddo dirwyon sylweddol yn sgil achos am dorri cyfraith Ewropeaidd.

Opsiwn 2: Rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru ymestyn y gofynion ailgylchu presennol

478. Er bod yr opsiwn hwn yn mynd i'r afael â rhai o'r materion yn ymwneud â chyfraddau ailgylchu isel, mae'n annhebygol y bydd yn darparu'r gwasanaethau casglu gwastraff o safon uchel fel y ceir gan yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio (Opsiwn 3, isod). Mae rhanddeiliaid wedi nodi bod hyn yn allweddol er mwyn cyflawni lefelau uchel o ailgylchu o safon uchel. O dan yr opsiwn hwn, gallai casglwyr gwastraff sy'n methu â chyflawni lefelau uchel o gasglu ar wahân anfon gwastraff gweddilliol sydd wedi'i halogi â lefelau uchel o ddeunydd ailgylchadwy i safleoedd tirlenwi neu gyfleusterau llosgi.

479. Mae gwaith modelu[74] a gyflawnwyd ar ran Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif, mewn perthynas ag Opsiwn 3 (isod), y byddai llai o ddeunydd yn cael ei ailgylchu, gan arwain at lai o fanteision i'r economi a'r amgylchedd.

---

[74] *Eunomia Research & Consulting, (2014) Additional Policy Options Analysis for Welsh Government: Costs and Benefits of Extending Waste Framework Directive requirements, Waste Treatment Restrictions, Requirement to Sort and a Ban on the Disposal of Food Waste to Sewer - Aggregated Outputs for Welsh Government Environment Bill: Results Update 2014*

480. Amlinellir y costau i'r gwahanol sectorau isod.

Cynhyrchwyr Gwastraff Busnes

481. Yn ogystal ag eiddo masnachol a diwydiannol, mae'r term cynhyrchwyr gwastraff busnes yn cynnwys sefydliadau sector cyhoeddus ac elusennau. Mae maint y costau (neu'r arbedion/manteision) i'r cynhyrchwyr yn dibynnu'n rhannol ar ffactorau megis y gystadleuaeth ac arloesedd yn y farchnad i leihau costau i gwsmeriaid, ymwybyddiaeth y cynhyrchwyr gwastraff busnes o'r gwasanaethau sydd ar gael a'u hymateb i gostau cynyddol casglu gwastraff gweddilliol. Gall cynhyrchwyr gwastraff busnes ysgwyddo costau mewn dau faes – costau gweinyddol y pontio yn ymwneud â newidiadau mewn ymarfer a chostau (neu arbedion) parhaus yn ymwneud â chasglu eu deunyddiau gwastraff. Rhoddir sylw i'r ddwy gost isod.

Costau gweinyddol

482. Dim ond yn ystod y cyfnod pontio tair blynedd y bydd y costau gweinyddol hyn yn cael eu hysgwyddo wrth i gynhyrchwyr gwastraff baratoi ar gyfer y system gasglu newydd. Mae'r costau yn gysylltiedig â phrynu cynwysyddion newydd ac addasu i'r system ailgylchu newydd (gan gynnwys amser gweinyddu a rheoli).

Tabl 26: Costau gweinyddol i gynhyrchwyr gwastraff busnes – opsiwn 2

Disgrifiad	**Effeithiau blynyddol yn ystod cyfnod pontio'r polisi**		
	2015	**2016**	**2017**
Mabwysiadu system biniau newydd (amser gweinyddu)	£1,183,600	£394,500	£394,500
Mabwysiadu system biniau newydd (amser rheoli)	£591,800	£197,300	£197,300
Prynu cynwysyddion newydd	£258,500	£86,200	£86,200
Mabwysiadu system biniau newydd – busnesau adeiladu a dymchwel	£11,100	£3,700	£3,700
Cyfanswm	2,045,000	681,700	681,700

Costau casglu deunyddiau ailgylchadwy ar wahân i gynhyrchwyr gwastraff busnes

483. Mae'n anodd penderfynu pa fath o effaith y bydd y cynigion yn ei chael ar fusnesau sy'n cynhyrchu gwastraff oherwydd nifer yr amrywiadau posibl. Fel y nodwyd uchod, bydd y farchnad casglu gwastraff yn ardaloedd y cynhyrchwyr gwastraff, y contract y mae pob cynhyrchwr gwastraff unigol yn ei negodi a sut y mae pob busnes yn addasu i'r gofynion newydd yn penderfynu a fyddant yn ysgwyddo costau ychwanegol parhaol o ganlyniad i'r cynigion.

484. Ni wnaeth y gwaith modelu (Eunomia) gwreiddiol a gwblhawyd ar gyfer y cynnig hwn fodelu costau neu fanteision i gynhyrchwyr gwastraff busnes – yn y gwaith modelu, cafodd yr effaith gyffredinol ar y farchnad wastraff ei chynnwys yn y costau a'r manteision (arbedion cost) i fusnesau rheoli gwastraff. Fodd bynnag, mewn marchnad casglu gwastraff sy'n gweithredu'n dda, disgwylir y byddai cyfran o'r costau a'r arbedion hyn yn cael eu trosglwyddo i'r cynhyrchydd gwastraff.

485. Yn 2013, comisiynodd Llywodraeth Cymru WRAP i lunio dau asesiad[75,76]73 o oblygiadau ariannol gwahanu rhagor o wastraff ar gyfer busnesau Cymru. Canolbwyntiodd yr astudiaeth gyntaf ar y sector Masnachol a Diwydiannol (lletygarwch, manwerthu, cynhyrchu, gweinyddol/swyddfa, addysg a sectorau iechyd) a chanolbwyntiodd yr ail astudiaeth ar y sector Adeiladu a Dymchwel.

486. Mae'r asesiadau hyn yn seiliedig ar fusnesau 'cyffredin' a'u nod yw dangos effaith bosibl y cynigion ar fusnesau yng Nghymru. Roedd yr asesiad yn cymharu costau'r gwasanaethau sy'n cael eu defnyddio gan fusnesau ar hyn o bryd (gan ddefnyddio prisiau 2017 ac yn ystyried blwyddyn o gynnydd ychwanegol yn y dreth dirlenwi) â chost debygol gwasanaeth a fyddai'n bodloni'r gofynion newydd.

487. Mae'r astudiaeth gyntaf (y sector Masnachol a Diwydiannol) yn dangos bod busnesau sy'n cynhyrchu symiau llai o wastraff yn fwy tebygol o weld cynnydd yn eu costau casglu gwastraff blynyddol. Mae'r effaith hon yn cael ei lleihau mewn achosion lle nad yw busnesau yn defnyddio unrhyw fath o wasanaeth ailgylchu ar hyn o bryd. Mae'r gwaith modelu yn awgrymu y gall costau casglu gwastraff blynyddol godi mwy na 50% mewn rhai achosion. Yn y sefyllfa fwyaf eithafol lle y caiff y broses o gasglu gwastraff bwyd ar wahân ei hymestyn i bob cynhyrchydd gwastraff, disgwylir y bydd y gost ychwanegol i fusnes cyffredin sy'n cynhyrchu symiau bach o wastraff yn llai na £700 y flwyddyn.

488. Ar y pegwn arall, mae'r gwaith modelu yn awgrymu bod yr effaith ar gostau casglu gwastraff i gynhyrchwyr gwastraff mawr yn debygol o amrywio o arbediad blynyddol o hyd at £18,500 i gost flynyddol ychwanegol o £3,700 yn dibynnu ar y senario a ystyrir a'r sector y mae'r busnes yn gweithredu ynddo. Mae cynnydd mewn costau i fusnesau mwy o faint yn fwy tebygol mewn senarios lle mae angen gwahanu rhagor o wastraff neu os yw'r busnesau yn defnyddio gwasanaethau ailgylchu cymysg ar hyn o bryd. I'r gwrthwyneb, mae'r gwaith ymchwil yn awgrymu y gall busnesau sy'n cynhyrchu symiau mwy o wastraff nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau ailgylchu ar hyn o bryd neu fusnesau sy'n defnyddio gwasanaethau ailgylchu sy'n gwahanu gwastraff weld gostyngiad yn eu costau rheoli gwastraff blynyddol. Yn gyffredinol, disgwylir y bydd unrhyw gynnydd yn y costau rheoli gwastraff sy'n cael eu hysgwyddo gan y busnesau hyn (o ran

[75] *WRAP (2015), Cost Assessment of Wales Environment Bill Measures on Business Waste Producers*
[76] *WRAP (2015), Cost Assessment of Wales Environment Bill Measures on Business Waste Producers in the Construction & Demolition Sector*

canran) yn llai na'r cynnydd ar gyfer busnesau sy'n cynhyrchu symiau bach o wastraff.

489. Gall cynnydd mewn costau rheoli gwastraff gael effaith niweidiol ar gystadleurwydd busnesau. Gall hyn fod yn amlwg iawn wrth gystadlu â busnesau yn Lloegr nad oes rhaid iddynt fodloni gofynion tebyg ar hyn o bryd.

490. Yn ôl yr ail astudiaeth (y sector Adeiladu a Dymchwel) disgwylir i fusnesau 'cyffredin' ym mhob is-sector (dymchwel; adeiladu; peirianneg sifil ac adeiladu cyffredinol) elwa ar arbedion cost rheoli gwastraff o ganlyniad i gynnydd mewn gwahanu gwastraff. Roedd cynnwys y gwastraff ym mhob is-sector yn penderfynu graddfa'r arbedion cost posibl. Gwaredu pridd ac agregau sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o gostau rheoli gwastraff yn yr is-sectorau dymchwel a pheirianneg sifil, ac ni fydd y cynigion yn effeithio ar y naill neu'r llall.

491. Mae'n bwysig nodi na wnaed unrhyw ragdybiaethau yn y ddau asesiad WRAP ynglŷn â lefel yr arbedion y byddai'r cwmnïau rheoli gwastraff yn eu trosglwyddo i'r cwsmer gwastraff. Fodd bynnag, fel y gwelwyd uchod, mae'n rhesymol disgwyl y bydd grym y farchnad yn golygu bod cwmnïau rheoli gwastraff yn trosglwyddo o leiaf rhai o'u harbedion (gweler isod) i'r cwsmer, gan leihau costau i'r cwsmer.

492. Disgwylir y bydd y gofynion newydd yn annog busnesau yng Nghymru i ddefnyddio adnoddau a deunyddiau yn fwy effeithlon. Mae'r graddau y bydd busnesau yn gallu gwneud hyn yn dibynnu ar yr adnoddau a'r arbenigedd sydd ganddynt ac argaeledd gwybodaeth fel sylfaen eu penderfyniadau. Yn gyffredinol, mae'n haws i fusnesau mawr fabwysiadu arferion sy'n defnyddio adnoddau yn fwy effeithlon.

493. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi sawl cam ar waith i liniaru unrhyw effaith negyddol ar fusnesau, gan gynnwys camau i ddatblygu'r farchnad ar gyfer deunyddiau sydd wedi'u hailgylchu; datblygu pecynnau cyngor i fusnesau i'w helpu i reoli eu gwastraff yn well ac mewn ffordd fwy costeffeithiol a digon o amser rhag blaen fel bod busnesau'n gallu addasu a gwneud trefniadau priodol.

494. Cyflwynwyd gofynion gwahanu a chasglu gwastraff tebyg yn yr Alban ym mis Ionawr 2014. Er ei bod yn rhy gynnar cynnal gwerthusiad ffurfiol o'r cynllun, mae'r arwyddion (lefel uchel) cyntaf yn awgrymu nad yw'r gofynion newydd yn cael effaith arwyddocaol ar fusnesau yn yr Alban, gyda stoc busnesau'r sector preifat yn tyfu yn 2014.

<u>Costau i Fusnesau Rheoli Gwastraff</u>

495. Comisiynwyd Eunomia Consulting and Research Ltd gan Lywodraeth Cymru i wneud gwaith modelu ar y cynigion ar gyfer gwastraff, gan ganolbwyntio ar yr effaith ar y sector rheoli gwastraff. Mae'r adran ganlynol yn grynodeb byr o'r gwaith modelu hwnnw. Mae esboniad manylach o'r

costau a'r arbedion cost amcangyfrifedig a'r rhagdybiaethau sy'n sylfaen i'r amcangyfrifon hynny ar gael yn yr adroddiad modelu gwreiddiol a'r adroddiadau diweddaru dilynol gan Eunomia [77,78,79,80]

496. Mae'r diwydiant rheoli gwastraff yn cynnwys cwmnïau casglu gwastraff, gweithredwyr cyfleusterau storio a thrin canolraddol megis gorsafoedd trosglwyddo gwastraff a chyfleusterau adfer a gwaredu terfynol megis cyfleusterau troi gwastraff yn ynni a safleoedd tirlenwi. Er y disgwylir i'r diwydiant rheoli gwastraff gael mantais gyffredinol o'r opsiwn hwn (gweler paragraff 521 isod), disgwylir y bydd yn ysgwyddo rhai costau, er enghraifft, o ganlyniad i ddarparu cerbydau a chynwysyddion newydd, hyfforddi staff a chyfathrebu â chwsmeriaid.

497. Gellir gwahanu effaith ariannol y cynigion ar fusnesau rheoli gwastraff rhwng y canlynol:
    - Y newid yn y costau cyfalaf a gweithredu mewn perthynas â thrin gwastraff a chasglu gwastraff;
    - Refeniw o ganlyniad i werthu deunydd eildro;
    - Osgoi'r dreth dirlenwi.

498. Mae'r costau cyfalaf a gweithredu yn amrywio yn dibynnu ar y math o wastraff sy'n cael ei gasglu a/neu ei drin. Mae'r costau cyfalaf yn cynnwys y canlynol:
    - Cost anfon i safle tirlenwi - "cost (neu fudd) sy'n cael ei hosgoi" yn y model lle nad yw gwastraff yn cael ei anfon i safle tirlenwi;
    - Cost ynysu gwastraff – bydd y gost hon yn amrywio yn dibynnu ar y math o ddeunydd a gesglir;
    - Cost cerbydau a ddefnyddir i gasglu gwastraff gweddilliol a deunydd ailgylchu – mae hyn hefyd yn dibynnu ar y math o ddeunydd a gesglir.

499. Mae'r costau gweithredu yn cynnwys y canlynol:
    - Costau llafur;
    - Costau cynnal a chadw'r cyfleusterau trin gwastraff (tirlenwi) a'r seilwaith ailgylchu;
    - Costau tanwydd;
    - Refeniw o ganlyniad i werthu'r trydan a gynhyrchir yn y safle tirlenwi.

---

[77] *Eunomia Research & Consulting (2011) Options for the Segregation and Collection of Welsh I & C Waste, Adroddiad i Lywodraeth Cymru, (Tachwedd 2011)*

[78] *Eunomia Research & Consulting (2013) Additional Policy Options Analysis for Welsh Government: Costs and Benefits of Extending WFD requirements, Waste Treatment Restrictions, Requirement to Sort and a Ban on Food the Disposal of Food Waste to Sewer (May 2013)*

[79] *Eunomia Research & Consulting (2013) Additional Policy Options Analysis for Welsh Government: Costs and Benefits of Extending WFD requirements, Waste Treatment Restrictions, Requirement to Sort and a Ban on Food the Disposal of Food Waste to Sewer - Aggregated Outputs for Welsh Government White Paper (September 2013)*

[80] *Eunomia Research & Consulting, (2014) Additional Policy Options Analysis for Welsh Government: Costs and Benefits of Extending Waste Framework Directive requirements, Waste Treatment Restrictions, Requirement to Sort and a Ban on the Disposal of Food Waste to Sewer - Aggregated Outputs for Welsh Government Environment Bill: Results Update 2014*

500. Mae dadansoddiad o'r costau hyn ar gyfer yr opsiynau polisi yn nhabl 27. Mae dadansoddiad manylach o'r costau hyn (fesul blwyddyn) yn cael ei ddangos yn Nhabl 30 (tabl crynodeb).

501. Mae'r gwaith modelu yn dangos costau cyfalaf a gweithredu ychwanegol rhwng £10.5 miliwn a £17.6 miliwn y flwyddyn o ganlyniad i'r gofyniad i gasglu deunyddiau gwastraff ailgylchadwy penodol ar wahân. Dros y cyfnod arfarnu deng mlynedd, bydd y cyfanswm tua £165.7 miliwn.

502. Disgwylir i'r opsiwn hwn arwain at gasglu deunydd eildro ychwanegol ac anfon llai o wastraff i safleoedd tirlenwi. Credir y bydd hyn o fantais i fusnesau rheoli gwastraff mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, disgwylir i'r cynnydd yn y deunydd eildro sy'n cael ei gasglu arwain at gynnydd yn y refeniw sy'n deillio o werthu'r deunydd eildro. Mae gwaith modelu Eunomia yn awgrymu y bydd y refeniw ychwanegol hwn gwerth rhwng £4.9 miliwn a £8.2 miliwn y flwyddyn neu tua £76.7 miliwn dros y cyfnod arfarnu deng mlynedd. Yn ail, bydd y gostyngiad yn symiau'r gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi yn lleihau lefel y Dreth Dirlenwi y mae'n rhaid i fusnesau rheoli gwastraff ei thalu[81]. Mae'r gwaith modelu yn awgrymu y bydd rhwng £11.1 miliwn a £18.5 miliwn yn llai o Dreth Dirlenwi yn cael ei thalu bob blwyddyn, neu tua £174 miliwn dros gyfnod yr arfarniad.

503. Amcangyfrifir mai arbedion cost/mantais £85 miliwn fydd yr effaith net ar fusnesau rheoli gwastraff dros gyfnod deng mlynedd yr arfarniad. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, rhagwelir y bydd grymoedd cystadleuaeth yn arwain at fusnesau rheoli gwastraff yn trosglwyddo o leiaf rai o'r arbedion hyn i gynhyrchwyr gwastraff.

Tabl 27: Dadansoddiad o'r Costau Ariannol i Fusnesau Rheoli Gwastraff

	Costau ariannol i fusnesau rheoli gwastraff, £ 000 (2015-2024) – Opsiwn 2
'*Capex*' ac '*opex*' blynyddol	£165,678
Osgoi'r dreth dirlenwi	- £174,038
Refeniw o ddeunyddiau	- £76,677
COST ARIANNOL NET[82]	- £85,037

<u>Costau Gweinyddol</u>

504. Disgwylir i gwmnïau rheoli gwastraff ysgwyddo rhai costau ymlaen llaw wrth addasu i'r gofynion newydd a threfnu systemau a phrosesau casglu newydd ar gyfer cynhyrchwyr gwastraff. Disgwylir y bydd busnesau yn

[81] *Er bod hon yn fantais i fusnesau rheoli gwastraff, ceir cost gyfatebol i Drysorlys Ei Mawrhydi yn sgil colli refeniw o'r dreth. Mae'r effaith net ar economi'r DU o ganlyniad i hyn yn niwtral.*

[82] *Rhagdybiodd gwaith modelu Eunomia fod busnesau yn mabwysiadu agwedd fwy tymor byr tuag at fenthyg arian na'r Llywodraeth, ac felly maent yn defnyddio cyfradd ddisgownt sy'n uwch na chyfradd ddisgownt safonol Trysorlys Ei Mawrhydi wrth gyfrifo gwariant cyfalaf blynyddol. O ganlyniad, mae'r adroddiad modelu yn dangos 'Cost arall' ychwanegol o tua £14 miliwn yn yr opsiwn hwn. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn defnyddio cyfradd ddisgownt safonol Trysorlys Ei Mawrhydi 3.5%, sy'n golygu bod y gost hon yn cael ei heithrio.*

ysgwyddo'r costau hyn yn y cyfnod rhwng 2015 a 2017 fel y gwelir yn y tabl isod.

Tabl 28 – Costau gweinyddol i fusnesau rheoli gwastraff – opsiwn 2

Disgrifiad	**Effeithiau blynyddol yn ystod cyfnod pontio'r polisi**			**Effaith flynyddol – 2018 tan 2024 (costau parhaus yn unig)**
	2015	**2016**	**2017**	
Trefnu system gasglu newydd ar gyfer busnesau	£595,300	£198,400	£198,400	

Gwneuthurwyr a chyflenwyr Unedau Gwaredu Gwastraff Bwyd

505. Fel rhan o'r ymgynghoriad Papur Gwyn, cyfarfu Llywodraeth Cymru â gwneuthurwyr a chyflenwyr unedau gwaredu gwastraff bwyd a'u cyrff cynrychiadol. O'r cyfarfodydd, deallwn (ar gyfer y rhan fwyaf o'r busnesau hyn) fod unedau gwaredu gwastraff bwyd at ddibenion gwaredu i garthffos yn rhan fach o allbwn y busnesau, felly nid ydym wedi mesur y gost hon. Er nad ydym yn gwybod y gost wirioneddol, awgrymwyd mewn trafodaethau gyda'r busnesau dan sylw mai cost fach iawn fyddai hon.

Cynhyrchwyr Gwastraff sy'n trin a gwaredu gwastraff bwyd gan ddefnyddio Unedau Gwaredu Gwastraff Bwyd

506. Efallai y bydd sefydliadau megis ysbytai a busnesau lletygarwch sy'n defnyddio tanciau malu i drin a gwaredu gwastraff bwyd yn ysgwyddo costau neu fanteision o gymharu â'r gwasanaeth sylfaenol. Mae gwaith dadansoddi yn amcangyfrif bod 21,000 o dunelli o wastraff yn cael eu trin yn sefydliadau'r sector cyhoeddus a lletygarwch bob blwyddyn. Ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael am nifer yr unedau gwaredu gwastraff bwyd masnachol sy'n weithredol yng Nghymru.

507. Disgwylir y bydd costau'r opsiwn hwn i fusnesau sy'n gweithredu'r unedau hyn, er enghraifft, y costau uwch sy'n gysylltiedig â chasglu gwastraff bwyd, yn cael eu gwrthbwyso i ryw raddau gan yr arbedion a wneir mewn meysydd eraill, er enghraifft, arbedion sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw a gweithredu'r unedau. Mae'r costau'n cael eu hymgorffori yn y costau i fusnesau yn nhabl 9 isod.

Awdurdodau Carthffosiaeth

508. Ni ddisgwylir i'r awdurdodau carthffosiaeth ysgwyddo unrhyw gostau ychwanegol o dan yr opsiwn hwn.

Costau i Lywodraeth Cymru

509. Disgwylir y bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo costau untro trwy weithgareddau gweinyddol megis gweithgareddau cyfathrebu a chymorth ar gyfer rhanddeiliaid perthnasol a fyddai'n cael eu heffeithio.

510. Rhagdybir bod y costau i'r Llywodraeth yr un fath ag ar gyfer Opsiynau 2 a 3, sef tua £58,000 yn 2015 a £19,000 yn 2016 a 2017.

Tabl 29: Costau i Lywodraeth Cymru – Opsiwn 2

Disgrifiad	**Effeithiau blynyddol yn ystod y cyfnod trosglwyddo i'r polisi newydd**		
	2015	**2016**	**2017**
Cyllideb marchnata	£21,100	£7,000	£7,000
Elfen AD	£30,100	£10,000	£10,000
Seminarau	£7,200	£2,400	£2,400
Cyfanswm	£58,300	£19,400	£19,400

511. Fel y nodwyd uchod, mae'r gwaith modelu yn rhagdybio y bydd busnesau rheoli gwastraff ar eu hennill drwy dalu llai o dreth dirlenwi bob blwyddyn. Er bod hon yn fantais i'r busnesau rheoli gwastraff, mae'n gost (gostyngiad mewn refeniw) i'r awdurdod casglu trethi perthnasol. Mae Deddf Cymru 2014 yn trosglwyddo pwerau ar gyfer casglu a rheoli Treth Tirlenwi yng Nghymru i Weinidogion Cymru o 2018 ymlaen.

Costau i Cyfoeth Naturiol Cymru

512. I sicrhau bod cynhyrchwyr gwastraff busnes yn casglu gwastraff ar wahân, rhagdybir y byddai Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn archwilio 1% o fusnesau y flwyddyn. Amcangyfrifir bod cyfanswm o 88,000 o fusnesau yng Nghymru.[83] Byddai CNC yn cadarnhau nad yw gwastraff bwyd yn cael ei waredu i garthffos fudr gyhoeddus yn ystod yr ymweliadau hyn. Rhagdybir hefyd y byddai'r gwaith o reoleiddio'r gofyniad ar gyfer y llif gwastraff adeiladu a dymchwel yn cynnwys archwilio cyfleusterau adennill deunydd (MRFs) yn hyn o beth, yn ogystal â'r dyletswyddau mae CNC eisoes yn eu cyflawni yn y safleoedd hyn.

513. Yn ogystal, bydd hefyd angen i CNC gyhoeddi a threfnu gweithgareddau cyfathrebu perthnasol eraill yn ymwneud â gofynion rheoleiddio o ganlyniad i ddefnyddio'r pwerau hyn.

514. Amcangyfrifir y bydd y cynnig hwn yn costio tua £75,000 y flwyddyn i CNC o 2018 ymlaen.

Costau i Awdurdodau Lleol

515. Ni ddisgwylir i'r opsiwn hwn gyflwyno unrhyw gostau na manteision ychwanegol sylweddol i awdurdodau lleol o ran casglu gwastraff cartrefi (er efallai y bydd cwmnïau rheoli gwastraff yn trosglwyddo rhai costau neu fanteision i awdurdodau lleol) gan fod awdurdodau lleol Cymru eisoes yn gorfod bodloni gofynion casglu ar wahân Rheoliadau Gwastraff (Cymru a

[83] *Data a ddarparwyd gan StatsCymru, ar gael yn: https://statscymru.cymru.gov.uk/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Businesses/Business-Demography/ActiveBusinessEnterprises-by-Area-Year*

Lloegr) (fel y'u diwygiwyd) a'u bod eisoes yn darparu gwasanaeth casglu gwastraff bwyd ar wahân. Rhaid i Awdurdodau Lleol hefyd gasglu cyfran uchel o ddeunyddiau ailgylchadwy ar wahân er mwyn cyflawni'r targedau ailgylchu statudol presennol a bennwyd o dan ddarpariaethau Mesur Gwastraff (Cymru) 2010.

516. Ni ddylai fod unrhyw gynnydd yn y costau mewn perthynas ag awdurdodau lleol yn casglu gwastraff busnes gan fod y gwasanaeth hwn yn cael ei weithredu ar sail adennill costau lawn.

Tabl Crynodeb Opsiwn 2[84]

517. Mae Tabl 30 isod yn crynhoi'r costau a'r manteision i'r prif sectorau o ganlyniad i weithredu Opsiwn 2, wedi'u proffilio o 2015 tan 2024. Mae'r gwaith modelu yn rhagdybio bod y costau'n gyson o 2018 ymlaen.

518. Fel y nodwyd uchod, mae treth dirlenwi yn daliad trosglwyddo sy'n cael ei dalu gan fusnesau rheoli gwastraff i Drysorlys Ei Mawrhydi. Mewn geiriau eraill, er bod mantais (arbedion cost) i fusnesau drwy osgoi'r dreth dirlenwi, mae cost gyfatebol (gostyngiad mewn refeniw) i Drysorlys Ei Mawrhydi. O ganlyniad, effaith net unrhyw ostyngiad mewn taliadau treth dirlenwi ar economi'r DU yw sero. Mae treth dirlenwi sydd wedi'i hosgoi yn cael ei hepgor, felly, o linell 'Cost Net' y tabl.

519. Mae'r tabl yn dangos arbedion cost i Awdurdodau Carthffosiaeth yn sgil y gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd mewn carthffosydd, ynghyd â'r manteision amgylcheddol. Amlinellir y rhain yn yr adran manteision isod.

520. Effaith gyffredinol yr opsiwn hwn yw mantais net rhwng £1.45 miliwn a £6.84 y flwyddyn neu £60 miliwn dros gyfnod deng mlynedd yr arfarniad. Gwerth Cyfredol Net yr opsiwn hwn yw £50.6 miliwn.

[84] *Eunomia Research & Consulting, (2014) Additional Policy Options Analysis for Welsh Government: Costs and Benefits of Extending Waste Framework Directive requirements, Waste Treatment Restrictions, Requirement to Sort and a Ban on the Disposal of Food Waste to Sewer - Aggregated Outputs for Welsh Government Environment Bill: Results Update 2014*

Tabl 30: Trosolwg o'r costau y flwyddyn (£ 000) – Opsiwn 2

Disgrifiad o'r Gost	2015	2016	2017	2018	Blynyddoedd 2019 i 2024 (costau rheolaidd yn unig)
Llywodraeth Cymru					
Gweinyddol	£58	£19	£19		
CNC					
Gweinyddol					
Rheolaidd				75	£450
Cynhyrchwyr Gwastraff Busnes[1]					
Gweinyddol	£2,045	£682	£682		
Rheolaidd					
Busnes Rheoli Gwastraff					
Gweinyddol	£595	£198	£198		
Opex/Capex	£10,575	£14,100	£17,625	£17,625	£105, 750
Refeniw o ddeunyddiau	-£4,894	-£6,526	-£8,157	-£8,157	-£48,942
Treth dirlenwi wedi'i hosgoi[2]	-£11,109	-£14,812	-£18,515	-£18,515	-£111,090
Awdurdodau Carthffosiaeth					
Costau trin dŵr wedi'u hosgoi	-£530	-£707	-£884	-£884	-£5,304
Cost amgylcheddol â gwerth ariannol	**-£9,301**	**-£12,402**	**-£15,502**	**-£15,502**	**-£93,012**
Cost Net[3]	**-£1,452**	**-£4,635**	**-£6,018**	**-£6,843**	**-£41,058**

Nodiadau

1. Gall y polisi hefyd arwain at gostau trin gwastraff llai ar gyfer busnesau Cymru gan ddibynnu ar amgylchiadau a threfniadau casglu lleol. Gall arwain at gostau ychwanegol os nad yw cwsmeriaid yn gallu sicrhau arbedion yn sgil llai o gasgliadau o wastraff gweddilliol.
2. Eithriwyd o gyfrifiadau cost net.
3. Mae gwerth negyddol yn dynodi arbediad net. Cyfrifwyd heb gynnwys trethi a tholl.

Opsiwn 3: Er mwyn ategu polisïau presennol, rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ymestyn y gofynion ailgylchu presennol a gwahardd llosgi deunyddiau gwastraff penodol neu eu hanfon i safleoedd tirlenwi (opsiwn sy'n cael ei ffafrio)

521. Rhagwelir y bydd yr opsiwn hwn[85] yn cyflawni cyfradd uwch o ailgylchu o gymharu ag opsiwn 2 uchod. Byddai mwy o ddeunydd yn cael ei ailgylchu nag o dan Opsiynau 1 a 2 (uchod) a byddai mwy o fanteision i'r economi a'r amgylchedd.

522. Ar gyfer pob opsiwn, mae'r gwaith modelu'n rhagdybio y bydd y polisi ar waith yn llawn erbyn 2017 ar ôl cael ei gyhoeddi yn 2014, gydag amser rhagarweiniol ar waith dros y blynyddoedd blaenorol wrth i fusnesau newid eu hymddygiad yn unol â'r polisi hyd at y pwynt hwnnw.

523. 520. Amlinellir y costau i'r gwahanol sectorau isod.

Costau i gynhyrchwyr gwastraff busnes

524. Rhagdybir y bydd y gost sy'n cael ei hysgwyddo gan gynhyrchwyr gwastraff busnes o dan yr opsiwn hwn yr un fath â'r gost o dan Opsiwn 2 (nodwyd uchod).

525. Mewn perthynas ag opsiwn 2, mae maint y costau (neu'r arbedion rheolaidd ar draws y sector masnachol yn dibynnu'n rhannol ar ffactorau megis y gystadleuaeth ac arloesedd yn y farchnad i leihau costau i gwsmeriaid, ymwybyddiaeth y busnesau o'r gwasanaethau sydd ar gael ac ymateb busnesau i gostau cynyddol casglu gwastraff gweddilliol.

526. Am y rhesymau hyn, credir bod mwy o bosibilrwydd o arbedion cost ar gyfer cynhyrchwyr gwastraff busnes o dan yr opsiwn hwn, gan y rhagwelir y bydd y gwasanaeth casglu gwastraff a ddarperir yn fwy cynhwysfawr a chystadleuol. Er nad yw'r cynnydd mewn arbedion i gynhyrchwyr gwastraff busnes wedi'i fesur, mae modd gweld y potensial ar gyfer mwy o arbedion o dan yr opsiwn hwn trwy'r arbedion cost i fusnesau rheoli gwastraff (gweler isod), y disgwylir iddynt gael eu trosglwyddo i gynhyrchwyr gwastraff busnes wrth i'r farchnad ddod yn fwy cynhwysfawr a chystadleuol.

Busnesau Rheoli Gwastraff

527. Mae'r diwydiant rheoli gwastraff yn cynnwys cwmnïau casglu gwastraff, gweithredwyr cyfleusterau storio a thrin canolraddol megis gorsafoedd trosglwyddo gwastraff a chyfleusterau adfer a gwaredu terfynol megis cyfleusterau troi gwastraff yn ynni a safleoedd tirlenwi. Er y disgwylir i'r diwydiant rheoli gwastraff gael mantais gyffredinol o'r opsiwn hwn, disgwylir

[85] *Eunomia Research & Consulting, (2014) Additional Policy Options Analysis for Welsh Government: Costs and Benefits of Extending Waste Framework Directive requirements, Waste Treatment Restrictions, Requirement to Sort and a Ban on the Disposal of Food Waste to Sewer - Aggregated Outputs for Welsh Government Environment Bill: Results Update 2014*

y bydd yn ysgwyddo rhai costau hefyd, yn ariannol ac yn weinyddol. Amlinellir y rhain yn nhabl 31 a 32 isod.

Costau Ariannol

528. Mae cynnwys gwaharddiad ar losgi deunyddiau penodol neu eu hanfon i safleoedd tirlenwi o dan yr opsiwn hwn yn golygu bod disgwyl i'r costau cyfalaf a gweithredu a ysgwyddir gan fusnesau rheoli gwastraff fod yn uwch nag o dan Opsiwn 2. Amcangyfrifir y bydd y costau ychwanegol o dan yr opsiwn hwn rhwng £11.3 miliwn a £19 miliwn y flwyddyn (o gymharu â'r gwaelodlin), gan roi cyfanswm o £178.3 miliwn dros gyfnod deng mlynedd yr arfarniad.

529. Fodd bynnag, disgwylir i'r refeniw sy'n cael ei dderbyn ar gyfer deunyddiau eildro (rhwng £5.3 miliwn ac £8.8 miliwn y flwyddyn) a gwerth y dreth dirlenwi sy'n cael ei hosgoi (rhwng £12.9 miliwn a £21.5 miliwn y flwyddyn) fod yn uwch o dan yr opsiwn hwn. Bydd y refeniw o ddeunyddiau eildro yn werth tua £83 miliwn dros gyfnod deng mlynedd yr arfarniad a'r refeniw o dreth dirlenwi sy'n cael ei hosgoi yn werth tua £202.3 miliwn dros yr un cyfnod.

530. Ar ôl ystyried yr effeithiau gwahanol hyn, mae mantais net i fusnesau rheoli gwastraff o dan yr opsiwn hwn yn fwy nag o dan Opsiwn 2, sef £106.9 miliwn dros gyfnod deng mlynedd yr arfarniad. Fel sy'n wir am Opsiwn 2, disgwylir i rymoedd y farchnad arwain at rai o'r arbedion net hyn yn cael eu trosglwyddo i gynhyrchwyr gwastraff.

Tabl 31: Dadansoddiad o'r Costau Ariannol i Fusnesau Rheoli Gwastraff

	Costau ariannol i fusnesau rheoli gwastraff, £ 000 (2014-2024) – Opsiwn 3
'*Capex*' ac '*opex*' blynyddol	£178,337
Osgoi'r dreth dirlenwi	- £202,276
Refeniw o ddeunyddiau	- £82,961
COST ARIANNOL NET[86]	- £106,900

531. Mae dadansoddiad o'r costau hyn (fesul blwyddyn) ar gyfer yr opsiynau polisi wedi'i gyflwyno yn Nhabl 34.

Costau Gweinyddol

532. Fel gydag opsiwn 2, disgwylir i'r opsiwn hwn arwain at gostau gweinyddol ychwanegol i fusnesau rheoli gwastraff. Mae Tabl 11 yn darparu dadansoddiad o gostau gweinyddol sy'n berthnasol o dan Opsiwn 3.

[86] *Rhagdybiodd gwaith modelu Eunomia fod busnesau yn mabwysiadu agwedd fwy tymor byr tuag at fenthyg arian na'r Llywodraeth, ac felly maent yn defnyddio cyfradd ddisgownt sy'n uwch na chyfradd ddisgownt safonol Trysorlys Ei Mawrhydi wrth gyfrifo gwariant cyfalaf blynyddol. O ganlyniad, mae'r adroddiad modelu yn dangos 'Cost arall' ychwanegol o tua £8.5 miliwn yn yr opsiwn hwn. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn defnyddio cyfradd ddisgownt safonol Trysorlys Ei Mawrhydi 3.5%, sy'n golygu bod y gost hon yn cael ei heithrio.*

533. Rhagdybir y bydd y gost i fusnesau rheoli gwastraff o drefnu systemau a phrosesau casglu newydd ar gyfer cynhyrchwyr gwastraff yr un fath ag o dan Opsiwn 2. Bydd hefyd yn ofynnol i fusnesau rheoli gwastraff adolygu eu cynlluniau rheoli trwytholch a dal nwy o dan yr opsiwn hwn. Disgwylir y bydd hi hefyd yn ofynnol i fusnesau rheoli gwastraff oruchwylio archwiliadau o safleoedd tirlenwi (a ystyrir yn ofyniad parhaus), ac archwilio nodiadau trosglwyddo gwastraff. Ar gyfer yr ail, mae'r gost yn cynyddu yn ystod y cyfnod pontio wrth i fusnesau addasu eu hymddygiad tros amser.

Tabl 32: Costau gweinyddol i fusnesau rheoli gwastraff – Opsiwn 3

Disgrifiad	**Effeithiau blynyddol yn ystod cyfnod pontio'r polisi**			**Effaith flynyddol – 2018 tan 2024 (costau parhaus yn unig)**
	2015	**2016**	**2017**	
Trefnu system gasglu newydd ar gyfer busnesau	£595,300	£198,400	£198,400	
Goruchwylio archwiliadau o safleoedd tirlenwi				£360
Archwilio gwastraff a Nodiadau Trosglwyddo Gwastraff	£144,600	£192,800	£241,000	£241,000
Diwygio cynlluniau rheoli trwytholch a chipio nwy	£17,900	£6,000	£6,000	

Cynhyrchwyr Gwastraff sy'n defnyddio Unedau Gwaredu Gwastraff Bwyd i drin a gwaredu bwyd

534. Rhagwelir y bydd yr effaith ar y grŵp hwn o gynhyrchwyr gwastraff yr un fath â'r effaith o dan Opsiwn 2.

Cynhyrchwyr a Chyflenwyr Unedau Gwaredu Gwastraff Bwyd

535. Rhagwelir y bydd yr effaith ar gynhyrchwyr a chyflenwyr unedau gwaredu gwastraff bwyd yr un fath ag o dan Opsiwn 2.

Awdurdodau Carthffosiaeth

536. Ni ddisgwylir i awdurdodau carthffosiaeth ysgwyddo unrhyw gostau ychwanegol o dan yr opsiwn hwn.

Costau i Awdurdodau Lleol

537. Ni ddisgwylir unrhyw gostau neu fanteision ychwanegol sylweddol i awdurdodau lleol o ran casglu gwastraff o gartrefi yn sgil yr opsiwn hwn (er efallai y bydd cwmnïau rheoli gwastraff yn pasio rhai costau neu fanteision ymlaen i awdurdodau lleol) gan fod awdurdodau lleol Cymru eisoes yn gorfod bodloni gofynion casglu ar wahân y Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) (fel y'u diwygiwyd) ac eisoes yn cynnig gwasanaeth casglu gwastraff bwyd. Hefyd, rhaid i awdurdodau lleol gasglu cyfran uchel o

ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu er mwyn bodloni'r targedau ailgylchu statudol a bennwyd dan ddarpariaethau Mesur Gwastraff (Cymru) 2010.

538. Ni ddylai gwasanaeth casglu gwastraff busnes gan awdurdod lleol olygu costau ychwanegol gan fod y gwasanaeth hwn yn cael ei redeg ar sail adennill y costau'n llawn.

539. Ni ddylai awdurdodau Lleol weld cynnydd yng nghostau gwaredu gwastraff gweddilliol o wasanaeth casglu gwastraff sy'n cael ei wahanu yn ei ffynhonnell, na ddylai gynnwys swm sylweddol o ddeunyddiau ailgylchadwy ac ni fyddai disgwyl iddynt fodloni'r meini prawf derbyn gwastraff ar safle tirlenwi neu safle Troi Gwastraff yn Ynni.

540. O dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 (fel y'u diwygiwyd), mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am reoleiddio safleoedd bach sy'n llosgi gwastraff. Mae cofnodion awdurdodau lleol yn dangos nad oes unrhyw losgyddion o'r fath yng Nghymru sydd â chaniatâd i losgi deunyddiau y mae Llywodraeth Cymru yn cynnig eu gwahardd rhag cael eu llosgi. Felly, ni fydd unrhyw gost i Awdurdodau Lleol yn sgil gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaharddiadau Troi Gwastraff yn Ynni.

Cyfoeth Naturiol Cymru

541. Er mwyn sicrhau gwasanaeth casglu gwastraff ar wahân gan gynhyrchwyr gwastraff busnes, tybiwyd y byddai CNC yn archwilio 1% o safleoedd busnes bob blwyddyn. Tybir bod 88,000 o fusnesau yng Nghymru gyfan).[87] Byddai CNC yn cadarnhau nad yw gwastraff bwyd yn cael ei waredu i garthffos fudr gyhoeddus yn ystod yr ymweliadau hyn. Rhagdybir hefyd y byddai'r gwaith o reoleiddio'r gofyniad ar gyfer y llif gwastraff C&D yn cynnwys archwilio cyfleusterau adennill deunydd yn hyn o beth, yn ogystal â'r dyletswyddau mae CNC eisoes yn eu cyflawni yn y safleoedd hyn.

542. Mae gwaharddiadau tirlenwi a throi gwastraff yn ynni yn debygol o beri i CNC amrywio trwyddedau safleoedd, a allai olygu costau untro cyfyngedig. Efallai y bydd angen i CNC adolygu cynlluniau rheoli nwy a thrwytholchion diwygiedig o safleoedd tirlenwi, petai'r newidiadau i'r cyflenwadau gwastraff yn gofyn am hynny. Gan fod CNC eisoes yn archwilio trwyddedau yn erbyn y meini prawf llym ar dderbyn gwastraff, ni ddisgwylir y byddai archwiliadau ychwanegol yn arwain at gostau ychwanegol, er y bydd angen rhywfaint o hyfforddiant ar swyddogion archwilio o bosibl.

543. Bydd angen i CNC roi cyhoeddusrwydd a threfnu gweithgareddau cyfathrebu perthnasol eraill mewn perthynas â'r gofynion rheoleiddio a ddaw yn sgil defnyddio'r pwerau hyn.

544. Isod, ceir manylion am y costau posibl i CNC. Mae'r rhan fwyaf o'r gost yn deillio o archwilio safleoedd annomestig o ran y gofyniad i ddidoli. Gall y gost hon leihau pe bai'r drefn orfodi yn gofyn am archwiliadau llai aml.

[87] *Data Stats Cymru, ar gael o: https://statscymru.cymru.gov.uk/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Businesses/Business-Demography/ActiveBusinessEnterprises-by-Area-Year*

Tabl 33: Costau i CNC - Opsiwn 3

Disgrifiad	**Effeithiau blynyddol yn ystod cyfnod pontio'r polisi**			**Effaith flynyddol - 2018 tan 2024 (costau parhaus yn unig)**
	2015	**2016**	**2017**	
Archwilio safleoedd				£37,000
Archwilio safleoedd (busnesau C&D)				£38,400
Archwilio safleoedd tirlenwi				£300
Amrywio safleoedd rheoli gwastraff ar gyfer tirlenwi			£5,500	
Adolygu cynlluniau rheoli tirlenwi diwygiedig			£29,900	
Amrywio trwyddedau rheoli gwastraff ar gyfer cyfleusterau troi gwastraff yn ynni			£1,100	

Llywodraeth Cymru

545. Rydym yn cymryd y bydd y gost i Lywodraeth Cymru o dan yr opsiwn hwn yr un fath ag ar gyfer Opsiwn 2.

Tabl crynodeb Opsiwn 3

546. Mae Tabl 34 isod yn crynhoi'r costau a'r manteision i'r prif sectorau o ganlyniad i weithredu Opsiwn 2, wedi'u proffilio o 2015 tan 2024. Fel sy'n wir am Opsiwn 2, mae Treth Dirlenwi wedi'i hosgoi yn daliad trosglwyddo ac felly mae'n cael ei heithrio o'r cyfrifiad 'Cost Net'.

Tabl 34: Trosolwg o'r costau y flwyddyn (£ 000) - Opsiwn 3[88]

Disgrifiad o'r Gost	2015	2016	2017	2018	2019 tan 2024 (costau rheolaidd yn unig)
Llywodraeth Cymru					
Gweinyddol	£58	£19	£19		
CNC					
Gweinyddol	£18	£6	£6		
Rheolaidd				£75	£450
Cynhyrchwyr Gwastraff Busnes[1]					
Gweinyddol	£2,045	£682	£682		
Busnes Rheoli Gwastraff					
Gweinyddol	£758	£397	£445		
Rheoliad				£242	£1,452
Opex / capex blynyddol	£11,383	£15,178	£18,972	£18,972	£113,832
Refeniw o ddeunyddiau	-£5,295	-£7,061	-£8,826	-£8,826	-£52,956
Treth dirlenwi wedi'i hosgoi[2]	-£12,911	-£17,215	-£21,519	-£21,519	-£129,114
Awdurdodau Carthffosiaeth					
Costau trin dŵr wedi'u hosgoi	-£530	-£707	-£884	-£884	-£5,304
Cost amgylcheddol â gwerth ariannol	**-£10,464**	**-£13,952**	**-£17,440**	**-£17,440**	**-£104,640**
Cost Net[3]	**-£2,028**	**-£5,438**	**-£7,025**	**-£7, 861**	**-£47,166**
Nodiadau 1. Gall y polisi hefyd arwain at gostau trin gwastraff llai ar gyfer busnesau Cymru gan ddibynnu ar amgylchiadau a threfniadau casglu lleol. Gall arwain at gostau ychwanegol os nad yw cwsmeriaid yn gallu sicrhau arbedion yn sgil llai o gasgliadau o wastraff gweddilliol. 2. Eithriwyd o gyfrifiadau cost net. 3. Mae gwerth negyddol yn dynodi arbediad net. Cyfrifwyd heb gynnwys trethi a tholl.					

547. Oherwydd y manteision amgylcheddol ychwanegol (gweler isod) a'r refeniw o werthu deunyddiau eildro, mae manteision net yr opsiwn hwn yn fwy nag o dan Opsiwn 2. Amcangyfrifir mai £69.5 miliwn dros gyfnod deng mlynedd yr arfarniad fydd effaith net yr opsiwn hwn. Gwerth Cyfredol Net yr opsiwn hwn yw £58.7 miliwn.

[88] *Eunomia Research & Consulting, (2014) Additional Policy Options Analysis for Welsh Government: Costs and Benefits of Extending Waste Framework Directive requirements, Waste Treatment Restrictions, Requirement to Sort and a Ban on the Disposal of Food Waste to Sewer - Aggregated Outputs for Welsh Government Environment Bill: Results Update 2014*

Rhan 4: Manteision

Opsiwn 1: Gwneud Dim: Dibynnu ar fecanweithiau presennol

548. Nid yw'r opsiwn hwn yn cynnwys unrhyw fanteision ychwanegol heblaw am y ffaith na fyddai'n gofyn am unrhyw gamau deddfwriaethol neu'r gost o weithredu deddfwriaeth newydd. Byddai cam o'r fath yn mynd yn groes i gasgliadau ac argymhellion ymchwil a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru a dyheadau Llywodraeth Cymru yn y strategaeth 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff'.

Opsiwn 2: Rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru ymestyn y gofynion ailgylchu presennol

549. Mae'r opsiwn hwn yn cwmpasu rhan o'r gadwyn rheoli gwastraff - y cynhyrchydd a'r casglwr.

550. Mae'r gwaith modelu[89] a gynhaliwyd ar gyfer yr opsiwn hwn wedi amcangyfrif y byddai cyflwyno'r opsiwn yn creu mantais ariannol i Gymru y tu hwnt i'r llinell sylfaen (opsiwn 1) o £60 miliwn, 2.3 miliwn tunnell ychwanegol o ddeunyddiau ailgylchadwy a lleihau lefelau CO_2 sy'n cyfateb i 1.9 miliwn o dunelli.

551. Ceir crynodeb o fanteision yr opsiwn hwn isod.

Cynhyrchwyr Gwastraff Busnes

552. Mae graddfa'r costau (neu'r arbedion) ar draws y sector masnachol yn dibynnu'n rhannol ar y ffactorau canlynol, fel cystadleuaeth yn y farchnad ac arloesi i leihau costau i gwsmeriaid, ymwybyddiaeth busnesau o'r gwasanaethau sydd ar gael ac ymateb busnesau i'r costau cynyddol o gasglu gwastraff gweddilliol. Am y rhesymau hyn, ni chafodd y costau eu modelu ar wahân yn y gwaith modelu lefel uchel, ond yn hytrach cawsant eu cynnwys yn y costau/arbedion i fusnesau rheoli gwastraff. Cynhaliwyd gwaith ar wahân ar gostau'r cynigion i fusnesau, a amlinellir yn Adran X uchod. Mae'r gwaith hwn yn rhagweld manteision i lawer o fusnesau, yn enwedig y rhai sy'n cynhyrchu cryn dipyn o wastraff, y rhai nad ydynt yn defnyddio unrhyw wasanaethau ailgylchu ar hyn o bryd a rhai yn y diwydiant adeiladu a dymchwel.

553. Fodd bynnag, disgwylir y byddai'r manteision posibl i fusnesau dan Opsiwn 2 yn llai na'r rhai dan Opsiwn 3, gan na fydd darparu system gasglu ar wahân o'r radd flaenaf yn cael ei ategu gan dirlenwi i fyny'r gadwyn a gwaharddiadau Troi Gwastraff yn Ynni ar gyfer rhai deunyddiau.

Busnesau Rheoli Gwastraff

[89] *Eunomia Research & Consulting, (2014) Additional Policy Options Analysis for Welsh Government: Costs and Benefits of Extending Waste Framework Directive requirements, Waste Treatment Restrictions, Requirement to Sort and a Ban on the Disposal of Food Waste to Sewer - Aggregated Outputs for Welsh Government Environment Bill: Results Update 2014*

554. Disgwylir mai busnesau casglu gwastraff fydd yn elwa'n gyffredinol ar y cynigion, yn bennaf oherwydd arbedion trwy osgoi costau'r dreth dirlenwi, trin gwastraff gweddilliol a refeniw o ddeunyddiau ailgylchu. Mae'r arbedion hyn yn ddigonol i wrthbwyso'r costau casglu gwastraff uwch. Roedd y modelu'n amcangyfrif y byddai'n golygu manteision net o £85 miliwn i fusnesau gwastraff dros gyfnod o 10 mlynedd o gymharu â chostau pontio o £1 filiwn dros dair blynedd gyntaf y cyfnod hwnnw (manylir yn yr adran gostau, tabl 14 uchod). Mewn marchnad gystadleuol, disgwylir y byddai rhywfaint o'r arbedion hynny'n cael eu pasio ymlaen i'r cynhyrchydd gwastraff, gan leihau'r manteision i fusnesau rheoli gwastraff.

Awdurdodau Carthffosiaeth

555. Mae'r gwaith modelu yn awgrymu y bydd awdurdodau carthffosiaeth yn cronni manteision o dan yr opsiwn hwn, gan gynnwys:
   - arbedion mewn perthynas â rhwystrau a difrod i systemau carthffosiaeth
   - osgoi costau trin elifion o danciau malu

556. Mae'r manteision yn cael eu dangos yn nhabl 34 uchod/isod, a byddant rhwng £530,000 ac £884,000 y flwyddyn.

Manteision Amgylcheddol

557. Mae'r manteision amgylcheddol wedi eu mynegi'n ariannol ar gyfer yr opsiwn hwn, sef £146 miliwn dros gyfnod o ddeng mlynedd, yn cael eu cyfrifo trwy bennu gwerth allyriadau i'r aer, gan gynnwys effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a llygredd aer; ystyrir effeithiau llygredd aer trwy bennu gwerth ariannol yr effaith ar iechyd pobl.

558. Mae'r gwaith modelu[90] yn amcangyfrif 2.3 miliwn tunnell ychwanegol o ddeunyddiau yn cael eu hailgylchu dros gyfnod o ddeng mlynedd a gostyngiad o 1.9 miliwn tunnell o CO2 dros gyfnod o ddeng mlynedd. Mae hyn yn arwain at fanteision gwerth rhwng £9.3 miliwn a £15.5 miliwn y flwyddyn.

Opsiwn 3: Er mwyn ategu polisïau presennol, rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ymestyn y gofynion ailgylchu presennol a gwahardd llosgi deunyddiau gwastraff penodol neu eu hanfon i safleoedd tirlenwi (y dewis sy'n cael ei ffafrio).

559. Mae'r gwaith modelu a gyflawnwyd yn amcangyfrif mai'r opsiwn hwn sy'n darparu'r lefel uchaf o arbedion ariannol, y lefelau ailgylchu uchaf a'r gostyngiad mwyaf yn y CO_2 a gynhyrchir, o gymharu â'r opsiynau eraill. Dyma'r opsiwn sy'n gwneud y cyfraniad mwyaf tuag at wella diogelwch

[90] *Eunomia Research & Consulting, (2014) Additional Policy Options Analysis for Welsh Government: Costs and Benefits of Extending Waste Framework Directive requirements, Waste Treatment Restrictions, Requirement to Sort and a Ban on the Disposal of Food Waste to Sewer - Aggregated Outputs for Welsh Government Environment Bill: Results Update 2014*

adnoddau a chyflogaeth. Mae'r gwaith modelu[10] wedi amcangyfrif y byddai cyflwyno'r opsiwn yn arwain at fantais ariannol i Gymru o gymharu â'r dewis sylfaenol (opsiwn 1) o £69 miliwn, 2.5 miliwn tunnell ychwanegol o ddeunyddiau ailgylchadwy a gostyngiad o 2.1 miliwn tunnell yng nghyfanswm y CO_2 a gynhyrchir.

560. Mae'r opsiwn yn ymestyn y gadwyn gyfrifoldeb dros gynyddu cyfanswm y deunyddiau gwastraff sy'n cael eu hailgylchu a'u hadfer ar draws y gadwyn rheoli gwastraff, o gynhyrchydd y gwastraff i'r pwynt gwaredu. Ystyrir mai cyfuniad o ymyriadau deddfwriaethol fyddai'r ffordd orau o gyflawni'r canlyniadau dymunol gan ei bod hi'n annhebygol y bydd unrhyw ymyriad yn gallu cyflawni'r canlyniad dymunol cyffredinol ar ei ben ei hun.

561. Mae'r opsiwn yn adlewyrchu arfer gorau Ewropeaidd. Mae pob math o ddulliau'n cael eu defnyddio ledled Ewrop i annog cyfraddau ailgylchu uchel ac, yn aml, mae yna gyfuniad o ymyriadau deddfwriaethol ar waith. Er enghraifft, mae'r Almaen a Fflandrys yn ei gwneud hi'n ofynnol i fusnesau ddidoli eu deunyddiau ailgylchadwy i'w casglu a/neu ei gwneud hi'n ofynnol i'r deunyddiau hynny gael eu casglu ar wahân ac yn gosod cyfyngiadau ar losgi a thirlenwi gwastraff a gesglir ar wahân a gwastraff heb ei ddidoli.

562. Nod cyflwyno gwaharddiadau ar anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi a throi gwastraff yn ynni ar gyfer deunyddiau penodol yw atgyfnerthu'r gofynion i fyny'r gadwyn sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i gynhyrchwyr gwastraff gyflwyno eu gwastraff i'w gasglu ar wahân ac i gasglwyr gwastraff gasglu deunyddiau ychwanegol trwy gasgliadau ar wahân a gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd i garthffos o eiddo annomestig.

563. Mae'r opsiwn hwn yn cefnogi sbardunau allweddol Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys:
   - Tuag at Ddyfodol Diwastraff (strategaeth wastraff Cymru)
   - Y Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru a Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd
   - Egwyddorion y Gyfarwyddeb Fframwaith Ewropeaidd a 7fed Rhaglen Gweithredu Amgylcheddol yr Undeb Ewropeaidd

564. Mae'r manteision allweddol a'r gwaith modelu ar gyfer yr opsiwn hwn wedi'u nodi isod.

<u>Cynnydd mewn Cyflogaeth</u>

565. Rhagfynegir y bydd lefelau ailgylchu uchel yn arwain at gynnydd mewn cyflogaeth yng Nghymru. Amcangyfrifir bod tua 7,850 o bobl yn cael eu cyflogi yn y diwydiant rheoli gwastraff yng Nghymru[91]. Mae ymchwil[92] yn dangos y gallai gweithredu cyfradd ailgylchu o 70% ar gyfer pob math o wastraff erbyn 2025 greu swyddi newydd yng Nghymru, gan gynnwys:

---

[91] *Sector Skills Assessment 2010 – Wales, Energy & Utility Skills*
[92] *'More Jobs Less Waste' – Adroddiad Cyfeillion y Ddaear, Medi 2010*

- 3,600 o swyddi newydd yn y sectorau trefol, masnachol a diwydiannol (gan gynnwys adeiladu a dymchwel)
- 2,600 o swyddi newydd yn y sector trefol yn unig

566. Er bod cynnydd mewn cyflogaeth yn arwain at gostau economaidd ychwanegol (fel y dangosir gan y gwaith modelu) mae manteision cymdeithasol posibl yn gysylltiedig â chynyddu lefelau cyflogaeth mewn cymdeithas.

567. Mae llawer o'r swyddi a grëir yn deillio o'r canlynol:
    - Gweithgarwch economaidd y diwydiannau ailddefnyddio, paratoi i ailddefnyddio ac ailgylchu.
    - Cyflogaeth 'anuniongyrchol' (trwy weithgarwch economaidd arall sy'n cefnogi'r diwydiant, er enghraifft, prynu nwyddau a gwasanaethau).
    - Cyflogaeth 'gymhellol' (trwy weithwyr cyflogedig y diwydiant yn gwario eu cyflog yn yr economi).

568. Mae data gan y Comisiwn Ewropeaidd yn dangos bod y sector rheoli gwastraff ar gyfer yr EU-25 yn cynnwys 1.2 i 1.5 miliwn o swyddi. Gall ailgylchu 100,000 tunnell o wastraff greu hyd at 250 o swyddi, o gymharu ag 20-40 yn achos llosgi a thua 10 yn achos anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi[93].

Mantais Amgylcheddol

569. Oherwydd gwaharddiad ar losgi ac anfon deunyddiau penodol i safleoedd tirlenwi, mae'r manteision amgylcheddol o dan yr opsiwn hwn yn fwy na'r rhai o dan Opsiwn 2. Mae'r manteision amgylcheddol â gwerth ariannol ar gyfer yr opsiwn hwn, sef £164 miliwn dros gyfnod o ddeng mlynedd, yn cael eu cyfrifo trwy bennu gwerth allyriadau i'r aer, gan gynnwys effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a llygredd aer; ystyrir effeithiau llygredd aer trwy bennu gwerth ariannol yr effaith ar iechyd pobl.

570. Mae'r gwaith modelu yn amcangyfrif 2.5 miliwn tunnell ychwanegol o ddeunyddiau yn cael eu hailgylchu dros gyfnod o ddeng mlynedd a gostyngiad o 2.1 miliwn tunnell o CO2 dros gyfnod o ddeng mlynedd.

571. Mae ymchwil ychwanegol a gynhaliwyd ar ran Llywodraeth Cymru wedi dangos bod modd cyflawni gostyngiadau mawr mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yn erbyn y llinell sylfaenol bresennol trwy ddargyfeirio deunyddiau â blaenoriaeth o safleoedd tirlenwi i gael eu hailgylchu[94, 95]. Er enghraifft, yr arbediad carbon o ganlyniad i wella'r gwaith o reoli plastig o wastraff diwydiannol a masnachol o'r llinell sylfaen yn 2007/8 i lefel uchel o adennill

[93] *Data a amlygwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd, o dan fframwaith yr EU Recycling Thematic Strategy (2005) - 'Municipal Waste in Europe ACR+ Association of Cities and Regions for Recycling and Sustainable Resource management'*
[94] *Environmental Life Cycle Assessment of Waste Management Options for Priority Waste Materials, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (2009)*
[95] *Future Recycling and Landfill Diversion Targets for Wales, Eunomia (2009)*

deunydd (yn bennaf trwy ddargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi i ailgylchu) yw 110 000 tunnell o CO_2.

Cynhyrchwyr Gwastraff Busnes

572. Byddai llawer o gynhyrchwyr gwastraff busnes, yn enwedig y rhai sy'n cynhyrchu llawer iawn o wastraff, y rhai nad ydynt yn defnyddio gwasanaeth ailgylchu ar hyn o bryd a'r rhai yn y sector adeiladu a dymchwel, yn debygol o wneud arbedion o safbwynt costau casglu gwastraff o dan yr opsiwn hwn. Mae crynodeb o'r costau a'r manteision disgwyliedig i gynhyrchwyr gwastraff busnes yn nhabl 34 uchod (at ddibenion Tabl 34, mae'r gwerth negyddol yn cynrychioli arbediad net).

Busnesau Rheoli Gwastraff

573. Disgwylir y bydd busnesau casglu gwastraff yn elwa ar y cynigion, yn bennaf oherwydd yr arbedion cost o ganlyniad i osgoi'r dreth dirlenwi, trin gwastraff gweddilliol a'r refeniw o ddeunydd ailgylchadwy. Mae'r arbedion yn ddigonol i wrthbwyso'r gost gynyddol sy'n gysylltiedig â chasglu'r deunydd ailgylchu. Yn ôl y gwaith modelu, mae'r manteision i fusnesau gwastraff yn dod i £106.9 miliwn dros gyfnod o ddeng mlynedd, o gymharu â chostau pontio a gweinyddol o £3.2 miliwn dros yr un cyfnod (gweler yr adran costau yn nhabl 14 uchod). Mewn marchnad gystadleuol, disgwylir y byddai rhai o'r arbedion cost hyn yn cael eu trosglwyddo i gynhyrchydd y gwastraff, gan leihau'r fantais i'r busnes rheoli gwastraff.

Awdurdodau Carthffosiaeth

574. Rhagdybir y bydd y fantais i awdurdodau carthffosiaeth yr un fath ag o dan Opsiwn 2.

Lleihau Costau o fewn Systemau Rheoli Gwastraff

575. Mae gwaith modelu a gomisiynwyd gan WRAP[96] yn rhagweld y bydd lefelau ailgylchu uwch a buddsoddiadau yn y seilwaith casglu a thrin yn arwain at ostyngiad yn y costau cyffredinol o gymharu â pharhau â'r systemau presennol. Gwneir arbedion cost trwy roi'r targedau ailgylchu ar waith. O dan y senario lle mae'r targedau ailgylchu o 70% yn 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' yn cael eu cyflawni, bydd yr arbedion cost yn dod i £50 miliwn y flwyddyn yn y gwasanaethau gwastraff masnachol a diwydiannol safonol erbyn 2025 o gymharu â'r costau yn 2010, gan godi i dros £60 miliwn y flwyddyn erbyn 2050.

576. Mewn astudiaeth o wastraff masnachol a diwydiannol cymysg a anfonir i safleoedd tirlenwi a gynhaliwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, amcangyfrifwyd bod busnesau Cymru wedi gwaredu gwerth tua £30 miliwn o wastraff yn 2005 – cafodd tua hanner miliwn tunnell o ddeunydd y gellir ei ailgylchu ei anfon i safleoedd tirlenwi. Pe bai'r gwastraff cymysg hwn wedi

[96] *Economic Assessment of the Welsh Government's Collections, Infrastructure and Markets Sector Plan. WRAP (2011).*

cael ei wahanu, gallai hyd at 77 y cant ohono fod wedi cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio.[97]

577. Mae maint y costau (neu'r arbedion) ar draws y sector masnachol yn dibynnu'n rhannol ar ffactorau megis y gystadleuaeth ac arloesedd yn y farchnad i leihau costau i gwsmeriaid, ymwybyddiaeth y busnesau o'r gwasanaethau sydd ar gael a'u hymateb i gostau cynyddol casglu gwastraff gweddilliol.

Gwella Diogelwch Adnoddau

578. Mae gwell effeithlonrwydd adnoddau yn mynd i'r afael â'r pryder ynglŷn â diogelwch adnoddau o ganlyniad i'r galw cynyddol am adnoddau ledled y byd. Trwy ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon trwy atal gwastraff a chyfraddau ailddefnyddio ac ailgylchu uchel, mae diogelwch deunyddiau yn cael ei wella ac mae llai o ddibyniaeth ar adnoddau sylfaenol (boed hynny yn y DU neu tu hwnt). Mae effeithlonrwydd adnoddau economi'r UE, a fesurir yn ôl más deunyddiau, wedi gwella ar gyfradd o rhwng 1 a 2% y flwyddyn (islaw'r gyfradd twf economaidd). Mae'r World Business Council on Sustainable Development yn pwysleisio'r angen i gynyddu effeithlonrwydd adnoddau o ffactor 4 i 10 erbyn 2050 (sy'n awgrymu bod pob uned yn cael ei chynhyrchu gan ddefnyddio 25% a 10% o'i hallbynnau adnoddau presennol yn eu trefn)[98].

Rhan 4: Crynodeb a'r Opsiwn sy'n cael ei Ffafrio

579. Nid yw Opsiwn 1 yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r angen i wella effeithlonrwydd adnoddau, ac mae'n peri risg fawr i gynaliadwyedd ein busnesau a'n hadnoddau naturiol.

580. Mae Opsiwn 2 yn darparu ar gyfer gwelliant ym maes ailgylchu, ond nid yw'n nodi'r lefelau ailgylchu na'r manteision cysylltiedig o ran yr amgylchedd a'r economi a ddarperir gan Opsiwn 3. Disgwylir y byddai'r manteision posibl i fusnesau o dan Opsiwn 2 yn is nag o dan Opsiwn 3, gan na fydd y gwaith o ddarparu system casglu ar wahân o safon uchel yn cael ei atgyfnerthu gan waharddiadau ar anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi i lawr y gadwyn a throi gwastraff yn ynni ar gyfer deunyddiau penodol.

581. Opsiwn 3 sy'n darparu'r lefel uchaf o arbedion ariannol ar gyfer busnesau rheoli gwastraff, y lefelau ailgylchu uchaf a'r gostyngiad mwyaf mewn CO2 o gymharu â'r tri opsiwn arall. Yr Opsiwn hwn sy'n gwneud y cyfraniad mwyaf tuag at wella diogelwch adnoddau a chyflogaeth a dyma'r un y rhagwelir fydd yn darparu system gasglu o'r safon uchaf i gynhyrchwyr gwastraff.

[97] *Determination of the Biodegradability of Mixed Commercial and Industrial waste Landfilled in Wales 2007, SLR (2007)*
[98] *Vision 2050, World Business Council on Sustainable Development (2010)*

582. Mae Opsiynau 2 a 3 yn debygol o arwain at rai busnesau yng Nghymru yn ysgwyddo costau rheoli gwastraff ychwanegol. Mae'r gwaith ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer Llywodraeth Cymru yn awgrymu bod y cynigion ar gostau rheoli gwastraff yn debygol o gael yr effaith fwyaf (yn nhermau canran) ar fusnesau sy'n cynhyrchu symiau bach o wastraff. Er ei bod yn bosibl y bydd rhywfaint o effaith ar gystadleurwydd, mae graddfa'r costau ychwanegol a nodir yn y gwaith ymchwil yn golygu eu bod yn debygol o gael effaith sylweddol ar y busnesau mwy ymylol yn unig.

583. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi camau gweithredu ar waith i helpu i liniaru'r effeithiau negyddol posibl ar fusnesau Cymru. Yn ogystal, disgwylir y bydd cystadleurwydd yn y diwydiant yn arwain at fusnesau rheoli gwastraff yn trosglwyddo o leiaf rhai o'u harbedion cost net ddisgwyliedig i'w cwsmeriaid.

584. Opsiwn 3 yw'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio oherwydd y potensial ar gyfer manteision amgylcheddol ac arbedion ariannol yn sgil trin gwastraff.

Rhan 5: Pysgodfeydd ar gyfer Pysgod Cregyn Dadansoddiad o'r Opsiynau

Opsiwn 1 (gwneud dim).

585. Nid yw'r systemau presennol yn rhoi'r gwasanaeth y mae ei angen ar y bobl hynny sy'n pysgota ym mhysgodfeydd cregyn Cymru, gan olygu bod cyfleoedd i greu gwaith yn lleol ac i wella'r amgylchedd yn cael eu colli. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r pwerau presennol o dan Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967 yn parhau yn eu lle a'r sefyllfa'n aros fel y mae.

586. Gan mai'r opsiwn hwn yw'r llinell sylfaen yr ydym yn ei defnyddio wrth asesu'r opsiwn arall, nid ydym yn amcangyfrif y bydd unrhyw gostau ychwanegol na manteision yn deillio o'r opsiwn hwn.

587. Fodd bynnag, bernir mai dim ond twf cyfyngedig y gwelid yn y diwydiant o dan yr opsiwn hwn.

588. O dan y senario hwn, ni fyddai modd i Weinidogion Cymru fynd i'r afael â'r broblem o roi deiliadaethau hirach ar gyfer pysgodfeydd y glannau, a bodloni eu rhwymedigaethau i'r UE ar yr un pryd.

Opsiwn 2 Diwygio Deddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967 ("Deddf 1967").

589. Byddai'n rhaid wrth ddeddfwriaeth sylfaenol er mwyn diwygio Deddf 1967, a byddai modd, drwy ddeddfwriaeth o'r fath, fynd i'r afael â'r problemau sy'n gysylltiedig â rhoi gorchymyn ar hyn o bryd. O dan yr opsiwn hwn, byddai gan Weinidogion Cymru y pŵer i roi Hysbysiadau Gwarchod Safleoedd, ac yna diwygio neu ddirymu Gorchmynion Pysgodfeydd Unigol a Gorchmynion Rheoleiddio (os bydd angen).

590. Byddai diwygio Deddf 1967, yn hytrach na nodi darpariaeth newydd ar wyneb Bil yr Amgylchedd, yn fuddiol hefyd o ran sicrhau eglurder i'r Gweinidog ac i'r defnyddiwr (gyda'r holl ddarpariaethau perthnasol i'w gweld ar wyneb un Ddeddf, sef Deddf 1967).

591. Byddai'n caniatáu inni gynnal adolygiad ehangach a mwy synhwyrol o'r darpariaethau perthnasol yn Neddf 1967, ac yn ein galluogi hefyd i addasu'r darpariaethau hynny. Byddai'n caniatáu inni addasu'r weithdrefn ymgeisio, i ddelio â'r angen i addasu arferion gorfodadwy ac arferion y cytunwyd arnynt o ran rheoli pysgodfeydd (ar fyr rybudd ar brydiau) ac yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio a dirymu Gorchmynion o'r fath (o dan amgylchiadau penodol).

592. Bydd yn rhaid wrth ddeddfwriaeth sylfaenol er mwyn cyflwyno'r diwygiadau hyn ac mae Bil arfaethedig yr Amgylchedd yn gyfrwng priodol ar gyfer gwneud y newidiadau hynny.

Rhan 5: Costau

Opsiwn 1 – Gwneud dim

593. Bras amcan o'r amser a gymerir i brosesu cais safonol nad oes ond mân broblemau, neu ddim problemau o gwbl, yn gysylltiedig ag ef, a bras amcan o gost hynny, gan ddibynnu ar y math o safle

Y Sector Cyhoeddus

594. Yr amserau a nodir isod yw'r amcangyfrif gorau o "gyfanswm yr oriau" a dreulir ar gais o'r fath ac nid ydynt yn adlewyrchu faint o amser a dreulir, yn allanol ac yn fewnol, yn aros am atebion yn ystod y broses ymgeisio. Maent hefyd yn cynnwys yr amser a dreulir ar y drafodaeth rhwng yr ymgeisydd a Chorff Adnoddau Naturiol Cymru ("Cyfoeth Naturiol Cymru") cyn i gais gael ei gyflwyno. Gallai ceisiadau â llawer o broblemau'n gysylltiedig â nhw gymryd cryn dipyn yn fwy o amser i'w prosesu ac, mewn rhai achosion, gwelwyd bod angen ailgyflwyno dogfennau ymgeisio. Mae faint o waith craffu sydd ei angen wrth brosesu cais yn amrywio yn ôl pa mor agos yw'r safle arfaethedig i ardaloedd gwarchodedig.

595. Mae'r 3 senario canlynol yn amlinellu'r tri phrif fath o leoliad morol lle mae ceisiadau yn debygol o gael eu gwneud yn nyfroedd Cymru (h.y. y tu allan i ardal gadwraeth, yn ymyl ardal gadwraeth neu mewn ardal gadwraeth). Mae'n anodd cyfrifo faint o amser yn union y bydd hi'n cymryd i brosesu cais ond, at ddibenion yr RIA, amcangyfrifir y bydd achos safonol, llai cymhleth yn cymryd rhwng 6 a 18 mis i'w gwblhau.

596. Senario 1) Ceisiadau am bysgodfeydd cregyn nad ydynt mewn Ardal Cadwraeth Arbennig, Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig etc, nac yn union yn ymyl ardaloedd o'r fath.

597. Mae staff Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chanolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cefas) yn treulio rhyw 1,086 o oriau yn prosesu cais, ac mae hynny'n costio rhyw £33,200. Mae gofyn paratoi Datganiad Amgylcheddol pryd bynnag y bwriedir sefydlu pysgodfa, ac mae angen cynnal ymchwiliad gwyddonol trylwyr o'r ardal bob amser. Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio Cefas, ymhlith cwmnïau ymgynghori eraill sy'n gweithio ym maes yr amgylchedd.

598. Cyfrifwyd cyfanswm yr oriau a dreulir gan y rheini sy'n gysylltiedig â phrosesu cais, ac aed ati wedyn i gyfrifo'r costau, gan ddefnyddio cyfraddau'r awr. Amcangyfrif oedd y costau hynny am nad oedd union fanylion cyflogau unigolion ar gael.

599. Mae costau Cefas a Cyfoeth Naturiol Cymru yn ddigyfnewid ar draws yr holl opsiynau gwahanol. Y rheswm dros unrhyw wahaniaeth yn y costau yw'r niferoedd gwahanol o oriau a briodolwyd i staff Llywodraeth Cymru.
Llywodraeth Cymru - £5,300
Cyfoeth Naturiol Cymru - £10,400

Cefas - £17,500

600. Senario 2) Ceisiadau am bysgodfa gregyn sydd yn ymyl neu gerllaw Ardal Cadwraeth Arbennig, Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig etc.

601. Yn ogystal â'r costau a nodir uchod, byddai angen hefyd i'r Ymgeisydd ysgwyddo'r gost ychwanegol o baratoi Datganiad Amgylcheddol.

602. Mae staff Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Cefas yn treulio rhyw 1,143 o oriau yn prosesu cais, ac mae hynny'n costio rhyw £33,800.

603. Senario 3) Ceisiadau am bysgodfa gregyn sydd mewn Ardal Cadwraeth Arbennig, Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig etc.

604. Fel uchod, byddai angen i'r Ymgeisydd ysgwyddo'r gost ychwanegol o baratoi Datganiad Amgylcheddol manwl.

605. Mae staff Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Cefas yn treulio rhyw 1,452 o oriau yn prosesu cais, ac mae hynny'n costio rhyw £37,400.

606. Ceir yn Nhabl 37 isod ddadansoddiad o'r costau i Lywodraeth Cymru, i Cyfoeth Naturiol Cymru ac i Cefas o dan bob un o'r senarios.

	Senario 1	**Senario 2**	**Senario 3**
Llywodraeth Cymru	£5,300	£5,900	£9,500
Cyfoeth Naturiol Cymru	£10,400	£10,400	£10,400
Cefas	£17,500	£17,500	£17,500
Cyfanswm	**£33,200**	**£33,800**	**£37,400**

607. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi cael 2-3 chais y flwyddyn am Orchymyn. Ar sail hynny, byddai'n costio rhwng £66,400 a £112,200 y flwyddyn i Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Cefas brosesu ceisiadau.

Y diwydiant

608. Mae'r costau i'r ymgeisydd yn amrywio'n fawr ac yn dibynnu ar fanylion y bysgodfa arfaethedig, gan gynnwys y rhywogaethau y bwriedir eu ffermio, maint y bysgodfa arfaethedig, am ba hyd y bydd yn para, a'i lleoliad (er enghraifft, a yw'n agos i ardaloedd gwarchodedig ai peidio). Bydd y costau y bydd angen i'r ymgeisydd eu hysgwyddo yn cynnwys arolwg o'r safle a gwaith maes, paratoi'r cais a chynllun rheoli, a hysbysebu'r cynnig drafft. Yn ôl gwybodaeth a ddarparwyd gan ymgeisydd a gyflwynodd gais yn ddiweddar, mae cost gwneud cais am Orchymyn yn amrywio o £12,000 i £27,000. Ar sail 2 i 3 chais y flwyddyn, byddai'r gost i'r diwydiant yn £24,000 i £81,000 y flwyddyn. Os bydd angen cynnal Ymchwiliad Cyhoeddus (yn unol ag Atodlen 1 i Ddeddf 1967) fel rhan o'r broses ymgeisio, mae'n bosibl y byddai angen i'r Ymgeisydd ysgwyddo costau

uwch o lawer. Oherwydd yr amrywiaeth o achosion a'r cymhlethdod sy'n gysylltiedig ag asesu'r meini prawf fesul achos, mae'n anodd cyfrifo ffigur cywir. Amcangyfrifwyd tua £50,000.

609. Er mwyn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd, mae angen i Weinidogion yn hynny o beth cyn y gellir gwneud Gorchymyn wedi arwain at broses Cymru gael sicrwydd o ran yr amgylchedd, ac mae faint o sicrwydd sydd ei angen ymgeisio gymhleth, hirfaith a drud. Mae'r broses honno, yn fynych, yn arwain at ganiatáu Gorchmynion am gyfnodau byrrach nag sy'n economaidd hyfyw i bysgotwyr o ran buddsoddi mewn sefydlu'r mathau hyn o bysgodfeydd.

<u>Opsiwn 2 – Diwygiadau o Sylwedd – yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio</u>

Y sector cyhoeddus

610. Ni ddisgwylir i'r Opsiwn hwn arwain at unrhyw gostau pontio. Bydd y diwydiant pysgodfeydd yn cael gwybod am y newidiadau drwy'r rhwydweithiau a'r sefydliadau sy'n bod eisoes, megis Cymdeithas Pysgotwyr Cymru. Bydd hefyd yn cael gwybodaeth drwy grwpiau megis y 3 Grŵp Pysgodfeydd y Glannau, a'r Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru. Bydd y newidiadau arfaethedig i Ddeddf 1967 yn rhai cymharol hawdd i'r diwydiant ac ni fydd angen cynnal mwy o weithdai na chynnig mwy o hyfforddiant nag a fyddai ar gael fel arfer drwy'r gwaith. Ni ragwelir y bydd unrhyw gostau cyfathrebu ychwanegol.

611. Ni ddisgwylir i'r swm y bydd yn ei gostio i Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Cefas brosesu cais unigol fod yn wahanol mewn unrhyw ffordd i'r costau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn sylfaenol. Ni fydd y pwerau newydd yn arwain at lai o graffu mewn perthynas ag unrhyw niwed posibl a achosir i'r amgylchedd gan y bysgodfa, neu gan y gwaith a wneir ynddi. Mae'r pwerau newydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ymyrryd os gwelir bod niwed yn cael ei wneud, neu ei bod yn bosibl y bydd niwed yn cael ei wneud, i'r Safle Morol Ewropeaidd ar ôl i'r Gorchymyn gael ei roi. Nid ydynt yn golygu y bydd angen rhoi llai o ystyriaeth i'r mater hwnnw cyn caniatáu'r bysgodfa arfaethedig.

612. Fodd bynnag, disgwylir y bydd y newidiadau i'r ddeddfwriaeth yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi Gorchymynion a fydd yn para am gyfnodau hirach ac a fydd, o'r herwydd, yn fwy deniadol i'r diwydiant. Y gobaith, felly, yw y bydd rhagor o geisiadau'n cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, mae'n anodd rhagweld ag unrhyw sicrwydd faint yn fwy o geisiadau a fydd yn dod i law bob blwyddyn. Ar sail y costau a gyflwynwyd o dan Opsiwn 1, rhagwelir y bydd ymdrin ag unrhyw geisiadau ychwanegol yn costio rhwng £33,200 a £37,400 i'r sector cyhoeddus (gan ddibynnu ar leoliad y pysgodfeydd arfaethedig).

613. Disgwylir mai nifer bach iawn o Hysbysiadau Gwarchod Safleoedd a fydd yn cael eu rhoi, ac nad yw ychwaith yn debygol iawn y bydd Gweinidogion Cymru yn defnyddio'r pŵer newydd a fydd ganddynt i ddirymu neu ddiwygio

Gorchymyn Pysgodfa Unigol neu Orchymyn Rheoleiddio. Bwriad y prosesau gwirio a gynhelir wrth graffu ar gais, a hefyd yr amodau sydd ynghlwm wrth Orchymyn, yw sicrhau na fydd unrhyw bysgodfa gregyn o'r fath yn niweidio unrhyw Safle Morol Ewropeaidd. O'r herwydd, gan amlaf, ni ddylai fod unrhyw angen i roi Hysbysiad Gwarchod Safle na diwygio na dirymu Gorchymyn Pysgodfa Unigol neu Orchymyn Rheoleiddio sydd eisoes yn bod. Yn y tymor hwy, wrth i amodau amgylcheddol newid, mae'n debyg y bydd mwy o angen Hysbysiadau Gwarchod Safleoedd (wrth i amgylchedd y môr newid dros amser). Amcangyfrifir ei bod yn costio rhyw £550 i Lywodraeth Cymru baratoi a chyflwyno Hysbysiad Gwarchod Safle. Mae'r gost honno'n cynnwys y costau gweinyddol a chyfraniad staff y Gwasanaethau Cyfreithiol.

Y diwydiant

614. Ni ddisgwylir i'r newidiadau arfaethedig arwain at unrhyw newid o ran faint y bydd yn ei gostio i fusnes wneud cais am Orchymyn. Amcangyfrifir, felly, y bydd pob cais ychwanegol yn costio rhwng £12,000 a £27,000 i'r diwydiant. Mae'n amlwg y bydd angen i'r ymgeisydd, wrth iddo bendefynu a yw am ysgwyddo'r gost honno ai peidio, fod yn ffyddiog y bydd yr enillion a ddaw yn sgil y Gorchymyn (os caiff ei ganiatáu) yn fwy na'r gost honno.

615. Os cyflwynir Hysbysiad Gwarchod Safle i unigolyn a fydd wedi cael gorchymyn pysgodfa, bydd costau'n gysylltiedig â hynny. Fel y nodir uchod, disgwylir mai ychydig iawn o Hysbysiadau Gwarchod Safle a fydd yn cael eu rhoi, yn enwedig felly yn ystod blynyddoedd cynnar Gorchymyn. Oherwydd yr amryfal amodau y mae modd eu gosod ar bysgodfa, ac am fod pysgodfeydd cregyn yng Nghymru yn amrywio o ran maint, nid oes modd, ar hyn o bryd, amcangyfrif yr effaith y byddai Hysbysiad Gwarchod Safle yn ei chael ar fusnes unigol (bydd yn dibynnu'n llwyr ar natur y bysgodfa benodol honno ac ym mha fodd y bydd neu y gallai fod yn niweidio Safle Morol Ewropeaidd).

Rhan 5: Manteision

Opsiwn 1 – Gwneud dim

616. Nid oes unrhyw fanteision ychwanegol i'r opsiwn hwn. Nid yw'n fanteisiol i'r ymgeiswyr nac ychwaith i Lywodraeth Cymru. Fel y nodir uchod, mae'r drefn a sefydlwyd o dan Ddeddf 1967 yn un anhyblyg nad yw'n rhoi'r hyblygrwydd y mae ar bysgotwyr ei angen i redeg y math hwn o bysgodfa. Hefyd, mae faint o sicrwydd y mae ei angen ar Weinidogion Cymru o ran yr amgylchedd er mwyn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd, wedi arwain at broses ymgeisio gymhleth, hirfaith a drud. Mae'r broses honno, yn fynych, yn arwain at ganiatáu Gorchmynion am gyfnodau byrrach nag sy'n economaidd hyfyw i bysgotwyr o ran buddsoddi mewn sefydlu'r mathau hyn o bysgodfeydd.

617. Ar hyn o bryd, mae gwerth economaidd y diwydiant pysgota cregyn yng Nghymru yn rhyw £11 miliwn y flwyddyn. Fodd bynnag, mae yna berygl y

bydd y diwydiant yn crebachu yng Nghymru, a hynny oherwydd y bydd adnewyddu Gorchmynion Pysgodfeydd Unigol a Gorchmynion Rheoleiddio yn ymddangos yn llai deniadol (o dan y ddarpariaeth ddeddfwriaethol sydd ohoni).

Opsiwn 2 – Diwygiadau o sylwedd – yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio

618. Byddai newid y drefn a sefydlwyd gan Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â'r rhwymedigaethau amgylcheddol sydd arnynt, a byddai hefyd yn rhoi'r hyblygrwydd y mae ei angen ar y diwydiant. Bydd Gorchmynion o'r fath yn fwy deniadol o'r herwydd, a bydd mwy o gyfleoedd economaidd yn cael eu creu i fusnesau pysgod cregyn yng Nghymru, gan arwain at fwy o waith yn lleol ac at fudd i'n heconomi. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddyblu pysgota cregyn erbyn 2020, a gallai hynny greu £5 i 6 miliwn yn ychwanegol y flwyddyn. Gallai hefyd ganiatáu i Orchmynion o'r fath gael eu rhoi am gyfnodau hirach, a byddai hynny'n eu gwneud yn fwy proffidiol a deniadol fel buddsoddiadau busnes. Ni fu modd pennu faint yn fwy o geisiadau a gaiff eu cyflwyno yn sgil y newidiadau, nac ychwaith effaith y newidiadau hynny o ran cynnydd posibl ym maint y diwydiant.

619. Mae Gorchmynion Pysgodfeydd Unigol a Gorchmynion Rheoleiddio yn gyfle hefyd i gyflwyno mesurau rheoli sydd o fudd o ran diogelu bioamrywiaeth a'r bysgodfa o dan sylw, e.e. drwy reoleiddio palu am abwyd – gweithgarwch a fyddai'r un mor niweidiol i'r pysgod cregyn penodedig ag i fywyd gwyllt a chynefinoedd.

620. Er nad yw'n debygol y bydd unrhyw ostyngiad mawr o ran cost nac ychwaith o ran yr amser a dreulir yn prosesu ceisiadau safonol o dan y drefn newydd, mae'n debyg mai'r budd mwyaf a fydd yn deillio ohoni fydd gallu Gweinidogion Cymru i ymyrryd ag arferion pysgota, i'w newid neu i roi terfyn arnynt yn gyfan gwbl os bydd, neu os oes posibilwydd y bydd yr arferion hynny, yn niweidio unrhyw gynefinoedd neu rywogaethau gwarchodedig neu agored i niwed. Bydd creu pŵer i roi Hysbysiad Gwarchod Safle yn galluogi Gweinidogion Cymru i fynd ati ar unwaith, drwy weithdrefn cyhoeddi hysbysiad, i fynnu bod gweithrediadau pysgota'n cael eu haddasu/yn dod i ben. Bydd hynny wedyn yn rhoi'r amser iddynt ddilyn y broses fwy hirdymor o ddiwygio/dirymu'r Gorchymyn Pysgod Gregyn perthnasol (bydd angen paratoi Offeryn Statudol arall er mwyn gwneud hynny).

621. Drwy'r gallu hwn i gynnig deiliadaethau hirach i ddarpar fuddsoddwyr, a hefyd fuddsoddwyr sydd am adnewyddu gorchmynion pysgodfeydd, dylai fod modd sicrhau bod y diwydiant yng Nghymru yn fwy sefydlog ac mewn gwell sefyllfa i dyfu.

622. Bydd y gallu i roi Gorchymyn a fydd yn para am gyfnod hirach yn golygu y bydd buddsoddwyr yn cael y sicrwydd hirdymor sydd ei angen ar gyfer y mathau hyn o bysgodfeydd.

Tabl 36: Tabl yn crynhoi costau a manteision allweddol yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio

Mae'r broses bresennol ar gyfer gwneud cais am Orchmynion Pysgodfa Unigol ac am Orchmynion Rheoleiddio wedi ennill ei phlwyf eisoes. *Ni fydd unrhyw gostau na beichiau newydd i Lywodraeth Cymru, nac ychwaith i randdeiliaid, uwchlaw'r rheini sy'n eu hwynebu eisoes.* *Llywodraeth Cymru fydd yn ysgwyddo'r costau gweinyddol a fydd yn gysylltiedig â drafftio a gweithredu Bil yr Amgylchedd.*	
Costau Allweddol	**Manteision Allweddol**
Â gwerth ariannol Mae'r cynigion yn niwtral o ran costau – Dim costau.	**Â gwerth ariannol** Dim manteision â gwerth ariannol.
Heb werth ariannol Mae'r cynigion yn niwtral o ran costau – Dim costau.	**Heb werth ariannol** • Bydd gan Weinidogion Cymru y gallu i ymyrryd os gwelir bod pysgodfa'n niweidio Safle Morol Ewropeaidd. • Bydd hynny, yn ei dro, yn golygu y bydd llai o risg i Weinidogion Cymru orfod talu costau a fyddai'n gysylltiedig ag achos yn eu herbyn am dorri cyfraith Ewropeaidd. • Bydd gan Weinidogion Cymru fwy o hyder i roi deiliadaethau hirach ar gyfer pysgodfeydd. • Bydd deiliadaethau hirach yn golygu y bydd gan bobl fwy o hyder i fuddsoddi yn y diwydiant, gan arwain at dwf yn y sector ac at werth economaidd uwch.

Rhan 6: Trwyddedu Morol

623. Y tri opsiwn sy'n cael eu hystyried yw (1) Gwneud dim / dim newid, (2) Newid gweinyddol a (3) Newid deddfwriaethol.

624. Mae'r dadansoddiad a'r data a ddefnyddiwyd wrth arfarnu'r opsiynau yn seiliedig ar ragolygon deng mlynedd, lle bo hynny'n briodol, rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2023. Mae'r ffigurau yn seiliedig ar ddata Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a data procsi gan awdurdodau trwyddedu eraill yn y DU. Lle nad oes llawer o ddata ar gael, defnyddiwyd amcangyfrifon gorau CNC.

Opsiwn 1 - Gwneud dim - Cadw at y gwaelodlin.

625. Wrth gadw'r bylchau mewn pwerau codi ffioedd, mae'r awdurdod trwyddedu (CNC) yn parhau i gyfrannu at gostau'r system trwyddedu morol i bob diben.

Opsiwn 2 – Newid gweinyddol

626. Mae modd defnyddio pwerau adennill ffioedd trwyddedu sydd eisoes yn bodoli yn ehangach ynghyd â phwerau CNC i alluogi CNC i adennill rhagor o'i gostau. Mae'r opsiwn yn cynnwys defnyddio'r holl systemau codi tâl sydd eisoes yn bodoli yn llawn, diweddaru ffioedd presennol a pheidio â gofyn am unrhyw bwerau newydd. Dyma grynodeb o'r opsiwn –
    - Codi tâl am yr holl wasanaethau a ddarperir o dan Reoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (fel y'u diwygiwyd) - Sgrinio, Cwmpasu, Monitro;
    - Adolygu a diweddaru'r holl ffioedd;
    - Gwneud cytundeb gwirfoddol ffurfiol ag ymgeiswyr/datblygwyr i adennill costau o dan bŵer cyffredinol CNC i wneud trefniadau.

Opsiwn 3 – Newid deddfwriaethol (yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio)

627. Diwygio'r pwerau presennol drwy Fil yr Amgylchedd er mwyn rhoi'r pŵer i'r awdurdod trwyddedu (CNC) godi tâl am:

    1. Waith cyn cyflwyno ceisiadau

    2. Amrywio trwydded

    3. Trosglwyddo, atal neu ddirymu trwydded

    4. Monitro trwydded forol, gan gynnwys asesu adroddiadau monitro, cyflawni amodau a phrofion cydymffurfiaeth.

628. Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn cynnwys defnyddio pwerau codi tâl sydd eisoes yn bodoli, fel y'u nodir yn Opsiwn 2, a diweddaru ffioedd presennol ar ôl adolygu ffioedd.

Rhan 6: Costau

Opsiwn 1 – gwneud dim/dim newid (gwaelodlin)

Gwaith cyn cyflwyno ceisiadau

629. Ar hyn o bryd, nid yw CNC yn cynnig gwasanaeth llawn rheolaidd cyn cyflwyno ceisiadau.

630. O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai tâl yn cael ei godi o hyd ar gyfer y gwasanaeth cyn cyflwyno ceisiadau, gan olygu y byddai'r gwasanaeth yn parhau i fod yn gyfyngedig. Gellid disgwyl y byddai lefel cysylltiad CNC â'r broses cyn cyflwyno ceisiadau yn amrywio.

631. Mae'r broses o Sgrinio a Chwmpasu a oes angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer prosiect, ac os felly, cwmpas yr asesiad o dan Reoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn ofyniad statudol o dan oruchwyliaeth CNC. Mae pwerau yn bodoli o dan y Rheoliadau i godi tâl am ddarparu barn ar Sgrinio a Chwmpasu. Fodd bynnag, ni chodir tâl am y gwasanaethau hyn ar hyn o bryd, gan arwain at gost i CNC fel yr awdurdod trwyddedu.

632. Yn anffurfiol, mae CNC yn ceisio adennill rhai costau sy'n gysylltiedig â'r broses cyn cyflwyno ceisiadau, a byddai hynny yn parhau o dan yr opsiwn hwn - er enghraifft, pe bai angen cyngor gwyddonol. Caiff costau o'r fath eu hadennill drwy drefniadau gwirfoddol ag ymgeiswyr sy'n gofyn am gyngor cyn cyflwyno cais. Mewn achosion o'r fath, mae'r ymgeisydd yn derbyn cyngor gwyddonol yn uniongyrchol, gyda'r awdurdod trwyddedu yn darparu ychydig iawn o safbwyntiau neu gyngor ychwanegol.

633. O dan yr opsiwn hwn, byddai datblygwyr (sy'n disgwyl lefel uchel o ymgysylltu a safon gwasanaeth uchel) yn debygol o ganfod nad yw CNC yn gallu ymgysylltu yn ddigonol yn ystod cyfnod cynnar eu prosiectau. O ganlyniad, ni fyddai'r manteision disgwyliedig i'r ddwy ochr o gymryd rhan yn y cyfnod cyn cyflwyno cais yn cael eu gwireddu.

634. Yn ogystal, byddai disgwyl i'r opsiwn hwn arwain at gostau uwch ac oedi adeg cyflwyno ceisiadau gan y gallai fod yn rhy hwyr yn y broses i ddatrys problemau a allai fod wedi'u datrys yn haws yn ystod cyfnodau cynnar, anffurfiol a datblygiadol y prosiect.

635. Yn gyffredinol felly, gallai'r gost i ymgeisydd fod yn uwch yn y sefyllfa hon. Amcangyfrifir y bydd y gost i CNC o drafod taliadau cyn cyflwyno ceisiadau fel a ganlyn:

Ceisiadau Sgrinio a Chwmpasu:

636. Tua 16 awr fesul cais (mae 8 cais yn cael eu derbyn bob blwyddyn ar gyfartaledd). Ar gyfer y ceisiadau hyn, mae'r costau staff amcangyfrifedig tua £7040 y flwyddyn ac mae cost cyngor gan Ganolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cefas) tua £1806 y flwyddyn ar gyfartaledd. Felly, cyfanswm y gost i CNC yw £8846 y flwyddyn. Fel y nodwyd uchod, mae pwerau yn bodoli i godi tâl am y gwasanaethau penodol hyn yn barod, ond nid ydynt wedi'u defnyddio yng Nghymru hyd yn hyn.

Amcangyfrif o'r costau i adolygu Datganiad Amgylcheddol Drafft (ES):

637. Amcangyfrifir bod angen 20 awr o amser swyddog ar gyfer pob adolygiad ES, sy'n costio £1,100 ar gyfer pob ES, ond gall hyn amrywio'n sylweddol gan ddibynnu ar lefel y datblygiad a lefel y gwasanaeth sydd ei angen ar yr ymgeisydd. Nid yw'n bosibl nodi costau fesul blwyddyn gan nad oedd y gwasanaeth hwn ar gael yn y gorffennol ac nid yw'n wasanaeth sy'n cael ei hyrwyddo gan CNC ar hyn o bryd, er ei fod wedi'i ddarparu yn anffurfiol. Gan mai dim ond un cais a gafwyd i adolygu ES yn 2013-14, mae'n rhesymol rhagdybio y bydd un cais y flwyddyn yn y dyfodol o dan yr opsiwn hwn, ar y sail nad yw'r gwasanaeth yn cael ei gynnig yn weithredol gan CNC.

638. Os oes angen cyngor Cefas, rhagwelir y bydd yn costio tua £8036.37. Mae'r data hwn yn seiliedig ar un achos, felly cydnabyddir y gallai ffigurau amrywio ar sail achosion unigol. Gyda chytundeb yr ymgeisydd, mae'r gost hon yn cael ei hadennill o dan opsiwn 1 ar hyn o bryd.

Costau eraill cyn cyflwyno ceisiadau

639. Ar hyn o bryd, mae CNC yn ymdrin â thua 260 o ymholiadau'r flwyddyn, gan dreulio 2 awr y dydd ar bob un ar gyfartaledd, ar gost o £28,600 y flwyddyn i CNC.

640. Amcangyfrifir y bydd y gwaith cyn cyflwyno ceisiadau ar sail y lefelau presennol yn costio'r canlynol i CNC:
    - Adolygiad ES drafft – £1,100 (y cosau i'w hadennill trwy drefniant anffurfiol)
    - Ymholiadau - £28,600
    - Sgrinio a chwmpasu - £8,846

641. Cyfanswm y costau blynyddol i CNC o gadw opsiwn 1 – dim newid i'r systemau codi tâl: £38,546.00. Felly, amcangyfrifir mai £385,460.00 fydd y gost i CNC dros ddeng mlynedd. Mae'r gost uniongyrchol i ddiwydiant ar hyn o bryd tua £8036.37 (mae hyn yn seiliedig ar un enghraifft – sef cost uniongyrchol Cefas yn darparu cyngor gwyddonol) (gweler paragraff 636 uchod), os cwblheir adolygiad ES. Mae hyn yn cyfateb i £80,363.70 dros ddeng mlynedd.

Amrywio trwydded

642. Gan nad yw CNC yn gallu codi tâl am amrywio trwydded ar hyn o bryd, mae'n rhaid i ymgeiswyr gyflwyno cais newydd mewn achosion lle mae angen gwneud newidiadau i drwydded sy'n fwy na newidiadau gweinyddol yn unig. Mewn achosion o'r fath, mae datblygwyr yn talu'r ffi ymgeisio llawn sy'n gysylltiedig â'r gwaith.

643. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r gost yn uwch na'r gost sy'n deillio o bŵer i godi tâl am amrywio trwydded yn benodol.

644. Amcangyfrifir y gost o amrywio trwydded i CNC yn y paragraffau canlynol:

645. Mae'r data sydd ar gael yn dangos bod 33 achos o amrywiadau bach/gweinyddol wedi codi bob blwyddyn, a bod staff wedi gweithio pum awr ar bob un ar gyfartaledd, ar gost o £9,075 i CNC ar hyn o bryd.

646. Disgwylir y bydd un achos y flwyddyn o newidiadau nad ydynt yn sylweddol ond sydd angen ailasesiad a chyngor gan Cefas, y codir tâl amdano eisoes. Disgwylir y bydd angen 10 awr o amser staff ar gyfer yr achosion hyn, ar gost o £550 i CNC a £710 i Cefas, sy'n cael ei hadennill gan yr ymgeisydd ar hyn o bryd.

647. Newidiadau sylweddol/perthnasol sydd angen asesiad newydd: dau achos y flwyddyn ar gyfartaledd, a chodir tâl amdanynt yn unol â'r tâl am geisiadau safonol. Yn yr achosion hyn, nid oes unrhyw gost amrywio i CNC gan y byddai'r tâl am gais newydd yn cynnwys yr ailasesiad.

Amcangyfrif o'r costau blynyddol i CNC ar gyfer gwaith amrywio:

Amrywiadau gweinyddol - £9075

Amrywiadau ansylweddol - £550

Cyfanswm £9,625

Cyfanswm y gost i CNC dros 10 mlynedd £96,250

Costau i ddiwydiant £710 y flwyddyn

Costau i ddiwydiant dros 10 mlynedd £7,100

Trosglwyddo, atal a dirymu trwydded

648. Gall CNC ysgwyddo costau ac nid yw'n gallu eu hadennill ar hyn o bryd pan fydd deiliad trwydded yn dymuno trosglwyddo trwydded. Er nad yw hyn wedi digwydd eto, amcangyfrifir y bydd angen dwy i dair awr i brosesu pob cais (£110 - £165). Ar sail profiad blaenorol a phrofiad o lefydd eraill yn y DU, mae'r sefyllfa hon yn annhebygol o godi, felly at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, rydym yn rhagweld y bydd dau drosglwyddiad dros ddeng mlynedd ar gost o £220-£330 i CNC dros y cyfnod deng mlynedd.

649. Gall CNC ysgwyddo costau ac nid yw'n gallu eu hadennill ar hyn o bryd pan fydd deiliad trwydded yn dymuno atal neu ddirymu trwydded. Amcangyfrifir y bydd angen dwy i dair awr i brosesu pob cais (£110 - £165). Ar sail profiad blaenorol a phrofiad o lefydd eraill yn y DU, mae'r sefyllfa hon yn annhebygol o godi, felly at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, rydym yn rhagamcanu y bydd dau achos o ddirymu trwydded dros ddeng mlynedd ar gost o £220-£330 i CNC dros y cyfnod deng mlynedd.

Parhau â thrwydded forol, gan gynnwys adroddiadau monitro, cyflawni amodau a phrofion cydymffurfiaeth

650. Nid yw'r Rheoliadau Gwaith Morol yn cynnwys pwerau i adennill costau mewn perthynas â chyflawni amodau yn yr ystyr ehangaf. Fodd bynnag, mae rhai pwerau adennill yn bodoli yn ymwneud â monitro amodau yn benodol.

651. Felly, mae costau cyflawni amodau trwyddedau yn cael eu hysgwyddo gan CNC ar gost i'r sefydliad.

652. Mae tua 29 o amodau yn cael eu cyflawni bob blwyddyn, ac mae angen 3.7 awr i'w prosesu ar gyfartaledd. Mae hyn yn cyfateb i gostau staff gwerth £5902 y flwyddyn i CNC. Yn ogystal â chostau staff, mae cyngor Cefas yn costio £11448 bob blwyddyn ar gyfartaledd.

653. Amcangyfrifir mai £17,350 yw'r gost flynyddol ar gyfartaledd i CNC gyflawni ei swyddogaethau.

654. Amcangyfrifir mai £173,500 yw cyfanswm y gost i CNC gyflawni ei swyddogaethau dros ddeng mlynedd.

Monitro amodau

655. Mewn achosion lle mae'r Rheoliadau Gwaith Morol yn berthnasol, h.y. trwydded forol sy'n gysylltiedig ag Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, mae CNC yn gallu adennill y costau monitro ar hyn o bryd. Byddai hyn yn parhau o dan yr opsiwn hwn.

656. Mae’r gost sy’n gysylltiedig â monitro o’r fath yn cynnwys gwaith CNC a gwaith cynghorwyr fel Cefas yn adolygu’r wybodaeth a gyflwynir gan ddeiliaid trwyddedau.

657. Gall y gost sy’n gysylltiedig â monitro trwyddedau gynnwys costau cyngor allanol ar gyfer CNC hefyd. Fel yr uchod, byddai’r costau hyn yn cael eu hadennill mewn achosion lle mae’r Rheoliadau Gwaith Morol yn berthnasol. Mewn achosion lle nad ydynt yn berthnasol, o dan amgylchiadau eithriadol, mae trefniadau anffurfiol wedi’u gwneud â deiliaid trwyddedau i adennill y costau. Fodd bynnag, roedd hyn yn wirfoddol i’r ymgeisydd a gallai CNC fod yn atebol am unrhyw gostau pe na bai deiliad y drwydded yn cytuno i dalu.

658. Mae’r costau presennol sy’n cael eu hysgwyddo gan CNC wedi’u nodi isod:

659. Mae 13 prosiect Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol y flwyddyn angen gwaith monitro ar ôl cael caniatâd ar gyfartaledd, ac mae angen pedair awr o amser swyddog ar gyfartaledd i wneud y gwaith (cyfanswm y gost yw £2,860). Roedd saith o’r rhain yn cynnwys gofyniad am gyngor gan Cefas ar gost o £19,934 y flwyddyn.

660. Cafodd taliadau monitro gwerth £20,695 eu hadennill gan ymgeiswyr o dan dâl monitro blynyddol.

661. Amcangyfrifir y bydd CNC yn ysgwyddo cyfanswm cost o £2,099 y flwyddyn.

662. Amcangyfrifir y bydd CNC yn ysgwyddo cyfanswm cost o £20,990 dros ddeng mlynedd.

663. Ar gyfartaledd, mae dau brosiect y flwyddyn nad ydynt yn cynnwys Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol angen gwaith monitro ar ôl cael caniatâd, ac mae angen pedair awr o amser swyddog ar gyfartaledd i wneud y gwaith (cyfanswm o £440). Roedd un o’r rhain yn cynnwys gofyniad am gyngor gan Cefas ar gost o £5,684. Ni chafodd unrhyw daliadau monitro eu hadennill gan nad yw’r pwerau ar gael.
    - Amcangyfrifir y bydd CNC yn ysgwyddo cyfanswm costau gwerth £6,124 y flwyddyn.
    - Amcangyfrifir y bydd CNC yn ysgwyddo cyfanswm costau gwerth £61,240 dros ddeng mlynedd

<u>Monitro safleoedd gwaredu a chofnodion gwaredu</u>

664. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw waith monitro rheolaidd yn digwydd ar safleoedd gwaredu yng Nghymru. Felly, nid oes gan CNC unrhyw ffigurau mewn perthynas â chost monitro safleoedd gwaredu yng Nghymru. Os oes angen monitro safle gwaredu, o ganlyniad i weithgarwch trwyddedu penodol, mae’n bosibl y bydd disgwyl i ddeiliad trwydded unigol ysgwyddo’r gost trwy ofynion y drwydded.

665. Ar hyn o bryd, mae Cefas yn monitro safleoedd gwaredu ar gyfer dyfroedd Lloegr ar gais y Sefydliad Rheoli Morol. Ar gyfer system fonitro 2014/2015, bydd y Sefydliad Rheoli Morol yn gorfod talu £250,000 am waith monitro chwe safle yn Nyfroedd Lloegr, sy'n cael eu dewis ar sail risg. Gall y gost hon amrywio yn sylweddol gan ddibynnu ar y safleoedd a dargedir. Rhagwelir y byddai llai o safleoedd yn cael eu monitro yn Nyfroedd Cymru gan fod llai o safleoedd gwaredu dynodedig yn nyfroedd tiriogaethol Cymru. Mae 14 o safleoedd gwaredu dynodedig yn nyfroedd tiriogaethol Cymru.

666. Yn unol â chonfensiwn OSPAR, mae CNC yn monitro faint o ddeunydd sy'n cael ei waredu yn y môr mewn safleoedd gwaredu dynodedig. Mae deiliaid trwyddedau yn cyflwyno cofnodion yn ymwneud â'r gwaith gwaredu hwn.

667. Amcangyfrifir bod angen 25 awr o amser staff y flwyddyn ar gost o £1,375 ar CNC er mwyn ymdrin â chofnodion gwaredu. Amcangyfrifir mai £548 y flwyddyn yw costau Cefas.
   - Amcangyfrifir mai £1,923 yw cyfanswm y costau blynyddol i CNC
   - Amcangyfrifir mai £19,230 yw cyfanswm y costau i CNC dros ddeng mlynedd

<u>Casgliad a rhagdybiaethau</u>

668. O dan yr opsiwn dim newid, rhagwelir y byddai CNC yn parhau i gyfrannu at waith gweinyddol yn ymwneud ag agweddau allweddol ar y system trwyddedu morol.

669. Gweler Tabl 35 isod am grynodeb o'r costau a nodwyd uchod. O dan Opsiwn 1, amcangyfrifir mai £75,733 y flwyddyn yw cyfanswm y costau i CNC.

670. Amcangyfrifir mai cyfanswm y costau i CNC fesul deng mlynedd yw £757,330.

671. Y costau i ddatblygwyr / diwydiant o dan yr opsiwn dim newid yw £29,441.37 y flwyddyn. Dros ddeng mlynedd, mae hyn yn cyfateb i £294, 413.70

672. O dan yr opsiwn hwn, mae'r rhagdybiaethau canlynol wedi'u gwneud:
   - Bydd ffioedd sydd eisoes yn bodoli yn cael eu hadolygu, felly bydd costau gweithgareddau y codwyd tâl amdanynt eisoes yn cael eu hadennill yn llawn.
   - Cynhelir lefel bresennol y gweithgarwch trwyddedu dros gyfnod o ddeng mlynedd. (Os yw'r gweithgarwch trwyddedu yn cynyddu, bydd y costau i CNC yn cynyddu mewn ffordd gymesur);
   - Mae CNC yn parhau i beidio â chodi tâl yn ffurfiol am waith cyn cyflwyno ceisiadau, gan weithredu mewn ffordd anffurfiol yn y cyswllt hwn;
   - Mae CNC yn mabwysiadu'r un agwedd tuag at amrywio ac adolygu copïau ES drafft;
   - Ni fydd unrhyw safleoedd gwaredu yn cael eu monitro.

673. Mae’r wybodaeth a gyflwynir o dan yr opsiwn gwneud dim/y waelodlin wedi’i nodi yn nhabl 35.

TABL 35
AMCANGYFRIF O'R COSTAU GWAELODLIN A FYDD YN CAEL EU HYSGWYDDO GAN CNC O DAN YR OPSIWN GWNEUD DIM:

Gweithgaredd	Amcangyfrif o'r nifer a dderbynnir bob blwyddyn	Amcangyfrif o staff MLT CNC fesul achos (oriau)	Cost staff (£55 yr awr) y flwyddyn (£)	Amcangyfrif o nifer gymedrig yr achosion sy'n gofyn am gyngor Cefas bob blwyddyn	Amcangyfrif o gostau cymedrig Cefas bob blwyddyn (£)	Ffi/ Adennill gan yr ymgeisydd (£)	Amcangyfrif o'r gost gymedrig i CNC (costau staff a chostau-ffioedd Cefas) (£)	Amcangyfrif o'r gost i CNC dros ddeng mlynedd (costau staff + chostau cefas) (£)
Sgrinio a Chwmpasu	8	16	7040	8	1806	0	8846	88460
Adolygiadau ES drafft	1*	20	1100	1**	8036.37	8036.37	1100	11000
Ymholiadau sylfaenol	260	2	14300	0	0	0	14300	143000
Amrywiadau Gweinyddol	33	5	9075	0	0	0	9075	90750
Amrywiadau Ansylweddol	1	10	550	1	710	710	550	5500
Amrywiadau Sylweddol (cais newydd)	2	New application	New application	New Application	New Application	New Application	New Application	New Application
Trosglwyddo trwydded	0.2	2-3	44-66	0	0	0	0	220-330
Dirymu trwydded	0.2	2-3	44-66	0	0	0	0	220-330
Cyflawni Amodau	29	3.7	5902	12	11448	0	17350	173500
Monitro Trwyddedau Asesiad o'r Effaith	13	4	2860	7	19934	20695	2099	20990

Amgylcheddol								
Monitro Trwyddedau nad ydynt yn cynnwys Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol	2	4	440	1	5684	0	6124	61240
Ymdrin â chofnodion OSPAR	-	25	1375	-	548	0	1923	19230

Opsiwn 2 – Newid gweinyddol

674. 641. Bydd yr holl gostau yr un fath â'r rhai a ddisgrifiwyd o dan opsiwn 1 ac eithrio:

Cyn cyflwyno ceisiadau – Sgrinio a Chwmpasu

675. Mae gan CNC ddyletswydd statudol i ymateb i geisiadau Sgrinio a Chwmpasu o dan y Rheoliadau Gwaith Morol (MWR). O dan Opsiwn 2, byddai CNC yn defnyddio'r gallu presennol i godi tâl am geisiadau Sgrinio a Chwmpasu fel yr amlinellir yn y Rheoliadau.

676. Er y bydd y ffioedd ar gyfer y gweithgareddau hyn yn cael eu pennu ar ôl adolygiad o'r ffioedd, y nod yw adennill y costau yn llawn, sy'n golygu ein bod yn disgwyl (lle bo hynny'n bosibl) mai defnyddwyr y system trwyddedu morol a fydd yn talu'r costau.

677. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r gost i CNC o ymateb i gais Sgrinio a Chwmpasu o dan y Rheoliadau Gwaith Morol yn cael ei throsglwyddo o CNC i'r sefydliad sy'n gwneud y cais. Ar sail y rhagdybiaeth a gyflwynir o dan Opsiwn 1, byddai hyn yn arbed tua £8846 y flwyddyn i CNC (o gymharu â'r waelodlin), gan gynnwys costau Cefas (gweler tabl 35 am y manylion llawn). Byddai defnyddwyr y system trwyddedu morol yn ysgwyddo cost ychwanegol gyfatebol o £8846 y flwyddyn.

678. Cyfanswm yr arbedion i CNC o gymharu ag opsiwn 1 yw £88,460 dros 10 mlynedd.

679. Cyfanswm y costau ychwanegol i ddefnyddwyr y system trwyddedu morol o gymharu ag opsiwn 1 yw £88,460 dros 10 mlynedd.

Casgliadau a rhagdybiaethau

680. O dan yr opsiwn newid gweinyddol, rhagwelir y byddai CNC yn parhau i gyfrannu at agweddau ar waith gweinyddol y system trwyddedu morol (e.e. cyn cyflwyno ceisiadau, amrywiadau, a monitro ar ôl i waith dderbyn caniatâd). Yn ogystal, gall y gost i rai ymgeiswyr fod yn uwch yn gyffredinol o gymharu ag opsiwn 3, oherwydd lefel is y gwasanaeth y bydd CNC yn gallu ei gynnig yn ymwneud â'r broses cyn cyflwyno ceisiadau.

681. Felly, amcangyfrifir y bydd y costau cyffredinol sy'n cael eu hysgwyddo gan CNC o dan opsiwn 2 yn lleihau i £668,870 dros ddeng mlynedd. Mae'r gostyngiad hwn oherwydd dileu'r costau Sgrinio a Chwmpasu (£88,460) o'r gwaelodlin, opsiwn 1.

682. Gall y gost gyffredinol i rai ymgeiswyr o dan opsiwn 2 fod yn uwch na'r opsiwn deddfwriaethol (opsiwn 3), oherwydd lefel is y gwasanaeth y bydd CNC yn gallu ei gynnig yn ymwneud â'r broses cyn cyflwyno ceisiadau.

683. Yn gyffredinol, rhagwelir y byddai'r costau i ddiwydiant dros ddeng mlynedd, o gymharu ag opsiwn 1, yn cynyddu i £382,863.70.

684. O dan yr opsiwn hwn, mae'r rhagdybiaethau canlynol wedi'u gwneud:
- Bydd ffioedd sydd eisoes yn bodoli a ffioedd y mae gan CNC y pŵer i godi tâl amdanynt (ac y byddent yn gwneud hynny o dan yr opsiwn hwn) yn cael eu hadolygu, fel y byddai'r costau sy'n deillio o'r gweithgareddau hynny yn cael eu hadennill yn llawn.
- Cynhelir lefel bresennol y gweithgarwch trwyddedu dros gyfnod o ddeng mlynedd.
- (Os yw'r gweithgarwch trwyddedu yn cynyddu, bydd y costau i CNC yn cynyddu mewn ffordd gymesur)
- Mae CNC yn mabwysiadu'r un agwedd tuag at amrywio ac adolygu copïau ES drafft;
- Ni fydd unrhyw safleoedd gwaredu yn cael eu monitro.
- Bydd y gost o gyfathrebu canlyniad yr adolygiad o ffioedd yn cael ei thalu trwy ohebiaeth Busnes fel Arfer.

<u>Opsiwn 3 – Newid deddfwriaethol</u>

685. O dan Opsiwn 3, ochr yn ochr â'r newid deddfwriaethol, bydd y newidiadau gweinyddol o dan opsiwn 2 yn cael eu gweithredu hefyd. Fel sy'n wir am Opsiwn 2, bydd yr opsiwn hwn yn arwain at drosglwyddo rhai costau o CNC i ddefnyddwyr y system trwyddedu morol. Fodd bynnag, mae mwy o gyfle i drosglwyddo costau o dan yr opsiwn hwn o gymharu ag opsiwn 2.

686. Ni wyddom y ffioedd ar gyfer y gweithgareddau hyn ar hyn o bryd. Bydd ffioedd yn cael eu pennu ar ôl adolygiad o'r ffioedd, y nod yw adennill y costau yn llawn, sy'n golygu ein bod yn disgwyl (lle bo hynny'n bosibl) mai defnyddwyr y system trwyddedu morol a fydd yn talu'r costau. Bydd Llywodraeth Cymru a CNC yn cynnal ymgynghoriad llawn ar strwythur a lefel briodol y ffioedd er mwyn sefydlu ffioedd gwirioneddol.

687. Mae'n bosibl y bydd diwydiant a'r CNC yn wynebu costau am wneud mân newidiadau i'w systemau i ystyried prosesu taliadau a derbyn taliadau am daliadau trwyddedu morol ehangach. Dywed CNC na fyddent yn disgwyl i gost newid y system fod yn fawr, os o gwbl. Rydym yn disgwyl mai ychydig fydd cyfanswm cost hyn.

688. Bydd CNC yn ysgwyddo costau am roi gwybod i ddeiliaid trwyddedau a defnyddwyr y system y bydd y ffioedd yn newid. Fodd bynnag, rhagwelir y gellid gwneud hyn drwy ddulliau cyfathrebu Busnes Fel Arfer. Mae'r adolygiad o ffioedd hefyd yn gyfle i gyfathrebu'r newidiadau a sut y byddant yn dod i rym. Mae'r adolygiad o ffioedd yn cael ei adolygu gan gostau BAU hefyd.

Gwaith cyn cyflwyno ceisiadau

689. O dan yr opsiwn Newid Deddfwriaethol, byddai CNC yn cynnig gwasanaeth cyn cyflwyno ceisiadau llawn a byddai'r costau yn cael eu trosglwyddo i

ddefnyddwyr y system trwyddedu morol. O dan Opsiwn 3, byddai costau prosesu ceisiadau, gan gynnwys cost cyngor allanol ar yr holl wasanaethau cyn cyflwyno ceisiadau yn cael eu hadennill yn llawn.

690. Byddai hyn yn galluogi CNC i adennill cyfanswm bras o £38,546 y flwyddyn ar gyfer cwblhau gwaith cyn cyflwyno ceisiadau ar gost gymharol i ddefnyddwyr y system trwyddedu morol (gweler tabl 35).

691. Mae ymateb i geisiadau Sgrinio a Chwmpasu o safbwynt a oes angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer prosiect, ac os felly, cwmpas yr asesiad o dan y Rheoliadau Gwaith Morol, yn ofyniad statudol sy'n cael ei gyflawni gan CNC. O dan yr opsiwn hwn, fel opsiwn 2, byddai costau gwerth £8,846 yn cael eu hadennill.

692. Ar hyn o bryd, mae CNC yn ymdrin â thua 260 o ymholiadau bob blwyddyn, gan dreulio 2 awr ar bob un ar gyfartaledd. Mae hyn yn costio £28,600 y flwyddyn i CNC.

693. Amcangyfrifir bod angen 20 awr o amser swyddog ar gyfer pob adolygiad ES, ar gost o £1,100 ar gyfer pob ES, ond gall hyn amrywio'n sylweddol gan ddibynnu ar faint y datblygiad a lefel y gwasanaeth sydd ei angen gan yr ymgeisydd. Nid yw'n bosibl nodi costau fesul blwyddyn gan nad oedd y gwasanaeth hwn ar gael yn y gorffennol ac nid yw'n wasanaeth sy'n cael ei hyrwyddo gan CNC ar hyn o bryd, er ei fod wedi'i ddarparu yn anffurfiol. Os oes angen cyngor gan Cefas, rhagwelir y bydd yn costio tua £8036.37. Mae'r data hwn yn seiliedig ar un achos, felly nodir y gallai ffigurau amrywio ar sail achosion unigol. Disgwylir i nifer y ceisiadau am adolygiad ES gynyddu ar ôl i'r gwasanaeth gael ei hyrwyddo yn llawn.

694. Gallai CNC ddarparu gwasanaeth cyn cyflwyno ceisiadau ehangach o dan yr opsiwn hwn.

695. Byddai gwasanaeth cyn cyflwyno ceisiadau ehangach yn bodloni disgwyliadau'r byd diwydiant ar gyfer lefel uwch o ymgysylltu a safon y gwasanaeth, gan sicrhau ymgysylltu digonol gan CNC ar ddechrau prosiectau. Gallai manteision posibl gwaith cyn cyflwyno ceisiadau gynnwys sicrhau bod gwaith modelu a chasglu data priodol yn mynd rhagddo er mwyn llywio ceisiadau ac osgoi oedi maes o law wrth gyflwyno ceisiadau. Byddai manteision i'r ddwy ochr yn cael eu gwireddu drwy ymgysylltu yn ystod y cyfnod cyn cyflwyno ceisiadau.

696. Byddai disgwyl i'r opsiwn hwn arwain at gostau is wrth gyflwyno ceisiadau hefyd oherwydd dechrau dwys y broses. Wrth fynd i'r afael â phroblemau yn y dechrau, mae'n cymryd llai o amser i'w datrys yn aml, gan leihau'r costau cyffredinol hefyd. Bydd cynlluniau samplu neu gynlluniau monitro a phrotocolau modelu a chasglu data yn cael eu cytuno cyn casglu'r data i sicrhau bod lefel y monitro ar lefel ddigonol.

697. Rhagwelir y bydd tua 70 o brosiectau bob blwyddyn yn cymryd rhan yn y broses cyn cyflwyno ceisiadau. Mae hyn yn seiliedig ar ddisgwyliad y

byddai tua 85% o ymgeiswyr yn gofyn am ryw fath o gyngor cyn cyflwyno ceisiadau, boed hynny'n ymwneud ag ymholiadau sylfaenol, trafodaethau cynnar, sgrinio a chwmpasu neu gyngor a chymorth llawn a manwl cyn cyflwyno cais.

698. Mae costau gwirioneddol yn debygol o amrywio'n sylweddol gan ddibynnu ar fath, graddfa a chymhlethdod prosiect. Mae'r broses cyn cyflwyno ceisiadau yn opsiwn gwirfoddol, felly gall defnyddwyr y system trwyddedu morol ddewis cymryd rhan ai peidio, gan dalu ffioedd os yn berthnasol (fodd bynnag, rhagwelir y gall costau cyffredinol i ddefnyddwyr fod yn uwch os nad ydynt yn defnyddio'r gwasanaeth cyn cyflwyno ceisiadau). Mae tystiolaeth o hyn ar gael yng ngwerthusiad adroddiad y Broses Caniatâd Cynllunio ar gyfer Tai[99].

699. Bydd ffioedd ar gyfer gwasanaethau cyn cyflwyno ceisiadau yn cael eu pennu yn dilyn adolygiad o'r ffioedd ac ymgynghoriad cyhoeddus.

700. Byddai costau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cyn cyflwyno ceisiadau sy'n cael eu hysgwyddo gan CNC ar hyn o bryd yn cael eu trosglwyddo i ddiwydiant – gweler opsiynau 1 a 2.

Amrywio trwydded

701. O dan Opsiwn 3, caiff tâl ei godi ar gyfer amrywiadau gweinyddol i drwydded forol. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael am ddim ar hyn o bryd, a CNC sy'n ysgwyddo'r gost o dan opsiwn 1 a 2. Mae'r Marine Management Organisation (yr awdurdod trwyddedu yn Lloegr) yn codi ffi o £50 ymlaen llaw am newidiadau cwbl weinyddol. Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld, er y bydd yn destun adolygiad o ffioedd, y bydd rhywbeth tebyg yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru. Deiliad y drwydded fydd yn talu'r ffi amrywiadau gweinyddol, a bydd y ffi hon yn cael ei sefydlu ar ôl adolygiad o ffioedd ac ymgynghoriad cyhoeddus.

702. O dan Opsiwn 3, os oes angen ailasesiad ond nid yw'r newid yn un sylweddol, codir tâl am amrywiad. Mae hyn yn wahanol i'r drefn o dan opsiwn 1 a 2 lle mae'r awdurdod trwyddedu yn gofyn am gais newydd.

703. Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, ac o dan Opsiwn 1 a 2, os yw'r newid i brosiect yn cael ei ystyried yn 'sylweddol', bydd angen cais newydd. Byddai hyn yn galluogi CNC i adennill costau gwerth tua £9,625 y flwyddyn (gan gynnwys costau staff a chost cyngor allanol) ar gyfer prosesu ceisiadau am amrywiadau. (Gweler tabl 35 am y manylion llawn)

Trosglwyddo, atal neu ddirymu trwydded

704. O dan opsiwn 3, byddai CNC yn gallu adennill costau os yw deiliad trwydded yn dymuno trosglwyddo, atal neu ddirymu trwydded. Ar sail profiad blaenorol a phrofiad o lefydd eraill yn y DU, nid yw'r sefyllfa hon yn

[99] *http://wales.gov.uk/topics/planning/planningresearch/publishedresearch/evaluating-planning-process-for-housing/?lang=en*

debygol o godi yn aml, felly at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, rydym yn rhagweld y bydd dau drosglwyddiad a dau ddirymiad dros ddeng mlynedd.

705. Byddai hyn yn galluogi CNC i adennill y gost amcangyfrifedig bosibl o £44-£66 y flwyddyn am brosesu ceisiadau i drosglwyddo, atal neu ddirymu trwyddedau. (gweler tabl 35 am y manylion llawn.

Parhau â thrwydded forol, gan gynnwys monitro a phrofion cydymffurfiaeth

Cyflawni amodau

706. O dan opsiwn 3, byddai CNC yn gallu adennill costau ar gyfer materion yn ymwneud â chyflawni amodau a gofyn am gyngor allanol perthnasol. Byddai hyn yn galluogi CNC i adennill y gost bosibl o tua £17,350 y flwyddyn ar gyfer ymdrin â materion yn ymwneud â chyflawni amodau. (gweler tabl 35 am y manylion llawn)

Monitro amodau

707. Mewn achosion lle nad yw'r Rheoliadau Gwaith Morwrol yn berthnasol, byddai opsiwn 3 yn galluogi CNC i adennill y costau ar gyfer monitro trwyddedau morol a gofyn am gyngor allanol perthnasol. Ar sail yr amcangyfrifon a gyflwynir o dan Opsiwn 1, byddai hyn yn arwain at drosglwyddo cost o £6,124 y flwyddyn o CNC i'r busnes perthnasol.

708. Mewn achosion lle mae'r Rheoliadau Gwaith Morwrol yn berthnasol, h.y. trwydded forol sy'n cynnwys Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, mae CNC yn gallu adennill y costau ar gyfer monitro a chyngor allanol ar hyn o bryd. Byddai hyn yn parhau o dan opsiwn 3.

Monitro safleoedd gwaredu a chofnodion gwaredu

709. Byddai opsiwn 3 yn galluogi CNR i adennill y costau ar gyfer monitro 14 safle gwaredu yn nyfroedd tiriogaethol Cymru, pe bai'r angen am waith monitro yn cael ei brofi.

710. Nid oes gan CNC unrhyw ffigurau yn ymwneud â'r gost o fonitro safleoedd gwaredu yng Nghymru. Mae data'r Sefydliad Rheoli Morol wedi'i ddefnyddio i amcangyfrif y costau y gallai CNC eu hysgwyddo os oes angen gwneud gwaith monitro. Ar gyfer system fonitro 2014/2015, codir tâl o £250,000 ar y Sefydliad Rheoli Morol ar gyfer monitro 6 safle yn nyfroedd Lloegr, sy'n cael eu dewis ar sail risg. Gall y gost hon amrywio yn sylweddol gan ddibynnu ar y safleoedd a dargedir. Rhagwelir y byddai llai o safleoedd yn cael eu monitro yn nyfroedd Cymru gan fod llai o safleoedd gwaredu dynodedig yn nyfroedd tiriogaethol Cymru.

711. Yn sgil y pŵer i godi tâl, rhagwelir y bydd gwaith monitro safleoedd gwaredu yn cael ei wneud yng Nghymru, yn amodol ar gyfiawnhau'r angen am waith monitro. Byddai tâl am gadw trwydded yn cael ei godi ar

ymgeiswyr sy'n defnyddio'r safleoedd gwaredu, a byddai'r gost honno yn talu am waith monitro o'r fath yn llawn neu'n rhannol. Nid ydym yn gwybod y ffi ar hyn o bryd, a bydd yn cael ei sefydlu ar ôl yr adolygiad o ffioedd ac ymgynghoriad ffurfiol.

712. O dan Opsiwn 3, byddai CNC yn gallu adennill y costau ar gyfer monitro faint o ddeunyddiau sy'n cael eu gwaredu yn y môr. Byddai hyn yn galluogi CNC i adennill y gost o £1,923 y flwyddyn sy'n cael ei hysgwyddo gan CNC er mwyn prosesu cofnodion gwaredu a gwneud adroddiadau i OSPAR. (gweler tabl 35 am fanylion llawn)

Casgliad a rhagdybiaethau

713. O dan yr opsiwn newid deddfwriaethol, ni fydd CNC yn cyfrannu at gostau gweinyddol y system trwyddedu morol, a'r rhai sy'n defnyddio'r system a fydd yn talu'r costau. Mae ymgeiswyr/defnyddwyr y system yn dod o amrywiaeth o sectorau gwahanol, ac mae angen trwyddedau ar gyfer rhai gweithgareddau rheolaidd (e.e. gwaith cynnal a chadw carthu) a phrosiectau sy'n cael eu harwain gan y galw/busnesau a all fod yn brosiectau untro sy'n codi ar sail fwy ad hoc.

714. Dylai'r costau i CNC fod yn niwtral gan fod mwy o costau yn cael eu hadennill. Rhagwelir mai'r costau i ymgeiswyr/defnyddwyr y system trwyddedu morol fydd £105,174.37 y flwyddyn/ £1,051,743.70 dros ddeng mlynedd. Yn 2014/15, credir mai tua £300,000 fydd gwerth y ffioedd trwyddedu morol.

715. Fodd bynnag, nid yw'r gost gynyddol i ymgeiswyr/diwydiant yn cynnwys arbedion effeithlonrwydd y gellir eu sicrhau drwy ehangu'r gwasanaeth cyn cyflwyno ceisiadau. Er enghraifft, un o fanteision gwaith cyn cyflwyno ceisiadau yw'r ffaith fod penderfyniadau yn ymwneud â cheisiadau yn debygol o gael eu gwneud yn gynt, wrth i broblemau gael eu nodi yn gynharach yn y broses. Yn ogystal, bydd yr ymgeisydd yn fwy sicr bod y gwaith modelu sydd wedi'i gwblhau yn dderbyniol i ymgyngoreion.

716. O dan yr opsiwn hwn mae'r rhagdybiaethau canlynol wedi'u gwneud:
    - Bydd y ffioedd ar gyfer pob agwedd ar y system trwyddedu morol yn cael eu hadolygu, a byddai'r costau ar gyfer y gweithgareddau hynny yn cael eu hadennill yn llawn.
    - Cynhelir lefel bresennol y gweithgarwch trwyddedu dros gyfnod o ddeng mlynedd. (Os yw'r gweithgarwch trwyddedu yn cynyddu, bydd y costau i CNC yn cynyddu mewn ffordd gymesur)
    - Bydd y gost o gyfathrebu canlyniad yr adolygiad o ffioedd yn cael ei thalu trwy ohebiaeth Busnes fel Arfer.

Rhan 6: Manteision

Opsiwn 1 – Gwneud dim/ dim newid

717. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol ar gyfer ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau pe bai'r dull gweithredu presennol yn parhau (ac eithrio'r rhai o ganlyniad i'r adolygiad o ffioedd arferol a diwygiadau canlynol uchod).

718. Byddai defnyddwyr eisoes yn gyfarwydd â'r system.

Gwaith cyn cyflwyno ceisiadau

- Byddai datblygwyr yn manteisio ar wasanaeth cyn cyflwyno ceisiadau di-dâl ond cyfyngedig.
- Dim costau a delir ymlaen llaw yn ystod cyfnod datblygu'r prosiect.

Amrywio trwydded

- Ni chodir tâl ar unrhyw amrywiadau gweinyddol.

Trosglwyddo, atal neu ddirymu trwydded

- Ni chodir tâl ar unrhyw waith sy'n ofynnol o ganlyniad i drosglwyddo neu ddirymu trwydded.

Parhau â thrwydded forol, gan gynnwys monitro a phrofion cydymffurfiaeth

- NI chodir tâl ar gyfer gwaith monitro nad yw'n gysylltiedig ag Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol,
- Ni chodir tâl am gyflawni amodau
- NI chodir tâl am ymdrin â chofnodion gwaredu OSPAR.

Opsiwn 2 – Newid gweinyddol

719. Bydd yr opsiwn hwn yn arwain at newid cyfyngedig i'r system.

Gwaith cyn cyflwyno ceisiadau

- Bydd CNC yn gallu adennill costau ar gyfer sgrinio a chwmpasu. Ar gyfer gwasanaeth cyn cyflwyno ceisiadau ehangach, byddai datblygwyr yn manteisio ar wasanaeth di-dâl, ond cyfyngedig.

Amrywio trwydded

- Ni chodir tâl ar unrhyw amrywiadau gweinyddol a gwblheir.

Trosglwyddo, atal neu ddirymu trwydded

- Ni chodir tâl am y gwasanaeth hwn.

- Parhau â thrwydded forol, gan gynnwys monitro a phrofion cydymffurfiaeth
- NI chodir tâl ar gyfer gwaith monitro nad yw'n gysylltiedig ag Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol,
- Ni chodir tâl am gyflawni amodau
- NI chodir tâl am ymdrin â chofnodion gwaredu OSPAR.

Opsiwn 3 – Newid deddfwriaethol

720. Bydd CNC yn gallu adennill mwy o gostau sy'n gysylltiedig â chyflawni ei swyddogaethau o dan y system Trwyddedu Morol os oes ganddo set lawn o bwerau codi tâl. Bydd hyn yn galluogi CNC i gynnig gwasanaethau ychwanegol, fel mewnbwn mwy cynhwysfawr ar gyfer gwaith cyn cyflwyno ceisiadau, a fydd yn fanteisiol i'r ymgeisydd ac i broses CNC o benderfynu a yw am gyhoeddi trwydded. I grynhoi, bydd yn galluogi CNC i ddarparu system trwyddedu morol sy'n addas i'r diben.

721. Mantais yr opsiwn hwn yw y bydd y system drwyddedu yn gallu adennill mwy o gostau.

Gwaith cyn cyflwyno ceisiadau

- Bydd modd canolbwyntio'n ddigonol ar y cyfnod cyn cyflwyno ceisiadau, a rhagwelir y bydd hynny'n lleihau costau ac oedi wrth gyflwyno ceisiadau, gan helpu i symleiddio'r broses.
- Drwy godi tâl am gyngor cyn cyflwyno ceisiadau, bydd mwy o amser ar gael i gynorthwyo'r cwsmer ar ddechrau hanfodol y broses.
- Bydd cyfnod mwy trylwyr cyn cyflwyno ceisiadau hefyd yn golygu bod ceisiadau gwell yn cael eu cyflwyno, gan hwyluso'r cyfnod ffurfiol ar gyfer cyflwyno ceisiadau. Mae arolygon cyn cyflwyno ceisiadau a gwblhawyd gan yr ymgeisydd yn fwy tebygol o fod yn addas i'r diben. Oherwydd hynny, mae'n annhebygol y bydd cwmnïau yn wynebu costau ychwanegol ar gyfer naill ai ychwanegu at arolygon annigonol neu gwblhau mwy o arolygon a dadansoddiadau nag sy'n ofynnol. Mae tystiolaeth o hyn ar gael yng ngwerthusiad adroddiad y Broses Caniatâd Cynllunio ar gyfer Tai.

Amrywio trwydded

- Bydd meddu ar y pwerau i adennill costau ar gyfer amrywiadau yn fanteisiol i ddeiliaid trwyddedau gan y bydd yn dileu'r angen i ailgyflwyno cais newydd os yw rhai paramedrau prosiectau neu weithrediadau wedi newid.
- Gall costau cymesur gael eu cymhwyso i newidiadau i brosiectau drwy ddefnyddio strwythur codi tâl sy'n cael ei ddiffinio ymlaen llaw.
- Bydd y paramedrau a bennir ymlaen llaw wrth nodi beth yw amrywiad bach, amrywiad neu'r hyn y byddai angen cais am drwydded newydd ar ei gyfer yn fwy eglur i ymgeiswyr.

- Byddai gallu codi tâl amrywio am newidiadau bach yn ddefnyddiol er mwyn adlewyrchu gwaith yr awdurdod trwyddedu, a gall hefyd wneud deiliaid trwyddedau yn llai tebygol o ofyn am newidiadau diangen, gan sicrhau dull gweithredu effeithlon.

Trosglwyddo, atal neu ddirymu trwydded

- Nid oes unrhyw drwydded wedi'i throsglwyddo hyd yn hyn, ond mae gallu CNC i godi tâl am y gwasanaeth hwn yn fanteisiol iddo, gan y byddai'n gost iddo fel arall.
- Nid yw CNC wedi atal neu ddirymu trwydded hyd yma, ond byddai'r rhoi'r modd i CNC allu codi am y gwasanaeth hwn yn fantais iddynt gan y byddai fel arall yn gost.
- Byddai'r gallu i godi tâl cymesur yn rhoi sicrwydd ac eglurder i'r cwsmeriaid perthnasol.

Parhau â thrwydded forol, gan gynnwys monitro a phrofion cydymffurfiaeth

- Bydd agwedd gyson tuag at gostau sy'n gysylltiedig â monitro prosiectau (y rhai sydd angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol a'r rhai nad ydynt angen asesiad o'r fath) yn arwain at waith monitro syml a theg.
- Bydd y pŵer i adennill costau monitro yn golygu bod modd cyflwyno trwyddedau am gyfnodau hirach drwy gynnwys amodau i fonitro'r effeithiau amgylcheddol a dileu'r angen i ailgyflwyno ceisiadau am drwyddedau yn fwy rheolaidd.
- Mewn ffordd debyg, bydd llai o oedi wrth brosesu adroddiadau monitro, gan y bydd adnoddau digonol ar gael. Gall oedi wrth dderbyn adroddiadau monitro effeithio ar drwyddedau newydd, oherwydd gallant oedi'r gwaith o asesu cais newydd.
- Bydd llai o oedi hefyd yn sicrhau bod risgiau posibl i'r amgylchedd, iechyd pobl neu ddefnydd dilys o'r môr yn cael eu nodi a'u hunioni yn brydlon, gan y bydd hyn yn cael ei amlygu yn gynharach yn y drwydded.
- Bydd yna allu ychwanegol i fonitro safleoedd gwaredu dynodedig gan fod modd adennill y costau hyn hefyd.

Rhan 6: Crynodeb a'r Opsiwn sy'n cael ei Ffafrio

722. Mae'n gymwys ac yn briodol i ddefnyddwyr y system trwyddedu morol ysgwyddo costau. Mae'n amhriodol i'r trethdalwr barhau i gyfrannu at dalu costau gweinyddol y system trwyddedu morol.

723. Mae tabl sy'n crynhoi'r costau i CNC dros gyfnod deng mlynedd ar gyfer pob opsiwn yn nhabl 36 isod.

Tabl 38 Crynodeb o amcangyfrif o'r costau i CNC o dan Opsiynau 1, 2 a 3 dros gyfnod deng mlynedd

Opsiwn	Cyn cyflwyno cais (£)	Amrywiadau (£)	Dirymu, Atal a Throsglwyddo (£)	Monitro, cyflawni amodau a chydymffurfiaeth (£)	Cyfanswm y Gost i CNC dros ddeng mlynedd (£)
1 (gwneud dim)	385,460.00	96,250.00	440-660.00	282,570.00	767,940.00
2 (gweinyddol)	297,000.00	96,250.00	440-660.00	282,570.00	676,480.00
3 (deddfwriaethol)	0	0	0	0	0

Tabl 39 Crynodeb o amcangyfrif o'r costau i'r ymgeisydd/deiliad y drwydded o dan Opsiynau 1, 2 a 3 dros gyfnod deng mlynedd

Opsiwn	Cyn cyflwyno cais (£)	Amrywiadau (£)	Atal, Dirymu a Throsglwyddo (£)	Monitro, cyflawni amodau a chydymffurfiaeth (£)	Cyfanswm y Gost i CNC dros ddeng mlynedd (£)
1 (gwneud dim)	80,363.70	7,100.00	0	0	87,463.70
2 (gweinyddol)	168,823.70	7,100.00	0	0	175,923.70
3 (deddfwriaethol)	465,823.70	103,350.00	440-660.00	481,910.00	1,051,743.00

724. Byddai Opsiwn 1 yn arwain at gostau parhaus i CNC ac ni fyddai'n helpu i adennill y costau yn llawn. Byddai Opsiwn 2 yn osgoi'r angen am newid deddfwriaethol ac yn galluogi CNC i adennill mwy o'i gostau, ond ni fyddai'n galluogi CNC i adennill ei gostau yn llawn. O ganlyniad, ni fyddai'n cyflawni'r amcan o adennill costau yn llawn. Yn ogystal, ni fyddai opsiwn 1 nag opsiwn 2 yn galluogi CNC i gynnig gwasanaeth eang cyn cyflwyno ceisiadau, gan fethu â sicrhau cyfleoedd i gael dechrau dwys i'r broses a sicrhau arbedion effeithlonrwydd.

725. Mae'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio (Opsiwn 3 – newid Deddfwriaethol) wedi'i ddewis gan y byddai'n galluogi'r awdurdod trwyddedu i gyflawni'r amcan o adennill costau yn llawn.

726. O dan yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio, bydd y costau'n cynyddu i'r diwydiant, ond rhagwelir y bydd y manteision yn rhagori ar y costau oherwydd y gwasanaeth gwell a fydd yn cael ei gynnig gan CNC. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yn ystod y cyfnod cyn cyflwyno ceisiadau, a fydd yn ei gwneud yn haws i wneud penderfyniad ar y cais llawn. Gallai hyn leihau'r angen am amrywiadau a gwaith monitro ar ôl rhoi caniatâd.

Rhan 7: Amrywiol

Rheoli Perygl Llifogydd Cymru

727. Rôl Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru (FRMW) ar hyn o bryd yw craffu ar Cyfoeth Naturiol Cymru a darparu cydsyniad ar gyfer ei raglen, ei ardollau a'r refeniw y mae'n ei wario. Mae llawer o waith presennol FRMW yn dyblygu rôl Bwrdd CNC o ran craffu a chynghori CNC.

728. Mae'r angen i newid y pwyllgor hwn wedi'i nodi, nid yn unig er mwyn dileu atebolrwydd deuol CNC i FRMW ac i'w fwrdd ei hun, ond hefyd er mwyn cyflawni rôl gynghori ehangach i Weinidogion Cymru ar gylch gwaith ehangach i gynnwys pob ffynhonnell llifogydd.

Dadansoddi Opsiynau

729. Mae tri opsiwn ar gyfer dyfodol Rheoli Perygl Llifogydd Cymru (FRMW) o ran newidiadau i'r pwyllgor wedi'u nodi.

Opsiwn 1 – Gwneud y Lleiaf Posibl (gwaelodlin) – Cynnal swyddogaethau FRMW gyda newidiadau anstatudol

730. Byddai swyddogaethau FRMW yn aros fel y maent ar hyn o bryd.

731. Byddai'r opsiwn hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ofyn i FRMW gyflawni swyddogaethau cynghori (anstatudol) ychwanegol i ategu ei ddyletswyddau statudol presennol, a allai gynnwys sicrhau bod cwmpas FRMW yn cydymffurfio â'r amcanion rheoli perygl llifogydd o dan y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru a rhoi cyngor i bob awdurdod rheoli perygl llifogydd (yn hytrach na CNC yn unig).

732. Mae cyfyngiadau i'r hyn y gall newidiadau anstatudol ei gyflawni. Ni fyddent yn datrys y materion atebolrwydd deuol a nodir mewn perthynas ag FRMW a Bwrdd CNC yn llwyr. Yn ogystal, er y byddai pennu swyddogaethau anstatudol ychwanegol i FRMW yn helpu i sicrhau bod FRMW yn cydymffurfio â'r agenda rheoli perygl llifogydd ehangach yng Nghymru, efallai na fyddai hyn yn ddigon i ddylanwadu ar eraill, yn enwedig awdurdodau lleol neu gyrff annibynnol.

Opsiwn 2 – Newidiadau i FMRW trwy ddeddfwriaeth eilaidd

733. Byddai'r opsiwn hwn yn cadw FRMW ond byddai Gweinidogion Cymru yn cynnig gwneud newidiadau i'w swyddogaethau o dan ddeddfwriaeth eilaidd (Rheoliadau Pwyllgorau Rhanbarthol Llifogydd ac Arfordir (Cymru a Lloegr) 2011) i adlewyrchu yn well ein hanghenion mewn perthynas â dull rheoli perygl llifogydd ehangach.

734. Er enghraifft, gallai'r opsiwn hwn gynnwys newidiadau megis newid y dull o benodi aelodau'r pwyllgor fel mai Gweinidogion Cymru, yn hytrach na CNC, fyddai'n uniongyrchol gyfrifol am benodiadau. Gellid adolygu aelodaeth i adlewyrchu agwedd ehangach at reoli perygl llifogydd.

735. Trwy'r opsiwn hwn, ni fyddai'n bosibl newid swyddogaethau statudol FRMW fel yr amlinellir yn Neddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Ar ei ben ei hun, efallai na fydd yr opsiwn hwn yn gallu mynd i'r afael â'r pryderon ynghylch atebolrwydd deuol dros raglen llifogydd CNC na sicrhau bod swyddogaethau FRMW yn cyd-fynd â darpariaeth Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru.

Opsiwn 3 – Gwneud y Ddeddfwriaeth – Newidiadau i Bwyllgor FRMW trwy Fil yr Amgylchedd (yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio)

736. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu newid swyddogaethau statudol FRMW fel eu bod yn cyd-fynd â dull rheoli perygl llifogydd ehangach. Byddai hyn hefyd yn gyfle i fynd i'r afael â'r materion atebolrwydd deuol rhwng FRMW a Bwrdd CNC trwy ddeddfwriaeth sylfaenol yn y Bil.

737. Trwy'r opsiwn hwn, byddai dyletswyddau FRMW o ran craffu ar CNC yn cael eu dileu, gyda phwyllgor mwy cynghorol/ymgynghorol yn cael ei ffurfio. Felly, byddai'r pwyllgor newydd hwn yn gorff a fyddai'n gallu cynghori Llywodraeth Cymru ar reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn ehangach yng Nghymru, gan gwmpasu dŵr wyneb, prif afonydd, cyrsiau dŵr cyffredin, llifogydd arfordirol ac erydu arfordirol.

738. Byddai'r opsiwn hwn yn ein galluogi i sicrhau bod gennym y trefniadau llywodraethu priodol i'r dyfodol sy'n canolbwyntio ar gyflawni'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru.

Rhan 7: Costau

Opsiwn 1 – Gwneud Dim (gwaelodlin) – Cynnal swyddogaethau FRMW gyda newidiadau anstatudol

739. Ni fydd y swyddogaethau cynghori ychwanegol yn cael unrhyw effaith ar gostau. Mae'r costau presennol yn cynnwys:

740. Tâl Cadeirydd y Pwyllgor, sef £17,500 y flwyddyn. Mae'r tâl hwn yn cwmpasu o leiaf 5 diwrnod o waith y mis. Ar hyn o bryd, mae'r gost hon yn cael ei thalu gan CNC trwy ei Gymorth Grant.

741. Mae aelodau'r pwyllgor yn gallu hawlio lwfansau teithio a chynhaliaeth mewn perthynas â chostau a ddaw i'w rhan wrth gyflawni busnes FRMW – sef tua £3,900 y flwyddyn (y cyfartaledd dros y ddwy flynedd diwethaf).

742. Ar hyn o bryd, mae CNC yn darparu ysgrifenyddiaeth ar gyfer y pwyllgor (ar gost o tua £480 y flwyddyn). Mae CNC wedi amcangyfrif ei fod yn treulio

tua 1,280 o oriau yn paratoi ar gyfer cyfarfodydd FRMW, yn darparu papurau ac yn mynd i gyfarfodydd, sy'n dod i tua £40,000 y flwyddyn. Mae hyn yn seiliedig ar 259 o oriau swyddogion CNC, 71 o oriau rheolwyr CNC a 49 o oriau swyddogion gweithredol CNC ar gyfer pob cyfarfod (ffigurau wedi'u darparu gan CNC).

743. Mae'r ffigurau hyn yn berthnasol i 9 cyfarfod y flwyddyn gyda Rheoli Perygl Llifogydd Cymru.

Opsiwn 2 – Newidiadau i FRMW trwy ddeddfwriaeth eilaidd

744. Er y bydd aelodaeth y pwyllgor yn cael ei adolygu ac y bydd rhai newidiadau'n cael eu gwneud i'r ffordd mae aelodau'r pwyllgor yn cael eu penodi, mae'n annhebygol y bydd y costau rhedeg cyffredinol yn newid o'r trefniadau presennol a amlinellir yn opsiwn 1 uchod. Felly, nid oes unrhyw gostau ymylol ar gyfer yr Opsiwn hwn o gymharu â'r waelodlin 'Gwneud y Lleiaf Posibl'.

745. Trwy'r opsiwn hwn, efallai y bydd angen gwneud gwaith ychwanegol i ddiwygio Cylch Gorchwyl y pwyllgor/canllawiau yn dilyn newidiadau i ddeddfwriaeth eilaidd. Byddai'r gwaith hwn yn cael ei gyflawni'n fewnol, felly byddai'r costau'n isel iawn.

Opsiwn 3 – Gwneud y Ddeddfwriaeth – Newidiadau i Bwyllgor FRMW trwy Fil yr Amgylchedd (yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio)

746. Ni fyddai'r gost yn cynyddu o'r trefniadau presennol (a amlinellir yn opsiwn 1). Bydd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol yn penodi cadeirydd i'r pwyllgor newydd – mae'r cadeirydd presennol yn derbyn cyflog o £17,500 y flwyddyn. Efallai y bydd costau recriwtio yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn, os bydd y Gweinidog yn dewis penodi rhywun o'r tu allan i Lywodraeth Cymru, er y byddai'r costau hyn hefyd wedi codi o dan yr opsiwn 'gwneud y lleiaf posibl' i recriwtio cadeirydd newydd i'r pwyllgor. Gallai aelodau'r pwyllgor hawlio costau teithio a chynhaliaeth o hyd.

747. Ar hyn o bryd, mae'r holl gostau'n cael eu talu gan CNC fel rhan o'i grant blynyddol. O dan y ddeddfwriaeth newydd, byddai costau sy'n gysylltiedig â phwyllgor newydd yn cael eu talu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Byddai hyn yn arwain at ostyngiad yng nghymorth grant blynyddol CNC, felly byddai'n golygu trosglwyddo costau yn hytrach na chreu costau newydd. Byddai'r costau sy'n gysylltiedig â pharatoi ar gyfer cyfarfodydd FRMW a amlinellir yn Opsiwn 1 yn llai trwy'r opsiwn hwn gan y bydd angen llai o amser i baratoi ar gyfer cyfarfodydd a mynd i gyfarfodydd lle byddai ei raglen a'i gyllideb yn destun craffu. Byddai cynrychiolydd/cynrychiolwyr CNC yn dal i gyfrannu at y pwyllgor newydd, felly ni fyddai'r costau llawn yn cael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru.

748. Trwy'r opsiwn hwn, mae costau'n debygol o gael eu harbed; ni fydd unrhyw effaith ariannol negyddol.

Rhan 7: Manteision

Opsiwn 1 – Gwneud dim

749. Gellid gwneud newidiadau i'r pwyllgor yn syth; fodd bynnag, newidiadau anstatudol fyddai'r rhain. Gallai Llywodraeth Cymru wneud cais am i dasgau cynghori ychwanegol gael eu cyflawni fel eu bod yn cyd-fynd â'r Strategaeth Genedlaethol. Byddai'r atebolrwydd deuol yn aros. Ni fyddai unrhyw fanteision eraill.

Opsiwn 2 – Newidiadau i FRMW trwy ddeddfwriaeth eilaidd

750. Byddai diwygio Rheoliadau Pwyllgorau Rhanbarthol Llifogydd ac Arfordir 2011 yn golygu bod modd gwneud newidiadau i rai o'r materion sydd eisoes wedi codi, gan gynnwys penodi'r Cadeirydd ac aelodau'r pwyllgor. Ni fyddai dyletswyddau FRMW fel y'u hamlinellir yn Neddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn cael eu trafod, felly byddai'r atebolrwydd deuol yn aros.

Opsiwn 3 – Gwneud y Ddeddfwriaeth – Newidiadau i Bwyllgor FRMW trwy Fil yr Amgylchedd (yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio)

751. Byddai'r opsiwn hwn yn sefydlu corff mwy cynghorol/ymgynghorol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd yng Nghymru ac yn dileu'r atebolrwydd deuol mewn perthynas â rhaglen a chyllideb CNC. Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn sicrhau bod diben a chwmpas y pwyllgor yn cyd-fynd â'r Strategaeth Genedlaethol.

752. Byddai'r opsiwn hwn yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar bob ffynhonnell llifogydd a reolir trwy'r holl Awdurdodau Rheoli Risg, yn hytrach na CNC yn unig. Bydd y cynnig yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ar aelodaeth y pwyllgor a thaliadau i'r Cadeirydd ac aelodau'r pwyllgor. Trwy wneud y newidiadau hyn trwy'r Bil, mae modd dileu'r gofyniad i CNC ymgynghori â'r pwyllgor ar ei raglen a'i gyllideb, gan ddileu gallu FRMW i roi feto ar gyllideb a rhaglen CNC. Mae CNC wedi amcangyfrif bod staff CNC (ac eithrio staff yr ysgrifenyddiaeth) yn treulio 1,280 o oriau y flwyddyn yn paratoi ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor FRMW, yn darparu papurau ar gyfer y cyfarfodydd hynny ac yn mynd i'r cyfarfodydd. Amcangyfrifir bod hyn yn dod i tua £40,000 y flwyddyn. Er y bydd rhywfaint o'r gwaith hwn yn aros gyda CNC, yn enwedig o ran paratoi papurau tebyg ar gyfer ei fwrdd ei hun, bydd yna arbedion cost i CNC o ran yr amser a dreulir yn ymgynghori â'r pwyllgor.

753. Cyflawnir arbedion cost trwy ddarparu pwyllgor cynghori mwy effeithlon mewn perthynas â rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru. Mae arbedion cost yn anodd eu mesur yn y cyfnod hwn ac maent yn ddibynnol ar gyfansoddiad a threfniadau sefydliadol y pwyllgor newydd. Bydd gwybodaeth ar gael pan fydd penderfyniad yn cael ei wneud ar fformat y pwyllgor newydd. Mae'r RIA wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu hyn.

Rhan 7: Crynodeb o'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio

754. Yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio yw cyflwyno darpariaeth newydd mewn deddfwriaeth sylfaenol trwy'r Bil i sefydlu pwyllgor newydd i oruchwylio a darparu cyngor i Weinidogion Cymru ar bob ffynhonnell llifogydd, yn hytrach na dim ond ar y prif afonydd a'r môr, fel y mae CNC yn ei wneud ar hyn o bryd.

755. Trwy wneud y newidiadau hyn trwy'r Bil, mae modd dileu'r gofyniad i CNC ymgynghori â'r pwyllgor ar ei raglen a'i gyllideb, gan ddileu gallu FRMW i roi feto ar gyllideb a rhaglen CNC. Bydd hyn yn mynd i'r afael â'r atebolrwydd deuol presennol rhwng FRMW a Bwrdd CNC.

756. Byddai'r pwyllgor newydd hwn yn rhoi cyngor yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru ar reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol ledled Cymru ac yn darparu sicrwydd bod dulliau rheoli perygl llifogydd ledled Cymru yn cyd-fynd â'r Strategaeth Genedlaethol.

Tabl cryno 40: Crynodeb o'r costau a'r manteision allweddol mewn perthynas â'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio i'r Pwyllgor FRMW

Polisi	Costau Allweddol	Manteision Allweddol
Newidiadau i'r Pwyllgor FRMW trwy Fil yr Amgylchedd	**Ariannol** Os oes cadeirydd cyflogedig, costau'r rôl hon (£17,503 ar hyn o bryd) Costau teithio a chynhaliaeth (tua £3,918 y flwyddyn ar hyn o bryd).	**Ariannol** Gostyngiad mewn amser, ac felly costau (hyd at £40,000 y flwyddyn), o ran staff CNC yn paratoi ac yn ymgynghori â'r pwyllgor.
	Anariannol	**Anariannol** Dileu'r atebolrwydd deuol a lleihau'r baich diangen ar CNC. Rhoi cyngor uniongyrchol i Weinidogion Cymru ar reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Sicrhau bod dulliau rheoli perygl llifogydd yng Nghymru yn cyd-fynd â'r Strategaeth Genedlaethol.

Rhan 7: Draenio tir

757. Mae'r asesiadau a ganlyn yn cynnwys 2 adran sy'n ymdrin â diddymu gofynion i gyhoeddi hysbysebion mewn papurau newyddion lleol, a hefyd â phwerau i ddarparu ar gyfer apelau yn erbyn ardollau arbennig. Ystyriwyd 2 opsiwn posibl ar gyfer y naill gynnig a'r llall ac aseswyd a ddylid eu cynnwys yn y Bil ai peidio. Mae yma asesiad hefyd mewn perthynas â phŵer mynediad er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gorchymyn i lanhau ffosydd.

Byrddau Draenio Mewnol – Gofynion hysbysebu

Dadansoddiad o'r opsiynau

Opsiwn 1- Gwneud dim (Opsiwn y Gwaelodlin)

758. Fel y dywedir yn Neddf Draenio Tir 1991, mae'n ofynnol, mewn perthynas â nifer o swyddogaethau'r Byrddau Draenio Mewnol, fod cynlluniau a gorchmynion yn cael eu hysbysebu mewn papurau newyddion lleol, gan gynnwys y London Gazette. Mae'r gofynion hysbysebu presennol yn anhyblyg ac ar ôl yr oes. O wneud dim, byddai'r gofynion hynny'n parhau.

Opsiwn 2 - yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio

759. Dileu'r gofyniad i hysbysebu mewn papurau newyddion lleol ac yn y London Gazette, a chyflwyno system symlach a mwy modern yn lle hynny. Y bwriad, felly, yw diwygio pob adran berthnasol yn Neddf Draenio Tir 1991 er mwyn caniatáu i hysbysiadau gael eu dosbarthu'n fwy eang, mewn ffordd wedi'i thargedu (e.e. defnyddio dulliau electronig, hysbysfyrddau mewn plwyfi), ond gan sicrhau, ar yr un pryd, bod y broses yn parhau'n deg, yn agored ac yn gynhwysol, a'i bod yn manteisio i'r eithaf ar wybodaeth leol er mwyn sicrhau bod yr hysbysebu'n cyrraedd y bobol briodol. Mae'r gofyniad i hysbysebu wed'i ddileu eisoes yn Lloegr drwy gyfrwng y Deddf Dŵr 2014.

Rhan 7: Costau

Opsiwn 1 – Gwneud Dim

760. Mae cost hysbysebu mewn papurau newyddion lleol yn amrywio. Ar hyn o bryd, mae pob hysbyseb yn y London Gazette yn costio rhyw £200, man lleiaf.

Opsiwn 2 – yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio

761. Mae'r Byrddau Draenio Mewnol o'r farn nad yw'r manteision sy'n deillio o hysbysebu mewn papurau newyddion lleol yn cyfiawnhau'r gost. Mae hysbyseb yn y London Gazette yn costio o leiaf £200; cost untro yw hwn. Ni

ddisgwylir y bydd unrhyw gostau gweinyddol ychwanegol (staff) yn gysylltiedig â pharatoi hysbyseb a'i chyhoeddi ar-lein felly, drwy ddileu'r rheidrwydd i hysbysebu yn y London Gazette, bydd modd arbed o leiaf £200 am bob hysbyseb. Byddai'r costau hyn yn codi o bryd i'w gilydd. Mae hysbysebion yn ymwneud ag IDBs wedi'u gosod yn anaml iawn dros y blynyddoedd.

Rhan 7: Manteision

Opsiwn 1 – Gwneud Dim

762. O wneud dim, byddai'r arfer sydd ohoni ar hyn o bryd ar gyfer hysbysebu yn parhau'n ddigyfnewid. Ni allwn weld unrhyw fanteision i'r opsiwn hwn, a dyna pam yr ydym yn cynnig y dylid newid y drefn. Byddai hysbysebu gan ddefnyddio dulliau sydd ar ôl yr oes yn parhau i gostio o leiaf £200.

Opsiwn 2 - Yr Opsiwn sy'n cael ei ffafrio

763. Byddai'r opsiwn hwn yn dileu'r gofyniad i hysbysebu cynlluniau a gorchmynion sy'n gymwys i Gymru yn unig yn y London Gazette. Byddai swyddogion yn gwneud trefniadau a fyddai'n fwy priodol i anghenion Cymru ac i anghenion lleol. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â hysbysebu ar-lein, byddai'r hysbysebion hynny ar gael yn haws, ac mae'n bosibl y byddent yn cyrraedd cynulleidfa ehangach.

Rhan 7: Crynodeb o'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio

764. Opsiwn 2 yw'r un sy'n cael ei ffafrio. Yn ogystal â bod yn fwy costeffeithiol, byddai'n cynnig trefniadau mwy priodol at anghenion lleol.

Byrddau Draenio Mewnol – Trefn Apelio ar gyfer Awdurdodau Lleol

Dadansoddiad o'r Opsiynau

765. Trwy bwerau o dan adran 36 o Ddeddf Draenio Tir 1991, yn bennaf, y mae'r tri Bwrdd Draenio Mewnol yn ennill incwm. Mae darpariaeth eisoes i dalwyr ardrethi ac awdurdodau lleol apelio yn erbyn ardrethi draenio a'r praesept y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei godi ar y Byrddau Draenio Mewnol. Er hynny, nid oes unrhyw ddarpariaeth sy'n caniatáu i awdurdodau lleol apelio yn erbyn yr elfen o dreuliau'r Bwrdd Draenio Mewnol nad yw'n gysylltiedig â Cyfoeth Naturiol Cymru, a hynny am mai'r Bwrdd Draenio Mewnol ei hun sy'n pennu'r ardoll a chan fod y rhan fwyaf o aelodau'r Bwrdd yn cael eu henwebu gan yr awdurdodau lleol.

766. Yr amcan o ran polisi yw mynd i'r afael â phryderon yr Awdurdodau Lleol y gallai Cyfoeth Naturiol Cymru godi ardollau afresymol arnynt ar ôl i'r pwerau i godi ardollau gael eu trosglwyddo i Cyfoeth Naturiol Cymru.

Opsiwn 1 – Gwneud dim

767. Peidio â sefydlu system apelio ar gyfer awdurdodau lleol. Ni fydd unrhyw drefn gyfreithiol er mwyn i'r awdurdodau lleol fedru apelio yn erbyn unrhyw ardoll a godir gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Opsiwn 2 – Yr Opsiwn sy'n cael ei ffafrio

768. Darparu trefn apelio ar gyfer awdurdodau lleol er mwyn iddynt fedru herio ardollau a godir gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

769. Gan na fydd awdurdodau lleol yn cael dweud eu dweud bellach wrth i ardollau gael eu pennu, bydd trefn apelio yn eu diogelu rhywfaint os byddant yn barnu bod yr ardollau a godir yn afresymol.

Rhan 7: Costau

Opsiwn 1 – Gwneud Dim

770. Dim cost.

Opsiwn 2 - Yr Opsiwn sy'n cael ei ffafrio

771. Ychydig iawn o gostau fyddai'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Byddai cost apêl awdurdod lleol yn cynnwys costau staffio sy'n gysylltiedig â pharatoi cyngor i'r Gweinidog. Rydym yn dod i'r casgliad ei bod hi'n debygol y byddai'r costau hyn yn llai na £100. Mae'n adeiladu ar y trefniadau apelio presennol sy'n gymwys i daliadau eraill a godir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ac nid yw'n debygol o gael ei ddefnyddio'n rheolaidd.

Rhan 7: Manteision

Opsiwn 1- Gwneud dim

772. Ni fyddai unrhyw fanteision i'r opsiwn sylfaenol.

Opsiwn 2 - Yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio

773. Mae'r opsiwn hwn yn diogelu awdurdodau lleol i ryw raddau rhag ardollau annheg.

Rhan 7: Crynodeb o'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio

774. Opsiwn 2 yw'r un sy'n cael ei ffafrio gan ei fod yn sicrhau y bydd yr awdurdodau lleol yn parhau i gael eu diogelu, a hynny am ychydig iawn o gost.

Rhan 7: Draenio tir – pŵer mynediad

Dadansoddiad o'r Opsiynau

775. Os na chydymffurfir â gwaith sy'n ofynnol o dan orchymyn a wneir gan y Tribiwnlys Tir Amaethyddol, caiff Gweinidogion Cymru fynd ar y tir i wneud y gwaith ac yna adennill y gost oddi wrth yr ymatebydd. Fodd bynnag, dim ond os na chydymffurfir â'r gorchymyn y cânt arfer y pŵer hwnnw ac oherwydd nad oes pŵer datganedig i Weinidogion Cymru fynd ar y tir i archwilio'r gwaith,nid yw'n glir yn y ddeddfwriaeth bresennol a gânt wneud hynny. Mae'r diffyg sicrwydd hwn wedi arwain at rai achosion lle y gwrthodwyd caniatâd i asiantiaid Llywodraeth Cymru fynd ar dir neu at achosion lle nad oedd modd cysylltu â pherchennog y tir i gael caniatâd. Dyma'r opsiynau a ystyriwyd:

776. **Opsiwn 1 - Gwneud dim –** Ni fyddai'r pwerau gorfodi yn adran 29(2) o Ddeddf Draenio Tir 1991 yn newid mewn unrhyw fodd, a byddai hynny'n golygu y byddai'r ansicrwydd yn parhau ynghylch pŵer Gweinidogion Cymru i fynd ar y tir at ddibenion archwilio. Mewn achosion lle na fyddai ymatebwyr yn cydymffurfio â gofynion Gorchymyn, byddai'r ffaith nad oes pŵer datganedig yn hynny o beth yn parhau i gyfyngu ar allu Gweinidogion Cymru i gymryd camau gorfodi. Byddai'n golygu hefyd, o dan rai amgylchiadau, na fyddai gorchmynion y Tribiwnlys Tir Amaethyddol yn cael unrhyw effaith. Ni fyddai unrhyw rwymedi ar gael i berchenogion tir a fyddai'n dioddef problemau draenio ar eu tir oherwydd methiant ar ran eu cymdogion i gynnal a chadw systemau draenio.

777. **Opsiwn 2 (yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio) –** Yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio yw diwygio adran 29 o Ddeddf Draenio Tir 1991 fel y bo ynddi bŵer datganedig i fynd ar dir. Byddai hynny'n galluogi asiantiaid Llywodraeth Cymru i fynd ar dir yr ymatebydd neu ar dir arall, lle bo angen, er mwyn iddynt weld a yw wedi cydymffurfio â gorchymyn gan y Tribiwnlys Tir Amaethyddol ai peidio. Byddai modd iddynt wedyn, lle byddai hynny'n briodol, orfodi'r gorchymyn hwnnw. Byddai'n fodd i sicrhau bod gorchmynion gan y Tribiwnlys Tir Amaethyddol yn parhau'n ffordd effeithiol o fynd i'r afael â materion megis perygl o lifogydd a hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol, yn benodol felly mewn perthynas â rheolaeth ar ddraenio dŵr.

Rhan 7: Costau

Opsiwn 1 – Gwneud dim

778. Cymharol anaml y bydd achosion lle na chydymffurfiwyd â gorchmynion yn cael eu cyfeirio at Lywodraeth Cymru, ac ar gyfartaledd, gwelir un achos bob dwy flynedd. Maent, er hynny, yn astrus, a gall gymryd dros flwyddyn i'w datrys. Yn yr achosion hynny lle nad yw asiantiaid yn gallu archwilio'r tir, gall gymryd lawer iawn yn hirach.

779. Mae'r costau allweddol yn gysylltiedig â faint o amser gweinyddol y mae Llywodraeth Cymru yn ei dreulio yn delio ag achos penodol – mewn achosion a gododd yn ddiweddar, treuliwyd cyfanswm o ryw 40 diwrnod yn ymdrin â phob achos unigol, sy'n gyfwerth â rhyw £6,400 (ar sail graddfeydd cyflog swyddogion HEO Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-2015). O wybod bod un achos, ar gyfartaledd, bob dwy flynedd, mae'r gost flynyddol gyfartalog yn rhyw £3,200. 40 diwrnod 7.24 awr am £22 yr awr = £6371.

780. Mae angen i gyfreithwyr gwneud cryn dipyn o waith ar achosion o'r fath hefyd, gan fod yn rhaid i bob dogfen gyfathrebu gael ei dilysu'n gyfreithiol er mwyn cynorthwyo gyda'r broses graffu farnwrol. Amcangyfrifir bod un cyfreithiwr, ar hyn o bryd, yn treulio rhyw 15% o'i amser ar achosion y Tribiwnlys Tir Amaethyddol. Mae hynny'n gyfystyr â rhyw 266 o oriau'r flwyddyn neu 37 diwrnod. 15% o amser uwch-gyfreithiwr am £69,408 y flwyddyn = £10,411.

781. Yn ogystal â'r costau gweinyddol, disgwylir y bydd angen i Lywodraeth Cymru ysgwyddo costau sy'n gysylltiedig â llogi arbenigwr tir i ymchwilio i achos. Mae pob ymweliad safle gan arbenigwr yn costio rhyw £600. Mewn achosion mwy astrus, gallai'r costau fod cryn dipyn yn uwch, a hynny oherwydd y gallai fod angen ymweld â'r safle fwy nag unwaith. Mewn achos diweddar, roedd y costau a dalwyd gan Lywodraeth Cymru am ymweliadau arbenigwyr â safleoedd yn rhyw £4,500. Amcangyfrifir, felly, bod costau blynyddol, ar gyfartaledd, rhwng £300 a £2,250, gan ddibynnu ar ba mor gymhleth yw achos ac ar sawl gwaith y bydd angen ymweld â'r safle.

782. Er mai Llywodraeth Cymru sy'n ysgwyddo'r costau hyn, mae'n bosibl na fydd yr asiant arbenigol yn gallu ymchwilio'n llawn i'r achos os bydd perchennog tir yn gwrthod caniatáu mynediad i dir, gan danseilio'r gwaith llywodraethu a wneir gan y Tribiwnlys Tir Amaethyddol.

Tirfeddianwyr

783. Gallai ymgeisydd sy'n gyfrifol am ddwyn achos gerbron Tribiwnlys Tir Amaethyddol wynebu costau mawr wrth wneud hynny, yn enwedig os bydd yn gofyn am gyngor cyfreithiol a/neu'n cyflogi asiant tir annibynnol. Bydd y costau hynny'n dibynnu ar yr amgylchiadau ac ar ba mor gymhleth y bydd pob achos unigol, ac nid yw'r wybodaeth sydd ei hangen er mwyn cyfrifo'r costau hynny ar gael.

784. Yn ôl pob golwg, felly, mae'n gwbl gyfreithlon i'r ymatebydd wrthod caniatâd i fynd ar dir fel y bo modd cadarnhau a yw wedi cydymffurfio â Gorchymyn a roddwyd gan Dribiwnlys Tir Amaethyddol. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am dalu'r costau hyd at y cam gorfodi corfforol.

<u>Opsiwn 2 – yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio</u>

785. Ni ddisgwylir unrhyw newid i nifer yr achosion y bydd gofyn i'r Tribiwnlys Tir Amaethyddol wrando arnynt o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig. Yn yr

un modd, ni ddisgwylir unrhyw newid ychwaith i nifer yr achosion a gyfeirir at Lywodraeth Cymru, er y dylai gymryd llai o amser i'w datrys os bydd asiantiaid yn gallu archwilio'r tir. Disgwylir i'r opsiwn hwn arwain at arbedion bach o ran adnoddau (o ran amser ac arian) i'r ymgeisydd ac i Lywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru

786. Amcangyfrifir y gallai Llywodraeth Cymru arbed hyd at £3,000 yr achos (hyd at £1,500 y flwyddyn) mewn perthynas ag ymweliadau safle ac adroddiadau gan ei hasiant arbenigol. Mae pob achos yn unigol ac y dibynnu ar wahanol amgylchiadau, er enghraifft, gallai'r achos ddibynnu ar faint o amser a gymerir i ddatrys achos oherwydd natur yr ymholiad, felly mae'n anodd iawn mesur union faint yr arbedion.

787. Rhagwelir hefyd y bydd y newidiadau arfaethedig yn arwain at ostyngiad yn y costau gweinyddol a ysgwyddir gan Lywodraeth Cymru wrth ymdrin ag achosion astrus. Amcangyfrifir y gallai hawl i fynd ar dir olygu y bydd angen hyd at 30 diwrnod yn llai o adnoddau gweinyddol i ddelio ag achos unigol (i lawr o 40 diwrnod, ar gyfartaledd, i 10 diwrnod). Mae costau gweinyddol 10 diwrnod o waith ar achos yn rhyw £1,600 neu'n £800 y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae hynny gyfystyr ag arbed hyd at £4,800 yr achos neu £2,400 y flwyddyn, ar gyfartaledd, o gymharu â'r opsiwn 'Gwneud dim'. Byddai'r arbedion o ran amser staff adran gyfreithiol Llywodraeth Cymru yn £5,477 yr achos. Amcangyfrifir hefyd y bydd yr amser a dreulir gan gyfreithiwr yn ymdrin ag achos yn debygol o haneru; felly, byddai un cyfreithiwr yn treulio 7.5% o'i amser ar achosion Tribiwnlysoedd Tir Amaethyddol – 133 o oriau'r flwyddyn neu 18 diwrnod.

Costau gweinyddol

30 diwrnod 7.24 awr am £22 yr awr = £4,798
10 diwrnod 7.24 awr am £22 yr awr = £1,599.

Mae hyn yn ychwanegol at yr amser a gaiff ei arbed gan y gwasanaethau cyfreithiol.

5% o amser uwch-gyfreithiwr am £69,408 y flwyddyn = £10,411
7.5% o amser uwch-gyfreithiwr am £69,408 y flwyddyn = £5,206

788. Rhagwelir y bydd y cynigion yn arwain at arbedion i Lywodraeth Cymru. Bydd y bwrdd draenio y dirprwyir yr achos iddo yn adennill unrhyw gostau oddi wrth y rheini a fydd yn gwrthod rhoi mynediad i'r tir. Byddai'r costau hynny'n cynnwys costau cyfreithiol a fyddai'n gysylltiedig â chyflwyno hysbysiad mynediad. Ni fyddai unrhyw gostau i gyrff cyhoeddus, a hynny oherwydd y byddai modd adennill costau oddi wrth yr ymatebydd.

Tirfeddianwyr

789. Fel y nodwyd uchod, bydd faint y bydd yn ei gostio i ymgeisydd (h.y. tirfeddiannwr) fynd ag achos gerbron y Tribiwnlys Tir Amaethyddol yn anhysbys a bydd yn amrywio gyda phob achos.

790. Yn y pen draw, bydd lefel y costau yn dibynnu ar i ba raddau y ceir cyngor gan y tirfeddiannwr a maint yr ymdrech a'r amser a roddir i ddatblygu achos. Rydym yn asesu y bydd achosion yn y dyfodol yn amrywio yn fawr o ran natur, maint a chymhlethdod.

791. Trwy ddileu rhywfaint o'r cymhlethdod a galluogi materion i gael eu datrys yn gyflymach, rydym yn asesu y dylai darpariaethau'r Bil arwain at arbedion o ran amser ac adnoddau. O ganlyniad, rydym yn asesu bod y costau i'r ymgeisydd/tirfeddiannwr a Llywodraeth Cymru yn debygol o fod yn llai nag o dan amgylchiadau tebyg o dan drefniadau presennol.

Rhan 7: Manteision

Opsiwn 1 – Gwneud dim

792. Nid oes unrhyw fanteision i'r opsiwn hwn. Fodd bynnag, mae risg y byddai effeithiolrwydd y Tribiwnlys Tir Amaethyddol, a hefyd y gallu i orfodi gorchmynion a wneir ganddo, yn parhau i gael eu tanseilio. Yn fwy cyffredinol, byddai'r opsiwn hwn yn cael effaith andwyol ar reoli perygl llifogydd ac ar bolisi sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd adnoddau naturiol.

Opsiwn 2 – yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio

793. Yn ogystal â'r arbedion o ran costau a nodir uchod, mae'r newidiadau'n debygol o arwain at fwy o lwyddiant wrth ddatrys Gorchmynion y Tribiwnlys a hefyd at rwymedïau mwy llwyddiannus ar gyfer y rheini sy'n berchen ar dir sydd â draeniad gwael. Bydd yr opsiwn hwn, yn y pen draw, o fudd i'r fframwaith rheoleiddiol ar gyfer rheoli draeniad dŵr, a hynny'n benodol mewn perthynas â systemau draenio. Bydd o fudd hefyd i'r amgylchedd oherwydd y bydd systemau draenio'n gallu llifo'n rhydd.

794. Mae'n bosibl y bydd rhagor o fanteision ariannol anuniongyrchol yn sgil y ffaith y bydd ymgeiswyr yn gallu mynd ati'n ddilyffethair i ffermio neu ddefnyddio'u tir mewn ffyrdd eraill, lle byddai'r tir hwnnw, fel arall, yn orlawn o ddŵr neu o dan ddŵr.

Tabl 41 - Tabl yn crynhoi costau a manteision yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio

Maes Polisi	Costau Allweddol	Manteision Allweddol
Deddf Draenio Tir 1991 – Ymweliadau Cydymffurfio'r Tribiwnlys Tir Amaethyddol	**Ariannol** Dylai'r newidiadau arfaethedig arwain at arbedion o ran adnoddau (o ran amser ac arian) i'r ymgeisydd ac i	**Ariannol** Bydd arbedion ar unwaith o ran costau'r ymweliadau safle sy'n gysylltiedig ag achosion – dylai un ymweliad safle

	Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chais o'r fath. Byddai Llywodraeth Cymru yn arbed gwerth 30 diwrnod o amser gweinyddol ym mhob achos, gan arwain at arbedion o ryw £4,800 (neu £2,400 y flwyddyn). Mae'n bosibl hefyd y byddai arbedion o hyd at £3,000 (hyd at £1,500 y flwyddyn) am na fyddai angen i asiant arbenigol Llywodraeth Cymru gynnal cynifer o ymweliadau safle. Yn ogystal, bydd arbedion o ran costau ac amser cyfreithwyr Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â'r gwaith achos – rhyw £5,206 y flwyddyn. Ni ragwelir y bydd gofyn i Lywodraeth Cymru ysgwyddo unrhyw gostau ychwanegol. Bydd y corff y dirprwyir yr achos iddo yn adennill unrhyw gostau oddi wrth y rheini a fyddai'n gwrthod caniatáu mynediad i dir. Byddai'r costau hynny'n cynnwys costau cyfreithiol a fyddai'n gysylltiedig â chyflwyno hysbysiad mynediad. Ni fydd unrhyw gostau i gyrff cyhoeddus.	fod yn ddigon i gynghorydd arbenigol fedru argymell yr holl waith a fydd eto i'w wneud er mwyn bodloni gofynion Gorchymyn. Fel arfer, byddai'r bygythiad o orfod talu costau gwaith gorfodi a fyddai'n cael ei wneud gan un o asiantiaid Llywodraeth Cymru yn symbylu ymatebydd i wneud y gwaith ei hun, felly, byddai'n gam ataliol yn y lle cyntaf. Mae'r newidiadau arfaethedig i Ddeddf Draenio Tir 1991 yn debygol o olygu y bydd yn cymryd llai o amser i Lywodraeth Cymru brosesu Gorchymyn gan y Tribiwnlys Tir Amaethyddol mewn rhai achosion penodol lle y gwrthodwyd caniatâd i asiantiaid Llywodraeth Cymru fynd ar dir er mwyn gweld a yw'r perchennog wedi cydymffurfio â Gorchymyn gan y Tribiwnlys Tir Amaethyddol. Gallai hynny leihau'r amser a dreulir yn ymdrin ag achosion o'r fath o ddwy flynedd i 6 mis mewn rhai achosion. **Anriannol** Mae'r newidiadau'n debygol o arwain at sefyllfa lle y bydd Gorchmynion gan y Tribiwnlys Tir

		Amaethyddol yn cael eu datrys yn fwy llwyddiannus. Bydd hynny, yn y pen draw, o fudd i'r fframwaith rheoleiddiol ar gyfer rheoli draeniad dŵr, a hynny'n benodol mewn perthynas â systemau draenio. Bydd o fudd hefyd i'r amgylchedd oherwydd y bydd systemau draenio'n gallu llifo'n rhydd.

Effeithiau ar y System Cyfiawnder

Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

795. Mae Adran 12(1) o'r Bil yn rhoi grym i Weinidogion Cymru gyfarwyddo corff cyhoeddus a restrir yn adran 11(1) i gymryd camau rhesymol ymarferol i roi datganiad ardal ar waith. Rhaid i'r corff cyhoeddus gydymffurfio â chyfarwyddyd sydd wedi'i gyflwyno iddo. Gall y cyfarwyddyd gael ei orfodi gan Weinidogion Cymru sy'n gwneud cais i'r Uchel Lys am orchymyn gorfodol. Os byddwch chi'n methu â chydymffurfio â gorchymyn gorfodol, gellir cyflwyno achos dirmyg llys yn eich erbyn.

Bagiau Siopa

796. Mae Rhan 2 o Atodlen 6 i Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth trwy reoliadau ar sancsiynau sifil am unrhyw achos o dorri rheoliadau. Ni fydd y Bil yn darparu pŵer i greu unrhyw sancsiynau sifil newydd, ond bydd yn ehangu cwmpas y pŵer presennol yn Rhan 2 fel y gall sancsiynau sifil gael eu rhoi ar waith mewn perthynas ag ystod eang o amgylchiadau h.y. torri rheoliadau yn ymwneud â gwahanol fathau o fagiau siopa a gwerthwyr sy'n methu â chydymffurfio â'r gofyniad i roi'r enillion net i achosion da fel yr amlinellir yn y Rheoliadau. Disgwylir mai prin iawn fydd yr achosion newydd o dorri rheoliadau.

797. Mae paragraff 18 o Atodlen 6 i Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 yn darparu rheoliadau i gynnwys hawl i apelio i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf neu dribiwnlys arall o dan ddeddfiad yn erbyn rhoi sancsiwn sifil ar waith. Lle mae'r rheoliadau'n gwneud darpariaeth mewn perthynas ag unrhyw fath o fagiau siopa, neu werthwyr uniongyrchol ynglŷn â phwy y dylent roi eu henillion net iddo, bydd paragraff 18 yn rhoi hawl i apelio yn erbyn achosion o ddiffyg cydymffurfio o dan y rheoliadau hynny. Er y gall hyn ymestyn yr amgylchiadau lle gall gwerthwr fod yn torri'r Rheoliadau, bydd yr effeithiau ar geisiadau i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf yn fach iawn neu'n ddibwys, gan ystyried data hanesyddol a ddarperir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC). Mae'r data hwn yn dangos mai ychydig iawn o gamau gorfodi ffurfiol sydd wedi'u cymryd yng Nghymru o dan y Rheoliadau presennol. Efallai y bydd y niferoedd yn isel i gychwyn; caiff y rhain eu harchwilio a'u nodi yn y cyfnodau gweithredu.

798. Fodd bynnag, byddai unrhyw benderfyniad yn y dyfodol i ddefnyddio'r pwerau sylfaenol estynedig i wneud rheoliadau yn amodol ar asesiad effaith llawn a manwl ar y pryd.

Gwastraff

799. Mae'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyflwyno offerynnau statudol ac ni fydd yn newid beth sy'n digwydd nawr. Os cyflwynir is-ddeddfwriaeth o dan ddarpariaethau'r Bil, y bwriad yw y bydd sancsiynau sifil a throseddol ar gael os cyflawnir trosedd. Os nodir unrhyw effaith ar gyfiawnder yn y cyfnod gweithredu ac os bydd hawliau newydd i apelio yn cael eu creu

(trwy Siambr Reoleiddio Gyffredinol Tribiwnlys yr Haen Gyntaf), bydd y goblygiadau llawn yn cael eu hasesu ar y pryd.

Trwyddedu Morol

800. Mae tystiolaeth o'r effaith ar y system Cyfiawnder yn dangos na fydd llawer iawn o effaith. Nid creu trosedd am fethu â thalu ffi neu flaendal yw'r bwriad. Yn hytrach, cynigir y gallai'r awdurdod trwyddedu amrywio, gwahardd neu ddirymu trwydded os na chaiff y taliad ei wneud. Gall yr awdurdod trwyddedu hefyd adennill y taliad fel dyled sifil. Fodd bynnag, os bydd gweithredwr yn parhau â gweithgarwch trwyddedadwy ar ôl iddo gael ei ddirymu neu ei wahardd, neu os bydd yn methu â chydymffurfio ag unrhyw un o amodau trwydded forol, bydd yn cyflawni trosedd yn unol ag adran 85 o Fil y Môr a Mynediad i'r Arfordir.

Pysgodfeydd cregyn

801. Defnyddir Gwasanaeth Tribiwnlys yr Haen Gyntaf os bydd achos eithriadol o'r pŵer i gyhoeddi Hysbysiad Gwarchod Safle yn cael ei ddefnyddio ac os bydd y rhai sy'n cael eu heffeithio gan yr Hysbysiad yn penderfynu apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw yn hytrach na gweithio gyda'r awgrymiadau yn yr Hysbysiad Gwarchod Safle.

802. Mae'n debygol mai yn anaml iawn y defnyddir yr hawl i apelio i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf yn erbyn Hysbysiad Gwarchod Safle. Mae hyn oherwydd mai dim ond lle mae effaith amgylcheddol annisgwyl (o ganlyniad i'r bysgodfa gregyn) wedi digwydd neu'n debygol o ddigwydd a lle nad yw'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan yr Hysbysiad Gwarchod Safle yn cytuno â'r Hysbysiad hwnnw y bydd Hysbysiad Gwarchod Safle yn cael ei ddefnyddio. Yn ogystal, o ystyried y ffaith mai nifer fach o bobl sy'n rhan o'r diwydiant pysgota cregyn yng Nghymru, rhagwelir mai yn anaml iawn y defnyddir yr hawl hon i apelio. Os nodir effeithiau cyfiawnder yn y cyfnod gweithredu ac os crëir hawliau newydd i apelio, caiff y goblygiadau llawn eu hasesu ar y pryd.

Draenio Tir

803. Mae tystiolaeth o'r effaith ar y system Cyfiawnder yn dangos na fydd llawer iawn o effaith. Ni fydd darpariaeth i greu pŵer mynediad yn creu nac yn newid unrhyw sancsiwn sifil, gorchymyn sifil neu drosedd. Bydd y ddarpariaeth yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru mewn perthynas â chamau gorfodi ond ni fydd yn effeithio ar rôl y Tribiwnlys Tir Amaethyddol nac unrhyw dribiwnlys neu lys arall. Amcangyfrifir na ddylai nifer yr ymgeiswyr gynyddu o ganlyniad i'r ddarpariaeth.

804. Mae darpariaeth mewn perthynas â Byrddau Draenio Mewnol yn rhoi hawl i awdurdodau lleol apelio i Weinidogion Cymru yn erbyn unrhyw benderfyniad a wneir gan CNC mewn perthynas â'r ardollau a osodir. Bydd hyn yn darparu ar gyfer system debyg i'r un sydd eisoes ar waith ar gyfer

gwahanol rannau o’r refeniw a amlinellir yn adran 58 o Ddeddf Draenio Tir 1991.

Crynodeb o brif gostau a manteision y Bil cyfan

805. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi costau a manteision y Bil cyfan. Am fwy o wybodaeth ynghylch y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd ac ynghylch y costau a'r manteision nad oes gwerth ariannol iddynt, trowch at yr adrannau unigol sy'n ymdrin â'r meysydd polisi hyn. Sylwer bod mwyafrif y costau a'r manteision wedi'u cyflwyno yn ôl eu Gwerth Presennol (PV) h.y. yn gostwng gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt o 3.5% yn unol â Llyfr Gwyrdd Trysorlys ei Mawrhydi, ac yn ymylol i'r gwaelodlin 'gwneud dim'. Mae'r ffigurau isod wedi'u talgrynnu i'r £10,000 agosaf.

Tabl 42: Tabl yn crynhoi prif gostau a manteision y Bil cyfan

Maes Polisi	Costau	Manteision
Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol	Costau i Lywodraeth Cymru Staff Ychwanegol amser/adnodd: £0.21m PV (£205,400)	Nid yw'r manteision wedi'u moneteiddio yn y fan hon. Bydd NNRP yn darparu polisi ar lefel genedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Bydd yn sicrhau bod y manteision cymdeithasol ac economaidd a ddaw o reoli adnoddau naturiol yn cael eu nodi'n briodol a'u hystyried wrth wneud penderfyniadau, ochr yn ochr â manteision amgylcheddol, mewn ffordd a fydd yn helpu i gryfhau ecosystemau Cymru. Gallai'r NNRP arwain hefyd at wella effeithlonrwydd cyrff cyhoeddus eraill a chydgysylltu rhaglenni ariannu.
Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol	Costau i CNC Staff Ychwanegol: £0.56m i £2.02m (PV) Hyfforddiant (staff): £0.03 i £0.56m (PV) Hyfforddiant (ymgynghorwyr): £0.02m (PV) Arfau Dadansoddi: £0.09m i £0.19m (PV) Cyfanswm: £0.69m i £2.78m (PV)	Bydd SoNaRR yn darparu sylfaen o dystiolaeth ar lefel genedlaethol a fydd yn helpu i lywio polisi adnoddau naturiol (NNRP) yn y dyfodol ac i gyflawni'r polisi hwnnw fesul maes. Drwy wneud, bydd yn diogelu iechyd a swyddogaeth adnoddau naturiol ac yn cryfhau ecosystemau gan eu galluogi i ddarparu lles cymdeithasol,

		economaidd ac amgylcheddol heb aberthu gallu cenedlaethau'r dyfodol. Rhagwelir hefyd y gallai SoNaRR ddod â manteision i gyrff cyhoeddus eraill, trwy eu helpu i gael at ddata cymdeithasol-economaidd, gan eu hysbysu am eu hymrwymiadau i rannu gwybodaeth.
Datganiadau ardal	Costau i CNC Cynllunio, Paratoi a Rhoi ar Waith: £1.11m i £1.71m (PV) Llywodraethu Cydweithredol: £0.97m i £1.22m (PV) Angen tystiolaeth integredig / ar sail ardal: £0.00m (PV) Dadansoddi tystiolaeth ecolegol a gwyddor cymdeithasol integredig newydd i lunio datganiadau ardal: £0.10m i £0.19m (PV) Arfarniad o Gynaliadwyedd Datganiadau Ardal gan SEA: £0.20m i £0.30m Cyfanswm: £2.38m i £3.43m (PV)	Fel yr esbonnir gan UKNEA (2011, tud53), bydd cynllunio strategol wedi'i dargedu sy'n seiliedig ar ddata integredig yn hwyluso'r gwaith o nodi a lleihau'r risgiau tymor hir i adnoddau naturiol, fel y rheini a nodwyd yn UKNEA (2011) a Chyflwr Natur (RSPB, 2013), trwy wella'r broses benderfynu. Manteision eraill datganiadau ardal (nad oes ganddynt werth ariannol): manteision i gyrff cyhoeddus eraill (manteision i CNC; manteision i ddiwydiant (preifat/3ydd sector); cydgysylltu rhaglenni ariannu; llywio cynlluniau cyflawni.
Dyletswydd o ran Bioamrywiaeth	Un o amcanion y cynnig yw sicrhau nad yw'r ddyletswydd i gynnal a gwella bioamrywiaeth yn faich ychwanegol ar awdurdodau cyhoeddus ond ei bod, yn hytrach yn elfen annatod o fframwaith deddfwriaethol Bil yr Amgylchedd	Bydd yr opsiwn hwn yn arwain at wella effeithlonrwydd o ganlyniad i symleiddio ymdrechion cyrff cyhoeddus wrth ystyried bioamrywiaeth; a rheoli risgiau i fioamrywiaeth yn well.

	(Cymru). Ni ddylai cynyddu'r ddyletswydd olygu costau ariannol net arwyddocaol i gyrff cyhoeddus. Efallai y bydd *rhai* costau bach ychwanegol, er enghraifft, elfen adrodd y ddyletswydd. Er hynny, amcan y ddyletswydd adrodd yw iddi beidio â bod yn llethol na chwaith yn gyfarwyddol ond y dylai awdurdodau cyhoeddus gyflwyno adroddiad bob tair blynedd mewn dogfen benodol neu adroddiad arall ar y camau y maent wedi'u cymryd i gydymffurfio â'u hymrwymiadau statudol.	Mae gan estyn y ddyletswydd i bob awdurdod cyhoeddus ac ymgymerwr statudol y potensial i ddod â manteision economaidd, yn enwedig yn y tymor canolig a hir. Yn arbennig, bydd y cydweithio y bydd y ddyletswydd yn debygol o'i hannog yn debygol o esgor ar arbedion o ran cost ac effeithlonrwydd. Bydd y gymysgedd iawn o wasanaethau ecosystem a chreu marchnadoedd newydd dros y tymor hir, yn helpu i hybu twf gwyrdd a chreu mwy o swyddi. Bydd y ddyletswydd o ran bioamrywiaeth yn sicrhau hefyd bod awdurdodau cyhoeddus yn ystyried pwrpas gwarchod bioamrywiaeth wrth iddynt gyflawni eu swyddogaeth. Bydd hynny'n cryfhau ecosystemau, a dylai wella gallu ein hadnoddau naturiol i ddarparu gwasanaethau ecosystem fel dŵr glân, ansawdd aer da, rheoli'r hinsawdd a pheillio cnydau, yn ogystal â darparu cynefinoedd natur. Gall hyn arwain at fanteision cymdeithasol a gwella iechyd a lles meddyliol a chorfforol.
Cynlluniau Arbrofol	Dim costau bras/disgwyledig: £0m. Gallai costau gweinyddol a thrafod fod rhwng 10-20% o gostau'r prosiect.	Un o brif fanteision y cynnig yw rhoi tystiolaeth i gefnogi CNC i reoli adnoddau naturiol mewn ffordd integredig, trwy

		dreialu'r ffyrdd newydd o weithio y mae'r dull hwnnw'n gofyn amdano. Manteision eraill datganiadau ardal (nad oes gwerth ariannol iddynt): arbed costau (CNC, OPBs, sector preifat, 3ydd sector); cydgysylltu rhaglenni ariannu/ffrydiau ariannu newydd.
Cytundebau Rheoli	Dim costau bras/disgwyledig: £0m.	Bydd cytundebau rheoli'n cyfrannu'n uniongyrchol at gryfhau ecosystemau yng Nghymru e.e. trwy ddiogelu cyflwr asedau cyfalaf naturiol fel amddiffynfeydd rhag llifogydd.
Cyfanswm:	**£3.40m i £4.51m (Gwerth Presennol dros 10 mlynedd)**	**O bosib, hyd at £2bn y flwyddyn. Dangosol yw'r ffigur hwn. Nid yw'n cael ei ystyried yn ddigon gwydn i'w gynnwys yn y ffigur ar gyfer manteision ariannol.** **Drwyddynt draw, disgwylir i fanteision anariannol fod yn fwy na'r costau.**
Y Newid yn yr Hinsawdd	Nid yw cyflawni targedau deddfwriaethol a fframwaith cyllideb garbon ynddo'i hun yn golygu costau ychwanegol i unrhyw randdeiliad allanol i Lywodraeth Cymru. Hefyd, y targedau sydd i raddau helaeth yn penderfynu ar faint yr effeithiau. Felly bydd angen eu gwerthuso'n ofalus wrth ddatblygu'r rheoliadau. Dyna un o'r prif	Mae targedau newid hinsawdd deddfwriaethol yn cynnig y manteision canlynol: • mwy o eglurder i ddiwydiant, a dyfodol mwy rhagweladwy; hyn iddynt allu cynllunio'n effeithlon ar gyfer economi carbon isel a buddsoddi ynddi.

	resymau pam mae'r ddeddfwriaeth yn cynnwys y darpariaethau ynghylch cyngor annibynnol. Amcangyfrifir y byddai'r costau gweinyddol i Lywodraeth Cymru yn cynnwys tîm craidd o hyd at bump i drefnu'r broses ynghyd â chynnydd dros dro yn amser staff yr adrannau i weinyddu a chynllunio'r broses o bennu cyllidebau carbon. Er hynny, caiff y gofyn hwn o ran adnoddau ei amsugno dros amser yng ngwaith pob dydd pob adran. Dyna sut y bu hi o fewn Llywodraeth Cymru. Y gost yn fras yw £0.25m (£254,5000) ar gyfartaledd y flwyddyn er y disgwylir iddi godi a gostwng wrth i'r gyllideb garbon gael ei phennu a'i gweinyddu. Byddai cyngor annibynnol ychwanegol ar y lefel y dylid gosod cyllidebau carbon yn cael ei geisio trwy Bwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd (UKCCC). Amcangyfrifir y byddai cyngor cychwynnol yn costio tua £43,500 ac adroddiadau cynnydd yn costio tua £15,000 bob 5 mlynedd. Mae hyn yn dod i gyfanswm o £73,500 dros 10 mlynedd. Mae angen cadarnhau'r ffigurau hyn o hyd ac mae angen pennu a yw'n ychwanegol i'r cyllid	• sicrhau bod Cymru mewn lle da i allu manteisio ar gyfleoedd (yn enwedig o safbwynt swyddi a thwf) sy'n gysylltiedig â'r broses o newid a chefnogi'r ymgyrch o blaid twf gwyrdd. • cryfhau sefyllfa Cymru fel arweinydd byd i'w helpu i godi uchelgais a chynyddu'r brys am gydweithredu i daclo hinsawdd sy'n newid a lleihau effeithiau'r hinsawdd.

	presennol y mae Llywodraeth Cymru eisoes yn ei ddarparu i UKCCC. At ddibenion yr RIA, mae'r costau ychwanegol posibl wedi'u cynnwys at ddibenion dangosol.	
Cyfanswm:	**£2.08m (PV dros 10 mlynedd)**	**Manteision anariannol** **£0.0m (PV dros 10 mlynedd)**
Tâl lleiaf a godir am bob math o fag	Costau i'r Gweithgynhyrchydd: £8.25m PV Costau i Gwsmeriaid: £115.50m PV	Manteision i Adwerthwyr: £37.66 PV Manteision i Gyfanwerthwyr: £0.08m PV Cynnydd yn y Cyfraniadau i Elusennau: £66.76m PV Cynnydd yn y Refeniw Treth: £19.25m PV Effaith ar yr Amgylchedd: £8.27m PV
Cyfanswm:	**£123.75m (Gwerth Presennol dros 10 mlynedd)**	**£132.02m (Gwerth Presennol dros 10 mlynedd)**
Rhoi'r arian a godir am fagiau i achos da	Costau Busnes: £0.80m PV Costau Monitro a Gorfodi: £0.39m PV	Manteision i Elusennau Amgylcheddol: £3.92m PV Manteision i Elusennau heblaw rhai Amgylcheddol: £4.79m PV
Cyfanswm:	**£1.18m (Gwerth Presennol dros 10 mlynedd)**	**£8.71m (Gwerth Presennol dros 10 mlynedd)**
Casglu a Gwaredu Gwastraff	Llywodraeth Cymru	Busnes Rheoli Gwastraff

	Costau Gweinyddol: £0.09m PV <u>CNC</u> Costau Gweinyddol: £0.03m PV Costau parhaus: £0.43m PV <u>Cynhyrchwyr Gwastraff Busnes</u> Costau Gweinyddol: £3.34m PV <u>Busnes Rheoli Gwastraff</u> Costau Gweinyddol: £1.56m PV Costau Parhaus: £1.38m PV Costau opex/capex blynyddol: £152.05m PV	Refeniw deunydd: £70.74m PV Treth Tirlenwi wedi'i hosgoi[100]: £172.46m PV <u>Awdurdodau Carthffosiaeth</u> Costau Trin Dŵr wedi'u hosgoi: £7.08m PV Costau Amgylcheddol anariannol iddynt: £139.77m PV Creu 3,600 o swyddi o bosibl yn y sectorau cynghorau, masnachol a diwydiannol, 2,600 o swyddi yn y sector cynghorau yn unig.
Cyfanswm:	**£158.88m (Gwerth Presennol dros 10 mlynedd)**	**£217.59m (Gwerth Presennol dros 10 mlynedd)**
Pysgodfeydd Cregyn	NI ragwelir costau pontio na chostau cyfathrebu ychwanegol. Ni ddisgwylir i'r costau fod yn wahanol i'r costau gwaelodlin. Hynny yw, pery'r costau fel a ganlyn: Llywodraeth Cymru fesul cais : £9,500 CNC: £10,400 fesul cais Cefas: £17,500 fesul cais Diwydiant: £12,000 i £27,000 fesul cais.	Nid oes gwerth ariannol wedi'i roi i'r manteision. Er hynny, bydd Gweinidogion Cymru'n gallu ymyrryd os gwelir bod pysgodfa'n niweidio Safle Morol Ewrop, gan drwy hynny leihau'r risg o orfod ysgwyddo costau achos llys. Bydd yn ennyn hyder Gweinidogion Cymru i roi deiliadaethau hwy i bysgodfeydd. Bydd busnesau'n fwy hyderus i fuddsoddi yn y diwydiant

[100] Excluded from net costs calculation

	Fodd bynnag, byddai newid y ddeddfwriaeth yn galluogi Llywodraeth Cymru i roi gorchmynion dros gyfnodau hwy o amser gan eu gwneud yn fwy deniadol i ddiwydiant. Rhagwelir y byddai'n costio rhwng £33,200 a £37,400 yn fras i ddelio â phob cais ychwanegol. Byddai cost hefyd o £550 i Lywodraeth Cymru baratoi a rhoi Hysbysiad Gwarchod Safle. Byddai cost hefyd i'r sawl sy'n derbyn grant os cyflwynir Hysbysiad Gwarchod Safle iddo. Er hynny, disgwylir mai ychydig iawn o Hysbysiadau Gwarchod Safle a roddir.	oherwydd y deiliadaethau hwy hyn. Bydd hynny'n arwain at dwf y sector a chynnydd yn ei werth economaidd.
Cyfanswm:	**£0m (PV dros 10 mlynedd)**	**£0m (PV dros 10 mlynedd)**
Trwyddedau Morol	Bydd CNC yn gallu cyflawni'r amcan o adennill yr holl gostau. Mae hynny'n golygu bod y costau'n cael eu trosglwyddo o'r CNC i'r drefn Trwyddedu Morol. <u>Cynnydd yng nghost y drefn Trwyddedu Morol o'i chymharu â'r gwaelodlin/opsiwn 1 dros 10 mlynedd</u> Cyn ymgeisio: £385,460 Amrywiadau: £96,250 Diddymu a Throsglwyddo:£440-£660 Monitro amodau a lefelau cydymffurfio (£): £274,960	Bydd CNC yn gallu cyflawni'r amcan o adennill yr holl gostau a ysgwyddir trwy gynnal ei swyddogaethau o dan y drefn Trwyddedu Morol. Mae hyn yn golygu mantais i CNC o ganlyniad i drosglwyddo costau i ddefnyddwyr neu'r drefn Trwyddedu Morol. <u>Arbed costau i CNC (o'u cymharu â'r gwaelodlin/Opsiwn 1) dros 10 mlynedd</u> Cyn ymgeisio: £385,460 Amrywiadau: £96,250 Diddymu a Throsglwyddo:£440-£660 Monitro amodau a lefelauy cydymffurfio (£): £274,960

	Cyfanswm: £757,330	Cyfanswm: £757,330 Bydd CNC yn gallu cynnig gwasanaeth gwell hefyd, yn enwedig yn cyfnod cyn ymgeisio. Bydd yn caniatáu proses benderfynu symlach, a gallai hynny arwain at lai o angen am amrywiadau ac o fonitro wedi hynny. Yn gyffredinol, bydd y manteision fwy na thebyg yn fwy na'r costau.
Cyfanswm:	**£0.65m (Gwerth Presennol dros 10 mlynedd)**	**£0.65m (Gwerth Presennol dros 10 mlynedd)**
Pwyllgor Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FRMW)	Ar hyn o bryd, ysgwyddir yr holl gostau gan CNC fel rhan o'u grant blynyddol. O dan y ddeddfwriaeth newydd, ysgwyddir costau'r pwyllgor newydd yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Byddai hynny'n golygu gostwng grant blynyddol CNC gan olygu bod costau'n cael eu trosglwyddo yn hytrach na'u creu.	Mae CNC wedi amcangyfrif bod staff (heb gynnwys y rhai ysgrifenyddol) yn treulio 1280 o oriau'r flwyddyn yn paratoi papurau pwyllgorau'r FRMW. Amcangyfrifir bod hynny gyfwerth â rhyw £40,000 y flwyddyn. Er y bydd peth o'r gwaith hwn yn aros gyda CNC, yn enwedig o safbwynt paratoi papurau tebyg ar gyfer eu bwrdd eu hunain, bydd arbedion costau i CNC o ran yr amser a dreulir yn ymgynghori â'r pwyllgor.
Cyfanswm:	**£0m (PV dros 10 mlynedd)**	**£0m (PV dros 10 mlynedd)**
Byrddau Draenio Mewnol	Gofynion Hysbysebu: Ni ddisgwylir costau ychwanegol (staff) o baratoi hysbyseb a chyhoeddi hysbyseb ar-lein.	Gofynion Hysbysebu: Arbed costau o ryw £200 yr hysbyseb o beidio â hysbysebu mewn papurau lleol. Hysbysebion yn cyrraedd cynulleidfa fwy.

	Trefn Apelio Awdurdodau Lleol: Yn debygol o fod yn fach. Yn datblygu trefniadau apelio sy'n bod eisoes. Ni ddisgwylir ei gweld yn cael ei defnyddio'n aml.	Trefn Apelio Awdurdodau Lleol: Yn cynnig rhywfaint o amddiffyniad i awdurdodau lleol rhag ardollau annheg.
Cyfanswm:	**£0**	**£200 yr hysbyseb**
Draenio Tir	Ni ragwelir unrhyw gostau ychwanegol. Bydd arbedion costau (gweler Manteision)	Arbed costau Bydd Llywodraeth Cymru'n arbed rhyw 30 diwrnod yr achos o amser gweinyddu, gan olygu arbedion o ryw £4,800 yr achos neu £2,400 y flwyddyn ar gyfartaledd. Cyfanswm: £9,377 y flwyddyn. Yn ogystal ag arbed costau, mae'r newidiadau'n debygol o arwain at ddelio'n well â gorchmynion ALT ac at atebion mwy boddhaol i berchenogion sy'n berchen ar dir gwael ei ddraeniad. Gallai hyn arwain at fanteision amgylcheddol o wella llif systemau draenio.
Cyfanswm:	**£0m (PV dros 10 mlynedd)**	**£0.08m (PV dros 10 mlynedd)**
CYFANSWM CYFFREDINOL (y Bil)	**£291.05m (PV dros 10 mlynedd)**	**£359.05m (PV dros 10 mlynedd)**[101]

[101] *Pwysig: dim ond manteision ag iddynt werth ariannol sydd wedi'u nodi yn y fan hon. Pe baem wedi cynnwys manteision sydd heb werth ariannol iddynt, byddai'r ffigur lawer iawn yn uwch.*

Pennod 7 – Effeithiau Penodol ac Asesiad o'r Gystadleuaeth

Effeithiau Penodol

806. Mae cyfres o asesiadau effaith yn ymwneud â'r meysydd polisi yn y Bil wedi eu cwblhau fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

807. Mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhwymo gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Rheoliadau Dyletswyddau Cydraddoldeb sy'n berthnasol i Gymru a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

808. Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth ddatblygu swyddogaethau Gweinidogol.

809. Mae Cynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol cynnal asesiad o effeithiau'r Bil ar yr iaith Gymraeg.

Canfyddiadau

810. Mae canfyddiadau'r asesiadau effaith yn ymwneud yn bennaf ag effeithiau posibl yn hytrach nag effeithiau pendant. Daeth pob un o'r asesiadau canlynol i'r casgliad nad oes unrhyw effeithiau negyddol o ganlyniad i'r Bil a bod unrhyw effeithiau posibl yn debygol o fod yn gadarnhaol. Mae'r canlynol yn darparu crynodeb o bob asesiad effaith a gyflwynir ar gyfer pob un o'r meysydd polisi yn y Bil.

811. Mae asesiadau effaith llawn wedi'u cynnwys ar dudalennau gwe Bil yr Amgylchedd Llywodraeth Cymru:
http://gov.wales/topics/environmentcountryside/consmanagement/natural-resources-management/environment-bill/?skip=1&lang=cy

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

812. Oherwydd eu natur, nid oes gan y cynigion yn y Bil unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar gydraddoldeb. Mae'r canlynol yn darparu crynodeb o'r asesiad o bob maes polisi yn y Bil.

<u>Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol</u>

813. Ar hyn o bryd, mae'r sylfaen dystiolaeth gyson a chadarn yn ymwneud â'n hadnoddau naturiol yn gyfyngedig. Dyma rywbeth y mae Bil yr Amgylchedd yn ceisio mynd i'r afael ag ef, yn enwedig drwy gyhoeddi'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR).

814. Bwriedir defnyddio'r wybodaeth yn yr SoNaRR i lywio'r gwaith o greu'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol a datganiadau ardal. Bydd yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen i Weinidogion Cymru bennu blaenoriaethau ar gyfer gweithredu ar lefel genedlaethol, yn ogystal â help i lywio'r broses o ddethol ardaloedd priodol i weithredu'r blaenoriaethau hyn

gan CNC ar lefel leol, er enghraifft, ystyried materion lleol penodol mewn ardaloedd o amddifadedd.

815. Drwy reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, bydd cymunedau lleol yn elwa yn gyfartal wrth i benderfynwyr gael eu hannog i ystyried effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol penderfyniadau ar genedlaethau heddiw ac yfory. Y bwriad yw creu amgylchedd naturiol cryf fel y bydd adnoddau naturiol yn parhau i ddarparu dŵr glân, ansawdd aer da, rheoleiddio'r hinsawdd a pheillio cnydau ymysg pethau eraill.

Newid yn yr Hinsawdd

816. Mae'r darpariaethau yn y Bil hwn yn pennu targed statudol hirdymor i leihau allyriadau Cymru o leiaf 80% yn is na'r waelodlin erbyn 2050 ynghyd â gofyniad i Weinidogion Cymru bennu targedau interim a chyllidebau carbon i gyrraedd y targed hwn. Nid yw'r fframwaith ei hun yn codi materion cydraddoldeb, ac mae Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y canfyddiadau yn yr asesiad gwreiddiol o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y Strategaeth wreiddiol ar y Newid yn yr Hinsawdd yn berthnasol o hyd.

817. Fodd bynnag, pan fydd Llywodraeth Cymru yn gwneud unrhyw gynigion a pholisïau newydd ar gyfer bodloni cyllidebau carbon, byddent yn amodol ar broses ymgynghori ac asesiad llawn a manwl. Byddai hyn yn cynnwys asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Taliadau am Fagiau Siopa

818. Mae'r canfyddiadau yn yr asesiad gwreiddiol o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y tâl am fagiau siopa untro yn berthnasol o hyd. Fodd bynnag, bydd y safbwynt hwn yn cael ei ailystyried ar ôl cwblhau'r adolygiad o'r tâl am fagiau siopa untro. Bydd y dystiolaeth sy'n deillio o'r adolygiad hwn yn cael ei defnyddio i ddiweddaru'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a llywio cyfeiriad polisi yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys yr opsiynau sydd ar gael i Weinidogion Cymru ar gyfer gwneud rheoliadau i fynd i'r afael â chynnydd yn y galw am fathau o fagiau eraill.

819. Byddai unrhyw benderfyniad i ddefnyddio'r pwerau deddfu sylfaenol estynedig hefyd yn amodol ar broses ymgysylltu helaeth, a byddai Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn a manwl yn cael ei gynnal ar y pryd.

Casglu a Gwaredu Gwastraff

820. Bwriedir defnyddio is-ddeddfwriaeth i gyflwyno'r gofynion, a gan fod darpariaethau'r Bil yn darparu pwerau galluogi i Weinidogion Cymru yn unig, nid ydynt yn codi materion yn ymwneud â chydraddoldeb yn uniongyrchol. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y canfyddiadau yn yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer Strategaeth Wastraff Cymru - Tuag at Ddyfodol Diwastraff yn berthnasol o hyd. Byddai unrhyw benderfyniad i wneud rheoliadau o dan y Bil yn amodol ar broses

ymgynghori helaeth ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn a manwl ar y pryd.

Pysgodfeydd ar gyfer Pysgod Cregyn

821. Mae'r Bil yn cyflwyno diwygiadau er mwyn cynnwys pwerau galluogi newydd yn Neddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967. Gan fod y Bil yn darparu pwerau galluogi ar gyfer Gweinidogion Cymru yn unig, nid yw darpariaethau'r Bil eu hunain yn codi materion yn ymwneud â chydraddoldeb. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad cydraddoldeb pellach o'r defnydd o'r pwerau hynny pan gaiff is-ddeddfwriaeth ei chyflwyno.

Trwyddedu Morol

822. Ni nodwyd unrhyw effeithiau ar faterion cydraddoldeb ar ôl cwblhau'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb mewn perthynas â'r darpariaethau trwyddedu morol.

Pwyllgor Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

823. Bydd y polisi hwn yn arwain at sefydlu'r Pwyllgor Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol a fydd yn rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ar lifogydd o bob ffynhonnell ac ar erydu arfordirol ledled Cymru.

824. Bydd y manteision a'r effeithiau yr un mor berthnasol i bawb ledled Cymru ac yn cynnwys peryglon o afonydd, dŵr wyneb, cyrsiau dŵr cyffredin, cronfeydd dŵr a'r môr yn ogystal ag erydu arfordirol. Wrth ddarparu cyngor o'r fath, mae'n gallu ystyried y peryglon ehangach a'r manteision lluosog ar draws ardaloedd gofodol mwy sy'n gysylltiedig â dalgylchoedd afonydd a/neu ardaloedd arfordirol. Gall Llywodraeth Cymru hefyd sicrhau bod rheoli perygl llifogydd ledled Cymru yn cyfateb i'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, gan gynnwys lleihau perygl llifogydd a chodi ymwybyddiaeth. O ganlyniad, dylai hyn gael effaith gadarnhaol ar bobl sydd mewn perygl oherwydd llifogydd.

Draenio Tir

825. Diben y polisi yw egluro pwerau Gweinidogion Cymru i orfodi gwaith draenio adferol yn unol â gorchymyn Tribiwnlys Tir Amaethyddol i helpu i adfer tir i'w swyddogaeth economaidd, felly mae'n niwtral o safbwynt cydraddoldeb. Mae'n bosibl y bydd effaith gadarnhaol ar Hawliau Dynol gan y bydd y ddarpariaeth yn helpu i ddatrys achosion yn gyflymach, gan osgoi anghydfodau hir a maith. Ni nodwyd unrhyw effeithiau ar faterion cydraddoldeb wrth gwblhau'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y darpariaethau yn ymwneud â Byrddau Draenio Mewnol.

Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

826. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol ar blant ar gyfer unrhyw un o'r meysydd polisi yn y Bil. Nodwyd yr effeithiau cadarnhaol posibl:

Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol

827. Drwy reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, bydd cymunedau lleol o bob oed yn elwa wrth i benderfynwyr gael eu hannog i ystyried effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol penderfyniadau ar genedlaethau heddiw ac yfory, gan gynnwys pobl ifanc. Mae penderfyniadau gwell a rheoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy yn gallu cael effaith gadarnhaol ar grwpiau sydd fwyaf agored i niwed, gan gynnwys plant.

Newid yn yr Hinsawdd

828. O ganlyniad i allyriadau carbon hyd yn hyn, mae rhywfaint o newid byd-eang yn yr hinsawdd yn anorfod dros y 30-40 mlynedd nesaf.

829. Er bod y newid yn yr hinsawdd yn ddigwyddiad byd-eang, mae effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn cael eu teimlo ar lefel leol hefyd, gan bobl sy'n agored i niwed fel plant sydd â gallu cyfyngedig i addasu i ddigwyddiadau tywydd eithafol a'r newid yn yr hinsawdd e.e. y rhai sy'n byw mewn amddifadedd, y rhai sydd â llai o addysg a'r rhai sydd â salwch corfforol neu salwch meddwl.

830. Mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio mewn ffordd anghymesur ar y rhai sydd fwyaf agored i niwed, gan mai'r bobl sy'n cyfrannu lleiaf at y broblem drwy allyriadau yw'r rhai a all gael eu heffeithio fwyaf gan effeithiau hinsawdd. Mae hefyd yn bosibl y byddant yn gorfod talu yn fwy na neb i fynd i'r afael â'r mater – gall pobl sydd ar incwm isel gael eu heffeithio mewn ffordd anghymesur gan ymyriadau polisi drud ac mae'n bosibl na fydd adnoddau ar gael i liniaru effeithiau uniongyrchol y newid yn yr hinsawdd.

831. Mae'r newid yn yr hinsawdd yn gallu effeithio ar iechyd, maeth ac addysg, yn ogystal ag ychwanegu pwysau ar gartrefi wrth i brisiau bwyd ag ynni godi. Bydd y graddau y mae allyriadau yn cael eu lleihau a'u haddasu yn penderfynu peryglon newid yn yr hinsawdd i blant yn y dyfodol.

832. Amcan Llywodraeth Cymru yw pennu llwybr clir yng nghyd-destun rhwymedigaethau presennol y DU a'r UE er mwyn gostwng allyriadau o leiaf 80% erbyn 2050. Yn ogystal â sicrhau tryloywder, bydd llwybr clir ar gyfer datgarboneiddio yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd, pobl, yr economi a chymunedau. Er enghraifft, mae gwaith ym maes defnyddio ynni'n effeithlon yn helpu i leihau allyriadau a sicrhau bod pobl yn byw mewn cartrefi cynnes, yn ogystal â darparu swyddi lleol a sgiliau ar gyfer pobl ifanc. Mae gwaith ym maes llygredd a rheoli atal llygredd yn helpu i sicrhau bod gennym fynediad at ddŵr, ansawdd aer a mannau gwyrdd glân

a hygyrch. Mae gwaith ym maes twf gwyrdd yn darparu buddsoddiad a chyfleoedd ar gyfer datgarboneiddio, a fydd yn llywio'r set sgiliau sydd ei hangen ar blant wrth iddynt ymuno â'r gweithlu yn y dyfodol.

833. Bydd lleihau allyriadau a chynyddu'r gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd yn helpu i gyrraedd y targedau a sicrhau manteision ehangach ar gyfer cenedlaethau heddiw ac yfory, yn ogystal â lleihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar genedlaethau'r dyfodol.

834. Os bydd Llywodraeth Cymru yn pennu unrhyw argymhellion a pholisïau newydd ar gyfer bodloni cyllidebau carbon, byddent yn destun proses ymgysylltu ac asesiadau manwl a llawn, gan gynnwys Asesiad Effaith ar Hawliau Plant.

Taliadau am Fagiau Siopa

835. Gall y broses o ganiatáu i Weinidogion Cymru godi tâl am fathau eraill o fagiau siopa amldro er mwyn lleihau'r galw am y mathau hyn o fagiau siopa, ac annog pobl i'w hailddefnyddio, alluogi ymwybyddiaeth amgylcheddol ehangach drwy leihau'r galw cyffredinol am fagiau siopa amldro gan ddefnyddwyr. Gall hefyd newid ymddygiad defnyddwyr tuag at ailddefnyddio'r bagiau y maent yn berchen arnynt yn barod. Byddai'r effeithiau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar bob plentyn drwy wella'r amgylchedd.

836. Mae'r ail gynnig yn rhoi dyletswydd ar werthwyr i roi'r elw net o'r tâl am fagiau siopa at achosion da, gan ddileu'r cyfyngiad presennol ym mharagraff 4A o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008, fel na fyddai gwerthwyr yn gorfod rhoi'r elw net o'r tâl at achosion da amgylcheddol yn unig. Mae'r cynnig hwn yn sicrhau bod pob gwerthwr yn rhoi'r elw net o'r tâl at achosion da, a dim ond gwerthwyr nad ydynt yn rhoi'r elw net o'r tâl ar hyn o bryd a fyddai'n cael eu heffeithio. Yn y cyswllt hwn, effaith anuniongyrchol y cynnig fyddai cynyddu'r elw net sy'n cael ei roi at achosion da, ac o ganlyniad gall rhai plant elwa oherwydd y mathau o achosion da a allai dderbyn arian o elw net y tâl.

Casglu a Gwaredu Gwastraff

837. Mae'r cynigion polisi yn dangos effeithiau cadarnhaol o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn drwy gefnogi'r gwaith o reoli gwastraff mewn ffordd fwy cynaliadwy a'r manteision cysylltiedig. Mae'n debygol y byddant yn cyfrannu at wella'r hawliau hynny yng Nghymru ac yn fyd-eang. Bydd manteision cyffredinol y cynnig polisi yn cynnwys gwella'r defnydd o adnoddau a fydd yn gwella'r amgylchedd cyffredinol yng Nghymru, gan hwyluso amgylchedd glân fel y bydd plant a phobl ifanc yn aros yn iach.

838. Mae'r cwricwlwm cenedlaethol eisoes yn hysbysu plant am egwyddorion ehangach rheoli gwastraff yn gynaliadwy (h.y. lleihau, ailddefnyddio,

ailgylchu). Nid yw'n cael ei ystyried yn angenrheidiol neu'n briodol i hysbysu plant am y ddeddfwriaeth sydd ar waith i helpu i gyflawni'r amcanion hynny.

Trwyddedu Morol

839. Mae'r drefn Trwyddedu Morol yn darparu'r fframwaith ar gyfer awdurdodi datblygiadau yn nyfroedd Cymru. Wrth ystyried cais ar gyfer trwydded forol (gan gynnwys y telerau sy'n berthnasol i'w chyhoeddi, ac unrhyw amodau sydd ynghlwm wrthi), mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu priodol ystyried—

(a)yr angen i **warchod yr amgylchedd**,

(b)yr angen i **warchod iechyd pobl**,

(c)yr angen i **atal ymyrraeth â defnyddiau dilys o'r môr**,

ac unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol ym marn yr awdurdod.

840. Mae cefnogi'r gwaith o reoli'r amgylchedd morol mewn ffordd fwy cynaliadwy yn debygol o wneud cyfraniad cadarnhaol at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae amgylchedd morol iach yn cyfrannu at les plant Cymru. Bydd trefn trwyddedu morol effeithiol yn cyfrannu at greu amgylchedd morol iach. Yn ogystal, manteision cyffredinol y cynnig polisi yw'r ffaith y bydd yn cyfrannu at ddatblygu'r amgylchedd morol yng Nghymru mewn ffordd gynaliadwy ac yn ystyried yr angen penodol i warchod iechyd pobl wrth ganiatáu datblygiadau yn y dyfodol, gan hwyluso amgylchedd glân fel bod plant yn gallu datblygu mewn ffordd iach.

Pysgodfeydd ar gyfer Pysgod Cregyn

841. Mae'r cynigion polisi yn ategu amcanion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Drwy arddangos effeithiau cadarnhaol, mae'r cyfleoedd cynaliadwy ac economaidd ar gyfer pysgodfeydd cregyn yng Nghymru yn debygol o gyfrannu at wella'r hawliau hynny yng Nghymru ac yn fyd-eang. Er enghraifft, manteision cyffredinol y cynnig polisi fydd cynyddu darpariaeth bwyd maethlon, gan gynyddu'r cyfleoedd i blant ddatblygu mewn ffordd iach yng Nghymru.

Pwyllgor Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

842. Drwy sicrhau bod rheoli perygl llifogydd yng Nghymru yn cyfateb i'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, sy'n ceisio lleihau perygl llifogydd a chodi ymwybyddiaeth, bydd y diwygiad arfaethedig yr un mor berthnasol i bawb sydd â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys plant a phobl ifanc. O ganlyniad, dylai'r diwygiad gael effaith gadarnhaol.

Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd

843. Mae'r asesiad adnodd sgrinio wedi'i ddefnyddio ar gyfer pob darpariaeth yn y Bil i nodi a yw'r cynigion yn debygol o gael effaith ar breifatrwydd. Ni nodwyd unrhyw effeithiau ar gyfer darpariaethau'r Bil; o ganlyniad, nid oedd

angen asesiad arall ar gyfer y meysydd polisi hyn. Cwblhawyd dadansoddiad manylach ynglŷn â gweithredu'r ddarpariaeth enillion net, sy'n cael ei gyflwyno isod.

Taliadau am Fagiau Siopa

844. Yn ôl atodlen 6 i Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008, fel y'i diwygiwyd gan Fesur Gwastraff (Cymru) 2010, gall Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ei gwneud yn ofynnol i werthwyr roi'r elw net o'r tâl am fagiau siopa at ddibenion a fydd yn fanteisiol i'r amgylchedd.

845. Nid yw'r pŵer hwn wedi'i arfer eto gan mai'r polisi sy'n cael ei ffafrio hyd yn hyn yw sicrhau cydweithrediad y gwerthwyr drwy eu hannog i roi'r elw net at achosion da drwy gytundeb gwirfoddol. Mae gwerthwyr wedi cael gwahoddiad i gytuno ag egwyddorion sylfaenol yng nghytundeb gwirfoddol Llywodraeth Cymru, ond mae ganddynt hawl gyfreithiol i roi'r elw yn unol â'u dymuniadau.

846. Ffurflen ar-lein sy'n cael ei chwblhau gan y manwerthwr yw'r cytundeb gwirfoddol, ac mae'n cael ei hanfon at gyfrif e-bost ar gyfer y tâl am fagiau siopa untro. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei phrosesu wedyn a'i chynnwys mewn taenlen.

847. Mae'r ffurflen yn gofyn i'r manwerthwr gadarnhau:-
- a yw'n cytuno i fod yn llofnodwr y cod gwirfoddol i drosglwyddo ei elw net (ticio bocs);
- nad yw am dderbyn unrhyw wybodaeth gan Lywodraeth Cymru am y tâl am fagiau siopa untro (ticio bocs);
- a yw'n well ganddo gadw enw ei gwmni yn gyfrinachol a pheidio â'i rannu ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad (ticio bocs).

848. Mae'r ffurflen hefyd yn gofyn i'r manwerthwr nodi enw cyswllt, enw'r busnes a'r manylion cyswllt. Nid yw gwybodaeth unigol yn cael ei rhannu â thrydydd partïon os yw'r manwerthwr wedi nodi ei fod am gadw ei wybodaeth yn gyfrinachol. Mae'r gwaith prosesu'r data personol hwn yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data, ac ar ôl cyflwyno'r Bil ni fyddai'n debygol o newid neu yn wir parhau. O ganlyniad, nid ydym yn rhagweld y byddai'r Bil yn cael effaith ar breifatrwydd.

Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

849. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol ar yr iaith Gymraeg ar gyfer unrhyw un o'r meysydd polisi yn y Bil. Nodwyd yr effeithiau cadarnhaol posibl canlynol:

Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol

850. Er nad yw'r Bil wedi'i gynllunio'n benodol i gael effaith uniongyrchol ar yr iaith Gymraeg, mae pedair effaith gadarnhaol wedi'u nodi, sef:

- Bydd y Bil yn cefnogi'r broses o weithredu'r chwe nod a gyflwynir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 2015. Mae hyn yn cynnwys y nod ar gyfer "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu".
- Bydd y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol yn pennu'r blaenoriaethau a'r cyfleoedd ar gyfer y defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol yng Nghymru gan arwain at ecosystemau mwy cadarn. Bydd hyn yn fanteisiol i gymunedau ledled Cymru gan arwain at ffyniant hirdymor, mantais gymdeithasol ac iechyd a lles. Yn benodol, bydd y Bil yn rhoi cyfle i brif ddiwydiannau fel amaethyddiaeth, ynni a dŵr fod yn fwy cynaliadwy. Mae 29.5% o'r rhai sy'n cael eu cyflogi yn y diwydiannau amaethyddiaeth, ynni a dŵr yn siaradwyr Cymraeg.
- Bydd datganiadau ardal yn hwyluso agwedd is-genedlaethol at Reoli Adnoddau Naturiol ac yn darparu ar gyfer atebion a dargedir sy'n seiliedig ar broffil economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ardal benodol. Dylai hyn arwain at gymunedau Cymraeg mwy cadarn sy'n elwa ar y cyfleoedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a nodir. Gallai hyn gael effaith gadarnhaol ar allfudo siaradwyr Cymraeg rhugl o rai cadarnleoedd Cymraeg.
- Bydd Rheoli Adnoddau Naturiol yn cefnogi lliniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd, gan arwain at gymunedau mwy cadarn a fydd yn fanteisiol i gymunedau Cymraeg mewn ffordd debyg i'r hyn a nodwyd yn effaith 3.

Asesiad o'r Effaith ar Brawfesur Polisïau Gwledig

851. Fel rhan o'r asesiad a gwblhawyd i ddadansoddi effeithiau ar ardaloedd gwledig, nodwyd bod gan y meysydd polisi canlynol oblygiadau posibl.

<u>Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol</u>

852. Mae'r Bil yn cyflwyno dull gweithredu sy'n rhoi blaenoriaeth i gyfleoedd adnoddau naturiol ac yn sicrhau bod gennym y dystiolaeth sydd ei hangen i lywio siâp a chyfeiriad twf a datblygiad economaidd cynaliadwy yn well. Mae'r Bil hefyd yn bwriadu cynorthwyo pob cymuned i fod yn gadarn ac yn gynaliadwy er lles bywyd gwyllt ac ardaloedd gwledig. Bydd CNC yn gweithio gyda sefydliadau eraill i arwain y dull newydd o gynllunio adnoddau naturiol ar lefel leol drwy gyhoeddi datganiadau ardal. Mae hyn yn cynnwys ardaloedd gwledig, ac mae'n debygol o olygu bod modd ystyried cyfleoedd a heriau o ganlyniad.

853. Bydd y Bil yn galluogi CNC i ddatblygu dulliau gweithio newydd i helpu i sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau naturiol, gan gynnwys gwasanaethau amgylcheddol fel bwyd a phren, yn ogystal â rheoli llifogydd a dŵr, a hidlo llygredd. Gallai hyn alluogi ffermwyr a thirfeddianwyr i greu incwm i reoli gwasanaethau ecosystem a darparu ffynhonnell broffidioldeb.

<u>Newid yn yr Hinsawdd</u>

854. Mae'r darpariaethau yn y Bil hwn yn pennu targed statudol hirdymor i leihau allyriadau Cymru ynghyd â gofyniad i Weinidogion Cymru bennu targedau interim a chyllidebau carbon i gyrraedd y targed hwn. Ni chredir bod y fframwaith ei hun yn codi materion yn ymwneud ag ardaloedd gwledig, ond bydd hyn yn cefnogi camau gweithredu i fynd i'r afael â'r her newid yn yr hinsawdd, sydd â pheryglon sylweddol ar gyfer ardaloedd gwledig a threfol.

855. Yn ogystal, wrth ddatblygu cynigion a pholisïau newydd yn unol â'r cyllidebau carbon, byddent yn amodol ar broses ymgysylltu ac asesiad llawn a manwl, gan gynnwys asesiad yn erbyn prawfesur polisïau gwledig.

Casglu a Gwaredu Gwastraff

856. Mae deiliaid tai yng nghefn gwlad Cymru eisoes yn elwa ar fynediad i amrywiaeth dda o wasanaethau ailgylchu. Bwriad y cynnig sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchydd y gwastraff ddidoli deunyddiau yw sicrhau bod gan gwmnïau casglu gwastraff mwy o ddeunyddiau wedi'u didoli ar gael i'w casglu, gan gynyddu hyfywedd economaidd gwasanaethau casglu ar wahân. Bydd y gofyniad i gynyddu amrywiaeth y deunyddiau sydd i'w casglu ar wahân yn sicrhau y bydd system fwy cynhwysfawr o gasglu deunyddiau eildro ar gael ar gyfer cynhyrchwyr gwastraff mewn cymunedau gwledig.

857. Mae hyn yn debygol o arwain at gynnydd mewn seilwaith gwledig , er enghraifft cyfleusterau prosesu deunyddiau a gwasanaethau casglu deunyddiau.

858. Gall y cynigion arwain at gynnydd lleol bach mewn cyfleusterau deunyddiau gwastraff masnachol, er enghraifft storfeydd ar gyfer deunyddiau y gellir eu hailgylchu sydd wedi'u casglu. Fodd bynnag, yn gyffredinol disgwylir i'r cynigion leihau dibyniaeth ar dirlenwi yn sylweddol drwy ddarparu dulliau rheoli gwastraff amgen fel ailgylchu. Yn ôl datganiad ôl-fabwysiadu'r asesiad o gynaliadwyedd ar gyfer Strategaeth Wastraff Cymru "Tuag at Ddyfodol Diwastraff"[102], bydd cynyddu ailgylchu (o gymharu â thirlenwi) yn lleihau'r broses o gymryd tir ac effeithiau amgylcheddol cysylltiedig sy'n deillio o dirlenwi.

859. Yn ôl gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, er bod llawer o fusnesau yn debygol o gronni arbedion, gall rhai busnesau ysgwyddo cynnydd yng nghostau eu gwasanaethau casglu gwastraff. Mae'r gwaith ymchwil wedi'i grynhoi yn y prif asesiad effaith rheoleiddiol. Mae'n awgrymu bod busnesau sy'n cynhyrchu symiau bach o wastraff yn fwy tebygol o weld cynnydd yn eu costau casglu gwastraff blynyddol. Roedd yn rhagweld y gallai'r cynnydd absoliwt mewn costau fod yn fwy na 0.5% o drosiant y busnesau lleiaf, ond byddai'n debygol o fod yn llai nag 1% o drosiant busnes o hyd.

[102] *http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/waste_recycling/publication/towardszero/?skip=1&lang=cy*

860. Mae'n bosibl na fydd modd sicrhau bod y cynigion yn niwtral o ran cost neu'n fanteisiol i holl gynhyrchwyr gwastraff busnes. Fodd bynnag, fel rhan o ddatblygiad y rheoliadau o dan y pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru gan y Bil, bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu cymorth ac arweiniad i gefnogi'r cynigion a lliniaru effeithiau negyddol ar y rhai sy'n cael eu heffeithio yn andwyol.

Pysgodfeydd ar gyfer Pysgod Cregyn

861. Mae'r cynigion wedi'u cynllunio i gynyddu buddsoddiad, a hyder y buddsoddwr, mewn pysgodfeydd cregyn yn nyfroedd Cymru. Dylai hyn arwain at gynnydd yn yr economi leol a'r posibilrwydd o greu swyddi mewn ardaloedd gwledig a threfol.

Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru

862. Bydd Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu dull gweithredu sy'n fwy seiliedig ar risg wrth reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, yn hytrach na gweithredu ar sail lleoliadau. O ganlyniad, nid yw gwaith a buddsoddiad wedi'u bwriadu ar gyfer ardaloedd gwledig neu drefol yn benodol.

863. Oherwydd hyn, ni fydd gan y polisi hwn unrhyw effaith negyddol ar ardaloedd gwledig.

Draenio Tir

864. Gall y ddarpariaeth ar gyfer pŵer mynediad fod yn fanteisiol i unedau ffermio a busnes unigol drwy sicrhau ateb trwodd i ATL, a fydd yn arwain at dir yn cael ei ddraenio'n ddigonol a'i adfer i'w ddefnydd ffermio neu fusnes gwreiddiol.

865. Amcan y ddarpariaeth mewn perthynas â byrddau draenio mewnol a'u gofynion hysbysebu yw cyflwyno dull hysbysu mwy costeffeithiol a hyblyg er mwyn sicrhau bod y negeseuon yn cael eu cyfleu mewn ffordd effeithlon ac effeithiol i ardaloedd gwledig drwy fathau o hysbysebu amrywiol, e.e. digidol, gwefannau, cyfryngau cymdeithasol, byrddau plwyfi ac ati.

Pennod 8: Asesiad o'r Gystadleuaeth

866. Mae'r prawf hidlo asesiad o'r gystadleuaeth yn gofyn a fydd darpariaethau'r polisi yn cyfyngu ar nifer neu amrywiaeth y cyflenwyr yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol; a fydd yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i gystadlu; neu a fydd yn lleihau cymhellion cyflenwyr i gystadlu yn gryf.

867. Mae'r prawf hidlo'r gystadleuaeth wedi'i gwblhau ar gyfer pob maes polisi yn y ddeddfwriaeth.

Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol

868. Mae gwybodaeth gan ymatebwyr i'r Papur Gwyn wedi'i hystyried. Dylid nodi mai ychydig iawn o sylwadau a gafwyd ar y pwnc hwn, ac felly ychydig iawn o wrthwynebiadau o safbwynt cystadleuaeth sydd i'r cynigion. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn awgrymu bod y darpariaethau Rheoli Adnoddau Naturiol yn eu crynswth yn annhebygol o gael effaith negyddol ar gystadleuaeth oherwydd bydd unrhyw ddeddfwriaeth neu bolisi newydd yr un mor berthnasol i fusnesau cyfredol a busnesau newydd. Mewn gwirionedd, disgwylir i effaith gyfunol y darpariaethau gael effaith gadarnhaol ar gystadleuaeth. Gellir priodoli rhai effeithiau i feysydd polisi penodol, a gallai eraill ddeillio o Fil yr Amgylchedd yn fwy cyffredinol.

Newid yn yr Hinsawdd

869. Nid oes unrhyw effeithiau ar gystadleuaeth wedi'u nodi o ganlyniad i'r darpariaethau mewn perthynas â'r newid yn yr hinsawdd.

Taliadau am Fagiau Siopa

870. Fel y nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, bydd yr opsiynau a amlinellwyd ar gyfer ymestyn pwerau llunio rheoliadau Gweinidogion Cymru i'w galluogi i bennu tâl isaf ar gyfer mathau eraill o fagiau siopa yn ogystal â bagiau siopa untro yn cael effaith ar wneuthurwyr bagiau wrth i'w helw leihau. Fodd bynnag, mae'r effaith hon yn debygol o fod yn fach iawn gan mai ychydig iawn o'r gwneuthurwyr hyn sydd yng Nghymru, ac mae'r costau hyn yn gyfran fechan o'u refeniw cyffredinol. Mae'r dadansoddiad o dan yr opsiynau hyn hefyd yn dangos bod y cynnydd yn refeniw manwerthwyr a'r effaith ar gyfanwerthwyr yn amrywio rhwng yr opsiynau. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar gystadleuaeth, gan y byddai'n annhebygol o effeithio ar amrywiaeth y cyflenwyr, cyfyngu ar eu gallu i gystadlu, neu leihau eu cymhellion i gystadlu.

871. O safbwynt y ddarpariaeth i sicrhau bod unrhyw achos da yn gallu derbyn yr elw net, a'r opsiynau sydd wedi'u hamlinellu o dan y ddarpariaeth hon, gan fod rhai manwerthwyr yn cadw'r refeniw a godir o'r tâl am fagiau siopa fel elw, rhagwelir y gall unrhyw ofyniad i fanwerthwyr roi at achosion da effeithio ar eu helw. Fel y mae'r dadansoddiad yn yr Asesiad Effaith

Rheoleiddiol yn ei ddangos, disgwylir i rai opsiynau posibl arwain at gynnydd yn refeniw manwerthwyr sy'n cael ei roi i elusennau. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y cynnydd hwn tua £8.7m (ar ôl disgownt) dros 10 mlynedd. Credir nad yw'r swm hwn yn ddigon sylweddol, o gael ei rannu rhwng pob manwerthwr, i effeithio ar gystadleuaeth. Felly, fel sy'n wir am y ddarpariaeth gyntaf, ni ragwelir ar hyn o bryd y byddai'r cynnig hwn yn cael unrhyw effaith sylweddol ar gystadleuaeth, gan y byddai'n annhebygol o effeithio ar amrywiaeth y cyflenwyr, cyfyngu ar eu gallu i gystadlu, neu leihau eu cymhellion i gystadlu.

872. Am y rheswm hwn, nid oes asesiad llawn o'r gystadleuaeth wedi'i gwblhau ar hyn o bryd.

Casglu a Gwaredu Gwastraff

873. Bwriad y Bil yw rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth ac ni fydd yn cael unrhyw effaith ar gystadleuaeth. Mae'r adran ganlynol yn amlinellu'r effaith bosibl ar gystadleuaeth os yw'r pwerau yn cael eu defnyddio.

874. Disgwylir i'r darpariaethau gynyddu costau casglu gwastraff rhai cynhyrchwyr gwastraff busnes yng Nghymru. O ran canran, disgwylir i'r cynnydd mwyaf yng nghostau casglu gwastraff gael eu hysgwyddo gan fusnesau sy'n cynhyrchu symiau cymharol fach o wastraff.

875. Yn ogystal, mae effaith bosibl ar gystadleurwydd busnesau Cymru o gymharu â busnesau yn Lloegr, a disgwylir i rai busnesau Cymru wynebu cynnydd mewn costau casglu gwastraff na fydd yn cael ei ysgwyddo gan fusnesau sy'n gweithredu yn Lloegr. Fodd bynnag, disgwylir i gostau casglu gwastraff rhai busnesau Cymru leihau o ganlyniad i'r cynigion. Fel y nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, bydd yr union newid yng nghostau casglu gwastraff pob busnes yn dibynnu ar y gweithredwyr/gwasanaethau casglu gwastraff yn yr ardal, y contract y mae pob busnes unigol yn gallu ei negodi a'i allu i wella effeithlonrwydd adnoddau.

876. Gall y gofynion newydd gyfyngu ar allu busnesau casglu gwastraff yng Nghymru i ddewis amrywiaeth a/neu ansawdd y gwasanaethau y maent yn eu cynnig. Mae'n bosibl y bydd y busnesau nad ydynt yn cynnig gwasanaethau ailgylchu yn gorfod buddsoddi mewn seilwaith ychwanegol neu golli eu cyfran o'r farchnad o bosibl. Gallai hyn effeithio ar strwythur y farchnad yng Nghymru.

877. Bydd gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd i garthffosydd yn cyfyngu ar y farchnad ar gyfer unedau gwaredu gwastraff bwyd. Fel y nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae trafodaethau â gwneuthurwyr yn awgrymu bod gwerthiant yr unedau hyn yng Nghymru yn rhan gymharol fach o'u busnesau, ac o ganlyniad disgwylir i unrhyw effaith andwyol fod yn gyfyngedig.

878. Cynhelir asesiad effaith rheoleiddiol manwl arall ar gyfer unrhyw is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei chyflwyno o dan y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru. Fel rhan o'r broses, bydd Llywodraeth Cymru yn asesu effaith y cynigion i sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth yn deillio o'r broses o roi'r cynigion ar waith.

Trwyddedu Morol

879. Nid oes unrhyw effeithiau ar gystadleuaeth wedi'u nodi o ganlyniad i'r darpariaethau ar gyfer trwyddedu morol.

880. Cyflwynir y newidiadau yn gyffredinol, ac ni fydd effaith annheg ar unrhyw sector penodol neu unrhyw ddefnyddiwr newydd neu bresennol y system drwyddedu. Mae'r system trwyddedu morol yn cynnwys amrywiaeth eang o sectorau a busnesau, a bydd y ffioedd yn berthnasol i bob sector. Bydd y newidiadau hyn yn arwain at degwch ar gyfer defnyddwyr y system.

881. Cyflwyno taliadau cyn cyflwyno ceisiadau yw'r newid arwyddocaol newydd. Fodd bynnag, gwasanaeth dewisol yw hwn sydd ar gael i bob darpar ymgeisydd, ond mae'n debygol o gael ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau graddfa mwy yn unig. Bydd cyflwyno taliadau parhau yn sicrhau tegwch ar gyfer pob prosiect, oherwydd ar hyn o bryd mae modd adennill costau monitro ar gyfer prosiectau asesiad o'r effaith amgylcheddol, ond nid ar gyfer prosiectau nad ydynt yn ymwneud ag asesiad o'r effaith amgylcheddol.

Pysgodfeydd ar gyfer Pysgod Cregyn

882. Nid oes unrhyw effeithiau ar gystadleuaeth wedi'u nodi o ganlyniad i'r darpariaethau yn ymwneud â rheoli pysgodfeydd cregyn.

Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru

883. Nid oes unrhyw effeithiau ar gystadleuaeth wedi'u nodi o ganlyniad i'r ddarpariaeth hon. Bydd y ddarpariaeth hon yn creu pwyllgor i oruchwylio'r gwaith o reoli peryg llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru a rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ar holl ffynonellau llifogydd. Ni fydd gan yr Awdurdodau Rheoli Peryglon unrhyw ddyletswyddau statudol.

Draenio Tir

884. Nid oes unrhyw effeithiau ar gystadleuaeth wedi'u nodi o ganlyniad i'r darpariaethau yn ymwneud â draenio tir.

Pennod 9 – Adolygiad ar ôl gweithredu

Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol

885. Wrth werthuso'r darpariaethau a gyflwynir drwy'r ddeddfwriaeth newydd, bydd y canlynol yn ganllaw defnyddiol i lwyddiant:
    - Mae'r adnoddau a gyflwynir gan y ddeddfwriaeth yn cael eu defnyddio yn llwyddiannus, ar y cyd â mesurau cyflawni presennol, i wella sicrwydd a thryloywder wrth weithredu polisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer adnoddau naturiol.
    - Mae'r manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd o weithredu'r cynigion yn cyfiawnhau'r adnoddau sydd wedi'u dyrannu iddynt, h.y. maent yn gosteffeithiol, ac nid oes unrhyw dystiolaeth y gallai'r adnodd hwn fod wedi'i ddefnyddio yn rhesymol mewn ffordd wahanol i gael canlyniadau gwell yn fwy effeithlon.
    - Mae datblygiad yn yr amgylchedd a defnyddio ei adnoddau yn parhau mewn ffordd gynaliadwy heb yr effeithiau negyddol ar yr amgylchedd sy'n amlwg ar hyn o bryd ac a fyddai'n parhau heb wneud newidiadau.
    - Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n ymwneud â'r amgylchedd yn credu bod y darpariaethau yn cael eu gweithredu mewn ffordd deg ac adeiladol.

886. Bydd yr adolygiad ar ôl gweithredu yn cael ei hwyluso drwy weithgareddau a phrosesau monitro ac asesu parhaus, sy'n rhan o'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR), y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol (NNRP) a datganiadau ardal.

887. Mae'r tri dull cyflawni hyn yn creu proses gyson drwy ddylanwadu ar ei gilydd. Bydd yr SoNaRR yn darparu'r sylfaen dystiolaeth er mwyn i'r NNRP nodi blaenoriaethau a chyfleoedd allweddol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a bydd y broses hon yn mynd rhagddi ar raddfa briodol drwy gyhoeddi datganiadau ardal. Bydd datganiadau ardal yn casglu tystiolaeth leol, sydd yn ei thro yn gallu helpu i lywio'r SoNaRR, ac yn y pen draw bydd modd mesur y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i adolygu'r NNRP a chyhoeddi un newydd unrhyw bryd, ac mae'n nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r NNRP hefyd ar ôl pob etholiad Cynulliad.

888. Enghraifft arall o adeg pan allai adolygiad o'r Fframwaith NRM gael ei gynnal yw pe bai Gweinidogion Cymru yn adolygu eu hamcanion lles, fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Disgwylir i hyn sbarduno adolygiad o'r NNRP a byddai unrhyw newidiadau i'r NNRP yn sbarduno adolygiad o'r datganiadau ardal.

Newid yn yr Hinsawdd

889. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru a'r corff cynghori fynd ati'n rheolaidd i adolygu'r cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyrraedd y targedau a'r cyllidebau y mae'n eu sefydlu. Mae'r Bil yn ei gwneud yn

ofynnol i Weinidogion Cymru osod y canlynol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol:

- Datganiad terfynol ar gyfer pob cyfnod cyllidebol pum mlynedd (o fewn dwy flynedd i ddiwedd y cyfnod cyllidebol) sy'n cyflwyno gwybodaeth am nwyon sy'n cael eu hallyrru a nwyon sy'n cael eu dal yng Nghymru, symiau sy'n cael eu dwyn ymlaen neu yn ôl o un cyfnod cyllidebol i'r llall, a swm terfynol y cyfrif allyriadau Cymru net.
- Os yw'r cyfrif allyriadau Cymru net yn fwy na'r gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod hwnnw, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru adrodd i'r Cynulliad Cenedlaethol ar gynigion a pholisïau i wneud iawn am y swm ychwanegol hwn mewn cyfnodau cyllidebol diweddarach.
- O fewn 2 flynedd i bennu pob targed, datganiad sy'n darparu gwybodaeth am gyfanswm y nwyon sy'n cael eu hallyrru a'r nwyon sy'n cael eu dal yng Nghymru, y cyfrif allyriadau Cymru net a chyfanswm yr unedau carbon sydd wedi'u hachredu neu eu debydu i'r cyfrif. Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ddatgan pam y mae'r targed wedi'i gyrraedd neu pam nad yw wedi'i gyrraedd.

890. Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad sy'n cyflwyno eu cynigion a'u polisïau ar gyfer bodloni pob cyllideb carbon.

891. Ar gyfer pob cyfnod cyllidebol, mae'n rhaid i'r corff cynghori adrodd i Weinidogion Cymru ar gynnydd sy'n cael ei wneud i fodloni'r gyllideb garbon, unrhyw dargedau interim a'r targed ar gyfer 2050. Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru osod yr adroddiad hwn gerbron y Cynulliad Cenedlaethol hefyd.

892. Bydd y newid yn yr hinsawdd yn cael ei gynnwys yn yr NNRP hefyd, felly bydd yn cael ei werthuso yn unol â'r trefniadau monitro ac asesu sy'n cael eu darparu o dan Ran 1 o'r Bil ar gyfer NNRP.

Taliadau am Fagiau Siopa

893. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad ar ôl gweithredu o'r ddeddfwriaeth ar gyfer yr elfennau sy'n cael eu gweithredu drwy Reoliadau. Rhagwelir y bydd yr adolygiad yn asesu effeithiolrwydd y polisi wrth gyflawni ei amcanion i leihau'r defnydd gwastraffus o adnoddau ac addasu ymddygiad defnyddwyr, yn ogystal â'r gofyniad i werthwyr roi'r elw net o'r tâl at achosion da.

894. Bydd meini prawf llwyddiant ac amserlen yr adolygiad yn cael eu pennu gan yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a fyddai'n cael ei gwblhau pan gaiff y Rheoliadau eu gweithredu.

Casglu a Gwaredu Gwastraff

895. Bydd yr adolygiad ar ôl gweithredu o'r cynigion yn broses barhaus. Bydd is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei datblygu o dan y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru o dan ddarpariaethau'r Bil yn destun Asesiad Effaith Rheoleiddiol

manwl arall. Bydd hyn hefyd yn cynnwys manylion trefniadau ac amserlen fonitro ôl-weithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer yr adolygiad.

Pysgodfeydd ar gyfer Pysgod Cregyn

896. Os yw'r pwerau yn cael eu defnyddio, bydd y darpariaethau yn cael eu hadolygu a bydd unrhyw newidiadau arfaethedig yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd unrhyw adolygiad yn cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru a'i sbarduno os yw'r pwerau yn cael eu defnyddio.

Trwyddedu Morol

897. Bydd y taliadau a godir o ganlyniad i'r darpariaethau hyn yn destun adolygiad blynyddol, os credir bod angen hynny, a chynhelir ymgynghoriad cyhoeddus, os oes newidiadau arfaethedig. CNC fydd yn cynnal unrhyw adolygiad, a Gweinidogion Cymru a fydd yn ei gymeradwyo.

Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol

898. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal adolygiad o'r ddeddfwriaeth o fewn tair blynedd i'w chyflwyno.

899. Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro'r Pwyllgor yn rheolaidd ac yn adrodd i Weinidogion Cymru ar effeithiolrwydd a pherfformiad y pwyllgor a sefydlwyd drwy'r ddeddfwriaeth hon. Bydd yr adolygiad yn cadarnhau a yw'r ddeddfwriaeth yn cyflawni'r amcanion a'r manteision disgwyliedig.

Draenio Tir

900. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal adolygiad o elfennau'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i fyrddau draenio mewnol o fewn tair blynedd i'w chyflwyno. Bydd yn adolygu effeithiolrwydd y darpariaethau mynediad draenio tir er mwyn ystyried gwelliannau, lle bo angen, pan fydd digon o achosion wedi'u hatgyfeirio iddi, gan sicrhau bod modd cwblhau gwerthusiad ystyriol o'r ddarpariaeth.

Atodiad 1

NODIADAU ESBONIADOL

BIL YR AMGYLCHEDD (CYMRU)

NODIADAU ESBONIADOL

RHAGARWEINIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â Bil yr Amgylchedd (Cymru) a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 11.05.2015. Fe'u paratowyd gan Adran Cyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r darllenydd.

2. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Bil. Os ymddengys nad oes angen rhoi esboniad neu sylw ar adran unigol o'r Bil, nis rhoddir.

SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

Rhan 1 – Rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol

3. Mae Rhan 1 o'r Bil yn ymwneud â rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol. Mae'n darparu ar gyfer proses ailadroddol newydd lle bydd Gweinidogion Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a chyrff cyhoeddus eraill yn cyfrannu at gyflawni rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol.

4. Mae'r Rhan hon yn diffinio adnoddau naturiol, rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol ac egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol.

5. Mae Rhan 1 yn rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru ac CNC er mwyn cynorthwyo i gyflawni rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol. Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynhyrchu polisi adnoddau naturiol cenedlaethol a bydd gofyn i CNC gynhyrchu adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol a datganiadau ardal. Mae'r Rhan hon yn pennu'r broses a'r amserlen ar gyfer cynhyrchu'r dogfennau hyn ac yn rhoi'r swyddogaeth i gyrff cyhoeddus (a ddiffinnir yn y Bil) o ddarparu cymorth a /neu wybodaeth y mae CNC yn gofyn amdani er mwyn cynhyrchu'r dogfennau hyn. Mae'r Rhan hon hefyd yn rhoi'r swyddogaeth o weithredu'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol i Weinidogion Cymru a'r swyddogaeth o weithredu datganiad ardal i CNC.

6. Mae'r Rhan hon yn rhoi erthygl 4 newydd yn lle erthygl 4 o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012, sy'n rhoi diben cyffredinol newydd i CNC o geisio cyflawni rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol. Mae'r Rhan hon hefyd yn diwygio swyddogaethau presennol CNC i'w cynorthwyo i weithredu eu swyddogaethau er mwyn cyflawni eu diben newydd, ac yn diddymu swyddogaethau CNC mewn perthynas ag ymrwymo i gytundebau rheoli yn Neddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a Deddf Cefn Gwlad 1968. Mae'r Rhan hon hefyd yn disodli swyddogaethau CNC yn Neddf 1968 mewn perthynas â chynlluniau arbrofol. Mae Rhan 1 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, yn dilyn cais gan CNC, wneud rheoliadau i ganiatáu atal dros dro ofynion deddfwriaethol, i

raddau cyfyngedig, er mwyn hwyluso cynllun arbrofol, sy'n angenrheidiol er mwyn cyfrannu at reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol.

7. Mae Rhan 1 yn rhoi adran newydd yn lle adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 ar gyfer awdurdodau cyhoeddus sydd â swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac yn rhoi adran newydd yn lle adran 42 o'r Ddeddf honno mewn perthynas â'r ddyletswydd sydd ar Weinidogion Cymru i baratoi rhestr o'r organeddau byw a'r cynefinoedd sy'n bwysig ar gyfer bioamrywiaeth mewn perthynas â Chymru. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau cyhoeddus hyn, wrth arfer eu swyddogaethau yn briodol, geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth ac, wrth wneud hynny, hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

Adran 1 – Diben

8. Mae'r adran hon yn egluro mai diben y Rhan hon yw hyrwyddo rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol.

Adran 2 – Adnoddau naturiol

9. Mae adran 2 yn diffinio adnoddau naturiol at ddibenion Rhan 1 o'r Bil.

10. Mae'r diffiniad yn ymgorffori'r holl organeddau byw (biotig), ac eithrio pobl, a rhannau a deunyddiau anfyw (anfiotig) o'r amgylchedd naturiol.

11. Nid yw'r diffiniad wedi ei gyfyngu i adnoddau naturiol daearol; mae hefyd yn cynnwys adnoddau naturiol arfordirol a morol.

12. Mae'r diffiniad yn rhestru enghreifftiau o rannau o'r amgylchedd naturiol ac mae'n cynnwys, er enghraifft, adnoddau biolegol a daearegol, cyfryngau amgylcheddol (aer, dŵr a phridd) yn ogystal ag adnoddau llif (megis y llanw, y gwynt a'r haul).

Adran 3 –Rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol

13. Mae'r adran hon yn diffinio "rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol" at ddibenion Rhan 1 o'r Bil. Mae adran 4 yn disgrifio sut y dylid cyflawni rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol, drwy ddilyn egwyddorion rheoli cynaliadwy.

14. Mae is-adran (1)(a) yn darparu bod rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yn ymwneud â defnyddio (neu beidio â defnyddio) adnoddau naturiol (fel y'u diffinnir yn adran 2) i hyrwyddo amcan is-adran (2). Enghraifft o reoli'r defnydd o adnoddau yw rheoli faint o ddŵr sy'n cael ei dynnu o afon, pa mor aml y gwneir hynny, ac o ba leoliad. Er mwyn bodloni'r amcan yn is-adran (2) ni chaniateir tynnu dŵr ar raddfa gyflymach nag y gellir ei ailgyflenwi nac mewn ffordd a fydd yn cael effaith andwyol ar yr ecosystem ehangach a'r manteision eraill i'r ecosystem y mae'r afon yn eu darparu. Asesir i ba raddau y mae dŵr ar gael nid yn unig ar sail yr effaith yn y tymor byr, ond hefyd yn y tymor hir, ac ar sail gallu'r ecosystem i ddarparu manteision ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

15. Mae is-adran (1)(b) ac (c) yn egluro bod rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol hefyd yn ymwneud â gweithredu, neu beidio â gweithredu, mewn ffordd sy'n hyrwyddo neu'n llesteirio cyflawni'r amcan yn is-adran (2). Gallai hyn gynnwys rheoli effaith gweithgareddau cynhyrchu ar iechyd ecosystemau a'r ffordd y

maent yn gweithredu, er enghraifft. Gall defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu, er enghraifft, helpu i leihau'r raddfa y defnyddir adnoddau naturiol mewn gweithgareddau cynhyrchu, ond gallai'r gweithgaredd hwnnw hefyd gynnwys allyrru llygryddion i'r amgylchedd dyfrol neu i'r aer, a thrwy hynny gael effaith negyddol ar iechyd ein hecosystemau. Mae rheoli cynaliadwy yn cynnwys gweithredu (neu beidio â gweithredu) i leihau effeithiau negyddol posibl yn sgil gweithgareddau, er mwyn cynnal a gwella ecosystemau cydnerth.

16. Mae is-adran (2) yn darparu mai amcan rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yw cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau, a'u manteision. Mae ecosystem gydnerth yn iach ac yn gweithredu mewn ffordd sy'n gallu ymdopi ag aflonyddwch a darparu manteision dros y tymor hir er mwyn ddiwallu anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y presennol a'r dyfodol. Disgrifir prif nodweddion ecosystem gydnerth yn adran 4(g).

17. Y "manteision", neu'r gwasanaethau, a ddarperir gan ecosystemau yw'r manteision pendant ac annirnad y mae ecosystemau ac adnoddau naturiol yn eu rhoi, sy'n cynnwys:
   a) Gwasanaethau cefnogi, megis cylchdroi maetholion, cynhyrchu ocsigen a ffurfio pridd. Dyma'r gwasanaethau sydd eu hangen er mwyn cynhyrchu pob gwasanaeth arall;
   b) Gwasanaethau darparu nwyddau, megis bwyd, ffeibr, tanwydd a dŵr. Dyma'r cynhyrchion y mae ecosystemau yn eu rhoi;
   c) Gwasanaethau rheoli, megis rheoli'r hinsawdd, puro dŵr ac amddiffyn rhag llifogydd. Dyma'r manteision sy'n deillio o reoli prosesau ecosystemau; a
   d) Gwasanaethau diwylliannol, megis addysg, hamdden, a manteision esthetaidd. Dyma'r manteision y mae pobl yn eu cael o ecosystemau, nad ydynt yn rhai materol.

Adran 4 – Egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol

18. Mae adran 4 yn sefydlu'r egwyddorion sy'n pennu sut yr eir ati i reoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Mae'r egwyddorion yn ategu ei gilydd ac yn cysylltu â'i gilydd, ac nid ydynt wedi'u rhestru yn ôl trefn blaenoriaeth.

19. Mae paragraff (a) yn darparu ar gyfer addasu i amgylchiadau wrth wneud penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys cynhyrchu gwybodaeth newydd a cheisio lleihau unrhyw ansicrwydd, gan ganiatáu i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau ragweld newid a darparu ar ei gyfer.

20. Mae'n ofynnol ystyried y raddfa ofodol yn ôl paragraff (b). Mae hyn yn cynnwys ystyried y lefel ofodol leol, ranbarthol neu genedlaethol briodol er mwyn ymateb i faterion neu ddarparu cyfleoedd. Er enghraifft, mae'r cysylltiadau rhwng dŵr daear, dŵr wyneb a glawiad o fewn dalgylch afon yn golygu y gall effeithiau ar unrhyw un ohonynt effeithio ar brosesau hydrolegol yn y dalgylch a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r prosesau hyn, fel darparu dŵr glân.

21. Mae'n ofynnol gweithio â sectorau priodol o gymdeithas yn ôl paragraffau (c) a (d). Dylid gwneud penderfyniadau gan ystyried y dystiolaeth a'r wybodaeth a gasglwyd gan randdeiliaid perthnasol a chan wahanol sectorau o gymdeithas, gan gynnwys, er enghraifft, gymunedau lleol. Nid dim ond cyfeiriad at

dystiolaeth wyddonol yw'r term "tystiolaeth" yn y cyd-destun hwn, ac mae'n cynnwys gwybodaeth leol yn ogystal â data empirig a thystiolaeth wyddonol.

22. Yn ôl paragraff (e) mae'n ofynnol nodi ac ystyried y manteision a ddarperir gan ein hadnoddau naturiol a'n ecosystemau, yn ogystal â gwerth cynhenid yr ecostystemau a'r adnoddau hynny, sef gwerth adnoddau naturiol ac ecosystemau er eu mwyn eu hunain. Dylid ystyried pob mantais (neu wasanaeth) o ran darparu nwyddau, cefnogi, rheoli a diwylliant, fel y bo'n briodol. Er enghraifft, wrth reoli coedwigoedd, yn ogystal ag ystyried darparu coed, ystyrir gwasanaethau eraill fel storio carbon, darparu cynefinoedd neu weithgareddau hamdden. Mae angen rheoli coetiroedd dros dymor hir ac mae hynny'n golygu dewis rhywogaethau a lleoliad plannu coed yn ofalus fel y gellir manteisio i'r eithaf ar amrywiaeth o wasanaethau a manteision ecosystemau dros genhedlaeth neu ragor.

23. Mae'n ofynnol ystyried y canlyniadau tymor byr, tymor canolig a thymor hir yn ôl paragraff (f), gan gynnwys amseroedd oedi ac adborth i ecosystemau ymateb i ymyriadau. Er enghraifft, byddai'n rhaid i gynigion i gyflwyno gwlyptir newydd er mwyn helpu i leihau llygredd gwasgaredig o dir fferm ymgorffori'r amser a gymer i'r gwlyptir ddatblygu'r amodau bioffisegol angenrheidiol i reoli'r llygredd, ynghyd ag amrywioldeb llif y dŵr dros amser, wrth ddylunio a monitro'r gwlyptiroedd.

24. Mae'n ofynnol ystyried agweddau penodol ar gydnerthedd ecosystem yn ôl paragraff (g). Nid yw'r rhestr hon yn ddiffiniad cyflawn, ond mae'n nodi, at ddiben y Rhan hon, agweddau allweddol ecosystemau cydnerth.

Adran 5 – Diben cyffredinol Corff Adnoddau Naturiol Cymru

25. Mae'r adran hon yn rhoi darpariaeth newydd yn lle erthygl 4 o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (y "Gorchymyn Sefydlu") fel mai rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol fydd diben creiddiol Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru - CNC).

26. Roedd y Gorchymyn Sefydlu yn sefydlu CNC fel y corff amgylcheddol a chadwriaethol yng Nghymru ac yn nodi ei swyddogaethau cyffredinol. Fel y'i drafftiwyd yn wreiddiol, roedd erthygl 4 o'r Gorchymyn Sefydlu yn pennu diben cyffredinol CNC, sef sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy, a hynny er lles pobl, amgylchedd ac economi Cymru yn awr ac yn y dyfodol.

27. Yn awr, mae erthygl 4(1)(a), fel y'i disodlir gan adran 5, yn rhoi dyletswydd ar CNC i geisio cyflawn rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru wrth arfer unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau. Wrth gydymffurfio â'r ddyletswydd hon rhaid i CNC geisio cyflawni'r amcanion rheoli cynaliadwy fel y'u nodir yn adran 3 o'r Bil.

28. Mae erthygl 4(1)(b) yn ei gwneud yn ofynnol bod CNC, wrth arfer ei swyddogaethau, hefyd yn cymhwyso'r egwyddorion rheoli cynaliadwy a nodir yn adran 4 o'r Bil. Nid yw'r dyletswyddau yn erthygl 4 ond yn gymwys i'r graddau y bônt yn gyson ag arfer swyddogaethau CNC yn briodol. Nid ydynt, felly, yn gwrthdaro ag unrhyw ddarpariaethau eraill yn y Bil hwn, nac mewn

unrhyw ddeddfwriaeth arall, sy'n rhoi pwerau neu ddyletswyddau i CNC, nac yn eu gwrth-wneud.

29. Un enghraifft o gymhwyso'r egwyddorion i swyddogaeth fyddai wrth baratoi adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol (sy'n ofyniad o dan adran 7 o'r Bil). Wrth baratoi'r adroddiad rhaid i CNC gymhwyso'r egwyddorion yn adran 4, a fyddai'n cynnwys ystyried yr holl dystiolaeth a'r wybodaeth berthnasol a fydd yn angenrheidiol er mwyn paratoi'r adroddiad, yn ogystal â thrafod â'r rhanddeiliaid perthnasol a allai fod ag unrhyw dystiolaeth berthnasol yn eu meddiant. Yn ogystal, byddai byddai gofyn i CNC ystyried amrywiaeth rhywogaethau a chynefinoedd o fewn ecosystemau ar hyn o bryd, gallu ecosystemau i ymateb i newidiadau neu alwadau cynyddol arnynt, a'u gallu i barhau i ddarparu gwasanaethau megis dŵr glân, bwyd, twristiaeth a rheoli llifogydd a chlefydau.

30. Mae adran 5(3) yn gwneud diwygiadau canlyniadol i erthygl 5 o'r Gorchymyn Sefydlu. Mae erthygl 5 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru roi canllawiau ar y modd y mae CNC yn arfer ei swyddogaethau. Caiff erthygl 5(3), sy'n darparu bod rhaid i CNC roi sylw i'r canllawiau wrth gyflawni ei swyddogaethau, ei diwygio fel bod rhaid i CNC roi sylw i'r canllawiau yn awr wrth gyflawni ei ddiben cyffredinol.

31. Mae adran 5(4) yn diwygio'r Gorchymyn Sefydlu drwy ddiddymu erthyglau 5B a 5E. Mae erthygl 5B yn ei gwneud yn ofynnol i CNC roi sylw i newidiadau ecolegol gwirioneddol neu bosibl wrth gyflawni ei swyddogaethau cadwraeth natur. Bydd y gofyniad hwn bellach yn dod o dan egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol fel y darperir ar eu cyfer yn adran 4 o'r Bil hwn, felly mae erthygl 5B bellach yn ddiangen.

32. Mae erthygl 5E yn ei gwneud yn ofynnol i CNC roi sylw i iechyd a llesiant cymdeithasol unigolion a chymunedau yn ogystal â'u llesiant economaidd. Bydd y gofynion hyn yn dod yn rhan o'r dyletswyddau a osodir ar CNC gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, felly mae erthygl 5E bellach yn ddiangen.

Adran 6 – Dyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau

33. Mae adran 6 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus, fel y'u diffinnir yn is-adran (6), i gyflawni eu swyddogaethau mewn ffordd a allai wella amrywiaeth fiolegol (y cyfeirir ati fel bioamrywiaeth), neu beidio â'i lleihau o leiaf. Mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus, ymgymerwr statudol, Gweinidog y Goron a deiliaid swyddi cyhoeddus eraill gymhwyso'r ddyletswydd pan fyddant yn cyflawni unrhyw swyddogaethau yng Nghymru, neu mewn perthynas â Chymru. Nid yw llysoedd a thribiwnlysoedd sy'n arfer swyddogaethau barnwrol yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd.

34. Bydd yn ofynnol i'r awdurdodau cyhoeddus hyn gydymffurfio â'r ddyletswydd yn adran 6 yn hytrach na'r ddyletswydd yn adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006.

35. Mae adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr roi

sylw i ddiogelu bioamrywiaeth wrth gyflawni ei swyddogaethau. Golyga hyn bod rhaid iddynt ystyried unrhyw effeithiau ar fioamrywiaeth.

36. Mae adran 6(1) o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gyflawni pob un o'u swyddogaethau mewn ffordd sy'n ceisio gwella amrywiaeth organeddau biolegol, yn hytrach na'i leihau, ac wrth wneud hynny rhaid iddynt geisio gwneud ecosystemau yn fwy cydnerth. Nid yw cydnerthedd yn cael ei ddiffinio ond mae isadran (2) yn cynnwys amryw o'i brif nodweddion.

37. Er ei bod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio â'r ddyletswydd wrth arfer unrhyw swyddogaethau, nid yw'r ddyletswydd yn drech na'r angen iddynt arfer y swyddogaethau hynny'n briodol. Golyga hyn nad yw'n ofynnol i awdurdod cyhoeddus gydymffurfio â'r ddyletswydd os yw'n gwrthdaro ag unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol eraill ar yr awdurdod cyhoeddus.

38. Mae adran 6(2) o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus, wrth gyflawni'r rhwymedigaeth o dan isadran (1), ystyried sut y gall eu gweithredoedd annog, neu beidio â chael effaith negyddol, ar amrywiaeth rhywogaethau a chynefinoedd, ar raddfa, cyflwr a chysylltedd ecosystemau, ac ar eu gallu i ymdopi â digwyddiadau annisgwyl megis effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, ac adfer ohonynt. Ni fwriedir i'r rhestr yn is-adran (2) gynnwys pob mater y mae'n rhaid ei ystyried, gan ei bod yn bosibl na fydd rhai materion yn berthnasol i bob sefyllfa. Gweler y nodiadau ar gyfer adran 4 hefyd.

39. O dan adran 6(4) o'r Bil, mae dyletswydd ychwanegol ar Weinidogion Cymru, adrannau'r llywodraeth a Gweinidogion y Goron (sef yn fras, y rheini sy'n rhwym i'r ddyletswydd wreiddiol yn adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006) i dalu sylw arbennig i Gonfensiwn 1992. Nid yw'r ddyletswydd hon yn gymwys i'r awdurdodau cyhoeddus eraill a ddiffinnir yn is-adran (5).

40. Mae adran 6(5) yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus gyhoeddi adroddiad, bob tair blynedd, sy'n dangos sut y maent wedi bodloni eu rhwymedigaethau o dan y ddyletswydd bioamrywiaeth. Gallai awdurdodau cyhoeddus ymgorffori'r adroddiad hwn mewn unrhyw adroddiadau eraill y mae'n ofynnol iddynt eu cyhoeddi.

41. Mae is-adran (6) yn rhestru'r awdurdodau cyhoeddus y mae'r ddyletswydd yn adran 6(1) yn gymwys iddynt. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth eang o gyrff, gan gynnwys, er enghraifft, fyrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau iechyd cenedlaethol ac awdurdodau parciau cenedlaethol.

42. Er mai dim ond mewn perthynas â Chymru y mae adran 6 yn gymwys, nid yw hyn yn golygu ei bod yn ymwneud â bioamrywiaeth yng Nghymru yn unig. Mae'n gymwys i fioamrywiaeth ar raddfa fyd-eang ac yn golygu ei bod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus ystyried effaith penderfyniadau a wneir yng Nghymru, neu weithgareddau a gynhelir yng Nghymru, i'r graddau y gallai'r rheini fod â goblygiadau i fioamrywiaeth y tu allan i Gymru. Enghraifft bosibl o hyn fyddai awdurdod cyhoeddus yng Nghymru sy'n ystyried a ddylai brynu nwyddau a wnaed o ddeunyddiau sy'n tarddu o fforest law drofannol. Byddai

angen i'r awdurdod cyhoeddus ystyried goblygiadau'r penderfyniad hwnnw i brynu o ran bioamrywiaeth.

Adran 7 – Rhestrau bioamrywiaeth a dyletswydd i gymryd camau i gynnal a gwella bioamrywiaeth

43. Mae'r adran hon yn debyg i'r ddyletswydd yn adran 42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, ac yn ei disodli. Mae'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi, adolygu a diwygio rhestrau o organeddau byw a mathau o gynefinoedd yng Nghymru, sy'n arwyddocaol iawn yn eu tyb hwy o ran cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru.

44. Cyn cyhoeddi, adolygu a diwygio'r rhestrau, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag CNC (isadrannau (2) a (4)).

45. Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru fabwysiadu mesurau i gynnal a gwella'r organeddau a'r cynefinoedd sydd wedi'u rhestru, ac annog eraill i wneud hynny hefyd (is-adran (3)).

46. Wrth baratoi'r rhestr neu fabwysiadu unrhyw fesurau i gynnal a gwella'r organeddau a'r cynefinoedd sydd wedi'u rhestru, rhaid i Weinidogion Cymru gymhwyso egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol (fel y'u nodir yn adran 4 o'r Bil). Felly, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw dystiolaeth briodol, fel y'i darperir yn yr adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol (gweler adran 7), er enghraifft, yn ogystal â chysylltu ag unrhyw randdeiliaid perthnasol (is-adran (5)).

47. Mae angen darllen adran 7 ar y cyd â'r diwygiadau canlyniadol y mae Rhan 1 o Atodlen 2 yn eu gwneud.

Adran 8 – Dyletswydd i baratoi a chyhoeddi adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol

48. Er mwyn cynorthwyo personau i gyflawni rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yng Nghymru, mae adran 8 yn ei gwneud yn ofynnol i CNC gyhoeddi 'adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol'. Bydd yr adroddiad hwn yn ffynhonnell dystiolaeth a fydd ar gael i unrhyw berson sy'n ymdrin ag adnoddau naturiol yng Nghymru. Bydd o gymorth i unrhyw berson sy'n dilyn egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol; mae ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol yn rhan o'r egwyddor a nodir yn adran 4(d).

49. Rhaid i'r adroddiad gynnwys asesiad CNC o gyflwr presennol adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru. Rhaid i'r adroddiad hefyd gynnwys asesiad CNC o'r graddau y mae rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yn cael ei gyflawni. Er enghraifft, ei asesiad o gyflwr ecosystemau o ran darparu manteision lluosog, ac a fydd eu statws presennol yn gallu addasu i bwysau er mwyn sicrhau bod y manteision lluosog hynny'n cael eu darparu yn y tymor hir.

50. Dyletswyddau cyffredinol CNC fydd yn llywio'r gwaith o baratoi adroddiad o dan yr adran hon. Mae hyn yn cynnwys ei ddiben cyffredinol fel y'i nodir yn erthygl 4 o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (fel y'i disodlir gan adran 5(2) o'r Bil hwn), sy'n ei gwneud yn ofynnol i CNC ddilyn

egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol wrth arfer ei swyddogaethau.

51. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i CNC gyhoeddi'r adroddiad cyntaf o fewn pedwar mis o'r adeg y daw'r is-adran hon i rym. Daw'r is-adran hon i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r Bil yn cael y Cydsyniad Brenhinol (gweler adran 60(2)(a)).

52. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i CNC gyhoeddi adroddiad newydd cyn diwedd y flwyddyn cyn y flwyddyn y bydd pob etholiad cyffredinol arferol dilynol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael ei gynnal. Mae adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan adran 1 o Ddeddf Cymru 2014) yn darparu y bydd etholiad cyffredinol arferol yn cael ei gynnal yn ystod y bumed flwyddyn galendr yn dilyn y flwyddyn y cynhaliwyd yr etholiad cyffredinol arferol diwethaf. Felly, bydd rhaid cyhoeddi'r ail adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol cyn diwedd blwyddyn galendr 2020, a chyhoeddi adroddiad dilynol bob pum mlynedd. Mae'r dyddiad wedi ei osod drwy gyfeirio at y dyddiad a nodir yn adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Nid yw'n ddibynnol ar gynnal yr etholiad cyffredinol arferol ar y dyddiad penodol sy'n cael ei grybwyll yn yr adran honno, ac nid yw unrhyw etholiad cyffredinol eithriadol a all gael ei gynnal yn unol ag adran 5 o'r Ddeddf honno yn effeithio arno.

53. Rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r adroddiad diweddaraf wrth baratoi polisi adnoddau naturiol cenedlaethol (adran 9(9)).

Adran 9 – Dyletswydd i baratoi, cyhoeddi a gweithredu polisi adnoddau naturiol

54. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi, cyhoeddi, gweithredu ac adolygu 'polisi adnoddau naturiol cenedlaethol' sy'n amlinellu eu polisïau, ac a fydd yn cyfrannu at reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol (gweler adran 3).

55. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod y polisi yn nodi'r prif flaenoriaethau a'r prif gyfleoedd, yn eu barn hwy, ar gyfer rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol. Mae is-adran (9) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, wrth baratoi a diwygio'r polisi, roi sylw i'r 'adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol' diweddaraf. Yn ogystal â hynny, rhaid i Weinidogion Cymru ddilyn egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol wrth baratoi neu wrth ddiwygio'r 'polisi adnoddau naturiol cenedlaethol' (is-adran (8)).

56. Mae is-adran (2) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod y polisi yn cynnwys yr hyn y mae angen ei wneud, yn eu barn hwy, mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd.

57. Mae is-adran (4) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru fabwysiadu unrhyw fesurau sy'n rhesymol ymarferol yn eu barn hwy er mwyn gweithredu'r polisi, yn ogystal ag annog partïon eraill i weithredu'r polisi. Wrth weithredu'r polisi rhaid i Weinidogion Cymru ddilyn egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol (gweler is-adran (8)).

58. Rhaid cyhoeddi ac adolygu'r polisi yn unol â'r amseroedd a nodir yn yr adran hon. Rhaid cyhoeddi'r 'polisi adnoddau naturiol cenedlaethol' cyntaf o fewn deg mis o'r adeg y daw'r adran hon i rym. Daw'r adran hon i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r Bil yn cael y Cydsyniad Brenhinol (gweler adran 60(2)(a)).

59. Mae'r polisi yn ddogfen barhaus, oherwydd bydd y polisi a gyhoeddir yn dal i fod yn gymwys oni bai a hyd nes y cyhoeddir polisi diwygiedig yn dilyn adolygiad. Caiff Gweinidogion Cymru adolygu'r polisi unrhyw bryd ond rhaid iddynt ei adolygu yn dilyn etholiad cyffredinol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r gofyniad i adolygu yn dilyn etholiad cyffredinol yn gymwys boed hwnnw'n etholiad cyffredinol arferol (o dan adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) neu'n etholiad eithriadol (o dan adran 5 o'r Ddeddf honno). Yn dilyn adolygiad, caiff Gweinidogion Cymru ddewis parhau â'r polisi presennol, neu gallant ddiwygio'r polisi fel y gwelant yn dda. Os caiff y polisi ei adolygu, rhaid ailgyhoeddi'r adroddiad fel y'i diwygiwyd (gweler is-adran (7)).

Adran 10 – Datganiadau ardal

60. Mae adran 10 yn ei gwneud yn ofynnol i CNC hwyluso'r gwaith o weithredu'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol drwy baratoi, cyhoeddi a gweithredu 'datganiadau ardal'. CNC sy'n penderfynu ar nifer, lleoliad a graddau daearyddol yr ardaloedd y caiff adroddiadau eu paratoi ar eu cyfer, yn unol â'r hyn sydd fwyaf priodol, yn ei farn, er mwyn hwyluso'r broses o roi'r polisi ar waith.

61. Wrth arfer unrhyw swyddogaethau, caiff CNC ei lywio gan ei ddyletswyddau cyffredinol. Bydd ei ddiben cyffredinol, fel y'i nodir yn erthygl 4 o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (fel y'i disodlir gan adran 5(2) o'r Bil hwn) yn arbennig o berthnasol i'r adran hon. Golyga hyn ei bod yn ofynnol i CNC ddilyn egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â datganiadau ardal. Mae is-adran (2) yn taflu goleuni ar is-adran (1) er mwyn cadarnhau y gall CNC hefyd ddefnyddio'r datganiadau am unrhyw reswm arall i'w gynorthwyo i arfer unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau. Er enghraifft, caiff CNC ddewis defnyddio datganiad ardal i amlinellu sut y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau eraill mewn perthynas â'r ardal honno, yn ogystal â'r swyddogaethau hynny sy'n gysylltiedig â gweithredu'r polisi cenedlaethol.

62. Nid yw ffurf a chynnwys y datganiadau ardal wedi'i ragnodi; mater i CNC yw penderfynu ar hynny. Fodd bynnag, mae is-adran (3)(a)-(b) yn cynnwys materion y mae'n rhaid eu cynnwys, mewn termau cyffredinol, ym mhob datganiad ardal y bydd yn ei baratoi yn unol â'r adran hon.

63. Mae paragraff (a) yn ei gwneud yn ofynnol i bob datganiad bennu'r blaenoriaethau, y peryglon a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol, y mae angen ymdrin â hwy yn yr ardal honno ym marn CNC.

64. Mae paragraff (b) yn ei gwneud yn ofynnol i bob datganiad ddatgan sut y mae CNC yn bwriadu cyflawni ei swyddogaethau yn yr ardal honno er mwyn ymateb i'r blaenoriaethau, y peryglon a'r cyfleoedd a nodir ym mharagraff (a).

65. Mae adran 14 o'r Bil hwn yn cynorthwyo CNC i gydymffurfio a'i rwymedigaeth i baratoi a gweithredu datganiadau ardal drwy roi pwerau iddo ei gwneud yn ofynnol i gyrff penodol (a restrir fel 'cyrff cyhoeddus' yn adran 11 o'r Bil hwn) ddarparu gwybodaeth a chymorth arall iddo.

66. Mae is-adran (5) yn gwneud darpariaeth er mwyn sicrhau bod datganiadau ardal a gaiff eu paratoi o dan adran (1) yn parhau i fod yn effeithiol wrth hwyluso a gweithredu'r polisi cenedlaethol. Mae'n ofynnol i CNC adolygu'r datganiadau yn gyson, a gall eu diwygio unrhyw bryd.

67. Mae is-adran (6) yn ei gwneud yn ofynnol i CNC ystyried rhesymoli nifer y cynlluniau, y strategaethau neu'r dogfennau eraill tebyg sydd ar waith yn yr ardal y mae unrhyw ddatganiad ardal penodol yn ei chwmpasu. Cyn cyhoeddi datganiad, rhaid i CNC ystyried:

a) a ddylid cynnwys unrhyw gynllun, strategaeth neu ddogfen debyg arall (gan gynnwys datganiad ardal arall) yn y datganiad. Er enghraifft, caiff CNC geisio rhesymoli'r cynlluniau eraill y mae'n eu paratoi drwy eu hymgorffori mewn datganiad ardal; neu
b) a ddylid cynnwys datganiad ardal mewn cynllun, strategaeth neu ddogfen debyg arall.

68. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i CNC gymryd unrhyw gamau sy'n rhesymol ymarferol yn ei farn er mwyn rhoi datganiad ardal ar waith. Rhaid iddo hefyd geisio hyrwyddo'r gwaith o roi datganiadau ardal ar waith gan bersonau eraill. Mae dyletswydd ar bersonau a restrir fel 'corff cyhoeddus' yn adran 11 o'r Bil hwn i ddarparu unrhyw gymorth i CNC sydd ei angen arno wrth arfer swyddogaethau o dan yr adran hon (gweler adran 14). Mae'r personau hynny hefyd yn ddarostyngedig i bŵer cyfarwyddyd Gweinidogion Cymru o dan adran 12, a rhaid iddynt roi sylw i'r canllawiau a ddyroddir iddynt yn unol ag adran 13.

Adran 11 – Ystyr corff cyhoeddus yn adrannau 12 i 15

69. Mae adran 11 yn rhestru personau penodol sy'n 'gorff cyhoeddus' at ddibenion adrannau 12 i 15 o'r Bil.

70. Mae is-adran (2) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio ystyr corff cyhoeddus yn adran 11 drwy ychwanegu person at y rhestr neu ddileu person oddi arni, neu drwy ddiwygio'r disgrifiad o berson o'r fath. Dim ond cyrff sydd â swyddogaethau cyhoeddus y caniateir eu hychwanegu at y rhestr (isadran (3)). Os yw'r corff yn arfer swyddogaethau cyhoeddus yn ogystal â swyddogaethau eraill, dim ond eu swyddogaethau cyhoeddus all fod yn ddarostyngedig i adrannau 12 i 14 o'r Bil (isadran (4)). Dim ond os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn cydsynio i hynny y gellir ychwanegu un neu ragor o Weinidogion y Goron at isadran (1).

71. Cyn arfer y pŵer hwn, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag CNC, y person yr effeithir arno ac unrhyw berson arall sy'n briodol yn eu barn hwy (is-adran (5)).

Adran 12 – Cyfarwyddydau Gweinidogion Cymru i weithredu datganiadau ardal

72. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo corff cyhoeddus (fel y'i rhestrir yn adran 11 o'r Bil), i gymryd camau i ymdrin â'r materion a bennir mewn datganiad ardal o dan adran 10(3). Rhaid i Weinidogion Cymru ystyried ei bod yn rhesymol ymarferol i'r corff gymryd camau o'r fath. Dim ond rhywbeth sydd o fewn cwmpas ei swyddogaethau (is-adran (4)) y gall cyfarwyddyd ei gwneud yn ofynnol i gorff cyhoeddus ei wneud.

73. Er enghraifft, pan fo CNC (yn unol ag adran 14) yn gofyn i gorff cymryd camau penodedig i'w gynorthwyo i weithredu datganiad ardal, ac yna bod y corff yn methu â darparu'r cymorth hwnnw, caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi cyfarwyddyd i'r corff. Gallai'r cyfarwyddyd hwn ei gwneud yn ofynnol i'r corff ddarparu'r cymorth hwn, ond dim ond os yw Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn rhesymol ymarferol i'r corff wneud hynny.

74. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r corff cyhoeddus yr effeithir arno cyn dyroddi cyfarwyddyd o dan yr adran hon. Rhaid i gyfarwyddyd a wneir o dan yr adran hon fod ar gael i'r cyhoedd a gall unrhyw gyfarwyddyd dilynol ei amrywio neu ei ddirymu (is-adran (5)).

75. Rhaid i gorff cyhoeddus gydymffurfio â chyfarwyddyd sydd wedi ei ddyroddi o dan yr adran hon (is-adran (3)). Gall Gweinidogion Cymru orfodi cyfarwyddyd o dan yr adran hon drwy wneud cais i'r Uchel Lys am orchymyn gorfodi. Mae methu â chydymffurfio â gorchymyn gorfodi yn achos posibl o ddirmyg llys.

Adran 13 – Canllawiau ynghylch gweithredu datganiadau ardal

76. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus (gweler adran 11) i roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ar y camau y dylid eu cymryd i ymdrin â'r materion sydd wedi eu pennu mewn datganiad ardal a gynhyrchwyd gan CNC (o dan adran 10) ar flaenoriaethau, peryglon a chyfleoedd penodol ar gyfer rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol y mae angen ymdrin â hwy yn yr ardal honno.

77. Rhaid i gyrff cyhoeddus roi sylw i'r canllawiau hyn o ran sut y maent yn arfer eu swyddogaethau mewn modd a all, o ganlyniad, gyfrannu at weithredu datganiad ardal.

Adran 14 – Dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ddarparu gwybodaeth neu gymorth arall i CNC

78. Mae'r adran hon yn gosod gofyniad ar gyrff cyhoeddus (gweler adran 11) i ddarparu gwybodaeth neu gymorth arall i CNC at ddiben paratoi a chyhoeddi adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol (gweler adran 8) a datganiad ardal (gweler adran 10), pan fo CNC wedi gofyn am wybodaeth neu gymorth o'r fath.

79. Nid yw'r ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth i CNC o dan yr adran hon yn gymwys os yw'r gyfraith yn gwahardd y corff cyhoeddus rhag gwneud hynny, er enghraifft, os yw gofynion diogelu data neu ddiogelwch cenedlaethol yn berthnasol, neu pe byddai darparu gwybodaeth yn mynd yn groes i hawl sydd wedi'i hamddiffyn o dan gyfraith hawliau dynol.

80. Nid yw'r ddyletswydd i gynorthwyo CNC o dan yr adran hon yn gymwys os yw darparu'r cymorth yn anghydnaws â dyletswyddau'r corff neu pe byddai'n cael effeithiau andwyol o ran arfer swyddogaethau'r corff (is-adran (2)). Er enghraifft, ni allai CNC ei gwneud yn ofynnol i gorff cyhoeddus arall, sydd â statws elusennol hefyd, weithredu mewn modd a fyddai'n groes i'w statws elusennol.

81. Mae is-adran (3) yn darparu bod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (a sefydlir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015) hefyd yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth a/neu gymorth o dan is-adrannau (1) a (2), ond dim ond ar gyfer paratoi a chyhoeddi'r adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol (gweler adran 8). Nid yw'r ddyletswydd yn gymwys os yw'r gyfraith yn gwahardd y Comisiynydd rhag darparu'r wybodaeth y gofynnir amdani, neu os yw'r Comisiynydd o'r farn fod darparu'r cymorth yn anghydnaws â'i ddyletswyddau neu y byddai'n arwain at effeithiau andwyol o ran arfer ei swyddogaethau.

Adran 15 – Dyletswydd ar CNC i ddarparu cyngor neu gymorth arall i gyrff cyhoeddus

82. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i CNC, o gael cais gan gorff cyhoeddus (gweler adran 11), ddarparu gwybodaeth neu gymorth arall i'r corff hwnnw at ddibenion gweithredu datganiad ardal.

83. Ni ddylai CNC ddarparu unrhyw wybodaeth y mae'r gyfraith yn ei wahardd rhag ei darparu, fodd bynnag.

84. Nid yw'n ofynnol ychwaith i CNC ddarparu unrhyw gymorth arall y bydd corff cyhoeddus yn gofyn amdano os yw o'r farn y byddai gwneud hynny yn anghydnaws â dyletswyddau CNC ei hun, neu y byddai'n cael effaith ar arfer ei swyddogaethau mewn ffordd arall (is-adran (2)). Er enghraifft, byddai hyn yn berthnasol pe byddai darparu cyngor yn anghydnaws â swyddogaeth reoleiddio CNC.

Adran 16 – Pŵer i ymrwymo i gytundebau rheoli tir

85. Mae adran 16 yn galluogi CNC i ymrwymo i gytundebau gyda pherchnogion neu feddianwyr tir ynglŷn â'r ffordd y maent yn rheoli eu tir. Mae'n disodli pwerau amrywiol CNC i ymrwymo i gytundebau rheoli tir a geir yn adran 39 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (Deddf 1981), adrannau 15 a 45 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968 (Deddf 1968) ac adran 16 o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 (Deddf 1949).

86. Dim ond at ddibenion cadwraeth natur, darparu mynediad i gefn gwlad neu wella harddwch naturiol cefn gwlad y gellir arfer y pwerau hyn, fodd bynnag. Yn y gorffennol, defnyddiwyd cytundebau rheoli tir a wnaed o dan y darpariaethau hyn i gefnogi'r gwaith o warchod ac amddiffyn safleoedd dynodedig fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) (adran 39 o Ddeddf 1981) neu er mwyn sicrhau bod tir yn cael ei reoli fel gwarchodfa natur (adran 16 o Ddeddf 1949).

87. Nid yw pŵer CNC i ymrwymo i gytundebau rheoli tir o dan reoliad 16 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 wedi'i ddiddymu ac nid yw darpariaethau'r Bil hwn yn effeithio arno.

88. Mae adran 16 o'r Bil hwn yn ymestyn cwmpas cymhwyso cytundebau rheoli tir fel y gellir eu defnyddio at unrhyw ddiben o fewn cylch gwaith CNC, gan gynnwys unrhyw un neu ragor o'r dibenion y gellid defnyddio cytundebau rheoli tir a wnaed o dan y darpariaethau a ddiddymwyd.

89. Mae hyn yn cynnwys cytundebau sy'n hyrwyddo dyletswydd gyffredinol CNC i geisio cyflawni rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol fel sy'n cael ei ddarparu o dan adran 5 o'r Bil hwn. Mae effaith adran 5 ar adran 16 yn golygu y bydd angen i CNC hefyd gymhwyso egwyddorion cyflawni rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol fel a bennir yn adran 4 o'r Bil hwn.

90. Caiff CNC, o dan adran 16, ymrwymo i gytundebau rheoli tir gydag unrhyw berson sydd â buddiant yn y tir.

91. Diffinnir person sydd â buddiant yn y tir yn is-adran (3) ac mae'n golygu'r sawl sydd ag ystad rydd-ddaliadol neu lesddaliadol mewn tir, pridiant rhent a'r sawl sydd â hawliau megis helwriaeth.

92. Nid yw adran 16 yn gosod gofyniad ar berson i ymrwymo i gytundeb gyda CNC, a threfniant gwirfoddol ydyw. Contract yw cytundeb rheoli tir o dan adran 16 a all osod rhwymedigaethau cadarnhaol neu negyddol ar y partïon. Mae cyfraith gontractau yn gymwys ac mae modd gorfodi cytundebau o dan gyfraith sifil.

93. Er enghraifft, gall telerau cytundeb rheoli tir olygu ei bod yn ofynnol i berchennog tir reoli ei dir mewn ffordd arbennig, ac y caiff dderbyn taliadau neu fuddiannau eraill am wneud hynny.

94. Mae adran 16(2) yn darparu rhestr, nad yw'n gyflawn, o'r math o delerau ac amodau y gellir eu cynnwys mewn cytundeb. Ceir rhai enghreifftiau isod o'r ffordd y gellir defnyddio tir a'r cyfyngiadau ar weithgareddau y gellir ymgymryd â hwy:

- Ar dir fferm, gall fod yn ofynnol i berchennog / feddiannwr y tir beidio â thrin rhan arbennig o'r tir, o dan delerau cytundeb, neu gellir gofyn iddo beidio â thorri coed penodol.
- Efallai mai un o delerau cytundeb yw bod rhaid i berchennog / feddiannwr y tir reoli llif y dŵr drwy ei dir at ddibenion rheoli'r perygl o lifogydd. Er enghraifft, gall fod yn ofynnol i berchennog / feddiannwr y tir gadw mawnogydd neu goedwigoedd penodol, o dan y cytundeb, gan gyfyngu ar y defnydd o'r tir heblaw at ddiben atal llifogydd. Dyma enghraifft o fesurau eraill y gellir eu cymryd i reoli'r perygl o lifogydd drwy reoli tir mewn ffordd sy'n cadw dŵr yn ôl ac yn arafu ei lif er mwyn atal llifogydd i lawr yr afon. Mae'n disodli'r dull traddodiadol o ddefnyddio strwythurau 'caled' sy'n cael eu hadeiladu a'u cynnal gan CNC neu gan awdurdod lleol, ac y mae angen eu harchwilio a'u cynnal a'u cadw'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn darparu amddiffyniad o safon benodol ar gyfer pobl ac eiddo, pan ddaw llifogydd.

- Caiff CNC gyflawni gweithgareddau rheoli (h.y. torri coetir) ar y tir, neu benodi rhywun arall i wneud hynny.
- Caiff CNC hefyd ddefnyddio cytundebau rheoli i reoli tir sydd o fewn SoDdGA. Caiff telerau cytundeb adlewyrchu buddiannau unrhyw gynllun rheoli sy'n berthnasol i SoDdGA y gellir ei wneud o dan adran 28J o Ddeddf 1981. Mae cynllun rheoli yn amlinellu mesurau sydd i'w cymryd er mwyn gwarchod ac adfer SoDdGA.

95. Mae angen darllen adran 16 ar y cyd â'r diwygiadau canlyniadol a wneir i Ddeddf 1949, i Ddeddf 1968 ac i Ddeddf 1981 gan Atodlen 2, Rhan 1 o'r Bil hwn, sy'n diddymu'r adrannau hynny o ran CNC. Mae darpariaethau trosiannol yn sicrhau bod unrhyw gytundebau presennol a wnaed gan CNC i'w trin fel cytundebau o dan y Bil hwn.

Adran 17 – Effaith cytundebau rheoli tir penodol ar olynwyr yn y teitl

96. Mae adran 17 yn nodi o dan ba amgylchiadau y caiff telerau cytundeb adran 16 rwymo perchnogion neu denantiaid dilynol y tir. Dim ond i bersonau sy'n dod yn berchnogion y tir y mae'r adran hon yn gymwys. Mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer amgylchiadau pan fo'r teitl yn y tir naill ai wedi'i gofrestru, neu heb ei gofrestru. Mae'r rhan fwyaf o deitlau yn y tir yng Nghymru a Lloegr wedi'u cofrestru gyda Chofrestrfa Tir EM ond mae peth tir sy'n dal heb ei gofrestru. Yn yr achos hwnnw, mae adran 17(1) yn gymwys.

97. Mae adran 17(1) yn gymwys i dir nad yw wedi'i gofrestru; gellir cofrestru'r buddiant sy'n cael ei greu o dan gytundeb rheoli fel pridiant tir Dosbarth D(ii) yn unol â Deddf Pridiannau Tir 1972 (p.61). Effaith cofrestru'r pridiant tir yw bod telerau cytundeb rheoli tir yn rhwymo unrhyw berson sydd wedi caffael y tir oddi wrth berson sydd â buddiant cymwys. Y person sy'n caffael y tir yw'r "olynydd" fel y'i diffinnir yn is-adran (3), a chaiff "buddiant cymwys" ei ddiffinio yn is-adran (3).

98. Unrhyw berson sy'n prynu'r buddiant rhydd-ddaliadol neu lesddaliadol mewn tir (am dymor o fwy na 7 mlynedd) fydd olynydd fel arfer. Ni fydd telerau cytundeb yn rhwymo'r prynwr os nad yw'r buddiant wedi'i gofrestru fel pridiant tir Dosbarth D(ii).

99. Mae adran 17(2) yn gymwys i dir cofrestredig ac mae'n rhaid i'r buddiant sy'n cael ei greu o dan gytundeb rheoli tir adran 16 gael ei gofrestru drwy hysbysiad ar y teitl cofrestredig yn unol â'r Ddeddf Cofrestru Tir (p.9). Os nad yw'r buddiant wedi'i gofrestru fel hysbysiad ni fydd telerau'r cytundeb yn rhwymo'r olynydd yn y teitl.

100. Ar hyn o bryd, mae cytundeb a wneir o dan adran 39 o Ddeddf 1981 yn rhwymo perchnogion neu feddianwyr olynol / y dyfodol boed y tir wedi'i gofrestru ai peidio.

101. Ar yr amod fod CNC naill ai'n cofrestru'r buddiant o dan gytundeb naill ai fel hysbysiad o deitl ar y gofrestr yn achos tir cofrestredig, neu fel pridiant tir Dosbarth D(ii) yn achos tir heb ei gofrestru, caiff orfodi telerau cytundeb rheoli tir yn erbyn unrhyw berson sy'n caffael buddiant cymwys yn y tir.

102. Mae angen darllen adran 17 ar y cyd â'r diwygiadau canlyniadol y mae Rhan 1 o Atodlen 2 yn eu gwneud.

Adran 18 – Cymhwyso Atodlen 2 o Ddeddf Coedwigaeth 1967 i gytundebau rheoli tir

103. Mae'r adran hon yn galluogi CNC i ymrwymo i gytundebau rheoli tir adran 16 gyda phersonau nad ydynt, o bosibl, yn dod o fewn y diffiniad o berson sydd â buddiant mewn tir (gweler adran 16(3)). Tenantiaid am oes yw'r rhain, a phersonau a bennir yn Atodlen 2 sydd â phŵer o dan adran 5 o Ddeddf Coedwigaeth 1967, ac Atodlen 2 iddi, i ymrwymo i gyfamod neilltuo coedwigaeth.

104. Cytundeb sy'n nodi na chaniateir defnyddio tir ac eithrio ar gyfer tyfu coed a chynhyrchion coedwigaeth eraill yw cyfamod neilltuo coedwigaeth.

Adran 19 – Effaith cytundebau ar neilltuo priffordd a rhoi hawddfraint

105. Pan fo'r cyhoedd neu berson penodol wedi defnyddio hawl tramwy ar draws y tir tra bo'n ddarostyngedig i gytundeb rheoli, effaith yr adran hon yw nad yw'r defnydd o'r tir yn berthnasol wrth benderfynu o dan y gyfraith a yw'r tir i'w drin fel tir sydd wedi ei neilltuo fel priffordd neu a yw hawddfraint i'w drin fel pe bai wedi ei roi.

Adran 20 – Darpariaethau trosiannol

106. Mae'r adran yn darparu y caiff unrhyw gytundebau rheoli tir a wnaed o dan Ddeddf 1981, Deddf 1968 a Deddf 1949 cyn i'r Bil hwn ddod i rym eu hystyried fel cytundebau rheoli tir o dan adran 16 o'r Bil hwn, a bydd adrannau 17 i 21 yn gymwys iddynt.

Adran 21 – Tir y Goron

107. Mae'r adran hon yn dweud pwy gaiff ymrwymo i gytundebau adran 16 ar ran y Goron.

108. Caiff CNC ymrwymo i gytundeb adran 16 mewn perthynas â thir y Goron ond yn ôl is-adran (2) mae'n ofynnol i'r awdurdod priodol gymeradwyo'r cytundeb. Pennir yr awdurdod priodol ar sail pwy yw perchennog tir y Goron a chaiff ei ddiffinio yn is-adran (4). Diffinnir "tir y Goron" yn is-adran (3).

109. Mae is-adran (5) yn darparu bod unrhyw gwestiwn ynghylch pwy yw'r awdurdod priodol yn cael ei gyfeirio at y Trysorlys.

Adran 22 – Pŵer i atal dros dro ofynion statudol ar gyfer cynlluniau arbrofol

110. Mae adran 22 yn galluogi Gweinidogion Cymru, o gael cais gan CNC, i wneud rheoliadau sy'n gallu atal dros dro ddarpariaeth statudol benodol y mae CNC yn gyfrifol amdani, am gyfnod nad yw'n fwy na thair blynedd (ac y caniateir ei ymestyn am gyfnod pellach nad yw'n fwy na thair blynedd). Gweler adran 22(4) a (5).

111. Caiff rheoliadau o dan adran 22(1) roi eithriad rhag gofyniad, llacio gofyniad a/neu addasu deddfiad mewn modd sy'n angenrheidiol y marn Gweinidogion Cymru o ganlyniad i'r eithriad neu lacio'r gofyniad.

112. Dim ond mewn perthynas â gofynion statudol y mae CNC yn gyfrifol amdanynt y caniateir gwneud rheoliadau. Diffinnir y gofynion hyn yn adran 22(8). Rhaid i'r gofyniad gael ei osod drwy ddeddfiad. CNC sy'n gyfrifol am y gofyniad statudol os yw'n ofyniad:
- i gydymffurfio â safon neu ofyniad a osodir gan CNC;
- i gael trwydded neu awdurdodiad arall gan CNC cyn gwneud rhywbeth;
- y caiff CNC ei orfodi; neu
- sy'n gymwys i CNC ac sy'n ymwneud â'r modd y mae adnoddau naturiol yn cael eu rheoli a'u defnyddio, (neu at ba ddibenion y gwneir hynny).

113. Mae adran 22(2) yn darparu na chaiff y rheoliadau dynnu ymaith neu addasu swyddogaeth un o Weinidogion y Goron a oedd yn arferadwy cyn 5 Mai 2011, heb gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol.

114. Mae adran 22(3) yn darparu hefyd na chaniateir gwneud y rheoliadau onid yw Gweinidogion Cymru:
- wedi ymgynghori â'r personau hynny y maent yn barnu bod y cynllun arbrofol yn debygol o effeithio arnynt a'r rhai y credant eu bod yn debygol o gael eu heffeithio gan y darpariaethau yn y rheoliadau; a
- wedi eu bodloni bod y ddarpariaeth yn angenrheidiol er mwyn galluogi cynnal cynllun arbrofol sy'n debygol o gyfrannu at reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol (rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol fel y'i diffinnir yn adran 3).

115. Mae'r rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol (gweler adran 25(3)) oni bai mai'r unig effaith sylweddol yw dirymu rheoliadau blaenorol o dan adran 22(1) – mewn achosion felly nid oes unrhyw weithdrefn yn y Cynulliad yn gymwys. Nid oes unrhyw ofyniad ychwaith i gynnal ymgynghoriad. Gellir defnyddio'r pŵer hwn os yw cynllun arbrofol wedi dod i ben cyn y cyfnod tair blynedd cychwynnol neu cyn diwedd cyfnod unrhyw estyniad, sy'n golygu nad oes angen y rheoliad mwyach.

116. Dim ond mewn perthynas â gweithgareddau y mae CNC yn eu cyflawni yng Nghymru y mae'r rheoliadau yn gymwys.

117. Gallai cais oddi wrth CNC i reoliadau gael eu gwneud fod ar y sail, er enghraifft, y byddai angen, ar gyfer cynllun arbrofol arfaethedig penodol, cael eithriad rhag yr angen i gael cydsyniad penodol er mwyn gallu cyflawni gweithgaredd penodol. Efallai mai diben atal hynny dros dro fyddai treialu safonau cyffredin gofynnol, y gellid eu cymhwyso yn lle'r cydsyniad mewn amgylchiadau penodol neu ar gyfer gweithgareddau penodol.

118. Mae adran 22(9) yn diffinio cynllun arbrofol fel cynllun a gynhelir o dan drefniadau a wneir gan CNC o dan erthygl 10C o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 ("y Gorchymyn Sefydlu"), sy'n gynllun sydd wedi ei ddylunio i ddatblygu dulliau, cysyniadau neu dechnegau newydd, neu hyd yn oed rai addasedig.

Adran 23 – Pŵer CNC i gynnal cynlluniau arbrofol etc

119. Mae'r adran hon yn rhoi darpariaeth newydd yn lle erthygl 10C o'r Gorchymyn Sefydlu.

120. Effaith yr erthygl 10C newydd (y mae adran 23 yn ei rhoi yn lle erthygl 10C), yw ymestyn swyddogaethau ymchwil cyffredinol CNC i gynnwys gwneud trefniadau ar gyfer cynnal cynlluniau arbrofol.

121. Mae'r erthygl 10C(1) newydd yn rhoi pŵer i CNC (y cyfeirir ato fel "y Corff" yn y Gorchymyn Sefydlu) wneud trefniadau ar gyfer cyflawni ymchwil a chynlluniau arbrofol sy'n berthnasol i arfer ei swyddogaethau. Caiff CNC neu bersonau eraill gyflawni ymchwil neu gynlluniau.

122. Mae erthygl 10C(3) yn darparu bod rhaid i CNC, pan fydd yn cyflawni swyddogaethau i fonitro cadwraeth natur a gweithgareddau cysylltiedig fel cynlluniau arbrofol, roi sylw i'r safonau cyffredin ar gyfer monitro cadwraeth natur, ymchwil i gadwraeth natur a gwaith dadansoddi'r wybodaeth sy'n deillio o hynny y gallai'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (fel y darperir o dan adran 34(2) o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006) fod wedi'i sefydlu.

123. Diben yr erthygl 10C newydd yw galluogi CNC i gynnal, cefnogi neu gomisiynu gwaith ymchwil yn ogystal â chynlluniau arbrofol neu arloesol, os yw'r cynlluniau hyn yn ffordd o dreialu dulliau newydd o gyflawni ei bwerau a'i rwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth mewn ffordd a all ei helpu i gyflawni ei ddiben cyffredinol o reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol.

124. Ar hyn o bryd mae gan CNC bwerau o dan adran 4 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968 ("Deddf 1968") i wneud a chynnal cynlluniau arbrofol a gynlluniwyd i hwyluso mwynhau cefn gwlad, neu i warchod neu wella ei harddwch neu ei amwynder naturiol. Mae'r pŵer hwn wedi'i gyfyngu, felly, i agwedd benodol ar gylch gwaith CNC. Mae'r erthygl 10C newydd yn ymestyn cwmpas pŵer CNC i gynnal cynlluniau arbrofol. Caiff adran 4 o Ddeddf 1968 ei diddymu mewn perthynas â CNC (gweler paragraff 2(2) o Atodlen 2 i'r Bil).

125. At ddibenion erthygl 10C, cynllun sydd wedi ei ddylunio i ddatblygu neu i gymhwyso dulliau, cysyniadau neu dechnegau newydd neu addasedig yw cynllun arbrofol.

126. Caiff CNC dreialu datblygu neu gymhwyso dulliau, cysyniadau neu dechnegau newydd er mwyn gweithredu mewn modd sy'n helpu i gyflawni'r amcan o reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol. Gallai hyn gynnwys dulliau gweinyddol, technegol neu wyddonol o gyflawni'r amcan hwn.

127. Enghraifft o hyn fyddai pan fo CNC yn ceisio datblygu codau ymarfer statudol a all nodi safonau gofynnol ar gyfer gweithgareddau penodol, heb fod angen caniatâd na thrwydded, ac sy'n gallu sicrhau perfformiad o'r un safon, neu well. Efallai y bydd CNC yn awyddus i gynnal treial mewn maes penodol y mae datganiad ardal yn ei gwmpasu (fel y darperir yn adran 10 o'r Bil hwn) er mwyn nodi swyddogaeth adnoddau naturiol o ran helpu i leihau llifogydd (yn sgil swyddogaeth mawnogydd, er enghraifft).

128. Nid yw'r pŵer i gefnogi cynlluniau arbrofol wedi'i gyfyngu i gymorth ariannol ac felly gallai gynnwys darparu offer ac arbenigedd. Os yw CNC yn darparu

cymorth ariannol, gall fod ar ffurf grant neu fenthyciad neu gyfuniad o'r ddau, a gall fod yn gysylltiedig ag amodau sy'n golygu bod angen ad-dalu'r grant i gyd neu ran ohono (erthyglau 10B(2) a (3)).

Adran 24 – Pŵer i ddiwygio cyfnodau ar gyfer paratoi a chyhoeddi dogfennau

129. Mae adrannau 7 (2) a (3) ac adran 8 (6) yn nodi'r amserlenni ar gyfer cyhoeddi'r adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol a'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol. Mae'r adran hon yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, newid yr amserlenni hynny. Mae is-adran (3) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag CNC cyn gwneud y rheoliadau.

Adran 25 – Rheoliadau o dan y Rhan hon

130. Mae'r adran hon yn pennu'r weithdrefn sydd i'w dilyn yn y Cynulliad wrth wneud rheoliadau o dan Ran 1 o'r Bil. Pan fo'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth ynghylch amseru'r adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol a'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol o dan adran 23, mae is-adran (5) yn darparu eu bod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Mae'r holl reoliadau eraill yn Rhan 1 sy'n gwneud newidiadau i'r rhestr o gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i ddyletswyddau mewn perthynas â datganiadau ardal (gweler adran 11(2)) a phŵer i atal dros dro ofynion deddfwriaethol penodol ar gyfer cynlluniau arbrofol (gweler adran 22(1)) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Fodd bynnag, nid yw rheoliadau a wneir o dan adran 22(1) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol os mai'r pwrpas yw dirymu rheoliadau presennol a wneir o dan yr adran honno. Yn hytrach, rhaid eu gosod gerbron y Cynulliad yn unig (is-adran (4)).

131. Mae is-adran (2) yn rhoi'r hyblygrwydd i'r rheoliadau yn Rhan 1 gael eu cymhwyso o dan wahanol amgylchiadau a gwneud darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed.

Adran 27 – Mân ddiwygiadau, diwygiadau canlyniadol a diddymiadau

132. Mae'r adran hon yn cyflwyno Rhan 1 o Atodlen 2 i'r Bil, sy'n nodi'r mân ddiwygiadau, y diwygiadau canlyniadol a'r diddymiadau mewn perthynas â deddfwriaeth arall sy'n angenrheidiol o ganlyniad i effaith darpariaethau yn Rhan 1 o'r Bil.

Rhan 2 – Newid yn yr hinsawdd

133. Bydd Rhan 2 o'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod 'cyfrif allyriadau net Cymru' ar gyfer y flwyddyn 2050 o leiaf 80% yn is na'r waelodlin. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfrif allyriadau net Cymru.

134. Rhaid i Weinidogion Cymru bennu mewn rheoliadau un targed allyriadau interim neu ragor cyn 2050. Rhaid i'r targedau interim hyn fod yn gyson â tharged 2050. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru bennu mewn rheoliadau gyfres o gyllidebau carbon ar gyfer cyfnodau o bum mlynedd rhwng 2016 a 2050 a sicrhau nad yw cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer pob un o'r cyfnodau hynny yn fwy na'r gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod hwnnw. Rhaid i'r cyllidebau carbon hyn fod yn gyson â'r targedau interim a'r targed ar gyfer 2050.

135. Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynhyrchu adroddiad sy'n manylu ar y polisïau a'r cynigion a fydd yn cyflawni'r gostyngiadau y mae'r cyllidebau carbon yn gofyn amdanynt yng Nghymru drwy gyfeirio at feysydd cyfrifoldeb holl Weinidogion Cymru. Wrth osod neu ddiwygio targedau interim neu gyllidebau carbon, rhaid i Weinidogion Cymru gael cyngor gan y 'corff cynghori', a allai fod y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd (a sefydlwyd yn Neddf Newid yn yr Hinsawdd 2008) neu'n berson a ddynodir gan Weinidogion Cymru mewn is-ddeddfwriaeth.

Adran 28 – Diben y Rhan hon

136. Mae'r adran hon yn nodi mai diben y Rhan hon yw ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyrraedd targedau ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o Gymru.

Adran 29 – Targed allyriadau 2050

137. Mae is-adran (1) o'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer 2050 o leiaf 80% yn is na'r waelodlin. Diffinnir y waelodlin yn adran 38 fel swm cyfanredol allyriadau net Cymru o nwyon tŷ gwydr penodol a restrir ar gyfer blynyddoedd gwaelodlin y nwyon hynny. Pennir y targed ar gyfer 2050 drwy gyfeirio at flynyddoedd gwaelodlin yn hytrach na swm penodol o allyriadau gan y gallai'r blynyddoedd gwaelodlin gael eu hadolygu wrth i'r ddealltwriaeth o allyriadau hanesyddol wella. Mae defnyddio gwaelodlin ar gyfer y cyfrifiad hwn yn gyson â'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer Protocol Kyoto, sef cytundeb rhyngwladol i gyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr, y mae'r DU yn barti iddo.

138. Diffinnir y term "cyfrif allyriadau net Cymru" yn adran 34; gweler y nodiadau esboniadol ar adrannau 33 a 38 i gael eglurhad manylach o gyllidebu carbon a chyfrif allyriadau net Cymru.

Adran 30 – Targedau allyriadau interim

139. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod targedau interim, o ran uchafswm cyfrif allyriadau net Cymru, ar gyfer pob blwyddyn darged interim. Mae hefyd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau nad eir uwchlaw'r targedau hynny. Mynegir y targedau interim hyn fel gostyngiad canrannol a byddant yn gweithio yn yr un ffordd â tharged 2050.

Adran 31 – Cyllidebau carbon

140. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod, ar gyfer pob cyfnod cyllidebol o 5 mlynedd, gyfanswm uchaf ar gyfer cyfrif allyriadau net Cymru, a elwir yn gyllideb garbon. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau nad yw cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer pob cyfnod yn uwch na'r gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod hwnnw. Pennir y cyfnod cyllidebol cyntaf, sef 2016 i 2020, a phob cyfnod dilynol o bum mlynedd, gan ddod i ben â 2046-2050.

141. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod 2 gyllideb garbon olynol ar gyfer y cyfnodau 2016-2020 a 2021-2025 cyn diwedd 2018. Mae hefyd yn creu dyletswydd i osod cyllidebau carbon dilynol o leiaf 5 mlynedd cyn y cyfnod cyllidebol nesaf.

Adran 32 – Targedau allyriadau interim a chyllidebau carbon: egwyddorion

142. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod targedau allyriadau interim ar lefel sy'n gyson â chyrraedd targed allyriadau 2050. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod cyllidebau carbon ar lefel sy'n gyson â chyrraedd unrhyw darged interim a osodwyd a tharged 2050.

143. O dan is-adran (3), ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n newid targed interim neu gyllideb garbon oni bai bod o leiaf un o'r ffactorau a ganlyn yn gymwys:
- Mae'n briodol gwneud hynny o ganlyniad i ddatblygiad sylweddol naill ai mewn gwybodaeth wyddonol neu yng nghyfreithiau neu bolisïau'r UE neu gyfreithiau neu bolisïau rhyngwladol sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd;
- Mae'r corff cynghori wedi gwneud argymhelliad; neu
- Mae rheoliadau wedi eu cyflwyno o dan adran 8(1) a (2) sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer cyfrif allyriadau o nwy tŷ gwydr o hedfan rhyngwladol neu forgludiant rhyngwladol fel rhan o allyriadau Cymru o'r nwy.

144. Mae is-adran (4) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw i gyfres o feini prawf wrth osod neu newid blwyddyn darged interim, targed allyriadau interim, neu gyllideb garbon. Dyma'r meini prawf:
- Yr adroddiad diweddaraf ar gyflwr adnoddau naturiol a gyhoeddwyd gan CNC o dan adran 8 o Ran 1 o'r Bil hwn;
- Yr adroddiad tueddiadau tebygol y dyfodol diweddaraf o dan adran 11 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- Adroddiad diweddaraf Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol o dan adran 23 o'r Bil hwnnw (os oes un ar gael ar adeg gosod neu newid unrhyw dargedau neu gyllideb);
- Gwybodaeth wyddonol am newid yn yr hinsawdd neu dechnoleg sy'n berthnasol iddo; a
- Cyfreithiau a pholisïau'r UE a chyfreithiau a pholisïau rhyngwladol sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd.

145. Mae adrannau 49 a 50 yn gwneud darpariaeth ynghylch y cyngor y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei gael gan y corff cynghori, ac y mae'n rhaid iddynt ei ystyried cyn gwneud unrhyw reoliadau sy'n gosod neu'n newid blynyddoedd targed interim, targedau allyriadau interim neu gyllidebau carbon.

Adran 33 – Cyfrif allyriadau net Cymru

146. Mae isadran (1) yn diffinio cyfrif allyriadau net Cymru fel swm cyfanredol allyriadau net Cymru ar ôl tynnu unrhyw unedau carbon a gredydir i'r cyfrif am y cyfnod ac ychwanegu unrhyw unedau carbon a ddidynnir o'r cyfrif am y cyfnod.

147. Mae is-adran (2) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiffinio mewn rheoliadau pa unedau carbon y caniateir eu credydu i gyfrif allyriadau net Cymru a'u didynnu ohono, a sut y gellir gwneud hynny. Mae is-adran (3) yn darparu bod rhaid i reoliadau gyfyngu ar y graddau y caniateir credydu unedau carbon sy'n cael eu masnachu'n rhyngwladol i gyfrif allyriadau net Cymru.

148. Mae'r adran hon yn diffinio allyriadau Cymru ac echdyniadau Cymru o nwyon tŷ gwydr, ac yn darparu mai allyriadau net Cymru ar gyfer cyfnod yw allyriadau Cymru minws echdyniadau Cymru.

149. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n darparu bod allyriadau o nwyon tŷ gwydr o hedfan rhyngwladol neu forgludiant rhyngwladol yn cyfrif fel allyriadau Cymru o'r nwy.

150. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiffinio "unedau carbon" mewn rheoliadau. Mae'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, sefydlu cynllun neu ddefnyddio cynllun cyfredol ar gyfer cofrestru a chadw cyfrif o unedau carbon ac ar gyfer sefydlu a chynnal cyfrifon y caniateir cadw unedau carbon ynddynt.

151. Mae'r rheoliadau'n darparu y caniateir i gynllun cyfredol gael ei addasu. Caiff y rheoliadau hefyd wneud darpariaeth i benodi gweinyddwr ar gyfer y cynllun; i roi swyddogaethau i'r gweinyddwr neu osod swyddogaethau arno; i roi'r pŵer i Weinidogion Cymru roi canllawiau neu gyfarwyddydau i'r gweinyddwr; i roi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddirprwyo'r gwaith o gyflawni unrhyw un neu ragor o'r swyddogaethau a roddir neu a osodir drwy'r rheoliadau; ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheini sy'n defnyddio'r cynllun gyfrannu at y gost o'i weithredu.

Adran 34 – Allyriadau net Cymru

152. Mae'r adran hon yn diffinio allyriadau Cymru ac echdyniadau Cymru o nwyon tŷ gwydr, ac yn darparu mai allyriadau net Cymru ar gyfer cyfnod yw allyriadau Cymru minws echdyniadau Cymru.

Adran 35 – Allyriadau Cymru o hedfan a morgludiant rhyngwladol

153. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n darparu bod allyriadau o nwyon tŷ gwydr o hedfan rhyngwladol neu forgludiant rhyngwladol yn cyfrif fel allyriadau Cymru o'r nwy.

Adran 36 – Unedau carbon

154. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiffinio "unedau carbon" mewn rheoliadau. Mae'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, sefydlu cynllun neu ddefnyddio cynllun cyfredol ar gyfer cofrestru a chadw cyfrif o unedau carbon ac ar gyfer sefydlu a chynnal cyfrifon y caniateir cadw unedau carbon ynddynt.

155. Mae'r rheoliadau'n darparu y caniateir i gynllun cyfredol gael ei addasu. Caiff y rheoliadau hefyd wneud darpariaeth i benodi gweinyddwr ar gyfer y cynllun; i roi swyddogaethau i'r gweinyddwr neu osod swyddogaethau arno; i roi'r pŵer i Weinidogion Cymru roi canllawiau neu gyfarwyddydau i'r gweinyddwr; i roi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddirprwyo'r gwaith o gyflawni unrhyw un neu ragor o'r swyddogaethau a roddir neu a osodir drwy'r rheoliadau; ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheini sy'n defnyddio'r cynllun gyfrannu at y gost o'i weithredu.

Adran 37 – Nwyon tŷ gwydr

156. Mae'r adran hon yn rhestru "nwy tŷ gwydr" at ddiben Rhan 2 o'r Bil ac yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau er mwyn ychwanegu nwy neu ddiwygio disgrifiad o nwy. Dim ond os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod nwy yn cyfrannu at newid yn yr hinsawdd y caiff Gweinidogion Cymru ychwanegu'r nwy hwnnw.

Adran 38 – Y waelodlin

157. Mae'r adran hon yn diffinio'r "waelodlin" at ddibenion y Rhan hon o'r Bil ac yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau er mwyn diwygio'r waelodlin honno. Byddai hynny'n galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r flwyddyn waelodlin ar gyfer nwy tŷ gwydr sydd wedi ei ychwanegu gan reoliadau o dan is-adran 38(2) neu addasu'r flwyddyn waelodlin ar gyfer nwy tŷ gwydr sydd eisoes wedi ei restru. Ni chaiff Gweinidogion Cymru addasu'r flwyddyn waelodlin ar gyfer nwy tŷ gwydr onid ydynt wedi eu bodloni y byddai'n briodol gwneud hynny o ganlyniad i ddatblygiadau sylweddol yng nghyfreithiau neu bolisïau'r UE neu gyfreithiau neu bolisïau rhyngwladol sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd.

Adran 39 – Cynigion a pholisïau ar gyfer cyrraedd cyllidebau carbon

158. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi adroddiad sy'n amlinellu eu cynigion a'u polisïau ynghylch sut y cyrhaeddir y cyllidebau a bennwyd ganddynt. Rhaid i'r adroddiad gynnwys cynigion a pholisïau drwy gyfeirio at feysydd cyfrifoldeb pob un o Weinidogion Cymru. Rhaid cynhyrchu'r adroddiad ar y cyfnod cyllidebol cyntaf cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl gosod y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod hwnnw (fel a ddarperir yn adran 31). Ar gyfer cyfnodau cyllidebol dilynol rhaid i'r adroddiad gael ei gyhoeddi cyn diwedd blwyddyn gyntaf y cyfnod o dan sylw. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r adroddiad.

Adran 40 – Cario symiau o un cyfnod cyllidebol i un arall

159. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru "gronni" a "benthyca" allyriadau rhwng cyfnodau cyllidebol.

160. O dan is-adran (1), caiff Gweinidogion Cymru "fenthyca" hyd at 1% o'r gyllideb nesaf. Caiff swm o'r gyllideb nesaf ei "gario yn ôl" i'r gyllideb flaenorol. Pan ddefnyddir y pŵer hwn, caiff y gyllideb nesaf (a fydd eisoes wedi ei gosod drwy orchymyn) ei gostwng yn ôl y swm a fenthycwyd.

161. Mae is-adran (3) yn cyfyngu'r swm y caniateir ei fenthyca o dan is-adran (1) i ddim mwy nag 1% o'r gyllideb nesaf.

162. O dan is-adran (4) caiff Gweinidogion Cymru gario ymlaen unrhyw ran o'r gyllideb garbon sydd uwchlaw cyfrif carbon net Cymru ar gyfer y cyfnod hwnnw (hynny yw "cronni" y swm sydd dros ben, ond nid y swm cyfan o anghenraid). Ychwanegir y swm sydd wedi ei gronni at y gyllideb nesaf (is-adran (5)).

163. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r 'corff cynghori' cyn arfer pŵer o dan yr adran hon (hynny yw cyn cronni neu fenthyca).

Adran 41 – Datganiad terfynol ar gyfer cyfnod cyllidebol

164. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod datganiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y ffigurau terfynol ar gyfer cyfrif allyriadau net Cymru yn ystod cyfnod cyllidebol; defnyddir y ffigurau hyn i benderfynu a gyrhaeddwyd cyllideb garbon.

165. Mae is-adrannau (2) i (6) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddarparu gwybodaeth ynghylch:
- o dan is-adran (2), gyfanswm allyriadau Cymru, echdyniadau Cymru ac allyriadau net Cymru ar gyfer pob nwy tŷ gwydr (pob un o'r nwyon a gynhwysir yn y targed – gweler adran 36);
- o dan is-adran (3), gyfanswm yr unedau carbon a gredydwyd i gyfrif allyriadau Cymru, neu a ddidynnwyd ohono, yn y cyfnod cyllidebol hwnnw, a manylion am nifer yr unedau hynny a'r mathau o unedau;
- o dan is-adran (4), swm terfynol cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer y cyfnod cyllidebol;
- o dan is-adran (5), a yw Gweinidogion Cymru wedi penderfynu benthyca o'r gyllideb nesaf (gan ddefnyddio'r pŵer yn adran 40) ac, os ydynt, y swm a fenthycwyd;
- o dan is-adran (6), swm terfynol y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod.

166. Mae is-adran (7) yn darparu bod rhaid i'r datganiad gynnwys penderfyniad ynghylch a gyrhaeddwyd y gyllideb, drwy gyfeirio at y ffigurau yn y datganiad.

167. Mae is-adran (8) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu eglurhad ynghylch pam y maent yn ystyried bod y gyllideb garbon wedi ei chyrraedd, neu nad yw wedi ei chyrraedd.

168. Mae is-adran (9) yn ei gwneud yn ofynnol i'r datganiad gynnwys asesiad Gweinidogion Cymru ynghylch i ba raddau y mae'r cynigion a'r polisïau a nodir yn yr adroddiad o dan adran 39 wedi cyfrannu at y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod hwnnw a sut y maent wedi eu gweithredu.

Adran 42 – Cynigion a pholisïau pan nad yw cyllideb garbon wedi ei chyrraedd

169. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, yn nodi cynigion a pholisïau i wneud iawn am allyriadau, pan fo cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer cyfnod cyllidebol yn fwy na'r gyllideb garbon. Mae'r adran hon yn gymwys pan fo datganiad terfynol wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â'r cyfnod cyllidebol hwnnw.

Adran 43 – Datganiadau ar gyfer blynyddoedd targed interim a 2050

170. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi a gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddatganiad ar gyfer pob blwyddyn darged interim ac ar gyfer 2050 cyn diwedd yr ail flwyddyn ar ôl y flwyddyn y mae'r targed yn ymwneud â hi.

171. Mae is-adrannau (2) i (4) yn ei gwneud yn ofynnol cynnwys yr wybodaeth a ganlyn yn y datganiadau ar gyfer pob un o'r blynyddoedd targed priodol:

- o dan is-adran (2), mewn perthynas â phob un o'r nwyon tŷ gwydr, gyfanswm allyriadau Cymru, echdyniadau Cymru ac allyriadau net Cymru ar gyfer y blynyddoedd targed interim a 2050;
- o dan is-adran (3), gyfanswm yr unedau carbon a gredydwyd i gyfrif allyriadau net Cymru ac a ddidynnwyd ohono, a manylion am nifer yr unedau a'r math o unedau;
- o dan is-adran (4), swm cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer y flwyddyn.

172. Mae is-adran (5) yn darparu bod y penderfyniad ynghylch a yw'r targedau interim neu darged 2050 wedi eu cyrraedd i'w wneud drwy gyfeirio at yr wybodaeth a ddarperir yn y datganiad ar gyfer y flwyddyn darged y mae'n ymwneud â hi.

173. Mae is-adran (6) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru gynnwys eglurhad o'r rhesymau pam eu bod yn ystyried bod y targedau wedi eu cyrraedd, neu nad ydynt wedi eu cyrraedd.

174. Mae is-adran (7) yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfuno datganiad sy'n ymwneud â blwyddyn olaf cyfnod cyllidebol o dan yr adran hon â datganiad terfynol ar gyfer cyfnod cyllidebol (o dan adran 41).

Adran 44 – Corff cynghori

175. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddynodi person, drwy reoliadau, i fod yn gorff cynghori at ddibenion Rhan 2 o'r Bil. Dim ond person sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus y caiff Gweinidogion Cymru ei ddynodi.

176. Os nad yw Gweinidogion Cymru yn dynodi person drwy reoliadau, y corff cynghori fydd Pwyllgor ar Newid Hinsawdd y DU (a sefydlwyd o dan adran 32 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008).

Adran 45 – Adroddiadau cynnydd

177. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar y corff cynghori i gyflwyno adroddiadau i Weinidogion Cymru o fewn cyfnodau penodedig yn nodi ei safbwyntiau ynghylch y cynnydd a wnaed mewn perthynas a'r targedau interim a tharged 2050 ac ar y cyllidebau carbon. Rhaid i'r corff cynghori ddarparu safbwyntiau ynghylch a yw'r targedau a'r cyllidebau yn debygol o gael eu cyrraedd ac a yw'n ystyried bod unrhyw gamau pellach yn angenrheidiol er mwyn eu cyrraedd.

178. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff cynghori gyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru cyn diwedd y cyfnod cyllidebol cyntaf (sy'n ymwneud â'r blynyddoedd 2016-20) sy'n rhoi ei safbwyntiau ar y cynnydd a wnaed tuag at gyrraedd y cyllidebau carbon a osodwyd o dan Ran 2, unrhyw darged neu dargedau interim a osodwyd o dan y Rhan hon ac ar gyfer targed allyriadau 2050.

179. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff cynghori anfon adroddiad at Weinidogion Cymru yn ddim hwyrach na chwe mis ar ôl i Weinidogion Cymru osod datganiad terfynol ar gyfer cyfnodau cyllidebol (gweler adran 41) gerbron

Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Rhaid i'r adroddiad hwn roi safbwyntiau'r corff cynghori ynghylch y modd y cyrhaeddwyd neu nas cyrhaeddwyd y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod, y camau a gymerwyd gan Weinidogion Cymru i leihau cyfrif allyriadau net Cymru ac hefyd y materion a nodir yn is-adran (1).

180. Mae is-adran (3) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod copi o bob un o'r adroddiadau a dderbynnir ganddynt o dan is-adrannau (1) a (2) gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

181. Mae is-adran (4) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod ymateb i unrhyw adroddiad a dderbynnir ganddynt gan y corff cynghori o dan yr adran hon gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ddim hwyrach na thri mis ar ôl derbyn yr adroddiad.

Adran 46 – Dyletswydd ar y corf cynghori i ddarparu cyngor a chymorth

182. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar y corff cynghori i ymateb i geisiadau am gyngor, dadansoddiad, gwybodaeth a chymorth gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â swyddogaethau'r Gweinidogion o dan y Bil neu â newid yn yr hinsawdd yn gyffredinol.

Adran 47 – Canllawiau i'r corff cynghori

183. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i'r corff cynghori roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â chyflawni ei swyddogaethau o dan y Bil. Mae is-adran (2) yn darparu na chaiff Gweinidogion Cymru roi canllawiau i'r corff cynghori ynghylch cynnwys unrhyw gyngor neu adroddiad.

Adran 48 – Rheoliadau: gweithdrefn

184. Mae'r adran hon yn sefydlu'r weithdrefn sydd i'w dilyn yn y Cynulliad wrth wneud rheoliadau o dan Ran 2 o'r Bil. Pan fo'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth ynghylch y corff cynghori (adran 44) neu arferion rhyngwladol adrodd ar garbon (adran 52), maent yn ddarostyngedig i weithdrefn negyddol y Cynulliad. Mae'r holl reoliadau eraill yn Rhan 2 yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol y Cynulliad.

Adran 49 – Gofyniad i gael cyngor ynghylch cynigion i wneud rheoliadau

185. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru, cyn i unrhyw reoliadau cadarnhaol gael eu gwneud o dan adran 48(1) yn y Rhan hon, ofyn am gyngor gan y corff cynghori (gweler adran 44) ynghylch y cynnig i wneud y rheoliadau, ac ystyried y cyngor hwnnw.

186. Mae is-adrannau (2) i (4) yn ei gwneud yn ofynnol, pan fo Gweinidogion Cymru yn gofyn am gyngor gan y corff cynghori, iddynt bennu cyfnod rhesymol ar gyfer darparu'r cyngor. Rhaid i'r corff cynghori ddarparu'r cyngor o fewn y cyfnod hwnnw a nodi'r rhesymau dros y cyngor.

187. Mae is-adran (5) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi unrhyw gyngor a gânt gan y corff cynghori cyn cynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl ei gael.

188. Mae is-adran (6) yn darparu, os yw'r rheoliadau cadarnhaol drafft a wneir o dan adran 48(3) yn wahanol i'r hyn a argymhellwyd gan y corff cynghori, bod rhaid i Weinidogion Cymru osod datganiad gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yn egluro paham y mae'r rheoliadau'n wahanol.

Adran 50 –Cyngor ynghylch rheoliadau arfaethedig sy'n ymwneud â thargedau a chyllidebau

189. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar y corff cynghori, pan fo'n ymateb i geisiadau Gweinidogion Cymru o dan adran 49, i ddarparu cyngor penodol ar reoliadau arfaethedig ar gyfer gosod neu ddiwygio targedau interim (gweler adran 30) neu gyllidebau carbon (adran 31).

190. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol, mewn perthynas â gosod neu ddiwygio targedau interim, i gyngor y corff cynghori gynnwys ei farn ynghylch a yw'r targed interim a gynigir gan Weinidogion Cymru y targed uchaf y gellir ei gyflawni, ac os nad ydyw, beth, ym marn y corff, yw'r targed interim uchaf y gellir ei gyflawni.

191. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i gyngor y corff cynghori, mewn perthynas â gosod neu ddiwygio cyllidebau carbon, gynghori ar y lefelau y dylid eu pennu ar gyfer cyllidebau carbon ac i ba raddau y dylid cyrraedd y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod drwy ostwng swm allyriadau net Cymru neu drwy ddefnyddio unedau carbon a gredydir i gyfrif allyriadau net Cymru. Rhaid i'r defnydd o unedau carbon fod yn unol ag unrhyw reoliadau a wneir o dan adrannau 33 neu 36. Rhaid i'r corff cynghori gynghori ar y cyfraniad at gyrraedd cyllidebau carbon y dylai sectorau o economi Cymru y mae cynlluniau masnachu yn berthnasol iddynt (i gyd gyda'i gilydd) ei wneud, ac yn yr un modd sectorau eraill nad yw cynlluniau o'r fath yn berthnasol iddynt (i gyd gyda'i gilydd). Mae'n ofynnol hefyd i'r corff cynghori gynghori ar sectorau o economi Cymru sy'n cynnig cyfleoedd penodol i wneud cyfraniad at gyrraedd cyllidebau carbon drwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

192. Mae is-adran (3) yn diffinio 'cynllun masnachu' yn yr adran hon fel cynllun o dan adran 44 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008. Mae adran 44 o'r Ddeddf honno yn darparu ar gyfer cynlluniau masnachu, sy'n cyfyngu ar weithgareddau sy'n ymwneud ag allyrru nwyon tŷ gwydr, neu sy'n arwain yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol at allyriadau o'r fath ("cynlluniau capio a masnachu", er enghraifft, sy'n capio allyriadau o fath penodol o weithgareddau ac yn caniatáu masnachu allyriadau o fewn y cap hwnnw).

Adran 51 – Mesur allyriadau

193. Mae adran 51 yn darparu bod allyriadau, gostyngiadau mewn allyriadau ac echdyniadau i'w mesur mewn symiau cyfwerth a thunelli o garbon deuocsid, ac yn diffinio'r term hwnnw.

Adran 52 – Arferion rhyngwladol ar adrodd ar garbon

194. Mae adran 52 yn diffinio arferion rhyngwladol adrodd ar garbon yn nhermau protocolau Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd, neu drefniadau neu gytundebau Ewropeaidd neu ryngwladol eraill a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau. Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i'r

diffiniad gael ei ddiweddaru er mwyn ystyried trefniadau a chytundebau rhyngwladol newydd.

Rhan 3 – Codi Taliadau am Fagiau Siopa

195. Mae'r Rhan hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch codi taliadau am fagiau siopa.

196. Mae'n diddymu, mewn perthynas â Chymru, adran 77 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 (p. 27), ac Atodlen 6 iddi, a oedd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch codi taliadau am fagiau siopa a fwriedir i'w defnyddio unwaith yn unig. Diwygiwyd y Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd gan Fesur Gwastraff (Cymru) 2010, a oedd yn rhoi pwerau pellach i wneud rheoliadau ynghylch sut y mae'n rhaid cymhwyso'r enillion net o werthu bagiau siopa. Ni chafodd y pwerau hyn eu harfer bryd hynny gan mai'r polisi a oedd yn cael ei ffafrio oedd sicrhau cydweithrediad y gwerthwyr drwy eu hannog i gymhwyso'r enillion net at achosion da drwy gytundeb gwirfoddol.

197. Y rheoliadau a wnaed o dan y darpariaethau hyn adeg cyflwyno'r Bil yn y Cynulliad Cenedlaethol ar 11 Mai 2015 yw Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 (2010 Rhif 2880 (Cy. 238)) (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Diwygio) 2011 (2011 Rhif 2184 (Cy. 236))).

198. Yn gyffredinol, mae'r darpariaethau yn y Rhan hon yn rhoi'r un pwerau i wneud rheoliadau â'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd. Dyma'r prif newidiadau:
   (a) mae'r diffiniadau o'r termau allweddol "bag siopa" a "gwerthwr nwyddau" yn cael eu nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol yn hytrach na chael eu gadael i'w nodi mewn rheoliadau;
   (b) caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, osod isafswm tâl am unrhyw fath o fag siopa y caniateir ei bennu mewn rheoliadau ac nid yn unig ar gyfer y rhai hynny a fwriedir i'w defnyddio unwaith;
   (c) mae'n ofynnol erbyn hyn i werthwyr gymhwyso'r enillion net o werthu bagiau siopa at unrhyw ddiben elusennol fel a bennir mewn rheoliadau ac nid ar gyfer achosion da amgylcheddol yn unig;
   (d) mae'r rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ym mhob achos.

Adran 54 – Ystyr "bag siopa"

199. Mae adran 54 yn diffinio "bagiau siopa" fel y bagiau hynny y gellir eu darparu yn y man y gwerthir y nwyddau, neu'r rheini a ddarperir at ddiben danfon nwyddau. Yn gyffredinol y bagiau siopau y byddai isafswm tâl yn gymwys iddynt fyddai'r rheini a ddarperir gan fanwerthwyr i'w cwsmeriaid pan fônt yn prynu nwyddau mewn siop, neu'r rheini a ddarperir gan gwmnïau sy'n danfon nwyddau, megis archfarchnadoedd sy'n darparu gwasanaeth danfon bwydydd ar-lein.

Adran 55 – Pŵer i osod gofyniad i godi tâl

200. Mae adran 55(1) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ei gwneud yn ofynnol i werthwyr nwyddau godi tâl am fagiau siopa, fel a bennir yn y rheoliadau, a gyflenwir o dan yr amgylchiadau a grybwyllir yn is-adran (2). Yr amgylchiadau hynny yw bod y nwyddau naill ai'n cael eu gwerthu o le yng Nghymru, neu y bwriedir iddynt gael eu danfon i berson sy'n byw yng Nghymru.

201. Mae is-adran (3) yn darparu y gellir disgrifio bagiau siopa drwy gyfeirio at eu manylion technegol megis maint, trwch, gwneuthuriad a phris y bag a/neu'r defnydd y bwriedir ei wneud ohono, neu gyfuniad o unrhyw rai o blith y ffactorau hynny. Ni chafodd y pris ei nodi fel ffactor yn Atodlen 6 i'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008.

Adran 56 – Gwerthwyr nwyddau

202. Mae adran 56 yn darparu y caiff y rheoliadau bagiau siopa fod yn gymwys naill ai i bob gwerthwr nwyddau neu i fathau penodol o werthwr. Mae'n caniatáu i'r rheoliadau gymhwyso darpariaethau i werthwyr a enwir ac i werthwyr a ddynodir drwy gyfeirio at ffactorau penodedig.

203. Gallai "gwerthwyr", at ddiben y rheoliadau, gynnwys, er enghraifft, fanwerthwyr y stryd fawr, archfarchnadoedd, masnachwyr stryd neu farchnad neu unrhyw berson sy'n rhedeg busnes sy'n gwerthu nwyddau ar y rhyngrwyd. Nid yw'r term yn cynnwys unrhyw bersonau sy'n gwerthu eu nwyddau eu hunain yn breifat, mewn sêl cist car neu ar safle gwerthu neu ocsiwn ar y rhyngrwyd er enghraifft, ac ni chaniateir i'r rheoliadau fod yn gymwys iddynt.

Adran 57 – Cymhwyso'r enillion

204. Mae adran 57(1) yn ei gwneud yn ofynnol i werthwyr gymhwyso'r tâl y maent yn ei dderbyn o werthu bagiau siopa (ar ôl didyniadau) i elusen.

205. Y swm y bydd yn rhaid ei gymhwyso at ddibenion elusennol fydd yr enillion net o'r tâl. Diffinnir yr enillion net yn adran 64, sef yr enillion gros ar ôl tynnu unrhyw swm y caiff y rheoliadau eu pennu megis, er enghraifft, costau gweinyddol. Ystyr "enillion gros o'r tâl" yw'r swm y mae'r gwerthwr yn ei dderbyn o ganlyniad i'r isafswm tâl. Nid yw'n cynnwys arian sy'n dod i law sydd uwchlaw'r isafswm tâl; pe bai'r gwerthwr yn codi 8c am fag a 5c fyddai'r isafswm tâl yna'r enillion net fyddai 5c.

206. Rhaid i'r enillion net o'r tâl gael eu cymhwyso at "ddibenion elusennol" fel y'u diffinnir yn is-adran (5). Caiff y rheoliadau hefyd bennu at ba ddibenion elusennol y mae'n rhaid cymhwyso'r enillion net. Mae i "dibenion elusennol" yr un ystyr â "charitable purposes" yn adran 2 o Ddeddf Elusennau 2011 (p.25), a rhestrir y dibenion hynny yn adran 3 o'r Ddeddf honno. Maent yn cynnwys, er enghraifft, achosion atal neu liniaru tlodi, datblygu gwarchodaeth amgylcheddol, addysg, crefydd, iechyd, y celfyddydau, chwaraeon a lles anifeiliaid.

207. O dan is-adran (5) caiff rheoliadau addasu'r diffiniad o "diben elusennol" pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n hwylus gwneud hynny er mwyn sicrhau bod yr enillion net o'r tâl yn cael eu defnyddio'n briodol. Gallai'r pŵer hwn gael ei arfer, er enghraifft, pe bai'r diffiniad yn adran 2 o'r Ddeddf Elusennau wedi ei ddiwygio ac nad ystyrir bod y diffiniad newydd yn briodol bellach at ddiben y rheoliadau.

208. Mae is-adran (2) yn darparu y caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch y trefniadau ar gyfer cymhwyso'r enillion net a'r person a gaiff dderbyn yr enillion hynny ar ran yr elusen. O dan is-adran (3), caiff y rheoliadau roi'r pwerau i

Weinidogion Cymru orfodi'r ddarpariaeth hon os yw'r gwerthwr yn methu â chymhwyso'r enillion net yn ôl y gofyn.

Adran 58 - Gweinyddu

209. Mae adran 58 yn gwneud darpariaeth ynghylch pwy a gaiff fod yn gyfrifol am weinyddu'r drefn o godi tâl am fagiau siopa. Mae'r adran hon yn darparu y caiff y rheoliadau bagiau siopa benodi unrhyw berson i fod yn weinyddwr ac y caiff roi pwerau i'r person hwnnw, a gosod dyletswyddau arno, at ddiben gweinyddu'r drefn. O dan Reoliadau 2010, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yw'r gweinyddwyr ar gyfer eu hardaloedd.

210. Er mwyn rhoi pwerau i'r gweinyddwr, a gosod dyletswyddau arno, o dan is-adran (3), mae is-adran (4) yn darparu y caiff y rheoliadau ddiwygio deddfiadau sy'n gymwys i'r gweinyddwr (megis deddfiadau ynghylch pwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol). Diffinnir "deddfiad" yn adran 87. Nodir swyddogaethau gorfodi'r gweinyddwr yn adran 60.

Adran 59 – Cadw a chyhoeddi cofnodion

211. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch y cofnodion y mae'n rhaid eu cadw a'r wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu mewn perthynas â'r drefn o godi tâl am fagiau siopa. Caniateir i'r adran hon fod yn gymwys i unrhyw berson ond mae'r rheoliadau'n fwyaf tebygol o osod dyletswyddau ar y gwerthwyr ac unrhyw berson sy'n derbyn unrhyw enillion net o'r tâl at ddibenion elusennol.

212. Ar hyn o bryd mae rheoliad 8(3) o Reoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i werthwyr gadw gwybodaeth am nifer y bagiau siopau untro a gyflenwyd, y swm a gafwyd ar ffurf y tâl ac at ba ddibenion y defnyddiwyd yr enillion net o'r tâl.

213. Mae is-adran (2) yn darparu y caiff y rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth am daliadau bagiau siopa gael ei chyhoeddi neu ei darparu i unrhyw un neu ragor o'r personau a nodir ym mharagraffau (i) i (iii). Y personau hynny yw Gweinidogion Cymru, unrhyw weinyddwr a benodir o dan adran [105] neu aelodau o'r cyhoedd.

214. Mae is-adran (3) yn darparu enghreifftiau o gofnodion neu wybodaeth a allai fod yn ofynnol o dan y rheoliadau. Gallai'r rheoliadau, er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol i werthwyr ddarparu gwybodaeth ynghylch faint o fagiau y maent wedi eu gwerthu o fewn cyfnod penodol a swm y taliadau a ddaeth i law. Gallent hefyd ei gwneud yn ofynnol i'r gwerthwyr roi dadansoddiad o sut y maent wedi cyfrifo'r enillion net o'r gwerthiant fel y'i diffinnir yn adran [104] (6) a sut y defnyddiwyd yr enillion hynny.

215. Mae is-adran (4) yn darparu y caiff y rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n derbyn unrhyw enillion net o'r tâl bagiau siopa (pa un a yw'n cael ei dalu'n wirfoddol neu yn ôl gofynion rheoliadau a wneir o dan adran 57) gyhoeddi neu ddarparu cofnodion neu wybodaeth am yr arian y maent wedi ei dderbyn.

Adran 60 - Gorfodi

216. Mae adran 60 yn galluogi rheoliadau bagiau siopa i wneud darpariaeth ynghylch sut y mae'r drefn bagiau siopa i gael ei gorfodi. Caiff y rheoliadau roi swyddogaethau amrywiol i weinyddwyr a benodir o dan adran 58. Caiff y rheoliadau roi'r pŵer i'r gweinyddwr ei gwneud yn ofynnol i'r gwerthwr ddarparu gwybodaeth a dogfennau a holi'r gwerthwyr neu eu cyflogeion, ond dim ond os yw'r gweinyddwr yn credu'n rhesymol bod methiant wedi bod i gydymffurfio â'r rheoliadau.

Adran 61 – Sancsiynau sifil

217. Mae adran 61 yn cyflwyno Atodlen 2 sy'n gwneud darpariaeth ynghylch y sancsiynau sifil y gellir eu gosod ar unrhyw berson nad yw'n cydymffurfio â'r rheoliadau bagiau siopa.

Adran 62 – Rheoliadau o dan y Rhan hon

218. Mae adran 62 yn darparu bod rhaid i'r rheoliadau bagiau siopa gael eu gwneud drwy offeryn statudol ac na chaniateir eu gwneud hyd nes y bydd drafft wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo, hynny yw y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

219. Mae'r adran hon hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gynnwys darpariaethau yn y rheoliadau bagiau siopa sy'n ymwneud ag unrhyw faterion cysylltiedig, ac i gymhwyso'r rheoliadau mewn gwahanol ffyrdd, drwy gymhwyso isafswm tâl gwahanol i wahanol fathau o fagiau er enghraifft.

Adran 63 – Rheoliadau a wneir gyda'r Ysgrifennydd Gwladol

220. Mae adran 63 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau ar gyfer codi taliadau am fagiau siopa yng Nghymru a Lloegr mewn un offeryn statudol. Pan wneir rheoliadau ar gyfer Cymru a Lloegr gyda'i gilydd mewn offeryn cyfunol, rhaid iddo gael ei osod yn nau Dŷ Senedd y DU ac yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, a chael ei gymeradwyo ganddynt.

Adran 65 – Mân ddiwygiadau, diwygiadau canlyniadol a ddiddymiadau

221. Mae'r adran hon yn gwneud mân ddiwygiadau, diwygiadau canlyniadol a diddymiadau i Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 a Mesur Gwastraff (Cymru) 2010.

Rhan 4 – Casglu a Gwaredu Gwastraff

222. Mae Rhan 4 o'r Bil yn ymwneud â chasglu a gwaredu gwastraff, ac mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer gwahanu yn y tarddle a chasglu deunyddiau gwastraff adferadwy ar wahân, gwahardd deunyddiau adferadwy o gyfleusterau llosgi a gwahardd gwaredu gwastraff bwyd o fangreoedd annomestig i garthffosydd. Diben y darpariaethau yw hybu rhagor o wahanu ar wahanol fathau o wastraff, a gwahardd gwaredu mathau adferadwy o wastraff.

Adran 66 – Gofynion sy'n ymwneud â chasglu ar wahân etc. wastraff

223. Mae adran 45 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (p.43), yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol Cymru drefnu i gasglu gwastraff aelwydydd sy'n cael ei gynhyrchu yn eu hardaloedd, yn ogystal â gwastraff masnachol, pan wneir cais am hynny. Mae'r awdurdod lleol naill ai'n cyflawni'r swyddogaeth

hon gan ddefnyddio'i adnoddau ei hun, neu'n trefnu bod contractwr preifat yn cyflawni'r swyddogaeth ar ei ran. Caiff gwastraff masnachol a diwydiannol nad yw'n dod o fewn dyletswyddau'r awdurdod lleol yn adran 45 eu casglu gan gontractwyr preifat drwy gontract unigol â'r sawl sy'n cynhyrchu'r gwastraff. Mae'r Ddeddf yn cyfeirio at wastraff aelwydydd, masnachol a diwydiannol, gyda'i gilydd, fel "gwastraff a reolir"103.

224. Yn ychwanegol at ofynion adran 45 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, rhaid i gasglwyr gwastraff gydymffurfio â gofynion rheoliadau 13 a 14 o Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 [O.S. 2011/988], sy'n trosi'n rhannol Gyfarwyddeb yr UE 2008/98/EC (y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff). Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i gasglwyr gwastraff, o 1 Ionawr 2015 ac yn ddarostyngedig i ddarpariaethau penodol, gasglu papur, metel, plastig a gwydr ar wahân, o leiaf, a chadw'r deunyddiau hynny ar wahân ar ôl eu casglu.

225. A hyn yn y cefndir, mae adran 66 yn mewnosod adran 45AA newydd ("Wales: separate collection etc. of waste") yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Diben y darpariaethau yn yr adran newydd yw rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ymestyn y gwahanol fathau o wastraff sydd i'w casglu ar wahân, a phennu pa gamau y mae'n rhaid eu cymryd i sicrhau bod rhagor o wahanol fathau o wastraff yn cael eu gwahanu.

226. Yn adran 45AA, mae is-adrannau (1) a (2) yn ymwneud â chasglu gwahanol ddeunyddiau gwastraff ar wahân. Mae is-adran (1) yn gymwys i awdurdodau lleol sy'n arfer eu swyddogaethau o dan adran 45, i wneud trefniadau ar gyfer casglu gwastraff a reolir yn eu hardal, er enghraifft, gyda chontractwr preifat. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol sicrhau bod gwastraff yn cael ei gasglu o dan y trefniant mewn modd sy'n gyson â'r gofynion gwahanu perthnasol.

227. Mae is-adran (6) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru bennu gofynion o ran gwahanu mewn rheoliadau, ac mae is-adran (7) yn rhoi pŵer cysylltiedig i bennu'r amgylchiadau pan fo gofynion o'r fath yn gymwys. Diffinnir natur y gofynion o ran gwahanu yn is-adran (6). Er enghraifft, caiff Gweinidogion Cymru bennu mewn rheoliadau pa ddeunyddiau y dylid eu cyflwyno a'u casglu ar wahân, a sut y dylid cadw'r gwahanol fathau o wastraff ar wahân i'w gilydd ar ôl eu casglu. Gallai hyn gynnwys pennu lefel wahanu ar gyfer gwahanol ddeunyddiau gwastraff a all fod yn ofynnol o dan wahanol amgylchiadau.

228. Mae is-adran (2) yn cymhwyso'r un ddyletswydd i'r rheini sy'n casglu, yn cadw, yn trin neu'n cludo gwastraff a reolir. Bwriedir i'r ddyletswydd i ymddwyn yn unol â gofynion gwahanu perthnasol fod yn gymwys yn ystod pob cam o'r gadwyn wastraff, o gynhyrchu'r gwastraff, i'w drin neu ei waredu'n derfynol. Bydd yn effeithio ar y rheini sy'n casglu, yn derbyn neu'n storio gwastraff, gan gynnwys awdurdodau lleol, yn ogystal â'r cludwyr hynny sy'n cludo gwastraff, ac ailbroseswyr, fel ailgylchwyr, sy'n trin gwastraff. Nid yw'r ddyletswydd yn gymwys i unigolion nad ydynt yn gweithredu yng nghwrs busnes. Diffinnir

[103] *Diffinnir y termau gwastraff aelwydydd, masnachol a diwydiannol a gwastraff a reolir ("household, commercial, industrial and controlled") yn adran 75 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.*

"acting in the course of a business" ("gweithredu yng nghwrs busnes") yn is-adran (3).

229. Mae is-adran (10)(a) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud y ddyletswydd yn is-adrannau (1) a (2) yn ddarostyngedig i eithriadau. Bydd y pŵer hwn, ar y cyd â'r pŵer cyffredinol yn is-adran (11) i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer gwahanol ddibenion, achosion neu ardaloedd, yn caniatáu i Weinidogion Cymru ystyried yr amrywiaeth eang o amgylchiadau pan fydd y darpariaethau hyn yn gymwys.

230. Mae is-adran (4) yn ategu'r gofynion yn is-adrannau (1) a (2), drwy ymestyn y ddyletswydd i weithredu'n unol â gofynion gwahanu cymwys i gategorïau penodol o gynhyrchwyr gwastraff, wrth gyflwyno gwastraff ar gyfer ei gasglu. Golyga'r ddarpariaeth hon ei bod yn ofynnol i feddianwyr mangreoedd, ac eithrio aelwydydd, gyflwyno gwastraff a reolir ar gyfer ei gasglu yn unol â gofynion gwahanu cymwys. Caiff gofynion o'r fath gynnwys, er enghraifft, bennu mewn rheoliadau'r mathau o ddeunyddiau gwastraff y gellir eu hailgylchu y mae'n rhaid eu cyflwyno ar wahân ar gyfer eu casglu.

231. Mae is-adran (5) yn cynnwys eithriadau i'r ddyletswydd yn is-adran (4). Ni fydd y ddyletswydd yn gymwys i feddianwyr aelwydydd domestig na charafanau. Mae is-adran (10)(b) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud is-adran (4) yn gymwys yn ddarostyngedig i eithriadau sy'n ychwanegol at y rheini yn is-adran (5). Bydd hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru addasu'r modd y cymhwysir y ddyletswydd yn is-adran (4) i newidiadau i'r polisi casglu gwastraff sy'n digwydd yn y dyfodol.

232. Mae is-adran (8) yn golygu bod methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd yn is-adran (2) neu (4), heb esgus rhesymol, yn drosedd. Yn ôl is-adran (9), mae troseddau o'r fath yn droseddau diannod y gellir eu gwrando yn Llys yr Ynadon. Dirwy yw'r gosb yn dilyn collfarn.

233. Mae is-adran (11) yn caniatáu i Weinidogion Cymru, wrth arfer eu pwerau eraill i wneud rheoliadau o dan yr adran hon, wneud gofynion gwahanol ar gyfer amgylchiadau gwahanol, neu gymhwyso gofynion yn wahanol mewn gwahanol ardaloedd daearyddol. Oherwydd ei natur caiff y pŵer hwn ei arfer ar y cyd ag arfer pwerau eraill o dan yr adran hon.

234. Mae is-adrannau (1) a (2) o adran 45AB (Code of practice) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi, diwygio neu ddirymu cod ymarfer sy'n rhoi canllawiau ar sut i gydymffurfio â'r dyletswyddau yn adran 45AA. Mae is-adran (3) yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â phersonau sy'n briodol yn eu barn hwy, cyn dyroddi cod. Gallai hyn gynnwys CNC ac awdurdodau lleol Cymru, er enghraifft, yn ogystal â rhanddeiliaid eraill. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi'r cod, neu unrhyw ddiwygiad i god presennol, a'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

235. Ni fyddai cod ymarfer o'r fath yn rhwymo person sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau yn adran 45AA yn uniongyrchol. Ond mae is-adran (5) yn golygu bod y cod ymarfer yn dderbyniol fel tystiolaeth mewn achos llys, megis pan fo

llys yn ystyried a gyflawnwyd trosedd o dan adran 45AA(8) ai peidio. Rhaid i'r llys ystyried y cod o ran unrhyw gwestiynau y mae'n berthnasol iddynt.

Adran 67 – Gwahardd gwaredu gwastraff bwyd i garthffos

236. Mae adran 34 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn gosod dyletswydd gofal eang yng Nghymru a Lloegr, ar unrhyw berson sy'n mewnforio, yn cynhyrchu, yn cario, yn cadw, yn trin neu'n gwaredu gwastraff a reolir, neu sydd â rheolaeth dros wastraff o'r fath, fel deliwr neu frocer, i fabwysiadu pob mesur rhesymol yn yr amgylchiadau i atal, ymysg pethau eraill, unrhyw achos anghyfreithlon o waredu gwastraff gan berson arall, neu unrhyw achos o fynd yn groes i Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2010.

237. Mae adran 67 yn mewnosod adran 34D newydd yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, sy'n gwahardd gwaredu gwastraff bwyd i garthffos gyhoeddus o fangreoedd annomestig yng Nghymru, yn is-adran (1). O dan y gwaharddiad, ni ddylai'r sawl sy'n meddiannu unrhyw fangre annomestig waredu gwastraff bwyd i garthffos gyhoeddus nac i unrhyw ddraen sy'n gollwng i garthffos gyhoeddus. Mae mangreoedd annomestig yn cynnwys mangreoedd busnes a'r sector cyhoeddus, ond nid ydynt yn cynnwys tai preifat, er enghraifft. Mae gweithredu is-adran (1) yn ddarostyngedig i bŵer Gweinidogion Cymru, yn is-adran (6)(a), i bennu'r amgylchiadau pan fo is-adran (1) yn gymwys mewn rheoliadau. Mae'r pŵer hwn, ar y cyd â'r pŵer cyffredinol i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol yn is-adran (7), yn caniatáu i Weinidogion Cymru ystyried yr amrywiaeth eang o fangreoedd ac amgylchiadau pan fydd y gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd yn gymwys.

238. Mae is-adran (2) yn amlinellu eithriadau i'r gwaharddiad yn is-adran (1). Mae meddianwyr mangreoedd domestig a charafanau wedi'u heithrio. Mae is-adran (2) yn ddarostyngedig i bŵer Gweinidogion Cymru yn is-adran (6)(b), ar y cyd â'r pŵer yn is-adran (7), i wneud rheoliadau i wneud is-adran (1) yn gymwys yn ddarostyngedig i eithriadau sy'n ychwanegol at y rheini yn is-adran (2). Fel yn achos is-adran (1), bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ystyried y modd y mae amgylchiadau a pholisi'r llywodraeth yn newid.

239. Diffinnir gwastraff bwyd yn is-adran (5). Mae is-adran (6)(c) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio'r diffiniad o wastraff bwyd.

240. Mae is-adran (3) yn darparu y bydd methu â chydymffurfio â'r gwaharddiad yn is-adran (1) yn drosedd oni bai bod y person yn gallu rhoi esgus rhesymol am beidio â bodloni'r gofyniad, ac yn rhinwedd is-adran (4), gellir gwrando trosedd o'r fath yn Llys yr Ynadon. Os bydd y person sy'n cyflawni'r drosedd yn cael ei gollfarnu, bydd yn atebol i dalu dirwy ddiderfyn.

241. Gwneir diwygiad canlyniadol, sy'n eithrio gwastraff bwyd yn benodol o'r drefn cydsyniad elifion masnach sy'n cael ei rheoli gan ymgymerwyr carthffosiaeth yng Nghymru, i Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991. Ni chaiff y gofyniad hwn ei gyflwyno ar adeg pasio'r Bil, ond rywbryd yn y dyfodol, yn unol â gorchymyn gan Weinidogion Cymru.

Adran 68 – Pŵer i wahardd neu reoleiddio gwaredu gwastraff drwy losgi

242. Mae adran 9 o Fesur Gwastraff (Cymru) 2010 yn cynnwys darpariaethau sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gwahardd neu'n rheoleiddio mewn ffordd arall, waredu mathau penodol o wastraff drwy dirlenwi. Dargyfeirio gwastraff adferadwy rhag cael ei waredu yw'r diben, a chynyddu ailgylchu yng Nghymru. Mae adran 68 yn mewnosod adran 9A newydd yn y Mesur, sy'n cynnwys darpariaethau tebyg i'r rheini ar gyfer tirlenwi, ond sy'n ymwneud â gwahardd neu reoleiddio llosgi mathau penodol o wastraff.

243. Mae is-adran (1) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gwahardd neu fel arall yn rheoleiddio llosgi mathau penodedig o wastraff yng Nghymru. Gellid defnyddio pŵer o'r fath i bennu mathau penodol o ddeunyddiau gwastraff y gellir eu hailgylchu, ac na ddylid eu llosgi, er enghraifft.

244. Mae is-adran (2) yn disgrifio swyddogaethau penodol y gellir eu harfer wrth wneud rheoliadau o dan is-adran (1). Mae hyn yn cynnwys pŵer i greu troseddau, i ragnodi cosbau ac i ddarparu ar gyfer awdurdodau gorfodi. Mae is-adran (2) hefyd yn cynnwys pŵer i ddiwygio rheoliadau a wnaed o dan adran 2 o Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999, a fyddai'n cynnwys Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010, sy'n rheoleiddio trwyddedu a gweithredu cyfleusterau llosgi, ymysg pethau eraill.

245. Mae is-adran (3) yn diffinio llosgi at ddibenion adran 9A, ynghyd â "peiriant llosgi gwastraff", a "peiriant cydlosgi gwastraff". Felly mae'r pŵer yn is-adran (1) yn gymwys i beiriannau gan gynnwys y rheini sydd â'r prif ddiben o losgi gwastraff (llosgyddion gwastraff, er enghraifft) a'r rheini sy'n llosgi gwastraff i ddarparu ynni i bweru proses.

Adran 69 – Sancsiynau sifil

246. Darperir sancsiynau sifil fel dull arall yn hytrach nag erlyn troseddau o dan y darpariaethau a nodir yn Rhan 3. Gellir defnyddio'r rhain heb droi at y llys, ac nid ydynt yn arwain at gollfarn droseddol. Mae'r adran hon yn darparu y gellir eu defnyddio fel dull arall, os yw'r rheoleiddiwr yn fodlon fod trosedd wedi'i chyflawni.

247. Mae is-adran (1) yn darparu bod y drefn o sancsiynau sifil a rheolaethau o dan Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 (p.13), ar gael mewn perthynas â throseddau a gyflawnir o dan adrannau 66 a 67.

248. Mae is-adrannau (2) i (8) yn diwygio adran 10 o Fesur Gwastraff (Cymru) 2010, er mwyn dod â throseddau a gyflawnir o dan ddarpariaethau'r adran 9A newydd, yn ymwneud â llosgi, o dan y drefn sancsiynau sifil sydd eisoes yn ei lle yn y Mesur.

Adran 70 - Rheoliadau

249. Gweinidogion Cymru sy'n gwneud Rheoliadau ar gyfer Cymru erbyn hyn, nid y Cynulliad Cenedlaethol. Mae is-adrannau (1) i (3) yn diwygio ac yn diweddaru adran 161 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, drwy roi cyfeiriadau at Weinidogion Cymru yn lle cyfeiriadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

250. Mae is-adran (4) yn mewnosod is-adrannau (2AA) a (2AB) newydd yn adran 161, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer y weithdrefn sydd i'w dilyn gan y Cynulliad mewn perthynas â rheoliadau a gyflwynir gan Weinidogion Cymru o dan adrannau 45AA a 34D newydd Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

Adran 71 – Mân ddiwygiadau, diwygiadau canlyniadol a diddymiadau

251. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer gwneud diwygiadau pellach i ddeddfwriaeth bresennol o ganlyniad i'r darpariaeth a gyflwynir yn y Bil. Ceir manylion y diwygiadau yn Rhan 3 o Atodlen 2 i'r Bil.

Rhan 5 – Pysgodfeydd ar gyfer Pysgod Cregyn

252. Mae'r Rhan hon o'r Bil yn gwneud diwygiadau i adrannau 1 a 3 o Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967 ("Deddf 1967") ac yn cyflwyno adrannau 5A i 5F newydd iddi. Prif bwrpas y newidiadau hyn yw galluogi Gweinidogion Cymru i wneud y ddarpariaeth angenrheidiol a chymryd y camau angenrheidiol mewn perthynas â Gorchmynion Pysgodfeydd Cregyn, a roddir o dan adran 1 o Ddeddf 1967, at ddibenion gwarchod safleoedd morol Ewropeaidd ac atal niwed iddynt. Diffinnir safleoedd morol Ewropeaidd ("European marine sites") gan yr adran 5F(2) newydd o Ddeddf 1967 (fel y'i mewnosodir gan adran 50 o'r Bil) drwy gyfeirio at reoliad 8 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 sy'n cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (a ddynodir yn unol â Chyfarwyddeb Cynefinoedd 92/43/EEC) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (a ddynodir yn unol â Chyfarwyddeb Adar Gwyllt 79/409/EEC).

Adran 72 – Ceisiadau am orchmynion sy'n ymwneud â physgodfeydd

253. Ar hyn o bryd mae adran 1 o Ddeddf 1967 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud Gorchymyn sy'n rhoi hawliau pysgodfa Unigol a/neu wedi ei Rheoleiddio. Mae Gorchymyn Pysgodfa Unigol yn rhoi perchnogaeth o bysgod cregyn penodedig i'r person (a elwir yn Grantî) y rhoddir y bysgodfa iddo. Mae Gorchymyn Rheoleiddio yn galluogi person i reoli gweithgarwch pysgota (ar gyfer pysgod cregyn penodedig) o fewn ardal benodedig, yn aml drwy roi trwyddedau pysgota i eraill.

254. Ar hyn o bryd mae adran 1(2) o Ddeddf 1967 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu, mewn offeryn statudol, ar ba ffurf ac ym mha fodd y mae'n rhaid gwneud cais am Orchymyn Pysgodfa Gregyn Unigol neu Orchymyn Rheoleiddio. Mae adran 72 o'r Bil yn diwygio adran 1 o Ddeddf 1967 fel na fydd yn angenrheidiol mwyach gwneud offeryn statudol at y dibenion hyn. Bydd yr is-adran 1(2A) newydd a fewnosodir i Ddeddf 1967 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu ar ba ffurf ac ym mha fodd y mae'n rhaid gwneud cais am Orchymyn Pysgodfa Gregyn, heb fod angen gwneud is-ddeddfwriaeth at y diben hwnnw.

255. Mae adran 72 o'r Bil hefyd yn mewnosod is-adran 1(2B) newydd i Ddeddf 1967 sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n gwneud cais am Orchymyn o dan adran 1 o Ddeddf 1967 ddarparu unrhyw wybodaeth (a allai gynnwys gwybodaeth amgylcheddol) sy'n angenrheidiol ym marn Gweinidogion Cymru er mwyn ystyried cais o'r fath.

256. Bydd y diwygiadau hyn i adran 1 o Ddeddf 1967 yn gymwys i unrhyw gais am Orchymyn a wneir o dan adran 1 o Ddeddf 1967, ar ôl i adran 72 o'r Bil hwn ddod i rym. Bydd unrhyw geisiadau o'r fath a dderbynnir cyn y dyddiad hwnnw yn cael eu prosesu yn unol â geiriad blaenorol adran 1(2) o Ddeddf 1967.

Adran 73 – Gofyniad i gynnwys darpariaethau amgylcheddol mewn gorchmynion sy'n ymwneud â physgodfeydd

257. Mae adran 73 o'r Bil yn mewnosod adran 5A newydd i Ddeddf 1967 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod Gorchymyn a wneir o dan adran 1 o Ddeddf 1967 yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau yr ystyrir eu bod yn briodol er mwyn atal niwed i unrhyw safle morol Ewropeaidd neu i warchod yr amgylchedd morol fel arall. Diffinnir amgylchedd morol ("marine environment") gan yr is-adran 5A(2) newydd. Darperir diffiniadau o safle morol Ewropeaidd ("European marine site") a niwed ("harm") at y dibenion hyn yn adran 5F(2) o Ddeddf 1967, a fewnosodir gan adran 76 o'r Bil.

258. Ni fydd darpariaethau'r adran 5A newydd yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw Orchymyn Pysgodfa Gregyn a wneir o dan adran 1 o Ddeddf 1967 cyn i Ran 4 o'r Bil ddod i rym (gweler adran 5F(4) o Ddeddf 1967, a fewnosodir gan adran 76 o'r Bil).

Adran 74 – Pŵer i gyflwyno hysbysiadau ar gyfer diogelu safleoedd morol Ewropeaidd

259. Mae adran 74 o'r Bil yn mewnosod adrannau 5B, 5C a 5D newydd i Ddeddf 1967. Mae'r adrannau newydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi Hysbysiad Gwarchod Safle ac ymdrin â materion cysylltiedig.

260. Er mwyn sicrhau bod gan Weinidogion Cymru bwerau priodol i atal niwed ("harm") (fel y'i diffinnir gan adran 5F(2) o Ddeddf 1967, a fewnosodir gan adran 76 o'r Bil) i safle morol Ewropeaidd o ganlyniad i weithredu Pysgodfa Gregyn Unigol a/neu wedi ei Rheoleiddio, mae is-adran 5B(1) yn darparu pŵer newydd i Weinidogion Cymru roi Gorchymyn Pysgodfa Gregyn i Grantî y Bysgodfa Gregyn berthnasol o dan yr amgylchiadau a bennir.

261. Mae adran 5B(2) a (3) yn pennu'r gofynion y caniateir eu cynnwys mewn Hysbysiad Gwarchod Safle. Mewn rhai achosion gallai Hysbysiad Gwarchod Safle nodi'r gweithgareddau a gyflawnir fel rhan o'r gwaith o reoli'r bysgodfa a allai niweidio safle morol Ewropeaidd (neu ddod yn niweidiol iddo), a phennu wedi hynny pa gamau y mae'n rhaid eu cymryd neu pa gamau y mae'n rhaid eu hosgoi er mwyn rhwystro'r niwed hwnnw rhag digwydd. Nodir y gall Hysbysiad Gwarchod Safle gynnwys gofyniad i gymryd camau yn ogystal â gofyniad i ymatal rhag cymryd camau penodol.

262. Mae is-adran 5B(4) yn gwneud darpariaeth ynghylch ffurf a chynnwys yr Hysbysiad Gwarchod Safle (a gaiff gynnwys darpariaeth y mae'n ofynnol i'r Grantî gydymffurfio ag ef y tu hwnt i gyfnod y Bysgodfa Unigol neu'r Bysgodfa Reoleiddio, gweler is-adran 5B(8) o Ddeddf 1967).

263. Mae is-adran 5B(5) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Grantî perthnasol cyn rhoi Hysbysiad Gwarchod Safle oni bai eu bod o'r farn

bod angen cymryd camau brys er mwyn atal niwed, ac mae is-adran 5B(7) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi pob hysbysiad yn y fath fodd fel ei fod yn cael ei ddwyn i sylw pawb y mae'r hysbysiad yn debygol o effeithio arno.

264. Mae is-adran 5B(6) yn galluogi Gweinidogion Cymru i addasu neu ddileu Hysbysiad Gwarchod Safle.

265. Mae is-adran 5B(9) yn darparu bod y pwerau gorfodi a nodir yn is-adrannau 5(2) i (7) o Ddeddf 1967 (sy'n cynnwys pwerau i wneud ymholiadau ac arolygu ac i gael mynediad i dir penodol at y dibenion hynny etc.) ar gael at ddibenion yr adran 5B newydd (hynny yw y pŵer i roi Hysbysiad Gwarchod Safle).

266. Mae is-adran 5C (a fewnosodir i Ddeddf 1967 gan adran 74 o'r Bil) yn darparu dull apelio mewn perthynas â Hysbysiadau Gwarchod Safle ar ffurf cyfeiriad at y Tribiwnlys Haen Gyntaf. Mae'r adran hon yn pennu'r penderfyniadau hynny y caniateir apelio yn eu herbyn a'r personau hynny a gaiff wneud apêl o'r fath neu fod yn barti i apêl o'r fath.

267. Mae is-adran 5C(4) yn galluogi'r Tribiwnlys Haen Gyntaf i atal neu addasu Hysbysiad Haen Gyntaf tra bo'r apêl yn mynd rhagddo ac mae is-adran 5C(5) yn galluogi'r Tribiwnlys i gadarnhau, i amrywio neu i ddileu'r hysbysiad perthnasol. Mae is-adran 5C(6) yn galluogi'r Tribiwnlys i orchymyn Gweinidogion Cymru, pan fo'r Tribiwnlys yn amrywio neu'n dileu hysbysiad, i ddigolledu unrhyw barti i'r apêl sydd wedi dioddef colled neu niwed o ganlyniad i'r hysbysiad perthnasol.

268. Os yw Grantî y cyflwynwyd hysbysiad iddo yn methu â chydymffurfio â'i delerau, mae adran 5D (a fewnosodir i Ddeddf 1967 gan adran 74 o'r Bil) yn galluogi Gweinidogion Cymru i gymryd y camau angenrheidiol eu hunain ac adennill unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r camau hynny gan y Grantî.

269. Ni fydd darpariaethau'r adrannau 5B, 5C a 5D newydd yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw Orchymyn Pysgod Cregyn a wneir o dan adran 1 o Ddeddf 1967 cyn i Ran 4 o'r Bil ddod i rym (gweler adran 5F(3) o Ddeddf 1967, a fewnosodir gan adran 76 o'r Bil).

Adran 75 – Pŵer i amrywio neu ddirymu gorchmynion i ddiogelu safleoedd morol Ewropeaidd

270. Cyn y ddarpariaeth a gyflwynir gan y Bil hwn, dim ond mewn nifer gyfyngedig o ffyrdd y gellid gwneud newidiadau i bysgodfa a grëwyd gan Orchymyn o dan adran 1 o Ddeddf 1967: drwy gais o dan adran 1(6) o Ddeddf 1967, o dan yr amgylchiadau sy'n gymwys i adran 1(10) o Ddeddf 1967 neu, heb wneud diwygiad i destun y Gorchymyn perthnasol, ar ffurf tystysgrif yn unol ag adran 5(1) o Ddeddf 1967 (pan fo'r amodau angenrheidiol wedi eu bodloni).

271. Mae adran 75 o'r Bil yn cyflwyno adran 5E newydd i Ddeddf 1967. Mae is-adran 5E(2) yn galluogi Gweinidogion Cymru i amrywio neu ddirymu Gorchymyn Pysgodfa Unigol neu Orchymyn Rheoleiddio, o dan amgylchiadau penodol. Mae is-adran 5E(1) yn darparu nad yw'r pŵer yn is-adran 5E(2) ar gael oni fo Gweinidogion Cymru wedi cyflwyno Hysbysiad Gwarchod Safle, nad yw wedi

cael ei ddileu (gan Weinidogion Cymru neu'r Tribiwnlys Haen Gyntaf) ac nad oes apêl yn yr arfaeth mewn perthynas â'r hysbysiad hwnnw (ceir disgrifiad pellach o ystyr apêl sydd yn yr arfaeth ("pending appeal") yn adran 5E(4)). Unwaith y bo'r amodau hynny wedi eu bodloni, mae is-adran 5E(2) yn galluogi Gweinidogion Cymru i amrywio neu ddirymu'r Gorchymyn Pysgodfa Unigol neu Orchymyn Rheoleiddio perthnasol er mwyn adlewyrchu effaith yr Hysbysiad Gwarchod Safle. Mae is-adran 5E(3) yn nodi'r gofynion ymgynghori perthnasol.

272. Ni fydd darpariaethau'r adran 5E newydd yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw Orchymyn Pysgodfa Gregyn a wneir o dan adran 1 o Ddeddf 1967 cyn i Ran 4 o'r Bil ddod i rym (gweler adran 5F(4) o Ddeddf 1967, a fewnosodir gan adran 76 o'r Bil).

Adran 76 – Darpariaeth atodol

273. Mae adran 76 o'r Bil yn mewnosod adran 5F newydd i Ddeddf 1967 sy'n ymdrin â nifer o faterion sy'n gysylltiedig â'r darpariaethau newydd a fewnosodir i Ddeddf 1967 gan y Bil hwn.

Rhan 6 – Trwyddedu morol

274. Mae Rhan 6 o'r Bil yn diwygio Rhan 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Mae Rhan 4 o'r Ddeddf honno'n sefydlu trefn trwyddedu morol. Mae adran 65 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir yn darparu na ellir cyflawni gweithgareddau morol y mae angen trwydded ar eu cyfer, ac eithrio yn unol â thrwydded forol a roddwyd gan yr awdurdod trwyddedu priodol. Mae adran 113(4) o'r Ddeddf honno'n diffinio'r awdurdod trwyddedu priodol mewn perthynas â Chymru a rhanbarth glannau Cymru. Gweler adran 322 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir i gael y diffiniad o ranbarth glannau Cymru. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu priodol mewn perthynas â Chymru a rhanbarth glannau Cymru, ac eithrio fel y darperir gan adran 113(4)(a) o'r Ddeddf honno. Mae Rhan 6 o'r Bil yn gymwys os Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu priodol.

275. Mae Rhan 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir yn rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru fel yr awdurdod trwyddedu priodol. Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys y pŵer i roi, i amrywio, i atal dros dro neu i ddirymu trwydded forol yn unol ag adrannau 71 a 72 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir. Bydd Rhan 6 o'r Bil yn ategu'r pwerau codi tâl presennol sydd yn adran 67 o'r Ddeddf honno er mwyn galluogi'r awdurdod trwyddedu, os Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu priodol, i godi ffioedd am amrywiaeth eang o geisiadau a gweithgareddau a gyflawnir ganddynt fel yr awdurdod trwyddedu priodol. Mae hyn yn cynnwys y gallu i godi ffioedd am roi cyngor a chymorth, am fonitro'r gweithgareddau y mae trwydded forol yn eu hawdurdodi a cheisiadau am amrywio, trosglwyddo, atal dros dro a dirymu trwydded forol o dan amgylchiadau penodol.

276. Mae Rhan 6 o'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer trefniadau ymarferol penodol yn ymwneud â thalu ffioedd, gan gynnwys galluogi Gweinidogion Cymru, fel yr awdurdod trwyddedu priodol, i godi blaendaliadau, mynnu tâl ymlaen llaw a defnyddio'r pŵer i hepgor neu ostwng ffi. Mae Rhan 6 o'r Bil yn

caniatáu i Weinidogion Cymru atal dros dro, amrywio neu ddirymu trwydded os codwyd ffi, neu flaendal ar gyfrif ar gyfer ffi, am unrhyw weithgaredd monitro neu am asesu a dehongli canlyniadau gweithgaredd a awdurdodwyd gan drwydded, ac nad yw'r trwyddedai wedi talu'r ffi neu'r blaendal. Pan fo'n ofynnol talu ffi, neu flaendal ar gyfrif ar gyfer ffi, mewn cysylltiad â chais gan y trwyddedai i amrywio, atal dros dro, dirymu neu drosglwyddo, ac nad yw'r ffi neu'r blaendal yn cael ei dalu, mae Rhan 6 o'r Bil yn caniatáu i'r awdurdod trwyddedu wrthod bwrw ymlaen â chais gan y trwyddedai i amrywio, atal dros dro, dirymu neu drosglwyddo trwydded, neu i wrthod bwrw ymlaen hyd nes y bydd y ffi wedi ei thalu, neu'r blaendal wedi ei dalu. Yn ogystal â hynny, os oedd yn ofynnol i'r trwyddedai dalu blaendal ar gyfrif ar gyfer ffi a godwyd o dan adran 67 (Ceisiadau) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, ac nad yw'r blaendal wedi'i dalu, mae Rhan 6 yn caniatáu i'r awdurdod trwyddedu wrthod bwrw ymlaen â chais am drwydded, neu i wrthod bwrw ymlaen hyd nes y bydd y blaendal wedi ei dalu.

Adran 77 – Cyngor a chymorth mewn perthynas â thrwyddedu morol

277. Mae adran 77 yn mewnosod adran 67A newydd yn Neddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, sy'n galluogi'r awdurdod trwyddedu, os Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu priodol, i ddarparu cyngor neu gymorth arall ac i adennill costau rhesymol am wneud hynny. Un enghraifft o'r ffordd y gellid defnyddio'r pŵer hwn yw darparu ac adennill costau yn ymwneud â rhoi cyngor a chymorth cyn gwneud cais.

Adran 80 – Apelio yn erbyn amrywio etc drwydded forol am beidio â thalu ffi neu flaendal

278. Mae adran 80 yn diwygio adran 108 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (Apelau yn erbyn hysbysiadau) i ddarparu bod rhaid i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth, drwy reoliadau, fel y gall personau apelio yn erbyn hysbysiad a roddwyd am beidio â thalu ffi neu flaendal ar gyfrif ar gyfer ffi a godwyd am fonitro gweithgaredd a awdurdodwyd gan drwydded neu am asesu a dehongli canlyniadau unrhyw waith monitro gweithgaredd a awdurdodwyd gan drwydded.

Adran 81 – Eithriadau rhag pŵer i ddirprwyo swyddogaethau awdurdod trwyddedu

279. Mae adran 81 yn diwygio adran 98 (6) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir. Mae adran 98 (1) o'r Ddeddf honno'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddirprwyo swyddogaethau penodol awdurdod trwyddedu i berson arall. Mae adran 98 (6) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir yn rhestru'r swyddogaethau sydd wedi'u heithrio ac na ellir eu dirprwyo. Mae adran 81 o'r Bil yn ychwanegu swyddogaethau penodol yr awdurdod trwyddedu priodol, a roddwyd yn unol â Rhan 6 o'r Bil, at y rhestr o swyddogaethau sydd wedi'u heithrio gan adran 98 (6) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir. O ganlyniad, ni ellir dirprwyo'r swyddogaethau a nodir yn adran 81 (a) a (b) yn unol ag adran 98 (1) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir.

Rhan 7 – Amrywiol

Adran 82 – Sefydlu Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol

280. Mae adran 82 o'r Bil yn mewnosod adrannau 26B - 26D newydd i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Bydd yr adrannau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sefydlu pwyllgor i ddarparu cyngor iddynt ar faterion yn ymwneud â rheoli'r risg o lifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru. Y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol neu'r Flood and Coastal Erosion Committee fydd enw'r pwyllgor.

281. Corff cynghori fydd y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol a'i gylch gwaith fydd darparu cyngor i Weinidogion Cymru ar faterion yn ymwneud â rheoli'r risg o lifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru e.e. llifogydd o ddŵr wyneb, prif afonydd, cyrsiau dŵr arferol, llifogydd arfordirol ac erydu arfordirol.

282. Bydd yr adrannau 26C a 26D newydd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau, drwy reoliadau, ynglŷn ag aelodaeth a thrafodion y pwyllgor a thaliadau i aelodau a'r cadeirydd.

283. Bydd y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn disodli Rheoli Perygl Llifogydd Cymru, sef y pwyllgor llifogydd ac arfordirol rhanbarthol sydd ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd, a sefydlwyd o dan adran 22 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Bydd adran 82(2) yn diddymu Rheoli Perygl Llifogydd Cymru yn ffurfiol.

Adran 83 – Diddymu gofynion i gyhoeddi mewn papurau newydd lleol etc.

284. Mae'r adran hon yn diddymu darpariaethau Deddf Draenio Tir 1991 sy'n pennu ar ba ffurf y mae'n rhaid cyhoeddi hysbysiadau sy'n ymwneud â Byrddau Draenio Mewnol.

285. Mae'r darpariaethau presennol yn ei gwneud yn ofynnol i hysbysiadau gael eu cyhoeddi mewn un papur newydd lleol neu ragor. Mae'r hysbysiadau y mae'r gofynion yn berthnasol iddynt yn ymdrin â materion megis addasu ardaloedd draenio mewnol a gwneud is-ddeddfau.

286. Ni fydd y newidiadau yn cael gwared ar y rhwymedigaeth i gyhoeddi hysbysiadau, ond byddant yn golygu na fydd yn ofynnol cyhoeddi mewn papur newydd lleol mwyach. Bydd hynny'n darparu ar gyfer trefniadau hysbysebu mwy hyblyg ac yn caniatáu i'r Byrddau Draenio Mewnol a Chyfoeth Naturiol Cymru ddewis y dull mwyaf priodol o ddosbarthu hysbysiadau, gan gynnwys dulliau electronig.

Adran 84 – Pŵer i wneud darpariaeth ar gyfer apelau yn erbyn ardollau arbennig

287. Mae newidiadau diweddar wedi trosglwyddo holl swyddogaethau'r Byrddau Draenio Mewnol yng Nghymru i CNC. Effaith hynny yw y bydd CNC yn codi ardollau arbennig ar awdurdodau lleol er mwyn talu am ran o'r swyddogaethau hynny. Yn y gorffennol y Byrddau Draenio Mewnol oedd yn codi'r ardollau hyn, ac aelodau a benodwyd gan awdurdodau lleol oedd mwyafrif aelodau'r Bwrdd a oedd yn gosod yr ardoll.

288. Bydd y ddarpariaeth hon yn diwygio adran 75 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i sefydlu trefn ar gyfer apelau gan awdurdodau lleol os ydynt o'r farn bod ardoll CNC yn afresymol.

289. Byddai'r apêl yn mynd at Weinidogion Cymru mewn perthynas ag ardollau arbennig a godwyd gan CNC er mwyn talu costau yr aed iddynt wrth arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â draenio tir.

Adran 85 – Pŵer mynediad: cydymffurfio â gorchymyn i lanhau ffosydd etc.

290. Mae adran 85 of the Bil yn mewnosod is-adran (1A) i adran 29 o Ddeddf Draenio Tir 1991 (Deddf 1991), sy'n rhoi pŵer mynediad i Weinidogion Cymru neu bersonau a awdurdodir ganddynt.

291. Mae adran 28 o Ddeddf 1991 yn darparu y caiff y Tribiwnlys Tir Amaethyddol roi gorchymyn i'w gwneud yn ofynnol i berchennog neu feddiannwr tir (Ymatebydd) wneud gwaith ar ei dir er mwyn gwella draeniad ar dir cymydog. Os yw'r Ymatebydd yn methu â chydymffurfio â'r gorchymyn caiff Gweinidogion Cymru, neu gorff draenio a awdurdodir ganddynt, ddibynnu ar y pŵer o dan adran 29 i gael mynediad i dir er mwyn gwneud y gwaith sy'n ofynnol gan y gorchymyn, a chânt adennill y gost o wneud hynny.

292. Mae'r adran 29(1A) newydd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru neu unrhyw berson a awdurdodir ganddynt i gael mynediad i unrhyw dir pan fo'n angenrheidiol gwneud hynny er mwyn gweld a gydymffurfiwyd â gorchymyn. Ni chaniateir arfer y pŵer oni bai bod tri mis wedi mynd heibio ers dyddiad y gorchymyn (neu unrhyw gyfnod hirach a bennir yn y gorchymyn) ac os oes gan Weinidogion Cymru sail resymol dros gredu na chydymffurfiwyd â'r gorchymyn.

293. Mae adran 29(3), (4) a (5) o Ddeddf 1991 yn gymwys mewn perthynas â'r pŵer yn adran 29(1A). Mae adran 29(3) yn gwneud darpariaeth ynghylch dod â phersonau eraill a chyfarpar ar y tir a gwarchod yn erbyn tresmaswyr; mae adran 29(4) yn darparu bod rhaid i'r person sy'n cael mynediad i'r tir roi dim llai na saith niwrnod o rybudd i'r meddiannwr; ac mae adran 29(5) yn gwneud darpariaeth ar gyfer digolledu os yw'r person sy'n arfer y pŵer yn achosi i unrhyw un arall gael unrhyw anaf.

294. Effaith adran 85(2) yw cymhwyso adran 29(1A) i unrhyw orchmynion a wneir o dan adran 28, gan gynnwys y rhai hynny a wnaed cyn i'r ddarpariaeth hon ddod i rym.

295. Fel arfer, byddai'r pŵer yn cael ei arfer pan fo'r person sy'n cael budd o orchymyn y Tribiwnlys Tir Amaethyddol yn cwyno i Lywodraeth Cymru fod ei dir yn parhau i ddioddef o ganlyniad i ddraeniad gwael am nad yw'r Ymatebydd wedi cydymffurfio â'r gorchymyn.

Adran 86 – Is-ddeddfau a wneir gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru

296. Mae Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 yn newid y gweithdrefnau ar gyfer gwneud is-ddeddfau yng Nghymru ac yn galluogi gorfodi is-ddeddfau penodol drwy hysbysiadau cosbau penodedig. Mae'n gymwys i is-ddeddfau a wneir gan awdurdodau lleol a nifer o gyrff cyhoeddus

eraill, gan gynnwys Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Diddymwyd Cyngor Cefn Gwlad Cymru gan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 a throsglwyddwyd ei swyddogaethau i CNC. Roedd hynny'n cael effaith o 1 Ebrill 2013. O ganlyniad, mae angen diwygio'r cyfeiriadau at Gyngor Cefn Gwlad Cymru yn Neddf 2012 er mwyn cyfeirio at CNC. Nodir y diwygiadau hynny yn Rhan 4 o Atodlen 2 i'r Bil, a gyflwynir gan adran 86.

Rhan 8 – Cyffredinol

297. Mae'r Rhan hon yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â dehongli'r Bil, dod â'r Bil i rym a'i enw byr.

Adran 87 – Dehongli

298. Mae'r adran hon yn nodi rhai o'r termau allweddol y cyfeirir atynt yn y Bil. Yn benodol, mae'r diffiniad o "Cymru" yr un fath â'r diffiniad o "Wales" yn adran 158(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac mae'r diffiniad hwnnw'n cynnwys y môr sy'n gyfagos i Gymru cyn belled â ffin tua'r môr y môr tiriogaethol – hynny yw mae'n ymestyn am ddeuddeg milltir forol. Nid yw'n cynnwys parth Cymru a ddiffinnir hefyd yn adran 158(1).

Adran 88 – Dod i rym

299. Mae adran 88 yn darparu y bydd Rhan 8 o'r Bil yn dod i rym ar y diwrnod y caiff y Bil y Cydsyniad Brenhinol. Daw rhai darpariaethau i rym ar ddiwedd y ddau fis ar ôl i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol. Y darpariaethau hynny yw: Rhan 1 (rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol), Rhan 2 (newid yn yr hinsawdd), Rhan 5 (pysgodfeydd ar gyfer pysgod cregyn), adran 83 (diddymu gofynion i gyhoeddi), adran 84 (apelau yn erbyn ardollau draenio arbennig), adran 85 (pŵer mynediad) ac adran 86 (is-ddeddfau).

300. Daw darpariaethau eraill yn y Bil i rym pan fydd Gweinidogion Cymru yn eu cychwyn drwy orchymyn. Y darpariaethau hynny yw: Rhan 3 (codi taliadau am fagiau siopa), Rhan 4 (casglu a gwaredu gwastraff), Rhan 6 (trwyddedu morol), ac adran 82 (pwyllgor llifogydd ac erydu arfordirol).

Adran 89 – Enw byr

301. Mae'r adran hon yn disgrifio enw byr y Bil. Unwaith y bydd y Bil wedi cael y Cydsyniad Brenhinol, fe'i gelwir yn Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Atodlen 1 – Codi Taliadau am Fagiau Siopa: Sancsiynau Sifil

302. Cyflwynir yr Atodlen hon gan adran 61.

Sancsiynau sifil

303. Mae paragraff 1 yn darparu y caiff y rheoliadau bagiau siopa wneud darpariaeth y gallai person sy'n torri'r rheoliadau fod yn agored i sancsiynau sifil. Mae is-baragraff (3) yn darparu y caiff sancsiynau sifil fod ar ffurf cosbau ariannol penodedig (a ddiffinnir ym mharagraff 2(3)) a gofynion yn ôl disgresiwn (a ddiffinnir ym mharagraff 4(3)).

Cosbau ariannol penodedig

304. Mae paragraff 2 yn darparu y caiff rheoliadau bagiau siopa roi'r pŵer i weinyddwr osod cosb ariannol benodedig nad yw'n fwy na £5,000 ar unrhyw berson sy'n torri'r rheoliadau. Dim ond mewn achosion pan fo'r gweinyddwr wedi ei fodloni yn ôl pwysau tebygolrwydd bod y rheoliadau wedi eu torri y caniateir rhoi hysbysiadau sy'n gosod cosbau ariannol penodedig.

Cosbau ariannol penodedig: y weithdrefn

305. Mae paragraff 3 yn darparu, pan fo gan weinyddwyr y pŵer i roi hysbysiadau cosbau ariannol penodedig, fod yn rhaid i'r rheoliadau nodi'r weithdrefn fel y'i nodir yn y paragraff hwn.

306. Mae is-baragraff (1)(a) yn darparu bod rhaid i weinyddwr roi 'hysbysiad o fwriad' yn gyntaf cyn y gall osod cosb. Rhaid i'r hysbysiad roi'r cyfle i'r person sy'n ei gael dalu'r gosb neu wneud sylwadau neu wrthwynebiadau o fewn cyfnod penodedig, na ddylai fod yn fwy na 28 o ddiwrnodau yn y ddau achos, i'r diwrnod y cafwyd yr hysbysiad (gweler is-baragraffau (2)(e) ac (f)). Rhaid i'r hysbysiad gynnwys yr wybodaeth a nodir yn is-baragraffau (2)(a) i (f).

307. O dan is-baragraff (1)(b) caiff y person y rhoddir hysbysiad iddo ryddhau ei hun rhag atebolrwydd am y gosb drwy wneud taliad a gaiff fod yn llai na swm y gosb neu'n gyfwerth ag ef. Byddai hynny'n caniatáu i'r gweinyddwr gynnig gostyngiad am dalu'n gynnar. Os gwneir taliad ni fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd.

308. O dan is-baragraff (1)(c) caiff y person y rhoddir hysbysiad iddo wneud sylwadau a gwrthwynebiadau ysgrifenedig yn erbyn y gosb. Ar ddiwedd y cyfnod penodedig mae'r gweinyddwr yn penderfynu, ar ôl ystyried y sylwadau neu'r gwrthwynebiadau, a yw am osod y gosb ariannol benodedig ai peidio. Os yw'n parhau i fod o'r farn bod cosb yn ddyledus caiff roi "hysbysiad terfynol". Rhaid i'r hysbysiad terfynol gynnwys yr wybodaeth yn is-baragraffau (4)(a) i (f). Os yw'n penderfynu tynnu'r hysbysiad cosb yn ôl yna o dan baragraff 3(3) rhaid iddo egluro pam ei fod wedi penderfynu peidio â gosod y gosb.

309. Mae is-baragraff (5) yn nodi'r amgylchiadau hynny pan gaiff person y rhoddir hysbysiad iddo apelio yn erbyn hysbysiad terfynol (gweler paragraff 10 am y weithdrefn apelau).

Gofynion yn ôl disgresiwn

310. Mae paragraff 4 yn darparu y caiff y rheoliadau roi'r pŵer i weinyddwr osod, drwy hysbysiad, un gofyniad neu ragor ("gofynion yn ôl disgresiwn") ar berson. Diffinnir "gofynion yn ôl disgresiwn" yn is-baragraff (3) fel:

- talu cosb ariannol o swm y caiff y gweinyddwr benderfynu arno ("cosb ariannol amrywiadwy");
- cymryd y camau hynny y caiff gweinyddwr eu pennu o fewn y cyfnod hwnnw y caiff gweinyddwr ei bennu er mwyn sicrhau nad yw'r achos o beidio â chydymffurfio yn parhau neu'n digwydd eto ("gofyniad yn ôl disgresiwn nad yw'n un ariannol").

311. Mae is-baragraff (2) yn pennu safon y prawf y mae'r rhaid i'r gweinyddwyr ei gymhwyso wrth benderfynu a yw'r rheoliadau wedi eu torri. O dan is-baragraff (5) rhaid i'r rheoliadau ddarparu bod terfyn yn cael ei osod ar gosbau ariannol

amrywiadwy, sef uchafswm a bennir yn y rheoliadau, neu a benderfynir yn unol â hwy.

(Gofynion yn ôl disgresiwn: y weithdrefn)

312. Mae paragraff 5 yn darparu ar gyfer y weithdrefn y mae'n rhaid ei nodi mewn rheoliadau ac y mae'n rhaid i'r gweinyddwr ei dilyn wrth osod unrhyw ofyniad yn ôl disgresiwn. Rhaid i weinyddwr roi hysbysiad i'r person o'i fwriad i osod gofyniad yn ôl disgresiwn. Rhaid i'r hysbysiad nodi o fewn pa gyfnod y caiff person y rhoddir hysbysiad iddo wneud sylwadau a gwrthwynebiadau ynghylch y sancsiwn arfaethedig. Ni chaniateir i'r rheoliadau ddarparu ar gyfer cyfnod o ddim llai na 28 o ddiwrnodau.

313. Mae is-baragraff (c) yn darparu bod rhaid i'r gweinyddwr, ar ôl diwedd y cyfnod a bennir ar gyfer gwneud sylwadau a gwrthwynebiadau, benderfynu a yw am osod, tynnu'n ôl neu addasu'r gofyniad yn ôl disgresiwn neu osod gofyniad yn ôl disgresiwn arall yn ei le.

314. Pan fo'n gosod gofyniad yn ôl disgresiwn rhaid i weinyddwr gyflwyno hysbysiad terfynol. Rhaid i'r hysbysiad terfynol gynnwys yr wybodaeth a nodir yn is-adran (4), gan gynnwys y ffaith bod gan y person yr hawl i apelio yn erbyn y sancsiwn.

315. Mae is-baragraff (5) yn nodi ar ba sail y gellir apelio yn erbyn y gofyniad yn ôl disgresiwn, fan lleiaf.

Gofynion yn ôl disgresiwn: gorfodi

316. Mae paragraff 6 yn darparu, pan nad yw person yn cydymffurfio â gofyniad yn ôl disgresiwn nad yw'n un ariannol, y caiff y rheoliadau roi'r pŵer i weinyddwr osod cosb ariannol. Nid yw cosbau am beidio â chydymffurfio ar gael mewn achosion pan fo person wedi methu â thalu cosb ariannol amrywiadwy. Mae is-baragraff (2) yn darparu y caiff y rheoliadau naill ai bennu swm y gosb am beidio â chydymffurfio neu y caniateir penderfynu'r swm yn unol â'r rheoliadau. Ar y llaw arall, mae is-baragraff (3) yn darparu y caiff y rheoliadau bennu uchafswm y gosb y caiff gweinyddwr ei gosod neu'r uchafswm fel y'i penderfynir yn unol â'r rheoliadau. Mae is-baragraff (5) yn darparu bod rhaid i'r rheoliadau nodi ar ba seiliau y caniateir apelio yn erbyn cosb am beidio â chydymffurfio, a nodir y seiliau hyn yn (a) i (c).

Cyfuniad o sancsiynau

317. Mae paragraff 7 yn darparu bod rhaid i'r rheoliadau hefyd gynnwys gofynion amrywiol y mae'n rhaid i'r gweinyddwyr gydymffurfio â hwy wrth arfer eu pwerau i osod sancsiynau sifil. Y gofynion hynny yw, pan fo gweinyddwr wedi cyflwyno hysbysiad o fwriad i osod gofyniad yn ôl disgresiwn, na chaiff osod hysbysiad cosb benodedig wedi hynny am yr un toriad.

Cosbau ariannol

318. Mae paragraff 8 yn darparu, pan fo'r rheoliadau'n darparu ar gyfer gosod sancsiynau sifil, y cânt hefyd wneud darpariaeth fel a nodir yn (a) i (c). Cânt gynnwys disgowntiau am dalu'n gynnar neu ddarpariaeth ar gyfer talu llog neu gosb ariannol arall am dalu'r gosb wreiddiol yn hwyr. Mae is-baragraff (1)(b) yn

darparu na chaiff cyfanswm unrhyw gosb am dalu'n hwyr fod yn fwy na chyfanswm y gosb a osodwyd.

319. O dan is-baragraff (1)(c) caiff y rheoliadau gynnwys darpariaethau ar gyfer gorfodi'r cosbau. O dan is-baragraff (1)(c) caiff gweinyddwr adennill cosb neu daliad arall y caniateir ei bennu yn y rheoliadau o dan is-baragraff (1)(b) fel dyled sifil drwy'r llysoedd sifil. Mae hefyd yn caniatáu i'r rheoliadau greu proses adennill symlach drwy drin y gosb fel petai'n daladwy o dan orchymyn llys.

Adennill costau

320. Mae paragraff 9 yn darparu y caiff rheoliadau roi pwerau i'r gweinyddwr adennill costau, drwy hysbysiad, gan berson y gosodir gofyniad yn ôl disgresiwn arno. Mae is-baragraff (2) yn darparu y caiff y costau gynnwys costau ymchwilio, costau gweinyddu a chostau cael cyngor arbenigol (gan gynnwys cyngor cyfreithiol). O dan is-baragraff (3) pan gyflwynir hysbysiad ynghylch costau gallai fod yn ofynnol i'r gweinyddwr roi dadansoddiad manwl o'r costau y mae'n ceisio eu hadennill, ac nid yw'r person y cyflwynir hysbysiad iddo yn atebol i dalu unrhyw gostau yr aed iddynt yn ddiangen.

321. Mae is-baragraff (4) yn darparu ar gyfer adennill llog a chosbau am dalu'n hwyr a chostau gorfodi o dan baragraff 8. Mae is-baragraff 3(d) yn darparu ar gyfer hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y gweinyddwr o ran talu costau.

Apelau

322. Mae paragraff 10 yn cynnwys rhai darpariaethau gweithdrefnol ar gyfer apelau yn erbyn cosbau sifil. Mae'n darparu'n benodol bod rhaid i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (a sefydlwyd o dan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 (p.15)), neu dribiwnlys arall a grëwyd o dan ddeddfiad, wrando'r apêl. Mae rheoliad 21 o Reoliadau 2010 yn darparu bod apelau yn erbyn sancsiynau sifil i'w gwneud i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.

Cyhoeddusrwydd ar gyfer gosod sancsiynau sifil

323. Mae paragraff 11 yn darparu y caiff y rheoliadau roi'r pŵer i weinyddwr roi hysbysiad cyhoeddusrwydd i berson y gosodwyd sancsiwn sifil arno. Byddai hysbysiad o'r fath yn ei gwneud yn ofynnol i'r derbynnydd roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith y gosodwyd sancsiwn, yn ogystal â'r wybodaeth arall honno y caniateir ei phennu yn y rheoliadau, a thalu am hynny ei hun. Os yw'r person yn methu â chyhoeddi'r hysbysiad yn ôl y gofyn, caiff y rheoliadau ddarparu i'r gweinyddwr gyhoeddi'r hysbysiad ac adennill y costau oddi wrth y person y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef.

Personau sy'n atebol i sancsiynau sifil

324. Mae paragraff 12 yn darparu y caiff y rheoliadau wneud darpariaeth i swyddogion corff corfforaethol a phartneriaid o fewn partneriaeth fod yn atebol i sancsiynau sifil.

Canllawiau ynghylch defnyddio pwerau i osod sancsiynau sifil ac adennill costau

325. Mae paragraff 13 yn darparu, pan fo gweinyddwr i gael y pŵer i osod sancsiynau sifil, bod dyletswydd gyfatebol i fod ar y gweinyddwr i gyhoeddi canllawiau sy'n cynnwys gwybodaeth benodol ynghylch sut y bydd yn

defnyddio ei bwerau sancsiynau sifil, gan gynnwys manylion ynghylch cosbau ariannol penodedig a gofynion yn ôl disgresiwn megis: pryd y maent yn debygol o gael eu gosod, sut y penderfynir ar gosbau penodedig ac amrywiadwy, sut y gellir cael rhyddhad rhag atebolrwydd ac effaith rhyddhad ar hawliau i apelio.

Cyhoeddi camau gorfodi

326. Mae paragraff 14 yn darparu bod rhaid i reoliadau sy'n darparu ar gyfer sancsiynau sifil sicrhau bod y gweinyddwr yn cyhoeddi adroddiadau ar y defnydd o sancsiynau sifil.

Cydymffurfio ag egwyddorion rheoleiddio

327. Mae paragraff 15 yn darparu na chaniateir i bwerau sancsiynau sifil gael eu rhoi i weinyddwr mewn rheoliadau oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni y bydd y gweinyddwr yn cydymffurfio â'r egwyddorion gwell rheoleiddio a nodir yn (a) a (b).

Adolygu

328. Mae paragraff 16 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r modd y mae'r darpariaethau sancsiynau sifil a nodir yn y rheoliadau yn gweithredu, a bod rhaid i adolygiadau dilynol gael eu cynnal bob tair blynedd gan ddechrau â'r dyddiad y cynhaliwyd yr adolygiad blaenorol. Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi canlyniadau'r adolygiad a'i osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

Atal dros dro

329. Mae paragraff 17 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru atal dros dro bwerau gweinyddwr i osod cosbau sifil o dan amgylchiadau penodol drwy roi cyfarwyddyd i'r gweinyddwr. Caiff Gweinidogion Cymru ddirymu cyfarwyddydau o'r fath. Cyn rhoi cyfarwyddyd, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r gweinyddwr a'r personau eraill hynny sy'n briodol yn eu barn hwy. Rhaid i unrhyw gyfarwyddydau a roddir gael eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'u dwyn i sylw'r rheini y maent yn debygol o effeithio arnynt.

Talu cosbau i Gronfa Gyfunol Cymru

330. Mae paragraff 18 yn darparu i arian a dderbynnir o gosbau fynd i Gronfa Gyfunol Cymru a sefydlwyd o dan adran 117 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. I'r gronfa hon y telir arian cyhoeddus a ddyrennir i'r sefydliadau datganoledig yng Nghymru gan Lywodraeth y DU ynghyd ag arian a dderbynnir o ffynonellau eraill.

ATODLEN 2

Rhan 1: Rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol

331. Mae Rhan 1 o Atodlen 2 yn gwneud nifer o ddiwygiadau a diddymiadau mewn perthynas â Rhan 1 o'r Bil.

332. Mae paragraffau 1 i 5 yn gwneud nifer o ddiwygiadau o ganlyniad i adrannau 16, 17 a 23 o'r Bil. Mae diwygiadau yn cael eu gwneud i adrannau 15A, 16 a 21(4) o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 (Deddf 1949) ac adrannau 15A, 41, 45 a 47 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968 (Deddf 1968) o ganlyniad i

adrannau 16 a 17 o'r Bil. Mae'r diwygiadau hyn yn cael yr effaith o dynnu ymaith bŵer CNC i wneud cytundebau rheoli tir o dan y Deddfau hyn ond, yn hytrach, bod cytundebau o dan y Bil yn gytundeb gwarchodfa natur ('nature reserve agreement') at ddibenion Deddf 1949 ac yn gytundeb Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ('SSSI agreement'). Mae diwygiadau yn cael eu gwneud i adrannau 28E, 28J, 32, 41, 50 a 51 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (Deddf 1981) ac yn diddymu'r pŵer o dan adran 39 o Ddeddf 1981. Gwneir newidiadau pellach i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a Deddf y Diwydiant Dŵr 1991.

333. Mae paragraff 2(2) yn diddymu adran 4 o Ddeddf 1968, er mwyn tynnu ymaith bŵer CNC i gynnal prosiectau neu gynlluniau arbrofol. Darperir y pŵer hwnnw bellach gan adran 23 o'r Bil, sy'n rhoi adran newydd yn lle Adran 10C o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

334. Mae paragraff 7 yn diddymu'r gofyniad yn adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 i awdurdodau cyhoeddus roi sylw i gadwraeth bioamrywiaeth wrth gyflawni swyddogaethau mewn perthynas â Chymru. Bydd adran 6 o'r Bil yn gymwys i'r awdurdodau cyhoeddus hynny, mewn perthynas â Chymru.

335. Mae is-baragraff (3) yn diddymu adran 42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi rhestr o'r organeddau byw a'r cynefinoedd sydd o'r pwysigrwydd pennaf ar gyfer bioamrywiaeth yng Nghymru. Darperir ar gyfer y gofyniad hwn bellach gan adran 7 o'r Bil. Mae amryw o ddiwygiadau eraill yn cael eu gwneud i Atodlen 11 o Ddeddf NERC 2006 yn is-baragraff (4).

336. Mae paragraff 8 yn mewnosod paragraff newydd i adran 36(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd y paragraff newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, wrth baratoi asesiad llesiant lleol, ystyried datganiad neu ddatganiadau ardal a gyhoeddir o dan adran 10 o'r Bil hwn, sy'n ymwneud ag unrhyw ran o ardal awdurdod lleol.

337. Mae paragraff 9 yn diddymu paragraff 29 o Atodlen 2 i Fil Cynllunio (Cymru). Roedd paragraff 29 yn diwygio'r diffiniad o awdurdod cyhoeddus yn adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006. Mae adran 6 o'r Bil yn diddymu adran 40 o'r Ddeddf honno, o ran swyddogaethau awdurdodau cyhoeddus mewn perthynas â Chymru, felly nid yw paragraff 29 yn cael unrhyw effaith.

Rhan 2: Codi taliadau am fagiau siopa

338. Mae paragraffau 10 ac 11 o Atodlen 2 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 a Mesur Gwastraff (Cymru) 2010, sy'n cael yr effaith o ddatgymhwyso, mewn perthynas â Chymru, y darpariaethau ynghylch bagiau siopa untro yn Atodlen 6 o Ddeddf 2008.

Rhan 3: Casglu a gwaredu gwastraff

339. Yn Rhan 3 o Atodlen 2, mae paragraff 12 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, o ganlyniad i fewnosod adran 45AA

newydd. Effaith is-baragraff (2) yw gwneud adran 45A o'r Ddeddf honno yn gymwys i Loegr yn unig, ac mae is-baragraff (3) yn diddymu adran 45B.

340. Mae paragraff 13 yn diddymu adran 2 o Ddeddf Ailgylchu Gwastraff Cartrefi 2003, a oedd yn mewnosod adran 45B i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

341. Mae paragraff 14 yn diddymu darpariaeth drosiannol yn Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n ymwneud ag adran 45B o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

342. Mae paragraff 15 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Fesur Gwastraff (Cymru) 2010, o ganlyniad i fewnosod adran 9A newydd.

Rhan 4: Pwyllgor llifogydd ac erydu arfordirol

343. Mae adran 82(3) a Rhan 4 o Atodlen 2 yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i ddiweddaru deddfwriaeth berthnasol pan fo deddfwriaeth o'r fath yn cynnwys cyfeiriadau at Bwyllgorau Llifogydd ac Arfordirol Rhanbarthol yng Nghymru. Mae'r diwygiadau'n adlewyrchu newidiadau i enw'r Pwyllgor neu newidiadau sy'n angenrheidiol er mwyn adlewyrchu cylch gwaith y Pwyllgor newydd.

Rhan 5: Is-ddeddfau

344. Yn Rhan 4 o Atodlen 2, mae paragraffau 26 a 27 yn gwneud diwygiadau i Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 a Deddf Cefn Gwlad 1968. Mae'r ddwy Ddeddf hon yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â swyddogaethau CNC o ran gwneud is-ddeddfau.

345. Yn Rhan 4 o Atodlen 2, mae paragraff 28 yn gwneud nifer o ddiwygiadau i Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 er mwyn cael gwared ar yr holl gyfeiriadau at Gyngor Cefn Gwlad Cymru a rhoi cyfeiriadau at CNC yn eu lle.

346. Mae is-baragraff 2 yn gwneud hynny yn yr adran sy'n diffinio pa gyrff sy'n awdurdodau deddfwriaethol ac sydd â'r pŵer i wneud is-ddeddfau at ddibenion y Ddeddf. Mae is-baragraffau 3 a 4 yn gwneud hynny mewn adrannau sy'n ymwneud â'r gweithdrefnau a'r trefniadau ffurfiol ar gyfer gwneud is-ddeddfau.

347. Mae is-baragraff 5 yn diddymu paragraff 11 o Atodlen 2 o'r Ddeddf mewn perthynas â Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.